The Planning Inspectorate

# Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd

**gan A D Poulter BArch RIBA**

**Arolygydd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd**

**Dyddiad**

DEDDF TRYDAN 1989 (ADRANNAU 36, 37, 62(3) AC ATODLEN 8)

a

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990 (ADRAN 90)

Cais gan Vattenfall dyddiedig 30 Tachwedd 2007 am ganiatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 59.5MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Llanbadarn Fynydd")

Cais gan Fferm Wynt Llaithddu Cyf dyddiedig 7 Mai 2008 am ganiatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 66.7MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Llaithddu")

Cais gan Celtpower Limited dyddiedig 9 Mai 2008 am ganiatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 126MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Ailbweru Llandinam")

Cais gan RES UK & Ireland Limited dyddiedig 27 Mawrth 2009 am ganiatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 100 MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru
("Llanbrynmair")

Cais gan RWE Npower Renewables Limited dyddiedig 11 Rhagfyr 2008 am ganiatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 130-150MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru
("Carnedd Wen")

Cais gan SP Manweb plc dyddiedig 2 Rhagfyr 2009 i osod cysylltiad llinell drydan uwchben 132kV, a'i gadw wedi'i osod, o Fferm Wynt Llandinam i Is-orsaf y Trallwng ym Mhowys, Canolbarth Cymru.
("Llinell 132kV Llandinam")

Ymchwiliad a gynhaliwyd rhwng 4 Mehefin 2013 a 30 Mai 2014

Cyfeirnod Ffeil: 515731

**Cynnwys**


| Adran | Tudalen | Paragraffau |
|---|---|---|
| Y Weithdrefn | 2 | 1 - 11 |
| Materion Perthnasol | 3 | 12 - 13 |
| Datganiadau Tir Cyffredin | 5 | 14 - 21 |
| Datganiadau Amgylcheddol a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol | 7 | 22 - 29 |
| Y Safleoedd a'u Hamgylchoedd | 9 | 30 - 39 |
| Fframwaith Cyfreithiol, Ynni a Pholisi Cynllunio | 11 | 40 - 59 |
| Y Cynigion | 14 | 60 - 75 |
| Yr Achosion a gyflwynwyd gan y Partïon | 17 | 76 - 98 |
| Casgliadau'r Arolygydd - | | |
| Cynllun Ailbweru Llandinam | 21 | 101 - 139 |
| Llaithddu | 29 | 140 - 189 |
| Llanbadarn Fynydd | 39 | 190 - 223 |
| SSA C: Effeithiau Cronnol ac Mewn Cyfuniad | 50 | 224 - 262 |
| Llanbrynmair | 53 | 264 - 336 |
| Carnedd Wen | 67 | 337 - 377 |
| SSA B: Effeithiau Cronnol ac Mewn Cyfuniad | 74 | 378 - 395 |
| Llinell 132kV Llandinam | 77 | 396 - 497 |
| Effeithiau Cronnol a Chyfunol yr Holl Gynlluniau | 96 | 498 - 539 |
| Materion yn Gyffredin | 104 | 540 - 559 |
| Casgliadau Cyffredinol (Gan Gynnwys Amodau ac Argymhellion) - | | |
| Ailbweru Llandinam | 109 | 560 - 592 |
| Llaithddu | 114 | 593 - 619 |
| Llanbadarn Fynydd | 118 | 620 - 642 |
| SSA C – Ystyriaethau Polisi: Effeithiau Cronnol ac Mewn Cyfuniad | 121 | 643 - 648 |
| Llanbrynmair | 122 | 649 - 676 |
| Carnedd Wen | 127 | 677 - 705 |
| Cysylltiad 132kV Llandinam | 132 | 706 - 732 |
| | | |
| Ymddangosiadau | 139 - 142 | |
| | | |
| Atodiadau ac Ychwanegiadau (Dogfennau ar Wahân) | | |
| Yr Achosion a gyflwynwyd gan y Prif Bartïon:- | | |
| Cynllun Ailbweru Llandinam (Celt Power Limited) | Atodiad 1 | |
| Llaithddu (Fferm Wynt Llaithddu Cyf) | Atodiad 2 | |
| Llanbadarn Fynydd (Vattenfall) | Atodiad 3 | |
| Carnedd Wen (RWE NPower Renewables Limited) | Atodiad 4 | |
| Llanbrynmair (RES UK & Ireland) | Atodiad 5 | |

Llinell 132kV Llandinam (SP Manweb PLC) Atodiad 6
Y Gynghrair Atodiad 7
Cyfoeth Naturiol Cymru Atodiad 8
Cyngor Sir Powys Atodiad 9

Rhestr Dogfennau Atodiad 10

Atodlenni Amodau Awgrymedig:-
Cynllun Ailbweru Llandinam Atodiad A
Llaithddu Atodiad B
Llanbadarn Fynydd Atodiad C
Llanbrynmair Atodiad D
Carnedd Wen Atodiad E
Cysylltiad 132kV Llandinam Atodiad F

**Rhestr Talfyriadau**

| | |
|---|---|
| Adran Ynni a Newid Hinsawdd | DECC |
| Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd | VSAA |
| Ardal Cadwraeth Arbennig | SAC |
| Ardal Cymeriad Tirwedd Powys | PLCA |
| Ardal Chwilio Strategol | SSA |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig | SPA |
| Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol | AONB |
| Asesiad o Arwyddocâd Datblygiad ar Dirwedd Hanesyddol | ASIDHOL |
| Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol | EIA |
| Asesiad o Gymeriad Tirwedd | LCA |
| Asesiad o Gymeriad Tirwedd Hanesyddol | HLCA |
| Asesiad o'r Effaith ar Dirwedd ac Effaith Weledol | LVIA |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | HRA |
| Canllawiau ar gyfer Asesu'r Effaith ar Dirwedd ac Effaith Weledol | GVLIA |
| Celt Power Limited | CPL |
| Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n Ïoneiddio | ICNIRP |
| Cyfarfod Cyn Ymchwiliad | PIM |
| Cyflenwad Dŵr Preifat | PWS |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | NRW |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | FTE |
| Cymdeithas Geffylau Prydain | BHS |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | CCW |
| Cyngor Sir Powys | PCC |
| Cynllun Datblygu Unedol Powys | UDP |
| Cynllun Gwarchod Adar Bridio | BBPP |
| Cynllun Rheoli Cynefinoedd | HMP |
| Cynllun Rheoli Traffig Strategol | STMP |
| Cynnydd Potensial o ran Daearu | ROEP |
| Datganiad Amgylcheddol | ES |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol | NPS |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Rhwydweithiau Trydan | EN-5 |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy | EN-3 |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni | EN-1 |
| Datganiad Tir Cyffredin | SOCG |
| Dyffryn Hafren a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Basn Caersws | SV&CBRHL |
| Fferm Wynt Llaithddu Cyf | FWLC |
| Golygfan | VP |
| Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir | GPDO |
| Gorsaf Ddaearu Pell | RES |

| | |
|---|---|
| Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarth | DNO |
| Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol | SEI |
| Hawl Dramwy Gyhoeddus | PRoW |
| Heneb Restredig | SAM |
| Llanbadarn Fynydd | LBF |
| Llinell Uwchben | OHL |
| Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin | AIL |
| Llywodraeth Cymru | WG |
| Maes Electromagnetig | EMF |
| Modylu Osgledau Gormodol | EAM |
| Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio | TAN 5 |
| Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy | TAN 8 |
| Parth Gwelededd Damcaniaethol | ZTV |
| Penrhyddlan a Llidiartywaun | P&L |
| Polisi Cynllunio Cymru | PPW |
| Polyn Pren Gwaith Trwm | HDWP |
| Prosiect Cysylltu Canolbarth Cymru | MWCP |
| Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol | NSIP |
| RES UK & Ireland Limited | RES |
| RWE Npower Renewables Limited | RWE |
| Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop | EPS |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig | SSSI |
| Scottish Natural Heritage | SNH |
| SP Manweb plc | SPM |
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | EHO |
| Tirwedd Hanesyddol Restredig Bro Trefaldwyn | VMRHL |
| Undeb Ewropeaidd | EU |
| Uwchben Datwm Ordnans | AOD |
| Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys | CPAT |

**Cyfeirnod Ffeil: 515731**
**Ymchwiliad Cyhoeddus Cyfunedig – Ceisiadau am ddatblygiadau arfaethedig gan gynnwys 5 gorsaf gynhyrchu tyrbin gwynt a chysylltiad llinell drydan uwchben.**

- Mae'r ceisiadau ar gyfer caniatâd o dan adrannau 36 a 37 Deddf Trydan 1989 (Deddf 1989) a chaniatâd cynllunio tybiedig o dan adran 90(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
- Gwneir **Cais A** gan Vattenfall, ac mae ar gyfer caniatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 59.5MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Llanbadarn Fynydd")
- Gwneir **Cais B** gan Fferm Wynt Llaithddu Cyf, ac mae ar gyfer caniatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 66.7MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Llaithddu")
- Gwneir **Cais C** gan Celtpower Limited, ac mae ar gyfer caniatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 126MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Ailbweru Llandinam")
- Gwneir **Cais D** gan RES UK & Ireland Limited ac mae ar gyfer caniatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 100 MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Llanbrynmair")
- Gwneir **Cais E** gan RWE Npower Renewables Limited ac mae ar gyfer caniatâd i adeiladu a gweithredu Gorsaf Gynhyrchu Tyrbin Gwynt 130-150MW ym Mhowys, Canolbarth Cymru ("Carnedd Wen")
- Gwneir **Cais F** gan SP Manweb plc ac mae ar gyfer caniatâd i osod cysylltiad llinell drydan uwchben 132kV, a'i gadw wedi'i osod, o Fferm Wynt Llandinam i Is-orsaf y Trallwng ym Mhowys, Canolbarth Cymru. ("Llinell 132kV Llandinam")

**Crynodeb o Argymhellion:**

**Cais A (Llanbadarn Fynydd)**: **Y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu gwrthod.**

**Cais B (Llaithddu)**: **Y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu gwrthod.**

**Cais C (Ailbweru Llandinam)**: **Y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn ddarostyngedig i amodau.**

**Cais D (Llanbrynmair)**: **Os penderfynir rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer cais E (Carnedd Wen), y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn rhannol, ac yn ddarostyngedig i amodau. Os penderfynir peidio â rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio ar gyfer cais E, y dylid ceisio Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol (SEI) ychwanegol.**

**Cais E (Carnedd Wen)**: **Y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn rhannol, ac yn ddarostyngedig i amodau.**

**Cais F (Llinell 132kV Llandinam)**: **Os penderfynir rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cais C (Ailbweru Llandinam), y dylai**

**caniatâd adran 37 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn rhannol, ac yn ddarostyngedig i amodau. Os penderfynir rhoi caniatâd adran 36, na fyddai'n mynd â'r capasiti gosodedig yn Ardal Chwilio Strategol (SSA) C y tu hwnt i 160MW, argymhellaf y dylid ceisio SEI ychwanegol gyda'r nod o lywio penderfyniad ynglŷn ag a ddylai caniatâd fod yn amodol ar uwchraddio'r llinell i gapasiti uwch.**

## Y Weithdrefn

1. Cynhaliais ymchwiliad cyhoeddus cyfunedig ynglŷn â'r pum cais adran 36 a'r cais adran 37, gan ddechrau ar 4 Mehefin 2013 a dod i ben ar 30 Mai 2014. Cynhaliwyd Cyfarfod Rhagarweiniol ar 28 Tachwedd 2012 a chyfarfod cyn-Ymchwiliad (PIM) ar 18 a 25 Chwefror 2013. Cynhaliwyd yr Ymchwiliad yn unol â *Rheolau Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan a Llinellau Uwchben (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru a Lloegr) 2007*.

2. Yn ystod yr ymchwiliad, fe'm cynorthwywyd gan yr Arolygydd Emyr Jones BSc(Hons) CEng MICE MCMI mewn materion yn ymwneud â Chais F: Llinell 132kV Llandinam.

3. Yn unol â dewisiadau a fynegwyd yn y PIM, cynhaliwyd yr ymchwiliad ar sail pynciau yn unol â rhaglen dreigl, gan ddilyn amserlen a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Reol 12.

4. Parhaodd sesiwn agoriadol yr ymchwiliad o 4 – 7 Mehefin 2013 ac ymdriniodd â datganiadau agoriadol a chymhwyso a dehongli polisi perthnasol.

5. Parhaodd Sesiwn 1 yr Ymchwiliad o 3 Medi – 11 Hydref 2013 ac ymdriniodd â materion yn ymwneud ag SSA C. Cynhaliwyd archwiliadau safle ar 13 a 14 Hydref.

6. Parhaodd Sesiwn 2 yr Ymchwiliad o 5 Tachwedd – 5 Rhagfyr 2013 ac ymdriniodd â materion yn ymwneud ag SSA B. Cynhaliwyd archwiliadau safle ar 9 a 10 Rhagfyr.

7. Parhaodd Sesiwn 3 yr Ymchwiliad o 21 Ionawr – 21 Chwefror 2014 ac ymdriniodd â materion yn ymwneud â'r cais adran 37 (Llinell 132kV Llandinam). Cynhaliwyd archwiliadau safle ar 25 a 26 Chwefror.

8. Parhaodd Sesiwn 4 yr Ymchwiliad o 18 Mawrth – 3 Ebrill 2014. Ymdriniodd â materion a oedd yn gyffredin i'r holl geisiadau ac effeithiau cronnol. Cynhaliwyd archwiliad safle ar 4 Ebrill 2014

9. Parhaodd sesiwn derfynol yr ymchwiliad o 20 Mai – 30 Mai 2014 ac ymdriniodd â'r cydbwysedd cynllunio, amodau, a datganiadau terfynol.

10. Gyda chytundeb y partïon, ystyriodd yr ymchwiliad bynciau penodol ar ffurf 'gwrandawiad' trwy drafodaethau strwythuredig a arweiniwyd gan yr Arolygydd, yn hytrach na thrwy gyflwyniad ffurfiol a chroesholi tystiolaeth.

11. Yn dilyn y cyfarfod rhagarweiniol a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2012, daeth nifer sylweddol o grwpiau gwrthwynebol at ei gilydd i ffurfio Cynghrair grwpiau ac unigolion a oedd yn gwrthwynebu'r datblygiadau arfaethedig, a adwaenwyd yn syml fel y Gynghrair. Yn unol â chais gan y Gynghrair, arferais fy noethineb o dan y rheolau i ganiatáu iddi gymryd rhan mewn ffordd debyg i barti 'Rheol 6'.

Yn ogystal â chyflwyno tystiolaeth, rhoddwyd y cyfle cyntaf felly i'r Gynghrair ofyn cwestiynau i dystion yr ymgeisydd, yn dilyn croesholi gan yr eiriolwyr ar gyfer y Cyngor a/neu Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW).

**Materion Perthnasol**

12. O ran y wybodaeth a oedd ar gael ar adeg cyhoeddi'r Hysbysiad o'r ymchwiliad cyhoeddus cyfunedig, ac fel yr amlinellwyd yn yr hysbysiad o'i benderfyniad i gynnal yr ymchwiliad[1], barn yr Ysgrifennydd Gwladol oedd mai'r materion canlynol, a ymddangosai iddo ef yn rhai a oedd yn debygol o fod yn berthnasol i'w ystyriaeth o'r datblygiadau fferm wynt arfaethedig, oedd y materion i'w hystyried yn yr ymchwiliad o ran y ceisiadau adran 36:

a) I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd;

b) I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â'r polisïau sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy a geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol am Seilwaith Ynni: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011 a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011;

c) I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 4 (2011)(PPW)[2]; Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8) [3]; ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)[4]; a Chynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010)(UDP)[5].

d) Effaith unigol a chyfunol y datblygiadau arfaethedig ar y dirwedd a golygfeydd, gan ystyried yr agosrwydd i Barc Cenedlaethol Eryri (Ardal Chwilio Strategol B); a'r effaith gronnol gyda ffermydd gwynt eraill yn Ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu y cyflwynwyd ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer;

e) Effaith unigol a chyfunol traffig adeiladu ar yr ardal amgylchynol, gan gynnwys llwybrau mynediad ar gyfer cludiant a rheolaeth draffig, gan ystyried yr effaith gronnol gyda ffermydd gwynt eraill yn yr ardal sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu y cyflwynwyd ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer;

f) Effaith unigol a chyfunol sŵn a gynhyrchir yn ystod y gwaith adeiladu ac yn sgil gweithredu'r datblygiadau arfaethedig, gan ystyried yr effaith gronnol gyda ffermydd gwynt eraill yn Ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu y cyflwynwyd ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer;

g) Effaith unigol a chyfunol y datblygiadau arfaethedig ar fioamrywiaeth, gan gynnwys gweithrediad ecolegol Safleoedd a Ddiogelir dan Gyfraith Ewrop (e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Afon Gwy, Ardal Gwarchodaeth Arbennig (SPA) Berwyn a SAC Mynyddoedd De Clwyd); yr effeithiau ar Rywogaethau a Ddiogelir

[1] CD/COM/011
[2] PPW4 Mae Argraffiad 4 wedi'i ddisodli gan Argraffiad 7 erbyn hyn.
[3] CD/COM/016
[4] CD/COM/033
[5] CD/COM/006

dan Gyfraith Ewrop o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau Cynefinoedd'); ac effeithiolrwydd tebygol camau lliniaru arfaethedig;

h) Effaith unigol a chyfunol y datblygiadau arfaethedig yn gymdeithasol ac yn economaidd, gan gynnwys ar dwristiaeth;

i) Effaith bosibl y datblygiadau arfaethedig ar iechyd pobl;

j) Effaith y datblygiadau arfaethedig ar dreftadaeth ddiwylliannol;

k) Effaith unigol a chyfunol y datblygiadau arfaethedig ar hedfan;

l) Effaith y datblygiadau arfaethedig ar hydroleg a hydroddaeareg, i gynnwys effeithiau ar nodweddion dŵr sensitif (nentydd, pyllau, gwlyptiroedd); effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat; pysgodfeydd a chyrsiau dŵr; a'r effaith ar ddŵr daear; ac effeithiolrwydd tebygol camau lliniaru arfaethedig;

m) Effaith y datblygiadau arfaethedig ar fawn;

n) Y posibilrwydd i'r datblygiadau arfaethedig gael eu cysylltu â'r rhwydwaith grid trydan (y cyfeirir ato yn nogfen yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) 'The Consenting Process for Onshore Generating Stations above 50MW in England and Wales: a Guidance Note on Section 36 of the Electricity Act 1989'); ac

o) Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn yr Arolygydd.

13. Ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, y materion i'w hystyried yn yr ymchwiliad yn ymwneud â'r cais adran 37, fel y'u hamlinellwyd yn yr hysbysiad o'i benderfyniad i gynnal yr ymchwiliad[6], yw:

a) I ba raddau y mae cynnig SP Manweb, gan gynnwys y dewisiadau eraill a ystyriwyd, yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 4 (2011)[7]; Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)[8]; ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)[9]; a Chynllun Datblygu Unedol Powys[10] (a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2010);

b) I ba raddau y mae'r datblygiad arfaethedig yn gyson ag amcanion polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd;

c) I ba raddau y mae'r datblygiad arfaethedig yn gyson â'r polisïau sy'n ymwneud â seilwaith rhwydweithiau trydan a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol am Seilwaith Ynni, Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011[11], Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5) Gorffennaf 2011[12] a

[6] CD/COM/011
[7] PPW4 sydd bellach wedi'i ddisodli gan Argraffiad 7
[8] CD/COM/016
[9] CD/COM/033
[10] CD/COM/006
[11] CD/COM/001
[12] CD/COM/003

Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011[13];

d) Rhinweddau cymharol y datblygiad arfaethedig ac unrhyw ddewisiadau eraill a ystyriwyd o ran mynd i'r afael â'r gofyniad i gynnal sicrwydd cyflenwad (yr angen);

e) Effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar iechyd pobl;

f) Effaith gymdeithasol ac economaidd y datblygiad arfaethedig, gan gynnwys ar dwristiaeth;

g) Rhinweddau cymharol y datblygiad arfaethedig, unrhyw ddewisiadau eraill a ystyriwyd ac effeithiolrwydd tebygol camau lliniaru i fynd i'r afael â'r canlynol:

i. Effaith y datblygiad arfaethedig ar y dirwedd a golygfeydd, yn unigol ac yn gronnol gyda seilwaith ynni presennol ac unrhyw seilwaith ynni sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu y cyflwynwyd ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar ei gyfer, gan gynnwys yr effaith ar Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Bro Trefaldwyn, Ardaloedd o Gymeriad Tirwedd Arbennig a Llwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri, Llwybr Rhanbarthol Ffordd Hafren a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol ger Is-orsaf y Trallwng;

ii. Effaith y datblygiad arfaethedig yn ystod ei adeiladu a'i weithredu ar fioamrywiaeth, gan gynnwys coed a pherthi a gweithrediad ecolegol safleoedd gwarchodedig (e.e. Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ystlumod Tre'r-llai); effeithiau ar Rywogaethau a Warchodir dan Gyfraith Ewrop o dan *Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010* (fel y'u diwygiwyd) ("y Rheoliadau Cynefinoedd");

iii. Effaith y datblygiad arfaethedig ar ddefnydd a mwynhad o dir yn y cyffiniau, gan gynnwys gweithgareddau ffermio ac ar ddefnyddwyr Hawliau Tramwy, gan gynnwys Llwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri, Llwybr Rhanbarthol Ffordd Hafren a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol ger y Trallwng; ac

iv. Effaith y datblygiad arfaethedig ar dreftadaeth ddiwylliannol; ac

h) Unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn yr Arolygydd.

**Datganiadau Tir Cyffredin**

Mae'r partïon wedi cytuno ar y Datganiadau Tir Cyffredin (SOCGs) canlynol

*Polisi*

14. SOCG terfynol ar Bolisi Gorffennaf 2013 (a gyflwynwyd ar 8 Hydref 2013) rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW), Cyngor Sir Powys (PCC) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri[14].

*Llaithddu*

15. SOCG ar Faterion yn ymwneud â'r Effaith ar y Dirwedd a Golygfeydd rhwng Fferm Wynt Llaithddu Cyf (FWLC) a PCC[15]; SOCG ar Briffyrdd a Mynediad rhwng FWLC a

[13] CD/COM/002
[14] SOCG-Policy-002
[15] FWLC-SOCG-006

PCC (yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Awdurdod Priffyrdd y Sir)[16]; SOCG ar yr Amgylchedd Hanesyddol, rhwng FWLC, Cadw ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys (CPAT)[17]; SOCG ar Sŵn rhwng FWLC a PCC[18]; SOCG ar Hydroleg rhwng FWLC ac NRW[19]; SOCG ar Adnoddau Mawn rhwng FWLC ac NRW[20]; SOCG ar Ecoleg ac Adareg rhwng FWLC ac NRW[21]; a SOCG ar Faterion yn ymwneud ag Asesu'r Dirwedd a Golygfeydd (Sesiwn 4) rhwng FWLC a PCC[22];

*Ailbweru Llandinam*

16. SOCG ar Faterion yn ymwneud â'r Dirwedd a Golygfeydd rhwng Celtpower Limited (CPL) a PCC[23]; SOCG ar Dreftadaeth Ddiwylliannol rhwng CPL a PCC[24]; SOGC ar Sŵn rhwng CPL a PCC[25]; SOCG ar Dir Mawn rhwng CPL ac NRW[26]; SOCG ar Ystlumod rhwng CPL ac NRW[27]; SOCG ar Adar rhwng CPL ac NRW[28]; SOCG ar Asesiadau o Effeithiau ar SAC Afon Gwy rhwng CPL ac NRW[29]; a SOCG ar Faterion Cronnol yn ymwneud â'r Dirwedd a Golygfeydd rhwng CPL a PCC[30].

*Llanbadarn Fynydd*

17. SOCG ar Faterion yn ymwneud â'r Dirwedd a Golygfeydd rhwng Vattenfall a PCC[31]; SOCG ar Faterion Trafnidiaeth Lleol gan Vattenfall, PCC ac Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru (WGT)[32]; SOCGs ar yr Amgylchedd Hanesyddol rhwng Vattenfall, Cadw a CPAT, a rhwng Vattenfall a PCC[33]; SOCG ar Sŵn ac Iechyd rhwng Vattenfall a PCC[34]; SOCG ar Hydroleg a Hydroddaeareg rhwng Vattenfall ac NRW[35]; SOCGs ar Ecoleg a Chadwraeth Natur ac Adareg rhwng Vattenfall ac NRW[36]; a SOCG ar Faterion yn ymwneud â'r Dirwedd a Golygfeydd (Sesiwn 4) rhwng Vattenfall a PCC[37].

*Carnedd Wen*

18. SOGG ar Faterion yn ymwneud â'r Dirwedd a Golygfeydd rhwng RWE Npower Renewables (RWE) a PCC[38]; SOCG ar Faterion Trafnidiaeth Lleol rhwng RWE, PCC a WGT[39]; a SOCG ar Sŵn ac Iechyd rhwng RWE a PCC[40].

---

[16] FWLC-Highways-SOCG-SSA-C
[17] FWLC-SOCG-007 (Hist Env)
[18] FWLC-SOCG-002 (Noise)
[19] FWLC-SOCG-005 (Hydrology Final)
[20] FWLC-SOCG-004 (Peat Resource)
[21] FWLC-SOCG-003
[22] FWLC-OBJ-002-SOCG-LAND-S4
[23] CPL-SOCG-009a (Final Signed Landscape and Visual)
[24] CPL-SOCG-008 (Cultural Heritage)
[25] CPL-SOCG-004A (Noise)
[26] CPL-SOGG 010 (Peat)
[27] CPL-SOCG-001A (Bats)
[28] CPL-SOCG-002B (Ornithology)
[29] CPL-SOCG-HYDRO-CON-003-S4
[30] CPL-OBJ-002-SOCG-LAND-S4
[31] VATT-SOCG-LAND-SSA-C
[32] VATT-TRANS-SOCG-SSA-C
[33] VATT-HISTENV-SOCG-SSA-C & VATT-HISTENV-SOCG-SSA-C
[34] VATT-NOISE-SOCG-SSA-C
[35] VATT-HYDRO-SOGG-SSA-C
[36] VATT-ECOLOGY-SOCG-SSA-C & VATT-ORINTHOLOGY-SOCG-SSA-C
[37] VATT-OBJ-002-SOCG-LAND-S4
[38] RWE-PCC-SOCG-LAND-SSA-C

*Llanbrynmair*

19. SOCGs ar Dreftadaeth Ddiwylliannol rhwng RES UK & Ireland Limited (RES) a CPAT, a RES a Cadw[41]; SOCG ar Sŵn rhwng RES a PCC[42].

*Llinell 132kV Llandinam*

20. SOCG rhwng SP Manweb (SPM) ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri[43] yn cadarnhau nad oes gan yr Awdurdod wrthwynebiad i'r llinell uwchben arfaethedig; SOCG rhwng SPM a WGT ar Drafnidiaeth[44].

*SOCG ar y Cyd*

21. SOCG rhwng y pum datblygwr fferm wynt a PCC ar faterion yn ymwneud ag Effaith ar y Dirwedd a Golygfeydd, mewn perthynas ag effeithiau cronnol ar y dirwedd gyda'i gilydd[45]

**Datganiadau Amgylcheddol a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol**

*Ailbweru Llandinam*

22. Roedd y cais (Mai 2008) yn cynnwys Datganiad Amgylcheddol (ES 2008). Cynhyrchwyd Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol (SEI) ym mis Rhagfyr 2011 a mis Ebrill 2013 mewn ymateb i newidiadau dylunio – yn bennaf lleihau nifer y tyrbinau arfaethedig o 42 i 39 (Rhagfyr 2011) ac yna i 34 tyrbin (Ebrill 2013).

*Llaithddu*

23. Roedd y cais (Mai 2008) yn cynnwys ES (ES mis Ebrill 2008). Cyflwynwyd Cynllun Rheoli Trafnidiaeth fel SEI ym mis Awst 2012. Cynhyrchwyd SEI arall ym mis Mehefin 2013 a oedd yn cynnwys diweddariadau a newidiadau i'r gosodiad a'r dyluniad, ac yn cyflwyno 3 dewis. Dewis 0 oedd y cais gwreiddiol (29 tyrbin). Roedd Dewis 1 yn gynnig diwygiedig ar gyfer 29 tyrbin gyda mân newidiadau dylunio, gan gynnwys diwygiadau a wnaed mewn ymateb i sylwadau ar y cais. Mae Dewis 2 yn gynnig ar gyfer 27 tyrbin, gan gynnwys dileu tyrbinau 1 a 2, ac adleoli tyrbinau 3 a 5. Mae llythyr oddi wrth FWLC i DECC, dyddiedig 24 Mehefin 2013[46], yn cadarnhau bod yr ymgeisydd am i'r cynllun gael ei benderfynu ar sail dewis 2, h.y. y cynllun 27 tyrbin. Rwyf wedi ystyried y cais ar y sail honno.

*Llanbadarn Fynydd*

24. Roedd y cais (Tachwedd 2007) yn cynnwys ES (ES mis Tachwedd 2007). Cyflwynwyd pedwar adroddiad SEI dilynol. Roedd yr SEI dyddiedig mis Gorffennaf 2008 yn cyflwyno newidiadau i aliniad y llwybrau mynediad mewnol ac adleoli pwyntiau mynediad penodol. Roedd hefyd yn darparu Cynllun Rheoli Cynefin a Chynllun Rheoli Traffig amlinellol. Roedd yr SEI dyddiedig mis Medi 2012 yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â sŵn, mannau mynd

---

[39] RWE-PCC-SOCG-TRANS-SSA-B
[40] RWE-PCC-SOCG-NOISE-SSA-C
[41] RES-SOCG-CULTHER-SSA-B-CPAT & RES-SOCG-CULTHER-SSA-B-CADW
[42] RES-PCC-SOCG-NOISE-SSA-B
[43] SPM–SOCG–OBJ–621–OHL
[44] SPM–SOCG–CON–TRANS–OHL
[45] SOCG-LAND-S4
[46] FWLC-006

heibio, gwaith priffyrdd, Asesiad rheoliadau cynefinoedd a Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AILs). Roedd SEI mis Chwefror 2013 yn diweddaru'r sylfaen amgylcheddol ac yn darparu gwybodaeth ychwanegol am effeithiau cronnol. Darparwyd SEI arall ym mis Mehefin 2013, a oedd yn cynnwys gwybodaeth gefndir yn ymwneud ag arolygon madfallod, arolygon adar sy'n gaeafu, ac asesiad amgylcheddol yn ymwneud â newidiadau i bwyntiau mynediad y safle. Roedd yr SEI a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2013 yn cyflwyno ac asesu gwaith a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Strategol i ddarparu mynediad ar gyfer pob AIL trwy Ystad Ddiwydiannol Mochdre. Mae hefyd yn adrodd ar asesiadau a gynhaliwyd ar y cyd ynglŷn â'r effeithiau cronnol posibl rhwng SSAs B ac C, a'r posibilrwydd o effeithiau cronnol eraill.

*Llanbrynmair*

25. Roedd y cais (Mawrth 2009), a oedd yn wreiddiol ar gyfer datblygu hyd at 43 o dyrbinau, yn cynnwys ES a baratowyd yn 2008 (ES 2008). Cyflwynwyd pump SEI rhwng 2010 a 2012 mewn ymateb i geisiadau am wybodaeth ychwanegol a newidiadau dylunio – yn bennaf lleihau'r cynnig i 30 tyrbin. Er mwyn diweddaru a chysoni'r newidiadau, cyfunwyd yr holl wybodaeth amgylcheddol berthnasol yn un pecyn SEI ym mis Awst 2013 (SEI mis Awst 2013), sy'n disodli'r holl ddogfennau cynharach. Darparwyd canlyniadau arolwg wedi'u diweddaru ac ailasesiad o'r effaith bosibl ar ystlumod mewn SEI dyddiedig mis Hydref 2013. Ym mis Rhagfyr 2013, cyflwynwyd SEI arall i gyflwyno canfyddiadau gwaith arolygu, asesu a dylunio ychwanegol, ynghyd â gwybodaeth a baratowyd mewn perthynas ag effeithiau cronnol gyda ffermydd gwynt eraill. Mae'r SEI dyddiedig mis Chwefror 2014 yn cyflwyno gwybodaeth amgylcheddol yn ymwneud â threfniant arall ar gyfer mynediad a rennir gyda chynllun Carnedd Wen cyfagos.

*Carnedd Wen*

26. Roedd y cais (Rhagfyr 2008) yn cynnwys ES o'r un dyddiad. Cyflwynwyd SEI ym mis Awst 2009 a oedd yn mynd i'r afael ag effeithiau cronnol tebygol o bwys gyda phrosiectau eraill ar gyfer fferm wynt. Arweiniodd newidiadau dylunio – yn bennaf lleihau nifer y tyrbinau o 65 i 50 a lleihau'r capasiti cynhyrchu mwyaf yr ymgeisiwyd amdano o 250MW i 150MW – at gyflwyno SEI arall ym mis Medi 2011. Mae'r SEI a gynhyrchwyd ym mis Gorffennaf 2013 yn darparu gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud ag amodau sylfaenol y safle a phenodau diwygiedig ar ddatganiad amgylcheddol.

*Llinell Llandinam*

27. Roedd y cais adran 37 fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol ar 2 Rhagfyr 2009[47] yn cynnwys ES (ES 2009)[48]. Cynhyrchwyd SEI ym mis Rhagfyr 2010 (SEI 2010)[49] a oedd yn ymateb i adborth ar ôl ymgeisio ac yn symud y llinell arfaethedig y tu allan i'r coridor gwreiddiol 100m o led mewn dau leoliad. Cyflwynwyd ES wedi'i ddiweddaru (ES 2013)[50] ar 29 Hydref 2013. Cyflwynwyd rhestr gwallau at hynny

[47] AD-SPM-002
[48] CD/SPM/ES/02
[49] CD/SPM/ES/03
[50] CD/SPM/ES/01

i'r Ymchwiliad[51]. Rwyf wedi ystyried y cais adran 37 ar sail diweddariad mis Hydref 2013.

28. Paratowyd SEI yn ymwneud â dewisiadau cysylltu â'r grid a senarios grid ar y cyd gan RES, RWE, Vattenfall ac FWLC ar gyfer sesiwn 4 yr Ymchwiliad[52]. Mae hyn yn cynnwys asesiad technegol o'r dewisiadau amrywiol ar gyfer cysylltu'r ffermydd gwynt arfaethedig â'r grid a'r seilwaith a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer hyn, a adwaenir fel 'Adroddiad Mott MacDonald' (Rhagfyr 2013), ac asesiad lefel uchel, seiliedig ar ddesg, o'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig.

29. Rwyf yn fodlon bod yr holl ddogfennau ES ac SEI y cyfeirir atynt uchod wedi cael eu cyhoeddi ac y rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddynt yn unol â'r rheoliadau a'u bod yn bodloni gofynion y rheoliadau ym mhob ffordd arall. Mae pob un ohonynt wedi cael eu hystyried, ynghyd â'r holl wybodaeth amgylcheddol arall a gyflwynwyd fel tystiolaeth i'r ymchwiliad, wrth baratoi'r adroddiad hwn.

**Y Safleoedd a'u Hamgylchoedd**

*SSA C yn gyffredinol*

30. Llwyfandir ucheldir uchel yw SSA C yn ei hanfod, sydd wedi'i ffinio i'r gorllewin a'r gogledd gan ddyffrynnoedd afonydd dwfn. I'r dwyrain, mae cyfres o gefnennau a bryniau'n parhau i mewn i Swydd Amwythig, lle mae'r dirwedd wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB). Mae afon Ithon yn codi yn rhan ogleddol SSA C ac yn llifo i'r de. Mae'r A487 yn troelli i fyny ochr serth y dyffryn o'r Drenewydd, cyn dilyn Dyffryn Ithon i'r de. Mae rhannau gorllewinol a dwyreiniol SSA C wedi'u cysylltu gan 'gyfyngdir' cul o dir uchel ym mhen blaen Dyffryn Ithon.

*Llandinam*

31. Byddai'r fferm wynt arfaethedig yn cael ei lleoli gerllaw cefnen Llandinam, sy'n nodwedd ogledd-ddeheuol amlwg rhwng dyffrynnoedd Hafren ac Ithon. Mae ei hwyneb gorllewinol yn serth a sgarpaidd. Mae ei llethr ddwyreiniol yn goleddu'n ysgafnach ac yn donnog. Nodweddir cefnen Llandinam gan lystyfiant rhostir ucheldir a fferm wynt bresennol Penrhyddlan a Llidiartywaun (P&L).

*Llaithddu*

32. Byddai'r fferm wynt arfaethedig yn cael ei rhannu'n ddau grŵp neu arae wahanol. Byddai'r grŵp gogleddol yn cael ei leoli i'r de a'r dwyrain o fferm wynt bresennol P&L, yn bennaf ar gefnen eilaidd a adwaenir fel cefnen Waun Ddubarthog. Yn yr un modd â safle Llandinam, nodweddir yr ardal gan lystyfiant rhostir ucheldir a'r datblygiad fferm wynt presennol. Byddai'r arae ogleddol arfaethedig, i bob pwrpas, yn barhad o gynllun Llandinam, neu os na fydd hwnnw'n symud ymlaen, fferm wynt bresennol P&L. Byddai arae ddeheuol cynllun Llaithddu yn cael ei lleoli ar y gefnen ddwyreiniol, a adwaenir fel Brondre Fawr, sy'n rhedeg i'r gogledd-dde tuag at anheddiad Bwlch-y-Sarnau. Nodweddir safle'r arae ddeheuol gan lystyfiant rhostir ucheldir a phlanhigfeydd coedwigaeth, y mae rhai ohonynt wedi'u torri'n glir yn ddiweddar. Gellir gweld tyrbinau presennol P&L i'r gogledd a cheir tyrbin gwynt unigol cymharol fach i'r de, yn agos i Fwlch-y-

[51] AD/SPM/038 a 038a
[52] AD-RWE-031, 032, 032a, 032b

Sarnau. Nid yw'r safle ei hun, fodd bynnag, wedi'i nodweddu gan ddatblygiad fferm wynt.

*Llanbadarn Fynydd*

33. Mae'r safle i'r dwyrain o Ddyffryn Ithon a'r A487, mewn ardal llwyfandir tonnog wedi'i rychu gan nifer o ddyffrynnoedd ucheldir cul, serth. Mae'r safle'n cynnwys ardaloedd rhostir ucheldir a thir pori, y mae llawer ohono'n laswelltir wedi'i wella sydd wedi'i amgáu gan ffensys. Mae'n ymestyn ar hyd dwy ochr Dyffryn Gwenlas uchaf sy'n cynnwys ardaloedd coetir a chaeau bach wedi'u ffinio gan berthi. Mae dwy is-ffordd sirol yn mynd ar draws y safle, a cheir nifer o ffermydd ac anheddau preswyl yn yr ardal. I'r gogledd, mae'r tir yn codi i dirwedd bori agored a thirffurf adnabyddus Bryn y Glog. I'r gogledd-ddwyrain, mae Bryn Ceri yn ffurfio cefnen eang sy'n rhedeg i'r dwyrain-orllewin yn fras yn Lloegr. Mae'r dirwedd lwyfandir donnog a rhychiog yn ymestyn i'r dwyrain a'r de-ddwyrain. Mae hyn yn cynnwys nifer o fryniau a nodweddir gan lystyfiant rhostir agored.

*SSA B yn Gyffredinol*

34. Mae SSA B yn ardal chwilio strategol fawr iawn, i'r gogledd-orllewin o SSA C. Mae'r ffiniau a ddangosir ar y map TAN 8 perthnasol[53] yn diffinio un ardal fawr sy'n cynnwys sawl dyffryn afonydd. Felly, mae ffiniau TAN 8 yn cynnwys ardaloedd gwahanol iawn o ran cymeriad ac ansawdd y dirwedd. Fodd bynnag, mae astudiaeth fireinio gan Arup ar gyfer y Cyngor yn rhannu'r SSA yn 5 ardal ucheldir ar wahân, gan eithrio'r dyffrynnoedd. Byddai safleoedd Llanbrynmair a Charnedd Wen yn y rhan ganolog a mwyaf, a byddent oddeutu 25km o SSA C. Ceir ffermydd gwynt presennol o fewn SSA B, a adwaenir fel Carno (A a B), Cemmaes, a Mynydd Clogau.

*Carnedd Wen a Llanbrynmair*

35. Byddai'r safleoedd yn agos i'w gilydd mewn ardal fawr o lwyfandir ucheldir. Nodweddir y ddau safle gan ardaloedd mawr o blanhigfa goniffer, rhostir, a thir pori garw. Byddent yn cael eu darllen fel un safle mawr iawn, yn ymestyn am oddeutu 8km i gyfeiriad gogledd-ddeheuol yn fras, a hyd at 4.5km o led mewn mannau. Mae'r safleoedd rhwng yr A470 ger Talerddig i'r de-ddwyrain, yr A458 ger Foel / Llangadfan i'r gogledd-ddwyrain, a Dyffryn Nant yr Eira i'r de-ddwyrain. I'r gorllewin, ceir dyffrynnoedd afonydd â rhychau dwfn, gyda phlanhigfeydd coedwigaeth yn edrych drostynt ar dir uwch.

36. Mae'r safleoedd eu hunain yn denau eu poblogaeth a heb eu datblygu i raddau helaeth, er bod ychydig o ffermydd ac anheddau diarffordd wedi'u gwasgaru o fewn Dyffryn Nant yr Eira.

*Llinell Llandinam* (CD/SPM/ES/001)[54]

37. Mae'r llwybr 35km yn dechrau ym Mryn Dadlau ar Gefnen Waun Ddubarthog, sef llwyfandir ucheldir 400m uwchben datwm ordnans, ac yn mynd i gyfeiriad dwyreiniol i ogledd-ddwyreiniol yn fras, gan groesi'r A483 Ffordd Llandrindod i'r Drenewydd a mynd heibio i waelod y Glog cyn croesi'r B3455 a mynd ar draws

[53] Map 3, tudalen 17.
[54] Cyfrol 6, Ffigur 1.2 yn ogystal â disgrifiad manylach o'r llwybr yn SPM/LANDSCAPE/POE/GIBSON/006A, paragraffau 6.21-6.27).

llethr agored Bryn Ceri islaw Llwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri. Ychydig i'r gogledd o Goedwig Block, mae'n symud i gyfeiriad mwy gogleddol, gan fynd heibio i'r dwyrain i Bentre a Sawmills a chroesi'r A489 a Dyffryn Miwl ychydig i'r gogledd o Lan-miwl.

38. Yna mae'r llwybr yn parhau i'r gogledd trwy'r tir amaeth tonnog gan ostwng i lawr i groesi Dyffryn Miwl am yr eildro ger Maenllwyd Uchaf, cyn codi unwaith eto i groesi'r tir amaeth uchel tonnog (tua 200m uwchben datwm ordnans) rhwng Aber-miwl a Dyffryn Llandysul. Oddi yno, mae'n disgyn i ymyl Dyffryn Hafren, lle y mae'n cydgyfarfod â'r B4385 a llinell reilffordd Machynlleth i'r Amwythig ger Cwrt Calmore.

39. Mae'n parhau i redeg yn agos i'r rheilffordd ac yn gyfochrog â hi, gan groesi caeau isel Dyffryn Camlad cyn codi unwaith eto a mynd ar draws llethrau isaf ochr ddwyreiniol Dyffryn Hafren oddeutu 100m uwchben datwm ordnans. Gan fynd heibio i'r gorllewin o Ffordun a Neuadd Tre'r Llai, mae'r llwybr yn dod i ben ychydig i'r de o'r B4381 Ffordd Tre'r Llai ac Is-orsaf Grid y Trallwng, oddeutu 1km i'r dwyrain o'r Trallwng.

**Fframwaith Cyfreithiol, Ynni a Pholisi Cynllunio**

40. Gwneir y ceisiadau o dan Ddeddf Trydan 1989 (Adrannau 36, 37, 62(3) ac Atodlen 8), a Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (adran 90).

41. Mae Llysoedd yr Alban wedi penderfynu'n ddiweddar bod trwyddedu parti i gynhyrchu trydan at y diben a amlinellir yn adrannau 4 a 6 y Ddeddf Trydan a rhoi caniatâd ar gyfer adeiladu neu ymestyn gorsaf gynhyrchu o dan adran 36 yn ddwy gyfundrefn ar wahân. Nid yw dal trwydded yn rhagamod i roi caniatâd[55].

42. Mae Atodlen 9, is-adran 1(1) Deddf 1989 yn mynnu bod deiliad trwydded neu unigolyn a awdurdodwyd trwy eithriad i gynhyrchu, trawsyrru, dosbarthu neu gyflenwi trydan: (a) yn ystyried dymunoldeb gwarchod harddwch naturiol, gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffigol o ddiddordeb arbennig a gwarchod safleoedd, adeiladau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol, a (b) yn gwneud yr hyn sy'n rhesymol o fewn ei allu i liniaru unrhyw effaith y byddai cynigion yn ei chael ar harddwch naturiol cefn gwlad neu unrhyw fflora, ffawna, nodweddion, safleoedd, adeiladau neu wrthrychau o'r fath. Mae is-baragraff (2) yn mynnu, wrth ystyried unrhyw gynigion perthnasol y mae angen ei ganiatâd ar eu cyfer o dan adran 36 neu 37 y Ddeddf, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol (a) yn ystyried dymunoldeb y materion a grybwyllwyd ym mharagraff (a) is-baragraff (1), a (b) y graddau y mae'r unigolyn a luniodd y cynigion wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd o dan baragraff (b) yr is-baragraff hwnnw.

43. O dan a90(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990[56], wrth roi caniatâd o dan adrannau 36 neu 37 Deddf Trydan 1989[57], caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo yr ystyrir bod caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad ac unrhyw ddatblygiad ategol wedi'i roi yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau (os oes rhai) a nodir yn y cyfarwyddyd.

[55] Trump International Golf Club Scotland Ltd v Gweinidogion yr Alban (2014) SLT 406 a Sustainable Shetland v Gweinidogion yr Alban a Viking Energy Partnership (2014) CSIH 60 P698/12
[56] OBJ-002-LEG-003
[57] CD/COM/023

44. Mae Adran 37 Deddf 1989 yn amlinellu'r gofyniad na cheir gosod llinell drydan na'i chadw wedi'i gosod uwchben y tir ac eithrio yn unol â chaniatâd a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

45. Mae Adran 16 Deddf 1989 yn darparu bod dyletswydd ar ddosbarthwr trydan i wneud cysylltiad rhwng system ddosbarthu o'i eiddo ef ac unrhyw safle pan fynnir ei fod yn gwneud hynny gan berchennog neu feddiannwr y safle neu gyflenwr awdurdodedig sy'n gweithredu gyda chaniatâd perchennog neu feddiannwr y safle.

46. Ategir y dyletswyddau statudol y mae SPM yn gweithredu oddi tanynt gan nifer o safonau ac amodau sy'n gysylltiedig â Thrwydded Dosbarthu Trydan a wnaed o dan Ddeddf 1989.[58] Mae'r amodau hyn yn cynnwys amod 12, sy'n darparu y bydd y Daliwr Trwydded, wrth dderbyn cais am gysylltiad, yn llunio cytundeb yn amlinellu'r gwaith sy'n angenrheidiol i ddarparu'r cysylltiad hwnnw.

47. Mae amod 21 yn mynnu cydymffurfiad â'r Cod Dosbarthu sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu datblygu, cynnal a chadw a gweithredu system effeithlon, gydgysylltiedig a diwastraff ar gyfer dosbarthu trydan.

*Ymrwymiadau Rhyngwladol*

48. Mae'r Deyrnas Unedig yn llofnodwr arweiniol amryw o ymrwymiadau rhyngwladol, ac mae targedau ar gyfer cymell gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy wedi'u cytuno ar gyfer y Deyrnas Unedig ac aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd. Mae cytundebau a rhwymedigaethau perthnasol yn cynnwys y rhai hynny sy'n codi o Gonfensiwn Fframwaith 1992 y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, Protocol 1997 Kyoto ar Newid yn yr Hinsawdd, Cytgord 2009 Copenhagen, a Chynadleddau'r Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn Durban yn 2011 a Doha yn 2012. Mae Rhwymedigaethau Ewropeaidd yn cynnwys Cynllun Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd, Cyfarwyddeb 2009/28/EC yr Undeb Ewropeaidd ar hyrwyddo'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy, a Phenderfyniad Rhif 406/2009/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 23 Ebrill 2009, sy'n sefydlu targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr rhwymol, blynyddol ar gyfer aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn ystod 2013-2020.

*Polisi Perthnasol – Y Deyrnas Unedig*

49. Pe gwnaed y ceisiadau ar ôl i adran berthnasol *Deddf Cynllunio 2008*[59] (Deddf 2008) (1 Mawrth 2010) ddod i rym, byddent wedi cael eu dosbarthu'n 'Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol' (NSIPs). Er nad yw Deddf 2008 yn berthnasol yn amgylchiadau'r ceisiadau presennol, mae'r *Datganiad Polisi Cenedlaethol Ynni Trosfwaol* (EN-1)(Gorffennaf 2011) [60], y *Datganiad Polisi Cenedlaethol Seilwaith Ynni Adnewyddadwy* (EN-3)(Gorffennaf 2011), a'r *Datganiad Polisi Cenedlaethol Seilwaith Rhwydweithiau Trydan* (EN-5)(Gorffennaf 2011)[61] yn arwyddocaol iawn gan eu bod yn ffurfio'r mynegiant pennaf a mwyaf cyfredol o bolisi'r Deyrnas Unedig o ran seilwaith cynhyrchu sydd â chapasiti o fwy na 50 MW a llinellau trydan 132kV o leiaf.

---

[58] Gweler SPM/NETWORK/POE/BEDDOES/001B, Atod.2.
[59] CD/COM/025
[60] CD/COM/001
[61] CD/COM/003

50. Mae EN-1 yn ailddatgan rôl hanfodol datblygu ynni adnewyddadwy wrth sicrhau gostyngiadau mewn nwyon tŷ gwydr. Mae'n cynnwys darpariaethau yn ymwneud â'r ymrwymiad i gyflawni targedau cyfreithiol rwymol i leihau allyriadau o'r fath a datgarboneiddio mewn ffordd sy'n atgyfnerthu sicrwydd cyflenwad, ar yr un pryd â chynnal effeithlonrwydd a chystadleuaeth. Mae'n gosod y fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae'n amlygu'r ymrwymiad i gynyddu'n sylweddol y capasiti cynhyrchu adnewyddadwy ac yn pwysleisio'r angen dybryd am NSIPs newydd a charbon isel yn arbennig. Mae hefyd yn amlinellu sut y dylid ystyried effeithiau generig wrth wneud penderfyniadau.

51. Mae EN-3 yn rhoi arweiniad penodol i dechnoleg ar gyfer seilwaith ynni adnewyddadwy, gan gynnwys datblygiadau gwynt ar y tir sy'n fwy na 50MW. Mae EN-5 yn rhoi arweiniad tebyg ar seilwaith rhwydweithiau trydan.

*Cymru*

52. Mae polisi ynni a newid hinsawdd Llywodraeth Cymru yn gosod targedau lleihau carbon a thargedau ynni adnewyddadwy ar gyfer Cymru ac yn helpu i ddiffinio sut y dylid cyflawni'r rhain. Amlinellir polisi cynllunio cenedlaethol Cymru yn y ddogfen *Polisi Cynllunio Cymru* (PPW)(Rhifyn 7 ar hyn o bryd, Gorffennaf 2014) ac fe'i hategir gan gylchlythyrau'r llywodraeth, llythyrau gweinidogol a chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs), gan gynnwys TAN 8: *Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy*. Mae PPW yn cydnabod ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyfrannu at dargedau rhyngwladol, yr Undeb Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig ar gyfer lleihau nwyon tŷ gwydr, a bod mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn rhan sylfaenol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'n amlygu Ardaloedd Chwilio Strategol (SSAs) fel ardaloedd yng Nghymru yr ystyrir eu bod, ar sail ymchwil empirig sylweddol, yn fwyaf priodol ar gyfer datblygiad fferm wynt ar raddfa fawr yng Nghymru. Mae TAN 8 yn darparu cyngor technegol i ategu'r polisi a amlinellir yn PPW. Amlygir SSAs gan ffiniau 'cyffredinol'. Ar gyfer pob SSA, ceir targedau dangosol o gapasiti gosodedig, a fwriadwyd i sicrhau bod cynigion ar gyfer cyfanswm o 800MW yn cael eu cyflwyno erbyn 2010.

53. Mae llythyr Llywodraeth Cymru dyddiedig mis Gorffennaf 2011[62] yn rhoi mwy o eglurder ar fater capasiti mwyaf gosodiadau ar gyfer datblygiad gwynt ar y tir yn yr SSAs. Mae'n cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r potensial a amcangyfrifwyd yn y datganiad polisi ynni Chwyldro Carbon Isel[63], a oedd wedi'i seilio ar y capasiti mwyaf a aseswyd gan yr ymgynghorwyr annibynnol Garrad Hassan. Y capasiti mwyaf ar gyfer SSA C ac SSA B a amlygwyd gan Garrad Hassan oedd 98MW a 430MW yn ôl eu trefn. Mae'r llythyr hefyd yn cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru, a amlinellwyd yn TAN 8, sef y dylai cysylltiadau o dyrbinau unigol i is-orsaf fod trwy geblau tanddaearol, ac y dylid cyflawni unrhyw gysylltiad o is-orsaf i ran agosaf y rhwydwaith dosbarthu trwy system 3 gwifren safonol ar bolion pren. Mae TAN 8 yn cydnabod bod gosod ceblau foltedd uchel o dan y ddaear fel arfer 6-20 gwaith yn ddrutach na system ar bolion, a'i bod yn debygol y gellid ei gyfiawnhau am hydoedd cyfyngedig a/neu mewn amgylchiadau arbennig yn unig.

*Polisi Cynllunio Lleol*

---

[62] CD/COM/020
[63] CD/COM/009

54. Er bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 90 *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*, nid yw adran 38(6) *Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004* yn gysylltiedig[64]. Er hynny, mae'n amlwg y gallai cynlluniau datblygu fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais o dan adrannau 36 a 37 y Ddeddf Trydan.

55. Y cynllun datblygu ar gyfer yr ardal yw *Cynllun Datblygu Unedol Powys* (UDP)(Mawrth 2010)[65].

56. Mae Polisi E3 yr UDP yn ymwneud â phŵer y gwynt. Mae'n darparu y bydd ceisiadau am ffermydd gwynt gan gynnwys estyniadau i safleoedd presennol a generaduron tyrbin gwynt unigol yn cael eu cymeradwyo yn amodol ar 8 maen prawf a restrwyd. Mae'r rhain yn cynnwys na fyddai'r cynlluniau arfaethedig yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar: ansawdd amgylcheddol a thirwedd Powys; cynefinoedd bywyd gwyllt neu rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol; preswylwyr neu ddefnyddwyr eiddo sensitif trwy gyfrwng sŵn, dirgryniad, cysgodion neidiol neu olau adlewyrchedig; adeiladau neu nodweddion o ddiddordeb cadwraeth neu archaeolegol; neu fwynhad neu ddefnydd diogel o briffyrdd a'r rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'n mynnu y byddai cynigion yn gallu cael eu gwasanaethu trwy fynediad priffordd derbyniol ac na fyddai unrhyw ffyrdd a mynedfeydd newydd neu wedi'u gwella y byddai eu hangen yn cael effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd, ac y dylai ymgeiswyr allu dangos trwy gynlluniau rheoli tir y byddai digon o liniaru neu ddigolledu am unrhyw effaith niweidiol ar ansawdd yr amgylchedd, cynefinoedd bywyd gwyllt neu nodweddion treftadaeth. Mae'n ofynnol i unrhyw adeileddau neu adeiladau atodol gael eu lleoli a'u cynllunio (gan gynnwys defnyddio deunyddiau adeiladu sy'n briodol yn lleol) fel eu bod yn cydweddu'n ddigonol â'u hamgylchedd.

57. Mae Polisi E4 yr UDP yn ymwneud â dileu tyrbinau gwynt diangen ac yn cynnig y dylid defnyddio amodau cynllunio i'r perwyl hwn.

58. Mae'r testun sy'n cyd-fynd â Pholisi E3 yr UDP[66] yn datgan bod profiad hyd yma yn dangos nad yw polisi seiliedig ar feini prawf ar ei ben ei hun yn cynrychioli sail arbennig o dda ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Mae'n dweud y byddai'n fwy dymunol i'r Cyngor fod yn fwy rhagweithiol wrth gyfeirio datblygiadau at ardaloedd lle y byddent yn fwy derbyniol. Fodd bynnag, er bod astudiaethau mireinio TAN 8 wedi'u comisiynu a'u cynnal, nid oes unrhyw Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) wedi'u mabwysiadu.

59. O ran cynllun cysylltu 132kV Llandinam, mae Polisi DC12 yr UDP yn mynnu bod yr holl linellau a phiblinellau'n cael eu gosod o dan y ddaear oni bai bod rhesymau tra phwysig yn erbyn hyn. Mae hefyd yn nodi y dylai llwybr llinellau gael ei gynllunio mewn modd sy'n lleihau eu heffaith gymaint â phosibl ar dirwedd ac amgylchedd naturiol ac adeiledig Powys, yn enwedig mewn tirweddau pwysig ac ardaloedd o ddiddordeb cadwraeth neu archaeolegol. Lle nad oes modd osgoi llinellau uwchben mewn ardaloedd gwledig, mae'r polisi'n datgan y

[64] OBJ-002-LEG-003 & CD/SPM/LEG/07. Ym mis Ionawr 2012, ystyriodd yr Uchel Lys y mater hwn yn *R (ar gais Samuel Smith Old Brewery (Tadcaster) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd*[64]. Barnodd nad yw'r darpariaethau, y mae angen gwneud penderfyniadau yn eu cylch yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall, yn berthnasol o ran caniatâd cynllunio tybiedig sy'n gysylltiedig â chaniatâd adran 37. Penderfynwyd nad oedd 'cyfarwyddyd' yr ystyrir bod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn 'benderfyniad' o dan y Deddfau Cynllunio.

[65] CD/COM/006

[66] Para 12.9.1

dylent ddilyn perthi, ymylon coetir a phlygiannau isel yn y dirwedd lle bynnag y bo'n bosibl. Mae paragraff 12.12, ymhlith materion eraill, yn datgan y gallai ac y dylai llinellau pŵer trydan gael eu claddu lle bynnag y bo'n ymarferol, dechnegol ac economaidd bosibl.

**Y Cynigion**

*Llandinam*

60. Ar 9 Mai 2008, cyflwynodd CeltPower Limited (CeltPower) gais o dan adran 36 Deddf Trydan 1989 am ganiatâd i ddatgomisiynu fferm wynt P&L, a gosod fferm wynt newydd. Mae CeltPower hefyd yn ceisio cyfarwyddyd am ganiatâd cynllunio tybiedig o dan adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae fferm wynt bresennol P&L yn cynnwys 102 o dyrbinau gyda chapasiti i gynhyrchu tua 30MW. Maent wedi'u gosod yn gymharol agos i'w gilydd mewn llinellau syth, cyfochrog yn fras. Roedd y cais cychwynnol ar gyfer cynllun 42 tyrbin gyda chapasiti cynhyrchu gosodedig o hyd at 126MW (3MW / tyrbin). Mae'r cynllun wedi esblygu'n sylweddol ers hynny. Yn 2011, lleihawyd y cynllun i 39 tyrbin. Yn 2013, dilëwyd 5 tyrbin arall o'r cynllun. Mae'r partïon yn cytuno y dylai'r cynnig gael ei bennu ar sail y cynllun diwygiedig gyda chyfanswm o 34 tyrbin a chapasiti cynhyrchu mwyaf o 102MW, ac mae wedi'i asesu ar y sail hon.

61. Mae tyrbinau presennol P&L yn 45m o uchder (i flaen y llafn). Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn 121.2m o uchder i flaen y llafn (uchder both 80m) yn bennaf. Fodd bynnag, byddai 3 thyrbin (T29, T3 a T43) yn llai o faint, ac yn 111.2m o uchder i flaen y llafn.

*Llaithddu*

62. Gwnaed a chofrestrwyd y cais ym mis Mai 2008, ac roedd ar gyfer codi 29 tyrbin gwynt 2.3MW a seilwaith cysylltiedig. Fe'i diwygiwyd wedi hynny mewn ymateb i ymgynghoriadau.

63. Fel y disgrifiwyd yn y ddogfen Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol (SEI) ddilynol a ddarparwyd ym mis Mehefin 2013, byddai'r cynllun diwygiedig (dewis 2) yn cynnwys 27 tyrbin mewn dau grŵp ar wahân. Byddai'r grŵp gogleddol yn cynnwys 12 tyrbin gydag uchder both o 80m (115.5m i flaen y llafn). Byddai'r grŵp deheuol yn cynnwys 15 tyrbin gydag uchder both o 64m (99.5m i flaen y llafn). Byddai datblygiad seilwaith cysylltiedig yn cynnwys llwybrau mynediad, adeilad rheoli ac is-orsaf drydan o fewn cyfadeilad â ffens o'i amgylch, cyfadeilad dros dro ar gyfer adeiladwyr, pyllau benthyg, ceblau tanddaearol, dau fast anemometreg ac ychwanegu mannau mynd heibio at ffyrdd presennol.

64. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn beiriannau Enercon E70, gydag allbwn cyfradd 2.3MW yr un. Nid oes gan y peiriannau hyn flwch gêr confensiynol. Fe'u dewiswyd am resymau amrywiol gan gynnwys y gallu i gludo cydrannau trwy Lanfair-ym-Muallt a Cross Gates heb orfod gwneud gwaith ffordd mawr, ac mae'r cynllun wedi'i asesu ar y sail hon.

*Llanbadarn Fynydd*

65. Gwnaed y cais (Tachwedd 2007) gan Nuon Renewables, ond yn 2011 integreiddiwyd ei holl brosiectau i fusnes Vattenfall yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cais ar gyfer datblygu 17 tyrbin, gyda chyfradd 3.5MW yr un, gan roi capasiti gosodedig mwyaf o 59.5MW. Uchder mwyaf y tyrbinau fyddai 126m i flaen y

llafn, gydag uchder both bras o 69m. Byddai seilwaith cysylltiedig yn cynnwys mast meteorolegol ar y safle, ceblau tanddaearol, is-orsaf a chyfadeilad adeiladu. Mae darpariaeth wedi'i gwneud ar gyfer pyllau benthyg ar y safle.

66. Cyflwynwyd mân ddiwygiadau, yn bennaf i drefniadau mynediad ac alinio llwybrau ar y safle, yn 2008 a 2010, ac fe'u disgrifiwyd yn nogfennau SEI y dyddiadau hynny. Fodd bynnag, nid yw uchder, nifer a lleoliad y tyrbinau arfaethedig wedi'u newid.

*Carnedd Wen*

67. Roedd y cais a gyflwynwyd yn 2008 yn cynnig adeiladu a gweithredu fferm wynt hyd at 250MW, yn cynnwys 65 tyrbin gwynt a datblygiad ategol. Roedd y cais yn cynnwys cynigion ar gyfer torri 1,742 hectar o goedwig gonifferaidd ac ailsefydlu cynefinoedd naturiol a reolir.

68. Ar 5 Mawrth 2013, rhoddodd RWE wybod i DECC am ddiwygiad i'r cais a oedd yn cynnig capasiti gosodedig mwyaf o 150MW. Byddai'r datblygiad arfaethedig, fel y'i diwygiwyd, yn cynnwys 50 tyrbin gwynt, gyda chapasiti gosodedig mwyaf o 3MW yr un. Uchder mwyaf y llafnau a'r bothau fyddai 137m ac 80m yn ôl eu trefn. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnig clirio 1,409 hectar o goedwig. Byddai'r rhaglen rheoli a gwella cynefin ddiwygiedig yn cynnwys adfer 459 hectar o fawndir, adfer SSI trwy glirio coed a rhwystro ffosydd, adfer cyforgors, a chamau i hwyluso ailsefydlu rhostir yn y safle.

*Llanbrynmair*

69. Roedd y cais (Mawrth 2009) ar gyfer datblygiad ynni'r gwynt o hyd at 43 tyrbin ar dir rhwng pentrefi Llanbrynmair a Llanerfyl. Yn ogystal â'r tyrbinau gwynt, byddai'r cynnig yn darparu ar gyfer y seilwaith cysylltiedig, gan gynnwys llwybrau ar y safle, ceblau tanddaearol, lloriau caled ar gyfer craeniau, mast cyfathrebu, mast monitro gwynt delltog annibynnol, parhaol, 80m o uchder, newidyddion trydanol, gwaith cysylltu trydanol, is-orsaf, ac adeilad rheoli. Mae'r cynnig wedi'i ddiwygio i gynnwys 30 tyrbin yn dilyn y cais. Mae diwygiadau cysylltiedig wedi'u gwneud i'r seilwaith arfaethedig.

70. Byddai'r tyrbinau arfaethedig o'r math 3 llafn confensiynol gyda thŵr tiwbaidd taprog. Yr uchder mwyaf hyd at flaen y llafn fyddai 126m. Uchder y both fyddai oddeutu 80m. Byddai capasiti gosodedig pob tyrbin o fewn yr amrediad 2 – 3 MW. Felly, y capasiti gosodedig mwyaf fyddai 90MW.

71. Ym mis Awst 2012, diwygiwyd ffin y safle i gynnwys tir sydd ei angen mewn cysylltiad â gwaith gwella llwybr mynediad ar hyd Llanerfyl i Dalerddig. Ym mis Chwefror 2014, diwygiwyd ffin y safle ymhellach i fynd i'r afael â'r llwybr mynediad a rennir a awgrymwyd gan y Cyngor.

*Llinell 132kV Llandinam*

72. Byddai cynllun ailbweru arfaethedig Llandinam yn gofyn am gysylltiad newydd i'r rhwydwaith dosbarthu lleol er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd mewn trydan a fyddai'n cael ei allforio. Mae'r cynnig gerbron yr Ymchwiliad yn ceisio darparu'r cysylltiad hwnnw.

73. Byddai'r cysylltiad arfaethedig yn cynnwys oddeutu 35 km o linell uwchben 132 kV newydd o fewn coridor 100m[67], gan ddarparu un cylched 3-cham gyda chapasiti cyfradd 124 MW. Byddai'r tri dargludydd 24mm o ddiamedr a'r wifren ddaear grog 14mm o ddiamedr sy'n cynnwys cebl ffeibr optig yn cael eu cynnal gan 382 o adeileddau polion pren, yn amrywio o ran uchder rhwng 12m ac 16m uwchben lefel y tir amgylchynol. Adwaenir y cynllun hwn fel Cynllun Llinell Uwchben Trefniant Gwastad Gwaith Trwm Un Cylched ar Bolion Pren neu OHL-03-132 yn fyr. Er cyfleustra, cyfeiriwyd ato fel y dull adeiladu Polion Pren Gwaith Trwm (HDWP) yn ystod yr ymchwiliad. Mae'r cynllun yn un a ddatblygwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio gan SPM i ddarparu cysylltiadau ar uchder uchel ac mewn lleoliadau agored. Mae'r pellter rhwng polion yn dibynnu ar nifer o ffactorau, ond byddai'n amrywio rhwng 50m a 130m, gyda chyfartaledd o oddeutu 90m. Byddai'r 50m olaf o'r cysylltiad yn cynnwys ceblau a fyddai'n cael eu claddu o dan y B4381 i is-orsaf y Trallwng.

74. Byddai angen o leiaf ddau, ond yn fwy tebygol dri chyfadeilad adeiladu dros dro, yn amodol ar anghenion mynediad lleol a'r system dyniant i'w chytuno. Nid oes cytundeb ynglŷn â lleoliadau terfynol y rhain hyd yma, ond byddent yn cael eu gwasgaru er mwyn cwmpasu'r rhannau canolog a deheuol yn effeithlon a lleihau amser teithio gymaint â phosibl. Byddai pob ardal storio dros dro oddeutu 2,500m$^2$ o faint. Byddai'r rhain yn ychwanegol at brif gyfadeilad contractwr lle y byddai'r gwaith dur, dargludyddion ac offer arall, storfeydd diogel a swyddfeydd yn cael eu lleoli.

75. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn gofyn am osod offer switsh a diogelu ychwanegol yn Is-orsaf Grid 132kV bresennol y Trallwng. Byddai hyn yn golygu estyn yr is-orsaf bresennol o fewn cwrtil tir gweithredol SPM, y mae hawliau Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn berthnasol iddo.

**Yr Achosion a gyflwynwyd gan y Partïon**

76. Amlinellwyd achosion y prif bartïon, gan gynnwys y Gynghrair ac NRW, mewn cyflwyniadau ysgrifenedig cynhwysfawr a gyflwynwyd yn ystod sesiwn derfynol yr ymchwiliad. Adroddir ar y rhain yn llawn yn yr Atodiadau canlynol i'r Adroddiad hwn:-

Cynllun Ailbweru Llandinam (Celt Power Limited) – Atodiad 1 (A1)

Llaithddu (Fferm Wynt Llaithddu Cyf) – Atodiad 2 (A2)

Llanbadarn Fynydd (Vattenfall) – Atodiad 3 (A3)

Carnedd Wen (RWE NPower Renewables Limited) – Atodiad 4 (A4)

Llanbrynmair (RES UK & Ireland) – Atodiad 5 (A5)

Llinell 132kV Llandinam (SP Manweb PLC) – Atodiad 6 (A6)

[67] Mae Cynllun Llandinam yn cynnwys goddefgarwch 50m ar bob ochr i linell ganol dybiannol ac mae'r broses Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) wedi asesu effeithiau amgylcheddol y llinell yn unrhyw le o fewn y coridor 100m hwn. Bydd y llinell arfaethedig yn rhedeg o fewn y coridor hwnnw, gyda microleoli i'w gynnal cyn adeiladu. Mae'n arfer safonol mewn ceisiadau ar gyfer llinellau uwchben i ddefnyddio coridor i gynrychioli goddefgarwch datblygu (a adwaenir weithiau fel terfyn gwyro). Bydd hyn yn galluogi rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer gweithredu cynllun a ganiatawyd gan y bydd yr union fanylion yn cael eu cwblhau'n derfynol ar ôl caniatâd.

Y Gynghrair – Atodiad 7 (A8)

Cyfoeth Naturiol Cymru – Atodiad 8 (A8)

Cyngor Sir Powys – Atodiad 9 (A9)

*Yr Achos gan Fforwm Cyngor Lleol Gogledd Sir Drefaldwyn*

77. Roedd Fforwm Cyngor Lleol Gogledd Sir Drefaldwyn wedi cyflwyno datganiad ysgrifenedig yn ystod y sesiwn derfynol hefyd.  Crynhoir y cyflwyniadau allweddol fel a ganlyn:

78. Nid yw'r ymgeiswyr wedi llawn sylweddoli cryfder teimladau trigolion canolbarth Cymru, a ddangoswyd yn amlwg gan y Gynghrair ac eraill mewn gwrthdystiadau yng Nghaerdydd, mewn cyfarfod yn y Farchnad Da Byw yn y Trallwng, trwy arolygon a gynhaliwyd ymhlith cymunedau lleol, ac yn y cyfarfod yn Neuadd Dref y Trallwng ar 3 Ebrill 2014.

79. Nid yw TAN 8 yn gyfredol.  Nid oedd y rhai a'i cymeradwyodd yn ei ddeall ac roedd y broses gymeradwyo'n ddiffygiol.  Dylid ei adolygu cyn cymryd unrhyw gamau pellach o ran datblygu ffermydd gwynt yng nghanolbarth Cymru.

80. Dylai unrhyw gyflenwadau pŵer fod ar bolion pren yn unol â datganiadau Llywodraeth Cymru, gan fod llawer o bobl yn gwrthwynebu'r llinell 400kV arfaethedig.

81. Dylid rhoi ystyriaeth benodol i'r effaith ar yr economi a thwristiaeth leol gan fod economi ymwelwyr gogledd Powys mewn mwy o berygl o ddatblygiadau ffermydd gwynt na llawer o rannau eraill o Gymru, a chan fod llawer o fusnesau bach yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar ansawdd y dirwedd.  Nid yw problemau trafnidiaeth wedi'u llawn werthfawrogi.

82. Mae'r Fforwm yn mynnu bod pob un o'r chwe chais yn cael eu gwrthod gan y byddai niwed amlwg i gymunedau, economi ac amgylchedd Sir Drefaldwyn a niwed o'r traffig sy'n gysylltiedig â'r datblygiadau.  Mae angen ymgynghori'n briodol â chynrychiolwyr etholedig Cynghorau Tref a Chymuned ac mae angen adolygu TAN 8 er mwyn canfod ffordd dderbyniol ymlaen.  Cymunedau canolbarth Cymru fydd yn talu'r pris am y datblygiadau arfaethedig, ond y datblygwyr fydd yn elwa.

*Crynodeb o'r Achosion gan Gynghorau Cymuned eraill, Grwpiau Gweithredu, sefydliadau cynrychiadol eraill ac unigolion*

83. Roedd cannoedd lawer o grwpiau eraill a phreswylwyr lleol unigol wedi cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad yn ysgrifenedig, ar lafar yn ystod sesiynau'r ymchwiliad yn y prif leoliad, neu mewn lleoliadau eraill mewn cymunedau lleol yn ystod sesiynau gyda'r nos.  Roedd y mwyafrif helaeth o unigolion a siaradodd yn yr ymchwiliad neu a roddodd gyflwyniadau ysgrifenedig i'r ymchwiliad yn gwrthwynebu'r datblygiadau arfaethedig, er y mynegwyd peth gefnogaeth hefyd.  Nid yw'n ymarferol crynhoi eu datganiadau'n unigol, a sut bynnag mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd ganddynt yn cael eu trin yn fanwl yn yr achosion a gyflwynwyd gan y Gynghrair, NRW a'r Cyngor.  Yn y paragraffau canlynol, felly, crynhoaf y pwyntiau perthnasol nad ymdrinnir â hwy yn yr achosion hynny ac amlygaf themâu cyffredin ymhlith gwrthwynebwyr:

*Cefnogwyr -*

84. Mae Grŵp Cefnogwyr Ffermydd Gwynt Powys yn cefnogi datblygu tyrbinau gwynt yn gyffredinol, gan y byddai'n dod â buddsoddiad economaidd i ganolbarth Cymru ac yn darparu modd o amrywiaethu mentrau gwledig. Mae'n crybwyll bod pŵer y gwynt yn darparu annibyniaeth a sicrwydd ynni, ei fod yn gadarn a diogel rhag trychinebau naturiol o gymharu â phŵer niwclear, nad yw'n defnyddio dŵr, ac nad yw'n gadael etifeddiaeth na dyled wenwynig i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n credu y bydd cost ynni'r gwynt yn parhau i ostwng ac yn cyrraedd yr un lefel â dulliau cynhyrchu eraill. Mae'n nodi y gellir defnyddio cronfeydd cymunedol er budd cymunedau lleol mewn sawl ffordd, gan gynnwys cynorthwyo ysgolion lleol, meddygfeydd a chyfleusterau cyhoeddus eraill. Nid yw'n credu mai pŵer y gwynt ar y tir yw'r ateb i'n holl anghenion ynni, ond yn hytrach bod ganddo ran gynyddol i'w chwarae. Gall Powys chwarae ei rhan, ar yr un pryd ag elwa ar y datblygiadau arfaethedig.

85. Roedd nifer o bobl a siaradodd yn pryderu am effeithiau cynhesu byd-eang yn genedlaethol ac yn fyd-eang, ac roeddent yn cefnogi'r ceisiadau gan eu bod yn credu y byddent yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at yr ymrwymiad cenedlaethol i leihau allyriadau carbon.

86. Roedd sawl person ifanc lleol yn pryderu am ddiffyg cyfleoedd cyflogaeth tymor hir o ansawdd da yn yr ardal, a bod hyn yn gyrru pobl ifanc i ffwrdd o'u cymunedau cartref. Roeddent yn cefnogi'r cynigion gan y byddent yn sicrhau swyddi cynnal a chadw presennol ac yn creu cyfleoedd ar gyfer eraill.

*Gwrthwynebwyr -*

*Themâu Cyffredinol*

87. Mae'r achosion a gyflwynwyd gan y Gynghrair, NRW a Fforwm Cyngor Lleol Gogledd Sir Drefaldwyn yn adlewyrchu thema gyffredin, a fynegwyd mewn deiseb yn cynnwys mwy na 7,000 o lofnodion a gyflwynwyd ar ddechrau'r ymchwiliad ac mewn llawer o'r cyflwyniadau unigol a wnaed, i'r perwyl y byddai cymunedau ym Mhowys yn profi niwed economaidd ac amgylcheddol ond y byddai'r buddiannau'n cael eu profi mewn mannau eraill. Thema gyffredin arall a fynegwyd gan lawer o breswylwyr lleol ac a adlewyrchwyd yng nghyflwyniadau'r Gynghrair yw pryder y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn dibynnu ar gymorthdaliadau. Mae gan lawer o breswylwyr lleol amheuon ynglŷn â chost ac economeg datblygiadau gwynt yn gyffredinol. Tynnodd llawer sylw at ddibyniaeth ffermydd gwynt ar wynt, a'r anallu canlyniadol i wneud cyfraniad dibynadwy at y galw am drydan bob amser. Roedd rhai o'r farn bod datblygu ffermydd gwynt yn troi sylw a buddsoddiad oddi ar ffurfiau mwy dibynadwy a mwy economaidd o seilwaith ynni.

*Pryderon Penodol*

88. Tynnwyd fy sylw at ardal goetir yn union islaw ac i'r gorllewin o fferm wynt bresennol P&L, a ddefnyddir ar gyfer cyrsiau therapi i blant dan anfantais. Mae gweithredwr y cyrsiau hynny'n pryderu y byddai aflonyddu gweledol a sŵn yn gwneud yr ardal yn anaddas at y defnydd hwnnw.

89. Tynnwyd sylw at danau tyrbin sydd wedi digwydd mewn mannau eraill, a'r risg y gallai tanau o'r fath achosi anaf personol i weithwyr neu aelodau'r cyhoedd neu y gallent arwain at ryddhau nwyon gwenwynig wrth i ddeunyddiau fel ireidiau hylosgi.

90. Cyfeiriodd rhai preswylwyr lleol at y lefelau cymharol isel o lygredd golau sy'n bodoli ym Mhowys gwledig, ac roeddent yn pryderu y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn achosi niwed i'r 'awyr dywyll', ac i fwynhau sêr a seryddiaeth.

91. Siaradodd un preswyliwr am y sŵn a'r aflonyddu yr oedd wedi'u profi yn ei chartref yn yr Alban o ganlyniad i ddatblygiad fferm wynt, a'r niwed i'w hiechyd a'i lles yr oedd yn ei briodoli i'r fferm wynt. O ran cynllun Llanbadarn Fynydd, mynegodd sawl preswyliwr lleol bryder am sŵn adeiladu, gan gynnwys effeithiau sŵn yn atseinio rhwng bryniau yn yr ardal. Mae eraill yn pryderu y byddai traffig yn achosi oedi, aflonyddu a difrod i'r is-ffyrdd sy'n gwasanaethu'r ardal.

92. Mae llawer o breswylwyr lleol yn pryderu am effaith y datblygiadau arfaethedig a'r seilwaith atodol ar werthoedd eiddo. Roedd rhai wedi ceisio gwerthu eiddo heb lwyddiant, ac roedd Asiantau wedi dweud wrthynt fod bygythiad datblygiadau fferm wynt yn ffactor yn yr anawsterau a brofwyd. Mynegodd llawer o breswylwyr lleol bryder y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn cael effaith tymor hir ar werth eu heiddo pe byddent yn mynd rhagddynt. Nododd rhai fod yr effaith ar werthoedd eiddo wedi effeithio ar eu gallu i godi cyllid cyfochrog i gefnogi ailfuddsoddiad mewn busnesau. Adroddodd un busnes am symud swyddi i ffwrdd o'r ardal o ganlyniad.

93. Mae nifer o breswylwyr lleol yn pryderu bod tyrbinau gwynt yn achosi niwed i fywyd gwyllt trwy drawiadau gan adar ac effeithiau barotrawma ar ystlumod, ac y byddai gwaith ar ffyrdd mynediad lleol yn achosi niwed i gynefinoedd.

94. Mae sawl preswyliwr lleol yn pryderu am ddiogelwch awyr, yn enwedig o ran Ardal Hyfforddiant Tactegol milwrol yn SSAC. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r ymchwiliad ynglŷn â hyn[68].

*Gwrthwynebiadau Preswylwyr Lleol yn Benodol i Gysylltiad 132kV Arfaethedig Llandinam*

95. Tynnodd Cyngor Cymuned Ceri sylw at y gyfran uchel o breswylwyr lleol sy'n gwrthwynebu'r llinell ynghyd â phryderon am ei heffaith weledol. Mae o'r farn y dylai penderfyniadau am gysylltiad Llandinam aros am ganlyniad y cynigion ar gyfer Prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru a'r ganolfan gysylltiedig, o safbwynt cael rhwydwaith a gynlluniwyd yn strategol. Mae hefyd o'r farn y dylai unrhyw linellau fod o dan y ddaear, ni waeth beth fo'r gost, ac y dylid rhoi mwy o bwys i anghenion a buddiannau'r gymuned na rhai'r datblygwyr. Roedd Cyngor Cymuned Llandysul ac Aber-miwl hefyd wedi tynnu sylw at y gyfran uchel o breswylwyr lleol sy'n gwrthwynebu'r llinell. Yn y blynyddoedd diweddar, mae wedi sefydlu nifer o deithiau cerdded cylchog yn yr ardal i fwynhau'r golygfeydd, ac mae'n pryderu am effaith weledol y llinell arfaethedig ar y rhain ac atyniadau ymwelwyr a hamdden eraill. Mae hefyd yn pryderu bod digwyddiadau ymgynghori wedi darparu gwybodaeth gyfyngedig ac achosi dryswch.

96. Mae aelod o'r Cyngor wedi tynnu sylw at y faith bod ffermydd lleol yn troi at gynlluniau ynni amgen ar ffurf un tyrbin a phaneli solar, ac mae'n pryderu na fyddai capasiti sbâr i gymryd y trydan a gynhyrchir gan gynlluniau amrywiaethu fferm pe byddai cynigion SPM yn cael eu cymeradwyo.

[68] OBJ822-AIRSAFETY-POE-BREBNER-SSA_C & CPL-AIRSAFETY-REBUTTAL-HALE-SSA-C

97. Adroddodd cynrychiolydd ffermwyr lleol fod rhai ffermwyr ar hyd y llwybr wedi cael eu bygwth gyda phrynu gorfodol neu wedi cael cynnig cymhellion ariannol. Mae o’r farn ei bod yn amhriodol i SPM weithredu yn y modd hwn tra bod yr ymchwiliad ar waith. Adroddodd hefyd nad yw llawer o ffermwyr yn ymwybodol o’r newidiadau dylunio sydd wedi digwydd ers 2008. Mae’n pryderu bod llawer o’r tir a fyddai’n cael ei effeithio ar y llinell yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cnydau y mae angen peiriannau mawr i’w trin. O ganlyniad, byddai’r llinell arfaethedig yn cyfyngu ar ddefnydd o’r tir amaeth yn y dyfodol, yn lleihau ei werth, ac felly’r sicrwydd a ddelir gan fanciau a sefydliadau benthyg.

98. Siaradodd sawl preswyliwr lleol fel unigolion am effaith weledol y llinell a’r effeithiau canlyniadol ar dwristiaeth a busnesau cysylltiedig, colli coed a pherthi, effeithiau ar asedau treftadaeth, effeithiau ar fywyd gwyllt, traffig ychwanegol yn ystod gwaith adeiladu’r llinell, a dogfennau ymgynghori camarweiniol. Adlewyrchir eu pryderon yn achosion y Gynghrair, y Cyngor ac NRW. Cododd un preswyliwr lleol bryderon ychwanegol am effaith meysydd electromagnetig sy’n gysylltiedig â llinellau pŵer ar iechyd dynol, yn enwedig pobl sydd â mewnblaniadau metel yn eu cyrff.

## Casgliadau'r Arolygydd

99. Yn y casgliadau hyn, mae'r rhifau mewn cromfachau sgwâr [] yn cyfeirio at baragraffau cynharach yn yr adroddiad hwn, neu pan geir A1 – A9 o'u blaen, maent yn cyfeirio at baragraffau yn achosion y partïon a gynhwysir yn Atodiadau 1 – 9.

### SSA C: Materion Penodol i Safle

100. Mae'r drafodaeth ganlynol yn ymwneud â materion sy'n benodol i'r cynigion fferm wynt unigol yn SSA C. Ymdriniaf â materion a godwyd mewn perthynas â'r cynigion hyn ond y'u hystyrir yn fwy priodol fel effeithiau ardal gyfan neu gyffredinol mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

### Cynllun Ailbweru Llandinam

101. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau, yn amodol ar y ffaith bod yr ymgeisydd yn datrys unrhyw faterion gydag NRW, ei fod yn fodlon bellach nad oes rheswm pam na ddylid caniatáu'r cynnig fferm wynt (fel y'i diwygiwyd) yn ddarostyngedig i amodau [A9, 987]. Nid oes unrhyw faterion heb eu datrys gydag NRW [A8. 2.2]. Felly, mae'r prif ystyriaethau'n codi o achos y Gynghrair a phryderon preswylwyr lleol. Maent yn ymwneud yn bennaf ag effaith weledol y datblygiad arfaethedig a'i effaith ar y dirwedd, a materion cludiant sy'n benodol i'r safle.

*Effeithiau Gweledol ac Effeithiau ar y Dirwedd*

102. Mae pryderon y Gynghrair yn ymwneud ag uchder y tyrbinau arfaethedig, a fyddai, ar uchder o hyd at 121.2m i flaen y llafn, yn uwch o lawer na'r tyrbinau 45.5m presennol, a chwmpas ehangach o lawer rotorau'r tyrbin [A7, 11.20 ac 11.24]. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn sicr yn fwy amlwg o nifer o olygfannau oherwydd eu bod cymaint yn fwy.

103. Mae fferm wynt bresennol P&L yn nodwedd allweddol o Gefnen Llandinam [A9, 149]. Hon yw nodwedd drechaf y dirwedd, gan felly greu 'tirwedd fferm wynt'. Nid yw hyn yn ymestyn dros yr holl dir uchel i'r gorllewin o ddyffryn Ithon, ond mae'n ymestyn dros ardal y fferm wynt ei hun ac am bellter o amgylch y datblygiad presennol. Y tu allan i'r ardal hon, ceir parth lle mae'r tyrbinau presennol yn amlwg ond nid drechaf – 'tirwedd gyda thyrbinau gwynt'.

104. Byddai'r cynllun arfaethedig yn disodli fferm wynt bresennol P&L sydd wedi bodoli ers 1992, ac nad oes cynllun datgomisiynu ar ei chyfer. Er bod y tyrbinau presennol yn hen, maent yn debygol o gael eu cadw am flynyddoedd lawer, a gellid eu cadw am gyfnod amhenodol. Felly, mae'n briodol ystyried presenoldeb y fferm wynt bresennol fel safle 'wrth gefn' realistig [A1, 5; A7, 11.12].

105. Ym marn y Cyngor, oherwydd uchder ychwanegol ac ôl troed rhannol estynedig y cynllun arfaethedig, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynyddu cwmpas y dirwedd fferm wynt. I'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, byddai'n cynyddu i oddeutu 1km y tu hwnt i'r ôl troed estynedig. Fodd bynnag, i'r gorllewin a'r de-ddwyrain, byddai ei chwmpas yn cael ei gyfyngu gan dopograffeg a choedwigaeth [A9, 150].

106. Gan y byddai'r tyrbinau arfaethedig ar lwyfandir yn edrych dros dir is i'r gorllewin, mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r ardal 'tirwedd gyda ffermydd gwynt', lle y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn amlwg ond nid drechaf, yn ymestyn hyd at

5km i'r gorllewin, ond llawer llai i'r gogledd a'r de. Cytunaf â'r asesiad hwnnw, a chytunaf hefyd â barn y Cyngor y byddai effaith gymedrol-sylweddol ar gymeriad y dirwedd yn yr ardal hon [A9, 151].

107. Ym marn y Cyngor, mae trwch y tyrbinau presennol, ynghyd â'u cylchdroeon cyflym (o ganlyniad i ddiamedr bach y rotorau) a'u trefniant rheolaidd yn golygu bod ganddynt olwg brysur ac anhrefnus iawn sy'n dal y llygad. Gan y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael eu gosod ymhellach oddi wrth ei gilydd ac mewn trefniant llai rheolaidd, ac y byddent yn symud yn arafach, mae'n ystyried y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwella golwg y fferm wynt o olygfannau o fewn oddeutu 4km ac y byddai'r newid i'r dirwedd, yn hyn o beth, yn welliant. Cytunaf â'r safbwynt hwnnw [A9, 124, 144 a 151].

108. Y tu hwnt i oddeutu 4km, gellir gweld y tyrbinau P&L presennol, ond nid ydynt yn amlwg. Felly, byddai manteision gweledol y tyrbinau arfaethedig yn cael eu lleihau y tu hwnt i oddeutu 4km. Gan y byddent yn fwy amlwg, ar bellteroedd o'r fath byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael effaith weledol niweidiol at ei gilydd. Fodd bynnag, y tu hwnt i oddeutu 5km, ni fyddent yn amlwg ac ni fyddai'r niwed yn sylweddol. Felly, mae'r Cyngor o'r farn y byddai newid graddol o effeithiau gweledol manteisiol yn agos, gan symud tuag at effeithiau gweledol niweidiol ar oddeutu 4-5km, cyn i'r effeithiau niweidiol ddechrau lleihau unwaith eto wrth fynd ymhellach. Cytunais â'r dadansoddiad hwnnw [A9, 144].

109. Ni fyddai'r patrwm hwn o effeithiau'n bodoli mor eglur i'r dwyrain o'r safle oherwydd y dopograffeg, presenoldeb ardaloedd mawr o goedwigaeth, a llystyfiant arall yn y canol [A9, 145]. Mae diagramau ZTV yn dangos, oherwydd y dopograffeg, na fyddai llawer o'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld o'r rhan fwyaf o Ddyffryn Ithon yn agos i'r afon neu'r A483. Er hynny, ceir ardaloedd mawr o fewn oddeutu 4km i'r dwyrain o'r safle lle y gwelir y tyrbinau presennol, a lle y byddai golygfeydd yn cael eu gwella gan y datblygiad arfaethedig. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys y tir uchel agored ar ben uchaf dyffryn Ithon. Byddai golygfeydd o'r A483 yn cael eu gwella yn y lleoliad hwn. O ran golygfeydd pellach o'r dwyrain y tu hwnt i Ddyffryn Ithon, byddai effaith niweidiol yn amlwg, ond byddai graddau'r niwed yn lleihau gyda phellter.

110. Byddai'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld o rai golygfannau allweddol i'r dwyrain o ddyffryn Ithon, gan gynnwys Cefnffordd Ceri, sy'n llwybr cerdded rhanbarthol hyrwyddedig lle y ceir golygfeydd panoramig trawiadol, ac yn arbennig o'r olygfan 'Dau Dwmpath'. O olygfan Dau Dwmpath, gwelais fod tyrbinau presennol P&L yn nodweddion amlwg ar y gorwel yn y rhan fwyaf o amodau, ond nad ydynt yn lleihau'n sylweddol ar y panorama trawiadol. Derbyniaf y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn fwy amlwg. Er hynny, byddent oddeutu 7km i ffwrdd. Ar y pellter hwnnw, nid ystyriaf y byddent yn lleihau'n sylweddol ar y panorama, nac yn cael effaith niweidiol ddifrifol ar yr olygfa. Dychwelaf at fater yr effeithiau gweledol cronnol gyda datblygiadau eraill maes o law [A7, 11.15 & 11.22].

111. Byddai'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld hefyd o rannau o Ffordd Glyndŵr i'r dwyrain o Ddyffryn Ithon, ac yn agosach o rannau i'r gorllewin o gefnen Llandinam. Fodd bynnag, o'r dwyrain, byddent yn rhy bell i gael effaith weledol niweidiol o bwys. I'r gorllewin, lle mae Ffordd Glyndŵr yn ymdroelli trwy gefn gwlad tonnog rhwng cefnen Llandinam a Llanidloes, byddai llawer o'r llwybr o fewn y parth 4km bras lle y byddai manteision gweledol. Mae diagramau ZTV yn dangos, o ganlyniad i'r dopograffeg, na fyddai'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld o

rannau o'r llwybr ychydig y tu allan i'r parth 4km. Mae'r rhan y tu hwnt i hwnnw, lle y gellid gweld y tyrbinau arfaethedig, yn gymharol fer o gymharu â'r rhan o fewn oddeutu 4km lle y byddai manteision gweledol. Am y rhesymau hyn, deuaf i'r casgliad y byddai'r cydbwysedd effeithiau niweidiol a manteisiol ar olygfeydd o Ffordd Glyndŵr yn niwtral at ei gilydd [A7, 11.16].

112. Roedd fy arolygiadau safle yn cynnwys ymweliad ag ardal o oddeutu 54 erw o goetir yn union islaw ac i'r gorllewin o dyrbinau P&L, a ddefnyddir ar gyfer cyrsiau therapi i blant dan anfantais [88]. Gellir gweld rhai o'r tyrbinau P&L presennol o bellter agos o fewn ac o gwmpas yr ardal hon, ac mae diagramau ZTV yn dangos y byddai sawl un o'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld hefyd. Fodd bynnag, gan y byddai llafnau'r tyrbinau arfaethedig yn cylchdroi'n arafach, rwyf yn fodlon na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn tarfu mwy ar lonyddwch yr ardal yn weledol. Gellir clywed sŵn mecanyddol o'r tyrbinau presennol yn eglur yn yr ardal hon. Nid oes gennyf le i gredu y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn fwy swnllyd. Yn hytrach, fel y cynghorwyd yn TAN 8, bu gostyngiad sylweddol mewn sŵn mecanyddol ers y 1990au cynnar (TAN 8, Atodiad C, para 2.14). Am y rhesymau hyn, ystyriaf na fyddai addasrwydd yr ardal i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â chyrsiau therapi yn cael ei niweidio'n sylweddol.

113. Byddai fferm wynt bresennol P&L yn cael ei hymestyn gan oddeutu 0.25km i'r gogledd-ddwyrain, tuag at aneddiadau Pentre a Mochdre. Nid oes diagramau ffrâm wifren a ffotogyfosodiadau wedi'u darparu ar gyfer golygfannau yn yr ardal hon, ond mae diagramau ZTV yn dangos y byddai'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld o rai adeiladau nad oes ganddynt olygfeydd o dyrbinau presennol P&L [A7,11.18]. Felly, byddai rhywfaint o effeithiau gweledol niweidiol ychwanegol yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r tyrbinau arfaethedig a fyddai i'w gweld, a byddai'r effeithiau niweidiol ychwanegol yn lleol. Byddai'r ongl weld gyfyngedig a'r pellter rhwng anheddau a thyrbinau yn ddigonol i osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar amwynder preswyl.

114. Byddai'r fferm wynt bresennol yn cael ei hymestyn tuag at Ddyffryn Hafren a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Basn Caersws (SV&CBRHL)[A7,11.19]. Byddai sawl un o'r tyrbinau mwyaf gogleddol yn torri'r nenlinell ac yn gallu cael eu gweld weithiau gan bobl sy'n teithio ar hyd yr A470, neu gan bobl yn rhan ogleddol y basn. Fodd bynnag, oherwydd y dopograffeg, ni fyddai'r rhan fwyaf o'r tyrbinau arfaethedig i'w gweld o SV&CBRHL. Oherwydd y pellter, byddai'r tyrbinau a fyddai i'w gweld yn amlwg ond nid yn flaenllaw. Byddai'r cynllun diwygiedig yn cael effaith sylweddol lai o gymharu â'r cynnig gwreiddiol neu gynnig 2011. Am y rhesymau hyn, cytunaf â'r Cyngor fod effeithiau'r datblygiad arfaethedig wedi'u cymedroli gan y newidiadau sydd wedi'u gwneud ac y byddai'r effeithiau gweddilliol yn rhai 'niwed ysgafn' [A9, 142 a 143]. Felly, ni fyddent yn gyfystyr â niwed sylweddol.

115. Mae pryder y Cyngor ynglŷn â'r dirwedd, sef bod grŵp o goed ger y llwybr mynediad lleol y dylid ei gadw, yn fater y gellir ymdrin ag ef ar y cam cynllunio manwl, a chytunir y gellir ei reoli trwy amodau [A9, 982]. Mae'r Cyngor bellach o'r farn, yn ddarostyngedig i amodau cytunedig, fod cynllun ailbweru Llandinam yn dderbyniol o ran yr effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd [A9, 153]. Am y rhesymau a roddwyd uchod, cytunaf â'r safbwynt hwnnw.

*Materion Penodol i Safle yn ymwneud â Thrafnidiaeth*

116. Byddai cydrannau tyrbinau arfaethedig Llandinam yn cael eu cludo o’r de, trwy ddociau Casnewydd a’r A470 / A483. Mae’r hyd a’r uchder mwyaf arfaethedig ar gyfer cerbyd wedi’i lwytho yn golygu y bydd yn amhosibl i gerbydau Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin (AILs) Llandinam fynd trwy Lanfair-ym-Muallt neu o dan bont reilffordd yn Cross Gates heb ymyrraeth. Felly, cynigir adeiladu croesfan ‘pont Bailey’ dros dro ar draws Afon Gwy i osgoi Llanfair-ym-Muallt, a gostwng y ffordd gerbydau o dan bont Cross Gates i alluogi AILs i fynd heibio. Bydd angen caniatâd ychwanegol ar y ddau gynllun.

117. Mae Afon Gwy yn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC). Fodd bynnag, mae NRW o’r farn nad oes rheswm i gredu y bydd effaith sylweddol debygol ar y SAC o ganlyniad i adeiladu a defnyddio’r bont Bailey (SOCG, CPL para 67). Mae Is-adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, fel awdurdod priffyrdd, yn ymwneud yn unig â’r pwyntiau cysylltu lle y byddai’r ffordd gludo dros dro breifat yn cyfarfod â’r gefnffordd, a byddai’r manylion yn fater ar gyfer caniatâd ar wahân yn rhan o ddyluniad manwl y cynllun ar gyfer y gwaith hwnnw. Ni welaf unrhyw reswm pan na fyddai manylion derbyniol ar ddod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn hyderus y gellir dod o hyd i ddatrysiad peiriannu ar gyfer gostwng y ffordd gerbydau o dan bont Cross Gates. Felly, nid oes gan NRW ac Is-adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i’r gwaith sy’n angenrheidiol i alluogi AILs Llandinam i ddefnyddio’r llwybr deheuol [a1, 52; A9, 985; A7, 131 a 132]. Rwyf yn fodlon, felly, nad oes unrhyw resymau amlwg pam na fyddai trafnidiaeth AILs i safle Llandinam yn dderbyniol.

118. Nid oes anghytundeb rhwng y Cyngor a Celtpower y byddai’r llwybr mynediad lleol arfaethedig o’r A483 i safle Llandinam yn dderbyniol o ran priffyrdd, yn amodol ar uwchraddio a rheolaeth draffig yn unol â chynigion a gyflwynwyd. Gallai’r cynllun uwchraddio a rheoli traffig angenrheidiol gael ei sicrhau trwy amodau yn ymwneud â chyflwyno a chymeradwyo manylion terfynol [A7, 11.27; A9, 984].

119. Deuaf i’r casgliad, am y rhesymau hyn, nad oes unrhyw faterion diogelwch priffyrdd neu ymarferoldeb sy’n benodol i’r safle a ddylai bwyso yn erbyn y cynnig. Mae effeithiau traffig adeiladu o ran aflonyddu cyffredinol a niwed economaidd neu gymdeithasol cysylltiedig yn parhau i fod yn bryder i’r Gynghrair a rhai preswylwyr lleol, ond dychwelaf at hyn fel mater y’i hystyrir orau fel effaith gronnol neu gyfunol â chynlluniau eraill.

Materion Eraill Perthnasol:

*Sŵn*

120. Mae asesiad o effeithiau sŵn wedi’i gynnal yn unol â’r canllawiau yn ETSU-R-97. Mae’n dir cyffredin rhwng y Cyngor a Celtpower Ltd bod modd cydymffurfio â lefelau sŵn deilliadol ym mhob lleoliad perthnasol, a bod terfynau sŵn a nodwyd mewn tablau a atodwyd i’r amodau drafft yn cynrychioli ffordd ddigonol a phriodol o reoli lefelau sŵn gweithredol o’r model tyrbin terfynol i’w osod[69]. Mae hefyd yn dir cyffredin rhwng y Cyngor a Celtpower nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai sŵn amledd isel neu ddirgryniad a gludir trwy’r ddaear yn ffactorau niweidiol a fyddai’n bresennol ar y safle hwn [A9, 986]. Dychwelaf at

[69] CPL-SOCG-004A

bryderon cyffredinol preswylwyr lleol ynglŷn ag effeithiau sŵn o dyrbinau gwynt ar iechyd yn yr adran ar faterion sy'n gyffredin â cheisiadau eraill.

121. Ar ôl llofnodi'r Datganiad Tir Cyffredin (SoCG), clywyd tystiolaeth ychwanegol yn yr ymchwiliad ynglŷn â Modylu Osgledau Gormodol (EAM). Am resymau yr ymdriniaf â hwy yn ddiweddarach, ystyriaf y dylid gosod amod mewn perthynas ag EAM [A1, 61-63]. Yn ddarostyngedig i hyn, fodd bynnag, rwyf yn fodlon na fyddai EAM yn arwain at unrhyw effaith niweidiol annerbyniol. Mae'n dir cyffredin rhwng y prif bartïon nad yw sŵn yn ystod datgomisiynu'r tyrbinau presennol, y gwaith adeiladu na datgomisiynu'r prosiect yn y pen draw, yn debygol o achosi effeithiau o bwys.

*Bioamrywiaeth*

122. Mae NRW wedi dod i'r casgliad a chytuno na fyddai unrhyw effeithiau tebygol o bwys ar ystlumod, na niwed tebygol i warchodaeth ffafriol rhywogaethau ystlumod. Ceir rhywfaint o anghytuno rhwng CPL ac NRW o ran a fydd gylfinirod yn cael eu dadleoli gan y cynllun arfaethedig, ond mae'n dir cyffredin y gellir lleihau unrhyw bosibilrwydd o ddadleoli i lefel isaf dderbyniol trwy Gynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP) addas, ac y gellir lliniaru unrhyw effeithiau gweddilliol trwy Gynllun Rheoli Cynefin (HMP) addas. Mae cynlluniau drafft wedi'u cytuno fel modelau addas ar gyfer y fersiynau terfynol, y gellir eu mynnu trwy amodau. Felly, mae NRW wedi tynnu'n ôl ei wrthwynebiad ar sail yr effaith ar ylfinirod sy'n bridio, yn ddarostyngedig i osod amodau. Nid yw NRW wedi codi unrhyw bryderon am effaith y datblygiad arfaethedig ar unrhyw fuddiant adaregol arall, yn amodol ar y BBPP a rhaglen fonitro ôl-adeiladu[70].

123. Mae'r Gynghrair a phreswylwyr lleol wedi mynegi pryder ynglŷn ag effaith y datblygiad arfaethedig ar ystlumod a buddiannau adaregol, yn enwedig o ganlyniad i wrthdrawiadau â llafnau ac effeithiau barotrawma ar ystlumod [A7, 10.15-10.17; 93]. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth sylweddol wedi'i darparu i gefnogi pryderon o'r fath a fyddai'n peri i mi wyro o farn arbenigol NRW ar y materion hyn.

124. Mae pryder wedi'i fynegi hefyd gan breswylwyr lleol ynglŷn ag effaith uwchraddio'r llwybr mynediad lleol ar rywogaethau planhigion a bioamrywiaeth [93]. Fodd bynnag, mae'r cynllun uwchraddio arfaethedig yn cynnwys mesurau i liniaru effeithiau ar gynefinoedd fel defnyddio arwynebu 'meddal' mewn ardaloedd gor-redeg a chadw lleiniau ymyl ffordd a pherthi lle y bo'n bosibl. Mae'r gwaith angenrheidiol wedi bod yn destun asesiad amgylcheddol ac nid oes gan NRW unrhyw wrthwynebiad ar y sail hon, yn ddarostyngedig i amodau. Nid oes gennyf dystiolaeth gadarn a fyddai'n peri i mi anghytuno.

125. Deuaf i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn annhebygol o gael unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar fioamrywiaeth.

*Effeithiau Cymdeithasol ac Economaidd, gan gynnwys Twristiaeth*

126. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn rhwystro'r defnydd o'r llwybrau ceffyl a'r llwybrau troed sy'n galluogi'r cyhoedd i gael mynediad i gefnen Llandinam. Gallai rhai marchogwyr a cherddwyr fod wedi osgoi'r llwybrau hyn yn y gorffennol oherwydd presenoldeb fferm wynt bresennol P&L, a gallai rhai fod yn amharod i'w

[70] CPL-SOCG-001A & 002B

defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu [A7, 11.40]. Fodd bynnag, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwella golwg y fferm wynt. Felly, nid wyf o'r farn ei bod yn debygol y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith negyddol ar ddefnydd o'r llwybrau hyn neu ddigwyddiadau a drefnwyd fel teithiau cerdded neu reidiau elusennol ar draws Cymru. Yn hytrach, gan y byddai golwg y fferm wynt yn cael ei gwella, mae'n debygol y gallai fod effaith gadarnhaol fach yn y tymor canolig i'r tymor hir. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar olygfeydd o Ffordd Glyndŵr na SV&CBRHL. Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn ei bod yn annhebygol y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar dwristiaeth, neu'r cyfraniad a wneir gan dwristiaeth i'r economi leol.

127. Ar y llaw arall, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynrychioli buddsoddiad mawr, a llawer ohono ar waith adeiladu lleol. Byddai cyfleoedd sylweddol yn bodoli ar gyfer busnesau lleol, a byddai swyddi'n cael eu creu yn ystod y camau adeiladu a gweithredu [A9, 980]. Roedd yn amlwg o gyflwyniadau a wnaed o blaid y datblygiadau arfaethedig yn ystod y sesiwn ymchwiliad gyntaf gyda'r nos yn Nolfor, fod swyddi cynnal a chadw medrus, tymor hir o ansawdd da wedi'u creu yn fferm wynt bresennol P&L, a bod pobl ifanc leol yn cael eu cyflogi yno. Byddai'r cynllun ailbweru arfaethedig yn helpu i ddiogelu cyfleoedd o'r fath am hyd oes y datblygiad arfaethedig [126].

128. At ei gilydd, am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai cynllun ailbweru arfaethedig Llandinam yn cael effeithiau cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol.

*Treftadaeth Ddiwylliannol*

129. Mae'n dir cyffredin rhwng y Cyngor a Celtpower fod cael gwared â'r pum tyrbin mwyaf amlwg o ymyl ogledd-orllewinol y datblygiad wedi datrys gwrthwynebiadau PCC ar sail treftadaeth ddiwylliannol, yn ddarostyngedig i amod yn ymwneud â sicrhau rhaglen o waith archaeolegol. Nid oes gan NRW, CPAT na Cadw unrhyw wrthwynebiad ar sail treftadaeth ddiwylliannol[71].

130. Yn ei thystiolaeth ynglŷn â materion treftadaeth ddiwylliannol ar gyfer SSA C, mynegodd y Gynghrair bryder fod y Datganiad Amgylcheddol (ES) ar gyfer cynllun Llandinam yn ddiffygiol gan nad oedd Asesiad o Arwyddocâd Datblygiad ar Dirwedd Hanesyddol (ASIDOHL) ffurfiol wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Hanesyddol (HLCAs) perthnasol[72]. Fodd bynnag, cynlluniwyd y broses ASIDHOL yn benodol i asesu effeithiau ar Dirweddau Hanesyddol cofrestredig Cymru, ac nid HLCAs. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw arweiniad polisi i'r perwyl y dylai gael ei defnyddio i asesu effeithiau ar HLCAs. Felly, nid wyf o'r farn bod yr ES yn ddiffygiol yn hyn o beth.

131. Mae'r Gynghrair a rhai preswylwyr lleol hefyd wedi mynegi pryder bod llawer o Henebion Rhestredig (SAMs) o ddyddiad cynhanesyddol yn SSA C, a allai fod wedi'u lleoli oherwydd eu perthnasoedd gweledol [A7, 9.22 a 10.18 – 10.21]. Cydnabyddir y gwelededd amlwg rhyngddynt, sy'n awgrymu gosodiad grŵp, yn ES Llandinam. Fodd bynnag, gan y byddai tyrbinau arfaethedig Llandinam wedi'u gosod ymhellach oddi wrth ei gilydd na thyrbinau presennol P&L, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar ryngwelededd. Ni fyddai

[71] CPL-SOCG-008
[72] ALL-SSAC-POE-05

unrhyw effeithiau niweidiol uniongyrchol ar SAMs, ac nid wyf o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar leoliad y SAMs yn y cyffiniau.

132. Er bod datganiad terfynol y Gynghrair yn cyfeirio at effaith cynllun Llandinam ar Froneirion, sy'n dŷ rhestredig Gradd II â chyfleusterau cynadledda, mae'r pryderon a godwyd yn ymwneud ag effeithiau ar dwristiaeth a'r economi, yn hytrach nag effeithiau ar ei leoliad [A7, 10.37]. Ar sail y dystiolaeth sydd ger fy mron, ni fyddai cynllun arfaethedig Llandinam yn cael unrhyw effaith ar leoliad unrhyw adeilad rhestredig a fyddai'n niweidiol i'w arwyddocâd neu ddiddordeb hanesyddol arbennig.

133. Am y rhesymau hyn, ystyriaf na fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar asedau treftadaeth ddiwylliannol.

*Mawn*

134. Mae'n dir cyffredin rhwng Celtpower Limited ac NRW, yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â microleoli a Chynllun Rheoli Cynefin, na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fawn[73]. Nid oes gennyf dystiolaeth gadarn i'r gwrthwyneb.

*Hydroleg / Hydroddaeareg*

135. Yn ôl tystiolaeth yr ymgeisydd, nad oes dadl yn ei chylch, ceir craigwely cymharol anathraidd ar yr wyneb neu'n agos i'r wyneb ar draws y safle, sy'n golygu bod llawer o'r glawiad ar draws y safle'n gollwng yn gyflym. Gellid osgoi tarfu ar bocedi bach o fawn dyfnach, sydd â rhywfaint o gapasiti i storio dŵr, trwy ficroleoli. Felly, ni fyddai arwynebau caled a nodweddion anathraidd ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys llwybrau mynediad, yn cael unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar hydroleg neu hydroddaeareg, na pherygl llifogydd. Nid yw'r Cyngor nac NRW yn gwrthwynebu'r cynnig ar y sail hon. Nid yw tystiolaeth y Gynghrair ar hydroleg yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnig Llandinam. Ar sail y dystiolaeth sydd ger fy mron, felly, ni fyddai unrhyw effaith annerbyniol ar hydroleg neu hydroddaeareg.

*Iechyd*

136. Byddai'r pellter rhwng y tyrbinau arfaethedig a'r eiddo preswyl agosaf yn fwy na deg gwaith diamedr y rotor. Felly, mae cysgodion neidiol yn annhebygol iawn o ddigwydd, ac mae'r risg y gallai hyn effeithio ar iechyd yn ddibwys. Fel y nodwyd uchod, dychwelaf at bryderon y Gynghrair ynglŷn ag effeithiau sŵn a dirgryniad fferm wynt ar iechyd yn gyffredinol gan eu bod yn gyffredin i bob un o'r ceisiadau ar gyfer fferm wynt. Am y rhesymau hyn, ystyriaf nad oes unrhyw effeithiau iechyd penodol i'r safle a fyddai'n cyfiawnhau gwrthod y cais.

*Awyrennu*

137. Mae gan nifer o breswylwyr lleol bryderon am ddiogelwch awyrennau sy'n hedfan yn isel yn gyflym iawn mewn ardaloedd lle y ceir tyrbinau gwynt. Mynegwyd pryderon penodol o ran Ardal Hyfforddiant Tactegol Milwrol yng

[73] CPL-SOCG-010

nghanolbarth Cymru a adwaenir fel TTA7. Mae safle Llandinam o fewn TTA7. Mewn ymateb i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan breswylwyr lleol, cyflwynwyd tystiolaeth gerbron yr ymchwiliad gan gyn-beilot awyren gyflym profiadol iawn, a'r Swyddog a oedd gynt yn Rheoli'r Sgwadron Gweithrediadau Hedfan Isel, i'r perwyl bod awdurdodau milwrol yn cymryd gofal mawr i sicrhau bod gweithrediadau hedfan isel yn cael eu cynnal yn ddiogel ac nad yw peilotiaid yn torri rheoliadau hedfan isel [94].

138. Nodaf bryderon y gallai peilotiaid golli rheolaeth ar eu hawyrennau o ganlyniad i rymoedd disgyrchiant eithafol. Yn amlwg, nid yw hedfan yn isel mewn cysylltiad â hyfforddiant tactegol yn gwbl rydd rhag risg gan fod damweiniau trasig achlysurol wedi'u cofnodi. Fodd bynnag, canfûm fod tystiolaeth y cyn-beilot awyren gyflym, ynghyd â'r diffyg gwrthwynebiad gan unrhyw awdurdod awyrennu perthnasol, yn dystiolaeth argyhoeddiadol na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn ychwanegu at y risg gyffredinol mewn modd perthnasol. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar awyrennu.

*Potensial ar gyfer Cysylltu â'r Grid*

139. Mae cynllun Llandinam yn unigryw ymhlith y ceisiadau ar gyfer fferm wynt sydd gerbron yr ymchwiliad oherwydd bod angen ystyried teilyngdod y cais o ran ei gysylltiad â'r grid hefyd. Ystyriaf y teilyngdod hwnnw ar wahân. Fodd bynnag, nid oes rheswm amlwg pam na fyddai cysylltiad â'r grid yn bosibl.

**Llaithddu**

140. Yn amodol ar ganiatáu cynllun Llandinam, mae'r Cyngor o'r farn y byddai grŵp gogleddol cynllun arfaethedig Llaithddu (12 tyrbin) yn dderbyniol yn weledol ac o ran y dirwedd [A9. 181]. Fodd bynnag, mae o'r farn y byddai'r arae ddeheuol (15 tyrbin) yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd. Yn arbennig, mae'n ystyried y byddai niwed annerbyniol i dirwedd Dyffryn Marteg a lleoliad anheddiad Bwlch y Sarnau [A9, 183]. Y brif ystyriaeth, felly, yw effaith y datblygiad arfaethedig yn weledol ac ar y dirwedd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar Ddyffryn Marteg a lleoliad Bwlch y Sarnau.

141. Mae materion eraill penodol i'r safle sy'n achos pryder i'r Gynghrair a phreswylwyr lleol yn cynnwys: hydroleg / hydroddaeareg, gan gynnwys mawn; bywyd gwyllt; treftadaeth ddiwylliannol; defnydd hamdden o hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau cenedlaethol; trafnidiaeth; amwynder preswyl, a'r cysylltiad angenrheidiol â'r grid.

*Effeithiau Gweledol ac Effeithiau ar y Dirwedd*

142. Mae tyst arbenigol y Gynghrair ynglŷn â'r dirwedd yn cydnabod bod cymeriad tirwedd y tir uchel i'r gorllewin o ddyffryn Ithon wedi'i ddylanwadu gan fferm wynt bresennol P&L[74]. Nid yw'r ardal yn ei chyfanrwydd wedi'i newid yn sylfaenol. Fodd bynnag, gan y byddai'r grŵp gogleddol o fewn pellter o oddeutu 1km o safle Llandinam, byddai o fewn ardal sydd eisoes wedi'i nodweddu fel 'tirwedd fferm wynt' [A9, 173]. Byddai maint y dirwedd fferm wynt ychwanegol a

[74] ALL-SSAC-POE4, para 44.

fyddai'n cael ei chreu gan grŵp gogleddol arfaethedig Llandinam yn cael ei flaendorri i'r dwyrain a'r de gan goedwigaeth, a chan safle Llandinam i'r gogledd a'r gorllewin [A9, 174]. Pan asesir y grŵp gogleddol yn erbyn meini prawf Haenau Gweledol a Synhwyraidd, Tirwedd Ddiwylliannol, Agwedd Hanesyddol, ac Agwedd Ddaearegol y LANDMAP perthnasol gan ddefnyddio methodoleg briodol y Canllawiau ar gyfer Asesu Tirwedd ac Effaith Weledol (GLVIA), ni fyddai'r effaith yn fwy nag un niweidiol ysgafn a heb fod yn arwyddocaol, yn bennaf o ganlyniad i bresenoldeb tyrbinau presennol P&L [A9, 177].

143. Gan y byddai'r grŵp gogleddol wedi'i osod yn ôl o gefnen Llandinam ac yn cael ei weld yng nghyd-destun naill ai tyrbinau presennol P&L, neu (os caiff ei ganiatáu a'i adeiladu) gynllun ailbweru arfaethedig Llandinam, byddai cwmpas a graddau ei effaith weledol yn cael eu lleihau'n sylweddol [A9, 158]. Er y byddai tyrbinau arfaethedig Llaithddu o wahanol uchder a math, byddent yn ymddangos fel estyniad o naill ai fferm wynt bresennol P&L neu fferm wynt arfaethedig Llandinam [A9, 154]. Gan fod y safle ar dir uchel ac na fyddai tir yn edrych drosto, ni fyddai'r llwybrau mynediad a'r seilwaith arall sy'n gysylltiedig â'r tyrbinau arfaethedig yn ychwanegu llawer at effaith weledol y datblygiad arfaethedig [A7, 10.29]. Byddai rhywfaint o bentyrru'n digwydd mewn cyfuniad â'r tyrbinau ar safle Llandinam, ac er ei bod yn arfer dylunio da i geisio osgoi effeithiau o'r fath, maent yn anochel i ryw raddau mewn trefniannau mwy. At ei gilydd, ac yn yr amgylchiadau cyfredol, ystyriaf y byddai manteision crynhoi tyrbinau o fewn ardal mor gywasgedig ag sy'n ymarferol bosibl, ac felly lleihau gymaint â phosibl ar ehangder y dirwedd fferm wynt, yn gorbwyso'r pentyrru ychwanegol a fyddai'n digwydd [A7, 10.30].

144. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai rhan ogleddol arfaethedig cynllun arfaethedig Llaithddu yn dderbyniol yn weledol ac o ran y dirwedd.

145. Gan droi i'r grŵp deheuol, byddai hwn yn cael ei wahanu o'r grŵp gogleddol gan fwlch pendant o oddeutu 1.5km, a adawyd yn bennaf am resymau yn ymwneud ag awyrennu. Byddent yn cael eu gosod mewn llinell ogledd-ddeheuol yn fras gan ymestyn am oddeutu 4km ar hyd cefnen sy'n edrych dros Ddyffryn Marteg uchaf a adwaenir fel Brondre Fawr. Byddai'r tyrbin mwyaf deheuol ychydig dros 1km o Fwlch y Sarnau. Byddai'r grŵp deheuol i'w weld yn glir o'r ffordd sirol yn arwain i'r gogledd-ddwyrain o Fwlch y Sarnau i David's Well a Llaithddu. Yn ei fan agosaf, byddai'r tyrbin agosaf oddeutu 300m o'r ffordd.

146. Nodweddir tirwedd cefnen Brondre Fawr gan dir pori ucheldir agored eang. Ceir ardaloedd mawr o goedwigaeth gonifferaidd yn y cyffiniau, ond mae ardal goedwig ar y gefnen ei hun wedi'i thorri'n glir yn ddiweddar. Yn wahanol i safle'r grŵp gogleddol, nid yw cefnen Brondre Fawr ei hun wedi'i nodweddu gan ddatblygiad fferm wynt. Fodd bynnag, mae'n cydymffurfio â'r patrwm o dir uchel gyda llystyfiant rhostir agored a geir mewn sawl safle fferm wynt arall yng nghanolbarth Cymru, a gellir gweld llawer o'r tyrbinau P&L yn eglur o'r gefnen.

147. Mae safle'r grŵp deheuol yn bennaf o fewn rhan ogleddol Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd (VSAA) LANDMAP 115[75], sy'n cynnwys tair llain eang ar

[75] Yn ôl y datganiad terfynol ar gyfer FWLC, mae rhan ddeheuol y safle'n cyd-fynd yn gyffredinol â VSAA 125 [A2, 137]. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ynglŷn â'r dirwedd (FWLC/LAND/APP 1-2/ GOODWIN/SSA) yn dangos y byddai'r tyrbinau arfaethedig o fewn VSAA 115, ar gefnen yn edrych dros VSAA 125 (Lluniad 3532-Ffigur-20).

wahân o dir. Mae'n rhan o lwyfandir ucheldir gwyllt, agored a digysgod. Mae gan y gefnen broffil llyfngrwn. Mae'r llystyfiant yn orchudd rhostir garw lled-naturiol yn bennaf, ynghyd ag ardaloedd caeau. Felly, mae ei gymeriad yn cyd-fynd yn gyffredinol â disgrifiad cryno LANDMAP ar gyfer VSAA 115. Mae ei ansawdd olygfaol wedi'i werthuso'n gymedrol gan ei fod yn ddeniadol yn gyffredinol ond nid yn arbennig. Mae ganddo werthusiad cymedrol yn gyffredinol gan nad yw'n arbennig o nodedig.

148. Mae'r safle'n croesi o Ardal Asesu Cymeriad Tirwedd Powys R17 (Ucheldiroedd Bwlch y Sarnau) yn y de, i ardal M32 (Waun Ddubarthog) i'r gogledd. Asesir bod gan R17 sensitifrwydd canolig i'r math o ddatblygiad a gynigir, ac asesir bod gan M32 sensitifrwydd canolig i isel oherwydd presenoldeb tyrbinau P&L [A2, 131-134].

149. Cynhaliwyd astudiaethau mireinio ar gyfer SSA C gan Arup Associates ar ran PCC yn 2006 a 2008, yn unol â chanllawiau a nodwyd yn TAN 8. Er y byddai'r ddau grŵp o dyrbinau y tu allan i ffiniau 'cyffredinol' TAN 8, byddent o fewn yr ardal fireinio a amlygwyd gan Arup. Er na chafodd ganlyniadau astudiaethau Arup eu mabwysiadu'n ffurfiol, nid oes amheuaeth eu bod yn cynnwys tystiolaeth sy'n ddefnyddiol ac yn berthnasol i asesu derbynioldeb cynigion yn yr ardal. Graddiodd adroddiad 2008 addasrwydd cymharol rannau amrywiol o SSA C ar gyfer datblygiad fferm wynt, gan ystyried effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd. Cafodd safle'r grŵp deheuol arfaethedig sgôr uchel yn yr ymarfer graddio [A2, 111-117; A9, 179]. Nid yw hyn yn syndod i mi, o ystyried bod cymeriad tirwedd y safle ar dir uchel gyda llystyfiant rhostir agored, ac felly'n nodweddiadol o safleoedd ffermydd gwynt eraill yng nghanolbarth Cymru. Ar y llaw arall, fel y cydnabyddir gan FWLC, nid yw asesiadau graddio Arup yn cynrychioli ateb diffiniol nac absoliwt i ba un a fyddai cynllun penodol yn dderbyniol mewn lleoliad penodol [A2, 111].

150. Nid yw PCC yn gwrthwynebu effaith y cynnig ar gymeriad tirwedd y safle apêl ei hun. Gan ei fod yn rhan o ardal rhostir agored uchel gyda choedwigaeth ar raddfa fawr a bod ganddo sensitifrwydd canolig i isel i newid o ran y dirwedd, rwyf o'r farn, mewn egwyddor, y gallai'r safle fod yn addas ar gyfer datblygiad fferm wynt. Fodd bynnag, mae angen ystyried dyluniad a chynllun penodol y datblygiad arfaethedig, a'r effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd a fyddai'n codi mewn ardaloedd eraill ar wahân i'r safle ei hun.

151. Mae FWLC yn derbyn y gallai effeithiau arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd godi o fewn oddeutu 1km o fferm wynt, ac y gallai tyrbinau ddod yn nodwedd drechaf y dirwedd yn yr ardaloedd hyn [A2, 130]. Byddai llethrau Brondre Fawr a llawer o Ddyffryn Marteg uchaf o fewn parth o'r fath. Byddai ardal goedwigaeth ar lethrau Brondre Fawr yn cyfyngu ar ddylanwad y tyrbinau arfaethedig ar hyd rhan ganolog y gefnen, ond mewn mannau eraill nid oes nodweddion a fyddai'n atal yr effeithiau hynny i bellter llai. Mewn ardaloedd i'r gogledd a'r de o'r goedwigaeth, gan y byddai'r tyrbinau arfaethedig ar ran uchaf y gefnen, byddai eu heffaith orbwysol yn ymestyn i oddeutu 1.5km yn fy marn i, fel y cynigiwyd yn achos y Cyngor [A9, 174]. Felly, byddai cryn dipyn o newid i dirwedd llawer o Ddyffryn Marteg uchaf, a fyddai'n cael ei dominyddu gan bresenoldeb y grŵp deheuol arfaethedig.

152. Mae Dyffryn Marteg uchaf o fewn VSAA 125 LANDMAP (Llethrau Coedwig a Chaeau Bwlch y Sarnau), sy'n cynnwys ardal fawr a dwy ardal gyfagos lai o faint

i'r gorllewin o Ddyffryn Ithon. Mae disgrifiad cryno LANDMAP yn ei nodweddu fel ardal o gefnennau, llwyfandir a bryniau ucheldir y mae mwy na 50% ohonynt wedi cael eu gorchuddio gan blanhigfeydd coniffer ar raddfa fwy. Mae ffiniau syth rheolaidd yn ffurfio llinellau caled yn y dirwedd donnog ac mae llethrau tywyll, wedi'u gorchuddio â choed coniffer yn creu tirwedd unffurf a gormesol braidd mewn rhannau. Felly, gwerthusir bod ansawdd golygfaol cyffredinol yr ardal yn gymedrol.

153. Fodd bynnag, nid yw Dyffryn Marteg uchaf yn cydymffurfio â chyffredinolrwydd disgrifiad LANDMAP o VSSA 125. Mae llawer o lawr y dyffryn yn agored ac wedi'i feddiannu gan orchudd tir lled-naturiol ac amaeth. Mae gan y rhan fwyaf o lethrau'r dyffryn dwyreiniol yn arwain at gefnen Brondre Fawr orchudd tir lled-naturiol. Mae ardal fawr o goedwigaeth ar ochr orllewinol y dyffryn yn agos i Fwlch y Sarnau wedi'i thorri'n ddiweddar ac yn dychwelyd i goetir mwy naturiol ac amrywiol. Felly, mae gan y dyffryn nodweddion sy'n golygu ei fod ymhlith y tir mwyaf deniadol o fewn VSAA 125.

154. Yn unol â LANDMAP, y cymeriad bryn ucheldirol cynhenid sylfaenol yw un o nodweddion allweddol VSAA 125 y dylid ei warchod. Byddai presenoldeb y tyrbinau arfaethedig ar y gefnen yn cyflwyno elfennau mawr o wneuthuriad dyn i'r dirwedd ac felly'n niweidiol i'r cymeriad bryn ucheldirol cynhenid sylfaenol. Deuaf i'r casgliad y byddai'r graddau uchel o newid i'r dirwedd sy'n gysylltiedig â'r uchod yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad dyffryn Marteg, ac felly niwed i gymeriad y VSAA yn ei chyfanrwydd.

155. Gan droi at effaith weledol y grŵp deheuol arfaethedig, mae tystiolaeth FWLC ynglŷn â'r dirwedd yn honni y byddai effaith weledol 'fawr' mewn sawl golygfan hyd at 2.2km o'r tyrbin agosaf[76]. Mae datganiad terfynol achos FWLC hefyd yn cydnabod y gall newidiadau gweledol o bwys godi hefyd ar bellter o hyd at oddeutu 1km i bob cyfeiriad, ac eithrio lle mae coedwigaeth fasnachol yn darparu clustogfa [A2, 132]. I arsylwyr tra sensitif, fel pobl sydd allan yn mwynhau cefn gwlad, byddai arwyddocâd cyffredinol yr effaith mewn lleoliadau o'r fath yn fawr a niweidiol. Cydnabyddir effaith fawr gan dyst tirwedd FWLC mewn rhan o Ffordd Glyndŵr o fewn Dyffryn Marteg uchaf yn agos i Fwlch y Sarnau, a fyddai oddeutu 1.8km o'r tyrbin agosaf [tabl A2 ar dud. 45, VP34].

156. Nid yw effeithiau gweledol o olygfannau eraill yn Nyffryn Marteg uchaf wedi'u hasesu'n ffurfiol gan ddefnyddio methodoleg GLVIA. Fodd bynnag, mae'r Astudiaeth ZTV gronnol a baratowyd ar gyfer FWLC[77] yn dangos, ond am nodweddion lleol fel coedlannau bach a pherthi, y byddai modd gweld tyrbinau deheuol arfaethedig Llaithddu o gryn dipyn o lawr y dyffryn i'r gogledd o Fwlch y Sarnau, ar bellter o oddeutu 1km neu lai. Felly, rwyf o'r farn ei bod yn debygol y byddai effeithiau gweledol niweidiol mawr ar lawer o'r rhwydwaith llwybrau troed lleol. Ym mhen gogleddol y dyffryn, lle y byddai'r tyrbinau'n cael eu gwasgaru ar hyd y gefnen ar draws ongl weld eang, ystyriaf ei bod yn debygol y byddai llawer o ddefnyddwyr y rhwydwaith llwybrau troed yn gweld y tyrbinau arfaethedig yn amlwg iawn dros y dyffryn ac yn dominyddu'r olygfa.

157. Mae diagramau ZTV yn dangos, oherwydd bod Bwlch y Sarnau'n swatio mewn plygiant yn y dirwedd, na fyddai unrhyw olygfeydd o'r grŵp deheuol arfaethedig

[76] Rhoddir tabl crynhoi yng nghyflwyniadau terfynol FWLC ar dudalennau 44-45 Atodiad A2.
[77] FWLC/LAND/APP1-2/GOODRUM/SSAC Lluniad Rhif 3532 Ffig. 18]

o lawer o'r anheddiad ei hun. Fodd bynnag, mae VP 34, yn y rhan o Ffordd Glyndŵr yn agos i Fwlch y Sarnau, yn rhoi syniad da o'r olygfa o'r tyrbinau arfaethedig a fyddai i'w gweld o amgylch Bwlch y Sarnau, ac a fyddai'n cael ei phrofi felly gan breswylwyr lleol yn ddyddiol. Fel y nodwyd yn asesiad FWLC, byddai'r effaith weledol yn sylweddol. Ystyriaf y byddai'r tyrbinau pellaf yn y golwg ac y byddai'r agosaf yn amlwg iawn. Fodd bynnag, nid ystyriaf y byddent mor agos, neu y byddent yn meddiannu'r cyfryw ongl weld a fyddai'n golygu y byddent yn dominyddu'r olygfa. Nid wyf ychwaith yn ystyried y byddent yn edrych fel petaent yn gorymdeithio ar hyd y gefnen mewn modd a fyddai'n ymddangos yn fygythiol. Er hynny, byddai'r profiad i breswylwyr lleol yn un o fyw yn agos at ymyl tirwedd fferm wynt. Byddai'r profiad hwn yn cael ei ddwysáu gan agosrwydd y tyrbinau i ffordd Bwlch y Sarnau i Davids Well / Llaithddu, y byddai llawer o breswylwyr yn teithio ar ei hyd yn ddyddiol [A7, 10.27]. Er nad wyf o'r farn y byddai graddau'r effaith yn nesáu at honno a fyddai'n gwneud byw mewn unrhyw annedd yn annerbyniol o annifyr, byddai effaith weledol fawr ar leoliad yr anheddiad.

158. Er fy mod wedi dod i'r casgliad y byddai'r grŵp gogleddol arfaethedig yn dderbyniol yn weledol ac o ran y dirwedd, rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai'r grŵp deheuol arfaethedig yn achosi graddau uchel o newid tirwedd i gymeriad tirwedd Dyffryn Marteg uchaf, ac y byddai hyn yn sylweddol niweidiol. Mae'r ardal hon ymhell y tu allan i ffiniau cyffredinol SSA C a amlygwyd yn TAN 8, a'r tu allan i'r ffiniau SSA C a fireiniwyd yn adroddiadau Arup. Mae'n ardal sydd heb ei dylanwadu llawer gan ddatblygiad fferm wynt presennol. Yn ogystal, rwyf wedi amlygu effeithiau gweledol niweidiol mawr ar olygfeydd o'r rhwydwaith llwybrau troed o fewn Dyffryn Marteg uchaf, a rhan o Ffordd Glyndŵr yn agos i Fwlch y Sarnau. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai effeithiau gweledol niweidiol ar leoliad Bwlch y Sarnau. Er bod cynllun a gosodiad y grŵp deheuol arfaethedig yn ymateb naturiol a rhesymegol i'r tir a dymunoldeb manteisio i'r eithaf ar brifwyntoedd gorllewinol [A2, 153], byddai'r effeithiau hyn yn codi'n bennaf o ganlyniad i'r penderfyniad i osod y tyrbinau mewn llinell ar dir uchaf y gefnen. Felly, maent o ganlyniad i gynllun a gosodiad y grŵp deheuol. Dychwelaf at y cwestiwn ynglŷn ag a ddylid ystyried bod yr effeithiau hyn yn dderbyniol yn fy nghasgliadau cyffredinol, yn sgil ystyriaethau polisi ac ystyriaethau eraill perthnasol.

*Hydroleg, Hydroddaeareg a Mawn*

159. Mae'r Gynghrair wedi darparu adolygiad tyst arbenigol (Dr Rhodda) o gynnwys rhannau hydroleg ES ac SEI Llaithddu mewn tystiolaeth i sesiwn 1 yr ymchwiliad. Mae Dr Rhodda o'r farn nad yw'r wybodaeth yn ddigon manwl ac nad yw'n ddigonol i ddarparu dealltwriaeth briodol o'r effeithiau a'r mesurau sydd eu hangen i'w lliniaru. Mae ei bryderon yn ymwneud â mapio a disgrifio amodau sylfaenol, modelu ac asesu effeithiau posibl, a lefel manylion a dyluniad mesurau lliniaru arfaethedig [A7, 10.9 – 10.12].

160. Datblygwyd cynnwys hydroleg SEI Llaithddu i fynd i'r afael â materion penodol a godwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) (sef NRW bellach). Darparwyd manylion ychwanegol ynglŷn â'r berthynas rhwng gwaith adeiladu a dyfrgyrsiau ynghyd ag asesiadau manylach o effeithiau, a lywiodd fesurau lliniaru arfaethedig. Mae'n dir cyffredin rhwng NRW a'r ymgeisydd y dylai fod yn bosibl erbyn hyn i ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle ac Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) Afon Gwy, yn ddarostyngedig i amodau

addas, sydd wedi'u cytuno. Yn ddarostyngedig i'r amodau hyn, mae'n dir cyffredin y byddai mesurau digonol wedi'u sefydlu i fonitro a diogelu ansawdd y dŵr yn nalgylch Afon Gwy yn ystod y cam adeiladu[78].

161. Mae FWLC wedi darparu nodyn mewn ymateb i bryderon penodol Dr Rhodda, a ysgrifennwyd gan awdur yr SEI hydroleg[79]. Ei achos ef yw bod y wybodaeth allweddol wedi'i chyflwyno yn y wybodaeth amgylcheddol. Rwyf yn fodlon, er y gallai mwy o fapiau a diagramau fod wedi hwyluso dealltwriaeth, mai mater o ffafriaeth o ran cyflwyniad yw hwn. Mae'n ymddangos bod yr holl faterion allweddol, gan gynnwys presenoldeb dyddodion mawn, wedi'u hystyried wrth asesu'r llinell sylfaen a'r effeithiau. Cydnabyddir bod angen darparu mwy o fanylion o ran dyluniad mesurau i liniaru a monitro effeithiau, ond mae'n arferol darparu manylion o'r fath ar gam diweddarach ac mae amodau priodol wedi'u cyflwyno a'u cytuno. Nid yw'r Gynghrair yn amlygu unrhyw effaith niweidiol weddilliol debygol o bwys. Mae NRW yn fodlon erbyn hyn bod digon o wybodaeth i ddarparu dealltwriaeth ddigonol o effeithiau a mesurau lliniaru. Ar sail nodyn FWLC a chan fod NRW wedi adolygu'r wybodaeth amgylcheddol a dod i'r casgliad ei bod yn foddhaol, nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

*Bioamrywiaeth*

162. Mae'n dir cyffredin rhwng FWLC ac NRW bod rhannau o'r safle a'i amgylchoedd yn gartref i barau bridio o ylfinirod, sy'n rhywogaeth flaenoriaethol o safbwynt cadwraeth a warchodir o dan Adran 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006[80]. Yn ystod yr ymchwiliad, diwygiwyd y cais yn ffurfiol yn unol â Dewis 2 a amlinellwyd yn SEI Llaithddu, i weithredu mesurau lliniaru y gofynnwyd amdanynt gan NRW. Cytunir bellach gydag NRW y byddai'r diwygiadau arfaethedig, ochr yn ochr â'r Cynllun Rheoli Cynefin (HMP) drafft a'r Cynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP) drafft, yn darparu mesurau lliniaru penodol i leihau effaith cynnig Llaithddu i lefel dderbyniol o'i hystyried gydag effaith cynlluniau eraill ar y boblogaeth gylfinirod. Cytunir hefyd yn y SoCG na fyddai unrhyw effaith o bwys ar unrhyw rywogaethau eraill a amlygwyd yn yr ES neu'r SEI.

163. Ers i'r SoCG gael ei lofnodi, mae adroddiad wedi'i ddiweddaru ar rywogaethau a warchodir, yn seiliedig ar arolygon a gynhaliwyd yn ystod 2013 / 2014, wedi cadarnhau bod ymgynulliad adar a defnydd o'r safle gan fywyd gwyllt yn debyg iawn i hynny a gofnodwyd pan gynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2006. Yn sgil y wybodaeth ychwanegol hon, mae NRW wedi gofyn am rai amodau ychwanegol ac mae'r rhain wedi'u cytuno. Yn ddarostyngedig i'r amodau hyn ac amodau eraill, nid oes gan NRW unrhyw bryderon eraill ynglŷn ag effaith y cynnig ar fywyd gwyllt [A8, 2.2].

164. Yn yr un modd â chyda chynllun Llandinam, mae'r Gynghrair a sawl preswyliwr lleol wedi mynegi pryderon am effaith y datblygiad arfaethedig ar ystlumod a buddiannau adaregol cyffredinol, ac am effaith gwelliannau angenrheidiol i lwybrau mynediad lleol ar rywogaethau planhigion a bioamrywiaeth [93]. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth dechnegol sylweddol wedi'i darparu i gefnogi pryderon o'r fath. Mae'r amodau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt gan NRW

[78] FWLC-SOGC-004 & 005
[79] FWLC-17
[80] FWLC-SOCG-003

yn rhoi ystyriaeth benodol i risg trawiadau gan adar, yn enwedig adar ysglyfaethus fel barcutiaid a bodaod tinwyn. Byddent yn mynnu bod tyrbinau'n cael eu microleoli er mwyn osgoi agosrwydd i goed a pherthi, i leihau'r risg i ystlumod. Er nad oes tystiolaeth o berygl sylweddol i statws cadwraeth unrhyw rywogaeth ystlumod, byddent hefyd yn sefydlu system fonitro a, phe byddai angen, byddent yn mynnu bod mesurau unioni'n cael eu cymryd. Mae'r adroddiad rhywogaethau gwarchodedig a ddiweddarwyd yn ddiweddar yn dod i'r casgliad nad yw cynefinoedd ar hyd y llwybrau mynediad arfaethedig oddi ar y safle yn addas i gynnal unrhyw Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop na rhywogaethau mamaliaid a warchodir yn genedlaethol. Mae NRW wedi nodi'r casgliad hwn ac nid yw wedi anghytuno ag ef. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn annhebygol o gael effaith niweidiol o bwys ar fioamrywiaeth.

*Treftadaeth Ddiwylliannol*

165. Mae'r ES a'r SEI yn amlygu nifer o asedau treftadaeth perthnasol, yr oedd nifer ohonynt heb eu nodi'n flaenorol. Yr unig heneb ddynodedig o fewn y safle yw cylch carnedd carreg rhestredig a adwaenir fel Fowler's Armchair, sydd o fewn yr amrediad deheuol o dyrbinau. Mae dwy garnedd restredig y mae'n debygol neu'n bosibl eu bod yn dyddio o'r oes efydd, sef MG086 ac MG290, a adwaenir fel carneddau Polyn-y-Groes, oddeutu 100m o ffin ogleddol y safle yn Waun Ddubarthog. Mae'n dir cyffredin rhwng FWLC, Cadw a CPAT na fyddai unrhyw ased archaeolegol neu hanesyddol hysbys yn cael ei effeithio'n uniongyrchol gan y cynigion[81].

166. Daeth dadansoddiad manwl o effeithiau anuniongyrchol ar asedau treftadaeth i'r casgliad y byddai'r cynigion yn effeithio'n sylweddol ar leoliadau Fowler's Armchair a charneddau Polyn-y-Groes[82]. Mae effeithiau llai wedi'u hamlygu ar amrywiaeth o asedau dynodedig eraill. Mae'r rhain hefyd wedi'u hamlygu yn yr ES a'r SEI, ond fe'u haseswyd fel bod yn ysgafn ac felly nid yn sylweddol. Cynhaliwyd asesiad gan ddefnyddio methodoleg ASIDHOL hefyd, er na ofynnwyd amdano ac nid yw'r safle'n rhan o Dirwedd Hanesyddol Restredig [A2, 157].

167. Ail-leolwyd nifer o dyrbinau yn gynnar yn y broses ddylunio i gyflawni parth clustogi o oddeutu 200m o unrhyw ased treftadaeth dynodedig. Er gwaethaf y newidiadau hyn, cododd Cadw a CPAT bryderon a chynhaliwyd cyfarfod ar y safle i drafod y potensial ar gyfer mesurau lliniaru ychwanegol. Cytunwyd symud un tyrbin ymhellach i'r gogledd a darparu mynediad cyhoeddus i Fowler's Armchair trwy gamfa gyda phanel gwybodaeth cyfagos. Wedi hynny, ar y sail hon, cadarnhaodd Cadw nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiad arall i'r cynnig [A2, 158 a 160].

168. Mae bellach yn dir cyffredin rhwng FWLC, Cadw a CPAT na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar unrhyw safleoedd hysbys o arwyddocâd hanesyddol neu archaeolegol, gan gynnwys Fowler's Armchair a charneddau Polyn-y-Groes; y byddai mesurau lliniaru ar ffurf samplu mawn, briff gwylio archaeolegol, a marcio a ffensio unrhyw safleoedd archaeolegol a ganfyddir yn ystod y gwaith adeiladu yn lliniaru unrhyw effeithiau uniongyrchol anrhagweledig

---

81 FWLC-SOCG-007
82 SOCG at para 3.6

yn dderbyniol; ac yn dilyn y newidiadau a amlinellir uchod, y byddai effeithiau anuniongyrchol y cynnig yn dderbyniol.

169. Er hynny, mae'r Gynghrair a rhai preswylwyr lleol yn parhau i bryderu y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael effaith llethol ar leoliad Fowler's Armchair [A7, 10.25]. Ystyriaf y byddai dau o'r tyrbinau arfaethedig mor agos fel y byddent yn cysgodi'r heneb. Fodd bynnag, er bod yr heneb wedi'i nodi'n eglur ar fapiau arolwg ordnans, ni chaniateir i'r cyhoedd fynd i'r safle ei hun ar hyn o bryd. Gwelais fod yr heneb yn aneglur iawn ac yn anodd ei dehongli'n gywir ymhlith cymysgedd o gerrig ar y safle. Er y gallai rhai ymwelwyr posibl ddewis peidio ag ymweld oherwydd y tyrbinau arfaethedig, at ei gilydd, ystyriaf y byddai'r cytundeb i ddarparu mynediad i'r cyhoedd trwy gamfa gyda phanel gwybodaeth gerllaw yn gwella mynediad a dealltwriaeth y cyhoedd, ac yn gorbwyso effaith annymunol y tyrbinau [A2, 161].

170. Mae'r Gynghrair a rhai preswylwyr lleol o'r farn bod Fowler's Armchair yng nghanol trefniant cynhanesyddol o garneddau a henebion eraill a weithredodd fel calendr neu ddyfais ddefodol arall [A7, 10.18-10.21]. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai tyrbinau arfaethedig Llaithddu yn ymyrryd â'r gallu i weld a gwerthfawrogi perthynas Fowler's Armchair â henebion eraill.

171. Am y rhesymau hyn, ystyriaf na fyddai unrhyw niwed sylweddol i arwyddocâd lleoliad Fowler's Armchair, nac unrhyw ased treftadaeth hanesyddol perthnasol arall. Deuaf i'r casgliad y byddai graddau'r niwed i asedau treftadaeth hanesyddol yn llai na sylweddol ac, yn ddarostyngedig i'r amodau cytunedig, na fyddai unrhyw effeithiau annerbyniol.

*Defnydd Hamdden o Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Llwybrau Cenedlaethol*

172. Un o brif bryderon y Gynghrair, grŵp Cymdeithas Geffylau Prydain (BHS) a rhai preswylwyr lleol yw effaith y grŵp deheuol arfaethedig ar Ffordd y Tywysog Llywelyn, sef llwybr marchogol oddeutu 130km o hyd sy'n rhedeg ar draws canolbarth Cymru rhwng Swydd Amwythig ac arfordir Cymru. Fe'i hyrwyddir gan BHS fel rhan o'r rhwydwaith llwybrau ceffylau cenedlaethol ac fe'i defnyddir yn ystod Reidiau ar Draws Cymru. Mae'r llwybr ceffylau'n mynd heibio'n agos iawn i lawer o'r tyrbinau yn y grŵp deheuol arfaethedig – mewn un achos, hyd yn oed o fewn radiws y rotor [A7, 10.33-10.41].

173. Mae SEI 2013 yn nodi pecyn o fesurau lliniaru y cytunwyd arnynt gyda Swyddogion Gwasanaethau Cefn Gwlad PCC [A2, 145-147]. Cadarnhawyd bod y tir y mae ei angen i ddarparu llwybr caniataol arall o bellter o fwy na 200m o'r tyrbinau arfaethedig yn dod o fewn perchenogaeth tirfeddianwyr cyfranogol[83]. Felly, gellid sicrhau llwybr caniataol arall trwy amod. Gellid sicrhau corlan a chysylltiad ychwanegol â'r rhwydwaith llwybrau ceffylau hefyd. Yn ystod y gwaith adeiladu, gallai unrhyw lwybrau ceffylau a ddefnyddir fel llwybr mynediad gael eu lledu i ganiatáu ar gyfer gosod ffens o amgylch cerbydau a gellid cyflawni mesurau eraill i sicrhau diogelwch. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymrwymiad A106 a gwblhawyd wedi cael ei gyflwyno o ran cyfraniad ariannol tuag at wella'r rhwydwaith llwybrau tramwy cyhoeddus y cyfeirir ato yn yr SEI. Er y cytunwyd ar delerau cronfa fynediad gyda PCC, yn fy marn i, nid yw hyn yn ystyriaeth o bwys felly y dylid rhoi pwysigrwydd arwyddocaol iddo.

[83] FWLC-011

174. Cafodd y defnydd o'r llwybr ceffylau ei fonitro ar gyfer yr ymgeiswyr am gyfnod o oddeutu 5 wythnos yn ystod 2013 [A2, 144]. Nodwyd marchogion ar 3 diwrnod yn unig. Fodd bynnag, nid yw'n eglur a oedd hwn yn gyfnod cynrychiadol, ac nid yw'n ystyried defnydd yn ystod reidiau a drefnwyd. Ar y llaw arall, nid oes tystiolaeth gadarn i gefnogi'r honiad bod y llwybr ceffylau'n cael llawer o ddefnydd, yn enwedig gan farchogion iau a dibrofiad. At ei gilydd, mae'n ymddangos bod y lefel defnydd bresennol gan farchogion yn ysgafn i gymedrol, gyda diwrnodau prysur achlysurol yn gysylltiedig â reidiau a drefnwyd.

175. Mae fideo a wnaed ar gyfer Cymdeithas Geffylau Prydain a chwaraewyd yn yr ymchwiliad yn dangos bod y llwybrau mynediad sy'n gysylltiedig â fferm wynt yn yr Alban wedi'u defnyddio'n ddiogel ac yn llwyddiannus gan geffylau a marchogion sydd wedi dod i arfer â thyrbinau. Fodd bynnag, yn ôl tystiolaeth lafar a roddwyd i'r ymchwiliad, yn dibynnu ar eu hanian, mae ceffylau'n gallu ymateb yn wahanol iawn i dyrbinau gwynt. Felly, fe allai fod yn beryglus marchogaeth rhai ceffylau wrth ymyl y tyrbinau arfaethedig. Ni fyddai cyfleusterau i alluogi ceffylau i ymgyfarwyddo â'r tyrbinau o fudd i ddefnyddwyr achlysurol. Felly, gallai cyfranogiad mewn reidiau a drefnwyd leihau am resymau diogelwch. Hyd yn oed ar hyd y llwybr caniataol arfaethedig, byddai marchogion yn mynd heibio i hyd y grŵp deheuol arfaethedig trwy dirwedd a ddominyddir gan dyrbinau gwynt. Mae'n debygol y byddai cyfran o farchogion sy'n ceisio mwynhau cefn gwlad o'r farn bod hyn yn annymunol.

176. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai niwed i ddefnydd hamdden o'r llwybr ceffylau wrth ymyl y grŵp deheuol arfaethedig. Gallai hyn effeithio ar farchogion unigol a reidiau a drefnwyd. Fodd bynnag, yng nghyd-destun defnydd o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ehangach a llwybrau ceffylau cenedlaethol yn eu cyfanrwydd, byddai graddau'r niwed yn fach.

177. Rwyf wedi nodi uchod y byddai effaith weledol niweidiol fawr ar ran o Ffordd Glyndŵr oddeutu 1.8km o'r tyrbin agosaf. Fodd bynnag, byddai'r effaith hon wedi'i chyfyngu i ran fer rhwng Bwlch y Sarnau ac ardal o goedwigaeth. O fewn y goedwigaeth, byddai golygfeydd o'r tyrbinau wedi'u cuddio i raddau helaeth gan gymysgedd o goed collddail a chonwydd. Mae dyfodol y goedwigaeth yn aneglur, ond hyd yn oed pe byddai'n cael ei thorri'n glir yn ystod oes y fferm wynt arfaethedig, byddai hyd y rhan o Ffordd Glyndŵr lle y byddai effeithiau mawr yn cael eu profi wedi'i gyfyngu i oddeutu 1-2km. Dychwelaf at a fyddai'r effaith ar Ffordd Glyndŵr a'r rhwydwaith llwybrau troed cyfan yn arwyddocaol yng nghyd-destun y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ehangach wrth ystyried effeithiau cronnol ar dwristiaeth.

*Trafnidiaeth Leol*

178. O ran y llwybrau mynediad lleol o'r A483, mae bellach yn dir cyffredin rhwng y Cyngor a'r ymgeisydd bod y gwaith a amlinellwyd yn SEI mis Chwefror 2013 ac SEI mis Mehefin 2013 yn bodloni gofynion PCC fel awdurdod priffyrdd lleol[84]. Yn ddarostyngedig i amodau yn ymwneud â manylion addasiadau angenrheidiol, nid oes gan y Cyngor nac NRW unrhyw wrthwynebiadau eraill ar sail bioamrywiaeth neu gymeriad a golwg mewn perthynas â'r llwybr mynediad lleol [A8, 2.2].

[84] FWLC-HIGHWAYS-SOCG-SSA-C

179. Byddai'r gwaith angenrheidiol i greu cilfannau a mwy o arwynebau caled, a'r colledion cysylltiedig o ran argloddiau a pherthi, yn debyg o ran natur i'r rhai hynny y byddai eu hangen i ddarparu mynediad i safle Llandinam, er rhywfaint yn llai helaeth. Byddai cilfannau a mannau gor-redeg ar hyd y ffyrdd mynediad yn cael eu harwynebu â 'grasscrete' neu atgyfnerthiad tebyg. Ychydig iawn o goed, lleiniau ymyl ffordd, argloddiau a pherthi fyddai'n cael eu heffeithio a byddent yn cael eu hadfer trwy gyfrwng amodau cytunedig. Gan y byddai llystyfiant yn aildyfu, ni fyddai unrhyw niwed sylweddol tymor canolig na thymor hir i gyfanrwydd gweledol y llwybrau mynediad lleol na chynefin bywyd gwyllt. Er y nodaf y pryderon a godwyd gan y Gynghrair [A7, 10.44], ystyriaf, am y rhesymau hyn, y byddai'r cynigion mynediad lleol yn dderbyniol o safbwynt priffyrdd, golwg ac ecoleg.

180. Gan droi at agweddau penodol i safle yn ymwneud â'r llwybr darparu arfaethedig ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AILs), mae'r Gynghrair hefyd wedi tynnu sylw at yr hyn y mae'n credu sy'n anghysondebau rhwng gwahanol fersiynau o Gynllun Rheoli Traffig Llaithddu a thirfesuriadau o bont reilffordd Cross Gates, sy'n peri iddi amau y bydd FWLC yn gallu cludo ei gydrannau tyrbin heb waith pont neu briffordd cysylltiedig [A7, 10.42 a 10.43]. Mae'r dadansoddiadau a'r teithiau prawf a gynhaliwyd yn dangos bod y cliriad lleiaf presennol o dan bont Cross Gates oddeutu 150mm. Felly, ni fyddai llawer o le am gamgymeriadau. Fodd bynnag, o ystyried profiad ac arbenigedd ymgynghorwyr yr ymgeisydd, mae camgymeriad o'r fath yn annhebygol. Er hynny, os canfyddir na all cydrannau fynd o dan y bont pan gaiff yr union gydrannau eu symud gyntaf, yr achos gwaethaf yw y byddai oedi i'r gwaith adeiladu tra bod caniatâd ychwanegol yn cael ei geisio ac y byddai rhywfaint o aflonyddu tra bod gwaith yn cael ei wneud. Ni allaf weld unrhyw reswm amlwg pam na fyddai'n bosibl cludo Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin i safle Llaithddu gan ddefnyddio'r llwybr arfaethedig.

*Amwynder Preswyl / Iechyd*

181. Mae'r Gynghrair yn pryderu y byddai 7 eiddo preswyl o fewn oddeutu 1km o dyrbinau arfaethedig Llaithddu [A7, 10.46]. Mae ystyriaethau ariannol yn ymwneud â rhai o'r rhain, ond er budd y cyhoedd yn y tymor hir, ystyriaf y dylai pawb gael eu hamddiffyn rhag agosrwydd i dyrbinau arfaethedig a fyddai'n gwneud amodau byw yn yr eiddo hynny mor annifyr fel y byddent yn fannau annymunol i fyw ynddynt. Nid yw'r Cyngor wedi codi unrhyw bryder yn hyn o beth ac felly nid oes unrhyw fframiau gwifren na ffotogyfosodiadau wedi'u paratoi ar gyfer unrhyw eiddo unigol neu grŵp o eiddo. Fodd bynnag, gallaf asesu'r effaith debygol o'r cynlluniau a manylion eraill a geir yn yr ES a'r SEI. Yn fy marn i, byddai'r pellter gwahanu o'r fath fel na fyddai unrhyw effeithiau gweledol annerbyniol yn debygol o ddigwydd mewn unrhyw eiddo preswyl.

*Potensial ar gyfer Cysylltu â'r Grid*

182. Mae cynnig a adwaenir fel Prosiect Cysylltu Canolbarth Cymru (MWCP) yn cael ei ddatblygu, a fyddai'n galluogi cynllun arfaethedig Llaithddu i gael ei gysylltu â'r grid trwy linell 132kV a fyddai'n mynd ar hyd llwybr i'r gorllewin cyn troi i'r gogledd i foth newidydd 132kV / 400kV ar rostir ucheldirol ger Cefn Coch. Byddai cysylltiadau â nifer o ffermydd gwynt arfaethedig yn cael eu dwyn ynghyd yn y lleoliad hwn. Yna byddai llinell 400kV newydd yn rhedeg i'r gogledd-orllewin yn fras i Swydd Amwythig.

183. Dewis arall technegol ymarferol a amlygwyd yn ystod yr ymchwiliad fyddai cysylltu is-orsaf leol newydd ar 132kV a fyddai'n cael ei rhannu gyda chynllun ailbweru Llandinam. Yna gallai llinell 132kV 'Polyn Pren Gwaith Trwm' (HDWP) a rennir redeg i is-orsaf y Trallwng ac ymlaen i Groesoswallt. Byddai'n rhaid uwchraddio llinell arfaethedig Llandinam, byddai angen offer ychwanegol yn y Trallwng, a byddai angen ailadeiladu llinell bresennol y Trallwng i Groesoswallt. Pe byddai unrhyw gynllun SSA C arall yn cael ei adeiladu, ni fyddai gan linell HDWP 132kV unigol ddigon o gapasiti, a byddai angen datrysiadau a allai fod yn fwy ymwthiol [A2, 21-24].

184. Er bod PCC wedi mynegi y byddai ganddo wrthwynebiadau cryf i'r foth a'r llinell 400kV arfaethedig [A9, 890-895], mae o'r farn y gallai llinell 132kV wedi'i huwchraddio i Groesoswallt trwy'r Trallwng, gyda chapasiti mwyaf o oddeutu 160MW, fod yn dderbyniol mewn egwyddor [A9, 854]. Byddai gan linell o'r fath y capasiti i wasanaethu cynllun Llandinam a naill ai cynnig Llaithddu neu Lanbadarn Fynydd, ond nid y ddau.

185. Deuaf i'r casgliad nad oes unrhyw resymau amlwg pam na ellid cael y caniatâd angenrheidiol ar gyfer cysylltiad â'r grid mewn un ffurf neu'i gilydd. Dychwelaf i ystyried effeithiau anuniongyrchol, eilaidd a chronnol tebygol y cysylltiad angenrheidiol â'r grid yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

*Twristiaeth a'r Economi*

186. Rwyf wedi amlygu effeithiau niweidiol ar ddefnydd hamdden o hawliau tramwy cyhoeddus. Mae cerddwyr a marchogion yn sicr yn cyfrannu at dwristiaeth yn yr ardal ac felly at yr economi leol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, bydd twristiaid yn ymweld ag ardal eang a sawl atyniad yn ystod eu harhosiad mewn ardal. Felly, ystyriaf yr effeithiau ar dwristiaeth mewn cyfuniad ag effeithiau cynigion eraill yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

187. Mae cynllun Llaithddu yn wahanol i'r cynigion eraill sydd gerbron yr ymchwiliad yn yr ystyr ei fod wedi'i ddatblygu a'i hyrwyddo trwy gydweithrediad rhwng sawl ffermwr mynydd lleol, yn hytrach na chan gwmni ynni mawr. Trwy wneud hynny, eu nod yw sicrhau budd cymunedol arwyddocaol, a dychwelyd dros hanner gwerth y prosiect i'r economi leol [A2, 4]. Cynigir creu cronfa gymunedol, a byddai rhai tirfeddianwyr lleol nad ydynt yn cyfranogi, gan gynnwys unigolyn sy'n byw mewn tŷ heb drydan prif gyflenwad, yn elwa. Fodd bynnag, yn absenoldeb gwarant y byddai'r gronfa gymunedol arfaethedig yn cael ei defnyddio i liniaru effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol y cynllun arfaethedig, ac felly ymwneud ag ef yn deg ac yn rhesymol, mae PCC o'r farn na all ystyried y gronfa. Mae FWLC yn derbyn nad yw buddiannau ariannol i'r gymuned ar ffurf cronfa ymddiriedolaeth yn fuddiannau y caiff y penderfynwr eu hystyried yn gyfreithlon.

188. Nid wyf o'r farn bod cynllun Llaithddu, nac yn wir unrhyw un arall o'r cynlluniau sydd gerbron yr ymchwiliad, yn debyg i 'ddwyn oddi ar y tlawd a rhoi i'r cyfoethog trwy gymorthdaliadau', fel yr honnwyd gan Fforwm Llywodraeth Leol Gogledd Trefaldwyn [82]. Fodd bynnag, cytunaf â PCC ac FWLC nad yw'r gronfa gymunedol arfaethedig yn ffactor perthnasol y dylid ei ystyried.

189. Ceir cefnogaeth bolisi i'r syniad y dylai cynlluniau fferm wynt ymgysylltu â'u cymuned leol, ei chefnogi a meithrin perthynas dda â hi. Fodd bynnag, o ran effeithiau amgylcheddol, nid oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng cynlluniau

cymunedol a chynigion eraill. Felly, dylai unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol yn sgil cynllun arfaethedig Llaithddu gael eu hystyried yn yr un modd â chynlluniau eraill.

**Llanbadarn Fynydd**

190. Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig yn bennaf ar sail yr effaith weledol a'r effaith ar y dirwedd. Felly, y brif ystyriaeth yw effaith weledol y datblygiad arfaethedig a'i effaith ar y dirwedd.

191. Mae'r Gynghrair a phreswylwyr lleol yn pryderu am faterion eraill hefyd gan gynnwys: treftadaeth ddiwylliannol; effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat a dyfrgyrsiau; effeithiau yn ymwneud â'r cynigion mynediad lleol; sŵn; ac effeithiau economaidd-gymdeithasol a thwristiaeth.

*Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol*

192. Mae'r Cyngor o'r farn bod cyd-destun tirwedd y safle yn fwy amrywiol, yn gyfoethocach, ac ar raddfa lai na'r rhostir uwch i'r gorllewin o Ddyffryn Ithon, ac felly bod ganddo nodweddion sy'n ei wneud yn fwy sensitif i newid [A9, 196 a 197]. Felly, mae o'r farn y byddai cynnig Llanbadarn Fynydd yn achosi niwed sylweddol i'r dirwedd. Yn ogystal, mae'n pryderu y byddai cynllun Llanbadarn Fynydd yn cael ei leoli mewn ardal tirwedd sydd heb ei heffeithio gan ffermydd wynt i raddau helaeth ar hyn o bryd. Felly, mae hefyd o'r farn y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwneud y dirwedd yn llai sensitif i ddatblygiad fferm wynt ychwanegol. Mae'n pryderu, yn debyg i'r ffordd y mae Llandinam a grŵp gogleddol Llaithddu yn 'elwa' ar bresenoldeb tyrbinau P&L, y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwneud datblygiad fferm wynt ychwanegol yn rhan ddwyreiniol SSA C bron yn anochel [A9, 216-237].

193. Dadl yr ymgeisydd yw bod y cynllun wedi'i ddylunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod y newid sylweddol i'r dirwedd a fyddai'n codi yn cael ei ganolbwyntio mewn ardal lle y ceir sensitifrwydd tirwedd cymharol isel, a'i fod felly'n cydymffurfio â'r meini prawf a amlinellir yn TAN 8 [A3, 3.23].

194. Mae safle Llanbadarn Fynydd mewn ardal sydd dros 300m uwchben datwm ordnans o ran uchder, ac sy'n llwyfandir yn bennaf. Mae'r tir wedi'i orchuddio gan laswelltir wedi'i wella a'i led-wella yn bennaf sydd wedi'i rannu'n gaeau rheolaidd canolig i fawr, a amgaeir gan ffensys post a gwifren yn gyffredinol. Mae ganddo olwg lyfnach a mwy gwyrddlas na rhostir i'r de a'r dwyrain a'r tir uwch i'r gorllewin o Ddyffryn Ithon [A3, 3.28]. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng glaswelltir wedi'i led-wella a rhostir braidd yn niwlog, ac mae gan ran ogleddol y safle nodweddion rhyngbarthol. Dyrennir y safle gan ddyffryn cul llethrog a adwaenir fel Cwm Nant Ddu, ac mae dwy ffordd sirol yn mynd ar ei draws sy'n gwasanaethu cymuned wasgaredig o breswylwyr lleol.

195. Mae tystion tirwedd PCC ac LBF yn cytuno na fyddai effaith y datblygiad arfaethedig ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Powys (PLCAs) yn ychwanegu at asesiadau yn seiliedig ar LANDMAP gan fod y PLCAs yn deillio o'r data hwnnw. Nid oes gennyf reswm i anghytuno, ac felly cyfeiriaf at asesiadau yn erbyn LANDMAP yn unig [A3, 3.77].

196. Mae'r safle'n mynd o boptu i sawl Ardal Agwedd Weledol a Synhwyraidd (VSAA) LANDMAP. Mae'r rhan ogleddol o fewn RDNRVS111 – *Rhostir Ucheldirol, Bryniau Ceri*. Nodweddir hyn yn gyffredinol fel rhostir ucheldirol, ond fel y nodais

uchod, mae'r rhan o RDNRVS111 o fewn y safle wedi bod yn destun gwelliant amaethyddol ac mae ganddo nodweddion rhyngbarthol ag ardal RDNRVS122. Byddai pedwar o'r tyrbinau arfaethedig yn cael eu lleoli yn yr ardal hon.

197. Byddai'r rhan fwyaf o'r tyrbinau arfaethedig yn cael eu lleoli o fewn RDNRVS122 – *Glaswelltir wedi'i Wella i'r De o Fryniau Ceri*. Mae LANDMAP yn disgrifio effaith y glaswelltir wedi'i wella a'r ffensio fel bod yn annaturiol ac yn anneniadol yn weledol. Felly, fe'i disgrifir fel bod o ansawdd golygfaol isel gyda gwerth cymedrol i isel. Mae rhywbeth yn debyg i ran ryngbarthol RDNRVS111 i'r gogledd, er yn fwy gwyrddlas.

198. Mae gweddill y safle o fewn RDNRVS128 – *Dyffrynnoedd Ucheldirol i'r De o Fryniau Ceri*. Gan ei bod yn dilyn y dyffrynnoedd afonydd, mae'r VSAA hon yn ardal helaeth ond braidd yn llinellol a throellog. Mae'n ymestyn i Gwm Nant Ddu ac yn cynnwys Dyffryn Gwenlas, sy'n ffinio'r safle i'r de. Mae gan Gwm Nant Ddu lethrau coediog serth. Byddai dau o'r tyrbinau arfaethedig o fewn y ffiniau sy'n diffinio RDNRVS128, ond nid oes gwahaniaeth 'llinell bendant' ar y tir rhwng y ddwy ardal a byddai'r tyrbinau arfaethedig wedi'u lleoli ar dir uchel – ychydig yn ôl oddi wrth doriad y llethr, yn hytrach nag yn y dyffryn ei hun.

199. Mae'r adroddiadau Arup yr wyf wedi cyfeirio atynt mewn perthynas â chynllun Llaithddu yn ymdrin ag ardal safle Llanbadarn Fynydd hefyd [A3, 3.14]. Mae'r safle o fewn pyrth y nodir bod ganddynt sensitifrwydd tirwedd canolig i isel i'r math hwn o ddatblygiad, a chynhwyswyd y safle o fewn ffiniau argymelledig SSA C a fireiniwyd. O'u graddio yn erbyn effeithiau ar Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, aneddiadau, hawliau tramwy cyhoeddus a Llwybrau Cenedlaethol, cafodd y pyrth hyn sgorau uchel [A3, 3.16]. Fodd bynnag, fel y nodais mewn perthynas â chynllun Llaithddu, nid yw asesiadau graddio Arup yn cynrychioli ateb diffiniol nac absoliwt i ba un a fyddai cynllun penodol yn dderbyniol mewn lleoliad penodol.

200. Mae'r ymgeisydd yn derbyn y gallai newid sylweddol i'r dirwedd, gan greu tirwedd 'fferm wynt' lle y byddai tyrbinau'n nodwedd amlycaf a chymeriad allweddol, godi mewn lleoliadau o fewn oddeutu 1.5km o'r tyrbinau arfaethedig [A3, 3.40]. Yn amgylchiadau penodol y cynnig hwn, mae'r Cyngor o'r farn y byddai hyn yn cael ei gyfyngu i'r gorllewin i oddeutu 1km gan lethrau coediog serth dyffryn Ithon. I'r de a'r de-ddwyrain, mae o'r farn y byddai'n ymestyn i oddeutu 1.5km, gan gynnwys llawer o Ddyffryn Gwenlas. I'r dwyrain, mae o'r farn y byddai'n ymestyn ychydig ymhellach, i oddeutu 2km, ac i'r gogledd y byddai wedi'i gyfyngu i oddeutu 1km gan dopograffeg [A9, 199 a 200].

201. Bydd y pwynt newid o dirwedd 'fferm wynt' i 'dirwedd gyda ffermydd gwynt' bob amser yn fater o farn ac, fel y nodais uchod, ceir rhywfaint o anghytuno rhwng PCC a'r ymgeisydd ynglŷn â hyn. Yn fy marn i, gallai asesiad y Cyngor o 1km i'r gogledd fod braidd yn isel gan fod cysylltiad gweledol cymharol gryf rhwng rhan ogleddol y safle a'r ardal i'r gogledd, a bod y newid rhwng cymeriadau tirwedd yr ardaloedd hyn yn raddol. Ni welaf unrhyw amgylchiadau penodol a fyddai'n ymestyn graddau uchel yr effaith ymhell y tu hwnt i oddeutu 1.5km i'r dwyrain. Cytunaf, fodd bynnag, y byddai'r ardal a fyddai'n dod yn 'dirwedd fferm wynt' yn cael ei therfynu gan Ddyffryn Ithon i'r dwyrain, ac y byddai'n ymestyn i oddeutu 1.5km i'r de a'r de-ddwyrain. Felly, byddai'n cynnwys llawer o ddyffryn Gwenlas, yn ogystal â Chwm Nant Ddu.

202. Mae'r graddau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn creu 'tirwedd gyda ffermydd gwynt' yn fater o farn hefyd ac ni cheir cytundeb ynglŷn ag ef. Fodd bynnag, ystyriaf y byddai hyn yn cynnwys llawer o'r ardal lwyfandir. Byddai hyn yn cael ei ffinio i'r gorllewin a'r de-orllewin gan Ddyffryn Ithon, i'r dwyrain gan Ddyffryn Tefeidiad, i'r de-ddwyrain gan Foel Wilym a Bryn Warren, ac i'r gogledd gan y Glog. I'r gogledd-orllewin, ym mlaen dyffryn Ithon, byddai'r effaith yn cael ei hymestyn i'r gorllewin o'r A483.

203. Ar wahân i safbwyntiau ynglŷn ag union ehangder y tirweddau a fyddai'n cael eu heffeithio yn y modd hwn, cytunir na fyddai tirwedd ddynodedig Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB) Bryniau Swydd Amwythig yn cael ei heffeithio'n uniongyrchol gan ddatblygiad arfaethedig Llanbadarn Fynydd ar ei ben ei hun [A9, 200]. Fodd bynnag, byddai'r datblygiad arfaethedig yn creu ardal sylweddol o dirwedd 'fferm wynt', ac ardal hyd yn oed yn fwy sylweddol o 'dirwedd gyda ffermydd gwynt' mewn ardal lle y gellir gweld ffermydd gwynt yn y pellter, ond nad yw wedi'i nodweddu ar hyn o bryd gan ddatblygiad fferm wynt.

204. Mae LANDMAP yn disgrifio tirwedd RDNRVS122 fel bod yn 'anghytûn', gan fod y rheolaeth bresennol yn rhy ddwys yn gyffredinol. Mae gan ran ryngbarthol RDNRVS111 nodweddion tebyg. Mae presenoldeb ffiniau caeau, glaswelltir wedi'i wella, ffermydd a bythynnod, llwybrau fferm ac ati yn gwneud llawer o'r safle'n llai cofiadwy a nodedig na'r amgylchoedd mwy gwyllt, garw a dramatig [A3, 3.30 a 3.31; A9, 197]. Yng nghyd-destun rhostir ucheldirol amgylchynol, mae felly'n ddealladwy bod RDNRVS122 yn cael ei asesu yn LANDMAP fel bod o ansawdd golygfaol isel gyda gwerth cymedrol i isel, a bod y safle o fewn ardal a nodwyd yn adroddiadau Arup fel bod â sensitifrwydd tirwedd canolig i isel i'r math hwn o ddatblygiad.

205. Fodd bynnag, mae gan y dirwedd o fewn y safle ac yn agos iawn iddo ei nodweddion ei hun. Mae'n dirwedd amaethyddol ddeniadol gyda datblygiad preswyl gwasgaredig, wedi'i britho â blociau coedwigaeth cymedrol, ac mae Cwm Nant Ddu cul a choediog yn torri trwyddi. Mae ei chaeau, ffensys a pherthi, ochrau coediog y dyffryn, ffyrdd gwledig, a ffermydd a bythynnod yn rhoi cymeriad cymharol raen mân, graddfa ddynol, a sefydlog iddi. Ystyriaf na fyddai tyrbinau gwynt o'r maint a'r raddfa a gynigir yn cydweddu â graen mân y dirwedd hon. Yn hytrach, byddai eu maint a'u graddfa'n cael eu pwysleisio gan y cyferbyniad â graen mân a graddfa ddynol y nodweddion presennol naturiol ac o wneuthuriad dyn, gan felly gynyddu goruchafiaeth y tyrbinau a'u heffaith ar y dirwedd. Er bod y dirwedd wedi newid yn sgil dwysâd amaethyddol, nid yw hyn yn golygu ei bod yn addas ar gyfer elfennau ychwanegol o wneuthuriad dyn o'r raddfa a gynigir. Yn hytrach, byddai'r tyrbinau arfaethedig yn adeileddau mawr iawn ac yn anghydnaws â'r dirwedd amaethyddol, sefydlog. Er y nodaf adroddiadau Arup, ystyriaf am y rhesymau hyn fod y safle o fewn ardal sydd o sensitifrwydd uchel i dyrbinau o'r raddfa a gynigir, ac y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar yr agweddau hynny ar ei chymeriad sy'n ei gwneud yn nodedig ac yn atyniadol. Am y rhesymau hyn, nid wyf yn cytuno â dadl yr ymgeisydd y byddai'r cynnig yn dderbyniol gan y byddai'r newid sylweddol i'r dirwedd a fyddai'n codi yn cael ei ganolbwyntio mewn ardal o sensitifrwydd tirwedd cymharol isel. Ystyriaf a fyddai'r cynnig yn cydymffurfio â pholisi cynllunio perthnasol yn fy nghasgliadau cyffredinol.

206. Pe byddai'n cael ei adeiladu, byddai'r datblygiad arfaethedig yn newid y llinell sylfaen ar gyfer asesu'r effeithiau ar y dirwedd o ran cynigion mewn ardaloedd

amgylchynol. Mae'n rhaid i bob cais gael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun, yn unol â pholisi cynllunio ac ystyriaethau perthnasol eraill, ar yr adeg briodol. Fodd bynnag, gan y byddai'r cydbwysedd rhwng niwed ac angen yn cael ei addasu gan y newid i'r llinell sylfaen ar gyfer asesiadau tirwedd, byddai presenoldeb y fferm wynt arfaethedig yn gwneud ceisiadau eraill yn anos i'w gwrthwynebu. Yn fy marn i, mae hyn yn ystyriaeth berthnasol, yn enwedig o ran polisïau Llywodraeth Cymru a chapasiti amgylcheddol SSA C yn ei chyfanrwydd, y byddaf yn dychwelyd ati.

207. O ran effeithiau gweledol ar eiddo unigol, mae'r gwahaniaeth rhwng buddiant preifat a'r hyn y dylid ei warchod er budd y cyhoedd wedi bod yn ganolbwynt mewn nifer o benderfyniadau fferm wynt a wnaed gan Arolygwyr a'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae achosion lle mae'r ymwthiad gweledol mor fawr ag i beri i'r eiddo fod yn fan anneniadol i fyw ynddo yn cael eu hystyried yn annerbyniol fel arfer. Nid ystyrir bod gallu gweld tyrbin neu dyrbinau o ffenestr benodol neu ran o ardd ynddo'i hun yn rheswm digonol i ystyried bod yr effaith weledol yn annerbyniol (er y gallai preswyliwr penodol ystyried ei bod yn annerbyniol). Fodd bynnag, pan fydd tyrbinau'n bresennol yn y fath nifer, maint neu agosrwydd ag y bônt yn cynrychioli presenoldeb annymunol o lethol ac anosgoadwy yn y prif olygfeydd o dŷ neu ardd, ceir pob tebygolrwydd y byddai'r eiddo dan sylw yn cael ei adnabod yn gyffredinol fel man anneniadol (yn hytrach na llai deniadol yn unig, ond nid o reidrwydd annhrigiadwy) i fyw [A3, 3.117]. Mae'r 'profion' hyn wedi'u derbyn yn gyffredinol ac fe'u defnyddiaf wrth ystyried effeithiau gweledol y datblygiad arfaethedig ar eiddo unigol, yr wyf o'r farn y byddai Foel Isaf ac Esgairdraenllwyn yn cael eu heffeithio fwyaf.

208. Ffermdy gynt gydag adeiladau allan yw Foel Isaf. Fe'i cyrhaeddir ar hyd llwybr hir ar draws tir pori a rhostir garw ac mae'n bellennig ac anghysbell ei gymeriad. Mae pellenigrwydd yr eiddo, a'r tawelwch a geir trwy hynny, yn cyfrannu'n sylweddol at ei apêl. Mae wedi'i leoli llai nag 1km o safle'r tyrbinau arfaethedig agosaf, a byddai'r llwybr mynediad hyd yn oed yn agosach. Byddai topograffeg, adeiladau, a llystyfiant yn sgrinio golygfeydd o'r tyrbinau arfaethedig o'r tŷ ei hun i raddau helaeth, ond byddent yn ddigon agos i ddominyddu golygfeydd ar hyd y llwybr mynediad a rhannau o'r cwrtil preswyl. Ystyriaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn difetha'r ymdeimlad o arwahanrwydd a thawelwch yn yr eiddo, ac felly'n achosi niwed sylweddol i'w apêl. Er hynny, ni fyddai graddau'r niwed mor fawr ag i beri iddo gael ei ystyried yn gyffredinol yn fan anneniadol i fyw.

209. Mae Esgairdraenllwyn â gogwydd tuag at y fferm wynt arfaethedig, ac mae'n amlwg wedi'i gynllunio a'i osod i fanteisio ar olygfeydd o'i safle uchel. Byddai 17 tyrbin yn weladwy o fewn arc o oddeutu 85° o'r brif olygfa. Byddai'r tyrbin agosaf oddeutu 880m i ffwrdd. Byddai'r tyrbinau i'w gweld ar draws Dyffryn Ithon, ond mae'n fas ar y pwynt hwn. Byddai'r A483 rhwng y tŷ a'r tyrbinau ond byddai'n cael ei guddio i raddau helaeth gan lystyfiant wrth ymyl y ffordd. Am y rhesymau hyn, nid wyf o'r farn y byddai'r dyffryn na'r A483 yn creu ymdeimlad eglur o wahaniad [A3, 3.119]. Yn fy marn i, byddai effaith weledol y datblygiad arfaethedig yn uchel, ac yn niweidiol iawn i olygfa wledig ddeniadol fel arall. Serch hynny, er y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn bresennol yn anorfod yn y prif olygfeydd o Esgairdraenllwyn ac y byddent o nifer a maint sylweddol, ni fyddent mor agos ag i fod yn llethol.

210. Am y rhesymau hyn, yn y ddau eiddo, ystyriaf y byddai'r trothwy lle y byddai effeithiau gweledol yn newid o fod yn fater buddiant preifat i gyhoeddus yn dod

yn agos, ond nid yn cael ei groesi. Felly, nid wyf o'r farn y byddai'r ymwthiad gweledol mor fawr ag i beri i'r naill eiddo neu'r llall fod yn fannau anneniadol i fyw. Er hynny, ystyriaf y byddai'r niwed i amwynder preswyl yn y ddau eiddo yn sylweddol.

211. Byddai'r effeithiau gweledol mewn eiddo preswyl arall ychydig yn llai nag yn Foel Isaf neu Esgairdraenllwyn, ond derbynnir eu bod yn arwyddocaol o ran EIA mewn 13 eiddo [A3, 3.114]. Byddai niferoedd mwy o eiddo'n cael eu heffeithio pe ystyrid defnydd o'u cwrtil llawn. Byddai preswylwyr eiddo lleol arall yn profi'r tyrbinau'n agos wrth fynd o'u tai ar hyd y ffyrdd sirol sy'n mynd ar draws y safle. O ganlyniad, profiad llawer o breswylwyr lleol fyddai byw o fewn neu ar gyrion tirwedd fferm wynt a ddominyddir gan dyrbinau ar raddfa fawr. Felly, byddai effaith niweidiol arwyddocaol ar amwynder preswyl ac amgylchedd gweledol cyffredinol yr ardal.

212. Er bod datblygiad preswyl gerllaw'r fferm wynt arfaethedig yn wasgaredig, byddai oddeutu 36 eiddo preswyl neu grwpiau bach o eiddo o fewn 1.5km o unrhyw dyrbin[85], ac oddeutu 69 eiddo o fewn tua 2.5km. Mae rhai o'r rhain yn adfeiliedig neu'n anghyfannedd. Byddai gan eraill gysylltiad ariannol â'r datblygiad arfaethedig, neu byddent mewn ardaloedd lle y byddai golygfeydd cyfyngedig o'r tyrbinau arfaethedig. Er hynny, mae nifer yr eiddo a fyddai'n cael eu heffeithio yn cyfateb i anheddiad bach. Er nad yw'r system gynllunio'n bodoli i ddiogelu buddiannau preifat un unigolyn rhag gweithgareddau un arall, mae wedi'i bwriadu i helpu i warchod amwynder ac amgylchedd trefi, dinasoedd a chefn gwlad[86]. Ystyriaf, felly, fod yr effaith weledol niweidiol ar amwynder preswyl cyffredinol yr ardal yn ffactor perthnasol y dylid ei ystyried yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

213. O ran effeithiau gweledol a fyddai'n cael eu profi gan ymwelwyr hamdden â'r ardal, byddai rhan o Ffordd Glyndŵr oddeutu 4.5-5km o hyd yn mynd heibio i fferm wynt Llanbadarn Fynydd ar bellter o rhwng 1-2.5km. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn nodwedd amlwg mewn golygfeydd o lawer o'r rhan hon o'r llwybr. Byddai'r golygfeydd mwyaf agored ac uchel o Fron Top, sydd ychydig yn llai na 2km o'r tyrbin agosaf, gan arwain at lefel uchel o newid gweledol ac effeithiau gweledol arwyddocaol yn yr olygfan hon. Byddai'r fferm wynt arfaethedig hefyd i'w gweld o rannau eraill o Ffordd Glyndŵr, ond ymhellach i ffwrdd ac felly gyda llai o effeithiau gweledol [A7, 9.12-9.15; A3, 3.130-3.132].

214. Nid yw'r Cyngor yn honni y byddai effeithiau gweledol unigol cynllun Llanbadarn Fynydd yn annerbyniol o'u gweld o unrhyw ran o Ffordd Glyndŵr, ac nid yw'n honni y byddai effaith annerbyniol ar y defnydd o hawliau tramwy cyhoeddus eraill. Mae'r Gynghrair yn pryderu am effaith weledol cynnig Llanbadarn Fynydd ar y defnydd o Ffordd Glyndŵr a hawliau tramwy cyhoeddus eraill mewn cyfuniad â chynlluniau eraill, ond dychwelaf at hyn yn ddiweddarach.

*Treftadaeth Ddiwylliannol*

215. Mae'n dir cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cadw a CPAT, yn amodol ar fesurau a amlygwyd yn yr ES a'r SEI ddilynol, na fyddai datblygu fferm wynt Llanbadarn Fynydd ynddo'i hun yn arwain at effaith arwyddocaol ar unrhyw olion

[85] VATT/LAND/POE/GATES/SSA-C para 6.3.4
[86] PPW 3.1.1 & 3.1.7

archaeolegol hysbys nac unrhyw Heneb Restredig (SAM)[87]. Mae SoGC ar wahân wedi'i gytuno gyda'r Cyngor[88]. Ni ragfynegir effeithiau arwyddocaol o ran newidiadau ffisegol i olion archaeolegol hysbys o fewn y safle. Mae'r SoGCs yn cofnodi casgliad ES 2007, sef, er y byddai datblygu fferm wynt Llanbadarn Fynydd yn effeithio ar leoliad asedau hanesyddol dynodedig, ni fyddai'r cynnig ar ei ben ei hun yn arwain at effeithiau arwyddocaol. Mae cyflwyniadau terfynol y Cyngor yn cadarnhau ei fod o'r farn y byddai effaith y datblygiad arfaethedig ar ei ben ei hun yn arwain at 'niwed llai na sylweddol' i leoliad asedau hanesyddol yn y cyffiniau, er ei fod o'r farn y byddai graddau'r effaith yn agosach at 'niwed sylweddol' na dim niwed [A9,270].

216. Yr heneb restredig agosaf i safle Llanbadarn Fynydd fyddai grŵp o feddrodau yn Fiddler's Green, oddeutu 0.8km o safle'r tyrbin agosaf [A7, 9.23(i)]. Ni fyddai unrhyw effaith uniongyrchol ar yr heneb hon. Mae ei pherthynas â beddrodau a henebion eraill yn rhan o'i diddordeb arbennig, ond nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai unrhyw rai o'r tyrbinau arfaethedig yn ymyrryd ag unrhyw linell weledíad uniongyrchol. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn nodwedd amlwg iawn yn y dirwedd yng nghyffiniau'r heneb hon, ond nid wyf o'r farn y byddent mor agos ag i'w chysgodi nac atal y cyhoedd rhag gwerthfawrogi ei phresenoldeb neu ei harwyddocâd fel arall.

217. Mae SAM 'Dau Dwmpath', sy'n cynnwys dau feddrod crwn, ar ben pellaf Cefnffordd Ceri, oddeutu 3.3km i'r gogledd-ddwyrain o'r tyrbin arfaethedig agosaf. Pryder y Gynghrair yn hyn o beth yw y byddai'r fferm wynt arfaethedig yn amharu ar ansawdd pellenigrwydd y lleoliad i'r graddau y byddai'n niweidio myfyrdod tawel ynghylch arwyddocâd y SAM [A7, 9.23(iii)]. Fodd bynnag, oherwydd y pellter gwahanu, nid wyf o'r farn y byddai fferm wynt Llanbadarn Fynydd ar ei phen ei hun yn cael yr effaith honno. Unwaith eto, nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth y byddai'r fferm wynt arfaethedig yn amharu ar linellau gwelediad uniongyrchol i'r graddau a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y gallu i werthfawrogi perthynas SAM Dau Dwmpath ag unrhyw heneb arall.

218. O ystyried y dystiolaeth sydd o'm blaen, ni fyddai cynllun arfaethedig Llanbadarn Fynydd yn amharu'n uniongyrchol ar linellau gwelediad rhwng SAMs eraill yn y cyffiniau. Nid wyf o'r farn y byddai'n dominyddu lleoliad unrhyw heneb i'r graddau a fyddai'n effeithio'n ddifrifol ar werthfawrogiad y cyhoedd o'i harwyddocâd.

219. Mae Blaen Nant Ddu yn gyn ffermdy rhestredig Gradd II. Mae wedi'i leoli o fewn safle'r cais, ymhlith coed ac adeiladau allan ym mlaen Cwm Nant Ddu. Byddai'r tyrbinau agosaf oddeutu 0.6km – 0.8km i ffwrdd, ar dir uwch, mwy agored. Fel ffermdy, mae ei berthynas â'r tir, yn fy marn i, yn rhan o'i ddiddordeb arbennig. Fodd bynnag, mae'r adeilad yn swatio ynghudd yn y dyffryn llethrog. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar y patrwm o gaeau bach afreolaidd o amgylch yr adeilad, a wasanaethodd y fferm wreiddiol yn ôl pob tebyg. Er y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn effeithio ar gymeriad gwledig y tir uwch, byddai'r patrwm caeau presennol yn parhau. Felly, ni fyddai effaith sylweddol ar arwyddocâd hanesyddol perthynas yr adeilad â'r tir amaeth amgylchynol. Er fy mod yn ymwybodol o'r ystyriaeth arbennig y dylid ei rhoi i

[87] VATT-HISTENV-SOCG-SSA-C
[88] VATT-HISTENV-SOCG- 1-SSA-C

faterion o'r fath, yn yr achos hwn, rwyf yn fodlon na fyddai effaith arwyddocaol ar ddiddordeb hanesyddol yr adeilad rhestredig na'i leoliad. Rwyf hefyd yn fodlon y byddai'r effaith ar leoliad Blaen Nant Ddu yn 'llai nag arwyddocaol', mewn termau a gymhwysir i bolisi a amlinellir yn EN-1 [A7, 9.23(ii); A9, 279: A3, 4.98-4.103]. Er bod 18 adeilad rhestredig arall o fewn 5km o'r tyrbinau arfaethedig, nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar eu lleoliadau.

220. Mae'r dirwedd o fewn ac o amgylch y safle yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol, sydd wedi cronni dros gyfnod hir iawn o'r Oes Efydd i'r adeg gymharol fodern. Yng nghyd-destun y dirwedd hon, byddai fferm wynt arfaethedig Llanbadarn Fynydd yn nodwedd fodern fawr ac amlwg yn y dirwedd, ac felly'n tynnu oddi ar ei chymeriad hanesyddol. Byddai niwed yn yr ystyr hon, er hynny o fewn y categori niwed 'llai na sylweddol'. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod effaith cynllun Llanbadarn Fynydd ar gymeriad hanesyddol y dirwedd yn ddigonol i fod yn sail ar wahân ar gyfer gwrthwynebu [A9, 279]. Nid oes gennyf reswm i anghytuno. Er hynny, mae'n ffactor perthnasol y credaf y dylai gael ei ystyried yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

*Hydroleg / hydroddaeareg (gan gynnwys cyflenwadau dŵr preifat)*

221. Mae'n dir cyffredin rhwng yr ymgeisydd ac NRW y byddai effeithiau posibl ar 'dderbynyddion' (gan gynnwys dau gyflenwad dŵr preifat yn Fiddler's Green, a dyfrgyrsiau derbyn) yn cael eu lleihau neu eu hosgoi trwy fesurau lliniaru amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig, neu y gellir eu gweithredu trwy gynnwys amodau cynllunio[89]. Yn ddarostyngedig i'r rhain, nid yw NRW yn gwrthwynebu'r cynllun o ran derbynyddion hydrolegol o fewn ffin y safle neu gyflenwadau dŵr preifat cyfagos.

222. Wrth holi tyst arbenigol yr ymgeisydd ynglŷn â'r materion hyn, daeth yn amlwg bod yr ES (fel y'i diweddarwyd gan SEIs) yn rhagdybio'n anghywir bod pwll sy'n cael ei fwydo gan darddell yn agos i ffordd sirol C1057 yn ffynhonnell cyflenwad dŵr preifat, neu'n cyfrannu ato, i eiddo yn Fiddler's Green [A7, 9.19]. Cododd y camgymeriad oherwydd nad yw manylion cyflenwadau dŵr preifat wedi'u cofrestru, er y gwnaed ymdrech i gael gwybodaeth gywir i lywio'r asesiad trwy archwilio cofnodion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO), canfasio preswylwyr, a dehongli data sylfaenol am yr amgylcheddol dŵr.

223. Cadarnhawyd yn yr ymchwiliad mai ffynhonnell cyflenwad Fiddler's Green yw tarddell a thwll turio yn is i lawr y llethr, sydd felly ymhellach i ffwrdd o'r datblygiad arfaethedig a'r C1057. Felly, mae'n llai tebygol o gael ei effeithio gan draffig adeiladu neu ddŵr ffo o'r datblygiad arfaethedig. Ar sail y dystiolaeth sydd o'm blaen, nid oes unrhyw beth yng nghofnodion yr EHO na'r data sylfaenol am yr amgylchedd dŵr a fyddai'n awgrymu y gallai'r cyflenwad dŵr preifat gael ei niweidio, ac mae'n annhebygol y byddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar gyflenwad dŵr preifat Fiddler's Green. Sut bynnag, mae'r amodau cytunedig yn cynnwys gofyniad bod adroddiad ychwanegol yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol yn mynd i'r afael ag effaith bosibl y datblygiad ar unrhyw adnoddau dŵr yfed preifat yn yr ardal ac unrhyw fesurau sydd eu hangen i leihau'r effaith ar ansawdd dŵr yfed gymaint â phosibl yn ystod y gwaith adeiladu a'r gweithredu. Gallai'r adroddiad hwnnw gynnwys mesurau i fonitro

[89] VATT-HYDRO-SOCG-SSA-C

cyflenwad dŵr preifat Fiddler's Green ac, os oes angen, cynnal gwaith unioni. Er gwaethaf y camgymeriad yn yr asesiad, rwyf felly'n fodlon y byddai'n cael ei ddiogelu'n ddigonol [A3, 7.8-7.11].

224. Mae'r asesiad risg ar gyfer cyflenwad dŵr preifat Foel Isaf yn dod i'r casgliad nad yw dalgylch y darddell yn cynnwys ardaloedd lle y byddai gwaith adeiladu'n cael ei gynnal, ac y byddai dŵr ffo o'r safle yn hydreiddio i'r tir neu i ddyfrgwrs nad yw'n gysylltiedig yn hydrolegol i'r cyflenwad cyn ei chyrraedd. Felly, asesir bod hyn yn cynrychioli 'dim risg'. Nid oes unrhyw gamgymeriad wedi'i amlygu yn yr asesiad hwn. Er bod preswyliwr Foel Isaf yn dal i fod yn bryderus, nid yw'r pryderon hynny wedi'u cyfiawnhau gan dystiolaeth gadarn. Mae ef wedi awgrymu y dylai cytundebau neu warantau 'digolledu' gael eu cynnig, ond oherwydd y gallai'r cyflenwad gael ei ddiogelu gan yr amod cytunedig beth bynnag, ni fyddai angen trefniant o'r fath. Ni fyddai'n arfer arferol ychwaith [A3, 7.4-7.7].

225. Mae perchennog Foel Isaf hefyd yn pryderu y gallai'r datblygiad arfaethedig gynyddu perygl llifogydd o'r dyfrgwrs yn agos i'w eiddo. Fodd bynnag, fel NRW, rwyf yn fodlon y gellir sicrhau mesurau lliniaru a gwanhau priodol trwy amodau.

226. Deuaf i'r casgliad, yn ddarostyngedig i amodau, na fyddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol debygol ar hydroleg, hydroddaeareg, na chyflenwadau dŵr preifat.

Materion Eraill

*Trafnidiaeth Leol a Mynediad Lleol*

227. Mae'n dir cyffredin rhwng yr ymgeisydd a'r Cyngor y byddai'r gwaith arfaethedig a amlinellwyd yn SEI mis Chwefror 2013 ac SEI mis Mehefin 2013 yn bodloni gofynion PCC fel yr Awdurdod Priffyrdd Lleol. Mae'r wybodaeth a gynhwyswyd yn SEI mis Chwefror 2013 sy'n ymwneud â mynediad i'r safle o'r A483 hefyd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod cefnffyrdd. Nid oes gan PCC nac NRW unrhyw wrthwynebiad arall o ran materion trafnidiaeth leol[90].

228. Mae preswylwyr lleol wedi mynegi pryder ynglŷn ag aflonyddu, oedi a difrod i'r is-ffyrdd sy'n arwain at y safle [91]. O ystyried natur y traffig adeiladu, mae rhywfaint o niwed bron yn anochel yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae amodau wedi'u cytuno yn ymwneud â thirfesuriadau cyn adeiladu ac ar ôl adeiladu, a Chynllun Rheoli Trafnidiaeth. Yn ddarostyngedig i'r amodau hyn, ystyriaf y byddai unrhyw oedi ac aflonyddu ar ffyrdd mynediad lleol yn cael eu lleihau gymaint â phosibl ac y byddent yn dderbyniol. Byddai unrhyw ddifrod a achoswyd gan draffig adeiladu trwm, nad yw'r ffyrdd sirol sy'n gwasanaethu'r safle wedi'u cynllunio ar eu cyfer nac yn addas iddynt, yn cael ei atgyweirio gan y datblygwr heb ddefnyddio arian cyhoeddus [A3, 5.2-5.5].

*Sŵn*

229. Mae'n dir cyffredin rhwng yr ymgeisydd a PCC y gellir ymdrin â sŵn adeiladu trwy amod cynllunio a eiriwyd yn briodol, ac y byddai lefelau sŵn gweithredol islaw'r terfynau sŵn derbyniol perthnasol bob amser ac ym mhob annedd

[90] VATT-TRANS-SOCG-SSA-C

preswyl[91]. Mae amodau wedi'u cyflwyno a'u cytuno. Byddai'r terfynau sŵn cytunedig yn gadael lle ar gyfer datblygiadau eraill.

230. Mae'r ymgeisydd o'r farn nad oes angen amod yn ymwneud â Modylu Osgledau Gormodol (EAM) o ganlyniad i debygolrwydd isel y ffenomen yn y safle hwn, ac anawsterau llunio amod priodol [A3, 6.38]. Fel y nodais yn flaenorol, mae hwn yn fater y byddaf yn dychwelyd ato.

231. Mae preswyliwr Foel Isaf yn pryderu ei bod yn bosibl na chafodd data sŵn cefndir ar gyfer ei eiddo ei sefydlu'n gywir, ac na chafodd ei roi iddo'n uniongyrchol cyn yr ymchwiliad. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod lleoliadau monitro wedi cael eu cytuno gyda Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (EHO) PCC [A3, 6.7 & 6.8]. Mae'r data sŵn cefndir wedi'i archwilio gan yr EHO, ac nid oes unrhyw bryderon wedi'u codi. Nid oes gennyf unrhyw reswm i amau ei gywirdeb.

232. Mae rhai preswylwyr lleol wedi mynegi pryder y gallai sŵn gweithredol ac adeiladu atseinio o amgylch bryniau yn yr ardal hon. Fodd bynnag, roedd tyst arbenigol yr ymgeisydd ar faterion yn ymwneud â sŵn o'r farn bod y dopograffeg leol yn annhebygol o achosi effeithiau o'r fath [91; A3, 6.11]. Nid yw hyn yn achos pryder i'r Cyngor ac, o'm harsylwadau i, rwyf yn fodlon bod y bryniau amgylchynol yn ddigon crwn a phell i olygu bod unrhyw effaith o'r fath yn annhebygol iawn.

233. Mae rhywfaint o sŵn adeiladu yn anochel, ond byddai'r amodau cytunedig yn ymdrin ag oriau gweithio, yn ogystal â lefelau sŵn adeiladu cyffredinol. Felly, byddai'n cael ei leihau gymaint â phosibl ac yn gyfyngedig o ran parhad. Byddai sŵn gweithredol i'w glywed ar rai hawliau tramwy cyhoeddus ar lefel uwch nag mewn eiddo preswyl. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd o'm blaen, ni fyddai'r sŵn ar lefel a fyddai'n debygol o effeithio'n sylweddol ar fwynhad cefn gwlad.

234. Ni ddarparwyd unrhyw gyfiawnhad darbwyllol i gefnogi awgrym y Gynghrair ynglŷn â therfynau sŵn is na'r rhai hynny y cytunwyd arnynt gyda PCC. Nid yw'r cais yn cael ei wneud ar gyfer tyrbin o wneuthuriad, model na dull gweithredu penodol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a ddarparwyd o ran y tyrbin 'ymgeisiol' yn dangos y gellir cydymffurfio â'r terfynau sŵn cytunedig, hyd yn oed yn yr eiddo mwyaf critigol. Er y gallai hyn olygu y bydd angen i'r tyrbin ymgeisiol newid i ddull gweithredu tawel ar adegau, nid yw'n angenrheidiol nac yn briodol mynnu math penodol o dyrbin neu broffil sŵn gweithredol trwy amod [A3, 6.13-6.19].

235. O ystyried yr holl faterion perthnasol a godwyd, nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth a fyddai'n fy arwain i'r casgliad y byddai sŵn adeiladu neu weithredol yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig yn annerbyniol.

*Bioamrywiaeth*

236. Mae'n dir cyffredin rhwng yr ymgeisydd ac NRW bod effeithiau arwyddocaol ar fioamrywiaeth yn annhebygol o ddigwydd, yn ddarostyngedig i fesurau lliniaru arfaethedig. Mae SoCG ar wahân ar adareg rhwng yr ymgeisydd ac NRW yn dod i'r casgliad na fyddai effeithiau arwyddocaol ar dderbynyddion adaregol, yn

[91] VATT-NOISE-SOCG-SSA-C

ddarostyngedig i amodau cynllunio addas. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth a fyddai'n fy arwain at gasgliadau gwahanol[92].

*Effeithiau Economaidd-gymdeithasol a Thwristiaeth*

237. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai rhai effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol o olygfannau ar hyd y rhan o Ffordd Glyndŵr sydd o fewn oddeutu 4.5-5km o'r safle. Fel y nodais o ran cynllun arfaethedig Llaithddu, mae cerddwyr a thwristiaid eraill yn cyfrannu at yr economi leol. Byddaf yn ystyried yr effaith ganlyniadol debygol ar dwristiaeth a'r economi mewn cyfuniad â chynigion eraill yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

238. Mae'r ymgeisydd yn amcangyfrif y byddai'r datblygiad arfaethedig yn creu neu gadw tua 41 o swyddi cyfwerth ag amser llawn dros 2 flynedd yn ystod y cyfnod adeiladu a 2 swydd gyfwerth ag amser llawn yn ystod y cam gweithredol. Byddai cyfleoedd cyflogaeth anuniongyrchol eraill, yn bennaf yn y gadwyn gyflenwi [A9, 996; A7, 10.51 a 10.52]. Nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn wedi'i darparu i'r gwrthwyneb. Gellir disgwyl y byddai cyfran o'r swyddi'n mynd i bobl leol, ac y byddai rhai cwmnïau lleol yn elwa ar gyfleoedd cadwyn gyflenwi. Yn ogystal â chefnogi amcanion twf economaidd, creu cyflogaeth a pholisi cenedlaethol, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cyfrannu yn hyn o beth at yr economi leol. Byddai cronfa gymunedol yn cael ei sefydlu hefyd, er y derbynnir na ellir ystyried hyn fel ffactor perthnasol.

*Iechyd*

239. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth y byddai unrhyw effeithiau iechyd niweidiol penodol i'r safle yn digwydd.

*Mawn*

240. Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai dyddodion mawn arwyddocaol yn cael eu heffeithio.

*Potensial ar gyfer Cysylltu â'r Grid*

241. Mae Prosiect Cysylltu Canolbarth Cymru yn rhagweld y byddai cynllun arfaethedig Llanbadarn Fynydd yn cael ei gysylltu â'r grid trwy linell 132KV a fyddai'n mynd tua'r gorllewin ar draws yr A483 a Chefnen Waun Ddubarthog, ac ymlaen tua'r gogledd i'r foth newidydd 132KV / 400KV arfaethedig yng Nghefn Coch. Fel y nodais mewn perthynas â chynllun ailbweru Llandinam, byddai cysylltiadau â nifer o ffermydd gwynt arfaethedig yn cael eu dwyn ynghyd yn y lleoliad hwn. Yna byddai llinell 400KV newydd yn rhedeg i'r gogledd-orllewin yn fras i Swydd Amwythig.

242. Dewis arall technegol ymarferol a amlygwyd yn ystod yr ymchwiliad fyddai cysylltu ar 132kV â'r llinell a gynigir ar gyfer cynllun ailbweru Llandinam. Byddai'r cysylltiad yn cael ei wneud o is-orsaf Llanbadarn Fynydd ar draws llwybr sydd heb ei nodi eto ar draws y tir i'r de o'r Glog [A3, 3.189-3.200]. Yn yr un modd â chynllun Llaithddu, byddai angen i linell 132KV Llandinam gael ei huwchraddio i gynnal ceblau trymach. Byddai hefyd angen ychwanegu offer at is-orsaf y Trallwng, ac amnewid llinell 132KV y Trallwng i Groesoswallt. Fel y

[92] VATT-ECOLOGY-SOCG-SSA-C & VATT –ORNITHOLOGY-SOCG-SSA-C

nodais, mae'r Cyngor wedi awgrymu y gallai'r dewis arall hwn fod yn dderbyniol mewn egwyddor, er y byddai ganddo bryderon am effaith weledol llinell uwchben ar draws y tir i'r de o'r Glog. Gan y byddai'r capasiti wedi'i gyfyngu i oddeutu 160MW, byddai gan y llinell wedi'i huwchraddio ddigon o gapasiti ar gyfer cynllun Llaithddu neu gynllun Llanbadarn Fynydd, ond nid y ddau.

243. Dychwelaf i ystyried effeithiau anuniongyrchol, eilaidd a chronnol y cysylltiad angenrheidiol â'r grid ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Ar y cam hwn, fodd bynnag, deuaf i'r casgliad nad oes unrhyw resymau amlwg pam na ellid cael y caniatâd angenrheidiol am gysylltiad â'r grid ar gyfer fferm wynt Llanbadarn Fynydd ar un ffurf neu'i gilydd.

**SSA C: Effeithiau Cronnol ac Mewn Cyfuniad**

244. Mae'r drafodaeth ganlynol yn ymwneud â materion perthnasol sy'n codi o effeithiau cyfunol y tri datblygiad fferm wynt arfaethedig yn SSA C sydd gerbron yr ymchwiliad, ac effeithiau cronnol â ffermydd gwynt perthnasol eraill yn yr ardal lle y gwnaed cais am ganiatâd cynllunio.

245. Mae pryderon y Cyngor o ran effeithiau cronnol o fewn SSA C yn ymwneud ag effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, a threftadaeth ddiwylliannol. Y rhain, felly, yw'r prif ystyriaethau o dan y pennawd hwn. Mae ei wrthwynebiadau blaenorol i'r cynigion mynediad lleol wedi'u datrys trwy ddiwygiadau, gwybodaeth ychwanegol, a chytundeb ar amodau.

*Effeithiau Gweledol Cronnol ac Effeithiau Cronnol ar y Dirwedd*

246. O ystyried nifer y trynewidiadau, gellid bod wedi asesu amrywiaeth o senarios posibl. Am resymau ymarferol, canolbwyntiwyd ar chwe senario. Mae'r rhain yn cynnwys cyfuniadau amrywiol o'r ceisiadau sydd gerbron yr ymchwiliad, gan gynnwys ystyriaeth ar wahân o grwpiau gogleddol a deheuol Llaithddu (senarios 1-5), a senario pob un o'r cynlluniau SSA C sydd yn y system gynllunio ar hyn o bryd yn cael eu dwyn ymlaen (senario 6)[A9, 218].

247. O ran senarios 1-5, mae'r Cyngor o'r farn y byddai cynllun ailbweru Llandinam yn dderbyniol yn weledol ac o ran y dirwedd, ac y byddai grŵp gogleddol Llaithddu yn cael effaith gyfyngedig iawn yn ychwanegol neu mewn cyfuniad yn erbyn y llinell sylfaen honno [A9, 222]. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

248. Mae asesiad mewn cyfuniad y Cyngor o senario Llaithddu (gogledd a de) gyda chynllun ailbweru Llandinam, yn amlygu gwasgariad o effeithiau i'r de-orllewin o SSA C i Ddyffryn Marteg uchaf [A9, 225]. Mae ei asesiad o Landinam mewn cyfuniad â Llanbadarn Fynydd yn amlygu gwasgariad ychwanegol o effeithiau i ran ddwyreiniol SSA C. Mae o'r farn y byddai effeithiau mewn cyfuniad Llandinam gyda Llaithddu a Llanbadarn Fynydd yn achosi niwed sylweddol i'r dirwedd ar draws wyth VSAA LANDMAP, ac effeithiau sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau'r SSA [A9, 226].

249. Pe byddai pob un o'r tri chynllun sydd gerbron yr ymchwiliad yn cael eu dwyn ymlaen, byddai niwed arwyddocaol i gymeriad tirwedd Dyffryn Marteg uchaf, fel yr wyf wedi'i nodi mewn perthynas â'r cynlluniau unigol, ac effaith weledol niweidiol fawr yng nghyffiniau Bwlch y Sarnau. Byddai niwed sylweddol i agweddau ar gymeriad tirwedd safle Llanbadarn Fynydd sy'n ei wneud yn nodedig a deniadol, a chryn niwed i amwynder preswyl cyffredinol a'r

amgylchedd gweledol i breswylwyr y gymuned yng nghyffiniau safle Llanbadarn Fynydd. Byddai effeithiau gweledol niweidiol yn cael eu profi hefyd gan ddefnyddwyr Ffordd Glyndŵr a hawliau tramwy cyhoeddus eraill. Fodd bynnag, ni fyddai'r effeithiau niweidiol yn llawer mwy na rhai grŵp deheuol cynllun Llaithddu, a rhai cynnig Llanbadarn Fynydd. Oherwydd eu pellter gwahanu a Dyffryn Ithon sydd yn y canol, nid wyf o'r farn y byddai grŵp deheuol cynllun Llaithddu yn rhyngweithio â chynllun Llanbadarn Fynydd i achosi niwed ychwanegol, ar ben eu heffeithiau unigol. Am y rhesymau hyn, deuaf i'r casgliad, wrth bennu derbynioldeb y tri chais fferm wynt yn SSA C, na ddylid rhoi llawer o bwys i'w heffeithiau gweledol cyfunol a'u heffeithiau cyfunol ar y dirwedd, ar ben eu heffeithiau unigol.

250. O ran Senario 6, pe byddai'r holl gynigion sydd yn y system gynllunio ar hyn o bryd yn cael eu dwyn ymlaen, byddai datblygiad fferm wynt yn creu tirwedd fferm wynt barhaus bron o oddeutu 10km o hyd a sawl cilomedr o led yn rhan orllewinol SSA C. Fel y nodais yn gynharach mewn perthynas ag arae ddeheuol arfaethedig Llaithddu, byddai'r dirwedd fferm wynt yn gorlifo i Ddyffryn Marteg uchaf ac yn mynd yn agos i annedd Bwlch y Sarnau.

251. Yn rhan ddwyreiniol SSA C, byddai'r dirwedd fferm wynt yn ymestyn i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain o fferm safle Llanbadarn Fynydd dros ardal sylweddol tua'r Glog, ac ar draws y B 4335 i ardal Banc Gorddwr sy'n edrych dros flaen Afon Tefeidiad. I'r dwyrain o safle Llanbadarn Fynydd, byddai'n ymestyn dros ardal sy'n mesur oddeutu 4km o'r gogledd i'r de, ac oddeutu 5km o'r dwyrain i'r gorllewin, i oddeutu 2km o AONB Bryniau Swydd Amwythig. Fel y nodais mewn perthynas â chynllun Llanbadarn Fynydd, ceir cymuned sylweddol o breswylwyr lleol yn rhan ddwyreiniol SSA C. Mae'r ardal i'r dwyrain o safle Llanbadarn Fynydd yn cynnwys rhan hir o Ffordd Glyndŵr. Derbynnir yn gyffredinol y dylid ystyried bod defnyddwyr y cyfryw lwybrau yn sensitif iawn i newid o'r fath i'r dirwedd.

252. Byddai bwlch o 4km o leiaf rhwng tyrbinau yn rhannau gorllewinol a dwyreiniol SSA C a byddai'r dopograffeg yn golygu y byddai rhyngwelededd cyfyngedig o fewn llawer o Ddyffryn Ithon. Fodd bynnag, mae ffotogyfosodiadau a ffigurau ffrâm wifren cronnol yn dangos, o rai golygfannau allweddol ar dir uchel y tu allan i SSA C, yn enwedig yn safle 'Dau Dwmpath' (LR5, ar Gefnffordd Ceri), a Fron Top (LR7, ar Ffordd Glyndŵr), y byddai'r ffermydd gwynt presennol ac arfaethedig yn ymddangos gyda'i gilydd fel un dirwedd fferm wynt eang, yn ymestyn ar draws dyffryn Ithon i'r pellter ac yn rhychwantu arc golwg eang.

253. Am y rhesymau hyn, pe byddai'r holl ffermydd gwynt arfaethedig sydd yn y system gynllunio ar hyn o bryd yn cael eu dwyn ymlaen, ystyriaf y byddai ardal lwyfandir SSA C yn cael ei dominyddu gan dyrbinau. Byddai effeithiau difrifol yn weledol ac ar y dirwedd ar draws yr SSA. Byddai effeithiau'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'w ffiniau, gan gynnwys i AONB Bryniau Swydd Amwythig [A9, 223].

254. Fodd bynnag, byddai difrifoldeb yr effaith a gorlif effeithiau i'r AONB yn bennaf o ganlyniad i'r ceisiadau nad ydynt gerbron yr ymchwiliad. Er y byddai cynnig Llanbadarn Fynydd yn dadsensiteiddio'r ardal i'r dwyrain o Ddyffryn Ithon i ddatblygiad fferm wynt ychwanegol [A9, 224], byddai'r pwynt lle y byddai niwed yn newid i fod yn niwed difrifol ac annerbyniol o ganlyniad i effeithiau cronnol yn fater i'r rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

255. Am y rhesymau hyn, deuaf i'r casgliad na ddylai effaith gronnol ffermydd gwynt arfaethedig Llandinam, Llaithddu a Llanbadarn Fynydd yn weledol ac ar y dirwedd mewn cyfuniad â'i gilydd, neu mewn cyfuniad â ffermydd gwynt arfaethedig eraill yn SSA C, fod yn ffactor penderfynu ar gyfer unrhyw un o'r tri chais hyn. Fodd bynnag, fel y nodais, pe byddai pob un o'r tri chais yn cael eu cymeradwyo, byddai goblygiadau i seilwaith cysylltiedig. Gan y byddai rhyngweithio yn hyn o beth gyda'r cynlluniau SSA B, dychwelaf at hyn fel mater sy'n gyffredin â'r holl geisiadau eraill.

*Effeithiau Cronnol ar Dreftadaeth Ddiwylliannol*

256. Mae'r Cyngor yn gwahaniaethu rhwng rhannau gorllewinol a dwyreiniol SSA C, yn yr ystyr bod asedau treftadaeth yn yr ardal orllewinol mewn lleoliad ucheldirol uwch a mwy pellennig, a bod y llinell sylfaen yn y gorllewin yn sylweddol wahanol oherwydd presenoldeb fferm wynt bresennol P&L. Felly, nid yw o'r farn y byddai effeithiau annerbyniol cronnol nac mewn cyfuniad ar dreftadaeth ddiwylliannol yn yr ardal orllewinol [A9, 261]. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

257. Ceir tua 26 heneb gynhanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol cydnabyddedig o fewn 5km o safle Llanbadarn Fynydd. Mae'r rhan fwyaf yn feddrodau o'r Oes Efydd, ond ceir tystiolaeth hefyd o hengor cynhanesyddol tebygol (nad yw wedi'i ddynodi'n SAM ar hyn o bryd) yng nghyffiniau Black Gate. Ceir hefyd safleoedd Oes Haearn a chanoloesol o bwysigrwydd cenedlaethol, a rhai adeiladau rhestredig mwy diweddar. Ceir felly tystiolaeth o feddiannaeth a defnydd parhaus o dirwedd rhan ddwyreiniol SSA C ers yr Oes Efydd o leiaf, ac mae'r crynodiad henebion yn rhan ddwyreiniol SSA C yn nodedig. Er gwaethaf erydu dros amser, pan dynnir sylw at yr henebion, gellir gweld y rhan fwyaf ohonynt a daw eu perthynas â'r dirwedd ac â'i gilydd yn amlwg. Er gwaethaf newid amaethyddol ac anheddiad diweddar, mae gan dirwedd rhan ddwyreiniol SSA C gymeriad hanesyddol cryf y gellir ei werthfawrogi'n rhwydd. Mae rhan o'r ardal wedi'i gwerthuso o fewn haenau LANDMAP fel bod o werth 'eithriadol' o ran ei Hagwedd Hanesyddol, gan ei bod yn dirwedd gynhanesyddol o bwysigrwydd allweddol sy'n cynnwys nifer arwyddocaol o henebion claddu a safleoedd defodol.

258. Ceir gwahaniaeth barn sylweddol rhwng yr ymgeiswyr a'r Cyngor ynglŷn ag arwyddocâd yr effaith gyfunol debygol ar leoliad yr henebion hyn, pe byddai'r holl ddatblygiad arfaethedig yn rhan ddwyreiniol SSA C yn mynd rhagddo. Canfu tyst arbenigol yr ymgeiswyr effeithiau cronnol sylweddol ar leoliadau dwy heneb restredig yn unig, a oedd yn gyfystyr â niwed llai na sylweddol yn y ddau achos. Canfu tyst arbenigol y Cyngor y byddai datblygu pob un o'r pedwar cynnig yn rhan ddwyreiniol SSA C yn diraddio lleoliad nifer fawr o asedau dynodedig a heb fod yn ddynodedig, ac y byddai niwed sylweddol mewn mwy na dwsin o achosion [A9, 262-277; A3, 410-429].

259. Mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth rhwng y partïon hyn yn codi'n rhannol o ddehongli sut y gallai presenoldeb tyrbinau effeithio ar arwyddocâd lleoliad asedau treftadaeth, ac yn rhannol o ddehongliadau gwahanol o ba mor uchel yw lefel y prawf polisi 'niwed sylweddol' y cyfeirir ato ym mharagraff 5.8.24 EN-1. Ceir llinellau gweld eglur rhwng y beddrodau Oes Efydd o fewn ac o amgylch SSA C sy'n bwysig i ddeall eu perthynas a'u harwyddocâd, er bod y pellter gwahanu yn fawr iawn [A9, 274; A7, 10.19]. Felly, cytunaf â'r Cyngor fod tystiolaeth ysgrifenedig yr ymgeiswyr yn tueddu i ganolbwyntio'n ormodol ar y lleoliad uniongyrchol. Ar y llaw arall, cytunaf â chanfyddiadau Arolygwyr eraill fod prawf

polisi 'niwed sylweddol' EN-1 yn cynrychioli lefel uchel ac, wrth ddarllen y polisi'n deg, bod yn rhaid iddo gynnwys graddau o niwed tuag at ben uchaf y sbectrwm, yn dynesu at golli arwyddocâd yn llwyr. Mae'n ymddangos i mi bod tyst y Cyngor yn rhy barod i symud o ganfyddiad o ddiraddio lleoliad i ganfyddiad o niwed sylweddol, ac nid yw'n ymddangos fel petai'n rhoi ystyriaeth ddigonol i oes gyfyngedig y ffermydd gwynt arfaethedig [A3, 4.13].

260. Fel y nodais uchod, pe byddai'r holl ffermydd gwynt sydd wedi'u cynnig o fewn ochr ddwyreiniol SSA C yn cael eu dwyn ymlaen, byddai'r ochr honno o'r llwyfandir yn cael ei dominyddu gan dyrbinau gwynt. Byddai modd gweld a dehongli elfennau cynhanesyddol a hanesyddol y dirwedd o hyd, ond byddent yn llai amlwg. O rai pwyntiau allweddol, fel yr olygfan yn safle Dau Dwmpath, byddai modd gweld beddrodau pell rhwng bylchau cul rhwng tyrbinau pell yn unig. Mewn golygfannau eraill, mae'n bosibl y byddai angen i wyliwr newid ei safle i gael golygfa glir. I lawer o bobl, felly, byddai eu gallu i werthfawrogi a phrofi agweddau treftadaeth ddiwylliannol y dirwedd yn cael ei leihau. Er y byddai'r dirwedd yn cael ei hadfer ar ôl oes y ffermydd gwynt, byddai'r niwed yn parhau am genhedlaeth i bob pwrpas, sy'n gyfnod sylweddol. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai'r pedwar cynnig gyda'i gilydd yn diraddio lleoliad nifer sylweddol o asedau treftadaeth ddiwylliannol yn ddifrifol, gan gynnwys henebion rhestredig ac adeiladau rhestredig. Er nad wyf o'r farn y byddai'r niwed yn nesáu at golli arwyddocâd yn llwyr ar gyfer unrhyw ased, ac felly ni fyddai 'niwed sylweddol' at ddibenion EN-1, o ystyried pwysigrwydd asedau o'r fath, mae hwn yn ffactor a ddylai, yn fy marn i, fod yn ystyriaeth bwysig iawn mewn cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

261. Fodd bynnag, byddai'r diraddio difrifol a amlygais yn codi yn rhan ddwyreiniol SSA C yn unig, a hynny dim ond o ganlyniad i ychwanegu rhai neu bob un o gynlluniau Neuadd Goch, Garreg Lwyd a Bryngydfa at linell sylfaen cynllun Llanbadarn Fynydd. Er y gellid cyrraedd pwynt lle y gallai'r niwed cyfunol i leoliad asedau treftadaeth yn rhan ddwyreiniol SSA C ddod yn ffactor penderfynu, ni fyddai'r pwynt hwnnw'n cael ei gyrraedd gan fferm wynt arfaethedig Llanbadarn Fynydd ar ei phen ei hun nac mewn unrhyw gyfuniad â chynigion arfaethedig Llandinam a Llaithddu. Yn yr un modd ag effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, byddai'r pwynt lle y byddai niwed yn newid i fod yn niwed difrifol ac annerbyniol o ganlyniad i effeithiau cronnol yn fater i'r rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

262. Am y rhesymau hyn, deuaf i'r casgliad nad yw'r effaith gronnol ar dreftadaeth ddiwylliannol yn sgil y datblygiadau arfaethedig o fewn SSA C sydd gerbron yr ymchwiliad yn fater a ddylai fod yn ffactor penderfynu ar gyfer unrhyw un ohonynt.

## SSA B: Materion Penodol i Safle

263. Mae'r drafodaeth ganlynol yn ymwneud â materion sy'n benodol i'r cynigion fferm wynt unigol yn SSA B. Ymdriniaf â materion a godwyd mewn perthynas â'r cynigion hyn, ond y'u hystyrir yn fwy priodol fel effeithiau cyffredinol neu ardal gyfan, mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

### Llanbrynmair

264. Mae gwrthwynebiadau eraill y Cyngor mewn perthynas â chynllun Llanbrynmair yn ymwneud yn unig â'r cynnig i ddefnyddio rhan ogleddol ffordd Llanerfyl i Dalerddig i ddarparu mynediad ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin (AILs). Mae o'r farn y byddai hyn yn achosi aflonyddu sylweddol ac ystod o effeithiau annerbyniol ar y dirwedd ac yn weledol. Mae hefyd o'r farn bod gwybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cynnig mynediad AIL yn ddiffygiol mewn sawl modd, ac nad yw'n darparu digon o wybodaeth i alluogi effeithiau ecolegol i gael eu hasesu'n briodol [A9, 56-58].

265. Mae NRW yn rhannu pryderon y Cyngor o ran y llwybr mynediad lleol arfaethedig ar gyfer AILs Llanbrynmair [A8, 4.3]. Roedd NRW hefyd yn pryderu na fyddai'r cynigion dangosol ar gyfer is-orsaf Llanbrynmair yn lleihau ei heffaith weledol i lefel dderbyniol, ond mae'n derbyn bellach bod hwn yn fater y gellir ymdrin ag ef trwy amodau [A8, 4.1]. Mae gwrthwynebiad arall yn ymwneud ag effaith weledol sawl un o'r tyrbinau arfaethedig ar Ffordd Glyndŵr [A8, 4.2]. Mae gan y Gynghrair bryderon tebyg [A7, 13.42-13.48]. Mae NRW hefyd yn gwrthwynebu effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol ar Barc Cenedlaethol Eryri. Mae gwrthwynebiadau NRW yn ymwneud yn bennaf ag effaith tyrbinau arfaethedig Carnedd Wen [A8, 3.1 a 3.3-3.7]. Fodd bynnag, o sawl golygfan, gan gynnwys y rhai hynny o fannau o fewn y Parc Cenedlaethol, byddai tyrbinau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen yn ymddangos gyda'i gilydd fel un fferm wynt fawr iawn, a byddent yn cael eu gweld yng nghyd-destun ffermydd gwynt presennol ac arfaethedig eraill yn SSA B. Felly, ystyriaf effaith weledol y datblygiad arfaethedig ar olygfeydd o fewn y Parc Cenedlaethol gyda chynlluniau eraill, o dan y pennawd effeithiau mewn cyfuniad ac effeithiau cyfunol SSA B. Am resymau tebyg, byddaf hefyd yn ystyried yr effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol ar Ucheldiroedd Llanbrynmair / Carnedd Wen a Dyffryn Nant yr Eira o dan yr un pennawd.

266. Y prif ystyriaethau, felly, yw effaith amgylcheddol y llwybr mynediad lleol arfaethedig ar gyfer AILs Llanbrynmair a'i effaith ar y dirwedd, ac effaith weledol y tyrbinau arfaethedig o'u gweld o Ffordd Glyndŵr.

*Mynediad ar gyfer AILs – Effeithiau Gweledol ac Effeithiau ar y Dirwedd*

267. Disgrifir manylion y gwaith y byddai ei angen i ddarparu mynediad ar gyfer AILs yn SEI mis Awst 2013 RES[93]. Byddai AILs yn gadael yr A458 yn Llanerfyl, ac yn dilyn ffyrdd sirol/annosbarthedig yr C2031 a'r U2319 trwy oddeutu 12km o Ddyffryn Nant yr Eira, cyn troi i ymuno ag un o sawl llwybr mynediad newydd arfaethedig i'r fferm wynt arfaethedig. Byddai traffig adeiladu arall yn teithio i'r gogledd, o'r A470 ger Talerddig.

268. Mae Dyffryn Nant yr Eira o fewn ardal Tiroedd Amaeth Brith Llanerfyl ar LANDMAP, sef VSAA 422 [A9, 394]. Mae LANDMAP yn ei ddisgrifio fel bod ar raddfa fach a chlyd, a bod ganddo nodweddion amgaeëdig, cydgordiol a thawel.

269. Mae rhan ddeheuol y dyffryn, a fyddai'n cael ei defnyddio gan draffig adeiladu cyffredinol ond nid AILs, yn gymharol agored ac uchel ac mae iddi gymeriad dyffryndir eang, gyda llethrau cymharol gymedrol sy'n codi i rostir a choedwigaeth ucheldirol. Nodweddir llystyfiant gan dir pori garw. Gan nad oes llawer o berthi na chaeau amgaeëdig eraill, mae ganddi olwg ucheldir agored [A9,

[93] AD/RES/030 - 036

397]. Byddai'r gwaith y byddai ei angen i ganiatáu defnydd gan draffig adeiladu cyffredinol yn rhan ddeheuol y dyffryn yn cael effaith gyfyngedig ar gymeriad yr ardal, ac nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad yn hyn o beth. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

270. Byddai'r rhan fwyaf o'r llwybr mynediad arfaethedig ar gyfer AILs yn mynd trwy ran ogleddol, isaf y dyffryn. Mewn cyferbyniad â'r rhan ddeheuol, amgaeir y rhan hon yn ddyfnach gan y tirffurf, ac mae ganddi dir pori glaswellt a llystyfiant cyfoethocach gan gynnwys coed a pherthi. Mae'r ffordd trwy'r rhan hon yn gul, yn droellog ac yn donnog, ac mae wedi'i ffinio'n agos gan berthi a choed ar hyd llawer ohoni [A9, 396].

271. Er mwyn i AILs allu teithio ar hyd y ffordd, byddai angen lledu oddeutu 7km ohoni, a gyflawnir yn bennaf trwy ymestyn ac atgyfnerthu lleiniau ymyl ffordd ar un ochr o'r ffordd [A9, 399(c)]. Byddai'r lleiniau ymyl ffordd yn cael eu harwynebu a'u hatgyfnerthu gyda chynnyrch tebyg i 'grasscrete', er mwyn caniatáu i AILs or-redeg yr ardal arwyneb tarmac bresennol. Byddai angen lledu oddeutu 14 o bontydd a chwlfertau, a byddai eraill yn cael eu cryfhau neu eu diogelu [A9, 399(i)]. Felly, mae'r gwaith a gynigir yn sylweddol.

272. Ni cheir cytundeb ynglŷn ag union faint o berthi a fyddai'n cael eu gwaredu a'u hamnewid, er na ddadleuir ynghylch brasamcan y Cyngor o 1.5km [A9, 399(e)]. Ni cheir cytundeb ychwaith ynglŷn ag union nifer y coed a fyddai'n cael eu colli, yn rhannol oherwydd bod yr SEI, mewn rhai mannau, yn eu trin fel grwpiau o goed nad ydynt wedi'u rhifo [A9, 399(f)]. Ar sail y dystiolaeth sydd o'm blaen, byddai'n ymddangos y byddai 50 o goed aeddfed â theilyngdod unigol yn cael eu colli, ynghyd â channoedd o goed mewn grwpiau amrywiol. Byddai'n fwy priodol disgrifio llawer o'r rhain fel glasbrennau, neu byddent heb lawer o deilyngdod unigol fel arall. Fodd bynnag, yn ardal Pont Gosen, mae rhai o'r coed a aseswyd yn rhan o grŵp yn goed derw neu goedlannau ar lannau afon, a allai fod yn hen iawn er eu bod yn gymharol fach o ran diamedr. Maent hefyd yn gwneud cyfraniad mawr at gymeriad yr ardal.

273. Yn ystod y gwaith adeiladu a hyd nes y byddai perthi, coed a lleiniau ymyl ffordd yn aildyfu, byddai effaith niweidiol cyffredinol sylweddol ar gymeriad gwledig dymunol y ffordd. Mae amcangyfrifon ynglŷn â faint o amser y byddai ei angen i berthi aildyfu i'w cyflwr presennol yn amrywio. Mae tyst tirwedd yr ymgeisydd o'r farn y byddent yn ailsefydlu o fewn 5 mlynedd, ond o ystyried cyfraddau twf araf mewn ardaloedd ucheldir, fe allai hyn fod yn obeithiol. Ar y llaw arall, gellid disgwyl i berthi a lleiniau ymyl ffordd gael eu hailsefydlu o fewn 10 mlynedd, a byddai coed newydd yn aildyfu i faint sylweddol o fewn oddeutu 20 mlynedd. Gellid gadael i laswellt a llystyfiant meddal arall dyfu wrth ochr y ffordd, gan felly feddalu effeithiau gweledol lledu a lefelu lleiniau ymyl ffordd. Felly, rwyf yn fodlon y byddai golwg y rhan fwyaf o'r llwybr yn cael ei hadfer i raddau helaeth o fewn 5-10 mlynedd, a'i hadfer yn llawn o fewn 20 mlynedd o adeiladu'r datblygiad. Er hynny, byddai niwed sylweddol i gymeriad llawer o'r llwybr AIL yn y tymor byr i'r tymor canolig.

274. Ym Mhont Gosen, mae'r ffordd yn troi'n sydyn ac yn mynd i lawr trwy ardal goediog, cyn croesi pont gerrig gul a chodi ar yr ochr arall. Byddai'r gwaith ym Mhont Gosen yn golygu lledu dec y bont ac arwyneb y ffordd sy'n dynesu ati yn sylweddol. Byddai lleiniau ymyl ffordd glaswellt eang wedi'u hatgyfnerthu yn cael eu ffurfio ar ochr Llanerfyl y bont. Byddai arglawdd afon presennol sy'n drwch o

llystyfiant gerllaw'r bont yn cael ei golli a'i amnewid ag ardal gulach a fyddai'n cynnal llai o lystyfiant. Byddai'n cymryd cryn dipyn o amser i goed a blennir yn lle coed derw a choed eraill ar lannau'r afon dyfu. Ar ochr Talerddig y bont, byddai ffordd halio newydd 350m o hyd yn cael ei hadeiladu i osgoi newidiadau graddiant gormodol ar y ffordd bresennol. Byddai hyn yn golygu torri argloddiau ac yn arwain at dirffurfiau annaturiol. O ystyried yr holl waith gyda'i gilydd, rwyf o'r farn y byddai'n cael effaith niweidiol iawn ar gymeriad yr ardal. Byddai effeithiau gweledol lledu'r bont a'r ffordd halio yn barhaol [A9, 409-420; A5, 112 a 113].

275. Mae'r ffordd bresennol hefyd yn mynd heibio'n agos i blanhigfa fach o goed coniffer ar arglawdd ger Pont Dolwen Isaf. Er bod achos yr ymgeisydd yn disgrifio'r blanhigfa fel bod mewn cyflwr gwael, ceir coed a phrysglwyni brodorol ar ei hymyl. Byddai'r gwaith y byddai ei angen i alluogi AILs i droi i fynd dros y bont yn cynnwys torri'r arglawdd presennol yn ôl a chynyddu ei ongl. Felly, byddai'r llystyfiant ymyl y ffordd a rhan sylweddol o'r blanhigfa'n cael eu colli. Nid yw'r cynlluniau ar gyfer ailblannu'r arglawdd yn fanwl, ond mae'n debygol y byddai'n cymryd 5-10 mlynedd cyn y byddai'r hyn a blannwyd yn sefydlu i raddau a fyddai'n meddalu'r tirffurf wedi'i newid a digolledu am golli llystyfiant presennol [A9, 408; A5, 111].

276. Yn Neintherion, mae'r ffordd yn mynd rhwng adeiladau ac ni ellir ei lledu i ganiatáu i AILs ei defnyddio. Felly, cynigir adeiladu ffordd halio breifat neu 'ffordd osgoi' o amgylch yr ardal hon. Byddai oddeutu 1km o hyd a rhwng tua 5.5 a 12.7m o led. Byddai ganddi sylfaen cerrig mâl wedi'i harwynebu â chynnyrch atgyfnerthu glaswelltog, yn debyg i'r deunydd a fyddai'n cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill lle y gwneir gwaith lledu ffyrdd. Byddai'n mynd trwy gaeau â draeniad gwael a waliau cerrig sy'n ffurfio ffiniau caeau, a byddai'n golygu cloddwaith gan gynnwys argloddiau i greu arwyneb gwastad. Byddai glaswellt yn gallu aildyfu trwy'r arwyneb wedi'i atgyfnerthu. Fodd bynnag, mae newidiadau o ran draeniad ac amodau pridd yn golygu ei bod yn annhebygol y byddai golwg y ffordd halio'n cydweddu'n agos â'r caeau gerllaw, ac ni fyddai'r tirffurf wedi'i newid yn cael ei guddio. Felly, byddai'r ffordd osgoi yn aros yn nodwedd amlwg o wneuthuriad dyn yn y dirwedd. Gan fod cymeriad yr ardal wedi'i nodweddu'n helaeth gan aneddiadau a ffermio, nid wyf o'r farn y byddai ei heffaith yn niweidiol iawn yn y tymor canolig i'r tymor hir. Fodd bynnag, gan na fyddai ei diben yn amlwg, byddai braidd yn anghydweddol. Yn ogystal, byddai effeithiau gweledol niweidiol sylweddol yn y tymor byr yn ystod y gwaith adeiladu, hyd nes y byddai'r arwyneb glaswellt yn sefydlu [A9, 406 a 407; A5, 109 a 110].

277. Mae coridor y llwybr AIL arfaethedig yn rhan fach o VSAA berthnasol LANDMAP ac Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Powys. Nid wyf o'r farn y byddai effaith weledol y gwaith arfaethedig na'i effaith ar y dirwedd yn arwyddocaol yng nghyd-destun tirwedd ehangach ucheldiroedd Llanbrymair a Charnedd Wen a Dyffryn Nant yr Eira [A5, 97 a 100]. Fodd bynnag, am y rhesymau uchod, deuaf i'r casgliad y byddai effeithiau niweidiol yn weledol ac effeithiau niweidiol ar y dirwedd a fyddai'n arwyddocaol yn lleol. Byddai rhai o'r rhain yn dymor canolig i dymor hir, a byddai eraill yn barhaol.

*Aflonyddu ac Anghyfleustra*

278. Yn ogystal ag effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, mae'r Cyngor a phreswylwyr lleol yn pryderu y byddai'r gwaith y byddai ei angen yn creu aflonyddu ac anghyfleustra helaeth [A9, 423; A7, 15.52].

279. Gan y byddai gwaith lledu ffyrdd yn cael ei wneud mewn ardaloedd cyfyng yn bennaf, byddai angen defnyddio peiriannau ac offer bach, a byddai'n rhaid i lawer o'r gwaith gael ei wneud â llaw. Yn ogystal, rhoddwyd tystiolaeth gan dyst trafnidiaeth yr ymgeisydd i'r perwyl y byddai gwaith yn cael ei wneud mewn ychydig leoliadau yn unig ar unrhyw un adeg, ac y byddai cloddiadau'n cael eu hôl-lenwi ar ddiwedd pob dydd a'u hailagor bob bore fel y gellid codi mesurau rheoli traffig yn y nos. Am y rhesymau hyn, ystyriaf ei bod yn debygol y byddai cynnydd yn gymharol araf ac y gallai gymryd mwy na'r cyfnod 9 mis a ragwelir gan yr ymgeiswyr. Sut bynnag, byddai aflonyddu ar draffig am gyfnod sylweddol.

280. Ni ddadleuir y byddai angen cau rhai ffyrdd, yn bennaf i hwyluso gwaith ym Mhont Gosen [A5, 174-176]. Ni fyddai'n briodol i waith yn yr ardal hon gael ei wneud yn y nos, nid lleiaf oherwydd bod eiddo preswyl yn y cyffiniau [A7, 13.54]. O ystyried graddau a natur y gwaith, mae amcangyfrifiad yr ymgeisydd y byddai angen cau ffyrdd ar 9-15 o ddiwrnodau yn unig, yn ymddangos yn obeithiol i mi. Sut bynnag, byddai gwyriadau'n hir, gan ymestyn rhai teithiau gan gymaint ag oddeutu 30km. Nid oes llawer o iawn o ddefnydd ar y ffordd, ond hyd yn oed pe byddai achosion o gau'r ffordd yn cael eu cyfyngu i 9 diwrnod, byddai amcangyfrif ceidwadol yn dangos y byddai'r pellter ychwanegol cyfan y byddai'n rhaid i yrwyr ei yrru yn dod i sawl mil o gilometrau. Yn ogystal ag anghyfleustra mawr, byddai costau ariannol ac amgylcheddol hefyd felly.

*Digonoldeb yr ES a'r SEI / Effeithiau ar Fywyd Gwyllt ac Ecoleg*

281. Mae'r rheoliadau perthnasol yn mynnu bod ES yn cynnwys y cyfryw wybodaeth ag sydd ei hangen yn rhesymol i asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y datblygiad. Fel mater cyfreithiol, yr awdurdod penderfynu sydd i benderfynu ar ddigonoldeb ES, ac ni chaiff ei amddifadu o awdurdodaeth dim ond oherwydd bod ES yn ddiffygiol, cyn belled ag nad yw'r ES mor ddiffygiol fel na allai'n rhesymol gael ei ddisgrifio fel datganiad amgylcheddol [A5, 207]. Fel mater polisi, mae paragraff 4.3.4 TAN 5 yn cydnabod y dylai'r wybodaeth a gyflwynir gyda chais cynllunio fod yn gymesur â thebygolrwydd effeithiau ar fuddiannau cadwraeth natur ac i'w harwyddocâd posibl.

282. Mae'r brif wybodaeth amgylcheddol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r llwybr mynediad AIL o Lanerfyl i'r safle wedi'i chynnwys yn SEI mis Awst 2013 RES. Yn ystod yr ymchwiliad, amlygodd PCC nifer o gamgymeriadau a hepgoriadau, ond mae amlygu diffygion o'r fath yn rhan o ddiben y broses ymgynghori, ac nid yw ynddo'i hun yn gwneud yr ES yn annigonol [A5, 212]. Mewn ymateb, cyflwynodd RES SEI arall ym mis Hydref 2013 (yr SEI Ystlumod) ac ym mis Chwefror 2014. Mae SEI mis Chwefror 2014 hefyd yn cynnwys gwybodaeth amgylcheddol yn ymwneud â threfniant mynediad arall a awgrymwyd gan y Cyngor. Cyflwynwyd yr SEI ychwanegol a rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo yn unol â gofynion statudol ac ni ddadleuir ei fod yn ffurfio rhan o'r wybodaeth amgylcheddol at ddibenion yr ymchwiliad hwn.

283. Mae'r materion eraill y mae'r Cyngor, NRW a'r ymgeisydd yn dadlau yn eu cylch yn ymwneud â choed a pherthi, pathewod, ystlumod, dyfrgwn, cynefinoedd glaswelltir, a mawn. Mae PCC yn mynnu bod nifer o goed na fydd modd eu cadw

yn ymarferol oherwydd bod perygl y gallai eu gwreiddiau gael eu haflonyddu yn ystod y gwaith adeiladu [A9, 553]. Mae hefyd o'r farn na fyddai ailblannu perthi yn fesur lliniaru digonol ar gyfer colli perthi yn nhermau ecolegol, oherwydd fe allai gymryd degawdau i adfer eu swyddogaeth ecolegol [A9, 554]. O ran pathewod, ceir pryder nad yw'r gwaith arolygu'n cyrraedd safon arfer gorau. Mae PCC hefyd yn pryderu ynglŷn â lefel y gwaith arolygu a gynhaliwyd o ran ystlumod ym Mhont Gosen a phontydd eraill, a bod rhai o'r coed yr ystyriant na ellid eu cadw yn ymarferol yn ymddangos fel petaent yn addas ar gyfer ystlumod sy'n clwydo. Mae pryderon ynglŷn â dyfrgwn yn ymwneud ag a fyddai llwyfan gwaith neu 'ddec cwympo' dros dro arfaethedig i'w adeiladu dros yr afon ym Mhont Gosen yn ymyrryd â'u symudiad. Mae PCC hefyd o'r farn bod rhai cynefinoedd glaswelltir wedi'u camnodi a bod yr ES a'r SEIs, mewn rhai achosion, yn rhoi amcangyfrif rhy isel o faint o fawn a fyddai'n cael ei effeithio.

284. Mae'r ES a'r SEIs dilynol yn sylweddol ac yn fanwl. Maent yn amlygu ac asesu prif effeithiau tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau ar goed a pherthi, pathewod, ystlumod, dyfrgwn, cynefinoedd glaswelltir a mawn, ac yn disgrifio effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad. Cynhaliwyd arolygon o bathewod ac ystlumod i lywio'r asesiadau. Ceir anghytundeb ynglŷn â digonoldeb yr arolygon hynny, a gellid bod wedi gwneud mwy o waith arolygu i fireinio gwybodaeth ymhellach am yr amodau sylfaenol. Fodd bynnag, am resymau yr ymhelaethaf arnynt yn ddiweddarach, ystyriaf fod yr arolygon a gynhaliwyd yn gymesur â thebygolrwydd effeithiau ar fuddiannau cadwraeth natur a'u harwyddocâd posibl.

285. Am y rhesymau hyn, rwyf yn fodlon bod yr ES a'r SEIs dilynol yn cynnwys y cyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol yn rhesymol i asesu effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y datblygiad. Er bod rhai diffygion yn yr ES gwreiddiol, a bod rhai diffygion yn parhau yn yr SEIs dilynol, nid yw'r dogfennau a gyflwynwyd mor ddiffygiol fel na ellid eu disgrifio'n rhesymol fel datganiad amgylcheddol. Mae rhai o'r diffygion hynny, fel mater o farn, yn arwain at wahaniaethau rhwng y partïon ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol, y byddaf yn mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, o safbwynt cyfreithiol, nid wyf o'r farn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei atal rhag rhoi caniatâd ar gyfer y datblygiad arfaethedig, gan gynnwys y cynnig i ddarparu mynediad ar gyfer AILs gan ddefnyddio llwybr Llanerfyl i Dalerddig [A9, 514-515; A5, 213-215].

*Coed a Pherthi*

286. Gan droi, felly, at y materion sy'n weddill rhwng y Cyngor, NRW a'r ymgeisydd, ceir cytundeb rhwng PCC a RES ei bod yn dechnegol ymarferol i'r gwaith priffyrdd arfaethedig gael ei wneud o fewn y ffiniau 'llinell goch' diwygiedig a ddiffiniwyd at ddibenion yr ES a'r SEIs dilynol [A5, 295]. Byddai'r ardal weithio'n agos i goed y tu allan i'r ffin mewn mannau. Felly, gallai cloddiadau dorri rhai gwreiddiau coed, neu gallai'r ddaear o'u hamgylch gael ei gywasgu. Fodd bynnag, byddai'n arferol mewn achosion o'r fath i fesurau amddiffynnol gael eu cymryd, fel diogelu gwaelod coeden yn ffisegol, osgoi cloddiadau lle y bo'n bosibl, neu leihau'r canopi er mwyn gwneud iawn am ddifrod i wreiddiau. Yn amodol ar fesurau o'r fath, y gellid eu mynnu trwy amodau cytunedig yn ymwneud â chynllun rheoli adeiladu, ychydig o goed y tu allan i'r ffin a fyddai'n cael eu colli neu'n dioddef difrod tymor hir. Mae effeithiau ar goed neu grwpiau o goed y tu mewn i'r ffin wedi'u hasesu, a chynigir mesurau lliniaru ar ffurf plannu coed newydd yn eu lle. Ymhen amser, byddai'r coed newydd o'r

un gwerth ecolegol â'r coed a fyddai'n cael eu colli. Fodd bynnag, yn y tymor byr i'r tymor canolig (oddeutu 20 mlynedd) byddai rhywfaint o niwed yn nhermau ecolegol [A9, 532-533].

287. Er bod perthi'n gynefin blaenoriaeth o dan adran 42 Deddf NERC a'u bod yn gallu cynhyrchu fflora penodol dros amser, nid oes tystiolaeth fod y perthi a fyddai'n cael eu heffeithio yn yr achos hwn yn cynnwys neu'n cynnal rhywogaethau neu gynefinoedd prin neu anarferol. Byddai perthi newydd a blennir neu berthi a adleolir yn adfer eu gwerth ecolegol, yn ogystal â gweledol, yn y pen draw. Fel y nodais uchod, oherwydd yr amgylchedd ucheldir cymharol arw, rwyf wedi dod i'r casgliad ei bod yn debygol y byddai'n cymryd mwy na 5 mlynedd i berthi newydd adfer eu golwg lawn. Gallai gymryd hyd yn oed mwy o amser iddynt adfer eu gwerth ecolegol llawn ond, ar y cyfan, mae'n rhesymol disgwyl y byddai hyn yn digwydd ar ôl 5-10 mlynedd o reolaeth ofalus, yn hytrach na sawl degawd. Er hynny, yn y tymor byr i'r tymor canolig, byddai niwed i werth ecolegol oddeutu 1.5km o berthi [A9, 534].

*Pathewod*

288. Nid oes unrhyw gofnod o bresenoldeb pathewod yng nghyffiniau'r llwybr AIL arfaethedig. Mae cofnodion o'u presenoldeb lai na thri chilomedr o Lanerfyl yn dod o ardal wahanol. Er y daeth yn amlwg yn y blynyddoedd diweddar y gallai pathewod ymddangos weithiau mewn mannau nad ystyriwyd eu bod yn darparu cynefin addas yn draddodiadol [A9, 535], mae'r perthi ar hyd y llwybr mynediad arfaethedig yn cael eu ffustio'n rheolaidd yn gyffredinol ac nid oes unrhyw ardaloedd helaeth o goetir collddail sy'n cynnwys cyll ffrwytho, a fyddai'n gynefin gwerthfawr i bathewod. Er hynny, cynhaliwyd arolygon ar hyd y llwybr mewn ymdrech i ganfod presenoldeb gwirioneddol neu ddangos absenoldeb tebygol.

289. Mae'r *Llawlyfr Pathewod*, sy'n darparu arweiniad 'arfer gorau' safonol, yn nodi mai'r ffordd orau o gadarnhau presenoldeb yw chwilio am gyll cnöedig. Nid oedd y dull systematig o chwilio blociau 10m x 10m o gyll ffrwytho yn bosibl oherwydd absenoldeb ardaloedd o'r fath yn y cyffiniau. Fodd bynnag, daethpwyd o hyd i fwy na 100 o gnau cnöedig, nad oedd yr un ohonynt wedi'u bwyta gan bathewod. Roedd cyfran gymharol uchel wedi'u cnoi gan wiwerod, a allai arwain at ganlyniadau negyddol ffug yn ôl â'r arweiniad. Er hynny, mae'r Canllaw yn cynghori y gall dulliau o'r fath ddangos gyda thebygolrwydd uchel nad yw pathewod yn bresennol.

290. Mae Nodyn Cyngor Dros Dro gan Natural England yn datgan bod perygl sylweddol o ganlyniadau negyddol ffug trwy chwilio am gnau yn unig, yn enwedig lle y ceir dwysedd isel o bathewod. Mae NRW a PCC o'r farn y dylid bod wedi defnyddio nythbibellau er mwyn sicrhau nad oedd yr arolwg cnau yn rhoi canlyniad negyddol ffug. Fodd bynnag, er y gall arolygon ddangos presenoldeb rhywogaeth mewn ardal, yn anaml, os o gwbl, y gallant brofi nad yw rhywogaeth yn bresennol. Byddai defnyddio dulliau nythbibell yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganfod pathewod os ydynt yn bresennol yn yr ardal, ond ni allai brofi eu habsenoldeb.

291. Rwyf yn cydnabod awydd NRW am chwiliadau ychwanegol a fyddai'n cynyddu'r posibilrwydd o ddod o hyd i dystiolaeth o unrhyw bathewod sy'n bresennol, neu'n dangos gyda thebygolrwydd uwch nad yw pathewod yn bresennol. Fodd bynnag, dylai'r ymdrech a wneir i gynnal arolygon o'r fath fod yn gymesur â'r risg. Yn yr achos hwn, byddai'r gwaith arfaethedig yn effeithio'n bennaf ar berthi sy'n cael

eu ffustio'n rheolaidd. Yn gyffredinol, byddai'r gwaith yn effeithio ar y berth ar un ochr o unrhyw ffordd benodol yn unig. Felly, byddai'r berth ar yr ochr arall yn parhau i fod yn lloches bosibl ar gyfer pathewod. O ganlyniad, mae risg effeithiau niweidiol ar fuddiannau cadwraeth natur yn ymwneud â phathewod, ac arwyddocâd posibl y risg hon, yn isel. Oherwydd y gallai amgylchiadau newid, cytunir y dylid cynnal chwiliadau ychwanegol yn agosach i'r adeg pryd y byddai'r gwaith yn cael ei wneud. Fodd bynnag, er y byddai hynny'n fesur rhagofalus gwerthfawr ac angenrheidiol o ystyried y byddai'n sawl blwyddyn cyn y gallai'r datblygiad ddigwydd, nid yw'n arwydd bod y gwaith a wnaed hyd yma yn annigonol. Nid wyf yn derbyn, fel y mae RES yn honni, na fyddai perygl o ladd neu darfu ar bathewod, gan nad yw wedi'i brofi eu bod yn absennol. Fodd bynnag, yn yr amgylchiadau hyn, rwyf yn fodlon bod yr arolygon a gynhaliwyd yn gymesur a boddhaol, ac y gellir dibynnu ar gasgliad yr SEI, sef nad oes unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol debygol, at ddiben gwneud penderfyniad [A9 535-537; A8, 4.10; A5, 257-278].

*Ystlumod*

292. Mae arolygon wedi dangos bod niferoedd bach o ystlumod yn clwydo mewn agennau bas bach yn adeiledd carreg Pont Gosen. Fodd bynnag, mae NRW yn derbyn na fyddai'r gwaith arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar boblogaethau ystlumod, ac y gellir lliniaru'r effaith ym Mhont Gosen trwy amseru'r gwaith yn briodol a darparu nodweddion clwydo yn yr adeiledd arfaethedig.

293. Mae pontydd ac adeileddau eraill wedi'u harolygu, ac mae coed a allai ddarparu cyfleoedd clwydo i ystlumod wedi'u hasesu. Ni chadarnhawyd presenoldeb ystlumod sy'n clwydo yn yr un o'r cyfryw leoliadau. Fel y nodais uchod, nid yw'r canfyddiad negyddol yn profi nad yw ystlumod yn bresennol. Fodd bynnag, canfuwyd bod yr adeileddau a arolygwyd yn darparu cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer clwydo, ac mai nifer gymharol fach o goed a allai fod yn addas fyddai'n cael eu heffeithio.

294. Mae'r *Llawlyfr Arfer Da Arolygon Ystlumod* yn cynghori y dylid defnyddio dulliau heblaw am y rhai hynny a ddefnyddiwyd gan RES wrth gynnal arolygon ar gyfer cynlluniau lledu ffyrdd arfaethedig neu ar safleoedd mawr. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, ni fyddai lledu ffyrdd yn gyffredinol yn effeithio ar ddwy ochr y ffordd, a byddai'r perthi a fyddai'n cael eu heffeithio yn gyfran fach o'r rhai sydd ar gael i ystlumod sy'n teithio rhwng dau le neu'n chwilota am fwyd yn y cyffiniau. Felly, nid yw cymeriad y gwaith arfaethedig yn debyg i gynlluniau lledu ffyrdd cyffredinol ar raddfa fawr neu waith ar safleoedd mawr. Yn ogystal, mae risgiau effeithiau niweidiol ar fuddiannau cadwraeth natur yn ymwneud ag ystlumod, ac arwyddocâd posibl risgiau o'r fath, yn isel. Am y rhesymau hyn, ystyriaf fod yr arolygon ystlumod sydd wedi'u cynnal yn gymesur ac yn foddhaol, ac yn cydymffurfio â chanllawiau arfer gorau yn gyffredinol. Mae'r angen am fesurau lliniaru priodol a'r cwmpas ar eu cyfer wedi'u hamlygu yn yr ES a'r SEIs dilynol. Byddai angen cytuno ar rai manylion, er enghraifft cyfleoedd clwydo i'w cynnwys yn nyluniad Pont Gosen, cyn y gallai'r gwaith ddechrau, ond mae hynny'n arferol yn yr amgylchiadau hyn [A9, 538-543; A8, 4.6-4.8; A5, 279-294].

295. Am y rhesymau hyn, rwyf yn fodlon, yn ddarostyngedig i fesurau lliniaru a amlygwyd ac y gellir eu sicrhau trwy amodau cytunedig, na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol ar ystlumod.

*Dyfrgwn*

296. Ni ddadleuir bod dyfrgwn yn bresennol yn Nyffryn Nant yr Eira a'u bod yn debygol o fynd ar hyd nentydd ac afonydd a groesir gan y llwybr arfaethedig. Fodd bynnag, nid yw arolygon wedi amlygu gwaliau neu fannau gorffwys ar gyfer dyfrgwn yn agos i unrhyw ran o'r gwaith arfaethedig.

297. Byddai'r llwyfan gweithio arfaethedig ym Mhont Gosen yn cael ei godi ymhell uwchlaw lefel y dŵr ar byst sylfaen dros dro a osodir ar wely'r afon. Felly, byddai'n caniatáu i ddyfrgwn ddefnyddio'r afon i fynd trwy'r safle. Nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos y gallai hyn rwystro dyfrgwn rhag defnyddio'r afonydd ar y pwynt hwn. Hyd yn oed pe byddent yn cael eu rhwystro, nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar eu cynefin.

298. Ar y sail hon, rwyf yn fodlon bod yr arolygon dyfrgwn a gynhaliwyd yn gymesur, ac na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol tebygol ar ddyfrgwn [A9, 544, A5, 241-256].

*Cynefinoedd Glaswelltir*

299. Ceir gwahaniaethau rhwng tystion arbenigol ynglŷn â dosbarthiad cynefinoedd glaswelltir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae dosbarthiad cynefinoedd o'r fath yn fater o farn broffesiynol. Ar sail y dystiolaeth sydd o'm blaen, mae'n anodd lle, yn yr achos hwn, y mae cynefinoedd wedi'u haddasu gan ddefnydd tir ac yn cynnwys rhywogaethau planhigion sy'n nodweddiadol o sawl dosbarthiad. Felly, nid yw'r gwahaniaethau rhwng tystion yn annisgwyl. Cynhaliwyd arolygon yr ymgeisydd gan ecolegydd â chymwysterau a phrofiad addas, ac yn unol â methodoleg gydnabyddedig. Mae'r camgymeriadau neu'r hepgoriadau a amlygwyd gan dyst ecoleg arbenigol y Cyngor yn gymharol ddibwys eu natur ac nid ydynt, yn fy marn i, yn tanseilio cadernid yr arolygon yn sylfaenol, na'r casgliadau a ddeillir ohonynt. Nid wyf o'r farn bod yr ES mor ddiffygiol fel na ellid ei ddisgrifio'n rhesymol fel datganiad amgylcheddol. Nid yw NRW yn amau bod yr ES, ynghyd ag SEIs dilynol, yn darparu'r cyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol yn rhesymol i asesu effeithiau amgylcheddol y datblygiad o ran cynefinoedd glaswelltir. Nid oes unrhyw niwed arwyddocaol tebygol i faterion o ddiddordeb cadwraeth arbennig wedi'i amlygu o ran cynefinoedd glaswelltir [A5, 218-222].

*Mawn*

300. Cafwyd asesiadau gwahanol o faint o fawn a fyddai'n cael ei effeithio gan adeiladu'r ffordd halio breifat arfaethedig yn Neintherion. Mae hyn yn ddealladwy gan fod y dyddodion mawn yn glytiog ac yn amrywio o ran trwch, a bu gwahaniaethau yn y mannau lle y cynhaliwyd chwiliadau a'r bylchau rhyngddynt. Ni all asesiadau fod yn fwy nag amcangyfrif. Er bod y lwfans gwallau'n lleihau wrth i nifer y chwiliadau gynyddu, roedd y gwaith arolygu a gynhaliwyd gan yr ymgeisydd yn ddigonol, yn fy marn i, i sefydlu graddau'r golled o ran mawn yn Neintherion gyda dibynadwyedd rhesymol. Byddai'n ganran fach o effaith gyffredinol y prosiect ar adnoddau mawn, ac ymhell o fewn y lwfans gwallau ar gyfer asesu effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn ei gyfanrwydd ar fawn.

301. Am y rhesymau hyn, ystyriaf fod digon o waith wedi'i wneud o ran effaith y cynigion mynediad lleol ar fawn, ac nad yw'r wybodaeth amgylcheddol yn ddiffygiol i'r graddau na all ffurfio'r sail ar gyfer caniatâd cyfreithlon. Yng nghyd-destun y prosiect yn ei gyfanrwydd, byddai'r mawn a gollir yn safle ffordd halio breifat Neintherion yn ddibwys [A9, 546 a 547; A5, 224-240].

*Crynodeb o Gasgliadau ynglŷn ag Effeithiau Amgylcheddol y Cynnig Mynediad Lleol ar gyfer Danfoniadau AIL*

302. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd yn lleol, y byddai rhai ohonynt yn dymor canolig i dymor hir, ac y byddai rhai ohonynt yn barhaol. Byddai gwaith ffordd yn achosi anghyfleustra ac aflonyddwch dros gyfnod hir, a byddai cau ffyrdd yn arwain at gostau ariannol ac amgylcheddol. Yn y tymor byr i'r tymor canolig (oddeutu 10-20 mlynedd), byddai rhywfaint o niwed i werth ecolegol coed a pherthi. Fodd bynnag, yn amodol ar fesurau lliniaru priodol, mae'n annhebygol y byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar bathewod, ystlumod neu ddyfrgwn. Ni fyddai'r effaith ar ddyddodion mawn yn arwyddocaol yng nghyd-destun y prosiect yn ei gyfanrwydd.

*Diogelwch Priffyrdd*

303. Gwelais fod gwelededd ymlaen ar gyffordd yr A470 gyda'r llwybr arfaethedig ar gyfer traffig adeiladu cyffredinol ger Talerddig yn gyfyngedig oherwydd aliniad fertigol y brif ffordd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor (fel Awdurdod Priffyrdd) a Llywodraeth Cymru, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr asiantaeth gefnffyrdd, yn fodlon, o ystyried cyflymder cyfartalog traffig ar y rhan honno o'r ffordd, y byddai'r gwelliannau arfaethedig ar y gyffordd yn ei gwneud yn dderbyniol o ddiogel i'w defnyddio gan draffig adeiladu cyffredinol. Er bod y Gynghrair yn pryderu am ddiogelwch y gyffordd, nid yw wedi darparu unrhyw dystiolaeth gadarn a fyddai'n peri i mi anghytuno â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol [A7, 13.51].

304. Mae'r ffyrdd yn Nyffryn Nant yr Eira yn gul ac mae gwelededd ymlaen yn wael mewn mannau. Byddai'r gwaith arfaethedig yn darparu ar gyfer traffig dwyffordd ym Mhont Gosen a rhai lleoedd parcio oddi ar y ffordd mewn man prydferth lleol. Byddai mannau mynd heibio parhaol ychwanegol yn cael eu darparu, a fyddai'n ei gwneud yn fwy cyfleus i gerbydau fynd heibio traffig sy'n dod [A5, 184]. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw risg ddiogelwch bresennol benodol ar y ffyrdd presennol. Nid oes ychwaith unrhyw dystiolaeth o angen penodol am barcio ychwanegol oddi ar y ffordd. Felly, nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai'r gwaith arfaethedig o fudd arwyddocaol o ran diogelwch [A9, 424].

305. Byddai'r gwelliannau arfaethedig i'r gyffordd ar yr A470 ger Talerddig yn barhaol. Mae'r Cyngor yn derbyn y byddai rhywfaint o fudd tymor hir i'r gymuned ac o ran diogelwch yn hyn o beth, ac nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno. Fodd bynnag, fel y Cyngor, rwyf o'r farn bod y budd yn fach.

*Dull Mynediad Arall ar gyfer AILs*

306. Cyflwynodd PCC achos yn gynnar yn yr ymchwiliad i'r perwyl y dylid ystyried defnydd a rennir o lwybr mynediad lleol AIL arfaethedig Carnedd Wen fel dewis arall yn lle'r llwybr arfaethedig ar gyfer danfoniadau AIL i safle Llanbrynmair, gan y gallai fod yn ymarferol, yn llai niweidiol ac yn fwy derbyniol yn amgylcheddol.

307. Byddai safle Carnedd Wen yn cael ei gyrraedd trwy lwybr coedwigaeth presennol sy'n dringo llethrau deheuol dyffryn Afon Dugoed o'r A458. Byddai angen lledu rhannau ohono er mwyn i AILs allu teithio ar ei hyd yn hwylus. Byddai hyn yn golygu torri rhai llethrau yn eu hôl ac felly amlygu ardaloedd o garreg foel. Fodd bynnag, erbyn hyn, cynigir cadw ardaloedd o blanhigfa goniffer islaw'r llwybr mynediad. Archwiliais y rhain yn ystod fy ymchwiliad, ac rwyf yn fodlon y byddai golygfeydd o'r llwybr ac unrhyw garreg foel newydd ei hamlygu yn cael eu sgrinio i raddau helaeth gan y coed cadwedig. Er bod y Cyngor yn pryderu am effaith weledol gwaith ar y llwybr mynediad i ddechrau, nid yw'n gwrthwynebu ar y sail hon mwyach [A9, 326]. Rwyf yn fodlon na fyddai unrhyw effaith weledol arwyddocaol o olygfannau yn y dyffryn nac o ochr arall y dyffryn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.

308. Awgrymodd y Cyngor y gallai dwy ran o lwybr mynediad gael eu hadeiladu i ddarparu rhyng-gysylltiadau rhwng cynlluniau Carnedd Wen a Llanbrynmair. Byddai'r rhain yn disodli dau lwybr mynediad arfaethedig i'r safle o ffordd Llanerfyl i Dalerddig. Felly, byddai'r angen am waith i ganiatáu i AILs deithio ar hyd ffordd Llanerfyl i Dalerddig yn cael ei osgoi'n gyfan gwbl. Derbyniodd y gallai traffig adeiladu cyffredinol barhau i gael mynediad o gyfeiriad Talerddig. Felly, byddai angen un llwybr mynediad cysylltiedig a'r gwelliannau arfaethedig i'r gyffordd â'r A470 ger Talerddig o hyd. Fodd bynnag, achos y Cyngor yw y byddai'r effaith amgylcheddol cyffredinol yn cael ei lleihau'n sylweddol [A9, 470].

309. O ystyried safbwynt y Cyngor, darparodd RES wybodaeth ychwanegol yn SEI mis Chwefror 2014 yn ymwneud â'r trefniant arall a awgrymwyd ar gyfer rhannu mynediad â chynllun Carnedd Wen cyfagos. Fodd bynnag, mae RES yn parhau i gynnig defnyddio llwybr Llanerfyl i Dalerddig [A5, 199].

310. Mae SEI mis Chwefror 2014 yn dod i'r casgliad na fyddai effeithiau'r trefniant mynediad arall yn weledol ac ar y dirwedd yn fwy na rhai'r cynllun mynediad lleol a gyflwynwyd yn SEI mis Awst 2013. Ychydig o lystyfiant o ddiddordeb cadwraeth a fyddai'n cael ei golli, ac ni fyddai'n effeithio ar unrhyw rywogaethau a warchodir. Ni fyddai'n effeithio ar unrhyw asedau hanesyddol, a gellid lliniaru effeithiau ar unrhyw archaeoleg sydd heb ei chofnodi ar hyn o bryd trwy amodau. Ni fyddai'r mân newidiadau i osodiad y seilwaith yn cael unrhyw effaith o bwys ar ddaeareg, hydroleg na hydroddaeareg. Ni fyddai unrhyw resymau cysylltiedig â thrafnidiaeth i ddanfoniadau AIL beidio â defnyddio'r mynediad a rennir. Effaith net gyffredinol y newidiadau i'r gosodiad a fyddai'n angenrheidiol i hwyluso trefniant mynediad a rennir fyddai lleihau colledion carbon, yn bennaf yn sgil lleihau colledion deunydd organig o fawn cloddiedig. Nid yw'r Cyngor yn amau'r casgliadau hyn.

311. Byddai effeithiau'r trefniant mynediad a rennir awgrymedig yn weledol ac ar y dirwedd, yn ychwanegol at rai cynllun Carnedd Wen ar ei ben ei hun, yn gyfyngedig i'r llwybrau cysylltu angenrheidiol rhwng cynlluniau Carnedd Wen a Llanbrynmair. Byddai'r rhain yn fach iawn yng nghyd-destun y datblygiad fferm wynt cyfunedig, ac yn sylweddol lai nag effeithiau lleol llwybr mynediad lleol AIL arfaethedig RES yn weledol ac ar y dirwedd. Byddai'r anghyfleustra a'r aflonyddwch a fyddai'n cael eu hachosi gan waith i ganiatáu i AILs deithio ar hyd y llwybr hwnnw'n cael eu hosgoi, ynghyd â'r costau ariannol ac amgylcheddol cysylltiedig. Byddai'r niwed i werth ecolegol y coed a'r perthi a nodwyd gennyf yn cael ei osgoi hefyd. Byddai manteision ecolegol eraill yn cynnwys osgoi aflonyddu ar gynefinoedd glaswelltir gwlyb yn Neintherion a dau lwybr mynediad,

a dileu unrhyw risg o aflonyddu ar rywogaethau a warchodir (er bod effeithiau arwyddocaol yn annhebygol). Er y byddai'r gostyngiad mewn colledion carbon amcangyfrifedig yn fach yng nghyd-destun y cynllun yn ei gyfanrwydd, ac ni fyddai'n cael llawer o effaith ar gyfnod ad-dalu carbon y prosiect, byddai'n ddymunol er hynny.

312. Deuaf i'r casgliad, o safbwynt amgylcheddol, y byddai'r dewis arall o rannu mynediad ar gyfer AILs gyda chynllun Carnedd Wen yn llawer mwy ffafriol na'r llwybr arfaethedig gan ddefnyddio ffordd Llanerfyl i Dalerddig, ac felly y byddai'n fwy ffafriol er budd y cyhoedd.

313. Mae nodyn gan RES ar hyfywedd unig fynediad i fferm wynt Llanbrynmair trwy'r A458 yn cadarnhau y byddai mynediad a rennir trwy safle Carnedd Wen yn hyfyw o safbwynt ariannol a gweithredol pe byddai costau'n cael eu rhannu[94].

314. Mae'r Cyngor yn fodlon bod SEI mis Chwefror 2014 RES, ynghyd ag ES ac SEI Carnedd Wen, yn darparu digon o wybodaeth ac yn cydymffurfio â'r Rheoliadau EIA perthnasol [A9, 569]. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno. Ceir felly digon o wybodaeth amgylcheddol i alluogi asesiad priodol o effeithiau amgylcheddol y cynllun mynediad a rennir awgrymedig. Fodd bynnag, pe na byddai cynllun Carnedd Wen yn mynd rhagddo, nid yw'n dilyn y byddai Llanbrynmair yn gweithredu'r gosodiad llwybr mynediad mewnol a gynigiwyd ac a aseswyd gan RWE. Felly, nid yw SEI mis Chwefror RES yn disgrifio'r gwaith y byddai ei angen i sicrhau mynediad ar gyfer AILs o'r A458 pe na byddai cynllun Carnedd Wen yn mynd rhagddo, na pha fesurau a fyddai'n cael eu darparu gan RES i liniaru effeithiau amgylcheddol y cyfryw waith yn yr amgylchiadau hyn. Felly, nid yw'n darparu digon o wybodaeth i alluogi asesiad priodol o effeithiau amgylcheddol sicrhau mynediad ar gyfer AILs o'r A458 ar gyfer cynllun Llanbrynmair ar ei ben ei hun.

315. Ystyriaf oblygiadau'r casgliadau hyn a'r dewisiadau ymarferol sydd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

*Effaith Weledol y Tyrbinau Arfaethedig ar Ffordd Glyndŵr*

316. Mae rhan o Ffordd Glyndŵr yn mynd trwy gynllun arfaethedig Llanbrynmair. Mae gwrthwynebiad NRW yn ymwneud yn benodol â thyrbinau rhif R14, R15, R16 ac R24, a fyddai o fewn 70m i 300m o'r llwybr cenedlaethol. Mae'r Gynghrair yn pryderu'n fwy cyffredinol ynglŷn ag effaith y datblygiad arfaethedig ar ddefnydd o'r llwybr [A8, 4.2; A7, 13.48 a 13.66 (iv) a (v)].

317. Nid amheuir bod yr ymateb i ddatblygiad fferm wynt a ffermydd gwynt yn amrywio. Yn agos, byddai rhai pobl yn profi graddfa tyrbinau gwynt mawr a symudiad y llafnau fel effaith lethol y byddent yn dymuno ei hosgoi. Felly, derbyniaf y byddai rhai defnyddwyr y llwybr cenedlaethol yn dewis peidio â defnyddio'r rhan trwy fferm wynt Llanbrynmair, er y byddai'r gwaith clirio coedwigaeth sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig yn agor ac felly'n gwella rhai golygfeydd o'r llwybr. Byddai'r effaith annymunol yn cael ei lleihau gan lwybrau caniataol ychwanegol arfaethedig a fyddai ymhellach o'r tyrbinau na'r llwybr presennol, ond ni fyddai'n cael ei hosgoi [A5, 55-59]. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn y byddai'r cyfryw effeithiau'n annerbyniol o reidrwydd. Yn hytrach,

[94] RES-013

dylid ystyried effaith datblygiad Llanbrynmair yng nghyd-destun Ffordd Glyndŵr yn ei chyfanrwydd, mewn cyfuniad ag effaith y cynlluniau eraill sydd gerbron yr ymchwiliad a datblygiadau fferm wynt eraill presennol ac arfaethedig. Felly, dychwelaf at y mater hwn yn ddiweddarach.

Materion Eraill

*Sŵn / Iechyd*

318. Mae'n dir cyffredin rhwng RES a PCC bod SEI mis Awst 2013 yn dangos na fyddai sŵn gweithredol ac adeiladu'n achosi niwed i amwynder preswyl, ac y gellir ei reoli'n ddigonol trwy amodau cynllunio[95]. Mae amodau wedi'u cytuno a fyddai'n sicrhau y byddai cynllun arfaethedig Llanbrynmair, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynllun Carnedd Wen, yn gweithredu o fewn terfynau sŵn yn ystod y dydd deilliedig ETSU-R-97. Ar gais PCC, byddai'r un terfynau'n berthnasol yn y nos hefyd.

319. Mae'r SoCG yn cyfeirio at y ffaith bod Modylu Osgledau 'Gormodol' neu 'Arall' yn bwnc y mae gwybodaeth a thystiolaeth amdano'n parhau i ddatblygu. Gan fod y mater hwn yn gyffredin i'r ceisiadau eraill, ymdriniaf ag ef mewn man arall.

320. Nid yw'r Gynghrair wedi codi unrhyw faterion penodol yn ymwneud â sŵn mewn perthynas â chynllun Llanbrynmair. Ymdrinnir â phryderon preswylwyr lleol ynglŷn ag effeithiau cyffredinol datblygiad fferm wynt ar iechyd mewn man arall.

321. Rwyf yn fodlon, yn ddarostyngedig i'r amodau cytunedig, y byddai sŵn gweithredol yn aros o fewn canllawiau a dderbyniwyd ac y byddai sŵn adeiladu'n cael ei reoli a'i gyfyngu'n effeithiol trwy amodau yn ymwneud â chydymffurfio â Chynllun Rheoli Adeiladu.

*Bioamrywiaeth*

322. Heblaw am faterion sy'n gysylltiedig â'r llwybr danfon AIL arfaethedig, nid yw'r Cyngor nac NRW yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig am resymau yn ymwneud â bioamrywiaeth. Mae amodau cynhwysfawr wedi'u cytuno a fyddai'n sicrhau mesurau a amlygwyd yn yr ES a'r SEI. Ni ddadleuir erbyn hyn y byddai'r mesurau a fyddai'n cael eu sicrhau trwy amodau yn gwarchod gylfinirod a grugieir duon yn ddigonol.

323. Mae'r Gynghrair yn parhau i bryderu y byddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio ar ardaloedd mawr o orgors a glaswelltir asidaidd sy'n gyfoethog o ran rhywogaethau. Mae'r Gynghrair o'r farn bod disgwyliadau y byddai'r mesurau lliniaru ac adfer mawn arfaethedig yn gweithio o fewn hyd oes y cynllun rheoli yn afrealistig [A7, 13.9-13.16]. Mae'n sicr yn cymryd amser i dir cynefinoedd mawn adfywio, ond mae'r Cynllun Rheoli Cynefin a'r Cynllun Rheoli Mawn arfaethedig yn cynnwys mesurau adfer a rheoli cynefin tymor hir a gynlluniwyd i wella'r safle. Nid yw'r Cyngor yn amau y byddent yn effeithiol, ac nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth argyhoeddiadol a fyddai'n peri i mi anghytuno.

324. Mae'r Gynghrair yn cydnabod bod rhosydd Llanbrynmair wedi'u difrodi gan goedwigaeth [A7, 13.12]. Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at adfer

[95] RES-PCC-SOCG-NOISE-SSA-B

oddeutu 200ha o orgors a mignen, a gwaredu oddeutu 149ha o goedwig ar gynefinoedd mawn blaenorol. Felly, byddai'r ardal o dir a fyddai'n cael ei gwella o ran ei gwerth cadwraeth a bioamrywiaeth yn sylweddol fwy na'r ardal a fyddai'n cael ei heffeithio gan lwybrau mynediad, sylfeini tyrbinau a seilwaith arall. Am y rhesymau hyn, rwyf yn fodlon y byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu budd tymor hir clir o ran cynefinoedd a bioamrywiaeth.

*Effeithiau Cymdeithasol ac Economaidd, gan gynnwys Twristiaeth*

325. Byddai gweithlu dros dro o hyd at 40 o swyddi'n cael ei greu yn ystod cyfnod adeiladu o oddeutu 24 mis. Disgwylir y byddai tua 80% o swyddi ar gael i bobl sy'n byw'n lleol. Byddai swydd gweithredu a chynnal a chadw barhaol ar gael hefyd. Byddai oddeutu £13 miliwn yn cael ei wario ar waith a wnaed gan gontractwyr lleol, a byddai swm sylweddol yn cael ei gynhyrchu mewn ardrethi busnes bob blwyddyn. Byddai incwm rhent a delir i ffermydd ac ystadau cynhaliol yn helpu i gefnogi mentrau gwledig [A5, 319]. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai buddiannau economaidd arwyddocaol i'r economi leol. Byddai cronfa gymunedol yn cael ei sefydlu, ond derbynnir nad yw hyn yn ffactor perthnasol y gellir ei ystyried.

326. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw fenter dwristiaeth gyfagos y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arni'n uniongyrchol. Ystyriaf yr effeithiau ehangach ar dwristiaeth mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

*Treftadaeth Ddiwylliannol*

327. Oddeutu 1km o dyrbin agosaf Llanbrynmair, Mynwent Beddrod Ffridd Cwm y Ffynnon (SAM MG314) fyddai'r heneb agosaf i'r safle. Ar y pellter hwn, byddai effaith weledol nodedig ar ei lleoliad. Byddai tyrbinau Llanbrynmair hefyd yn cael effaith weledol nodedig ar leoliad Bryngaer Moel Ddolwen (SAM MG149), ar bellter o oddeutu 2.2km. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai hyn yn niweidio diddordeb arbennig nac arwyddocâd hanesyddol yr asedau hyn [A5, 334; A7, 13.33–13.58].

328. Tŷ hir carreg traddodiadol yw Abercannon, ac mae wedi'i restru fel ffermdy mewn cyflwr da sy'n nodweddiadol o'r ardal hon. Byddai oddeutu 1km o'r tyrbin agosaf. Fodd bynnag, mae mewn dyffryn afonydd ac yn wynebu'r afon, yn hytrach na'r bryniau lle y byddai'r tyrbinau arfaethedig wedi'u lleoli. Mae ei ddiddordeb arbennig yn deillio'n bennaf o'i bensaernïaeth yn hytrach na'i leoliad. Felly, rwyf yn fodlon na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith o bwys ar arwyddocâd ei leoliad na'i ddiddordeb hanesyddol arbennig. Rwyf hefyd yn fodlon na fyddai lleoliad unrhyw adeilad rhestredig arall yn cael ei effeithio'n arwyddocaol [A7, 13.37].

329. Mae cynigion ar gyfer rhaglen o waith archaeolegol wedi'u hamlinellu yn ES mis Awst 2013. Mae'r cynllun wedi'i addasu trwy ddileu sawl tyrbin o'r cynllun gwreiddiol. Mae hyn wedi lleihau'r effaith ar leoliad sawl ased treftadaeth, gan gynnwys beddrod MG314, ac adeilad rhestredig o amgylch pentref Llanbrynmair. Yn ddarostyngedig i amodau arferol yn ymwneud ag archaeoleg, nid oes unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig gan CPAT, Cadw na PCC. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

*Awyrennu*

330. Nid oes unrhyw wrthwynebiadau yn hyn o beth.

*Hydroleg / Hydroddaeareg*

331. Nid yw NRW na PCC yn amau trylwyredd SEI mis Awst 2013 o ran y materion hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o ansawdd dŵr a chyflenwadau dŵr preifat.

332. Roedd yr asesiad yn yr SEI wedi amlygu effeithiau posibl ar hydroleg a hydroddaeareg, yn enwedig yn ystod y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, mae'n dangos bod technegau arfer gorau, dulliau adeiladu priodol, a rheolaeth amgylcheddol yn ystod y broses adeiladu yn gallu lleihau'r cyfryw effeithiau i lefel ddibwys neu, ar eu gwaethaf, i lefel ysgafn / gymedrol o ran EIA [A5, 338 a 339]. Gellir sicrhau'r mesurau hyn trwy amodau cytunedig. Er bod y Gynghrair yn parhau i bryderu am yr effaith ar gyflenwadau dŵr amaethyddol sy'n dod o'r llwyfandir ar hyn o bryd [A7, 13.17], nid oes unrhyw dystiolaeth o ddiffygion neu hepgoriadau yn yr asesiad, sydd wedi'i archwilio'n drylwyr gan NRW. Mae'r Cynllun Rheoli Torri Coed, Clirio Llystyfiant a Mawn (FVCPMP), y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a'r Cynllun Rheoli Cynefin (HMP) oll yn cynnwys mesurau i warchod yr amgylchedd dŵr, a gellir sicrhau'r rhain trwy amodau. Yn ddarostyngedig i amodau o'r fath, rwyf yn fodlon na fyddai unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar hydroleg na hydroddaeareg yn y tymor byr neu'r tymor hir.

*Mawn*

333. Ceir gorgyffyrddiad sylweddol yn hyn o beth â materion yn ymwneud â bioamrywiaeth a hydroleg / hydroddaeareg, yr wyf wedi ymdrin â hwy uchod. Mae Cynllun Rheoli Mawn drafft wedi'i ddatblygu ochr yn ochr â Chynllun Rheoli Cynefin. Mae'r rhain yn darparu mesurau i gyfyngu a lliniaru effeithiau ar fawn.

334. Nid amheuir y byddai llawer o'r seilwaith arfaethedig yn cael ei leoli ar ddyddodion mawn, y byddai rhai ohonynt yn cael eu tarfu neu eu colli o ganlyniad i gloddiadau a dad-ddyfrio gerllaw cloddiadau. Fodd bynnag, mae'r ardal wedi'i thirfesur yn dda, ac mae'r cynllun wedi'i ddylunio i leihau colledion gymaint â phosibl. Mae'r Cynlluniau Rheoli'n darparu ar gyfer ailddefnyddio'r holl fawn cloddiedig. Er bod y Gynghrair yn pryderu bod yn rhaid glynu wrth amodau llym er mwyn iddo beidio â rhyddhau ei garbon, nid yw NRW wedi amau'r gallu i reoli mawn cloddiedig mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir cadw cyfran sylweddol o'i werth carbon, na'r gallu i sicrhau y glynir wrth amodau llym. Mae'r Cynlluniau hefyd yn cynnwys mesurau i godi'r lefel trwythiad ac felly creu mawn actif newydd trwy fesurau fel cau ffosydd, rhychau a gylïau. Mae'r rhain yn fesurau syml ac, er bod y Gynghrair yn pryderu y gallent fethu, mae profiad o brosiectau tebyg mewn mannau eraill a nodyn diweddar gan Natural England[96] yn dangos, ynghyd â mesurau rheoli tir eraill, eu bod yn gallu helpu i adfer cynefinoedd rhostir a ffurfio mawn. Nid yw NRW yn gwrthwynebu effaith y datblygiad arfaethedig ar adnoddau mawn ac nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno [A7, 13.20-13.26; A5, 341-352].

335. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn lleihau gymaint â phosibl ar faint o fawn a gollir. Byddai effaith ar yr ardaloedd mawn gwell yn cael ei hosgoi. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, byddai rheoli cynefin er mwyn adfer mawn yn fwy na digolledu am unrhyw golledion tymor byr a achoswyd gan gloddio a dad-ddyfrio.

[96] ALL-015

*Potensial ar gyfer Cysylltu â'r Grid*

336. Mae cytundeb cysylltiad RES ag SP Manweb yn rhagweld y byddai'r cysylltiad yn cael ei wneud trwy is-orsaf foth arfaethedig Cefn Coch. Fel yr wyf wedi'i nodi'n flaenorol, yr arwyddion yw y byddai hon, a'r llinell 400kV gysylltiedig o Gefn Coch, yn cael eu gwrthwynebu'n gryf gan y Cyngor ac ni fyddent yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad yw nad oes unrhyw reswm technegol pam na allai cynllun Llanbrynmair, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynllun Carnedd Wen, gael ei gysylltu ar 132kV â'r Grid Cenedlaethol ger Croesoswallt. Mae PCC yn derbyn mewn egwyddor y gallai cysylltiad ar 132kV fod yn dderbyniol. Felly, nid oes unrhyw reswm amlwg pam na allai'r datblygiad arfaethedig gael ei gysylltu â'r grid.

## Carnedd Wen

337. Mae gwrthwynebiadau eraill y Cyngor mewn perthynas â fferm wynt arfaethedig Carnedd Wen yn ymwneud yn unig ag effeithiau tyrbinau arfaethedig R23, R26, R28, R29 ac R30 [A9, 303] yn weledol ac ar y dirwedd. Byddai'r rhain yn cael eu lleoli ar ymyl ogledd-ddwyreiniol y datblygiad arfaethedig ar dir uchel uwchben Dyffryn Banwy, a chyfeiriwyd atynt yn helaeth fel 'pump Carnedd Wen'. Fe wnaf innau gyfeirio atynt felly er cyfleustra.

338. Mae gwrthwynebiadau eraill NRW yn ymwneud ag effaith cynllun Carnedd Wen ar dirwedd ac amwynder y Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig, mewn cyfuniad â chynllun arfaethedig Llanbrynmair a ffermydd gwynt eraill sydd eisoes yn bodoli o fewn SSA B [A8, 3.1]. Mae gwrthwynebiadau NRW wedi'u cefnogi'n benodol gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac fe'u rhennir gan y Gynghrair i raddau helaeth. Gan fod y pryderon hyn yn ymwneud ag effeithiau cyfunol ac mewn cyfuniad yn SSA B, ymdriniaf â hwy o dan y pennawd hwnnw.

339. Felly, y brif ystyriaeth o ran effaith unigol cynllun Carnedd Wen yw effaith y datblygiad arfaethedig yn weledol ac ar y dirwedd, gan gyfeirio'n benodol at dyrbinau R23, R26, R28, R29 ac R30 ('pump Carnedd Wen').

340. Mae'r Gynghrair a phreswylwyr lleol hefyd yn pryderu am faterion eraill yr ymdriniaf â hwy yn ogystal.

*Effeithiau Gweledol ac Effeithiau ar y Dirwedd – tyrbinau R23, R26, R28, R29 ac R30*

341. Byddai'r tyrbinau hyn i'w gweld o ran oddeutu 6km o hyd o lawr Dyffryn Banwy, gan gynnwys anheddiad Foel, rhwng golygfannau CW U ac CW W fel y'u dangoswyd yn SEI mis Medi 2013 RWE. Nid oes unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng y Cyngor a'r ymgeisydd ynglŷn â chymeriad tirwedd Dyffryn Banwy. Mae nifer o nentydd yn torri trwy ei ochrau. Mae hyn wedi cynhyrchu topograffeg gymhleth o fryniau crwn, gyda llwyfandir Carnedd Wen / Llanbrynmair yn edrych drostynt i'r de. Mae llawr y dyffryn yn sefydlog ac yn cael ei ffermio, a cheir sawl pentref bach yno. Mae'r A458 yn dilyn yr afon ar hyd llawr y dyffryn. Er gwaethaf yr A458, mae tirwedd y dyffryn sy'n cael ei ffermio, y dopograffeg donnog, y pentrefi deniadol a'r gorwelion ucheldirol o ansawdd uchel yn olygfaol ac o werth amwynder sylweddol [A9, 337-339; A4, 77].

342. Byddai'r rhan fwyaf o dyrbinau arfaethedig Carnedd Wen uwchben toriad y llethr ar dir mwy gwastad y llwyfandir. Felly, byddai eu heffeithiau ar dirwedd Dyffryn Banwy yn gyfyngedig. Byddai gwahaniaeth amlwg rhwng y 'dirwedd fferm wynt' a fyddai'n cael ei chreu gan y datblygiad arfaethedig ar y llwyfandir a Dyffryn Banwy, na fyddai lawer o effaith ar ei gymeriad.

343. Byddai pump Carnedd Wen, fodd bynnag, wedi'u lleoli ychydig o dan doriad llethr ddeheuol y dyffryn. Felly, byddent yn ymestyn y dirwedd fferm wynt oddi ar y llwyfandir ac i ochrau'r dyffryn, ac yn dominyddu a chyferbynnu â chymeriad graddfa fach a sefydlog llawr y dyffryn i raddau mwy na'r tyrbinau eraill o fewn cynllun Carnedd Wen [A9, 364; A4, 80]. Felly, ystyriaf y byddent yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar gymeriad y dirwedd yn lleol.

344. Byddent yn cael effaith niweidiol ar gymeriad tirwedd gyfran fach o'r dyffryn yn unig. Er hynny, byddent i'w gweld o ran sylweddol o lawr y dyffryn gan gynnwys anheddiad sylweddol, ac o ran helaeth o dir uchel ar ochr arall y dyffryn. Er y byddai'r effaith weledol yn lleihau gyda phellter, byddent i'w gweld fel nodweddion amlwg o'r dirwedd o ardal sylweddol [A9, 364].

345. Byddai tri o bump Carnedd Wen wedi'u lleoli mewn ardal rostir. Byddai dau o fewn ardal lle y ceir coedwig ar hyn o bryd, ond a fyddai'n cael ei dychwelyd i rostir yn rhan o'r prosiect adfer cynefin. O ran llystyfiant, byddent felly'n cael eu gweld fel bod o fewn rhostir yn y pen draw, yn hytrach na thir amaeth llawr y dyffryn [A4, 81]. Er hynny, fel y dangoswyd mewn diagramau ffrâm wifren a ffotogyfosodiadau a baratowyd ar gyfer Golygfan V (oddeutu 5.1km o'r tyrbin agosaf ar ochr arall Dyffryn Banwy), y canfyddiad fyddai pump Carnedd Wen yn 'camu oddi ar y llwyfandir' ac i mewn i'r dyffryn [A9, 360].

346. Byddai'r dopograffeg gymhleth yn lleihau'r canfyddiad hwnnw o rai golygfannau. Er enghraifft, yng ngolygfan Z, ychydig uwchben Pentref Foel, mae'r diagram ffrâm wifren berthnasol yn dangos y byddai pob un namyn un o bump Carnedd Wen yn cael eu cuddio'n rhannol gan fryn. Fodd bynnag, er nad oes fframiau gwifren a ffotogyfosodiadau wedi'u cynhyrchu ar gyfer golygfannau rhwng CW U ac CW W ar yr A458, o gyfeirio at gynlluniau yn fy ymchwiliad, ystyriaf y byddai'r canfyddiad o bump Carnedd Wen yn camu allan o'r llwyfandir yn eithaf amlwg yn yr ardal hon. I yrwyr, byddai'r daith ar hyd y rhan hon yn cymryd ychydig funudau yn unig [A4, 79]. Er hynny, byddai'r effaith yn arwyddocaol gan y byddai'n cael ei phrofi gan lawer o bobl, gan gynnwys preswylwyr lleol na fyddai'r profiad yn un gwibiol iddynt. O rai golygfannau, byddai pump Carnedd Wen hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at effeithiau pentyrru a'r anhrefn weledol a achosir o weld un tyrbin y tu ôl i un arall [A9, 359; A4, 81].

347. Am y rhesymau hyn, deuaf i'r casgliad y byddai tyrbinau 'pump Carnedd Wen' yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd. Byddai eu hepgor o'r cynllun arfaethedig, felly, yn amddiffyn Dyffryn Banwy rhag yr effaith niweidiol ar gymeriad y dirwedd leol a geir trwy ymestyn y dirwedd fferm wynt oddi ar y llwyfandir ac i ochrau'r dyffryn, a byddai'n osgoi effeithiau gweledol niweidiol dros ardal boblog sylweddol y teithir trwyddi'n aml. Byddai hefyd yn gyson â'r ymagwedd a ddefnyddiwyd mewn rhannau eraill o Bowys, sef dal datblygiad fferm wynt yn ôl oddi wrth ymylon llwyfandiroedd [A9, 357].

348. Mae'n rhaid cydbwyso buddiannau hepgor y pum tyrbin hyn, wrth gwrs, yn erbyn yr angen am y pŵer y byddent yn ei gynhyrchu a buddiannau'r pŵer hwnnw [A4, 82]. Ar hyd at 15 MW, byddai gan bump Carnedd Wen gapasiti

cynhyrchu sylweddol. At ddibenion cymharu, mae hyn yn gyfystyr â fferm wynt fodern fach o dyrbinau mawr, ac oddeutu hanner capasiti gosodedig fferm wynt bresennol P&L. Fodd bynnag, dylai'r cydbwysedd cynllunio angenrheidiol gael ei asesu yn sgil ystyriaethau perthnasol eraill a pholisi cynllunio. Felly, dychwelaf ato'n ddiweddarach.

<u>Materion Eraill</u>

*Mawn, Hydroleg a Hydroddaeareg, a Chynefinoedd*

349. Mae'r cynnig yn cynnwys clirio oddeutu 1,200 Ha o blanhigfa goniffer dros gyfnod o tua 5 mlynedd, gan gyrraedd anterth o oddeutu 515 Ha mewn un flwyddyn [A7, 14.10]. Ochr yn ochr ag adeiladu'r fferm wynt a'i seilwaith, byddai sawl cilomedr o ffosydd draenio'n cael eu cau i godi'r lefel trwythiad, gan felly ddarparu amodau gwell ar gyfer llystyfiant rhostir a ffurfio mawn. Byddai mawn cloddiedig yn cael ei ailddefnyddio yn y safle. Yna byddai'r tir yn cael ei reoli i annog llystyfiant rhostir a chynefinoedd i ailsefydlu.

350. Mae'r rhaglen clirio coedwigaeth ac adfer cynefin yn amlwg yn gymhleth ac ar raddfa fawr iawn. Mae gan y Gynghrair bryderon ynglŷn â'i hyfywedd, a'r risg ecolegol ac effeithiau cydbwyso carbon pe byddai'n methu [A7, 14.7-14.24].

351. Mae RWE wedi sicrhau gwasanaethau tîm â chryn arbenigedd a phrofiad o raglenni o'r fath, gan gynnwys rheolwyr adeiladu sydd â phrofiad helaeth o gynlluniau tebyg yn yr Alban, i ddatblygu cyfres gynhwysfawr ac integredig o gynlluniau rheoli amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys Cynllun Rheoli Adfer Cynefin (HMRP) sy'n cynnwys Cynllun Rheoli Mawn (PMP), Cynllun Rheoli Coedwig (FMP), Cynllun Rheoli Draeniad (DMP), a Chynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CEMP)[A4, 123]. Gellir mynnu cydymffurfiad â'r Cynlluniau hyn trwy amodau cytunedig. Cytunir hefyd y dylid darparu ar gyfer Clerc Gwaith Ecolegol a fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gydlynu a gweithredu'r cynlluniau hyn, ac y gellir mynnu hyn trwy amod [A4, 135].

352. Er y byddai'r gyfradd clirio coedwigaeth arfaethedig yn gyflymach na honno mewn llawer o safleoedd coedwigaeth masnachol, mae wedi ystyried yr angen i osgoi effeithiau amgylcheddol fel asideiddio llynnoedd lleol. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth a fyddai'n dangos y byddai'r gyfradd clirio'n cael effeithiau amgylcheddol niweidiol eraill.

353. Mae'r cynllun arfaethedig wedi'i ddatblygu yn sgil arolygon helaeth o fawn presennol [A4, 128-130]. Mae'r swm a fyddai'n cael ei aflonyddu, er ei fod yn fawr o hyd, wedi'i leihau'n sylweddol gan newidiadau dylunio, a byddai'r ardaloedd adnodd mawn mwyaf sensitif yn cael eu hosgoi [A7, 14.20; A4, 132]. Byddai'r cyfan bron o'r holl fawn cloddiedig yn cael ei ailddefnyddio ar y safle i gau ffosydd draenio ac adfer ardaloedd fel hen byllau benthyg a chwarelau [A4, 135]. Byddai mesurau'n cael eu cymryd i atal mawn cloddiedig rhag sychu. Er y gallai rhywfaint o fawn ddiraddio neu gael ei golli trwy ddad-ddyfrio nesaf at gloddiadau, yn y tymor canolig i'r tymor hir, byddai rheoli cynefin er mwyn adfer mawn yn fwy na digolledu am golledion. Yn yr un modd â chynllun Llanbrynmair, ystyriaf, am y rhesymau hyn, y byddai'r datblygiad arfaethedig yn lleihau cymaint â phosibl ar golli mawn.

354. Canfu Adolygiad Tystiolaeth gan Natural England o adfer gorgors ddiraddedig y cyfeiriwyd ato gan y Gynghrair[97] nad yw cau draeniau ar ei ben ei hun yn creu effeithiau cyson ar hydroleg neu ansawdd dŵr, a bod angen dull cyfannol o adfer cynefinoedd mawn. Mae'n nodi, fodd bynnag, bod y rhan fwyaf o astudiaethau'n dangos bod cau draeniau'n codi'r lefel trwythiad ac yn annog planhigion gwlyptir dros raddfeydd amser cymharol fyr, a'i fod hefyd yn gallu helpu i leihau fflachlifogydd. Mae hefyd yn nodi na fydd gwelliannau mewn gweithrediad yn gyflym o bosibl ac y gallai adferiad llawn gymryd amser hir. Fodd bynnag, ni chanfu unrhyw dystiolaeth na ellir adfer gorfawn.

355. Mae'r cynlluniau rheolaeth amgylcheddol a gynigwyd gan RWE yn mabwysiadu dull integredig a byddent yn hwyluso arfer gorau o ran rheolaeth gyfannol y broses o adfer y safle. Maent hefyd yn dymor hir.

356. Rhoddwyd tystiolaeth i'r ymchwiliad o gynlluniau adfer cynefin tebyg yng Nghymru ac mewn mannau eraill sydd, er eu bod ar raddfa lai, yn profi i fod yn llwyddiannus wrth godi lefelau dŵr daear ac annog llystyfiant rhostir i ailsefydlu [A4, 129]. Gwelais ar y safle fod ardal fach a oedd wedi'i chlirio i hwyluso mast mesuregol ychydig flynyddoedd yn ôl eisoes ymhell ar y ffordd i ddychwelyd i gynefin rhostir. Ni welaf unrhyw reswm mewn egwyddor pam na all y cyfryw adferiad cynefin gael ei gynyddu i raddfa'r datblygiad arfaethedig. Byddai'n rhaid i'r cynlluniau rheolaeth amgylcheddol arfaethedig, sy'n cynnwys mesurau ar gyfer rheoli 'tocion' a phren na ellir ei ddefnyddio'n fasnachol o fewn y safle, gael eu cymhwyso'n drwyadl er mwyn i adferiad fod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, byddai'r amodau cytunedig yn golygu y gellir cymryd mesurau gorfodi, os bydd angen.

357. Fel y nodwyd uchod, gall blocio draeniau helpu i leihau fflachlifogydd. Gellir hefyd disgwyl i adfer llystyfiant sy'n cynhyrchu mawn wella gweithrediad cynefin rhostir fel storfa dŵr glaw, gan wneud llifoedd yn gyfartal mewn nentydd, afonydd ac unrhyw gyflenwadau dŵr preifat dibynnol yn ystod adegau sychder neu law trwm. Er bod y Gynghrair a rhai preswylwyr lleol yn pryderu am yr effaith ar gyflenwadau dŵr preifat sy'n dibynnu ar y rhosydd fel ffynhonnell, rwyf o'r farn, yn ymarferol, y byddai cwblhau'r gwaith adfer cynefin arfaethedig yn debygol o'u gwneud yn fwy dibynadwy [A7, 14.51; A4, 148, 151 a 153].

358. Nid amheuir y byddai'r gwaith clirio coedwigaeth arfaethedig yn rhyddhau $CO_2$ i'r atmosffer. Ni fyddai'r broses o storio $CO_2$ mewn dyddodion mawn adfywiedig yn digwydd yn gyflym, ac mae'n bosibl na fyddai'r swm a ryddheir i'r atmosffer byth yn cael ei adfer yn llawn. Er hynny, pan fydd cynhyrchu trydan yn cael ei ystyried, mae cyfrifiadau'n dangos y byddai gan y prosiect yn ei gyfanrwydd gyfnod ad-dalu cyflym o ran carbon [A7, 14.27].

359. Gwelais ar fy ymweliad safle fod y goedwig a fyddai'n cael ei chlirio yn cynnwys ungnwd trwchus o goed coniffer. Mewn sawl man, ychydig o olau sy'n cyrraedd y llawr ac ychydig o isdyfiant a geir, neu ddim o gwbl. Felly, mae'n cynrychioli cynefin gwael iawn ar gyfer bywyd gwyllt.

360. Fel y nodwyd yn adolygiad Natural England[98] mae'n cymryd amser i gynefinoedd mawn adfer, ac ni ellir gwarantu y byddai adferiad llawn yn cael ei

[97] ALL-015
[98] ALL-015

gyflawni yn yr achos hwn. Fodd bynnag, yn ddarostyngedig i'r amodau cytunedig, ystyriaf fod tebygolrwydd uchel y byddai'r mesurau amgylcheddol a amlinellwyd yn y cynlluniau rheoli arfaethedig amrywiol yn gyfystyr ag adferiad llawn yn y pen draw. Byddai adferiad rhannol hyd yn oed, y gellid ei ddisgwyl yn y tymor byr i'r tymor canolig, yn welliant sylweddol, yn fy marn i, i'r goedwig bresennol o safbwynt cynefin.

361. Yn ei thystiolaeth i'r ymchwiliad, mae'r Gynghrair wedi dadlau o blaid parhau â rheolaeth bresennol y tir ar gyfer coedwigaeth am y tro, gan y byddai Safonau Coedwigaeth cyfredol y DU yn mynnu ailblannu mwy sympathetig yn y pen draw. Fodd bynnag, yn absenoldeb y fferm wynt arfaethedig, mae'n debygol y byddai'r planhigfeydd coniffer presennol yn aros am flynyddoedd lawer. Ni ellir bod yn sicr ynglŷn â'r safonau coedwigaeth a fyddai'n berthnasol ar ddiwedd oes y goedwigaeth bresennol. Byddai'r cyfle i sicrhau adfer cynefin rhostir prin trwy gynllun adfer cynefin cynhwysfawr yn cael ei golli, a byddai cynefinoedd gwael yn parhau am flynyddoedd lawer. Am y rhesymau hyn, ystyriaf na fyddai'r dull a gefnogir gan y Gynghrair yn ddymunol o safbwynt ecoleg.

362. Nid yw NRW yn codi unrhyw wrthwynebiad i effeithiau'r datblygiad arfaethedig ar fawn, hydroleg a hydroddaeareg, na chynefinoedd. Am y rhesymau uchod, rwyf yn fodlon na fyddai unrhyw effeithiau annerbyniol yn hynny o beth, ac y byddai buddiannau sylweddol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

*Bioamrywiaeth*

363. Gellir disgwyl i boblogaethau rhywogaethau adar lleol fel llwydiaid y berth, bronfreithod, llinosod pengoch a chochiaid y berllan newid o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, gellir disgwyl i fanteision y prosiect o ran adfer cynefinoedd rhostir arwain at welliannau cyffredinol mewn perthynas â bioamrywiaeth, ac i fod o fudd yn arbennig i rywogaethau mwy anghyffredin fel grugieir duon a hebogau'r ieir sy'n dibynnu ar gynefinoedd rhostir prin [A7, 14.31; A4, 164-166].

364. Nid yw NRW wedi gwrthwynebu'r cynnig ar sail effaith dŵr ffo o'r safle ar ansawdd dŵr, na'r effeithiau cysylltiedig ar y boblogaeth dyfrgwn [A7, 14.28]. Yn amodol ar y mesurau rheoli cytunedig, rwyf o'r farn bod effeithiau arwyddocaol ar ansawdd dŵr, neu'r rhywogaethau sy'n dibynnu arno, yn annhebygol.

*Effeithiau Economaidd Cymdeithasol, gan gynnwys Twristiaeth*

365. Canfu adroddiad gan Regeneris yn 2012[99] y gellid sicrhau oddeutu £76 miliwn o'r gost adeiladu £200 miliwn trwy gyflenwyr ar draws Cymru [A4, 207]. Gellid sianeli oddeutu £31 miliwn o hyn trwy gyflenwyr yng ngogledd a chanolbarth Cymru. Ledled Cymru, byddai'r datblygiad yn cefnogi oddeutu 1050 o bobl/blynyddoedd cyflogaeth yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Byddai cyfanswm o 40 swydd gyfwerth ag amser llawn (16 uniongyrchol a lleol) yn cael eu cefnogi'n barhaus ledled Cymru yn ystod oes weithredol y datblygiad. Nid oes rhwymedigaeth ar RWE i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol, ond nid oes gennyf unrhyw reswm i amau didwylledd yr ymrwymiad a fynegodd i wneud hynny.

[99] CD-RWE-ENCON-03

366. Nid yw'r Cyngor yn dadlau ynglŷn â'r amcangyfrifon hyn [A9, 1003]. Nid yw'r Gynghrair yn eu derbyn, a brasamcanion ydynt o reidrwydd. Mae'n bosibl na fydd cadwyni cyflenwi lleol yn gallu manteisio'n llawn ar gyfleoedd sydd ar gael ac y bydd angen gwario mwy dramor o ganlyniad i gyfyngiadau yng nghapasiti gweithgynhyrchu'r Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae adroddiad Regeneris wedi'i seilio ar brofiad helaeth o ffermydd gwynt yn y Deyrnas Unedig. Hyd yn oed pe byddai'r amcangyfrifon yn profi i fod ychydig yn obeithiol, maent yn cynrychioli budd economaidd sylweddol ar lefelau cenedlaethol a lleol [A7 14.58 a 14.59].

367. Byddai cronfa gymunedol yn cael ei sefydlu, er y derbynnir na all hyn fod yn ystyriaeth berthnasol.

368. Mae amodau cynllunio cytunedig yn darparu ar gyfer cyflwyno, cymeradwyo a gweithredu strategaeth a fyddai'n sicrhau gwell mynediad cyhoeddus, gan gynnwys llwybrau troed a llwybrau ceffylau caniataol, trwy lawer o'r safle. Byddai'r cynigion adfer cynefin yn disodli ardaloedd mawr o goedwigaeth heb lawer o werth amwynder â rhostir agored a fyddai'n caniatáu golygfeydd panoramig. Byddai cynllun Carnedd Wen yn gwella gwerth y safle i ymwelwr yn hyn o beth.

369. Byddai rhan o Ffordd Glyndŵr oddeutu 2km o hyd yn mynd rhwng grŵp o oddeutu 10 o dyrbinau Carnedd Wen. Byddai pellter 'gwahanu' o oddeutu 200m yn cael ei gynnal, a byddai'r cyhoedd yn dal i allu cael mynediad yn ystod y gwaith adeiladu. Fel yr wyf wedi'i nodi mewn mannau eraill, mae'n debygol y byddai rhai cerddwyr a marchogion yn dewis peidio â defnyddio'r llwybr oherwydd agosrwydd y tyrbinau hyn, er y byddai'r pellter gwahanu'n ddigonol i osgoi effeithiau arbennig o ormesol a bygythiol. Byddai llawer o ddefnyddwyr y llwybr yn dewis peidio â'i ddefnyddio oherwydd y gwaith adeiladu hefyd, a byddai'n cymryd amser hir i docion a boncyffion gael eu hymgorffori mewn llystyfiant rhostir wedi'i adfywio. Er y byddai golygfeydd ar hyd y rhan hon yn cael eu hagor ac y byddai'n dod yn fwy atyniadol yn y pen draw, yn y tymor byr i'r tymor canolig byddai effeithiau niweidiol ar amwynder [A7, 14.43-14.57]. Ystyriaf y goblygiadau tebygol ar gyfer twristiaeth yn gyffredinol, ac amwynder a diddordeb Ffordd Glyndŵr yn ei chyfanrwydd, yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

*Treftadaeth Ddiwylliannol*

370. Mae'r ES a'r SEIs yn amlygu 14 ased treftadaeth hanesyddol o fewn 5km o'r safle. Yr agosaf fyddai Mynwent Beddrod Ffridd Cwm y Ffynnon (SAM MG314) yr wyf wedi cyfeirio ati yng nghyd-destun cynnig Llanbrynmair. Byddai hon ychydig yn agosach i dyrbin agosaf Carnedd Wen (0.7km) na thyrbin agosaf Llanbrynmair (1.0km). Felly, byddai'r effaith weledol ar ei lleoliad ychydig yn fwy. Mae'r Gynghrair yn rhestru 5 ased arall y mae o'r farn y byddai cynllun Carnedd Wen yn effeithio arnynt, gan gynnwys yr Adeilad Rhestredig a adwaenir fel Abercannon yr wyf wedi cyfeirio ato yng nghyd-destun cynllun Llanbrynmair. Er hynny, nid oes tystiolaeth gadarn y byddai niwed i ddiddordeb arbennig neu arwyddocâd hanesyddol unrhyw un o'r asedau hyn na'u lleoliadau, naill ai yn unigol neu mewn cyfuniad â chynllun Llanbrynmair [A7, 14.35-14.39; A4, 180-189].

*Effeithiau Preswyl – Sŵn / Iechyd*

371. Mae'n dir cyffredin rhwng RWE a PCC y gellir ymdrin â sŵn adeiladu a gweithredol trwy amodau cynllunio a eiriwyd yn briodol. Mae cyfres arfaethedig o amodau wedi'u cytuno [A4, 108 a 116]. Byddai sŵn gweithredol islaw'r terfynau sŵn derbyniol perthnasol bob amser ac ym mhob annedd preswyl. Mae'r terfynau gweithredol arfaethedig wedi'u diffinio i gyfrif yn briodol am effeithiau cronnol posibl sŵn yn codi o ffermydd gwynt presennol ac arfaethedig eraill yn y rhanbarth.

372. Mae'r SoCG yn cyfeirio at y ffaith bod Modylu Osgledau 'Gormodol' neu 'Arall' yn bwnc y mae gwybodaeth a thystiolaeth amdano'n parhau i ddatblygu. Gan fod y mater hwn yn gyffredin i'r ceisiadau eraill, ymdriniaf ag ef mewn man arall.

373. Rwyf yn fodlon na fyddai effeithiau gweledol y datblygiad arfaethedig mor fawr ar unrhyw eiddo preswyl ag i'w wneud yn lle annymunol i fyw.

374. Mae llawer o breswylwyr lleol yn pryderu am effeithiau cynnig Carnedd Wen ar werth eiddo a thwristiaeth, ond gan fod y materion hyn yn gyffredin â cheisiadau eraill, ymdriniaf â hwy ar y sail honno.

*Traffig Adeiladu Lleol*

375. Byddai'r llwybr o'r A458 i'r safle yn mynd ar draws tir preifat. Ni ddadleuir y byddai'r gyffordd â'r A458 yn dderbyniol o ddiogel. Byddai diogelwch ar y llwybr mynediad lleol ac o fewn y safle yn fater i'r datblygwr a'i gontractwyr yn bennaf. Nid oes unrhyw bryderon wedi'u codi i'r perwyl hwn.

*Awyrennu*

376. Nid oes unrhyw bryderon wedi'u codi o ran effaith cynllun arfaethedig Carnedd Wen ar awyrennu.

*Potensial i Gysylltu â'r Grid*

377. Mae cytundeb cysylltiad RWE ag SP Manweb yn rhagweld y byddai'r cysylltiad yn cael ei wneud trwy is-orsaf foth arfaethedig Cefn Coch. Yn yr un modd â'r cynlluniau eraill sydd gerbron yr ymchwiliad, yr arwyddion yw y byddai hon, a'r llinell 400kV gysylltiedig o Gefn Coch, yn cael eu gwrthwynebu'n gryf gan y Cyngor ac ni fyddent yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad yw nad oes unrhyw reswm technegol pam na allai Carnedd Wen, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynllun Llanbrynmair, gael ei gysylltu ar 132kV. Mae PCC yn derbyn mewn egwyddor y gallai cysylltiad ar 132kV fod yn dderbyniol. Felly, nid oes unrhyw reswm amlwg pam na allai'r datblygiad arfaethedig gael ei gysylltu â'r grid.

## SSA B: Effeithiau Cronnol ac Mewn Cyfuniad

378. Mae'r drafodaeth ganlynol yn ymwneud â materion perthnasol sy'n codi o effeithiau cyfunol y ddau ddatblygiad fferm wynt arfaethedig yn SSA B sydd gerbron yr ymchwiliad. Mae hefyd yn ymwneud ag effeithiau cronnol y ddau gynllun ynghyd â ffermydd gwynt gweithredol perthnasol eraill, cynlluniau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer ond nad ydynt wedi dechrau, a chynlluniau y cyflwynwyd cais ar eu cyfer.

379. Nid yw'r Cyngor o'r farn y byddai effaith y ddau gynllun sydd gerbron yr ymchwiliad yn annerbyniol mewn cyfuniad â llinell sylfaen cynlluniau gweithredol eraill neu gynlluniau eraill y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer yn yr ardal [A9, 858]. Mae o'r farn y byddai senario'r ddau gynllun, ynghyd â'r cynigion gweithredol a'r cynigion y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer a'r holl gynlluniau sydd yn y system gynllunio yn cael effaith gyffredinol mewn cyfuniad a fyddai'n annerbyniol [A9,859]. Fodd bynnag, byddai'r pwynt lle y byddai effaith gronnol annerbyniol yn cael ei gyrraedd yn fater i'r rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

380. Mae NRW a'r Gynghrair, fodd bynnag, yn gwrthwynebu cynigion Llanbrynmair a Charnedd Wen am resymau yn cynnwys eu heffaith unigol a chyfunol yn weledol ac ar y dirwedd heb ystyried cynlluniau eraill, gan gynnwys eu heffaith ar Ddyffryn Nant yr Eira a Pharc Cenedlaethol Eryri. Cefnogir gwrthwynebiadau NRW gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Felly, dyma yw'r prif ystyriaethau o dan y pennawd hwn.

*Effeithiau Gweledol ac Effeithiau ar y Dirwedd ar Ucheldiroedd Llanbrynmair / Carnedd Wen a Dyffryn Nant yr Eira.*

381. Mae'r Gynghrair wedi cyfeirio mewn tystiolaeth at y ffaith bod y safleoedd o fewn rhan ogleddol Ardal Cymeriad Tirwedd Rhanbarthol Mynyddoedd Cambria ehangach[100]. Mae hyn yn cynnwys tir sydd wedi'i ystyried yn y gorffennol ar gyfer dynodiad ffurfiol fel ardal warchodaeth ar gyfer parc cenedlaethol posibl, neu fel rhan o barc cenedlaethol. Fe'i hystyriwyd ar un adeg ar gyfer dynodiad fel ardal gadwraeth hefyd. Mae'r ardal ehangach hon, yn yr un modd â llawer o Bowys a chanolbarth Cymru, yn sicr yn cynnwys ardaloedd o ansawdd a gwerth tirwedd uchel. Fodd bynnag, gwrthodwyd cynigion ar gyfer dynodiad. Er bod paragraff 5.3.2 Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod gwerth holl dirweddau Cymru, mae'n mynnu bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w harwyddocâd perthynol ac y cymerir gofal i osgoi gosod cyfyngiadau diangen ar ddatblygu. Felly, rwyf o'r farn y dylai'r datblygiadau arfaethedig gael eu hystyried ar sail eu heffaith ar gymeriad a golwg y safleoedd a'u hamgylchoedd, gan gyfeirio at ddata perthnasol LANDMAP ac Asesiad Cymeriad Tirwedd Powys (PLCA). Mae'r ymgeiswyr, y Cyngor ac NRW wedi asesu'r cynlluniau ar y sail hon.

382. Byddai cynigion Llanbrynmair a Charnedd Wen wedi'u lleoli mewn ardal dirwedd a amlygwyd yn y PLCA fel bod yn llwyfandir tonnog a ddominyddir gan flociau mawr o blanhigfeydd coedwigaeth, wedi'u britho ag ardaloedd agored o dir pori garw a rhostir. Mae'n ardal lle na cheir llawer o aneddiadau, ac mae'n rhydd rhag datblygiad adeiledig ar raddfa fawr. Nid oes ganddi unrhyw ddynodiad tirwedd ffurfiol yn nhermau polisi ac, oherwydd ei blociau mawr o goedwigaeth, gwerthusir ei bod o ansawdd golygfaol isel yn y data LANDMAP sy'n sail i'r PLCA.

383. Gyda'i gilydd, byddai cynigion Llanbrynmair a Charnedd Wen yn creu tirwedd fferm wynt a fyddai'n golygu mai tyrbinau fyddai'r brif nodwedd, gan ymestyn am oddeutu 8.5km o'r gogledd i'r de, ac mewn mannau am oddeutu 4km o'r dwyrain i'r gorllewin. Ni ddadleuir y byddai'r datblygiadau hyn yn newid y dirwedd yn sylweddol ac yn cael effeithiau gweledol arwyddocaol. Byddai'r effeithiau gweledol yn fwyaf amlwg o'r hawliau tramwy ar draws yr ucheldiroedd, gan

[100] ALL-SSAB-POE-3

gynnwys Ffordd Glyndŵr, o'r ffordd trwy Ddyffryn Nant yr Eira, ac o eiddo preswyl yn y cyffiniau.

384. Fel yr amlygwyd gan y Cyngor, mae llwyfandir Carnedd Wen / Llanbrynmair yn dirwedd 'syml' ar raddfa fawr gyda thirffurf eang. Gorchuddir y tir gan flociau mawr o blanhigfeydd coniffer a rhostir. Ei raddfa sylweddol yw ei brif nodwedd o bell ffordd. Oherwydd ei symlrwydd sylweddol, mae'r Cyngor o'r farn bod y dirwedd gynhaliol yn gallu derbyn y tyrbinau arfaethedig [A9, 321]. Gan ei bod yn dirwedd o fath sy'n addas ar gyfer ymdopi â newid tirwedd o'r raddfa a gynigir, cytunaf â'r safbwynt hwnnw.

385. Mae Dyffryn Nant yr Eira yn gyfarwydd i lawer o breswylwyr lleol ac yn cael ei ddefnyddio ganddynt, a siaradodd sawl preswyliwr lleol yn yr ymchwiliad yn gwrthwynebu effeithiau'r datblygiad arfaethedig yn weledol ac ar y dirwedd. Derbyniwyd llawer o wrthwynebiadau tebyg yn ysgrifenedig. Mae'n amlwg bod Dyffryn Nant yr Eira ac ucheldiroedd Llanbrynmair / Carnedd Wen yn cael eu gwerthfawrogi gan lawer o breswylwyr lleol ac ymwelwyr am nodweddion yn cynnwys harddwch naturiol, cymeriad gwledig garw ac ymdeimlad o bellenigrwydd a thawelwch [A7, 13.56 ac 13.57]. Gan y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn nodweddion symudol mawr iawn o wneuthuriad dyn, byddai eu presenoldeb yn niweidiol i'r nodweddion hyn. Fodd bynnag, byddai'r niwed yn gyfyngedig i oes y ffermydd gwynt. Byddai'r datblygiadau arfaethedig yn disodli ardaloedd mawr o blanhigfa goniffer â rhostir mwy deniadol ac amrywiol a fyddai, yn y tymor hir, o fudd o ran harddwch naturiol, gerwinder, pellenigrwydd a thawelwch. At ei gilydd, ac yn y tymor hir, ystyriaf y byddai'r ddau gynllun yn adfer ardal ddigon mawr o rostir i gael budd cyffredinol digonol i wrthbwyso presenoldeb y tyrbinau am eu hoes weithredol. Gyda'i gilydd, byddent o fudd sylweddol yn hyn o beth, a byddai cymeriad tirwedd yr ardal yn cael ei wella'n sylweddol yn y pen draw.

386. Er bod dyffryn Nant yr Eira yn denau ei boblogaeth, byddai tyrbinau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen i'w gweld o nifer o eiddo preswyl [A7, 13.58]. I rai, byddent yn amlwg mewn arc gweledol eang, ac mewn rhai achosion byddai'r tyrbinau agosaf oddeutu 1km i ffwrdd. Felly, byddai'r effaith weledol ar yr eiddo hyn yn sylweddol. Fodd bynnag, er y byddai nifer fawr o dyrbinau i'w gweld, byddai'r pellter rhyngddynt yn golygu na fyddai effaith weledol y datblygiadau arfaethedig mor annymunol neu lethol ag i olygu y byddai'r eiddo dan sylw yn cael ei ystyried yn gyffredinol fel man annymunol i fyw.

387. Fel y nodais mewn perthynas â chynllun Llanbadarn Fynydd, nid yw gallu gweld y tyrbinau o ffenestr benodol neu ran o ardd ynddo'i hun yn rheswm digonol i ystyried bod yr effaith weledol yn annerbyniol (er y gallai preswyliwr penodol ystyried ei bod yn annerbyniol). Er y byddai'r ffermydd gwynt arfaethedig yn helaeth iawn, gan fod yr ardal yn denau iawn ei phoblogaeth, byddai effeithiau gweledol niweidiol sylweddol yn cael eu profi mewn nifer gymharol fach o eiddo preswyl. Felly, byddai'r effaith weledol gyffredinol ar amwynder preswyl yn fach mewn perthynas â buddion y datblygiad arfaethedig.

*Effeithiau ar Dirwedd, Amwynder Gweledol a Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol*

388. Byddai'r Parc Cenedlaethol wedi'i wahanu o fferm wynt Carnedd Wen gan ddyffryn serth a chul Afon Dugoed. Yn y man agosaf, byddai tyrbinau

arfaethedig Carnedd Wen ychydig yn llai na 3km o ffin y Parc Cenedlaethol. Byddai rhannau o'r mynediad arfaethedig o'r A458 oddeutu 2km o ffin y Parc Cenedlaethol. Foel Dugoed a Ffridd Braich Llwyd fyddai'r ardaloedd tir uchel agosaf o fewn y parc. Byddai fferm wynt arfaethedig Llanbrynmair ymhellach i ffwrdd na chynllun Carnedd Wen. Er y byddent yn cael eu gweld fel un cynllun mawr, byddai datblygiad Carnedd Wen, felly, yn gwneud y cyfraniad mwyaf at unrhyw effeithiau gweledol neu effeithiau ar y dirwedd a fyddai'n berthnasol i'r Parc Cenedlaethol.

389. Gan y byddai'r datblygiadau arfaethedig y tu allan i'r Parc, ni fyddai unrhyw effaith ffisegol uniongyrchol arno. Ni ddadleuir y byddai'r canfyddiad o'r dirwedd o'r tu mewn i'r Parc yn cael ei newid gan y gwaith adfer cynefin a'r tyrbinau gwynt arfaethedig. Mae NRW o'r farn y byddai hyn yn effaith anuniongyrchol ar y dirwedd, ond mae partïon eraill yn anghytuno. Fodd bynnag, ni waeth pa un a yw'r effaith yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, y brif ystyriaeth yw ei natur a'i graddfa.

390. O'r tu mewn i'r Parc, y canfyddiad presennol o'r dirwedd yw ardal gyda rhai ffermydd gwynt y tu allan i ffin y Parc. Byddai cynlluniau arfaethedig Carnedd Wen a Llanbrynmair yn ychwanegu nifer sylweddol o dyrbinau at y dirwedd ehangach, ond o'r Parc byddai'r canfyddiad o newidiadau y tu hwnt i ddyffryn Dugoed, o fewn ardal benodol ac ar wahân. Felly, byddai graddau'r effaith ar gymeriad tirwedd y Parc yn ysgafn a heb fod yn arwyddocaol.

391. Ni ddadleuir y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn cael effeithiau gweledol arwyddocaol o'u gweld o olygfannau ar dir uchel mewn rhannau o ardal dde-ddwyreiniol y Parc, neu y dylid ystyried y byddai'r newid mewn golwg yn sgil y tyrbinau arfaethedig yn niweidiol. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn nodweddion o wneuthuriad dyn a fyddai i'w gweld o'r Parc, ac felly byddent yn effeithio ar harddwch naturiol golygfeydd i'r tu allan. Fodd bynnag, mae tystion arbenigol y Cyngor a'r ymgeiswyr o'r farn bod y blociau mawr, tywyll, unffurf a chaledlin o goedwigaeth sy'n bodoli ar Lwyfandir Carnedd Wen yn anneniadol ac yn cael effeithiau niweidiol yn weledol ac ar y dirwedd. Cytunaf â'u barn. Mae cynnig Carnedd Wen yn cynnwys disodli ardaloedd mawr o goedwigaeth â llystyfiant naturiol mwy amrywiol a chyflawn a fyddai'n aros am flynyddoedd lawer ar ôl oes y fferm wynt. Er y gall coedwigaeth weithiau harddu tirwedd a allai fod yn ormodol o foel fel arall [A8, 3.4], rwyf o'r farn yn yr achos hwn y byddai buddion tymor hir i olwg a harddwch naturiol Llwyfandir Carnedd Wen a golygfeydd o'r Parc, y dylid eu hystyried.

392. Am resymau a roddwyd mewn perthynas â chynnig Llanbrynmair [307], rwyf yn fodlon na fyddai'r gwaith angenrheidiol sy'n gysylltiedig â darparu mynediad ar gyfer traffig adeiladu o'r A458 yn cael unrhyw effaith weledol arwyddocaol yn y tymor canolig i'r tymor hir ar leoliad y Parc Cenedlaethol.

393. Amlinellir naw nodwedd arbennig y Parc Cenedlaethol yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri. O'r rhain, yr un mwyaf perthnasol yw Nodwedd Arbennig 5, sef y cyfle i bobl ddeall y Parc Cenedlaethol yn weithredol, ar yr un pryd â chynnal ardaloedd o dawelwch ac unigedd, gan felly hybu agweddau ar iechyd, lles a myfyrdod personol [A8, 3.5]. Derbyniaf y byddai golygfeydd o lafnau symudol y tyrbinau gwynt arfaethedig yn effeithio ar y profiad o dawelwch ac unigedd yn rhan dde-ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol, yn enwedig ar dir uchel Foel Dugoed a Ffridd Braich Llwyd. Fodd bynnag, rhan fach iawn o'r Parc

Cenedlaethol cyfan yw hon, ac nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth ei bod wedi'i nodi'n arbennig am ei phellenigrwydd, ei thawelwch, na'i hatynioldeb i ymwelwyr.

394. O olygfannau ar dir uchel yn ardaloedd mwy pellennig a chanolog y Parc Cenedlaethol, byddai ffermydd gwynt Llanbrynmair a Charnedd Wen i'w gweld yn y pellter ymhlith ffermydd gwynt eraill sydd eisoes yn bodoli. Byddai ffermydd gwynt arfaethedig eraill, os cânt eu cymeradwyo, yn ychwanegu at nifer y datblygiadau o'r fath a fyddai i'w gweld. Mewn rhai amodau golau byddai'r tyrbinau lliw golau yn dal y llygad a byddai symudiad yn amlwg. Byddai ffermydd gwynt arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen yn cael eu gweld gyda'i gilydd fel un datblygiad ac un o'r cyfranwyr mwyaf at y golygfeydd o ffermydd gwynt yn y panorama. Fodd bynnag, byddai maint yr effaith weledol ar y canfyddiad o harddwch naturiol, tawelwch ac unigedd yn cael ei leihau'n sylweddol gan bellter.

395. Am y rhesymau hyn, ystyriaf na fyddai effaith uniongyrchol nac anuniongyrchol arwyddocaol ar gymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol ei hun. Byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y golygfeydd o'r tu mewn i'r Parc yn gyfyngedig i'r rhan dde-ddwyreiniol a byddent wedi'u cyfyngu i hyd oes y ffermydd gwynt. Yn y tymor hir, byddai effeithiau buddiol ar olygfeydd allan o'r Parc. Byddai effaith y datblygiadau arfaethedig ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn fach, boed hynny'n unigol neu mewn cyfuniad â datblygiadau fferm wynt presennol neu arfaethedig eraill.

## Llinell 132 kV Llandinam

*Materion Gweithdrefnol*

396. Mae'r broses ymgynghori wedi'i beirniadu am sawl rheswm, gan gynnwys y darluniad o linell foltedd is ar glawr dogfen ymgynghori [A7, 12.23 ac 12.27]. Mae'n amlwg nad yw hyn yn arfer da. Yn ogystal, mae'n rhaid cwestiynu'r rhesymau dros gynnig llinell Trident i aelodau PCC pan nad oedd hynny'n ymarferol, ar y tir uwch o leiaf. Er hynny, rwyf yn fodlon bod y gweithdrefnau statudol angenrheidiol wedi'u dilyn mewn perthynas â'r cais, ESs a'r SEI, a'r ymchwiliad [A6, 4].

397. Mae'r Gynghrair yn amlygu'r berthynas rhwng cynllun ailbweru arfaethedig Llandinam a'i gysylltiad arfaethedig ag is-orsaf y Trallwng [A7, 12.5]. Cyfeiriwyd at y berthynas rhwng SP Manweb a CeltPower, gan fod gan Scottish Power Renewables UK Limited fuddiant 50% yn CeltPower [A7, 12.53]. Er hynny, derbyniwyd cais Celtpower cyn rhai unrhyw ymgeiswyr eraill ar gyfer ffermydd gwynt yn SSA C, ac mae'n rhaid i SP Manweb ymateb i gais ar gyfer cysylltu o fewn 90 niwrnod. Felly, nid oes unrhyw beth anarferol ynglŷn â'r ffaith bod CeltPower wedi cael cynnig y cysylltiad i'r Trallwng [A6, 63].

398. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyfeirio at Ardaloedd o Gymeriad Tirwedd Arbennig, ni chafodd Ardaloedd Tirwedd Arbennig a ddynodwyd o dan y Cynllun Strwythur Sirol a ddisodlwyd eu dwyn ymlaen i'r Cynllun Datblygu Unedol (UDP).

*Prif Ystyriaethau*

399. O ystyried y materion a restrwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r dystiolaeth a gyflwynwyd, mae'n ymddangos i mi mai'r prif ystyriaethau yn yr achos hwn yw:

a) Yr angen gweithredol am y datblygiad;

b) Yr effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar gymeriad a golwg yr ardal;

c) Yr effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar fioamrywiaeth;

ch) Effaith gymdeithasol ac economaidd y cynnig a'i effaith ar fwynhad a defnydd o dir; a'r

d) Effaith y byddai'r cynnig yn ei chael ar dreftadaeth ddiwylliannol.

*Yr Angen Gweithredol am y Datblygiad*

400. Yn dilyn cais CeltPower am gysylltiad, mae cytundeb wedi'i lunio ac mae'n rhaid i SPM wneud ymdrech resymol i ddarparu cysylltiad erbyn y dyddiad targed. Pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 ar gyfer yr ailbweru fferm wynt, byddai angen gweithredol amlwg am gysylltu'r fferm wynt â'r grid fel y gellir allforio'r trydan a gynhyrchir. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn mynd i'r afael â'r angen hwnnw, ac felly hefyd rhai o'r dewisiadau eraill a ystyrir isod. Bydd pa un a ddylai'r angen gael ei fodloni gan y cynllun y cyflwynwyd cais amdano yn cael ei ystyried yn fy Nghasgliadau Cyffredinol [A6, 60-63].

401. Mae'r Deyrnas Unedig ar y trywydd iawn i ragori'n sylweddol ar y targed 15% ar gyfer 2020 o ran trydan. Ar ei ben ei hun, byddai fferm wynt Llandinam wedi'i hailbweru yn cyfrannu rhan fach o'r gyfran honno yn unig [A7, 12.8 a 12.10]. Er hynny, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) yn cyfeirio at angen brys am ddarparu trydan a gynhyrchwyd trwy ddulliau adnewyddadwy ac mae'r Llywodraeth am i gysylltiadau â'r grid gael eu darparu'n gyflymach ar gyfer cynhyrchu adnewyddadwy. Yn ogystal, mae polisïau Llywodraeth Cymru yn mynnu gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn hybu economi carbon isel, a phwyslais ar seilwaith ynni adnewyddadwy newydd (o ran seilwaith grid a chynhyrchu). O ganlyniad, er gwaethaf y sefyllfa o ran y targed 15%, mae polisi'n dal i gefnogi'r angen gweithredol i gysylltu'r fferm wynt (os caiff ei chaniatáu) â'r grid cyn gynted â phosibl.

<u>Effaith y Cynnig ar Gymeriad a Golwg yr Ardal</u>

*Effeithiau ar y Dirwedd*

402. Mae'r llwybr wedi'i rannu'n wyth rhan ar sail asesiad maes o sensitifrwydd tirwedd a gweledol. Cefnogir y dull hwn gan PCC. O ran Rhannau A, C, D, E (heblaw am Ddyffryn Llandysul) a G, mae ES 2013 yn amlygu mân effeithiau ar y dirwedd yn unig. Mae'n amlygu effeithiau ar y dirwedd o arwyddocâd cymedrol ar Ran B ac effeithiau mân i gymedrol (arwyddocâd ymylol) ar Ran E (Dyffryn Llandysul), F a H. Mae'r tri gweithiwr proffesiynol ym maes tirwedd a roddodd dystiolaeth yn yr ymchwiliad yn cytuno na fyddai'r effaith ar y dirwedd yn arwyddocaol o ran Rhannau A, C, D ac E (heblaw am Ddyffryn Llandysul) [A6, 221 a 222, 229; A9, 623 a 626].

403. Bydd yr ardaloedd lle y mae ES 2013 yn amlygu effeithiau arwyddocaol neu effeithiau arwyddocaol ymylol a'r rhai hynny lle y mae o leiaf un o'r gweithwyr proffesiynol ym maes tirwedd yn amlygu effaith o'r fath yn cael eu harchwilio'n fanylach. Er bod y Gynghrair a gwrthwynebwyr eraill yn pryderu am rannau eraill o'r llwybr (A, C, D ac E (heblaw am Ddyffryn Llandysul)) [A7. 12.63], mae'r dystiolaeth yn fy arwain i gredu y byddai'r effeithiau ar y dirwedd yn y rhannau hynny yn fân.

*Adran B – Ardal i'r De o'r Glog / i'r Gogledd o Ben Gorllewinol Cefnffordd Ceri*

404. O ran Rhan B, cytunir bod y dirwedd yn sensitif iawn, ac mae PCC ac NRW o'r farn y byddai'r effaith yn arwyddocaol iawn ar y sail y byddai maint y newid yn uchel hefyd, yn hytrach nag yn ganolig yn unol ag ES 2013 [A6, 234; A9, 624]. Diffinnir effaith uchel fel colled lwyr neu newid mawr i elfennau / nodweddion / priodweddau allweddol y dirwedd sylfaenol a/neu gyflwyno elfennau yr ystyrir eu bod yn gwbl annodweddiadol o'u gosod o fewn priodweddau'r dirwedd sy'n eu derbyn.

405. Mae'r darn o astudiaeth lwybro 2008 yn ES 2009 yn disgrifio'r ardal fel bod yn dirwedd agored wledig iawn heb lawer o goed, lle y ceir llai o botensial i gymathu llinell uwchben. Mae'n nodi'r effaith bosibl ar dirwedd wledig ddeniadol Bryn Ceri a golygfeydd o'r ffordd yn arwain at y Gefnffordd fel prif anfantais llwybr y cais. Fodd bynnag, mae'r ardal yn cynnwys nifer o leiniau cysgodi a ffurfiwyd gan goed coniffer a choed collddail a blannwyd [A6, 235; A9, 438].

406. Er bod elfennau o wneuthuriad dyn yn yr ardal hon, mae'n rhydd rhag nodweddion modern i raddau helaeth. Mae fferm wynt bresennol P&L yn rhy bell i ffwrdd i gael effaith nodweddiadol. Nifer fach o dyrbinau unigol a geir ac fe'u canfyddir fel gwrthrychau yn y dirwedd yn hytrach nag elfennau nodweddiadol. Ychydig iawn o linellau uwchben a geir. Mae'r rhai sy'n bresennol ar raddfa lai o lawer [A6, 235]. Felly, mae gan yr ardal ymdeimlad cryf a neilltuol o dawelwch, pellenigrwydd, ac o fod yn dirwedd hynafol [A9, 634; A7, 12.66].

407. Byddai'r llinell uwchben Polion Pren Gwaith Trwm (HDWP) arfaethedig yn elfen annodweddiadol yng nghyd-destun tirwedd yr ardal hon. Yn ogystal, byddai'n torri ar draws llinell Clawdd Cefn Crugyn sydd o bwysigrwydd arbennig o ran darllen a dehongli'r ffordd y defnyddiwyd y dirwedd yn yr oes gynhanesyddol a chanoloesol cynnar [A9, 634]. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai newidiadau niweidiol mawr i briodweddau'r dirwedd sy'n derbyn yn y rhan hon o'r llwybr.

408. Mae PCC yn pryderu am effaith torri coed yn gysylltiedig â'r llinell uwchben ar goed collddail [A9, 639]. Ni fyddai effaith ar y rhan fwyaf o Blanhigfa Black Gate ac ni fyddai'r toriadau a fyddai'n cael eu creu yn y ddau grŵp arall yn arwain at newid cyffredinol i gymeriad y dirwedd. Er hynny, fel y mae SPM yn cydnabod, byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn darnio a rhannu'n weledol nifer o goetiroedd bach a lleiniau coed cyfochrog [A6, 239 a 241]. Byddai hyn yn tarfu ar gymeriad neilltuol y lleiniau coed cyfochrog ger y Glog ac yn cael effaith gymedrol ac arwyddocaol, er hynny'n lleol, ar y dirwedd. Er bod torri coed yn rhan arferol o goedwigaeth, nid yw'r cyfryw dorri fel arfer yn gadael clystyrau bach. Byddai presenoldeb clystyrau bach a bylchau yn y lleiniau coed yn tynnu sylw at bresenoldeb y llinell uwchben arfaethedig ac felly'n ychwanegu at ei heffeithiau gweledol ac ar y dirwedd [A9, 641].

409. Mae SPM yn nodi y byddai effaith y llinell uwchben yn wrthrdroadwy. Dylid ei datgomisiynu a'i gwaredu os na fydd ei hangen mwyach, ac oherwydd mai ei hunig ddiben fyddai allforio trydan o ddatblygiad fferm wynt, byddai ei hoes wedi'i chyfyngu hefyd i oddeutu 25 mlynedd [A6, 245]. Fodd bynnag, mae 25 mlynedd yn gyfnod hir ac ni fyddai llawer o bobl sy'n fyw ar adeg codi'r llinell uwchben yn byw i'w gweld yn cael ei gwaredu.

410. Am y rhesymau uchod, deuaf i'r casgliad y byddai'r effaith ar dirwedd Adran B o arwyddocâd mawr, yn hytrach na chymedrol, ac yn niweidiol, gan felly godi pryderon difrifol [A6, 157].

*Rhan E o fewn Dyffryn Llandysul*

411. Mae ES 2013 wedi amlygu effaith fân i gymedrol (arwyddocâd ymylol) leol yn y rhan o Ran E o fewn Dyffryn Llandysul. Byddai'r llinell uwchben yn rhedeg yn uniongyrchol ar draws y dyffryn yn groes i raen y dirwedd agored, ond cytunaf na fyddai'n elfen arbennig o annodweddiadol ac y byddai'r effaith o arwyddocâd ymylol. Nodaf hefyd fod y llwybr wedi'i ddewis i leihau'r effeithiau gweledol ar eiddo yn Llandysul a Bryntalch Isaf gymaint â phosibl.

*Rhan F*

412. Er nad yw PCC yn cytuno, mae NRW o'r farn y byddai'r effaith ar Ran F, sy'n cynnwys rhan o Dirwedd Hanesyddol Restredig Bro Trefaldwyn (VMRHL), yn gymedrol ac arwyddocaol. Mae hyn wedi'i seilio ar sensitifrwydd uchel a maint newid canolig, yn hytrach na'r sensitifrwydd canolig i uchel a'r maint newid isel yn ES 2013 [A8, 5.1 a 5.2]. Mae effeithiau'r cynllun ar y VMRHL wedi'u hasesu gan ddefnyddio methodoleg Asesiad o Arwyddocâd Datblygiad ar Dirwedd Hanesyddol (ASIDOHL2) [A6, 353]. Cyfrifwyd bod lefel gyffredinol arwyddocâd yr effaith yn eithaf difrifol ar gyfer un o'r 19 Ardal Cymeriad Tirwedd Hanesyddol (HLCA) sy'n rhan o'r VMRHL, yn gymedrol ar gyfer pedair HLCA ac yn fân ar gyfer tair HLCA arall [A6, 354]. Aseswyd bod arwyddocâd yr effaith ar yr VMRHL yn ei chyfanrwydd yn gymedrol. Nid yw NRW yn ceisio herio asesiad ASIDOHL2 [A6, 355].

413. Mae'r sensitifrwydd a amlygwyd yn yr ES yn cydnabod y VMRHL ac fe'i cynyddwyd i ganolig-uchel yn uniongyrchol o ganlyniad i ymateb ymgynghori gan NRW. Ni chododd hyn unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffiniau rhwng rhannau. Yn ogystal, roedd yr asesiad maes o sensitifrwydd tirwedd a gweledol wedi ystyried gwerthusiad cyffredinol eithriadol LANDMAP o'r agwedd tirwedd hanesyddol [A6, 232 a 233; A8, 5.2-5.6]. Ystyriaf y byddai graddfa fwy y tir amaeth, y nodweddion presennol o wneuthuriad dyn a'r cwmpas ar gyfer cefnlenni yn yr ardal yn arwain at faint newid isel yn unig. Cytunaf ag ES 2013 y byddai'r effeithiau ar y dirwedd yn fân i gymedrol (arwyddocâd ymylol).

*Rhan G*

414. Mae NRW hefyd o'r farn y byddai'r effaith ar Ran G, sydd hefyd yn cynnwys rhan o'r VMRHL, yn gymedrol ac arwyddocaol. Mae hyn wedi'i seilio ar sensitifrwydd uchel a maint newid canolig, yn hytrach na'r sensitifrwydd canolig a'r maint newid isel yn ES 2013 [A6, 232 a 233; A8, 5.2-5.6. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at yr asesiad ASIDOHL2 o dan Ran F uchod.

415. Er bod y rhan hon hefyd yn cynnwys rhan o'r VMRHL, mae ganddi ddylanwadau mwy amlwg o wneuthuriad dyn a mwy o gwmpas ar gyfer llwybro sensitif na Rhan F o ganlyniad i'r tirffurf tonnog a mynychder perthi a choed. Felly, ceir cyfiawnhad dros sensitifrwydd is. Er y byddai rhai effeithiau lleol, byddai llawer o'r llinell uwchben yn cydweddu â chefndir y tirffurf a'r llystyfiant i'r fath raddau ag y byddai maint y newid yn isel. Unwaith eto, cytunaf ag ES 2013 y byddai'r effeithiau ar y dirwedd yn isel.

*Rhan H*

416. Mae'r effaith fân i ganolig (arwyddocâd ymylol) ar Ran H a amlygwyd yn ES 2013 wedi'i seilio ar sensitifrwydd tirwedd canolig i uchel a maint newid isel. Mae NRW o'r farn bod sensitifrwydd y dirwedd yn uchel tra bod PCC yn credu ei fod yn isel. Mae NRW yn cyfeirio at y ffaith bod y dirwedd wedi'i nodweddu gan bresenoldeb Ystadau Castell Powis a Neuadd Leighton tra bod PCC yn tynnu sylw at y dopograffeg dyffryn isel a phresenoldeb nifer o osodiadau tebyg, gan gynnwys llinell uwchben 132kV bresennol [A6, 10 a 229(c); A9, 623'H'; A8 5.5 a 5.6]. Fodd bynnag, mae'r sgôr canolig i uchel o ES 2013 yn uwch na'r hyn y gellid ei gasglu o ansawdd golygfaol yn unig oherwydd dylanwadau'r ddwy ystad ac, yn fy marn i, mae'n briodol. Er bod hyn yn arwain at effaith o arwyddocâd ymylol, ni fyddai'r llinell uwchben yn elfen annodweddiadol ac ni fyddai'n effeithio'n sylfaenol ar gymeriad Ystadau Neuadd Leighton a Chastell Powis, na'r dirwedd ehangach.

<u>Effeithiau Gweledol</u>

417. O ran derbynyddion gweledol, mae ES 2013 yn dangos y byddai effeithiau gweledol cymedrol a fyddai'n arwyddocaol o aneddiadau Ffordun, Fron Bank/Cilcewydd a Sawmills. Amlygwyd effeithiau tebyg o ran eiddo unigol yn Castle View, Castle Court, Gwyn's Barn, grŵp o eiddo ar y ffordd ddynesu at Edderton Lodge yn Fron, Bwthyn Rhydwhiman Crossing, Gefail Caerhowel a Borfa-Wen. Nodwyd hefyd effeithiau gweledol canolig lleol iawn a fyddai'n arwyddocaol o ran lleoliadau penodol ar Lwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri, y VMRHL, hawliau tramwy lleol, ardaloedd mynediad agored, yr A483, yr A489, yr A490, y B4355, y B4368, y B4386, y B4385, ac is-ffyrdd [A6, 221].

418. Heblaw mewn perthynas â Rhan B, mae PCC yn cytuno'n fras â'r uchod [A6, 246, A9, 632]. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau rhwng SPM ac NRW o ran y VMRHL a Llwybr Beicio Cenedlaethol 81 [A8, 5.7].

419. Mewn nifer gyfyngedig o achosion, byddai'r effeithiau'n lleihau i fod yn fân ar ôl i fesurau lliniaru ar ffurf plannu coed a pherthi newydd sefydlu. Byddai Llwybr Rhanbarthol Ffordd Hafren o leiaf 1km o'r llinell uwchben a byddai maint y newid i unrhyw olygfeydd yn ddibwys o ystyried y pellter yn y canol, y tirffurf a llystyfiant [A6, 263].

*Eiddo Preswyl*

420. Roeddwn yn gallu archwilio llwybr y llinell uwchben arfaethedig o'r tu mewn i un o'r eiddo unigol ar y ffordd ddynesu at Neuadd Edderton [A7, 12.68]. Byddai golygfeydd o fannau byw'r eiddo hwn yn edrych tuag at y llinell uwchben arfaethedig, ac mae preswylwyr yr eiddo hwn yn amlwg yn gwerthfawrogi'r olygfa wledig bresennol dros y caeau tuag at goed. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn nodwedd amlwg o wneuthuriad dyn yn yr olygfa. Fodd bynnag, byddai wedi'i gosod yn erbyn coed a byddai'r pellter gwahanu'n cymedroli ei heffaith. Felly, rwyf o'r farn y byddai'r effaith ar amwynder yn gymedrol, ac yn dderbyniol. Byddai graddau'r effaith ar amwynder preswyl yn yr eiddo arall y cyfeiriwyd atynt gan y Gynghrair [A7, 12.67] yn debyg, yn fy marn i, neu ychydig yn llai. O ran derbynyddion preswyl, rwyf felly'n derbyn casgliad ES 2013 na fyddai unrhyw rai'n mynd yn anneniadol ac felly'n mannau anfoddhaol i fyw [A6, 266].

*Rhan B*

421. Mae SPM yn cydnabod bod rhannau o Ran B, gan gynnwys oddeutu 500m ym mhen gorllewinol Llwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri (sef rhan gyntaf y llwybr o'r pen gorllewinol) yn profi effeithiau gweledol cymedrol a fyddai'n arwyddocaol, a gallai'r rhain gael eu profi dros ardal ehangach o bosibl [A6, 261]. Mae PCC o'r farn y byddai'r effaith yn drechaf, sy'n gyfystyr ag uchel yn ES 2013, mewn lleoliadau hyd at 200m o'r llwybr ym mhen gorllewinol y llwybr rhanbarthol, yr A483 a'r B4355, y llwybr ceffylau rhwng y ffyrdd hyn, a rhan o lwybr ceffylau ger coedwig Cae-Betin, gydag effeithiau arwyddocaol yn cael eu profi hyd at 630m i ffwrdd [A6, 227, A9, 660].

422. Mae disgrifiad 'trechaf' PCC yn dod o arweiniad nad yw'n uniongyrchol berthnasol i linell uwchben o bosibl [A6, 247]. Fodd bynnag, nid yw dull SPM lle y gall cyfuniad o sensitifrwydd uchel a maint newid uchel arwain at effaith weledol gymedrol, y gellir ei chael hefyd o gyfuniad o uchel a chanolig yn ogystal â dau ganolig, yn ddefnyddiol wrth sefydlu pa effeithiau fyddai o arwyddocâd arbennig [A6, 250; A9, 647-652].

423. Er nad ydynt wedi'u dynodi na'u gwerthfawrogi fel bod yn Eithriadol yn nhermau LANDMAP, cytunaf fod ansawdd golygfaol y Glog a Bryn Ceri a'r ardal yn union o'u hamgylch yn arbennig o uchel [A6, 234; A9, 634]. Yn ogystal, mae Bryniau Ceri yn gyfagos ac yn gymharol o ran ansawdd i ardal dros y ffin yn Swydd Amwythig sydd wedi'i dynodi'n AONB. Byddai llinell uwchben HDWP yn nodwedd linellol drechaf yn ymestyn i'r pellter o'i gweld yn agos [A9, 647; A7, 12.62]. Er y byddai'n bosibl gweld y tu hwnt iddi, i'r graddau y gellid dweud ei bod yn athraidd [A6, 242], byddai'n denu'r llygad a lleihau ar y golygfeydd gwledig hir a dramatig a'r ansawdd golygfaol. O rai golygfannau, byddai'r polion cynnal i'w gweld mewn trefniant pentyrru. Wrth fynd ar hyd y ffordd geffylau rhwng yr A483 a Black Gate, byddai rhan sylweddol o'r ffordd o dan y llinell uwchben ac yn ei dilyn i bob pwrpas. O ganlyniad, ystyriaf y byddai'r effaith weledol ar y llinell uwchben yn Rhan B yn niweidiol iawn, gan gynnwys o'i gweld o ben gorllewinol Llwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri a werthfawrogir yn fawr, gan felly godi pryderon difrifol.

*VMRHL*

424. O ran effeithiau gweledol, cytunaf y byddai maint y newid a brofir yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y pellter a'r cyfeiriad yr edrychir iddo, yn amrywio o ddim effaith neu effaith ddibwys i effaith gymedrol o olygfannau agosach [A6, 255 a 256]. O ystyried y pellter dan sylw a'r sgrinio a ddarperir gan dopograffeg a llystyfiant, ni fyddai unrhyw effeithiau gweledol arwyddocaol o olygfannau pwysig ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa (A6, 358 a 359].

*Llwybr Beicio Cenedlaethol 81*

425. Mae NRW yn awgrymu y byddai effaith negyddol ar amwynderau gweledol defnyddwyr y llwybr beicio lle na fyddai golygfeydd o'r llinell uwchben gan feicwyr yn cael eu sgrinio gan berthi. Fodd bynnag, dim ond rhan fer o'r llwybr beicio ar y B4381 gerllaw is-orsaf y Trallwng fyddai'n cael ei heffeithio mewn unrhyw ffordd ystyrlon. Yn ogystal, byddai golygfeydd beicwyr o'r llinell uwchben yn gyfyngedig, wedi'u sgrinio'n rhannol, ac eisoes wedi'u diraddio gan offer trydanol presennol. Byddai'r effaith ar feicwyr yn cael ei chyfyngu ymhellach gan y byddai angen iddynt ganolbwyntio ar y ffordd o'u blaen am resymau diogelwch. Felly, ystyriaf y byddai'r effaith gyffredinol ar y Llwybr Beicio Cenedlaethol yn fach (A8, 5.7; A6, 264 a 265].

Effaith ar Fioamrywiaeth

*Coed a Pherthi*

426. Bydd llinell uwchben o'r hyd arfaethedig yn arwain yn anochel bron at golli rhai coed a pherthi. Fodd bynnag, mae ystyriaeth briodol wedi'i rhoi i leihau colledion o'r fath gymaint â phosibl yn ystod y broses lwybro. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu y byddai llwybrau uwchben eraill yn arwain at golli nifer sylweddol lai o goed. Gellid cadw Aethnen Ddu brin yn agos i'r llinell ac un goeden hynafol arall trwy ficroleoli. Byddai rhai coed aeddfed yn cael eu colli, a derbyniaf na all ailblannu 'dwy yn lle un' fyth liniaru hyn yn llawn. Byddai angen caniatâd tirfeddianwyr ar gyfer unrhyw drefniadau o'r fath ac mae'n bosibl na fydd yn rhwydd sicrhau hynny. Fodd bynnag, ynghyd â mesurau eraill fel atgyfnerthu perthi, byddai ailblannu'n darparu rhywfaint o liniaru. O ystyried y pwyslais ar agweddau amgylcheddol mewn cynlluniau cefnogi amaeth, mae'n debygol y byddai gan lawer o dirfeddianwyr agwedd gadarnhaol tuag at ailblannu ar eu tir [A7, 12.30-12.32, 12.35 a 12.37-12.39; A6, 308 a 309].

*Gweithrediad Ecolegol Safleoedd a Warchodir*

427. Mae ES 2013 yn dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar unrhyw safleoedd a warchodir. O ran SAC Afon Gwy, mae NRW yn derbyn y byddai pellter a'r gallu i osgoi achosi llygredd yn darparu mesurau lliniaru addas. Oherwydd y gallu i ddarparu llinellau hedfan dros dro hyd nes y bydd ailblannu'n aeddfedu, rwyf hefyd yn fodlon na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar SSSI Glwydi Ystlumod Leighton [A6, 305 a 306]

*Effeithiau ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop*

428. Mae pryderon NRW o ran rhywogaethau a warchodir yn gyfyngedig i ystlumod a phathewod [A8, 6.3]. Er y cododd NRW ei bryderon yn hwyr yn y broses, nid yw hynny'n lleihau'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol [A6, 283 a 286].

429. Er bod canllawiau'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod a'r Llawlyfr Gwarchod Pathewod yn cynrychioli arfer gorau, arweiniad a ddarperir yn unig. Dylai'r wybodaeth a gyflwynir fod yn rhesymol ac yn gymesur â natur y cynnig [275; A6, 293, A8, 6.1]. Yn yr achos hwn, byddai gan y llinell uwchben arfaethedig ôl troed bach a chyfnod adeiladu byr, a byddai modd microleoli polion cynnal. Felly, nid wyf o'r farn bod y cynnig hwn yn mynnu'r un lefel o wybodaeth arolygu ag, er enghraifft, ffordd newydd yn dilyn yr un llwybr. Ystyriaf fod lefel yr arolygu a gynhaliwyd gan SPM yn gymesur, yn rhesymol ac yn ddigonol yn yr amgylchiadau i ddangos pa un a oes niwed yn debygol i gynnal statws cadwraeth ffafriol y rhywogaethau hyn a sefydlu strategaeth liniaru [A6, 294 a 304; A7, 12.37- 12.39].

430. Mae cynefinoedd chwilio am fwyd a chlwydo helaeth ar gyfer ystlumod yn bodoli y tu allan i goridor y llwybr. O fewn y coridor, byddai'r llystyfiant a gollir yn gyfyngedig ac yn lleol. Er bod posibilrwydd o golli coed aeddfed a allai gynnal rhywogaethau sy'n clwydo, byddai colli nifer gyfyngedig o'r cyfryw goed yn annhebygol o gael effaith ar boblogaethau lleol a byddai gwaith yn cael ei wneud ar adegau priodol ac o dan drwydded. Ni ddarparodd arolygon unrhyw dystiolaeth o rywogaethau ystlumod prin, y gallai eu statws cadwraeth gael ei effeithio gan golli ychydig yn unig o goed allweddol. Byddai lliniaru hefyd yn

darparu parhad o ran llinellau hedfan lle y byddai rhannau o berthi'n cael eu gwaredu. Felly, ni fyddai effaith arwyddocaol debygol ar ystlumod [A6, 301-303; A7, 12.34 a 12.35].

431. Mae'r perthi o fewn rhan ogleddol llwybr Cynllun Llandinam yn cael eu rheoli'n drylwyr, gan leihau eu haddasrwydd ar gyfer pathewod. Nid oes cofnod o bathewod yn yr ardal hon. Ni cheir cynefin addas yn y pen deheuol yn gyffredinol ac, unwaith eto, nid oes unrhyw gofnodion i ddangos bod pathewod wedi bod yn bresennol. Ar y sail hon, mae'n briodol canolbwyntio sylw ar yr ardaloedd i'r gogledd o ardal Bryn Ceri yn agos i'r Drenewydd lle yr oedd arolwg ar gyfer ffordd osgoi'r Drenewydd wedi cofnodi presenoldeb pathewod mewn perthi [A6, 292].

432. Cynhaliwyd astudiaeth ddesg yn rhan o'r gwaith EIA gwreiddiol [A6, 288]. Mae ES 2013 yn defnyddio dull sefyllfa waethaf ac yn rhagdybio presenoldeb pathewod yn yr ardaloedd i'r gogledd o Fryn Ceri ac yn agos i'r Drenewydd – gan gydnabod cyfyngiadau arolygon ar gyfer y rhywogaeth hon ac nad yw bob amser yn bosibl profi absenoldeb pathewod mewn cynefin addas [A6, 293; A8, 5.8]. Mae'r strategaeth liniaru hefyd wedi'i seilio ar y dull sefyllfa waethaf ac yn cyfyngu unrhyw glirio coed a pherthi i fisoedd penodol [A6, 294].

433. Byddai'r angen am drwyddedau rhywogaeth a warchodir yn y pen draw yn dibynnu ar ganlyniadau'r arolygon cyn adeiladu. Fodd bynnag, o ystyried natur y cynnig, y mesurau lliniaru a gynigiwyd a dwysedd isel y rhywogaeth lle y'i canfuwyd, mae'r posibilrwydd o effeithio'n uniongyrchol ar nyth neu fan gorffwys yn annhebygol iawn ac nid oes unrhyw reswm i gredu ar yr adeg hon y byddai angen trwydded [A6, 296].

434. Er gwaethaf y ffaith bod gwrthwynebwyr yn cyfeirio at nifer o rywogaethau eraill a warchodir, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, rwyf yn derbyn casgliad ES 2013 y dylai mesurau lliniaru priodol ddarparu amddiffyniad digonol ar gyfer y rhywogaethau eraill hyn a'u cynefinoedd.

*Effaith Gymdeithasol ac Economaidd / Effaith ar Fwynhad a Defnydd Tir*

435. Mae'r pryderon a godwyd gan wrthwynebwyr mewn perthynas â materion economaidd-gymdeithasol yn canolbwyntio'n gyffredinol ar yr effeithiau gweledol posibl ar dirwedd wledig yr ardal a goblygiadau posibl hyn i breswylwyr ac ymwelwyr [A7, 12.69- 12.73] . Er bod cysylltiad amlwg rhwng ansawdd y dirwedd a'r economi dwristiaeth, mae angen i'r asesiad o effeithiau economaidd-gymdeithasol ganolbwyntio ar unrhyw newid yn ymddygiad pobl.

436. Mae ES 2013 yn dod i'r casgliad y disgwylir i 11 o 13 atyniad twristiaeth brofi effeithiau dibwys, gyda'r VMRHL yn profi maint newid isel. Byddai'r un sy'n weddill (Llwybr Rhanbarthol Cefnffordd Ceri) yn profi maint newid isel i ganolig gan arwain at effaith o arwyddocâd cymedrol. Priodolir y maint newid hwn oherwydd y byddai'r llinell uwchben yn ffurfio nodwedd amlwg newydd o wneuthuriad dyn ar gyfer rhan leol o'r llwybr yn unig. Gan y byddai'r rhan hon ar ddechrau'r llwybr, fe allai atal pobl rhag ei ddefnyddio i raddau fwy nag a fyddai'n wir fel arall. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth feintiol y naill ffordd neu'r llall [A6, 315; A9, 665, 666].

437. O ran Llwybr Rhanbarthol Ffordd Hafren a'r Llwybr Beicio Cenedlaethol ger y Trallwng, rwyf eisoes wedi dod i'r casgliad y byddai'r maint newid i unrhyw

olygfeydd o'r cyntaf yn ddibwys ac y byddai'r effaith weledol gyffredinol ar yr ail yn fach yn unig. Felly, ni fyddai'r cynnig yn atal pobl rhag defnyddio'r llwybrau hyn i raddau mawr. Byddai'r llinell uwchben yn effeithio ar amryw hawliau tramwy cyhoeddus eraill hefyd, ond byddai hyn yn lleol iawn a derbyniaf y byddai'n annhebygol o atal pobl rhag eu defnyddio i unrhyw raddau mawr [A6, 213 a 314].

438. Yr unig adnodd llety twristiaeth lle y mae ES 2013 yn disgwyl effeithiau niweidiol arwyddocaol yw Parc Carafanau Tavern, ond, yn amodol ar gytundeb gyda'r perchennog, gallai plannu sgrin leihau hyn i lefel na fyddai'n arwyddocaol [A6, 214]. Mae'r Gynghrair yn cyfeirio at ddau safle carafanau arall, ond o ran Goetre, byddai'n ymddangos na fyddai unrhyw olygfeydd o'r llinell uwchben, neu olygfeydd cyfyngedig yn unig. Nid aseswyd Fron Fraith gan nad oedd yn ymddangos ar unrhyw un o'r cronfeydd data a ddefnyddiwyd. Er ei fod yn hyrwyddo teithiau cerdded ym Mryniau Cefn Coed, mae'r llinell uwchben HDWP yn annhebygol o atal nifer sylweddol o bobl rhag aros yn Fron Fraith [A7, 12.71].

439. Ni fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn codi o'r camau adeiladu a datgomisiynu, ond byddai'r ddau'n creu rhywfaint o gyflogaeth [A6, 210; A7, 12.75].

440. Gellid lleihau gymaint â phosibl ar yr effeithiau ar ddefnydd amaethyddol o dir trwy ficroleoli, a byddai'r goblygiadau i'r gallu i ffermio'r tir yn gymharol â'r rhai hynny a brofir gan ffermwyr ledled y Deyrnas Unedig fel mater o drefn. O ystyried y byddai iawndal yn cael ei dalu, rwyf yn fodlon na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar ddefnydd a mwynhad tir o safbwynt amaethyddol [A6, 212 a 218].

*Treftadaeth Ddiwylliannol*

441. Mae ES 2013 yn amlygu effeithiau gweddilliol arwyddocaol yn ymwneud ag effeithiau gweledol anuniongyrchol ar safle a/neu leoliad nifer o asedau treftadaeth ddiwylliannol, yn cynnwys SAMs, adeiladau rhestredig, parc a gardd hanesyddol cofrestredig, tirwedd hanesyddol gofrestredig, ardaloedd cadwraeth, ac asedau eraill, er bod SPM bellach o'r farn bod nifer o'r dyfarniadau hyn yn rhy geidwadol [A6, 318 a 319]. Yn sgil arweiniad EN-1, mae'n bwysig sefydlu pa rai o'r effeithiau uchod, os o gwbl, fyddai'n arwain at niwed sylweddol. Mae hyn yn lefel uchel iawn o niwed a derbyniaf fod yn rhaid iddi fod ar ben uchaf y sbectrwm effeithiau niweidiol mawr [A6, 323].

442. Mae PCC o'r farn y byddai niwed sylweddol yn digwydd o ran y SAMs ym Meddrod Crwn Bryn Cwmyrhiwdre, Clawdd Cefn Crugyn a Chlawdd Dau Dwmpath, yn ogystal â'r ased heb ei ddynodi sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn Lloc Black Gate, sydd oll yn Rhan B yr asesiad maes o sensitifrwydd tirwedd a gweledol. Roedd hefyd yn asesu'r effaith ar Safle Ffosedig Henfron fel bod yn ymylol – llai na sylweddol gyda'r coetir a sylweddol heb y coetir, ond nid oes gennyf reswm i gredu bod natur goediog yr ased yn debygol o newid yn y dyfodol rhagweladwy. Mae SPM yn cytuno y byddai niwed sylweddol i Feddrod Crwn Bryn Cwmyrhiwdre, ac nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth a fyddai'n peri i mi gredu fel arall [A6, 328; A9, 679-681].

443. Mae Clawdd Cefn Crugyn a Chlawdd Dau Dwmpath yn rhannau o groesglawdd canoloesol cynnar. Mae rhan arall a ddarganfuwyd yn ddiweddar wedi'i lleoli rhyngddynt. Oherwydd eu ffurf ffisegol a'u swyddogaeth hanesyddol (a oedd yn

dibynnu ar eu perthynas â thirffurfiau lleol, gweledeedd a gallu i werthfawrogi bod ar un ochr), mae gan y SAMs hyn leoliad mawr sy'n cyfrannu at eu harwyddocâd. Byddai'r llinell uwchben yn torri ar draws y nodwedd derfyn hon, yn newid lleoliad gwledig agored yr ased ac yn effeithio ar y berthynas weledol rhwng y ddwy ran restredig [A6, 336-339; A9, 700-703].

444. Er bod SPM o'r farn y byddai unrhyw effeithiau'n lleol, ni ddylai hyn o reidrwydd arwain at unrhyw ddibrisiad. Mae pwynt y Cyngor, sef y dylai arwyddocâd effeithiau ddibynnu ar bwysigrwydd yr olygfa benodol i leoliad yr ased, a'i gyfeiriad at Wal Hadrian fel enghraifft, wedi'i wneud yn dda [A6, 340; A9, 706]. Nid wyf yn derbyn na allai niwed a achosir i leoliad ased gan nodwedd linellol fargodol hir fyth fod yn gyfystyr â niwed sylweddol oherwydd y byddai'n effeithio ar ran o'i hyd yn unig. Mae SPM wedi cytuno y gallai llinell uwchben HDWP achosi niwed sylweddol i leoliad heneb arall (Beddrod Bryn Cwmyrhiwdre). Ni fyddai cefnlen i'r llinell o lawer o olygfannau tuag at y croesglawdd nac ohono. Er bod eitemau seilwaith eraill yn yr ardal, nid oes unrhyw beth a fyddai'n cystadlu â'r golygfeydd yn edrych tuag at y clawdd nac ohono yn yr un modd ag y byddai'r llinell uwchben HDWP sy'n llawer mwy ymwthiol yn weledol [A6, 339 a 340; A9, 709].

445. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai niwed sylweddol i leoliad Clawdd Cefn Crugyn a Chlawdd Dau Dwmpath.

446. Mae SPM yn dyfynnu llythyr gan Cadw dyddiedig 3 Mehefin 2013, ond roedd llythyr mwy diweddar (6 Rhagfyr 2013) yn cefnogi casgliadau ES 2013 ac yn nodi y byddai effeithiau anuniongyrchol anochel ar leoliadau yn agos a fyddai'n debygol o fod yn fawr/yn fawr iawn (arwyddocaol) [A6, 317, 319 a 320; A9, 684].

447. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod Lloc Black Gate yn hengor o arwyddocâd cenedlaethol o bosibl a ddylai, yn ôl EN-1, fod yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau polisi ag ased dynodedig. Mae'r berthynas â thirffurfiau lleol a'r gallu i'w werthfawrogi mewn cyd-destun gwledig agored yn agweddau pwysig ar ei leoliad [A6, 342; A9, 697-700]. Byddai'r llwybr arfaethedig yn mynd yn agos iawn iddo, a byddai llinell uwchben HDWP yn nodwedd weledol drechaf mor agos. Er gwaethaf presenoldeb planhigfeydd/atalwyr gwynt, byddai'n newid y berthynas weledol â'r ardal amgylchynol a natur agored ei chyd-destun yn sylfaenol. Felly, ystyriaf y byddai'n achosi niwed sylweddol i leoliad yr ased. Byddai'r effaith yn debyg iawn i'r effaith ar Feddrod Bryn Cwmyrhiwdre, y mae SPM yn derbyn y byddai'n gyfystyr â niwed sylweddol.

*Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth*

448. Mae SPM a PCC o'r farn nad yw adrannau 66 a 72 *Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990* yn berthnasol i gais o dan adran 37 *Deddf Trydan 1989* [A6, 364]. Er hynny, mae llawer i'w gymeradwyo ynglŷn â'r dull gochelgar a ddefnyddiwyd gan CeltPower, sy'n datgan 'Pa un a yw dyletswyddau'r cyfryw ddarpariaethau statudol yn cael eu cymhwyso'n fanwl gywir yma ai peidio, mae'r dyletswyddau y maent yn eu corffori yr un mor berthnasol fel ystyriaethau o bwys; ac nid yw'r canlyniad yn wahanol iawn'[101]. Felly, rwyf wedi rhoi ystyriaeth arbennig i ddymunoldeb gwarchod adeiladau

[101] CPL-017, para 90

rhestredig neu eu lleoliadau, ac wedi rhoi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod ardaloedd cadwraeth.

449. Mae ES 2013 yn rhagweld effeithiau anuniongyrchol o arwyddocâd mawr/mawr iawn ar saith adeilad rhestredig, sef Gefail Caerhowel, ffermdy Maenllwyd Uchaf, Cilthriew a dau adeilad cyfagos, yr Hen Dŷ Retórt yn Leighton, a Bwthyn Rhydwhiman Crossing, yn bennaf oherwydd agosrwydd y llinell uwchben arfaethedig. Mae hefyd yn rhagweld effeithiau anuniongyrchol o arwyddocâd cymedrol/mawr ar 28 adeilad rhestredig a 3 ardal gadwraeth arall. Mae'r Gynghrair yn amlygu nifer o leoliadau eraill lle y mae ES 2013 wedi nodi effeithiau arwyddocaol ar asedau a/neu eu lleoliadau [A7, 12.83 – 12.88]. Er hynny, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, ni fyddai'r un o'r effeithiau hyn mor fawr ag i fod yn gyfystyr â niwed sylweddol yn nhermau EN-1.

450. Yn yr ymchwiliad, mynegais bryder nad yw ES 2013 yn darparu disgrifiadau rhestr, a'i bod yn ymddangos bod yr asesiadau o effaith yn deillio o ddisgrifiadau cyffredinol byr o'r adeiladau a'u hagosrwydd i'r llinell uwchben, yn hytrach na diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeiladau a chyfraniad y lleoliad at eu diddordeb arbennig. Darparwyd y disgrifiadau rhestr perthnasol wedi hynny, a darparwyd diweddariadau i'r asesiadau ar gyfer nifer o adeiladau rhestredig allweddol mewn nodyn i'r ymchwiliad[102].

451. Neuadd Eddington yw un o'r adeiladau rhestredig a dducpwyd i'm sylw gan y Gynghrair [A7, 12.68]. Mae wedi'i rhestru fel enghraifft wych o dŷ Regentaidd sy'n manteisio ar safle aruchel. Mae wedi'i hadeiladu ar godiad yn y tir yn wynebu Castell Powis ar draws Afon Hafren. Mae wedi'i chynllunio a'i gosod yn amlwg i fanteisio ar y dirwedd, ac i weld Castell Powis (a chael ei gweld ohono). Felly, mae ei lleoliad yn gwneud cyfraniad pwysig at ei diddordeb hanesyddol arbennig. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn mynd rhyngddi â Chastell Powis. Ar sail y dystiolaeth sydd o'm blaen a'm harsylwadau yn ystod fy ymweliadau safle, hwn yw'r adeilad sydd yn y perygl mwyaf o niwed i'w ddiddordeb arbennig o ganlyniad i'r llinell uwchben arfaethedig. Fodd bynnag, yn ystod fy archwiliad, gwelais y byddai'r llinell uwchben gryn bellter oddi wrth yr adeilad, ar lefel is, ac y byddai coed y tu cefn iddi. Ni fyddai'n ymyrryd â llinellau gweld rhwng y Neuadd a'r Castell, a byddai ei heffaith ar gymeriad hanesyddol y dirwedd yn cael ei hymgorffori i raddau helaeth ymhlith newidiadau eraill i leoliad y Neuadd a wnaed yn hwyr yn y 19eg a'r 20fed ganrif. Felly, nid wyf o'r farn y byddai'r llinell uwchben yn cael effaith arwyddocaol ar ddiddordeb hanesyddol arbennig Neuadd Eddington na'i lleoliad.

452. O ran Gefail Caerhowel, ffermdy Maenllwyd Uchaf, Cilthriew a dau adeilad cyfagos, yr Hen Dŷ Retórt yn Leighton, a Bwthyn Rhydwhiman, er bod ES 2013 yn rhagweld effeithiau anuniongyrchol o arwyddocâd mawr/mawr iawn, mae hyn oherwydd agosrwydd y llinell uwchben arfaethedig, yn hytrach nag unrhyw effaith ar ddiddordeb hanesyddol arbennig yr adeiladau neu'r cyfraniad a wneir at y diddordeb hwnnw gan eu lleoliad. Nid yw'r disgrifiadau rhestr yn rhoi unrhyw arwydd bod eu lleoliadau'n gwneud cyfraniad pwysig at eu diddordeb hanesyddol arbennig, ac nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth arall i'r perwyl hwnnw. Felly, ystyriaf na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar eu diddordeb hanesyddol

[102] SPM/027

arbennig. Yn yr un modd, ni chanfyddaf unrhyw effaith arwyddocaol ar ddiddordeb hanesyddol arbennig unrhyw adeilad rhestredig arall.

453. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn mynd yn agos i Ardal Gadwraeth Melinau Llifio Ceri. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael llawer o effaith ar ei diddordeb arbennig, sy'n deillio'n bennaf o fod yn gymuned arbenigol a sefydlwyd yn y 19[eg] ganrif, a sawl adeilad rhestredig oddi mewn iddi, yn hytrach na chymeriad neu olwg ei lleoliad. Byddai ardaloedd cadwraeth eraill yn rhy bell i effeithiau arwyddocaol ar eu lleoliad ddigwydd.

454. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn gwarchod diddordeb hanesyddol arbennig yr adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth perthnasol, a'r cyfraniad a wneir at eu harwyddocâd gan eu lleoliad. Ni fyddai unrhyw niwed sylweddol yn hyn o beth [A6, 367].

<u>Ystyried Dewisiadau Eraill</u>

*Ymagwedd Gyffredinol*

455. Mae SPM yn derbyn bod dewisiadau eraill yn berthnasol lle y byddai cynnig yn achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol a bod angen yn cael ei gyflwyno fel rheswm yn cyfiawnhau'r datblygiad, fel yn yr achos hwn, ond mae'n amlygu cyfres o egwyddorion o EN-1. Nid yw EN-1 yn cynnwys unrhyw ofynion cyffredinol i ystyried dewisiadau eraill neu sefydlu a yw'r prosiect arfaethedig yn cynrychioli'r dewis gorau. Fodd bynnag, mae'n nodi'n eglur bod perthnasedd bodolaeth (neu fodolaeth honedig) dewisiadau eraill ar gyfer y datblygiad arfaethedig i'r broses benderfynu, neu fel arall, yn fater cyfreithiol yn y lle cyntaf, y mae arweiniad manwl arno y tu allan i'w gwmpas [A6, 58 a 59; A9, 779].

456. Mae PCC yn amlygu'r rhwymedigaeth yn Atodlen 9 i 'wneud yr hyn y gall SPM ei wneud yn rhesymol i liniaru unrhyw effaith y byddai'r cynigion yn ei chael ar harddwch naturiol cefn gwlad neu unrhyw fflora, ffawna, nodweddion, safleoedd, adeiladau neu wrthrychau' ac yn nodi na all dewis llwybr sydd ag effeithiau amgylcheddol mwy fod yn gyson â'r ddyletswydd hon. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag ystyried dewisiadau eraill wedi'i hen sefydlu. Rwyf wedi amlygu gwrthwynebiadau cynllunio eglur i'r datblygiad arfaethedig (o ran y prif faterion yn ymwneud â chymeriad a golwg, a threftadaeth ddiwylliannol), a dim ond un caniatâd y gellir ei roi, sef ei bod yn gwbl briodol ystyried pa un ai na fyddai dewisiadau eraill yn cael effeithiau niweidiol o'r un fath neu i'r un graddau [A9, 775-778; A6, 95].

*Cysylltiad ar 33kV*

457. Byddai cysylltiad fferm wynt o faint Cynllun Ailbweru Llandinam yn cael ei gyflawni'n nodweddiadol ar 132kV yn hytrach na 33kV. Yn ogystal, yn yr achos penodol hwn, byddai darparu ar gyfer y cynhyrchu ychwanegol ar y rhwydwaith 33kV yn gofyn am bum cylched newydd yn rhedeg yn gyfochrog trwy Ddyffryn Hafren i gysylltu â'r rhwydwaith 132kV agosaf yn y Drenewydd. Byddai angen cynyddu maint yr is-orsafoedd yn Llandinam a'r Drenewydd a byddai hefyd angen ailadeiladu'r cylched 132kV presennol o'r Drenewydd i Groesoswallt. O ystyried y gost amcangyfrifedig o £52.6 miliwn (£30.5 miliwn ychwanegol), cytunaf y byddai hwn yn ddewis aneffeithlon a gormodol o ddrud [A6, 65].

*Cysylltiadau 132kV Llinell Uwchben yn dilyn Llwybrau Eraill*

458. Byddai'r rhain yn cael eu rhannu'n 3 chategori: cysylltiadau â lleoliadau eraill ar y rhwydwaith presennol; llwybrau eraill i gyrraedd y Trallwng; a chysylltu â'r foth arfaethedig yng Nghefn Coch.

459. Mae'r pwyntiau cysylltu 132kV eraill agosaf yn y Drenewydd a Charno. Byddai cysylltu â'r Drenewydd yn golygu cysylltiad 12km o'r fferm wynt wedi'i hailbweru, ailadeiladu llinell 46km y Drenewydd i Groesoswallt ac ymestyn Is-orsaf y Drenewydd am gost o bron i £10 miliwn yn fwy nag y cyflwynodd y cynllun gais amdano. Mae hefyd yn debygol y byddai angen system cyfyngu ar gynhyrchu a fyddai'n gymhleth, yn aneffeithlon ac yn annymunol. Byddai cysylltu â Charno yn gofyn am linell newydd o'r fferm wynt wedi'i hailbweru i Garno, ailadeiladu cysylltiad Carno â llinell y Drenewydd i Groesoswallt ac ailadeiladu'r llinell honno am gost o £22.4 miliwn yn fwy nag y cyflwynodd y cynllun gais amdano. Am y rhesymau hyn, derbyniaf na fyddai'r naill na'r llall yn ddatrysiad effeithlon ac economaidd nac yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i gynnal system effeithlon, gydlynol ac economaidd o ddosbarthu trydan [A6, 66-69].

460. Deuaf i'r casgliad, am y rhesymau hyn, pe byddai'r fferm wynt wedi'i hailbweru yn cael ei chysylltu â'r rhwydwaith presennol, y dylai hyn fod ar 132kV i is-orsaf y Trallwng lle y gellid darparu ar ei chyfer heb unrhyw atgyfnerthu nac ailadeiladu [A6, 70-72].

461. Adwaenir y prif lwybrau eraill ar gyfer llinell uwchben i gyrraedd y Trallwng a fyddai'n bodloni'r angen gweithredol a ystyrir gan SPM fel llwybrau C a D, y byddai gan y ddau ohonynt gostau tebyg neu ychydig yn is o gymharu â chynnig y cais. Byddai'r ddau yn dechnegol ymarferol [A6, 100; A9, 587 a 606].

*Llwybr C*

462. Yn ymgynghoriad cyhoeddus 2008, amlygwyd bod gan Lwybr C fanteision ymddangosiadol dros aliniadau eraill yn weledol ac o ran y dirwedd, gan ei fod yn mynd ar hyd coridor yr effeithir arno eisoes gan linell uwchben 132kV a'i fod yn llai ymwthiol yn gyffredinol [A9, 594 a 595]. Yn adolygiad 2013, ystyriwyd ei fod yn perfformio'n well na chynllun y cais o ran y dirwedd [A6, 103; A9, 599]. Fe'i diystyriwyd o ganlyniad i'r effeithiau tebygol ar olygfeydd ac amwynder gweledol a achosir gan grynodiad mwy o eiddo preswyl ac effeithiau amgylcheddol ar SSSI Mochdre Dingles [A6, 101; A9, 600].

463. Byddai anawsterau technegol hefyd, yn arbennig, lle y byddai'r llinell yn mynd i lawr y llethrau serth o'r fferm wynt wedi'i hailbweru. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn na fyddai modd eu goresgyn. Byddai hefyd wedi'i leoli'n rhannol yn y gorlifdir [A6, 101 a 110; A9, 599].

*Llwybr D*

464. Mae'r darn o astudiaeth lwybro 2008 yn ES 2009 yn datgan bod Llwybr D yn sympathetig yn gyffredinol i gymeriad y dirwedd, gan fynd trwy dir tonnog, ar raddfa fach, lle y gallai llinell uwchben gael ei chymathu'n gymharol rwydd ac, yn seiliedig ar gymeriad tirwedd presennol yr ardal, dyma oedd y dewis a ffafriwyd. Yn adolygiad 2013, cydnabuwyd y byddai llai o effeithiau ar y dirwedd nag ar gyfer llwybr y cais [A9, 601].

465. Mae SPM yn datgan y byddai Llwybr D yn effeithio ar fwy o eiddo ac yn cael mwy o effeithiau tebygol ar goed a choetiroedd, gan awgrymu y byddai'n anodd

dod o hyd i lwybr rhwng SSSI Mochdre Dingles, y tir coediog serth ac eiddo preswyl, ac y byddai angen polion ongl niferus [A6, 102].

466. O ran eiddo preswyl, mae'r darn o astudiaeth lwybro 2008 yn ES 2009 yn cyfeirio at rai enghreifftiau unigol yn unig. Yn ogystal, nid oes unrhyw dystiolaeth gadarn y byddai nifer yr eiddo yr effeithir arnynt yn sylweddol fwy nag ar gyfer y cynllun y cyflwynwyd cais amdano. Tystiolaeth SPM yw bod effeithiau ecolegol cyffredinol yr holl lwybrau a ystyriwyd yn mynd ar hyd ystod debyg o gynefinoedd, ac felly bod yr effeithiau ecolegol yn debygol o fod o faint tebyg ar gyfer pob coridor. O ystyried y byddai'n cael ei osod i lawr yn y dyffryn ac wedi'i amgáu â choed, gallai effeithiau'r offer ychwanegol ar bolion ongl gael ei chuddio i raddau helaeth [A9, 602-604 a 607].

467. O ran treftadaeth ddiwylliannol, byddai Llwybr D yn osgoi unrhyw effeithiau ar Glawdd Cefn Crugyn a henebion eraill yn ardal y Glog a Bryn Ceri, ac felly hefyd Llwybr C. Er y byddai'n cael yr un effeithiau niweidiol â chynnig y cais ar y VMRHL ac asedau dynodedig eraill o amgylch ei ehangder gogleddol, byddai Llwybr D yn achosi cryn dipyn yn llai o niwed o ran treftadaeth ddiwylliannol. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai llwybr C neu lwybr D yn cael effaith arwyddocaol ar ddefnydd a mwynhad tir o safbwynt amaethyddol [A9, 608-611].

468. Mae SPM yn beirniadu PCC am beidio â chynhyrchu unrhyw ddadansoddiad o ymarferoldeb technegol y llwybrau eraill hyn. Fodd bynnag, dyma'r prif ddewisiadau eraill a gyflwynwyd ac a ystyriwyd gan SPM, ac nid rhai a awgrymwyd gan PCC. Mae'r baich ar SPM, felly, i ategu ei gasgliadau. Mae penderfyniad SPM i wrthod cynhyrchu ei Adroddiad Astudiaeth Lwybro 2008 yn gwanhau'r casgliadau hynny ychydig [A6, 110; A9, 588; A7, 12.18].

469. Yn amlwg, mae dethol llwybr ar gyfer llinell uwchben yn gofyn am ystyried ystod eang o ffactorau y tu hwnt i faterion gweledol a materion yn ymwneud â'r dirwedd [A6, 110]. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, byddai'n ymddangos y gallai Llwybr D arwain at gryn dipyn yn llai o niwed yn gyffredinol, ac felly cydymffurfio mwy â pholisïau Llywodraeth Cymru a'r UDP. O ganlyniad, bu methiant i leihau effeithiau niweidiol gweledol ac effeithiau niweidiol ar y dirwedd gymaint â phosibl, i liniaru effeithiau amgylcheddol yn rhesymol ac i gydymffurfio â rhwymedigaethau SPM o dan Atodlen 9 *Deddf Trydan* 1989 [A6,113; A9, 615].

*Cysylltiad trwy Gefn Coch*

470. Mae nifer o wrthwynebwyr yn awgrymu y gallai'r fferm wynt wedi'i hailbweru gael ei chysylltu â'r foth arfaethedig yng Nghefn Coch fel rhan o Brosiect Cysylltu Canolbarth Cymru (MWCP), a gellid cyflawni hyn mewn sawl ffordd [A6, 115-118; A7, 12.43 a 12.44]. Mae'r cynllun rhwydwaith presennol ar gyfer MWCP wedi'i seilio ar y ffaith bod cynllun cysylltu 132kV Llandinam SPM yn cael ei ddatblygu'n annibynnol. Byddai'n rhaid iddo gael ei ailgynllunio, a byddai angen cynnal ymgynghoriad arall, pe byddai cynllun ailbweru Llandinam am gael ei gysylltu ag ef. Felly, byddai oedi sylweddol i gysylltu'r fferm wynt wedi'i hailbweru a Phrosiect Cysylltu Canolbarth Cymru, a mwy o risg gynllunio a masnachol [A6, 120-125].

471. Mae Prosiect Cysylltu Canolbarth Cymru yn cael ei hyrwyddo ar y sail y byddai angen i nifer o ffermydd gwynt yn yr ardal gael eu cysylltu â'r foth, gyda'r pum

cynnig sydd gerbron yr ymchwiliad yn cynrychioli oddeutu 65% o'r swm a fyddai'n cael ei gynhyrchu trwy gontract [A6, 128]. Nid oes sicrwydd y byddai'r cyfan neu ran o'r 35% sy'n weddill yn cael ei gymeradwyo, ac ni ellir rhagfarnu'r broses ganiatáu ar gyfer cynlluniau unigol nad ydynt gerbron yr ymchwiliad. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, yn unol ag adroddiad Mott Macdonald, pe byddai cynllun ailbweru Llandinam yn cael ei gysylltu yng Nghefn Coch, ac y byddai pob un o'r pum fferm wynt sydd gerbron yr ymchwiliad yn cael caniatâd, y byddai datrysiad 132/400kV yn well. Hyd yn oed os na roddir caniatâd i bob un o'r pump, byddai cysylltiad yng Nghefn Coch yn lleihau gallu'r cyfan neu ran o'r 35% sy'n weddill i gael ei gysylltu heb sbarduno datrysiad 132/400kV. Felly, mae'n bosibl y gallai dewisiadau llwybr Cefn Coch sbarduno'r angen am seilwaith is-orsaf mawr yng Nghefn Coch a llinell 400kV hir, neu rwystro'r cyfan neu ran o'r 35% arall o gynhyrchu dan gontract yn SSA B.

472. Pe byddai'r capasiti cynhyrchu cyffredinol yn SSA C yn cael ei gyfyngu i oddeutu 176MW, byddai cysylltiad un llinell HDWP 132kV trwy Gefn Coch yn cydymffurfio ac yn ymarferol yn dechnegol. Fodd bynnag, pan ystyrir y posibilrwydd o sbarduno'r newid sylweddol i ddatrysiad 132/400kV ar gyfer SSA B, oedi i gysylltu'r fferm wynt wedi'i hailbweru, oedi i MWCP, a chyflwyno risg gynllunio a masnachol sylweddol, nid yw'n amlwg y byddai arbedion cost na manteision amgylcheddol arwyddocaol.

473. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai cysylltu cynllun ailbweru Llandinam trwy'r Trallwng yn well na chysylltiad trwy is-orsaf Cefn Coch / MWCP.

*Dulliau cynnal eraill ar gyfer y llwybr fel y'i cynigiwyd*

474. Mae'r tir gwrtheddol iawn yn safle is-orsaf fferm wynt Llandinam yn golygu bod angen gwifren ddaearu i fynd i'r afael â phryderon diogelwch y cyhoedd, ac ni all dyluniad Trident gario gwifren ddaearu. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth i awgrymu y byddai adleoli'r is-orsaf i safle cyfagos yn arwain at amodau tir mwy ffafriol [A7, 12.51]. Yn ogystal, yn wahanol i Trident, dyluniwyd yr HDWP yn benodol i wasanaethu gorsafoedd cynhyrchu adnewyddadwy mewn ardaloedd uchel pellennig. Os yw'r rhan o'r cysylltiad ar dir uwch na 250m uwchben lefel y môr am fod yn llinell uwchben, yna rwyf yn fodlon y dylai fod o ddyluniad HDWP [A6, 73-87].

475. Er hynny, yn ystod yr ymchwiliad, gofynnwyd i SPM a fyddai'n bosibl y byddai tir llai gwrtheddol rhan o'r ffordd ar hyd y llwybr yn galluogi newid o HDWP i Trident. Mae SPM yn cadarnhau y byddai datrysiad o'r fath, yn cynnwys RES, yn dechnegol ymarferol am gost eithaf cymharol. O ystyried bod llinell Trident yn llawer llai ymwthiol na HDWP, ac y gallai RES gael ei leoli a'i sgrinio'n anymwthiol, rwyf o'r farn y byddai hyn yn arwain at ddatrysiad llawer mwy derbyniol yn amgylcheddol ar dir yn is na 250m uwchben lefel y môr. Cefnogir y safbwynt hwn gan y nodyn briffio a anfonwyd at aelodau PCC. Nid yw'r tebygolrwydd nad oes unrhyw Weithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO) arall wedi defnyddio datrysiad o'r fath yn arbennig o arwyddocaol, heblaw, efallai, wrth gyfiawnhau pam nad ystyriwyd y dewis yn gynharach [A6, 88 ac 89; A7, 12.16, 12.40 a 12.49].

476. Er hynny, gan y byddai'r dyluniad HDWP yn cael ei gadw ar gyfer Rhan B, byddai'r effeithiau niweidiol mawr yn weledol ac ar y dirwedd, a'r niwed sylweddol i asedau treftadaeth ddiwylliannol yn yr ardal honno, yn parhau, yn ogystal â'r gwrthdaro canlyniadol â pholisïau Llywodraeth Cymru a'r UDP.

Byddai'r effeithiau ar ecoleg a defnydd a mwynhad tir yn debyg at ei gilydd. Yn ogystal, mae'n bwysig ystyried y byddai gweithredu datrysiad Trident rhannol yn arwain at oedi sylweddol tra bod tir yn cael ei gaffael a chaniatâd cynllunio'n cael ei geisio, ynghyd ag ansicrwydd posibl [A6, 89-93, A7, 12.50].

*Uwchraddiad Awgrymedig PCC*

477. Dymuna PCC i'r cynnig gael ei uwchraddio i alluogi'r llinell i gymryd hyd at 175MW, ac felly osgoi'r angen am ran 35km yr MWCP yn SSA C, y mae o'r farn ei bod yn annerbyniol yn weledol ac o ran y dirwedd [A6, 133 a 134; A9, 799 ac 805]. Er na fyddai'r dewis hwn yn bodloni'r holl gapasiti cynhyrchu y mae gan SPM rwymedigaeth i'w gysylltu yn SSA C, mae'r capasiti cynhyrchu hwnnw ymhell dros y capasiti mwyaf ar gyfer SSA C a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ac nid oes gwarant y llwyddir i gael yr holl ganiatâd.

478. Byddai uwchraddio'r llinell uwchben arfaethedig i gapasiti o 175MW yn golygu defnyddio dargludyddion mwy a nifer fwy o bolion mwy trwchus, na fanylwyd ar eu swm a'u safle [A6, 135; A9, 800]. Cyn y gallai newidiadau o'r fath gael eu mynnu trwy amodau, byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth amgylcheddol ac na fyddai amodau o'r fath yn annheg i'r partïon yn ystyr *Wheatcroft* [A6, 138 a 139]. Gallai buddiannau tirfeddianwyr gael eu niweidio gan newidiadau i nifer a safle polion ac fe allai fod rhai effeithiau amgylcheddol, er y byddai'r rhain yn fach yn ôl pob tebyg a heb fod yn fwy na'r rhai hynny a ragwelwyd o fewn lwfansau microleoli. Er gwaethaf y tebygolrwydd y byddai'r cynnydd mewn effeithiau gweledol yn fach, rwyf o'r farn y byddai angen gwybodaeth amgylcheddol atodol ychwanegol, ac y dylai fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Felly, nid wyf o'r farn y gallai uwchraddio'r llinell gael ei fynnu trwy amod ar y cam hwn.

479. Byddai'n rhaid i linell y Trallwng i Groesoswallt gael ei hailadeiladu i fanteisio ar y capasiti gosodedig ychwanegol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellid ei fynnu gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y cam hwn. Er gwaethaf y farn gyffredinol na fyddai'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd yn arwyddocaol, ni ellir tybio na fyddai angen caniatâd penodol [A6, 138 a 139; A9, 800-804]. Fodd bynnag, ni ddylai cael caniatâd penodol ar gyfer llinell uwchben y Trallwng i Groesoswallt a'i hailadeiladu ynddo'i hun achosi oedi o ran cysylltu cynllun ailbweru Llandinam.

480. Pe byddai'r capasiti cynhyrchu yn SSA C yn llai nag oddeutu 160MW, byddai gan y dewis hwn deilyngdod arwyddocaol, gan y byddai'n golygu y gellid allforio mwy o ynni o SSA C heb lawer o effaith amgylcheddol ychwanegol, neu ddim effaith amgylcheddol ychwanegol o gwbl (yn amodol, wrth gwrs, ar ailadeiladu llinell y Trallwng i Groesoswallt yn y pen draw). Nid yw'r gwahaniaeth o ran cost, os o gwbl, yn ymddangos yn ormodol [A6, 136; A9, 809-813]. Fodd bynnag, oherwydd yr angen am SEI ychwanegol, gallai fod rhywfaint o oedi i'r amserlen ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy ychwanegol, y dylid ei ystyried.

*Ymagwedd at Danddaearu*

481. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at yr ymagwedd gyffredinol at ddewisiadau eraill, sydd hefyd yn berthnasol i ddewisiadau tanddaearu. O ran tanddaearu yn benodol, nid yw'n agored i'r Ysgrifennydd Gwladol fynnu tanddaearu yn llwyr neu'n rhannol: y cyfan y gall ei wneud yw gwrthod y cais neu ei gymeradwyo'n rhannol gyda bylchau. Pe byddai'n defnyddio'r ymagwedd olaf, y mae'n

ymddangos na wnaed yn flaenorol, byddai'n agored i SPM danddaearu y tu hwnt i unrhyw fwlch pe byddai rhesymau gweithredol neu resymau eraill dros wneud hynny. Gallai unrhyw danddaearu gael ei wneud gan ddefnyddio hawliau datblygu a ganiateir, oni bai ei fod yn ddatblygiad EIA a fyddai'n golygu y byddai angen caniatâd cynllunio [A6, 145-147; A9, 783 a 784].

*Tanddaearu'r Hyd Cyfan*

482. Mae tanddaearu'r llwybr yn llawn ar hyd ffyrdd lleol yn ddewis sy'n dechnegol hyfyw yn ddamcaniaethol. Byddai'n gwasanaethu'r swm i'w gynhyrchu dan gontract, gallai ddarparu ar gyfer cynhyrchu 10MW arall yn y dyfodol ar y system leol mewn egwyddor, ni fyddai'n cael yr effeithiau niweidiol mawr yn weledol ac ar y dirwedd nac yn achosi'r niwed sylweddol i asedau treftadaeth ddiwylliannol a amlygwyd ar gyfer cynnig y cais, a byddai'n bodloni polisi DC12 yr UDP. Fodd bynnag, byddai'r gost o leiaf deirgwaith cymaint â llinell uwchben. Felly, ni fyddai'r dewis hwn yn darparu datrysiad economaidd a chost effeithiol. O ystyried bod EN-5 yn gosod trothwy uchel ar gyfer gwrthod llinellau uwchben o blaid tanddaearu a bod TAN 8 yn datgan yn benodol bod tanddaearu'n debygol o gael ei gyfiawnhau am hydoedd cyfyngedig cysylltiad yn unig a / neu mewn amgylchiadau arbennig, ni fyddai dewis cwbl danddaear yn ddull priodol o ddarparu'r cysylltiad â'r fferm wynt wedi'i hailbweru [A6, 114, 163 a 165; A7, 12.17].

*Tanddaearu Rhan B*

483. Trafodwyd pedwar amrywiad i'r dewis hwn, y byddai pob un ohonynt yn bodloni'r capasiti angenrheidiol, yn yr ymchwiliad. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai unrhyw un ohonynt yn cael effaith arwyddocaol ar ecoleg neu ddefnydd a mwynhad o dir o fewn rhan B. Byddai'r dewis a aseswyd gan SPM (yr hiraf o'r pedwar ar 9.3km) yn arwain at gost ychwanegol o oddeutu £14.8 miliwn [A9, 727 a 728][103]. Byddai hyn yn dileu'r effaith o arwyddocâd mawr a amlygwyd ar y dirwedd a'r effaith niweidiol fawr yn weledol yn Rhan B, yn ogystal â'r niwed sylweddol i'r tair SAM a'r ased heb ei ddynodi. O ganlyniad, byddai'n cydymffurfio â'r UDP a pholisi Llywodraeth Cymru.

484. Awgrymodd PCC fyrhau'r llwybr hwn ar y ddau ben a defnyddio rhannau o lwybr ceffylau a llwybr troed cyhoeddus i leihau ei natur ddolennog, gan roi hyd llai o 6km a chost o oddeutu £9.55 miliwn [A9, 729, 730]. Byddai hyn yn lliniaru'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd yn Rhan B i raddau helaeth ac yn osgoi niwed sylweddol i ddwy SAM a'r ased heb ei ddynodi. Fodd bynnag, ni fyddai'n lliniaru'r holl effeithiau gweledol ac ar y dirwedd i'r gogledd o Fryn Ceri, a byddai'r niwed sylweddol i Feddrod Bryn Cwmyrhiwdre yn parhau. Er hynny, ni fyddai'r gwrthdaro â'r UDP a pholisi Llywodraeth Cymru mor fawr ag ar gyfer cynllun y cais. Mae SPM yn derbyn bod hyn yn dechnegol ymarferol, yn amodol ar oresgyn pryderon yn ymwneud â'r rhannau llwybr ceffylau a llwybr troed [A6, 175]. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â serthrwydd y tir, ond mae'r dewis a aseswyd yn y lle cyntaf, nad yw SPM yn codi unrhyw bryderon o'r fath yn ei gylch, yn cynnwys rhannau mwy serth ac mae prosiectau seilwaith eraill yn bwriadu gosod cyfarpar o dan y ddaear mewn tir o'r fath neu wedi gwneud hynny.

---

[103] Ffigur SPM yw £13.6 miliwn, ond camgymeriad mathemategol yw hyn yn ôl nodyn gan PCC

485. Roedd amrywiad arall a gyflwynwyd gan PCC yn cynnwys yr un byrhau â'r uchod ar y pen gorllewinol, ac ar y pen dwyreiniol yn mynd tua'r dwyrain yn fras o'r B4355 cyn troi i'r gogledd gogledd-orllewin i ymuno â llinell y cais ar bwynt 0.6km i'r dwyrain o Black Gate i roi hyd cyfan o 4.2km a chost o oddeutu £6.65 miliwn [A9, 731 a 732]. Er bod SPM wedi amlygu anawsterau technegol wrth osod cebl ar draws y tirffurf islaw Cefnffordd Ceri, maent yn derbyn nad yw'r rhain yn anorchfygol ac rwyf innau'n cytuno [A6, 179]. Byddai hyn yn lliniaru llawer o'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd yn Rhan B ac yn osgoi niwed sylweddol i ddwy SAM a'r ased heb ei ddynodi. Fodd bynnag, unwaith eto, ni fyddai'n lliniaru'r holl effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd i'r gogledd o Fryn Ceri a byddai'r niwed sylweddol i Feddrod Bryn Cwmyrhiwdre yn parhau. Byddai'r polyn terfynell i'w weld o rai golygfannau gan gynnwys y B4355, ond byddai i lawr y dyffryn a chryn bellter o nodweddion allweddol. Unwaith eto, ni fyddai'r gwrthdaro â'r UDP a pholisi Llywodraeth Cymru mor fawr ag ar gyfer cynllun y cais.

486. Mae amrywiad ychwanegol i'r uchod, sydd ychydig yn fyrrach ac felly'n rhatach, yn dilyn y B4355 i ddechrau i'r gogledd-ddwyrain cyn troi i'r dwyrain i lawr y llethr, ac yna troi i'r gogledd-ddwyrain ac i'r de-ddwyrain i ymuno â llinell y cais ychydig ymhellach oddi wrth Black Gate na'r uchod [A9, 741]. Mae SPM o'r farn bod hyn yn well o safbwynt technegol [A6, 182]. Byddai'r effeithiau gweledol ac ar y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol, yn ogystal â chydymffurfio â'r UDP a pholisi Llywodraeth Cymru, yn debyg i'r uchod yn gyffredinol.

487. Gallai tanddaearu darfu ar archaeoleg heb ei chofnodi, ond o ran yr hydoedd sy'n dilyn ffyrdd a llwybrau, byddai unrhyw effeithiau niweidiol yn annhebygol oherwydd bod y tir eisoes wedi cael ei darfu. Lle y byddai rhannau'n mynd trwy dir heb ei darfu, byddai'r ôl troed cul ynghyd â thechnegau lliniaru safonol yn cyfyngu'r posibilrwydd o darfu ar olion archaeolegol yn gyffredinol. Yn ogystal, heblaw am y croesglawdd, nid oes tystiolaeth y byddai olion archaeolegol ychwanegol yn cael eu darganfod. Byddai dewis 4.2km PCC yn croesi llinell amcanol y croesglawdd rhwng y ddwy ran restredig lle y ceir posibilrwydd o olion ffisegol ychwanegol. Er hynny, gellid osgoi unrhyw effeithiau uniongyrchol trwy wthdyllu o dan unrhyw olion o'r fath. Er y gallai fod angen trwydded gan Cadw ar gyfer hyn, ni welaf unrhyw reswm pam na fyddai un yn cael ei rhoi. Byddai'r amrywiad ychwanegol yn golygu y byddai llinell y clawdd yn cael ei chroesi ar y B4355 lle y mae eisoes wedi cael ei tharfu [A6, 176 a 180; A9, 7.47-7.52].

488. Mae'r costau a ddyfynnwyd o ran y pedwar amrywiad yn cynnwys costau hyd oes amcangyfrifedig, gyda chostau atgyweirio sy'n uwch o lawer nag ar gyfer llinellau uwchben. Mae'r rhain wedi'u seilio ar brofiad a rhwydwaith SPM ei hun, er eu bod yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol am ryw reswm. Er hynny, mae'r naill set o ystadegau a'r llall yn debygol o fod wedi'u gogwyddo'n sylweddol tuag at leoliadau trefol lle y ceir posibilrwydd llawer uwch o balu ffyrdd a llwybrau troed. Nid yw pwynt SPM ynglŷn ag ymestyn cebl yn argyhoeddiadol ac, mewn lleoliad gwledig iawn fel hwn, gellir disgwyl cyfraddau diffyg a chostau hyd oes is o lawer. Dylid cofio hefyd na fyddai unrhyw ddiffygion a fyddai'n digwydd yn gadael unrhyw ddefnyddiwr heb gyflenwad [A6, 167; A9, 759-764].

489. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu y byddai unrhyw un o'r amrywiadau uchod yn gyfystyr â datblygiad EIA neu'n achosi anfanteision amseru o gymharu â chynnig y cais [A9, 765-768]1`.

*Tanddaearu ar y Pen Gogleddol (Rhannau E, F a G)*

490. Er yr awgrymwyd y dewis hwn gan NRW, nid yw wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol gadarn. Byddai modd cyflawni'r dewis a byddai'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol cyfyngedig nenu ddim effeithiau arwyddocaol o gwbl yn nhermau economaidd-gymdeithasol, ecolegol, treftadaeth ddiwylliannol a thirwedd. Fodd bynnag, ni fyddai'n osgoi'r effeithiau niweidiol mawr yn weledol ac ar y dirwedd a'r niwed sylweddol i asedau treftadaeth ddiwylliannol a amlygwyd ar gyfer cynnig y cais, na'r gwrthdaro canlyniadol â pholisïau Llywodraeth Cymru a'r UDP. Yn ogystal, byddai'r gost ychwanegol o oddeutu £18.4 miliwn neu fwy yn sylweddol a'r buddion yn gyfyngedig, gan olygu na fyddai'r dewis yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol SPM [A6, 141(e) a 184].

<u>Materion Eraill</u>

*Iechyd Dynol*

491. Er bod pryderon y cyhoedd ynglŷn ag effaith meysydd electromagnetig (EMFs) ar iechyd yn ddealladwy, mae llinellau pŵer uwchben hyd at ac yn cynnwys 132kV ar y rhestr o ddosbarthiadau offer sy'n cydymffurfio'n gynhenid â chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n Ïoneiddio (ICNIRP). Er nad oes gofyniad i gyfrifo cryfderau meysydd mewn achosion o'r fath, gellir cael sicrwydd ychwanegol o'r ffaith bod uchafswm lefelau cyfrifedig maes trydan 900V/m a maes magnetig 3.3μT yn sylweddol lai na'r terfynau amlygiad perthnasol o 9000V/m a 360μT yn ôl eu trefn. Mae llinellau un cylched, fel y cynigir yn yr achos hwn, yn cydymffurfio'n awtomatig â'r polisi ar gamu. O ran effeithiau anuniongyrchol fel microsiociau, y maes uchaf a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan y Cynllun fyddai 900V/m, tra gellir ystyried maes o 5000V/m fel lefel lle y gallai fod angen asesiad ychwanegol. Gan fod EMFs a gynhyrchir gan ffynhonnell o'r fath yn gostwng yn gyflym gyda phellter, maent yn tueddu i weithredu fel ffynonellau lleol yn unig a cheir rhyngweithio dibwys rhwng gwahanol ffynonellau gan olygu na fyddai unrhyw effeithiau cronnol [98; A6, 193-201].

492. Am y rhesymau uchod, mae'r dystiolaeth yn dangos yn eglur bod y cynnig yn unol â chanllawiau ICNIRP, fel sy'n ofynnol gan EN-5, ac yn cydymffurfio â pholisi'r Llywodraeth.

Traffig a Thrafnidiaeth

493. Er nad oedd traffig a thrafnidiaeth yn un o'r materion y gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol am gael gwybod amdanynt yn benodol, ac nid oes unrhyw wrthwynebiadau gan yr awdurdodau priffyrdd perthnasol, mae'n fater sy'n achos pryder i breswylwyr lleol [A6, 377 a 371; A9, 12.57].

494. Byddai rhai rhannau o'r llwybr yn achosi anawsterau o ganlyniad i gyfyngiadau ffisegol, geometregol a thopograffaidd [A7, 12.58]. Fodd bynnag, nid dyma fyddai'r tro cyntaf i SPM godi llinell uwchben ar bolion pren mewn lleoliadau o'r fath ac ni fyddai angen adeiladu ffyrdd halio cerrig. Byddai ystod o dractorau a cherbydau 4x4 a thraciog arbenigol ar gael i'r contractwr ac, er nad yw SPM yn credu ei bod yn debygol yn yr achos hwn, mae hofrenyddion wedi'u defnyddio mewn achosion eraill. Er y gallai fod angen gwella mynedfeydd fferm unigol, nid yw'n ymddangos y byddai angen gwelliannau mwy a allai arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd a'r dirwedd [A6, 373, 378, 383; A7, 12.59].

495. Er y byddai rhywfaint o effaith ar draffig lleol yn anochel yn ystod y cam adeiladu, ni fyddai angen cau unrhyw ffyrdd a byddai nifer y symudiadau dyddiol yn cael eu cyfyngu. Rwyf yn fodlon y byddai mesurau'n cael eu sefydlu i leihau unrhyw aflonyddu gymaint â phosibl a rhoi rhybudd o flaen llaw i drigolion lleol. Felly, ni fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol o safbwynt traffig a thrafnidiaeth [A6, 374-382, A7, 12.60].

*Lle ar gyfer Prosiectau Cynhyrchu Adnewyddadwy Unigol Bach*

496. Deallaf fod y rhan fwyaf o'r rhain wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r rhwydwaith dosbarthu lleol ar foltedd is. Er hynny, byddai'r Cynllun yn darparu lle ar gyfer cynhyrchu hyd at 100MW ar y rhwydwaith dosbarthu presennol heb unrhyw atgyfnerthu ychwanegol. Mae'r cytundeb cysylltu ar gyfer ailbweru'r fferm wynt ar gyfer 90MW a fyddai'n gadael capasiti i gynhyrchu 10MW ychwanegol. Dylai hyn fod yn ddigonol ar gyfer symiau disgwyliedig o brosiectau cynhyrchu adnewyddadwy unigol [96; A6, 140].

*Ffyrddfreintiau*

497. Ceisir caniatâd adran 37 a ffyrddfreintiau angenrheidiol (lle na sicrhawyd ffyrddfreintiau gwirfoddol) o dan ddarpariaethau ar wahân *Deddf Trydan 1989*. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth i atal Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNOs) rhag negodi ffyrddfreintiau gwirfoddol neu wneud cais am ffyrddfreintiau angenrheidiol cyn y ceir caniatâd adran 37 [97; A6, 389].

## Effeithiau Cronnol a Chyfunol yr Holl Gynlluniau

498. Mae'r drafodaeth ganlynol yn ymwneud â materion perthnasol sy'n codi o effeithiau cronnol a chyfunol y pum cais fferm wynt sydd gerbron yr ymchwiliad, a'r rhai hynny sy'n bodoli, sydd wedi cael caniatâd neu sydd yn y system gynllunio, ynghyd â'r seilwaith angenrheidiol i'w cynnal (gan gynnwys cynnig llinell uwchben 132kV Llandinam).

499. Mae ardal yr astudiaeth a aseswyd yn cynnwys y cyd-destun tirwedd ar gyfer SSA B ac SSA C, Dyffryn Meifod i'r dwyrain i'r ffin â Swydd Amwythig, Dyffryn Hafren i'r Trallwng a'r dirwedd rhwng Croesoswallt ac i'r gogledd i Wrecsam [A9, 838].

500. Er y gellir asesu cynlluniau'r ymchwiliad a'u heffeithiau mewn cyfuniad â datblygiad presennol yn llawn, mae ystyried cynigion y rhoddwyd caniatâd ar eu cyfer (ond nad ydynt wedi'u hadeiladu) a chynigion sydd yn y system gynllunio yn cyflwyno ansicrwydd yn anochel. Mae hyn yn arbennig o wir o ran yr MWCP, y mae'r cynigion ar ei gyfer ar gam ymgynghori. Felly, cynhaliwyd yr asesiad ar lefel uchel, gan ystyried y wybodaeth orau sydd ar gael i'r cyhoedd (gan nad oes rhwymedigaeth ar yr ymgeiswyr i fynd ymhellach).

*Effeithiau Cyfunol yn Weledol ac ar y Dirwedd*

501. Byddai'r ffermydd gwynt arfaethedig i gyd i'w gweld o dir uchel rhwng SSA B ac SSA C. Fodd bynnag, mae'r ymgeiswyr a PCC yn cytuno y byddai'r pellter yn rhy fawr i effeithiau cronnol arwyddocaol godi'n weledol ac ar y dirwedd o ganlyniad [A9, 869]. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno. Mae SSA B ac SSA C mor bell i ffwrdd fel y byddai'n annhebygol y byddai datblygiadau

arfaethedig yn y ddau yn cael eu profi un ar ôl y llall fel rhan o daith. Felly, nid wyf o'r farn y byddai effeithiau gweledol cronnol dilyniannol arwyddocaol, yn ychwanegol at yr effeithiau o olygfannau sefydlog.

*Cysylltiadau â'r Grid*

502. Mae adroddiad Mott MacDonald[104] yn cadarnhau cred Gweinidogion Cymru, sef, cyn belled ag y byddai datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r capasiti uchaf a amlygwyd gan Garrad Hassan (SSA B = 430MW, SSA C = 98MW), ni fyddai angen seilwaith rhwydwaith foltedd uchel mawr a fyddai'n ymwthiol yn weledol ac is-orsaf 132 / 400kV gysylltiedig[105]. Gellid cysylltu â'r rhwydwaith dosbarthu trwy system safonol gydag unrhyw linellau uwchben ar bolion pren HDWP neu Trident, er y byddai colledion trawsyrru uwch ar y foltedd hwn na phe byddai'r cysylltiad yn cael ei wneud ar 400kV.

503. Gellid allforio hyd at oddeutu 160MW o SSA C trwy un llinell 132kV i'r Trallwng ac ymlaen i Groesoswallt. Byddai hyn yn golygu uwchraddio cysylltiad arfaethedig Llandinam gan ddefnyddio dargludyddion trymach, a byddai angen ailadeiladu'r llinell bresennol o'r Trallwng i Groesoswallt. Felly, gallai cynllun ailbweru Llandinam a naill ai cynllun Llaithddu neu Lanbadarn Fynydd (ond nid y ddau) symud ymlaen heb yr angen am seilwaith ymwthiol ychwanegol.

504. Pe byddai pob un o'r tri chynllun SSA C sydd gerbron yr ymchwiliad yn cael eu cymeradwyo, byddai angen llinell 132kV ychwanegol i wasanaethu SSA C. Byddai sawl llwybr arall ar gael, gan gynnwys dau lwybr a amlygwyd yn cysylltu yng Nghefn Coch trwy'r MWCP. Nid yw'r partïon yn cytuno ynglŷn â graddau'r effeithiau tebygol yn weledol ac ar y dirwedd, yr effaith ar asedau treftadaeth ddiwylliannol a'u lleoliadau, na pha un a fyddai effeithiau o'r fath yn dderbyniol yn nhermau polisi. Gallai hynny fod yn fater i'r rhai a fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol yn y pen draw. Fodd bynnag, ni ddadleuir y byddai effeithiau niweidiol yn weledol ac ar y dirwedd ac effeithiau niweidiol ar leoliad rhai asedau treftadaeth ddiwylliannol, y gellid eu hosgoi i gyd yn gyfan gwbl trwy gyfyngu datblygiad yn SSA C i oddeutu 160MW.

505. Gellid allforio hyd at oddeutu 320MW o SSA B trwy linellau 132kV deuol, gyda rhannau uwchben ar bolion pren. Byddai hyn yn fwy na digonol i fodloni anghenion cynlluniau Llanbrynmair a Charnedd Wen. Mae'r asesiadau lefel uchel a gynhaliwyd o'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd yn awgrymu y gallai datrysiad o'r fath fod yn dderbyniol yn amgylcheddol o bosibl.

506. Pe byddai'r holl gynlluniau sydd yn y system gynllunio ar hyn o bryd yn cael eu caniatáu, gallent oll barhau i gael eu cysylltu ar 132kV yn dechnegol. Fodd bynnag, y canlyniad tebygol fyddai 'gwifrenlun' helaeth ac ymwthiol o linellau niferus, a byddai colledion trawsyrru yn cynyddu. Yn ymarferol, fel yr amlygwyd gan Mott MacDonald, y 'sbardun' ar gyfer llinell 400kV fyddai oddeutu 600MW o gapasiti cynhyrchu wedi'i gysylltu yng Nghefn Coch. Mae'r cynlluniau fferm wynt arfaethedig yng nghanolbarth Cymru y rhagwelir y byddant yn cysylltu yng Nghefn Coch ymhell y tu hwnt i'r trothwy hwn. Fodd bynnag, yn groes i'r ofnau a fynegwyd gan breswylwyr lleol yn yr ymchwiliad, nid yw'r cam datblygedig a gyrhaeddwyd yn y broses ymgynghori ar gyfer MWCP yn golygu ei bod yn

[104] SEI mis Rhagfyr 2013
[105] CD/COM/20

anochel y bydd yn symud ymlaen. Ni fyddai'r cynlluniau SSA B sydd gerbron yr ymchwiliad, ynddynt eu hunain, yn sbarduno angen am ddatrysiad 400kV. Fodd bynnag, pe byddai pob un o'r tri chynllun SSA C yn symud ymlaen a'r llinell ychwanegol angenrheidiol yn cael ei llwybro i Gefn Coch, byddai'r naill ddatblygiad neu'r llall yn SSA B yn cael ei gyfyngu, neu byddai'r tebygolrwydd o'r angen am seilwaith rhwydwaith foltedd uchel mawr a fyddai'n ymwthiol yn weledol ac is-orsaf gysylltiedig yn cynyddu'n sylweddol.

*Llwybrau Trafnidiaeth Strategol*

507. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn arwain at yr ymchwiliad, ac yn ystod yr ymchwiliad, i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Trafnidiaeth Strategol (STMPs) drafft ar gyfer pob un o'r pum cais fferm wynt. Mae dyluniad gwaith angenrheidiol oddi ar y safle wedi'i ddatblygu ac mae ei effeithiau amgylcheddol tebygol wedi'u hasesu. Nid oes arwydd na fydd caniatâd yn cael ei roi ar gyfer unrhyw waith angenrheidiol oddi ar y safle. Mae'r STMPs drafft bellach yn cynnwys llawer iawn o fanylion, ac maent wedi ystyried teithiau prawf lle y bo'n briodol. Maent yn darparu ar gyfer rheoli traffig adeiladu cyffredinol a thraffig ategol yn ogystal â'r holl gonfois danfon AIL [A7, 5.3].

508. Byddai pob fferm wynt yn cynhyrchu nifer fawr o gonfois danfon AIL a fyddai'n mynd trwy gymunedau lleol. Byddai aflonyddu bron bob dydd yn ystod cyfnodau o sawl mis wrth i gonfois ar gyfer pob datblygiad fynd heibio [A7, 5.1]. Fodd bynnag, byddai'r confois yn cael eu hebrwng gan yr Heddlu, a byddai eu symudiad yn cael ei ymarfer yn dda. Byddai hyd yr aflonyddu ar unrhyw gymuned benodol yn gyfyngedig, a byddai hebryngwyr y confoi yn sicrhau diogelwch ac yn lleihau unrhyw anghyfleustra gymaint â phosibl. Gan y byddai confois ar gyfer tri chynllun yn dod o'r gogledd, a'r ddau arall yn dod o'r de, byddai'r effeithiau cronnol ar gymunedau'n cael eu lleihau gymaint â phosibl. Yn yr un modd, byddai hebryngwyr confoi yn sicrhau diogelwch ac yn lleihau aflonyddu ac oedi o ran traffig gymaint â phosibl.

509. Ni fyddai'r heddlu'n cael eu galw i ffwrdd o ddyletswyddau rheng flaen, a'r datblygwyr fyddai'n talu'r gost.

510. Byddai traffig adeiladu cyffredinol a thraffig ategol yn achosi cynnydd canrannol sylweddol ar adegau o ran faint o draffig HGV a thraffig arall sy'n teithio ar hyd y rhwydwaith ffyrdd lleol. Byddai adeiladu llinell 132kV arfaethedig Llandinam yn ychwanegu at y traffig adeiladu cyffredinol a gynhyrchir gan y ffermydd gwynt arfaethedig. Fodd bynnag, mae'n dir cyffredin rhwng SPM a Llywodraeth Cymru (sef yr awdurdod cefnffyrdd) na fyddai traffig adeiladu sy'n gysylltiedig â llinell 132kV Llandinam yn arwain at unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol ar draffig neu drafnidiaeth cefnffyrdd, naill ai'n unigol neu'n gronnol gyda datblygiad arall. Nid oes gan PCC unrhyw wrthwynebiad yn hyn o beth. Felly, mae effaith gyfunol yr holl draffig adeiladu sy'n gysylltiedig â phob un o'r chwe chynnig yn dderbyniol i'r awdurdodau priffyrdd perthnasol. Mae'r cydbwysedd tystiolaeth yn fy arwain i'r casgliad bod gan y rhwydwaith ffyrdd y capasiti i dderbyn y cynnydd tebygol mewn traffig heb oedi, aflonyddu na chynnydd annerbyniol i'r risg gyffredinol o ddiogelwch priffyrdd. Byddai pryderon preswylwyr lleol y byddai traffig adeiladu'n defnyddio 'llwybrau cefn' a llwybrau byr trwy gymunedau lleol yn hytrach na llwybrau cytunedig ar brif ffyrdd yn cael eu goresgyn gan fesurau rheoli y gellir eu sicrhau trwy amodau [A7, 5.2 a 5.4].

511. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i'r llwybrau gogleddol na deheuol arfaethedig. Mae'n hyderus y gellir canfod datrysiad peirianneg i ostwng ffordd gerbydau'r gefnffordd o dan bont reilffordd Crossgates i ganiatáu i gonfois AIL Llandinam deithio ar ei hyd. Er na ellir sefydlu effaith lawn y gwaith hwn ar lif traffig ar hyn o bryd, ni fyddai'r gwaith angenrheidiol yn anarferol, ac nid oes gennyf unrhyw reswm i dybio na ellid canfod datrysiad rheoli traffig derbyniol.

512. Mae cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn ystod yr ymchwiliad wedi galluogi PCC i dynnu ei wrthwynebiadau cyffredinol yn ôl o ran effeithiau unigol a chronnol y ceisiadau ar lwybrau trafnidiaeth strategol, yn ddarostyngedig i osod amodau addas [A9, 899-902].

513. Ystyriaf ei bod yn briodol nad yw'r STMPs yn cael eu cwblhau'n derfynol ar y cam hwn, gan fod y cyfnodau yn arwain at ddatblygu yn hir ac fe allai fod angen eu diweddaru i ystyried newidiadau mewn amgylchiadau a datblygiadau, fel y posibilrwydd o adeiladu ffordd osgoi o amgylch y Trallwng. Fodd bynnag, rwyf yn fodlon eu bod yn darparu sail gadarn ar gyfer datrysiadau dibynadwy, cyflawnadwy a derbyniol i anawsterau darparu mynediad ar gyfer AILs a thraffig adeiladu cyffredinol, o ystyried cyfyngiadau'r seilwaith trafnidiaeth presennol yng nghanolbarth Cymru. Nid wyf o'r farn y byddai niwed economaidd a chymdeithasol yn berygl mawr i ganolbarth Cymru a'i drigolion, nac y byddai lefel yr aflonyddu'n annerbyniol [A7, 5.4].

514. Byddai newidiadau angenrheidiol i'r seilwaith ffyrdd yn aros ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau. Byddai'r rhain yn gwella gallu'r rhwydwaith priffyrdd i ddarparu ar gyfer cerbydau mawr ac felly byddent o fudd tymor hir o safbwynt lles y cyhoedd.

<u>*Twristiaeth a'r Economi*</u>

*Ffordd Glyndŵr*

515. Mae Ffordd Glyndŵr yn dolennu trwy lawer o ganolbarth Cymru, o Drefyclo yn y de i'r Trallwng yn y gogledd. Wrth wneud hynny, mae'n mynd trwy lawer o ardaloedd o wahanol gymeriad tirwedd ac ansawdd amrywiol, gan gynnwys rhannau trwy aneddiadau ac ar hyd ffyrdd gwledig. Er iddo gael ei enwi ar ôl Owain Glyndŵr, nid oes gan y llwybr ei hun unrhyw arwyddocâd hanesyddol. Yn hytrach, ei atyniad pennaf yw cynorthwyo cerddwyr i ddeall a mwynhau tirwedd amrywiol y rhan hon o ganolbarth Cymru. Mae datblygiad fferm wynt eisoes yn nodwedd o'r dirwedd yng nghanolbarth Cymru, ac nid yw'r llwybr yn osgoi ffermydd gwynt presennol. Gallai rhai defnyddwyr ddewis cerdded y llwybr 'o un pen i'r llall', ac felly byddai'r ffermydd gwynt presennol ac arfaethedig yn cael eu profi'n ddilyniannol. Gallai eraill ddewis cerdded ar hyd rhannau penodol yn unig, ac felly mae'n bosibl na fyddai'r ffermydd gwynt arfaethedig yn cael eu profi o gwbl.

516. Ni ddadleuir bod amrywiaeth eang o ymatebion i ddatblygiad fferm wynt. Roedd y dystiolaeth gerbron yr ymchwiliad yn dangos yn gyffredinol bod oddeutu 20% o bobl yn mynegi ymateb anffafriol a oedd yn ddigonol i ddylanwadu ar eu dewis i ymweld ag ardal ai peidio. Felly, gallai rhai cerddwyr ddewis osgoi mynd yn rhy agos i'r ffermydd gwynt arfaethedig neu drwyddynt. Er hynny, byddai rhannau mawr o'r llwybr heb eu heffeithio gan y ffermydd gwynt arfaethedig a byddent yn parhau i fod yn ddeniadol i'r holl gerddwyr. Gallai rhai cerddwyr, sy'n

fwy ffafriol i ffermydd gwynt, groesawu'r gallu i fynd yn agos at ddatblygiadau ffermydd gwynt a'u profi yn rhan o'u taith, a manteisio ar olygfeydd gwell o leoliadau lle y gwnaed gwaith torri coed cysylltiedig. At ei gilydd, nid wyf o'r farn y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar gyfanrwydd cyffredinol Ffordd Glyndŵr na'i defnydd [A7, 4.19 a 4.23].

*Crwydrwyr, Beicwyr, Marchogion, Gyrwyr a Theithwyr*

517. Byddai effeithiau'r datblygiadau arfaethedig ar ddefnydd hamdden o'r rhwydwaith llwybrau troed a llwybrau beicio a llwybrau ceffylau cenedlaethol a lleol yn debyg i'r effeithiau ar Ffordd Glyndŵr, yn yr ystyr y gallai defnyddwyr ddewis osgoi neu fwynhau rhannau yr effeithir arnynt gan ddatblygiad fferm wynt yn unol â'u ffafriaeth. Unwaith eto, at ei gilydd, nid wyf o'r farn y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith gyffredinol arwyddocaol ar ddefnydd hamdden o hawliau tramwy o'r fath. Mae gyrwyr a'u teithwyr yn debygol o fod yn llai sensitif i effeithiau gweledol datblygiad fferm wynt. Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai gyrwyr yn debygol o newid cyfeiriad eu taith oherwydd golygfeydd o ffermydd gwynt, nac y byddai golygfeydd o'r fath yn effeithio ar eu dewis o gyrchfan twristiaeth.

*Twristiaeth yn Gyffredinol*

518. Mae twristiaeth yn darparu oddeutu 12% o'r gyflogaeth ym Mhowys, yn cyfrannu oddeutu £615 miliwn at yr economi bob blwyddyn, ac wedi'i hamlygu'n faes twf posibl [A7, 4.8]. Ceir oddeutu 5,000 o gartrefi parc gwyliau yn yr ardal, y mae llawer ohonynt o safon uchel, a llawer o ddarparwyr eraill llety gwyliau [A7, 4.11]. Felly, mae twristiaeth yn amlwg yn rhan lwyddiannus a phwysig o'r economi leol.

519. Er bod oddeutu 20% o bobl yn mynegi ymateb anffafriol sy'n ddigonol i ddylanwadu ar eu dewis i ymweld ag ardal ai peidio, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos lefel debyg o ddirywiad mewn twristiaeth mewn unrhyw ardal o ganlyniad i ddatblygiad fferm wynt a seilwaith cysylltiedig. Yn wir, mae cyfres o adroddiadau ac adolygiadau wedi dangos nad oes unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar dwristiaeth o ganlyniad i ddatblygiad fferm wynt.

520. Mae'r *Astudiaeth i Effaith Economaidd Bosibl Ffermydd Gwynt a Seilwaith Grid Cysylltiedig ar Sector Twristiaeth Cymru*, a gynhaliwyd gan Regeneris Consulting a'r Tourism Company ar ran Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014)[106] yn amlygu amgylchiadau a risgiau penodol yn rhan ogleddol Powys. Fodd bynnag, heblaw am rywfaint o dystiolaeth anecdotaidd o ymwelwyr yn cadw draw o ganlyniad i ffermydd gwynt, nid yw astudiaethau achos (gan gynnwys astudiaethau a gynhaliwyd ym Mhowys) wedi canfod unrhyw dystiolaeth o effeithiau arwyddocaol ar dwristiaeth yng Nghymru hyd yma.

521. Byddai'r ardal y byddai'r ffermydd gwynt arfaethedig yn effeithio arni'n uniongyrchol yn gyfystyr â chyfran fach o'r arwynebedd tir yng nghanolbarth Cymru, a byddai i ffwrdd o'r rhan fwyaf o asedau naturiol a lleoliadau twristiaeth allweddol. Rwyf wedi dod i'r casgliad yn gynharach yn yr adroddiad hwn na fyddai unrhyw effaith uniongyrchol nac anuniongyrchol arwyddocaol ar gymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol, y byddai'r effeithiau ar olygfeydd oddi yno yn

[106] ALL-SOCIOECO-POE-S4-04-ADDENDUM

gyfyngedig, ac y byddai'r effaith ar ei nodweddion arbennig yn fach yn unig [395]. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi parc gwyliau wedi'u lleoli mewn dyffrynnoedd ymhell oddi wrth y ffermydd gwynt arfaethedig, ac maent wedi'u lleoli'n dda i fanteisio ar asedau naturiol ac atyniadau ymwelwyr allweddol na fyddai'n cael eu heffeithio.

522. Mae astudiaeth 2014 Regeneris y cyfeirir ati uchod yn amlygu bod y rhannau mwy pellennig o Bowys yn fwy sensitif i ddatblygiad fferm wynt. Mae'n dod i'r casgliad y gallai'r effaith negyddol bosibl ar niferoedd ymwelwyr fod yn isel yn gyffredinol, ond yn gymedrol mewn rhai amgylchiadau. Felly, mae'n cynghori y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i geisiadau yn yr ardal hon trwy'r system gynllunio. Mae'r ceisiadau gerbron yr ymchwiliad wedi cael eu hystyried yn ofalus iawn. Nid wyf wedi amlygu unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol debygol ar gyfanrwydd cyffredinol neu ddefnydd Ffordd Glyndŵr, defnydd hawliau tramwy hamdden eraill, nac unrhyw atyniad neu adnodd twristiaeth arall. Felly, nid wyf o'r farn bod amgylchiadau penodol wedi'u hamlygu a fyddai'n awgrymu y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn cael unrhyw beth heblaw am effaith gyffredinol isel ar dwristiaeth. Nid yw'r astudiaeth wedi canfod unrhyw dystiolaeth i awgrymu y gallai pwynt gael ei gyrraedd yn ymarferol lle y byddai'r dyfarniadau gwerth a wneir gan rai ymwelwyr yn newid o ganlyniad i gyfraddau datblygu uwch [A7, 4.29-4.32 a 4.44]. Nid yw'r astudiaeth wedi amlygu unrhyw dystiolaeth fod ffermydd gwynt ar lwybrau twristiaeth yn atal twristiaid rhag ymweld. Mae'n cynghori ei bod yn hollbwysig bod unrhyw effeithiau negyddol yn ystod gwaith adeiladu yn cael eu lleihau gymaint â phosibl a'u lliniaru, ond gellir sicrhau hyn trwy'r amodau cytunedig.

523. Ymwelais ag un parc gwyliau sydd wedi adrodd am ostyngiad diweddar mewn busnes a briodolir i agosrwydd at lwybr y llinell 400kV arfaethedig. Fodd bynnag, gallai ffactorau eraill fod yn gysylltiedig, a gallai'r ffermydd gwynt arfaethedig sydd gerbron yr ymchwiliad gael eu gwasanaethu gan seilwaith 132kV llawer llai ymwthiol [A7, 4.15].

524. Yn fy marn i, nid yw'r dystiolaeth yn ategu'r ofn cyffredinol, a fynegwyd gan y Gynghrair a llawer o breswylwyr lleol, y byddai'r ffermydd gwynt arfaethedig sydd gerbron yr ymchwiliad yn achosi niwed sylweddol i'r diwydiant twristiaeth lleol yn ei gyfanrwydd, naill ai yn ystod y cyfnod adeiladu neu yn ystod eu bywyd gweithredol.

*Effeithiau Economaidd-Gymdeithasol*

525. Ni ddadleuir nad yw cymunedau sydd â ffermydd gwynt ar eu hennill yn fwy na chymunedau sydd heb ffermydd gwynt, na bod Carno a Llandinam (y mae ffermydd gwynt yn eu cyffiniau) wedi profi dirywiad uwch na'r cyfartaledd mewn niferoedd pobl ifanc, a chynnydd mewn preswylwyr oedrannus [A7, 2.5]. Fodd bynnag, mae ffactorau eraill heblaw am ddatblygiad fferm wynt yn debygol o fod yn gysylltiedig, ac ni ddangoswyd unrhyw gysylltiad rhwng datblygiad fferm wynt a phroffiliau oedran cymunedau lleol. Yn y blynyddoedd diweddar, mae Carno wedi profi cynnydd mawr iawn mewn diweithdra, ond mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i gau ffatri a ddarparodd gyfran fawr o swyddi lleol. Ni all datblygiad fferm wynt ar ei ben ei hun wneud iawn yn llwyr am golli'r cyfryw gyfleoedd cyflogaeth na mynd i'r afael ag anghydbwysedd mewn proffiliau oedran cymunedau. Er hynny, rwyf o'r farn y byddai manteision y cynlluniau arfaethedig

o ran cyfraddau creu swyddi, cyfleoedd cadwyn gyflenwi a chynhyrchu busnes yn arwain at fudd sylweddol i'r economi leol.

526. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad, o ystyried y byddai'r cynigion o fewn SSAs, a'u bod ar gyfer prosiectau seilwaith sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, nad oes digon o dystiolaeth i gefnogi gwrthod rhai o'r prosiectau arfaethedig neu bob un ohonynt ar sail effeithiau economaidd-gymdeithasol. Cytunaf â'r farn honno, ond ychwanegaf y dylai'r manteision economaidd-gymdeithasol a amlygwyd gael eu hystyried yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol, er gwaethaf y ffaith bod gan Bowys gyflogaeth gymharol lawn ac economi sefydlog [A7, 4.2].

Effeithiau mewn Cyfuniad ar Fioamrywiaeth

*Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig*

527. Nid yw PCC ac NRW wedi codi unrhyw bryderon mewn perthynas ag ansawdd dŵr SAC Camlas Drefaldwyn, ac nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau pryderon Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Trefaldwyn yn hyn o beth [A7, 6.8]. Fodd bynnag, gallai'r ceisiadau sydd gerbron yr ymchwiliad effeithio ar bedwar Safle Ewropeaidd Dynodedig, fel y'u rhestrir yn natganiad yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch materion ar gyfer yr ymchwiliad.

*SAC Berwyn a De Clwyd*

528. Mae'r safle hwn i'r gogledd o SSA B ac, ar ei bwyntiau agosaf, byddai oddeutu 0.5km o safle Carnedd Wen, ac oddeutu 4.5km o Lanbrynmair. Mae wedi'i ddynodi ar gyfer nifer o nodweddion cynefin na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt. Mae NRW yn cynghori na fyddai'r datblygiadau arfaethedig yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y safle Ewropeaidd hwn, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill[107].

*SPA Berwyn*

529. Mae SPA Berwyn wedi'i ddosbarthu ar gyfer hebogiaid tramor, bodaod tinwyn, cudyllod bach a barcutiaid sy'n bridio. Byddai ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair 0.5km a 4.5km, yn ôl eu trefn, o'r SPA ar ei bwynt agosaf.

530. Mae NRW wedi cynghori, yn amodol ar weithredu mesurau lliniaru a gynigiwyd yn SEI 2011 RWE, y dylai fod yn bosibl dod i'r casgliad na fyddai cynllun Carnedd Wen yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd SPA Berwyn. Mae mesurau lliniaru wedi'u hymsefydlu yn y cynigion a'r amodau cynllunio. Yn dilyn Nodyn Briffio NRW ar ofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA), mae amodau drafft yn ymwneud â chyfres o gynlluniau rheoli a chyflogi clerc gwaith ecolegol â chymwysterau a phrofiad addas wedi'u cyflwyno gan NRW ac RWE.

531. O ran Llanbrynmair, mae Atodiad 6.2 SEI RES yn cynnwys y wybodaeth berthnasol i lywio HRA ar gyfer SPA Berwyn. Yn ôl NRW, yn amodol ar sicrhau mesurau lliniaru o fewn yr ES/SEI trwy amodau priodol, dylai fod yn bosibl dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar SPA Berwyn yn unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.

*SAC Pen Llŷn a'r Sarnau*

[107] Gweler NRW: Nodyn Briffio ar yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd sy'n Ofynnol

532. Safle morol yw hwn ar arfordir canolbarth Cymru, sy’n cynnwys Moryd Dyfi. Mae rhan o gynllun Carnedd Wen o fewn y dalgylch perthnasol, ond y prosiect hwn yn unig sy’n berthnasol i’r safle hwn. Gallai effeithiau posibl godi yn sgil halogyddion yn mynd i mewn i ddyfrgyrsiau sy’n draenio i’r SAC yn ystod camau torri coed, adeiladu ac adfer.

533. Yn amodol ar weithredu mesurau lliniaru sydd wedi’u hymsefydlu yn y cynllun a’r amodau drafft, nid yw NRW o’r farn y byddai’r cynnig yn debygol o gael unrhyw effaith arwyddocaol ar SAC Pen Llŷn a’r Sarnau, naill ai’n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill. Rwyf yn fodlon y byddai’r amodau drafft perthnasol yn addas, ac yn sicrhau y gweithredir mesurau a ddyluniwyd yn briodol a gynhwysir yn y cynlluniau terfynol.

*SAC Afon Gwy*

534. Byddai llinell 132kV Llandinam a ffermydd gwynt arfaethedig Llandinam, Llaithddu a Llanbadarn Fynydd wedi’u lleoli’n gyfan gwbl neu’n rhannol o fewn dalgylch isafonydd Afon Gwy. Mae’r ymgeiswyr perthnasol wedi cyflwyno datganiad hydrolegol ar y cyd ac mae nifer o amodau drafft wedi’u cytuno rhwng NRW a’r ymgeiswyr perthnasol. O ystyried y mesurau lliniaru sydd wedi’u hymsefydlu yn y cynnig a’r amodau cytunedig, mae NRW o’r farn na fyddai’r cynigion yn cael effaith arwyddocaol debygol ar SAC Afon Gwy yn unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill. Rwyf yn fodlon y byddai’r amodau drafft perthnasol y cytunwyd arnynt yn addas, ac yn sicrhau y gweithredir mesurau a ddyluniwyd yn briodol a gynhwysir yn y cynlluniau terfynol.

535. Mae pont Bailey dros dro wedi’i chynnig ar gyfer fferm wynt Llandinam ar draws Afon Gwy ger Llanfair-ym-Muallt. Ni cheisir caniatâd ar gyfer y bont hon yn rhan o’r cais hwn. Mae’n dir cyffredin rhwng NRW a CPL (CPL-SOCG-HYDRO-CON-003-S4) bod dyluniad y bont arfaethedig, gydag ategweithiau wedi’u gosod yn ôl o lannau’r afon ac yn croesi’r afon mewn un rhychwant, yn golygu na fyddai unrhyw ran o’r adeiledd yn yr afon nac mewn ardal wlyb. Mae Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ac Atal Llygredd (EMPPP) drafft ar wahân wedi’i gyflwyno (CPL-SOCG-CON-003-Hydro-ANNEX4-S4), sy’n amlinellu mesurau i leihau gymaint â phosibl ar erydu a rhyddhau gwaddodion i’r dyfrgwrs. Mae CPL ac NRW yn cytuno bod yr EMPPP drafft yn cydymffurfio ag arfer da. Gellir gwneud caniatâd ar gyfer y bont dros dro yn amodol ar gymeradwyo a gweithredu’r EMPPP terfynol. Mae CPL wedi cynnig y dylid amseru’r gwaith adeiladu i osgoi’r tymor silio. Mae’n bosibl y bydd angen rhai amodau eraill a Thrwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

536. Mae NRW o’r farn, yn amodol ar fesurau lliniaru ac amodau priodol (sydd wedi’u hamlygu), nad oes unrhyw reswm i gredu ar y cam hwn y byddai effaith arwyddocaol debygol ar nodweddion dynodedig y SAC o ganlyniad i adeiladu a defnyddio’r bont Bailey, naill ai’n unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill. Mae CPL ac NRW hefyd yn cytuno y dylai fod yn bosibl trwy fesurau lliniaru priodol, a sicrhawyd trwy amodau sy’n gysylltiedig ag unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir ar gyfer y bont, i ddod i’r casgliad na fyddai’r bont yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y SAC. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

*Asesiad Priodol – Cyffredinol*

537. Mae NRW wedi cynghori bod angen Asesiad Priodol, ac y bydd yn bwysig i'r Ysgrifennydd Gwladol fodloni ei hun ynglŷn â'r canlynol yn rhan o'r Asesiad Priodol (ar gyfer pob safle):

(a) y bydd y mesurau lliniaru a gynigir yn yr ES a'r SEI yn cael eu darparu yn rhan o amodau addas;

(b) y bydd yr egwyddorion a'r mesurau cyffredinol yn y cynlluniau drafft yn cael eu trosi'n fesurau penodol i safle a ddyluniwyd yn briodol mewn cynlluniau terfynol;

(c) bod mesurau wedi'u sefydlu i sicrhau bod cynlluniau terfynol yn cael eu hasesu a'u cymeradwyo gan gyrff priodol; ac

(ch) y byddai mesurau wedi'u sefydlu i sicrhau y cydymffurfir â'r holl fesurau yn y cynlluniau terfynol, a bod y mesurau hynny'n cael eu gorfodi os bydd angen.

538. Rwyf yn fodlon bod yr amodau drafft yr wyf wedi'u cynnwys fel Atodiadau yn addas ac y byddent yn darparu'r mesurau lliniaru a amlinellir yn yr ES a'r SEI. Nid oes gennyf unrhyw reswm i amau y bydd yr egwyddorion a'r mesurau cyffredinol yn y cynlluniau drafft yn cael eu trosi'n fesurau penodol i safle a ddyluniwyd yn briodol mewn cynlluniau terfynol i'w cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) fyddai'r corff priodol i asesu a chymeradwyo'r cynlluniau terfynol, ac mae'r amodau drafft yn cynnwys gofyniad i geisio a chael ei gymeradwyaeth. Byddai'r amodau drafft yn grymuso'r LPA i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl fesurau yn y cynlluniau terfynol, a'u gorfodi os bydd angen.

539. Er bod NRW yn cynghori bod angen Asesiad Priodol, o ran pob un o'r pedwar safle Ewropeaidd perthnasol, ystyriaf, am y rhesymau uchod, y dylai fod yn bosibl dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol o unrhyw un o'r datblygiadau arfaethedig yn unigol, neu mewn cyfuniad â chynlluniau neu brosiectau eraill.

<u>Materion yn Gyffredin</u>

540. Mae'r canlynol yn faterion sy'n ymwneud â rhai neu bob un o'r ceisiadau sydd gerbron yr ymchwiliad, ac felly ymdriniwyd â hwy fel materion yn gyffredin.

*Ecoleg a Bywyd Gwyllt*

541. Yn ystod yr ymchwiliad, cyfeiriodd y Gynghrair at Ddiagram a gynhyrchwyd gan DECC, yn cymharu'r tir y byddai angen ei gymryd ar gyfer gorsaf ynni niwclear, a fferm wynt ar y tir â chapasiti cynhyrchu tebyg[108] [A7, 6.2]. Yn amlwg, byddai angen cryn dipyn yn fwy o arwynebedd tir ar fferm wynt. Fodd bynnag, gan fod goblygiadau amgylcheddol y dulliau hyn o gynhyrchu trydan yn wahanol iawn, nid wyf o'r farn bod y gymhariaeth yn ddefnyddiol i'r ymchwiliad.

542. Mae'r Gynghrair o'r farn bod yr ymagwedd a ddefnyddiwyd gan yr ymgeiswyr at ecoleg a bywyd gwyllt wedi bod yn dameidiog, ac yn dadlau dros ymagwedd ecosystemau [A7, 6.1]. Fodd bynnag, nid oes gan PCC ac NRW unrhyw

[108] ALL-ECOLOGY-POE-S4-06

wrthwynebiad i'r ymagwedd a ddefnyddiwyd ac mae'n cyd-fynd ag arfer da safonol ar gyfer prosiectau fel y rhain.

*Sŵn ac Iechyd*

543. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r ymchwiliad o brofiad uniongyrchol o sŵn fferm wynt yn achosi aflonyddwch a straen a oedd yn golygu bod angen meddyginiaeth gan Mrs Siddle, sy'n byw yn Ne Swydd Aeron. Nid yw ei chwynion ynglŷn â sŵn wedi cael eu datrys, er gwaethaf ymchwiliadau. Nid amheuir ei didwylledd. Fodd bynnag, o atebion i'm cwestiynau, byddai'n ymddangos bod rhai o'r tyrbinau dan sylw yn anarferol o agos i'w heiddo. Er fy mod yn cydymdeimlo â'i sefyllfa, mae'n rhaid ystyried pob achos ar sail yr amgylchiadau unigol sy'n berthnasol. Felly, ni ellir gwneud cymhariaeth ystyrlon ag unrhyw rai o'r cynigion sydd gerbron yr ymchwiliad.

544. Mynegwyd pryderon cyffredinol ynglŷn ag effeithiau sŵn a dirgryniad fferm wynt ar iechyd gan dyst ar ran y Gynghrair sy'n ymarferydd meddygol a chanddo brofiad o faterion o'r fath [A7, 7.1-7.2]. Mae pryderon ynglŷn â sŵn wedi'u hadolygu gan weithwyr proffesiynol eraill y GIG ac, yn 2013, cynhaliwyd adolygiad arall ar ran Llywodraeth yr Alban, a arweiniwyd gan ymchwilwyr o Brifysgol Salford. Annifyrrwch a tharfu ar gwsg yw'r ddwy brif effaith bosibl a amlygwyd yn sgil sŵn fferm wynt. Nid amheuir bod rhai pobl wedi profi annifyrrwch a straen yn sgil sŵn fferm wynt clywadwy, na bod straen a tharfu ar gwsg yn gallu achosi effeithiau ar iechyd. Mae sŵn tyrbin gwynt yn cynnwys elfen sŵn modylu osgledau rhythmig, y cyfeirir ato'n aml fel siffrwd llafn, nad yw'n nodweddiadol o fathau eraill o sŵn o fathau eraill o ddatblygiad, ac y gallai fod yn fwy annifyr. Felly, nid wyf yn derbyn y gosodiad, a gyflwynwyd ar ran yr ymgeiswyr, nad oes unrhyw reswm i drin effaith sŵn o ddatblygiad fferm wynt yn wahanol i sŵn o unrhyw fath arall o ddatblygiad [A1, 64]. Fodd bynnag, mae ETSU-R-97 yn ystyried modylu osgledau arferol. Mae'n rhoi lefelau sŵn dangosol a gyfrifwyd i gynnig graddau rhesymol o amddiffyniad i gymdogion fferm wynt, heb osod cyfyngiadau afresymol ar ddatblygiad fferm wynt, ac a gefnogir gan y Llywodraeth. Ar sail y dystiolaeth sydd o'm blaen, rwyf yn fodlon y byddai cydymffurfio ag ETSU-R-97 yn darparu amddiffyniad priodol rhag effeithiau niweidiol posibl sŵn fferm wynt arferol.

545. Mae TAN 8 yn cyfeirio at astudiaeth gynhwysfawr o ddirgryniad yng nghyffiniau fferm wynt fodern, a gynhaliwyd ym 1997. Cynhaliwyd ymchwiliadau ychwanegol yn 2004 / 2005 gan ymchwilwyr o Brifysgol Keele. Nid yw TAN 8 yn canfod unrhyw dystiolaeth fod sŵn a drawsyrrir trwy'r tir o ffermydd gwynt ar lefel ddigonol i fod yn niweidiol i iechyd pobl. Canfu'r ail astudiaeth fod y lefelau mor fach fel eu bod bron yn amhosibl i'w darganfod, ac nad ydynt yn cynrychioli unrhyw risg o gwbl i iechyd pobl. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth gadarn sy'n cefnogi ofnau bod dirgryniadau o'r fath yn achosi effeithiau iechyd niweidiol.

546. Mae'r Gynghrair o'r farn y dylai caniatâd gael ei roi dim ond yn ddarostyngedig i amodau yn debyg i'r rhai hynny a gymhwyswyd ym mhenderfyniad apêl 'Den Brook', sy'n cyfyngu modylu brig i gafn sŵn tyrbin gwynt dros gyfnodau penodedig [A7, 7.1(14)]. Fodd bynnag, mae ymchwiliadau dilynol wedi dangos bod y fethodoleg yn agored i'w dehongli, ac y byddai'r amod yn cael ei dorri am lawer o'r amser mewn amgylcheddau gwledig – hyd yn oed yn absenoldeb datblygiad fferm wynt. Ni chaiff ei gymhwyso bellach fel arfer. Datblygwyd y

darpariaethau safonol ar gyfer sŵn tonyddol yn cynnwys methodoleg ETSU-R-97 yn dilyn ymchwil helaeth. Yn fy marn i, byddai'r amodau sŵn y cytunwyd arnynt rhwng yr ymgeiswyr â PCC, sydd wedi'u seilio ar ETSU-R-97 ac sydd bellach yn cael eu cymhwyso'n eang, yn darparu graddau priodol o amddiffyniad rhag annifyrrwch a cholli cwsg a allai gael eu hachosi fel arall gan fodylu osgledau 'arferol'.

547. Gwyddys ers tro bod ffurf a graddau annisgwyl o fodylu osgledau'n gallu digwydd weithiau, mewn rhai ffermydd gwynt, ond ychydig iawn a ddeallwyd am y ffenomen tan yn ddiweddar. Cyfeiriaf ati fel Modylu Osgledau Gormodol (EAM).

548. Cyhoeddwyd ymchwil ynglŷn ag EAM ym mis Rhagfyr 2013 gan RenewableUK (ReUK). Erbyn hyn, ceir mwy o sicrwydd ynglŷn ag achos ac effeithiau EAM. Mae'r ymchwil yn cefnogi'r honiad bod EAM yn gallu achosi lefel uwch o annifyrrwch. Mae'n anodd rhagfynegi ble a phryd y gallai EAM ddigwydd, ond mae techneg wrthrychol ar gyfer adnabod a mesur EAM, a phrawf gwrthrychol a methodoleg reoleiddio EAM wedi'u datblygu gan y diwydiant. Cynigir methodoleg raddio yn debyg i honno a ddefnyddir i gyfrif am ansawdd tonyddol sŵn y gwynt yn ETSU-R-97. Mae'r Sefydliad Acwsteg wedi croesawu cyhoeddi ymchwil ReUK, ond mae wedi nodi bod angen profi a dilysu'r prawf gwrthrychol a'r fethodoleg raddio arfaethedig am gyfnod cyn y gellir eu hystyried yn arfer da. Mae mesurau i liniaru EAM lle y'i darganfyddir yn datblygu hefyd. Fe allai gymryd amser hir i ddulliau ar gyfer rheoli a lliniaru effeithiau EAM gael eu profi a'u dilysu, ac yn hirach fyth iddynt gael eu cynnwys mewn arweiniad a gefnogir gan y llywodraeth.

549. Bydd risgiau annifyrrwch neu golli cwsg a achosir gan EAM yn dibynnu ar ffactorau fel topograffeg, gosodiad ac agosrwydd at anheddau. Byddant yn wahanol ym mhob un o'r ffermydd gwynt sydd gerbron yr ymchwiliad. Fodd bynnag, ni ellir eu diystyru yn unrhyw un o safleoedd y ceisiadau. Mae'r ymgeiswyr yn anghytuno ynglŷn â'r angen am amod yn ymwneud ag EAM, gyda rhai'n derbyn y dylai amod gael ei osod, ac eraill o'r farn ei fod yn fater y gellir ymdrin ag ef o dan ddeddfwriaeth arall. Mae rhai penderfyniadau Ysgrifennydd Gwladol ac Apêl ers cyhoeddi adroddiad ReUK wedi gosod amod 'cynllun i'w gytuno' eang. Nid yw eraill wedi gosod unrhyw amodau [A4, 109. 110; A9, 917].

550. Gan na ellir diystyru'r posibilrwydd o annifyrrwch yn cael ei achosi gan EAM yn unrhyw un o'r safleoedd fferm wynt arfaethedig, rwyf o'r farn y dylai fod rhyw fath o ddull o'i reoli, pe byddai'n digwydd. Byddai gwahaniaeth sylweddol rhwng effaith ar lefel sy'n debygol o achosi annifyrrwch a niwed i amwynder, ac effaith ar lefel sy'n debygol o achosi niwsans statudol. Felly, nid wyf o'r farn y dylai rheolaeth gael ei gadael i ddeddfwriaeth arall. Nid yw'r profion a'r fethodoleg raddio a gyflwynwyd gan ReUK wedi'u derbyn fel arfer gorau eto, ac felly ni ddylent ffurfio'r sail ar gyfer amodau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r cyfnod yn arwain at adeiladu'r ffermydd gwynt arfaethedig yn hir, ac mae'n debygol y bydd arweiniad arfer da a dulliau gwell o liniaru EAM yn cael eu datblygu yn y cyfamser. Canfuwyd bod amod sy'n mynnu'n syml bod cynllun yn cael ei gyflwyno, ei gytuno a'i weithredu yn dderbyniol gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn y gorffennol. Er hynny, byddai manylrwydd amod o'r fath yn cael ei wella gan ofyniad, yn y lle cyntaf, i'r cynllun gyd-fynd ag arweiniad arfer da a gefnogir gan y Llywodraeth ar yr adeg cyflwyno. Yn absenoldeb arweiniad o'r fath, gallai'r gofyniad raeadru i lawr i arweiniad a gefnogir gan gorff annibynnol cydnabyddedig fel y Sefydliad Acwsteg. Yn niffyg hynny, yr ymgeisydd fyddai'n gyfrifol am gyflwyno cynllun, a allai fod yn debyg i hwnnw a gyflwynwyd gan

ReUK. Yr awdurdod cynllunio lleol fyddai'n gyfrifol am ystyried a fyddai cynllun o'r fath yn dderbyniol. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn y dylai amod gefnogi cynllun tebyg yn benodol, gan nad yw cynllun o'r fath wedi'i ddilysu'n annibynnol hyd yma.

*Perygl Tân*

551. Mae tyrbinau gwynt wedi mynd ar dân weithiau, ond mae gan weithredwyr weithdrefnau archwilio a diogelwch trwyadl. Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth fod tanau o'r fath wedi achosi anaf personol nac wedi arwain at ryddhau symiau arwyddocaol o sylweddau gwenwynig [89].

*PPW a TAN 8*

552. Nid yw'r Gynghrair o'r farn bod unrhyw dargedau ynni dilys i'w bodloni sy'n berthnasol i Gymru. Felly, mae'n ystyried na ddylid rhoi unrhyw bwys i unrhyw elfen o PPW neu TAN 8 y gellir ei phriodoli'n ôl i ymddangosiad TAN 8 fel dull o gyflawni targedau rhestredig polisi ynni'r gwynt ar y tir, gan gynnwys y capasiti mwyaf a nodwyd yn llythyr y Gweinidog dyddiedig mis Gorffennaf 2011. Nid yw'n derbyn 'o fewn (ac yn union gerllaw) yr SSAs, yr amcan ymhlyg yw derbyn newid i'r dirwedd h.y. newid arwyddocaol i gymeriad y dirwedd o ddatblygiad tyrbin gwynt'[109] [A7, 1.11-1.35]. Fodd bynnag, nid yw polisi ac arweiniad Llywodraeth Cymru a amlinellwyd yn PPW, Tan 8 a llythyrau a Datganiadau Gweinidogol dilynol wedi'u herio'n gyfreithiol, ac felly, yn fy marn i, dylid rhoi pwysigrwydd llawn iddynt.

*Yr Angen am Ynni a Chydbwysedd Ynni*

553. Mae'r Gynghrair yn cyfeirio at dystiolaeth fod y Deyrnas Unedig ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o gynhyrchu mwy na 15% o'i hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020, a hynny o bell ffordd. Felly, mae o'r farn bod graddau'r brys ac unrhyw angen am y cyfraniad a fyddai'n cael ei wneud gan gynlluniau'r cais wedi'u lleihau'n sylweddol iawn, neu hyd yn oed wedi'u dileu bellach, ac y byddai'n afresymol rhoi unrhyw ystyriaeth o bwys i gyfraniadau ychwanegol at darged 2020 [A7, 1.37-1.45]. Fodd bynnag, erys y polisi er mwyn cyrraedd y targed, a datgarboneiddio'r sector pŵer i raddau helaeth erbyn 2030, bod angen cyflwyno prosiectau cynhyrchu trydan adnewyddadwy newydd cyn gynted â phosibl. Felly, mae'r angen am brosiectau cynhyrchu trydan adnewyddadwy newydd yn un brys[110]. Ystyriaf, felly, y dylid rhoi pwysigrwydd sylweddol i'r cyfraniad y byddai'r cynlluniau arfaethedig yn ei wneud tuag at y cyflenwad ynni adnewyddadwy yn y Deyrnas Unedig.

*Barn Gyhoeddus / Arolygon Cymunedol*

554. Mae rhai pobl a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig i'r ymchwiliad neu a oedd yn bresennol yn sesiwn Dolfor wedi cefnogi'r datblygiadau arfaethedig gan y byddent yn creu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da. Mae eraill o'r farn bod tyrbinau gwynt yn fodd o amrywiaethu mentrau gwledig. Ceir rhywfaint o gefnogaeth gan bobl sy'n pryderu am effeithiau cynhesu byd-eang. Fodd bynnag, roedd mwyafrif helaeth y preswylwyr lleol a siaradodd yn ystod yr ymchwiliad yn gwrthwynebu'r ceisiadau. Mae'r ddeiseb, yr ymgynghoriadau a'r

[109] TAN 8, Atodiad D para 8.4
[110] EN-1, 3.4.4

arolygon a drefnwyd gan y Gynghrair a Chynghorau Cymuned, ynghyd â'r sylwadau unigol niferus a gyflwynwyd gan breswylwyr lleol yn ysgrifenedig, hefyd yn fy argyhoeddi bod cyfran uchel iawn o breswylwyr lleol yn gwrthwynebu'r cynigion [A7, 2.8-2.13].

555. Serch hynny, er bod yn rhaid ystyried sylwedd safbwyntiau lleol, y ddyletswydd yw penderfynu ar bob cais ar sail ei deilyngdod cynllunio. Fel egwyddor gyffredinol, nid yw cefnogaeth neu wrthwynebiad lleol i gynnig ynddo'i hun yn sail resymol dros ganiatáu neu wrthod cais, ac mae'r Gynghrair yn cydnabod nad yw ymchwiliadau cynllunio'n cael eu penderfynu ar sail cydbwysedd cefnogaeth a gwrthwynebiad [A7, 2.7].

*Materion Eraill a Godwyd gan Breswylwyr Lleol*

556. Mae rhai preswylwyr lleol yn pryderu y byddai'r cynigion yn effeithio ar eu gallu i werthfawrogi 'awyr dywyll' Powys, ond gan na fyddai'r tyrbinau a'r seilwaith cysylltiedig yn cael eu goleuo (heblaw gan oleuadau llywio coch neu is-goch) yn y nos, nid wyf o'r farn bod sail gadarn i bryderon o'r fath [90; A7, 2.10].

557. Mae llawer o breswylwyr lleol wedi codi pryderon am gymorthdaliadau, cost ac economeg ffermydd gwynt yn gyffredinol, ac yn amau eu heffeithlonrwydd a'u gallu i wneud cyfraniad dibynadwy tuag at y galw am drydan. Mae llawer o'r farn bod y cynigion o fudd i bobl eraill, ar draul eu mwynhad hwy o'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae polisi a chanllawiau cynllunio Cymru a'r Deyrnas Unedig yn cydnabod bod pŵer y gwynt ar y tir yn cynnig y potensial mwyaf ar gyfer cynnydd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y tymor byr i'r tymor canolig[111] ac y bydd ffermydd gwynt ar y tir yn parhau i gyflawni rôl bwysig wrth gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy[112]. Yn sgil y polisïau hyn, rwyf o'r farn na ddylid rhoi ystyriaeth o bwys i'r pryderon hyn, er gwaethaf i ba raddau a pha mor gryf y'u teimlir.

558. Mae'r Gynghrair a llawer o breswylwyr lleol wedi mynegi pryderon am effaith y datblygiad arfaethedig ar werthoedd eiddo. Mae ymchwil a gynhyrchwyd gan Brifysgol Rhydychen ym mis Mawrth 2007 yn darparu tystiolaeth fod llawer o ffactorau newidiol sy'n sbarduno amrywiadau mewn gwerthoedd eiddo mewn ardaloedd lle y ceir ffermydd gwynt, nad yw rhai ohonynt yn gysylltiedig â'r ffermydd gwynt eu hunain. Fodd bynnag, mae rhai preswylwyr lleol wedi cyfeirio at lythyr diweddar gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynghori y dylai ymchwil Prifysgol Rhydychen gael ei hystyried mewn cyd-destun a'i thrin yn ofalus gan fod angen ymchwil ychwanegol erbyn hyn[113]. Mae rhai preswylwyr lleol sydd wedi bod â'u heiddo ar y farchnad yn ddiweddar hefyd wedi cael eu hysbysu gan eu gwerthwyr tai bod y datblygiadau arfaethedig wedi cael effaith negyddol ar brisiau tai. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diweddar, mae ffactorau economaidd ehangach wedi cael effaith arwyddocaol ar brisiau tai yn gyffredinol, a gallai newidynnau eraill fod ar waith. Nid yw'n eglur o bell ffordd bod cysylltiad achosol uniongyrchol rhwng cynigion ar gyfer ffermydd gwynt a seilwaith cysylltiedig, ac effaith negyddol gyffredinol ar brisiau tai yn yr ardal. Yn yr amgylchiadau, nid wyf o'r farn bod

[111] TAN 8 para 2.2
[112] EN-3 para 2.7.1
[113] ALL-SSAB-POE-01/26

tystiolaeth sylweddol y byddai'r datblygiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol helaeth ar werthoedd eiddo lleol.

559. Mae nifer o breswylwyr lleol wedi mynegi pryder am y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r ceisiadau a'r ymchwiliad. Fodd bynnag, rwyf yn fodlon bod yr holl ofynion statudol wedi'u bodloni. Yn ogystal â'r gofynion sylfaenol, sicrhawyd bod gwybodaeth ar gael trwy wefan benodol a thrwy gysylltu'n uniongyrchol ag unigolion â diddordeb am ddiweddariadau i'r rhaglen trwy negeseuon e-bost. Mae'r rhain a mesurau eraill wedi gwneud yr ymchwiliad mor agored ag sy'n rhesymol bosibl. Cynhaliwyd sesiynau gyda'r nos mewn lleoliadau cyfleus i gymunedau lleol, a fynychwyd gan gannoedd o breswylwyr lleol. Roedd llawer o breswylwyr lleol eraill wedi cymryd rhan ym mhrif leoliad yr ymchwiliad. Ystyriaf y bu cyfranogiad effeithiol iawn gan y gymuned leol, a bod hyn wedi bod o fudd sylweddol i fanylrwydd yr ymchwiliad.

## Casgliadau Cyffredinol

<u>Ailbweru Llandinam</u>

*Cysondeb ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd (Mater Perthnasol (a))*

560. Mae polisi ynni a thargedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig. Maent yn cefnogi ynni'r gwynt ar y tir gan ei fod yn parhau i gynnig y potensial mwyaf ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy. Byddai cynllun ailbweru Llandinam yn gyson ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd.

*Cysondeb â'r Polisïau sy'n Ymwneud â Chynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Perthnasol am Seilwaith Ynni: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011 a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011 (Mater Perthnasol (b))*

561. Mae EN-1 yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd i geisiadau ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIPs) yn ymwneud ag ynni, o ystyried yr angen brys am y math hwn o seilwaith. Mae'r cynllun a'r cais ar gyfer y cysylltiad grid cysylltiedig wedi'u cyflwyno gyda'i gilydd, gyda'r ddau'n cael eu hystyried yn yr ymchwiliad yn unol â dyheadau EN-1 ac EN-3.

562. Mae EN-1 yn cydnabod y bydd bron pob NSIP ynni yn cael effaith ar y dirwedd. Fodd bynnag, mae angen dylunio prosiectau'n ofalus, gan roi ystyriaeth i'r effaith bosibl. Gan ystyried cyfyngiadau lleoli, gweithredol ac eraill, dylid ceisio lleihau gymaint â phosibl ar y niwed i'r dirwedd, gan ddarparu mesurau lliniaru rhesymol lle y bo'n bosibl ac yn briodol. Yn yr achos hwn, mae'r cynllun wedi'i addasu i liniaru niwed i Ddyffryn Hafren a Thirwedd Hanesyddol Gofrestredig Basn Caersws (SV&CBRHL), a gall cynigion mynediad lleol gael eu haddasu ymhellach ar y cam dylunio manwl i oresgyn gwrthwynebiad PCC ynglŷn ag effaith colli coed ar hyd y llwybr mynediad lleol. Byddai mesurau lliniaru rhesymol yn cael eu darparu felly. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai effaith unigol a chyfunol y datblygiad

arfaethedig yn weledol ac ar y dirwedd, gan ystyried yr effaith gronnol â ffermydd gwynt eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu y cyflwynwyd cais am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer, yn dderbyniol.

563. Mae EN-1 hefyd yn cydnabod bod yr holl seilwaith ynni arfaethedig yn debygol o gael effeithiau gweledol. Yn yr achos hwn, nid wyf wedi amlygu unrhyw effeithiau ar dderbynyddion sensitif fel preswylwyr lleol neu ymwelwyr o faint a fyddai'n gorbwyso buddion y prosiect.

564. Rwyf yn fodlon y byddai'r cynnig yn osgoi effeithiau niweidiol arwyddocaol ar iechyd ac ansawdd bywyd yn sgil sŵn. Yn wir, mae rhai gwelliannau'n debygol yng nghyffiniau'r fferm wynt arfaethedig yn hyn o beth, o ganlyniad i ddisodli hen dyrbinau swnllyd (EN-5.11.9).

565. At ei gilydd, rwyf wedi canfod y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol cadarnhaol (EN-1 5.12.6).

566. Mae EN1 yn cydnabod y gallai NSIPs ynni newydd gael effeithiau sylweddol ar y seilwaith trafnidiaeth amgylchynol. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi ceisio lliniaru'r effeithiau hyn yn ystod pob cam o'r datblygiad arfaethedig, yn enwedig y cam adeiladu. Rwyf wedi canfod y byddai gwaith oddi ar y safle a mesurau lliniaru eraill yn ddigonol i leihau'r effaith ar y seilwaith trafnidiaeth i lefel dderbyniol. Rwyf yn fodlon y gall llwythi anghyffredin gael eu cludo'n ddiogel mewn ffordd sy'n lleihau gymaint â phosibl ar anghyfleustra i ddefnyddwyr eraill y ffyrdd a chymunedau lleol, ac y byddai effeithiau amgylcheddol y traffig hwn a thraffig adeiladu arall, ar ôl gweithredu mesurau lliniaru, yn dderbyniol (EN-5 2.7.78).

567. Mae'r effeithiau ar ansawdd ac adnoddau dŵr wedi'u hasesu ac, yn ddarostyngedig i amodau, canfuwyd eu bod yn dderbyniol (EN-1 5.15).

568. O ran yr egwyddorion asesu a amlinellir ym mharagraffau 2.5.31 – 2.5.36 EN-3, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peryglu amcanion unrhyw safleoedd sydd â dynodiadau a gydnabyddir yn genedlaethol. Ni ddangoswyd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd hanesyddol o ganlyniad i'r cynllun ailbweru arfaethedig. Yn amodol ar danddaearu rhannol, byddai effeithiau anuniongyrchol o ganlyniad i'r cysylltiad grid cysylltiedig yn dderbyniol. Nid yw'r cynnig wedi'i leoli mewn Llain Las.

569. Mae'r effeithiau cadwraeth bioamrywiaeth a daearegol cyffredinol yr ymdrinnir â hwy yn Adran 5.3 EN-1 wedi'u hystyried a chanfuwyd eu bod yn dderbyniol, yn amodol ar fesurau lliniaru y gellir eu sicrhau trwy amodau cytunedig. Er bod angen cynnal Asesiad Priodol o ran Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd, fe ddylai fod yn bosibl dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar unrhyw safle o'r datblygiad arfaethedig yn unigol neu mewn cyfuniad â phrosiectau eraill. Rwyf yn fodlon bod gosodiad a dulliau adeiladu'r fferm wynt arfaethedig wedi'u dylunio i darfu cyn lleied â phosibl ar bridd, ac y byddai aflonyddu'n cael ei gyfyngu i'r lefel leiaf posibl o ran ecoleg, rhyddhau CO2, ac y byddai arbedion cydbwysedd carbon yn cael eu cynyddu gymaint â phosibl.

570. Mae risg cysgodion neidiol yn effeithio ar iechyd yn ddibwys (EN-5 2.7.63 – 2.7.72).

571. Er bod EN-5 yn cynghori y dylai cynlluniau ailbweru gael eu penderfynu ar sail eu teilyngdod unigol (EN-5 2.7.28), mae'r datblygiad arfaethedig yn anarferol gan nad oes rhaid datgomisiynu fferm wynt bresennol P&L. Felly, rwyf wedi dod

i'r casgliad bod sefyllfa wrth gefn realistig yn bodoli ac y byddai'n briodol ei hystyried. Sut bynnag, rwyf o'r farn y byddai'r cynllun arfaethedig wedi'i ddylunio'n dda, y byddai'n ystyried yr effeithiau posibl, y byddai'n lleihau gymaint â phosibl ar niwed i'r dirwedd, ac y byddai'n darparu mesurau lliniaru rhesymol lle y bo'n bosibl.

572. Am y rhesymau uchod, deuaf i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â'r polisïau sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy a geir yn EN-1 ac EN-3.

*I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (Gorffennaf 2014)(PPW); Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8); ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); a Chynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010)(UDP)(Mater perthnasol (c))*

573. Nod Llywodraeth Cymru, fel y'i hamlinellwyd yn PPW (12.8.6), yw sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy'n cynyddu'r buddiannau i'r economi a chymunedau gymaint â phosibl, ar yr un pryd â lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol gymaint â phosibl. Am y rhesymau uchod, ystyriaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â'r nod hwnnw.

574. Mae safle'r cais wedi'i leoli y tu allan i ffiniau 'cyffredinol' SSA C fel y'u hamlinellwyd yn TAN 8. Fodd bynnag, mae bron yn gyfan gwbl o fewn y ffin a fireiniwyd a amlygwyd gan Arup mewn astudiaeth ar gyfer PCC gan ddefnyddio'r fethodoleg bosibl a nodwyd yn Atodiad D TAN 8. Er na fabwysiadwyd canlyniadau astudiaeth Arup, nid amheuir bod safle'r cais yn addas o anghyfyngedig, ac felly y gellir ystyried y posibilrwydd o ddatblygiad fferm wynt ar raddfa fawr o fewn yr ardal honno.

575. Mae llythyr y Gweinidog dyddiedig mis Gorffennaf 2012 yn egluro'r mater o ran capasiti gosod mwyaf ar gyfer ynni'r gwynt ar y tir o fewn yr SSAs. Mae'n cadarnhau bod y potensial a amcangyfrifwyd yn *Chwyldro Carbon Isel: Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru* (Mawrth 2010) wedi'i seilio ar y capasiti mwyaf yr ystyriwyd ei fod yn briodol ar gyfer yr SSAs yn TAN 8, a bod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni'r potensial hwn. Y capasiti mwyaf ar gyfer SSA C a amlygwyd yn llythyr mis Gorffennaf 2011 yw 98MW. Byddai'r datblygiad arfaethedig (fel y'i diwygiwyd) yn gwneud cyfraniad net o oddeutu 72 MW tuag at ddyhead Llywodraeth Ynni ar gyfer cyfanswm capasiti o 2GW o ran ynni'r gwynt ar y tir erbyn 2015/17.

576. Nid yw'r partïon yn cytuno ynglŷn ag a ddylid ystyried bod safle'r cais o fewn SSA C at ddibenion TAN 8. Fodd bynnag, safbwynt Llywodraeth Cymru, fel y'i hamlinellwyd yn ei llythyr dyddiedig 21 Ionawr 2013 i'r ymchwiliad (CON 001-002) yw ei fod ychydig y tu allan i SSA C. Gan ei fod yn gynllun ailbweru, ei safbwynt yw y dylai gael ei annog cyn belled ag y bo'r effeithiau amgylcheddol yn dderbyniol. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddent yn dderbyniol. Felly, deuaf i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â Pholisïau Llywodraeth Cymru fel y'u hamlinellir yn PPW a TAN 8. Byddai hefyd yn gyson ag uchelgais Llywodraeth Cymru i greu economi carbon isel sy'n sicrhau swyddi a chyfoeth a buddiannau tymor hir i gefnogi cymunedau, fel y'i hamlinellir yn *Ynni Cymru – Newid Carbon Isel (2012)*.

577. Rwyf o'r farn mai'r polisi mwyaf perthnasol yn UDP Powys yw Polisi E3, sy'n ymwneud yn benodol ag ynni'r gwynt. O dan y polisi hwn, bydd ceisiadau ar gyfer ffermydd gwynt, gan gynnwys estyniadau i safleoedd presennol, yn cael eu cymeradwyo, cyn belled ag y bodlonir nifer o feini prawf. Rwyf wedi dod i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol o niweidiol ar ansawdd tirwedd ac amgylchedd Powys, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â datblygiadau tebyg eraill arfaethedig neu bresennol. Ni fyddai'n cael effaith annerbyniol ar gynefinoedd neu rywogaethau bywyd gwyllt sydd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, nac yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar breswylwyr neu ddefnyddwyr eiddo sensitif neu eu hamwynderau trwy gyfrwng sŵn, dirgryniad, cysgodion neidiol neu olau adlewyrchedig. Ni fyddai'n cael effaith annerbyniol ar unrhyw adeiladau neu nodweddion o ddiddordeb cadwraeth neu archaeolegol, nac yn cael effaith annerbyniol o niweidiol ar fwynhad a defnydd o briffyrdd a'r rhwydwaith hawliau tramwy, yn enwedig llwybrau ceffylau.

578. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â Pholisi E3 yr UDP. Ni chanfyddaf unrhyw beth yn unrhyw un arall o bolisïau'r UDP a fyddai'n fy arwain i'r casgliad y byddai'n gwrthdaro â'r UDP yn ei gyfanrwydd.

*Amodau*

579. Mae'r partïon yn cytuno'n gyffredinol ar y rhan fwyaf o'r amodau a fyddai'n briodol pe roddid caniatâd. Rwyf wedi ystyried yr amodau awgrymedig yn sgil y drafodaeth yn yr ymchwiliad, a'r cyngor yng Nghylchlythyr 11/95 Adran yr Amgylchedd a Chylchlythyr 16/2014 y Swyddfa Gymreig 16/2014.

580. Mae angen amod yn amlinellu'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy, er mwyn sicrhau eglurder a hwyluso apeliadau posibl yn ymwneud â newidiadau nad ydynt yn berthnasol.

581. Rhagwelir ac asesir y prosiect fel rhaglen ddilyniannol o ddatgomisiynu ac ailbweru mewn cyfnodau dros oddeutu 3 blynedd. Felly, ni fyddai'r hyd arferol o 25 mlynedd o'r allforio cyntaf yn briodol yn yr achos hwn. Mae'r ymgeisydd yn cydnabod pryder dilys y Cyngor, sef os mynnir datgomisiynu 25 mlynedd ar ôl y comisiynu olaf, y gallai'r caniatâd gael ei ymestyn yn ddiderfyn trwy fethiant i gomisiynu'r tyrbin olaf. Felly, mae diffiniad o gomisiynu terfynol sy'n cynnwys ôl-stop o dair blynedd ar ôl dechrau'r datblygiad wedi'i gynnig. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn feichus. Ystyriaf y byddai amod sy'n pennu hyd y caniatâd 25 mlynedd o ddyddiad y comisiynu olaf, neu 28 mlynedd o'r dyddiad dechrau, pa un bynnag sydd gynharaf, yn fwy eglur ac felly'n ddewisach.

582. Gan fod digon o dystiolaeth o gyflwr presennol y tir yn yr ES, nid oes angen gwneud cofnod ffotograffig o'r ardaloedd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn tarfu arnynt cyn dechrau. Mae hefyd yn debygol y byddai'r cynlluniau rheoli cynefin gofynnol yn arwain at welliannu dros hyd oes y datblygiad arfaethedig, ac felly byddai'n annymunol adfer y tir i'w gyflwr presennol ar adeg datgomisiynu. Ni fyddai'r cofnod ffotograffig yn ddefnyddiol iawn felly. O ganlyniad, ystyriaf fod yr amod a awgrymwyd gan y Cyngor yn hyn o beth yn ddiangen.

583. Ni chanfyddaf unrhyw gyfiawnhad dros eithrio arwyddion yn ymwneud â chyfarwyddiadau, cyflwr yr amgylchedd, a threfniadau ar gyfer gweithredu'r safle o'r ystod o arwyddion a gynhwyswyd yn amod arwyddion awgrymedig y Cyngor. Felly, ni fyddai amod drafft y Cyngor yn or-ragnodol yn hyn o beth. Gellid cael

caniatâd am unrhyw arwyddion gan yr LPA naill ai trwy gais a wnaed o dan yr amod awgrymedig neu, ar gyfer rhai mathau o arwyddion, trwy gais a wnaed o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992. Ni fyddai angen y ddau. Felly, nid wyf o'r farn y byddai'r amod drafft a awgrymwyd gan y Cyngor yn arwain at ddyblygu rheolaeth yn ddiangen. O ganlyniad, drafft y Cyngor sydd i'w ffafrio.

584. Mae'r Cyngor wedi awgrymu amod yn mynnu Cynllun Rheoli Hyfforddiant a Chyflogaeth, gyda'r bwriad o hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl leol. Rwyf wedi amlygu y byddai cyfleoedd sylweddol yn bodoli ar gyfer busnesau lleol a swyddi'n cael eu creu yn ystod y camau adeiladu a gweithredu, ac y byddai hyn yn un o fuddiannau'r cynnig. Fodd bynnag, mae buddiannau o'r fath yn debygol o godi pa un a yw cynllun o'r fath ar waith ai peidio, ac nid yw derbynioldeb yr amlinelliad yn dibynnu ar yr ystyriaeth hon sut bynnag. Felly, byddai'r amod arfaethedig yn ddiangen, ac yn afresymol o gyfyngol.

585. Nid yw'r ymgeisydd o'r farn bod angen amod EAM ond, am resymau a grybwyllais ym mharagraff 551 uchod, rwyf innau o'r farn y dylai amod EAM gael ei orfodi.

586. Ceir mân wahaniaethau rhwng y partïon ynglŷn â geiriad rhai amodau eraill, yn codi o amseriad a dilyniant y gwaith datgomisiynu. Yn yr un modd, ceir mân anghytundeb ynglŷn â geiriad amodau eraill lle na ddadleuir ynghylch yr egwyddorion. Rwyf wedi ceisio datrys y cyfryw wahaniaethau er mwyn sicrhau manylrwydd ac eglurder.

587. Mae Atodlen amodau argymelledig sy'n cydymffurfio â chyngor Cylchlythyron, sydd i'w gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol â'm hargymhelliad, ynghyd â rhesymau i'r graddau y mae'r rheiny'n ymwneud ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig, wedi'i gosod yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

*Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol (gan gynnwys Materion Perthnasol (d) i (n))*

588. Yn ddarostyngedig i'r amodau argymelledig, rwyf o'r farn bod y cynnig (fel y'i diwygiwyd) yn gyson â pholisi cynllunio lleol cenedlaethol, Cymru, a lleol. Byddai hefyd yn gyson â'r dyletswyddau statudol o dan adran 9 y Ddeddf. Mae ystyriaeth briodol wedi'i rhoi yn y cynigion i'r holl faterion perthnasol sydd gerbron yr ymchwiliad, ac mae mesurau lliniaru rhesymol ar gael a gellir eu sicrhau trwy amodau.

589. Byddai'r cynllun arfaethedig yn gwaredu fferm wynt bresennol nad oes cynllun datgomisiynu ar gael ar ei chyfer. Byddai'n cynhyrchu hyd at 102MW o ynni adnewyddadwy, gan gynrychioli cynnydd o oddeutu 72MW. Byddai swyddi'n cael eu creu yn ystod y camau datgomisiynu, adeiladu a gweithredu. Amcangyfrifir y byddai hyd at £40 miliwn o'r gost ddatblygu'n cael ei wario ar gaffael nwyddau a gwasanaethau lleol. Byddai incwm i dirfeddianwyr yn darparu sicrwydd tymor hir ar gyfer gweithrediadau ffermio. Fel y nodwyd gan y Cyngor, mae'r rhain yn fuddion sylweddol.

590. Byddai rhai effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd, ond byddai'r rhain yn gyfyngedig ac yn lleol. Yng nghyd-destun fferm wynt bresennol

P&L, byddai gwelliant gweledol mewn rhai ardaloedd. Byddai effeithiau niweidiol eraill yn cael eu lliniaru, ac ni fyddai'r effeithiau gweddilliol yn annerbyniol.

591. Ystyriaf y byddai buddiannau'r cynnig yn gorbwyso unrhyw effeithiau niweidiol gweddilliol yn glir. Mae'r Cyngor wedi dod i'r casgliad bod y cydbwysedd cyffredinol er lles y cyhoedd bellach yn cyfiawnhau rhoi caniatâd gydag amodau priodol, ac nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno. Deuaf i'r casgliad y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad A sydd ynghlwm.

**ARGYMHELLIAD**

592. Argymhellaf fod caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn cael eu rhoi yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad A sydd ynghlwm.

<u>Llaithddu</u>

*Cysondeb ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd (Mater Perthnasol (a))*

593. Ni ddadleuir y byddai'r cynnig yn gyson â'r amcanion hyn, ac y byddai hefyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at nodau rhwymol a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Dylid dwyn pwysigrwydd y nodau rhwymol hyn i gof wrth asesu cynnig. Fodd bynnag, nid yw'r polisi lefel uchel hwn yn amlygu'r math o seilwaith neu leoliad y seilwaith sy'n angenrheidiol i fodloni'r amcanion hynny, ac nid yw cysondeb â'r cyfryw bolisi ynddo'i hun yn golygu bod y cynnig yn dderbyniol.

*Cysondeb â'r Polisïau sy'n Ymwneud â Chynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Perthnasol am Seilwaith Ynni: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011 a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011 (Mater Perthnasol (b))*

594. Er bod EN-1 yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd i geisiadau ar gyfer NSIPs ynni, mae'n cydnabod bod angen i brosiectau gael eu dylunio'n ofalus, gan ystyried yr effaith bosibl a chyda'r nod o leihau niwed i'r dirwedd gymaint â phosibl. Felly, mae angen taro cydbwysedd.

595. Yn yr achos hwn, byddai'r cynllun arfaethedig mewn dwy ran i bob pwrpas. Nid yw'r Cyngor yn dadlau y byddai'r rhan ogleddol wedi'i dylunio a'i lleoli'n dda. Byddai'n gyson ag EN-1 ac EN3 yn hyn o beth. Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn dderbyniol o ran effaith weledol ac effaith ar y dirwedd, ac nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno.

596. Mae tyrbinau gwynt modern yn adeileddau mawr a bydd effeithiau arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd am nifer o gilomedrau o amgylch safle bob amser. Fodd bynnag, dylai'r trefniant gael ei ddylunio'n ofalus er mwyn lleihau'r effeithiau hynny gymaint â phosibl. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r grŵp deheuol yn achosi lefel uchel o newid niweidiol i'r dirwedd o fewn Dyffryn Marteg uchaf, ac effeithiau niweidiol mawr yn weledol yn yr ardal honno ac o fewn lleoliad Bwlch y Sarnau. Byddai'r effeithiau hynny'n codi o ganlyniad i osodiad a dyluniad llinellol y grŵp, a'r

penderfyniad i osod y tyrbinau arfaethedig ar y tir uchaf ar gefnen. Er bod y dyluniad yn ymateb rhesymegol i'r tir a dymunoldeb manteisio i'r eithaf ar y prifwynt, nid yw'r rhain yn gyfyngiadau technegol, lleoliadol, gweithredol neu arall a fyddai'n mynnu bod y tyrbinau'n cael eu gosod ar y gefnen. Deuaf i'r casgliad na fyddai'r grŵp deheuol wedi'i ddylunio'n dda na'i osod yn addas yn unol â'r nod o liniaru neu leihau gymaint â phosibl ar effeithiau ar y dirwedd neu amwynder gweledol. Byddai gwrthdaro yn hyn o beth â'r ystyriaethau tirwedd cyffredinol a amlinellir ym mharagraff 5.9.8 EN-1, a chydag ystyriaethau sy'n benodol i effeithiau fferm wynt ar y tir ym mharagraffau 2.7.48 / 49 EN-3. Dychwelaf i ystyried a ellid rhoi caniatâd ar gyfer y grŵp gogleddol o dyrbinau ar ei ben ei hun, yn dilyn fy nghasgliadau cyffredinol mewn perthynas â'r cais hwn.

597. O ran y cynllun cyfan (gan gynnwys y grŵp deheuol o dyrbinau), rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn dderbyniol ym mhob ystyr arall. Felly, ni fyddai gwrthdaro â rhannau eraill o EN-1 neu EN-3. Er hynny, deuaf i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn gyson â'r polisïau sy'n ymwneud â chynhyrchu ynni adnewyddadwy a geir yn y datganiadau polisi cenedlaethol perthnasol ar gyfer seilwaith ynni yn ei gyfanrwydd.

*I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (Gorffennaf 2014)(PPW); Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8); ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); a Chynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010)(UDP)(Mater perthnasol (c))*

598. Mae PPW yn cydnabod bod yr angen am ynni'r gwynt yn rhan allweddol o gyflawni dyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni'r gwynt ar y tir a amlinellir yn *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)*. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno adeileddau newydd, sy'n aml yn fawr iawn, ar gyfer anghenion ynni'r gwynt ar y tir er mwyn osgoi eu heffaith neu leihau'r effaith honno gymaint â phosibl (PPW, para 12.8.12).

599. Byddai cynllun cyfan Llaithddu wedi'i leoli ychydig y tu allan i'r ffiniau cyffredinol a amlinellwyd yn TAN 8, ond mae gan bob rhan o'r safle y rhan fwyaf o nodweddion SSAs a ddisgrifir ym mharagraff 2.9 TAN 8. Byddai bron pob un o'r tyrbinau arfaethedig o fewn y ffiniau a fireiniwyd a ddiffiniwyd gan adroddiad mireinio Arup. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid yw'r astudiaeth Arup yn arweiniad dibynadwy i dderbynioldeb cynnig penodol.

600. Fel yr wyf wedi'i grybwyll, bydd bob amser effeithiau arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd am nifer o gilomedrau o amgylch safle sy'n cynnwys tyrbinau gwynt modern mawr. Mae Atodiad D TAN 8, felly, yn cydnabod bod yr amcan ymhlyg i dderbyn newid i'r dirwedd o ddatblygiad fferm wynt o fewn SSAs yn berthnasol i ardaloedd yn union gyfagos iddynt. Fodd bynnag, nid yw Dyffryn Marteg uchaf yn union gyfagos i ffin SSA C TAN 8. Felly, amcan ymhlyg TAN 8 yn yr ardal hon yw cynnal cymeriad y dirwedd (TAN 8, Atodiad D, paragraff 8.4). Oherwydd yr ystyriaethau hyn sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, ac er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd y tu hwnt iddynt gymaint â phosibl, mae angen bod yn ofalus iawn wrth ddylunio ffermydd gwynt ar ffiniau SSAs. Mae gosod tyrbinau yn ôl oddi wrth doriad llethr wedi dod yn arfer sefydledig ym Mhowys ac mewn mannau eraill yng Nghymru fel un modd o gyflawni nodau o'r fath. Fel yr wyf wedi'i nodi, ni fyddai gosodiad y cynllun arfaethedig o ran Dyffryn Marteg uchaf yn dilyn yr arfer hwnnw.

601. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai effaith weledol niweidiol fawr ar leoliad Bwlch y Sarnau. Er na fyddai unrhyw eiddo preswyl unigol yn cael ei wneud yn fan annerbyniol i fyw, byddai effaith niweidiol arwyddocaol ar amwynder cyffredinol ac amgylchedd gweledol yr anheddiad. Byddai gwrthdaro yn hyn o beth â pharagraff 3.1.1 PPW, sy'n ceisio diogelu amwynder ac amgylchedd trefi, dinasoedd a chefn gwlad trwy'r system gynllunio.

602. Mae PPW yn cydnabod bod dyluniad da yn gallu diogelu a gwella ansawdd amgylcheddol (paragraff 4.11). Gan na fyddai dyluniad y datblygiad arfaethedig yn lleihau ei effaith amgylcheddol gymaint â phosibl, deuaf i'r casgliad y byddai gwrthdaro â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol a amlinellir yn PPW a TAN 8.

603. Mae UDP Powys hefyd yn cydnabod y cydbwysedd gofalus y mae angen ei daro rhwng yr angen dybryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r angen i ddiogelu tirwedd werthfawr a deniadol. Mae maen prawf 1 Polisi E3 yr UDP yn gwrthwynebu cynigion ar gyfer ffermydd gwynt a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar nodweddion amgylcheddol a thirwedd Powys. Fel yr amlygir yn y testun cysylltiedig, nid yw'r Cyngor ei hun yn ystyried bod polisi seiliedig ar feini prawf ynddo'i hun yn cynrychioli sail arbennig o dda ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol, ac nid yw'r canllawiau cynllunio atodol cyfredol seiliedig ar dystiolaeth wedi cael eu mabwysiadu eto. Felly, mae ystyr 'derbyniol' yng nghyd-destun maen prawf 1 yn aneglur. Er hynny, rwyf o'r farn y byddai niwed a fyddai'n codi'n ddiangen o ganlyniad i ddyluniad a gosodiad cynllun yn annerbyniol yng nghyd-destun Polisi S3 yr UDP. Deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig hefyd yn gwrthdaro â Pholisi S3 yr UDP, ac felly â'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal.

*Amodau*

604. Mae amod a awgrymwyd gan y Cyngor mewn perthynas â chyffordd y ffordd fynediad lleol â'r A483 yn angenrheidiol gan fod rhywfaint o waith, er hynny'n fân waith, wedi'i gynnig yn y TMP Drafft, ond nid yw wedi'i fanylu'n llawn eto. Mae gofyniad i gadw lleiniau gwelededd yn rhydd rhag rhwystrau wrth gyffyrdd ar hyd y ffordd fynediad lleol yn angenrheidiol ac yn rhesymol o safbwynt diogelwch, ond byddai amod drafft y Cyngor yn elwa ar newidiadau a fyddai'n ei gwneud yn fwy eglur bod hyn yn berthnasol i gyffyrdd ar hyd y ffordd sirol lle y mae angen gwneud gwaith yn unig.

605. Nid yw'n eglur beth yw ystyr 'capasiti' yng nghyd-destun amod drafft 30 y Cyngor sy'n ymwneud ag AILs. Mae drafft yr ymgeisydd yn fwy eglur yn hyn o beth ac yn ymdrin â'r holl faterion angenrheidiol.

606. Ceir rhai gwahaniaethau rhwng y partïon yn ymwneud â'r manylion sydd i'w cynnwys yn y cynllun traffig gofynnol ar gyfer AILs. Byddai drafft y Cyngor yn elwa ar fwy o eglurder ynglŷn â digwyddiadau fel Sioe Frenhinol Cymru, fel yr awgrymwyd gan yr ymgeisydd. Byddai drafft yr ymgeisydd hefyd yn sicrhau y byddai cynigion manwl ar gyfer gwaith ar hyd y llwybr yn gydnaws â gofynion Llandinam ac felly'n osgoi gwaith diangen. Byddai dyluniad manwl y gwaith hwnnw'n ddarostyngedig i amodau eraill. Felly, drafft yr ymgeisydd sydd i'w ffafrio.

607. O ran yr amod awgrymedig ar gyfer strategaeth reoli AIL, mae cydlynu danfoniadau AIL gyda chynlluniau eraill yn fater i'w gymeradwyo'n briodol gan y

Cyngor, sef yr awdurdod priffyrdd, er y gallai'r amserlen gael ei harwain yn ymarferol gan argaeledd hebryngwyr yr heddlu. Fodd bynnag, o ran pethau eraill, drafft yr ymgeisydd sydd i'w ffafrio, gan fod darpariaethau eraill a awgrymwyd gan y Cyngor yn or-ragnodol neu'n ddiangen.

608. Mae angen dull o fonitro symudiadau traffig cerbydau adeiladu i ffwrdd o'r safle fel na fydd contractwyr yn defnyddio llwybrau nad ydynt wedi'u rhagweld na'u hasesu. Gallai hyn gynnwys defnyddio cerbydau â chynllun lliwiau/logo arbennig, ond gallai mesurau eraill fod ar gael. Nid wyf o'r farn y byddai'n anghyfreithlon rheoli traffig adeiladu cyffredinol yn ystod digwyddiadau arbennig, ond nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth y byddai angen gwneud hynny. Byddai amcanion y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu arfaethedig yn cael eu sicrhau trwy ddrafft yr ymgeisydd sy'n fwy hyblyg ac felly i'w ffafrio.

609. Mae'r ymgeisydd yn fodlon cytuno ag amod sy'n mynnu bod unrhyw ddifrod i'r seilwaith priffyrdd y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r datblygiad yn cael ei adfer. Fodd bynnag, byddai'r amod a awgrymwyd gan y Cyngor yn afresymol gan y byddai'n mynnu bod arolygon cyflwr o gwmpas enfawr – yr holl briffyrdd o Ddociau Casnewydd i'r safle i bob pwrpas, yn cael eu cynnal cyn, yn ystod ac ar ôl y datblygiad. Gyda mân addasiad, byddai amod awgrymedig yr ymgeisydd yn caniatáu ar gyfer dull mwy rhesymol o asesu unrhyw ddifrod priodoladwy a darparu ar gyfer adferiad.

610. Dylai amodau yn ymwneud ag ymyrraeth deledu fod â chyfyngiad amser. Fel arall, mae'r ymgeisydd yn derbyn yr angen am amod o'r fath. Fel yr wyf wedi'i nodi mewn perthynas â chynllun Llandinam, nid oes angen amod yn ymwneud â Chynllun Rheoli Hyfforddiant a Chyflogaeth.

611. Mae'r ymgeisydd yn derbyn yr angen am amodau sŵn, gan gynnwys amod EAM ar y ffurf y nodais y byddai'n briodol yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

612. Mae Atodlen amodau argymelledig sy'n cydymffurfio â chyngor Cylchlythyron, sydd i'w gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol â'm hargymhelliad, ynghyd â rhesymau i'r graddau y mae'r rheiny'n ymwneud ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig, wedi'i gosod yn Atodiad B yr adroddiad hwn.

*Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol (gan gynnwys Materion Perthnasol (d) i (n))*

613. Byddai'r datblygiad arfaethedig (gan gynnwys y grwpiau gogleddol a deheuol o dyrbinau) yn darparu oddeutu 62MW o gapasiti cynhyrchu gosodedig o ffynonellau adnewyddadwy. Byddai'r cynllun hefyd yn dwyn ymlaen rhaglen rheoli tir i wella cynefinoedd ar gyfer adar sy'n bridio a bywyd gwyllt. Yn gyffredin â chynlluniau eraill, byddai buddsoddiad a chyfleoedd sylweddol i gwmnïau lleol gymryd rhan yn y gadwyn gyflenwi. Byddai swyddi lleol yn cael eu creu yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Rwyf wedi amlygu bod cynllun Llaithddu yn wahanol i'r lleill gan ei fod wedi'i ddatblygu gan ffermwyr mynydd lleol ac mewn cydweithrediad â hwy. Felly, ceir potensial ar gyfer budd cymunedol sylweddol trwy gymorth ar gyfer mentrau ffermio lleol a chadw cyfran uchel o werth y prosiect yn yr economi leol. Byddai'r rhain yn gyfystyr â buddion sylweddol y dylid rhoi cryn bwysigrwydd iddynt.

614. Yn ddarostyngedig i amodau, byddai effeithiau ar hydroleg, hydroddaeareg, mawn, bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a'r rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu lliniaru a byddai effeithiau gweddilliol yn dderbyniol. Ni fyddai unrhyw effeithiau gweledol annerbyniol yn debygol o ddigwydd mewn unrhyw eiddo preswyl unigol, ac ni fyddai unrhyw niwed i iechyd o ganlyniad i sŵn, dirgryniad neu gysgodion neidiol. Byddai'r cynnig yn niwtral at ei gilydd yn hyn o beth.

615. Rwyf wedi amlygu y byddai rhywfaint o niwed i ddefnydd hamdden o'r llwybr ceffylau yng nghyffiniau'r grŵp deheuol, ond yng nghyd-destun yr hawl dramwy gyhoeddus ehangach, mae graddau'r niwed yn debygol o fod yn ysgafn, a byddai'n cael ei orbwyso'n sylweddol gan fuddion y cynnig. O ran twristiaeth a'r economi yn gyffredinol, mae'r datblygiad arfaethedig yn annhebygol o gael effaith niweidiol arwyddocaol yn unigol neu mewn cyfuniad â chynlluniau eraill sydd gerbron yr ymchwiliad.

616. Fodd bynnag, byddai niwed a gwrthdaro arwyddocaol â pholisi cynllunio cenedlaethol, Cymru a lleol o ran effaith y grŵp deheuol o dyrbinau yn weledol ac ar y dirwedd, yn deillio o ddyluniad a gosodiad y cynllun arfaethedig. Nid yw'r amodau a gyflwynwyd yn goresgyn y gwrthwynebiadau hyn. Gan fod Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) a pholisi cynllunio Cymru yn mynnu bod prosiectau'n cael eu dylunio'n ofalus, gan ystyried yr effaith bosibl â chyda'r nod o leihau niwed i'r dirwedd gymaint â phosibl, nid wyf o'r farn bod buddion y cynllun arfaethedig yn gorbwyso'r niwed a'r gwrthdaro â pholisi cynllunio yr wyf wedi'u hamlygu. Deuaf i'r casgliad nad yw'r cynllun arfaethedig yn ei gyfanrwydd yn dderbyniol, ac y dylid ei wrthod.

617. Ni ddadleuir nad oes modd dileu'r grŵp deheuol o dyrbinau o'r cynllun arfaethedig trwy amod, oherwydd, o dan Ddeddf Trydan 1989, ni fyddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw rym i ganiatáu adeiladu gorsaf gynhyrchu sydd â chapasiti o lai na 50 MW.

**ARGYMHELLIAD**

618. Argymhellaf y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu gwrthod.

619. Os penderfynir rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig, argymhellaf y dylai fod yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad B sydd ynghlwm.

<u>Llanbadarn Fynydd</u>

*Cysondeb ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd (Mater Perthnasol (a))*

620. Byddai'r cynnig yn gyson â'r amcanion hyn, ac nid yw'r Cyngor yn dadlau y byddai'r pŵer y byddai'n ei gynhyrchu o fudd sylweddol i'r cyhoedd. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r holl gynlluniau sydd gerbron yr ymchwiliad, nid yw cysondeb â'r amcanion hyn ynddo'i hun yn golygu bod y cynnig yn dderbyniol.

*Cysondeb â'r Polisïau sy'n Ymwneud â Chynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Perthnasol am Seilwaith Ynni: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011 a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011 (Mater Perthnasol (b))*

621. Fel y cynghorir ym mharagraff 2.5.36 EN-1, gall ynni adnewyddadwy gael ei ddatblygu dim ond lle mae'r adnoddau'n bodoli, ac felly ni ddylid defnyddio dull dilyniannol o ddewis safle. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y byddai pob safle sydd ag adnodd gwynt da yn addas ar gyfer tyrbinau gwynt ar raddfa fawr o'r math a gynigir ar gyfer y cynllun hwn. Fel y cynghorir ym mharagraff 5.9.8 EN-1, mae effeithiau ar y dirwedd yn dibynnu ar gymeriad y dirwedd leol a dylid ceisio lleihau niwed gymaint â phosibl. Fel y cynghorir ym mharagraff 2.7.6 EN-3, mae agosrwydd at anheddau yn ffactor a ddylai ddylanwadu ar ddewis safle, am resymau gan gynnwys amwynder gweledol.

622. O ran effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, am resymau yn ymwneud â maint y tyrbinau arfaethedig, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol arwyddocaol ar yr agweddau hynny ar gymeriad a golwg y dirwedd sy'n ei gwneud yn nodedig ac yn atyniadol.

623. O ran amwynder preswyl, rwyf wedi dod i'r casgliad mai'r profiad i lawer o breswylwyr lleol fyddai byw o fewn neu wrth ymyl tirwedd fferm wynt a ddominyddir gan dyrbinau ar raddfa fawr. Felly, byddai effaith niweidiol arwyddocaol ar amwynder preswyl ac amgylchedd gweledol cyffredinol yr ardal.

624. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn tynnu oddi ar gymeriad hanesyddol y dirwedd, ac yn dadsensiteiddio'r ardaloedd amgylchynol i ddatblygiad fferm wynt ychwanegol. Nid yw'r rhain ynddynt eu hunain yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthod y cynllun arfaethedig. Fodd bynnag, maent yn ffactorau y dylid eu hystyried yn y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

625. Rwyf wedi ystyried y cyfyngiadau o ran lleoli a gweithredu a chyfyngiadau perthnasol eraill. Fodd bynnag, am y rhesymau uchod, ystyriaf y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â gofynion polisi EN-1 ac EN-3 i leihau niwed i'r dirwedd ac amwynder preswyl gymaint â phosibl.

*I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (Gorffennaf 2014)(PPW); Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8); ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); a Chynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010)(UDP)(Mater perthnasol (c))*

626. Mae TAN 8 yn amlygu ardaloedd yng Nghymru yr ystyrir, ar sail ymchwil empirig sylweddol, eu bod y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygiad fferm wynt ar raddfa fawr. Fodd bynnag, mae TAN 8 yn cydnabod ei bod yn bosibl na fydd yr holl dir o fewn yr SSAs yn addas yn amgylcheddol ar gyfer cynigion ynni'r gwynt mawr. Am y rhesymau uchod yn ymwneud ag effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd, ac amwynder preswyl cyffredinol, nid wyf o'r farn bod safle'r cais yn addas iawn i ddatblygiad fferm wynt o'r math a'r raddfa a gynigir.

627. Bydd angen datblygu nifer gyfyngedig o ddatblygiadau ynni'r gwynt mawr yn SSA C i gyfrannu at ddyhead Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfanswm capasiti o 2GW o ran ynni'r gwynt ar y tir erbyn 2015/17, tuag at dargedau ynni

adnewyddadwy'r Deyrnas Unedig ac Ewrop, i liniaru'r newid yn yr hinsawdd, ac i ddarparu sicrwydd ynni. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio hyd at 98MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o fewn SSA C i gefnogi ei hymagwedd strategol. Fodd bynnag, y dystiolaeth sydd gerbron yr ymchwiliad yw y gallai cyfanswm o oddeutu 100 MW o gapasiti cynhyrchu gosodedig ychwanegol gael ei sicrhau o gyfuniad o gynllun ailbweru Llandinam ac arae ogleddol cynllun Llaithddu[114]. Mae'r Cyngor hefyd o'r farn y byddai rhywfaint o ddatblygu ychwanegol yn ardal cefnen Llandinam yn dderbyniol o ran y dirwedd ac y gallai ddarparu cyfraniad arwyddocaol at y capasiti yn TAN 8. Felly, nid yw dyheadau polisi Llywodraeth Cymru yn ddibynnol ar y cynllun arfaethedig.

628. Am y rhesymau hyn, deuaf i'r casgliad na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 7 (Gorffennaf 2014)(PPW); Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8); ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012).

629. Fel yr wyf wedi'i nodi'n flaenorol, mae maen prawf 1 Polisi E3 yr UDP yn gwrthwynebu cynigion ar gyfer ffermydd gwynt a fyddai'n cael effaith annerbyniol ar nodweddion amgylcheddol a thirwedd Powys. Ystyriaf y byddai niwed a fyddai'n codi o ganlyniad i anaddasrwydd safle ar gyfer datblygiad o'r math a'r graddau a gynigir yn annerbyniol yng nghyd-destun y polisi hwnnw. Deuaf i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig hefyd yn gwrthdaro â Pholisi S3 yr UDP, ac felly â'r cynllun datblygu ar gyfer yr ardal.

*Amodau*

630. Mae amod yn angenrheidiol i fynnu bod y datblygiad yn cael ei gynnal gyda manylion penodedig. Mae'r ymgeisydd yn ffafrio rhestru lluniadau penodedig. Fodd bynnag, mae llawer o'r rhain o fanylion nodweddiadol. Ni fyddai, er enghraifft, yn gywir mynnu bod datblygiad yn cael ei gynnal yn unol â manylyn tyrbin gwynt nodweddiadol, pan fo'r cynllun a aseswyd wedi'i seilio ar dyrbin ymgeisiol ac y bydd manylion terfynol y gwneuthuriad a'r model a ddewisir yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach. Mae'r ES ac EIAs dilynol hefyd yn cynnwys datganiadau dull a chynlluniau sydd wedi llywio'r cais, ac a ddylai felly ffurfio rhan o'r gofynion. Felly, rwyf yn ffafrio dull y Cyngor, sef rhestru'r lluniad Gosodiad, ynghyd â'r ES a'r SEIs dilynol.

631. Dylai'r gofyniad hefyd gyfeirio at gydymffurfio ag adran 6 yr STMP drafft diwygiedig, sy'n cynnwys manylion y cynnig mynediad strategol diwygiedig. Mae'n llawer mwy na disgrifiad llwybr ac yn cynnwys llawer o fanylion a aseswyd ac y canfuwyd eu bod yn dderbyniol. Mae'n amodol ar gadarnhau manylion yn derfynol, ond mae'r llwybr yn dderbyniol mewn egwyddor. Felly, ni fyddai'n briodol mynnu bod cynllun rheoli traffig ar wahân neu arolygon cynefin a rhywogaeth ychwanegol yn cael eu cyflwyno, er y byddai TMP yn angenrheidiol fel adendwm. Am y rhesymau hyn, ystyriaf fod ymagwedd yr ymgeisydd at yr amod hwn yn fwy rhesymol.

632. Mae'r partïon yn cytuno bod angen amod yn ymwneud ag adfer unrhyw ddifrod i'r briffordd sy'n briodoladwy i'r datblygiad, ond yn anghytuno ynglŷn â graddau

[114] Cyfrifir fel capasiti cynllun ailbweru Llandinam (102MW) a grŵp gogleddol tyrbinau Llaithddu (27.6MW), llai capasiti presennol fferm wynt P&L (30MW)

arolygon cyn adeiladu. Byddai'n afresymol mynnu bod yr holl ffyrdd a fyddai'n cael eu defnyddio gan yr holl draffig adeiladu'n cael eu harolygu. Yn fy marn i, dylai arolygon gael eu cyfyngu i'r C1057 a'r U1298, y rhagwelir y byddant yn darparu'r llwybrau mynediad lleol, ac unrhyw ffyrdd cytunedig eraill pe byddai newid o bwys yn cael ei wneud i'r STMP ar unrhyw adeg, fel yr awgrymwyd gan yr ymgeisydd.

633. Mae'r ymgeisydd o'r farn bod rhai mân ddarpariaethau yn ymwneud â chynlluniau Rheoli Hawliau Tramwy a Monitro Ecolegol y cytunwyd arnynt yn gyffredinol fel arall yn ddiangen, a chytunaf â'r safbwynt hwnnw. Yn yr un modd, cytunaf fod darpariaeth o fewn yr amod Archaeoleg arfaethedig yn ddiangen, ac y gallai wrthdaro â chynlluniau a darpariaethau eraill.

634. Mae'r ymgeisydd yn cytuno y dylai amod EAM gael ei gynnwys. Fodd bynnag, am y rhesymau yr wyf wedi'u rhoi'n flaenorol, nid ystyriaf y dylai raeadru i lawr i'r fethodoleg a gyhoeddwyd gan ReUK ym mis Rhagfyr 2013.

635. Mae Atodlen amodau argymelledig sy'n cydymffurfio â chyngor Cylchlythyron, sydd i'w gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol â'm hargymhelliad, ynghyd â rhesymau i'r graddau y mae'r rheiny'n ymwneud ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig, wedi'i gosod yn Atodiad C yr adroddiad hwn.

*Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol (gan gynnwys Materion Perthnasol (d) i (n))*

636. Byddai'r cynllun arfaethedig yn cynhyrchu hyd at 59.5 MW o drydan o adnoddau adnewyddadwy. Byddai hefyd yn creu swyddi a buddiannau economaidd eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y rhain yn fuddiannau arwyddocaol er lles y cyhoedd ac rwyf innau o'r farn y dylent fod o bwys sylweddol.

637. Yn ddarostyngedig i amodau, byddai effeithiau ar hydroleg, hydroddaeareg, mawn, bioamrywiaeth a'r rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu lliniaru a byddai effeithiau gweddilliol yn dderbyniol. Ni fyddai unrhyw niwed i iechyd o ganlyniad i sŵn, dirgryniad neu gysgodion neidiol. Byddai'r cynnig yn niwtral at ei gilydd yn hyn o beth.

638. Ar y llaw arall, byddai'r cynnig yn achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd, a niwed i amwynder preswyl cyffredinol cymuned wasgaredig ond sylweddol o breswylwyr lleol. Ni fyddai'r cynnig yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol na lleol yn hyn o beth. Mae'r rhain yn ystyriaethau yr wyf o'r farn y dylent bwyso'n drwm yn erbyn y cynnig ac, at ei gilydd, ystyriaf eu bod yn gorbwyso ei fuddiannau. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn tynnu oddi ar gymeriad hanesyddol y dirwedd, ac yn dadsensiteiddio'r ardaloedd amgylchynol i ddatblygiad fferm wynt ychwanegol. Er nad yw'r ystyriaethau hyn o bwysigrwydd digonol i gyfiawnhau gwrthod y cais ynddynt eu hunain, rwyf o'r farn eu bod yn cryfhau'r ddadl yn erbyn y cynnig.

639. Ni fyddai'r amodau a gyflwynwyd yn goresgyn y niwed a'r gwrthdaro â pholisi cynllunio yr wyf wedi'u hamlygu.

640. Deuaf i'r casgliad nad yw'r cynllun arfaethedig yn ei gyfanrwydd yn dderbyniol, ac y dylid ei wrthod.

ARGYMHELLIAD

641. Argymhellaf y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu gwrthod.

642. Os penderfynir rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig, argymhellaf eu bod yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad C sydd ynghlwm.

SSA C – Ystyriaethau Polisi yn Ymwneud ag Effeithiau Cronnol ac Mewn Cyfuniad

643. Er na fyddai cynlluniau Ailbweru Llandinam a Llaithddu o fewn ffiniau cyffredinol SSA C a ddiffiniwyd yn TAN 8, byddai eu safleoedd yn gyffiniol â'r ardal honno. Ni fyddai llawer o wahaniaeth o ran cymeriad y dirwedd rhwng y safleoedd a rhai rhannau gorllewinol eraill o SSA C, ac nid oes gwahaniaeth eglur yng nghymeriad y dirwedd rhwng ardaloedd ychydig o fewn, ac ychydig y tu allan i rannau perthnasol ffin TAN 8. Fel yr adlewyrchwyd yn astudiaethau Arup, maent yn rhan o'r un uned dirwedd llwyfandir ucheldirol i bob pwrpas. Byddai'r trefniadau mynediad, a'r goblygiadau o ran cysylltiadau grid, yr un fath pa un a ystyrir bod y safleoedd o fewn ffin TAN 8 ai peidio. Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn y dylid ystyried bod safleoedd Llandinam a Llaithddu o fewn SSA C at ddibenion ystyried capasiti amgylcheddol yr ardal.

644. Mae llythyr Gweinidog Cymru dyddiedig mis Gorffennaf 2011 yn disgwyl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru gydnabod polisi gofodol-benodol Cymru a amlinellir yn TAN 8, parchu'r ffaith bod gan Ardaloedd Chwilio Strategol gapasiti amgylcheddol cyfyngedig, ac na ddylai allbwn fynd yn fwy na'r lefelau mwyaf a aseswyd gan Garrad Hassan.

645. O blith y ceisiadau yn SSA C, rwyf wedi argymell mai cynnig Llandinam yn unig y dylid ei gymeradwyo. Os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno cymeradwyo naill ai cynnig Llaithddu (62MW) neu Lanbadarn Fynydd (59.5MW) yn ogystal â chynllun Llandinam (cynnydd net o oddeutu 72MW), dylid ystyried y byddai'r cynnydd mewn capasiti cynhyrchu o fewn SSA C yn mynd yn fwy na'r capasiti mwyaf dangosol o 98 MW a amlygwyd gan Garrad Hassan.

646. Pe benderfynid cymeradwyo'r ddau gynllun yn ogystal â chynllun Llandinam, eid ymhell dros y capasiti hwnnw. Byddai angen llinell drawsyrru 132kV ychwanegol hefyd. Pe byddai honno'n cael ei llwybro i Gefn Coch, byddai tebygolrwydd uwch o'r angen am seilwaith rhwydwaith grid foltedd uchel mawr a fyddai'n ymwthiol yn weledol nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod ei angen yng nghanolbarth Cymru.

647. Am y rhesymau hyn, ystyriaf y byddai cymeradwyo dau neu fwy o'r cynlluniau arfaethedig yn SSA C yn gwrthdaro â Pholisi Llywodraeth Cymru.

648. Rwyf o'r farn bod y gwrthdaro â pholisi Llywodraeth Cymru a amlygwyd gennyf uchod yn ystyriaeth o bwys sy'n cryfhau fy nghasgliad na ddylid caniatáu cynllun Llaithddu yn ei gyfanrwydd, a'm casgliad na ddylid rhoi caniatâd ar gyfer cynllun Llanbadarn Fynydd.

Llanbrynmair

*Cysondeb ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd (Mater Perthnasol (a))*

649. Byddai'r cynnig yn gyson â'r amcanion hyn. Nid yw'r Cyngor yn dadlau y byddai'r pŵer y byddai'n ei gynhyrchu (hyd at 90 MW) o fudd sylweddol i'r cyhoedd. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r holl gynlluniau sydd gerbron yr ymchwiliad, nid yw cysondeb â'r amcanion hyn ynddo'i hun yn golygu bod y cynnig yn dderbyniol.

*Cysondeb â'r Polisïau sy'n Ymwneud â Chynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Perthnasol am Seilwaith Ynni: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011 a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011 (Mater Perthnasol (b))*

650. Mae'r Cyngor o'r farn y gall fferm wynt arfaethedig Llanbrynmair gael ei chynnwys o fewn tirwedd ucheldirol llwyfandir Carnedd Wen / Llanbrynmair, ac er y byddai rhai effeithiau arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd, yn enwedig yn Nyffryn Nant yr Eira, y byddent yn dderbyniol. Cytunaf â'r Cyngor yn hyn o beth. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliad y byddai'r fferm wynt arfaethedig ei hun yn dderbyniol ym mhob ystyr arall. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn cynnwys defnyddio rhan o ffordd Llanerfyl i Dalerddig i ddarparu mynediad ar gyfer AILs. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai hyn yn achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd yn lleol, anghyfleustra, aflonyddu ac effeithiau ariannol ac amgylcheddol cysylltiedig, a rhywfaint o niwed i ecoleg. Byddai'r dewis arall o rannu mynediad ar gyfer AILs gyda chynllun Carnedd Wen yn well o lawer o safbwynt amgylcheddol.

651. O ran cyfyngiadau lleoli a gweithredu a chyfyngiadau eraill, mae EN-1 yn mynnu y dylai niwed i'r dirwedd gael ei leihau gymaint â phosibl a mesurau lliniaru rhesymol gael eu darparu lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol. Mae EN-3 yn ceisio sicrhau bod effeithiau cludo llwythi anghyffredin yn cael eu lliniaru. Gan y dangoswyd y byddai'r dewis arall o rannu mynediad ar gyfer AILs gyda chynllun Carnedd Wen yn well o lawer o safbwynt amgylcheddol, ac ni ddangoswyd bod cyfyngiadau lleoli a gweithredu, na chyfyngiadau eraill, a fyddai'n gwneud y dewis arall yn anymarferol, ystyriaf na fyddai'r cynllun arfaethedig yn gyson â'r polisïau a amlinellir yn EN-1 ac EN-3.

*I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (Gorffennaf 2014)(PPW); Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8); ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); a Chynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010)(UDP)(Mater perthnasol (c))*

652. Mae PPW yn mynnu mesurau lliniaru ar gyfer yr holl effeithiau niweidiol posibl ar gymunedau lleol. Yn amodol ar rannu costau, mae'r ymgeisydd yn derbyn na fyddai hyfywedd economaidd yn cael ei fygwth gan y llwybr mynediad arall a gynigiwyd (PPW 12.8.10). Mae TAN 8 yn amlygu ystyriaethau mynediad, gan gynnwys derbynioldeb ffyrdd newydd a phresennol ar gyfer mynediad ac adeiladu, fel mater y dylid ymdrin ag ef er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cynlluniau (TAN 8 2.10). Oherwydd y gallai effeithiau niweidiol posibl y cynllun mynediad lleol arfaethedig ar gyfer AILs gael eu lliniaru trwy fabwysiadu

dewis arall a amlygwyd ac sy'n amlwg yn well, ystyriaf na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â PPW na TAN 8 yn hyn o beth.

653. Oherwydd y gallai'r niwed i nodweddion amgylcheddol a thirwedd Powys gael eu hosgoi i raddau helaeth trwy ddefnyddio'r llwybr arall, ystyriaf y byddai niwed annerbyniol, ac felly gwrthdaro â Pholisi E3 yr UDP. Deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig yn gwrthdaro â'r cynllun datblygu hefyd.

*Amodau*

654. Mae'r Cyngor wedi awgrymu amodau a fyddai'n briodol pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu nad yw'r mynediad arfaethedig yn dderbyniol ac y gellir cymeradwyo'r cynllun yn amodol ar y ffaith bod y mynediad ar gyfer AILs yn cael ei rannu gyda Charnedd Wen. Safbwynt RES yw bod y mynediad arfaethedig yn dderbyniol, ond ei fod yn fodlon derbyn newidiadau i'r cynlluniau arfaethedig os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu fel arall. Dychwelaf at y mater hwn wrth ystyried y cydbwysedd cynllunio cyffredinol.

655. Mae RES yn rhannu pryderon ymgeiswyr eraill ynglŷn ag amod awgrymedig y Cyngor ynghylch datgomisiynu ac adfer. Ystyriaf y dylai'r amod fynnu cydymffurfio ag arfer gorau safonol cyfredol y diwydiant: h.y. gwaredu sylfeini i 1m islaw lefel y ddaear, yn hytrach na rhyw safon arfer gorau bosibl yn y dyfodol.

656. Mae'r Cyngor wedi awgrymu amod sy'n mynnu bod lliw'r tyrbinau arfaethedig yn cael ei gymeradwyo. Mae RES yn honni nad oes ganddo reolaeth dros y fanyleb liw gan fod gweithgynhyrchwyr yn defnyddio lliw safonol y cydnabuwyd ac y profwyd ei fod yr un lleiaf ymwthiol yn weledol. Fodd bynnag, byddai cynllun Llanbrynmair yn cael ei weld fel un fferm wynt fawr gyda chynllun Carnedd Wen. Felly, mae'n bwysig bod ymagwedd gyson yn cael ei defnyddio o ran lliw a gorffeniad y tyrbinau yn y ddau ddatblygiad. Byddai RWE / Carnedd Wen yn croesawu amod sy'n caniatáu ar gyfer cymeradwyo'r lliw yn ddiweddarach, fel y gellir ymchwilio i ddewisiadau eraill gyda'r bwriad o leihau'r effaith weledol ymhellach. O ystyried yr amser hir yn arwain at y cynlluniau hyn, rwyf o'r farn bod yr ymagwedd hon yn rhesymol ac adeiladol, oherwydd er y byddai'r lliw arfaethedig yn dderbyniol, mae'n bosibl y gallai ymchwil bellach amlygu dewis arall a fyddai'n fwy lliniarol, heb niweidio hyfywedd. Felly, mae'n well gennyf ddrafft awgrymedig y Cyngor.

657. Mae'r ymgeisydd o'r farn y dylai'r amodau awgrymedig sy'n mynnu bod manylion gwelliannau i gyffordd yr A470 yn Nhalerddig yn cael eu cymeradwyo cyn i unrhyw ddatblygiad ddigwydd gael eu diwygio i ganiatáu ar gyfer torri coed a chlirio'r safle. Fodd bynnag, er y defnyddir y gyffordd bresennol ar gyfer gwaith coedwigaeth cyfyngedig, byddai'r datblygiad arfaethedig yn golygu torri coed a chlirio dros ardal fawr. Gan fod gosodiad a dyluniad cyffredinol y newidiadau i'r gyffordd wedi'u cytuno a heb fod yn helaeth, dylai'r broses o gymeradwyo a chynnal y gwelliannau angenrheidiol fod yn un gyflym. Mae diogelwch yn brif ystyriaeth. Felly, mae'n well gennyf safbwynt y Cyngor ynglŷn â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'r drafft a gyflwynwyd gan y Cyngor yn mynnu bod y cynllun yn cael ei gymeradwyo cyn i'r datblygiad ddechrau yn unig; nid yw'n nodi pryd y bydd yn rhaid i'r gwaith gael ei weithredu. Gan y byddai clirio'r safle yn cynhyrchu cryn dipyn yn fwy o draffig HGV, ystyriaf y dylai gael ei ddiwygio i fynnu ei fod yn cael ei weithredu cyn torri coed a chlirio'r safle.

658. Byddai'r gwaith angenrheidiol i gyffordd yr A470 yn lleol ac yn gymharol ysgafn, ac nid oes tystiolaeth y gallai effeithio ar rywogaethau a warchodir. Byddai'n ofynnol i'r contractwr ofalu i beidio ag amharu ar unrhyw rywogaethau a warchodir o dan ddeddfwriaeth arall. Felly, nid wyf o'r farn y dylai fod gofyniad ar gyfer arolygon cynefin a rhywogaeth wedi'u diweddaru.

659. Ymdrinnir yn gynhwysfawr â rheoli danfoniadau AIL yn yr STMP drafft a ystyriwyd yn yr ymchwiliad, a bydd manylion ychwanegol o dan reolaeth yr hebryngwyr heddlu angenrheidiol. Gellir mynnu cydymffurfio â'r STMP drafft trwy amodau. Felly, nid wyf o'r farn bod angen cyflwyno manylion ychwanegol i'w cymeradwyo.

660. Dylai amodau yn ymwneud ag adfer unrhyw ddifrod i'r briffordd fod yn gyson â'r rhai hynny a gymhwyswyd i gynlluniau eraill. Am resymau a roddwyd mewn perthynas â'r rheiny, ystyriaf y byddai'n briodol mynnu bod unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol yn cael ei adfer. Fodd bynnag, byddai'n afresymol mynnu bod yr ymgeisydd yn arolygu pob llwybr priffordd. Yn yr achos hwn, dylai arolygon gael eu cyfyngu i'r rhannau hynny o ffordd Llanerfyl i Dalerddig a fyddai'n cael eu defnyddio gan draffig adeiladu.

661. Os penderfynir rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i'r amod y dylai danfoniadau AIL ddefnyddio'r un llwybr o'r A458 â chynllun Carnedd Wen, byddai traffig AIL yn mynd trwy'r Trallwng, lle y ceir posibilrwydd o effaith ar gyflwr ac adeiladwaith rhai eiddo. Yn yr achos hwnnw, byddai'n briodol gosod yr un amod yn ymwneud ag arolygu ac archwilio'r eiddo hyn ag a osodir ar ganiatâd Carnedd Wen. Er nad yw'r amod hwn wedi'i awgrymu yn yr amodau drafft a gyflwynwyd gan y partïon i'r cais hwn, trafodwyd y rhesymau drosto mewn sesiwn agored yn yr ymchwiliad lle y cynrychiolwyd Llanbrynmair. Felly, ni fyddai angen dychwelyd at y partïon mewn perthynas â'r amod hwn.

662. Mae'r ES / SEI yn dangos, i'm boddhad, na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar unrhyw gyflenwad dŵr preifat. Felly, nid wyf o'r farn bod angen unrhyw adroddiad ychwanegol.

663. Nid yw RES yn cytuno â ffurf yr amod EAM a gyflwynwyd gan y Cyngor ond, am resymau yr wyf wedi'u rhoi mewn man arall, rwyf o'r farn y byddai drafft y Cyngor yn briodol.

664. Mae Atodlen amodau argymelledig sy'n cydymffurfio â chyngor Cylchlythyron, sydd i'w gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol â'm hargymhelliad, ynghyd â rhesymau i'r graddau y mae'r rheiny'n ymwneud ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig, wedi'i gosod yn Atodiad D yr adroddiad hwn.

*Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol (gan gynnwys Materion Perthnasol (d) i (n))*

665. Byddai'r cynllun arfaethedig yn cynhyrchu tua 90 MW o drydan adnewyddadwy. Byddai hefyd yn creu swyddi a buddiannau economaidd eraill. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y rhain yn fuddiannau arwyddocaol er lles y cyhoedd. Rwyf hefyd wedi amlygu y byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu enillion tymor hir clir o ran cynefinoedd a bioamrywiaeth. Rwyf o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth o bwys i'r buddiannau hyn.

666. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn niweidiol iawn i nodweddion tirwedd a gweledol gwerthfawr Dyffryn Nant yr Eira. Fodd bynnag, byddai'r niwed yn gyfyngedig i fywyd gweithredol y datblygiad arfaethedig, a fyddai'n arwain at welliannau i'r dirwedd yn y pen draw trwy glirio coedwigaeth ac adfer rhostir. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael effaith weledol sylweddol o'u gweld o nifer o eiddo preswyl yn y dyffryn, ond nid i raddau a fyddai'n annerbyniol. Rwyf wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol arwyddocaol ar gymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri. Byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y golygfeydd o'r tu mewn i'r Parc yn cael eu cyfyngu i'r rhan dde-ddwyreiniol ac yn gyfyngedig i fywyd y ffermydd gwynt. Yn y tymor hir, byddai effeithiau buddiol ar olygfeydd o'r Parc. Byddai effaith y datblygiadau arfaethedig ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn fach, boed hynny'n unigol neu mewn cyfuniad â datblygiadau fferm wynt presennol neu arfaethedig eraill.

667. Rwyf wedi derbyn y byddai rhai defnyddwyr Ffordd Glyndŵr yn dewis peidio â defnyddio'r rhan trwy'r fferm wynt arfaethedig, ond nid wyf o'r farn y byddai'r cynllun arfaethedig yn debygol o gael effaith niweidiol gyffredinol ar gyfanrwydd y llwybr neu ei ddefnydd, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynigion eraill. Nid wyf wedi amlygu unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynhad llwybrau hamdden eraill neu dwristiaeth. Yn ddarostyngedig i amodau, byddai effeithiau ar hydroleg, hydroddaeareg, mawn, a'r rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn cael eu lliniaru a byddai effeithiau gweddilliol yn dderbyniol. Dylai cynlluniau i godi'r lefel trwythiad helpu i leihau perygl llifogydd yn y dyffrynnoedd hefyd. Ni fyddai unrhyw niwed i iechyd o ganlyniad i sŵn, dirgryniad neu gysgodion neidiol. Byddai'r cynnig yn niwtral at ei gilydd yn hyn o beth.

668. At ei gilydd, ystyriaf y byddai buddiannau'r fferm wynt arfaethedig yn gorbwyso ei heffeithiau niweidiol yn glir.

669. Fodd bynnag, byddai'r cynnig yn cynnwys defnyddio rhan o ffordd Llanerfyl i Dalerddig i ddarparu mynediad ar gyfer AILs. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai hyn yn achosi effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol, ac y byddai'r dewis arall o rannu mynediad ar gyfer AILs gyda chynllun Carnedd Wen yn well o lawer o safbwynt amgylcheddol. Rwyf wedi canfod na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol, Cymru na lleol yn hyn o beth. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyriaf na fyddai buddiannau'r cynnig yn ei gyfanrwydd yn gorbwyso'r niwed, ac y dylai'r cynllun, gan gynnwys mynediad ar gyfer AILs o Ddyffryn Nant yr Eira, gael ei wrthod.

*Dewisiadau Ymarferol ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol*

670. Nid wyf wedi amlygu unrhyw ofyniad cyfreithiol na pholisi cadarn i ystyried dewisiadau eraill yn yr amgylchiadau sy'n codi. Fodd bynnag, mae llwyfandir Llanbrynmair a Charnedd Wen wedi'i amlygu yn TAN 8 fel ardal lle y gellir gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Felly, mae amgylchiadau arbennig yn bodoli, yn yr ystyr bod hon yn ardal chwilio strategol lle y dylid ystyried y cwestiwn o fynediad yng nghyd-destun cynllun strategol. Byddai mynediad arall ar gael, sydd wedi'i asesu yn rhan o'r broses EIA ac y canfuwyd ei fod yn dderbyniol yn amgylcheddol. Yn amodol ar faterion y byddai angen dod i gytundeb arnynt gyda datblygwyr Carnedd Wen, gan gynnwys amseru a rhannu costau, mae RES bellach o'r farn na fyddai'n peryglu hyfywedd ei gynllun. Yn y cyd-destun hwn, byddai'n amlwg yn anghywir, ac yn

groes i les y cyhoedd, i ddiystyru'r dewis arall sydd wedi'i gyflwyno yn yr ymchwiliad. Fel y cydnabuwyd gan RES, nid yw defnyddio amodau i fynnu datblygiad cynhwysfawr yn rhywbeth newydd ac mae amodau o'r fath yn gwasanaethu diben cynllunio priodol.

671. Os penderfynir rhoi caniatâd ar gyfer Carnedd Wen, dewis ymarferol fyddai rhoi caniatâd yn ymgorffori SEI mis Chwefror 2014, ac ar yr amod na ddefnyddir mynediad Nant yr Eira. Mae RES wedi derbyn y byddai'r mynediad arall o'r A458 yn hyfyw pe byddai'r costau'n cael eu rhannu. Ni ddylai hyfywedd fod yn broblem os bydd Carnedd Wen yn symud ymlaen, gan y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith y byddai ei angen i ddarparu mynediad AIL i safle Llanbrynmair yn ofynnol ar gyfer cynllun Carnedd Wen beth bynnag.

672. Fodd bynnag, er mwyn i'r dewis arall hwn fod yn foddhaol ac yn ymarferol, mae'n rhaid cael rhyw ffordd o sicrhau y byddai mynediad ar gyfer AILs Llanbrynmair yn bosibl trwy safle Carnedd Wen. Rwyf felly'n derbyn y byddai angen sefydlu darpariaethau a fyddai'n mynnu bod RWE yn ystyried darparu mynediad a rennir wrth ddatblygu ei STMP a'i gynlluniau rheolaeth adeiladu ac amgylcheddol manwl. Byddaf yn archwilio'r dull o wneud hynny mewn cysylltiad â'r amodau a awgrymwyd mewn perthynas â chynllun Carnedd Wen. Mae'r amodau angenrheidiol wedi'u trafod ac ni fyddai angen dychwelyd at y partïon mewn perthynas â'r cais hwn.

673. Os penderfynir peidio â rhoi caniatâd ar gyfer Carnedd Wen, byddai'r dewis arall o greu mynediad ar gyfer AILs Llanbrynmair o'r A485 yn dal i fodoli. Er bod RES wedi datgan na fyddai hyn yn ariannol hyfyw oni bai y rhennir costau, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i gyfiawnhau ei bryder. Fodd bynnag, gan na fyddai RES o reidrwydd yn dilyn y llwybr a gynigiwyd gan RWE, nid yw SEI mis Chwefror 2014 yn darparu digon o wybodaeth er mwyn i'r dewis arall hwn gael ei asesu'n briodol yn amgylcheddol. Byddai rhoi caniatâd yn ddarostyngedig i amod sy'n mynnu nad yw gwaith mynediad AIL Nant yr Eira yn cael ei weithredu yn golygu y byddai angen cyflwyno cais newydd ar gyfer mynediad arall. Byddai gwrthod y cais yn arwain at ei ailgyflwyno gyda chynnig mynediad newydd. Byddai'r ddau ddewis yn llyffetheirio ac oedi datblygiad a ddylai gael ei ganiatáu'n rhesymol yn amodol ar sicrhau mynediad ar gyfer AILs o'r A458. Am y rhesymau hyn, ystyriaf mai'r dewis gorau fyddai ceisio SEI arall, gyda'r nod o lywio penderfyniad ynghylch a ddylai caniatâd fod yn amodol ar fynediad ar gyfer AILs yn uniongyrchol o'r A458.

674. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill ond ni chanfyddaf unrhyw beth sy'n ddigonol i newid fy nghasgliadau cyffredinol. Canfyddaf fod y cydbwysedd ystyriaethau'n awgrymu, pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cynllun arfaethedig Carnedd Wen, y dylid rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y rhan honno o gynnig Llanbrynmair sy'n ymwneud â chodi'r tyrbinau gwynt a'r seilwaith cysylltiedig, ond nid i'r graddau ei fod yn ymwneud â chreu llwybr ar gyfer AILs trwy'r ffordd o Lanerfyl i Dalerddig, yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad D sydd ynghlwm.

ARGYMHELLIAD

675. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer cynllun arfaethedig Carnedd Wen, argymhellaf y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi

ar gyfer y rhan honno o gynnig Llanbrynmair sy'n ymwneud â chodi'r tyrbinau gwynt a'r seilwaith cysylltiedig, ond nid i'r graddau y mae'n ymwneud â chreu llwybr ar gyfer AILs trwy'r ffordd o Lanerfyl i Dalerddig, yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad D sydd ynghlwm.

676. Os penderfynir peidio â rhoi caniatâd ar gyfer cynllun Carnedd Wen, argymhellaf y dylid ceisio SEI arall gyda'r nod o lywio penderfyniad ynghylch a ddylai caniatâd fod yn amodol ar fynediad ar gyfer AILs yn uniongyrchol o'r A458.

Carnedd Wen

*Cysondeb ag amcanion Polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd (Mater Perthnasol (a))*

677. Byddai'r cynnig yn cynhyrchu hyd at 150 MW o drydan o ffynonellau adnewyddadwy ac felly'n gyson â'r amcanion hyn. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r holl gynlluniau sydd gerbron yr ymchwiliad, nid yw cysondeb â'r amcanion hyn ynddo'i hun yn golygu bod y cynnig yn dderbyniol.

*Cysondeb â'r Polisïau sy'n Ymwneud â Chynhyrchu Ynni Adnewyddadwy a Geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol Perthnasol am Seilwaith Ynni: Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011 a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011 (Mater Perthnasol (b))*

678. Rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r tyrbinau 'pump Carnedd Wen' yn cael effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y dirwedd yn lleol, ac effeithiau gweledol niweidiol arwyddocaol. Byddai'r rhain yn codi gan y byddai'r tyrbinau dan sylw wedi'u lleoli ychydig islaw toriad y llethr ar ochr ddeheuol Dyffryn Banwy. Gan y byddai'r niwed yn codi o ddyluniad a gosodiad y cynllun arfaethedig, ystyriaf y byddai'r cynnig yn gwrthdaro â'r angen i ddylunio cynigion yn ofalus, gyda'r nod o leihau niwed i'r dirwedd gymaint â phosibl, ac felly â pharagraff 5.9.8 EN-1. Byddai hefyd yn gwrthdaro â pharagraff 2.7.49 EN-1, yn yr ystyr nad yw trefniant tyrbinau wedi'i ddylunio i leihau effeithiau gymaint â phosibl ar y dirwedd ac amwynder, ac nad oes unrhyw gyfyngiadau technegol, gweithredol neu leoliadol, nac unrhyw gyfyngiadau eraill, o'r pwys mwyaf.

*I ba raddau y mae'r datblygiadau arfaethedig yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 7 (Gorffennaf 2014)(PPW); Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8); ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012); a Chynllun Datblygu Unedol Powys (a fabwysiadwyd yn 2010)(UDP)(Mater perthnasol (c))*

679. Byddai'r tyrbinau arfaethedig wedi'u lleoli o fewn ffiniau cyffredinol TAN 8 ond, fel yr wyf wedi'i nodi'n flaenorol, nid yw hynny'n golygu bod yr holl dir yn addas. Mae nod Llywodraeth Cymru o sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni sy'n sicrhau'r buddiannau mwyaf i'r economi a chymunedau yn cael ei amodi gan yr angen i leihau effeithiau amgylcheddol gymaint â phosibl. Mae PPW yn cydnabod bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyflwyno adeileddau newydd, sy'n aml yn fawr iawn, ar gyfer ynni'r gwynt ar y tir er mwyn osgoi eu heffaith a'i lliniaru lle bynnag y bo'n bosibl (PPW, para 12.8.12). Fel yr wyf wedi'i nodi mewn perthynas â chynnig Llaithddu, er mwyn lleihau effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd

gymaint â phosibl, mae angen bod yn ofalus iawn wrth ddylunio ffermydd gwynt mewn lleoliadau yn agos i ddyffrynnoedd. Mae gosod tyrbinau yn ôl oddi wrth doriad llethr wedi dod yn arfer sefydledig ym Mhowys ac mewn mannau eraill yng Nghymru fel un modd o gyflawni nodau o'r fath. Fel yr wyf wedi'i nodi, ni fyddai gosodiad y cynllun arfaethedig yn dilyn yr arfer hwnnw o ran Dyffryn Banwy. Gan na fyddai dyluniad y datblygiad arfaethedig yn lleihau ei effaith amgylcheddol gymaint â phosibl, deuaf i'r casgliad y byddai gwrthdaro â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 7 (Gorffennaf 2014)(PPW) a Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)(TAN 8).

680. Gan y byddai'r niwed a amlygwyd gennyf yn codi o ganlyniad i ddyluniad a gosodiad cynllun, ystyriaf y byddai'n annerbyniol yng nghyd-destun Polisi E3 yr UDP. Deuaf i'r casgliad hefyd y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â'r cynllun datblygu.

*Amodau*

681. Nid yw RWE yn cytuno bod angen eithrio tyrbinau 'pump Carnedd Wen' o'r cynllun er mwyn i'r cynnig fod yn dderbyniol, ac felly mae'n anghytuno â'r amodau drafft awgrymedig i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, ni ddadleuir y gallai amodau tebyg i'r rheiny gael eu gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu y dylid rhoi caniatâd yn amodol ar eithrio'r tyrbinau hynny o'r cynllun. Ni ddadleuir ychwaith y byddai'r amodau drafft a awgrymwyd gan y Cyngor yn briodol yn yr amgylchiadau hynny.

682. Mae'r Cyngor wedi awgrymu amod sy'n mynnu bod unrhyw fanylion sy'n ofynnol gan amodau eraill yn cael eu rhoi yn ysgrifenedig. Dylai'r gofyniad hwn gael ei gynnwys yn yr amodau gwreiddiol. Mae'n ymddangos bod rhan (b) yr amod awgrymedig yn atal yr awdurdod cynllunio lleol rhag caniatáu unrhyw newid dilynol a fyddai'n cael effaith amgylcheddol sylweddol wahanol, hyd yn oed pe byddai'r effaith honno'n fuddiol neu pe byddai amgylchiadau'n newid. Nid wyf o'r farn bod amod o'r fath yn angenrheidiol nac yn berthnasol i unrhyw ddiben cynllunio. Os bwriadwyd mynnu bod cais yn cael ei wneud ar gyfer unrhyw newid a fyddai'n cael effaith amgylcheddol sylweddol wahanol, yna mae'r amod drafft yn ddiangen a heb fod yn fanwl gywir.

683. Rhagwelir ac asesir y prosiect fel un a fyddai'n cynnwys datgomisiynu tyrbinau dros gyfnod o oddeutu 4 blynedd. Felly, ni fyddai'r hyd caniatâd arferol o 25 mlynedd o'r allforio cyntaf yn briodol. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i gynllun ailbweru Llandinam, ac ystyriaf y byddai amod tebyg, ond am 25 mlynedd o ddyddiad y comisiynu olaf, neu 29 mlynedd o'r dyddiad dechrau, pa un bynnag sydd gynharaf, yn briodol yn yr achos hwn.

684. Mae'r amodau a awgrymwyd gan y Cyngor yn cynnwys gofyniad i gynllun cyswllt cymunedol gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo cyn datgomisiynu. Mewn llawer o amgylchiadau, ceir diben cynllunio pwysig ac amlwg i ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, gan fod y safle'n bell oddi wrth unrhyw anheddiad sylweddol, mae gwaith datgomisiynu yn annhebygol o effeithio ar amwynder preswylwyr lleol. Byddai'r gofyniad yn ddiangen ac yn afresymol o feichus.

685. Ni ddadleuir y dylid caniatáu microleoli er mwyn galluogi hyblygrwydd i leihau effeithiau ar yr amgylchedd naturiol gymaint â phosibl. Byddai'r amod drafft a awgrymwyd gan RWE yn mynnu'n syml bod union leoliad pob rhan o'r datblygiad

yn cael ei gytuno'n ysgrifenedig cyn iddo gael ei weithredu. Fodd bynnag, ni fyddai amod o'r fath yn rhoi unrhyw arwydd o flaen llaw o raddau'r microleoli a fyddai'n cael ei ganiatáu, na'r meini prawf ar gyfer asesu ceisiadau. Gallai hefyd arwain at yr angen am lawer iawn o geisiadau wrth i'r prosiect symud ymlaen. Ystyriaf fod amod drafft y Cyngor, a fyddai'n caniatáu microleoli o fewn 50m ond yn mynnu bod protocol yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo, yn darparu hyblygrwydd rhesymol ac yn llai beichus i'r ddau barti ar hyd cyfnod y prosiect. Felly, byddai'n ddewisach.

686. Mae RWE wedi awgrymu amod yn ymwneud â chymeradwyo lliw a gorffeniad y tyrbinau arfaethedig yr wyf wedi cyfeirio ato yng nghyd-destun cynllun arfaethedig Llanbrynmair. Byddai'n bosibl nodi lliwiau ar y cam hwn. Fodd bynnag, am y rhesymau yr wyf wedi'u rhoi'n flaenorol, ac er mwyn sicrhau ymagwedd gyson â chynllun Llanbrynmair, ystyriaf ei bod yn werth archwilio'r posibiliadau o liwiau ansafonol ac rwyf yn ffafrio'r drafft a awgrymwyd gan RWE.

687. Ni fyddai'r amod a awgrymwyd gan yr ymgeisydd o ran danfoniadau AIL a chynllun ar gyfer archwilio a chynnal arolygon adeileddol o eiddo yn y Trallwng yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir o atal neu adfer unrhyw ddifrod a allai gael ei achosi gan AILs sy'n mynd heibio. Felly, ffafrir drafft y Cyngor.

688. Yn yr un modd â chynllun Llanbrynmair, ymdrinnir yn gynhwysfawr â rheoli danfoniadau AIL yn yr STMP drafft a ystyriwyd yn yr ymchwiliad, a bydd manylion ychwanegol dan reolaeth yr hebryngwyr heddlu angenrheidiol. Gellir mynnu cydymffurfio â'r STMP drafft trwy amodau. Oherwydd y dylai'r llwybr gael ei sicrhau trwy amodau, nid wyf felly'n ystyried bod angen i'r rhan fwyaf o'r manylion ychwanegol a awgrymwyd gan y Cyngor gael eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

689. Achos RWE yw na allai ac na fyddai'n gwrthwynebu Llanbrynmair rhag cael yr hawliau tir angenrheidiol i rannu mynediad o'r A458, neu ddyrannu slotiau danfon trwy'r STMP. Felly, nid yw o'r farn bod angen unrhyw amod i gyflawni'r amcanion a geisir gan y Cyngor. Fodd bynnag, byddai dwyn y ddau ddatblygiad yn eu blaen mewn ffordd gynhwysfawr a boddhaol yn gofyn am fwy na pheidio â gwrthwynebu Llanbrynmair yn unig – nid lleiaf oherwydd y gallai ymagwedd o'r fath arwain at amharu ar amseriad rhaglen gymhleth RWE. Yn ymarferol, ni ddylai cydweithredu ar ddarparu mynediad ar y cyd a rennir fod yn rhwystr. O ran amodau Llanbrynmair, er mwyn i'r dewis arall ar gyfer mynediad a rennir fod yn foddhaol ac yn ymarferol, rwyf wedi dod i'r casgliad y dylai fod rhyw fodd o sicrhau y byddai mynediad ar gyfer AILs Llanbrynmair yn bosibl trwy safle Carnedd Wen.

690. Byddai amodau awgrymedig y Cyngor yn mynnu bod Strategaeth Reoli AIL a TMP Carnedd Wen yn cynnwys manylion sut y gallai defnydd o'r ffordd fynediad i'r safle ymdopi ag AILs ar gyfer cynlluniau Carnedd Wen a Llanbrynmair. Ystyriaf y byddai'r rhain yn ddarpariaethau angenrheidiol a rhesymol. Yn yr un modd, byddai'n angenrheidiol ac yn rhesymol mynnu bod y CTMP a'r CMP (neu CMP/CEMP cyfunedig) yn dangos sut y gall defnydd o gysylltiadau mewnol o fewn y safle ymdopi â thraffig adeiladu ar gyfer y ddau gynllun.

691. Byddai danfoniadau AIL yn ystod cam gweithredu'r datblygiad yn debygol o fod yn anfynych, ac yn amodol ar reolaethau traffig cyffredinol beth bynnag, gan gynnwys gofyniad tebygol ar gyfer hebryngwyr. Ystyriaf y byddai amod sy'n mynnu bod TMP yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo ar gyfer unrhyw gydrannau

newydd AIL yn ystod hyd oes y datblygiad yn ofyniad diangen ac afresymol o feichus.

692. Fel yr wyf wedi'i nodi mewn perthynas â chynigion eraill, dylai amodau yn ymwneud ag adfer unrhyw ddifrod i'r briffordd fod yn gyson â'r rhai hynny a gymhwysir i gynlluniau eraill. Am resymau a roddwyd mewn perthynas â'r rheiny, ystyriaf y byddai'n briodol mynnu bod unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol yn cael ei adfer. Fodd bynnag, byddai'n afresymol mynnu bod yr ymgeisydd yn arolygu'r holl lwybrau priffordd. Yn yr achos hwn, gan na fyddai is-ffyrdd yn cael eu defnyddio ar gyfer traffig adeiladu na thraffig AIL Carnedd Wen, ni fyddai angen arolygon.

693. Byddai RWE yn ffafrio integreiddio ei CMP gyda CEMP. Byddai hyn yn fanteisiol trwy leihau nifer yr amodau sy'n mynnu caniatâd ychwanegol. Gellir crynhoi geiriad y darpariaethau a awgrymwyd gan y Cyngor ac NRW heb golli eglurder na pheryglu'r amcanion.

694. Gan y byddai mesurau i ddiogelu'r amgylchedd dŵr yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau eraill a sicrhawyd trwy amodau, mae amod ar wahân yn ymwneud â chyflenwadau dŵr preifat yn ddiangen.

695. Mae'r amod a awgrymwyd gan y Cyngor mewn perthynas ag archaeoleg yn unol â chanllawiau Cylchlythyr Cymru. Mae'n gadael cynnwys y cynllun ymchwilio ysgrifenedig gofynnol i'r datblygwr yn y lle cyntaf, ac yn fwy hyblyg ac ymatebol i'r wybodaeth sydd ar gael ar yr adeg cyflwyno. Felly, mae'n ddewisach.

696. Cytunir y dylid datblygu cynllun cyswllt cymunedol ar gyfer y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, credaf fod amod drafft y Cyngor yn or-ragnodol yn hyn o beth o ran ei ofynion, a byddai drafft RWE yn sicrhau'r amcanion a ddymunir.

697. RWE yw un o'r datblygwyr nad yw o'r farn bod amod EAM yn angenrheidiol nac yn briodol. Rwyf innau'n anghytuno, am resymau yr wyf wedi'u rhoi'n gynharach.

698. Mae Atodlen amodau argymelledig sy'n cydymffurfio â chyngor Cylchlythyron, sydd i'w gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol â'm hargymhelliad, ynghyd â rhesymau i'r graddau y mae'r rheiny'n ymwneud ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig, wedi'i gosod yn Atodiad E yr adroddiad hwn.

*Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol (gan gynnwys Materion Perthnasol (d) i (n))*

699. Fel y derbynnir gan y Cyngor, byddai'r cynllun hwn yn un sylweddol, gan gynhyrchu (gan gynnwys 'pump Carnedd Wen') hyd at 150Mw o ynni adnewyddadwy. Byddai'n cynrychioli buddsoddiad economaidd mawr gan greu cyfleoedd busnes ar gyfer y gadwyn gyflenwi leol a chadwyn gyflenwi Cymru trwy adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r fferm wynt a'r cynllun rheoli cynefin. Rwyf hefyd wedi canfod y byddai agweddau'r cynnig sy'n ymwneud ag adfer a rheoli cynefin o fudd arwyddocaol o ran mawn, hydroleg, hydroddaeareg, a chynefinoedd yn y tymor canolig i'r tymor hir. Byddai gwelliannau cyffredinol o ran bioamrywiaeth, a budd arbennig i rywogaethau adar prinnach. Mae'r rhain yn fuddiannau sylweddol iawn.

700. Yn yr un modd â chynllun Llanbrynmair, rwyf wedi dod i'r casgliad y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn niweidiol i dirwedd werthfawr a nodweddion gweledol Dyffryn Nant yr Eira. Fodd bynnag, byddai'r niwed yn gyfyngedig i fywyd gweithredol y datblygiad arfaethedig, a fyddai'n arwain yn y pen draw at welliannau i'r dirwedd trwy glirio coedwigaeth ac adfer rhostir. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael effaith weledol sylweddol o'u gweld o nifer o eiddo preswyl yn y dyffryn, ond nid i raddau a fyddai'n annerbyniol. Rwyf wedi dod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith arwyddocaol ar gymeriad tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri. Byddai effeithiau niweidiol arwyddocaol ar y golygfeydd o'r tu mewn i'r Parc yn gyfyngedig i'r rhan dde-ddwyreiniol ac wedi'u cyfyngu i hyd oes y ffermydd gwynt yn unig. Yn y tymor hir, byddai effeithiau buddiol ar olygfeydd o'r Parc. Byddai effaith y datblygiadau arfaethedig ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn fach, boed hynny'n unigol neu mewn cyfuniad â datblygiadau fferm wynt eraill presennol neu arfaethedig.

701. Nid wyf o'r farn y byddai'r cynllun arfaethedig yn debygol o gael effaith niweidiol gyffredinol ar gyfanrwydd Ffordd Glyndŵr neu ei defnydd, naill ai'n unigol neu mewn cyfuniad â chynigion eraill. Nid wyf wedi amlygu unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol ar fwynhad llwybrau hamdden eraill neu dwristiaeth. Yn ddarostyngedig i amodau, byddai effeithiau ar y rhwydwaith trafnidiaeth ehangach yn cael eu lliniaru a byddai effeithiau gweddilliol yn dderbyniol. Ni fyddai unrhyw niwed i iechyd o ganlyniad i sŵn, dirgryniad neu gysgodion neidiol. Byddai'r cynnig yn niwtral at ei gilydd yn hyn o beth.

702. Ar y llaw arall, o ganlyniad i ddyluniad a gosodiad y cynllun arfaethedig, byddai tyrbinau 'pump Carnedd Wen' yn achosi effeithiau niweidiol arwyddocaol yn weledol ac ar y dirwedd o fewn Dyffryn Banwy. Gan na fyddai'r niwed i'r dirwedd yn cael ei leihau gymaint â phosibl, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol, Cymru na lleol. At ei gilydd, ni fyddai buddiannau'r capasiti cynhyrchu 15MW a geid o dyrbinau 'pump Carnedd Wen' yn gorbwyso eu niwed o ran effaith weledol ac effaith ar y dirwedd a'r gwrthdaro cysylltiedig â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol. Yn yr amgylchiadau hyn, ystyriaf na fyddai buddiannau'r cynnig yn gorbwyso'r niwed, ac y dylai'r cynllun, gan gynnwys 'pump Carnedd Wen', gael ei wrthod. Fodd bynnag, byddai hepgor y pum tyrbin hyn yn lleihau effeithiau gweledol ac effeithiau ar y dirwedd gymaint â phosibl o fewn Dyffryn Banwy ac yn goresgyn gwrthdaro â pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

703. Yn yr achos hwn, ni ddadleuir y gellir hepgor pump Carnedd Wen o'r cynllun trwy amod.

704. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill a godwyd ond ni chanfyddaf unrhyw beth sy'n ddigonol i newid fy nghasgliadau cyffredinol. Canfyddaf fod y cydbwysedd ystyriaethau'n awgrymu y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn rhannol, gan hepgor tyrbinau R23, R26, R28, R29 ac R30, ac yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad E sydd ynghlwm.

ARGYMHELLIAD

705. Argymhellaf y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn rhannol, gan hepgor tyrbinau R23, R26, R28, R29 ac R30, ac yn ddarostyngedig i'r amodau a amlinellir yn Atodiad E sydd ynghlwm.

Cysylltiad 132kV Llandinam

*I ba raddau y mae cynnig SP Manweb, gan gynnwys y dewisiadau eraill a ystyriwyd, yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a pholisïau lleol: gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 4 (2011)[115]; Nodyn Cyngor Technegol 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy (2005)[116]; ac Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012)[117]; a Chynllun Datblygu Unedol Powys[118] (a fabwysiadwyd ym mis Mawrth 2010) (Mater Perthnasol (a))*

706. Mae'n amlwg o PPW ac *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel* bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflawni gostyngiad sylweddol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynnydd arwyddocaol mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddi, atgyfnerthu ac uwchraddio'r seilwaith ynni, ac mae TAN 8 yn cyfeirio'n benodol at yr angen am linellau dosbarthu a thrawsyrru 132kV newydd yng nghanolbarth Cymru. Er hynny, fel y mynegir yn PPW, er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cymysgedd priodol o ddarpariaeth ynni ar gyfer Cymru sy'n cynyddu buddiannau i'r economi a chymunedau gymaint â phosibl, mae hefyd yn mynnu y dylai effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol posibl gael eu lleihau gymaint â phosibl. Yn amlwg, mae'n rhaid taro cydbwysedd. O ystyried na fyddai llinell uwchben ar hyd Llwybr D yn cael yr un effeithiau niweidiol, neu na fyddai'n eu cael i'r un graddau o gymharu â chynllun y cais, nid wyf o'r farn bod y cynnig yn taro cydbwysedd priodol. Felly, mae'r cynnig yn gwrthdaro â pholisi Llywodraeth Cymru.

707. Mae polisi C12 yr UDP yn cydnabod y gallai fod rhesymau o'r pwys mwyaf dros beidio â thanddaearu llinellau, a rhoddir arweiniad ychwanegol ym mharagraff 12.12. Yn yr achos hwn, nid oes unrhyw resymau ymarferol neu dechnegol o'r pwys mwyaf dros beidio â thanddaearu, ond ni fyddai'n economaidd ymarferol gwneud hynny ar hyd y llwybr cyfan. Er hynny, am yr un rhesymau ag uchod o ran polisi Llywodraeth Cymru, nid yw'r llinell wedi'i llwybro i leihau ei heffaith ar dirwedd ac amgylchedd naturiol ac adeiledig Powys gymaint â phosibl. O ganlyniad, mae'r cynnig yn gwrthdaro â'r UDP o'i ddarllen yn ei gyfanrwydd.

*I ba raddau y mae'r datblygiad arfaethedig yn gyson ag amcanion polisi'r Llywodraeth ar y cymysgedd ynni a chynnal cyflenwad diogel a dibynadwy o drydan wrth i'r Deyrnas Unedig newid i economi carbon isel, a chyflawni nodau newid yn yr hinsawdd (Mater perthnasol (b))*

708. Nid yw'r Cynllun yn un ar gyfer cynhyrchu ynni ac ni fyddai'n cael unrhyw effaith uniongyrchol ar gynhyrchu'r cydbwysedd ynni yr anelir ato ym mholisi ynni'r Llywodraeth. Fodd bynnag, mae cysylltu ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn hollbwysig er mwyn i'r Llywodraeth gyflawni'r cymysgedd ynni a'r sicrwydd cyflenwad a ddymunir. Yn unol â hynny, ystyriaf fod y Cynllun yn cydymffurfio ag amcanion polisi'r Llywodraeth ynglŷn â'r cymysgedd ynni sydd i'w ddarparu a chyflawni a chynnal cyflenwad trydan diogel a dibynadwy.

---

[115] PPW4 sydd bellach wedi'i ddisodli gan Argraffiad 7
[116] CD/COM/016
[117] CD/COM/033
[118] CD/COM/006

*I ba raddau y mae'r datblygiad arfaethedig yn gyson â'r polisïau sy'n ymwneud â seilwaith rhwydweithiau trydan a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a geir yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol am Seilwaith Ynni, Datganiad Polisi Cenedlaethol Trosfwaol am Ynni (EN-1) Gorffennaf 2011[119], Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5) Gorffennaf 2011[120] a Datganiad Polisi Cenedlaethol am Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) Gorffennaf 2011[121] (Mater perthnasol (c))*

709. Mae EN-1 yn cynnwys rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd i geisiadau ar gyfer NSIPs ynni, o ystyried yr angen brys am y math hwn o seilwaith. Dangoswyd y byddai'r cynnig yn darparu modd effeithlon ac economaidd o gysylltu gorsaf gynhyrchu newydd â'r rhwydwaith trawsyrru neu ddosbarthu yn gymaint ag y bo'r angen amdani wedi'i ddangos yn unol ag EN-1 ac EN-5. Mae'r cynllun hwn a'r cynllun ailbweru fferm wynt wedi'u cyflwyno gyda'i gilydd a'u paratoi mewn ffordd integredig gyda'r ddau'n cael eu hystyried yn yr ymchwiliad yn unol â dyheadau EN-1 ac EN-5.

710. Mae EN-1 yn cydnabod y bydd bron pob NSIP ynni yn cael effeithiau ar y dirwedd. Fodd bynnag, gan ystyried cyfyngiadau lleoli a gweithredu a chyfyngiadau eraill, mae hefyd yn mynnu y dylai niwed i'r dirwedd gael ei leihau gymaint â phosibl ac y dylai mesurau lliniaru rhesymol gael eu darparu lle y bo'n bosibl. Gan na fyddai llinell uwchben i'r Trallwng ar hyd llwybr arall yn cael yr un effeithiau niweidiol, neu na fyddai'n eu cael i'r un graddau, rwyf o'r farn nad yw'r llwybr a ddewiswyd yn lleihau niwed i'r dirwedd gymaint â phosibl ac nad yw ei fuddiannau'n gorbwyso effeithiau gweledol y prosiect.

711. Mae EN-1 hefyd yn datgan y dylai niwed sylweddol i SAMs fod yn gwbl eithriadol ac y dylai caniatâd gael ei wrthod oni bai y gellir dangos bod hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau buddiannau sylweddol i'r cyhoedd sy'n gorbwyso'r niwed. Rwyf wedi amlygu niwed o'r fath i 3 SAM yn ogystal ag 1 ased heb ei ddynodi a ddylai, fel yr wyf wedi'i nodi'n flaenorol, fod yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau polisi ag ased dynodedig. Er y byddai'r cynnig yn arwain at fuddiannau i'r cyhoedd trwy gysylltu ffynhonnell ynni adnewyddadwy â'r grid, nid wyf yn fodlon bod hyn yn ddigonol i orbwyso'r niwed sylweddol a amlygwyd.

712. Byddai'r cynnig yn darparu'r hyn y mae EN-3 yn ei gydnabod yn seilwaith critigol ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy, sydd ynddo'i hun yn allweddol i rwymedigaethau ac amcanion polisi a chyfreithiol y Llywodraeth o ran ynni a'r newid yn yr hinsawdd.

713. Er nad yw llinellau uwchben yn gyffredinol anghydnaws â dyletswyddau statudol adran 9 Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu (DNOs), mae EN-5 yn datgan y gallai'r effeithiau niweidiol posibl yn weledol ac ar y dirwedd mewn lleoliadau arbennig o sensitif olygu bod llinell uwchben yn annerbyniol o safbwynt cynllunio. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn fy arwain i'r casgliad bod yr ardal i'r de o'r Glog ac i'r gogledd o Fryn Ceri yn lleoliad arbennig o sensitif. Byddai effaith llinell uwchben HDWP yn weledol ac ar y dirwedd ar draws yr ardal honno'n annerbyniol yn nhermau cynllunio ac yn codi pryderon difrifol. Trwy fethu ag osgoi'r ardal bwysig hon o'r gwerth amwynder uchaf yn gyfan gwbl, nid

[119] CD/COM/001
[120] CD/COM/003
[121] CD/COM/002

yw'r llwybr yn cydymffurfio â Rheolau Holford, y cyfeirir atynt yn benodol yn EN-5.

714. Am y rhesymau uchod, ystyriaf nad yw'r datblygiad arfaethedig yn gyson â pholisïau sy'n ymwneud â seilwaith rhwydweithiau trydan yn yr NPSs perthnasol.

*Amodau*

715. Rwyf wedi ystyried yr amodau awgrymedig yn sgil y drafodaeth yn yr ymchwiliad, a'r cyngor yn y Cylchlythyrau perthnasol. O ran y cyfnod ar gyfer dechrau datblygu, 5 mlynedd yw'r cyfnod diofyn yng Nghymru. Nid yw'r ffaith y byddai angen dybryd am y cynllun pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 ar gyfer cynllun ailbweru arfaethedig Llandinam yn ddigon o gyfiawnhad dros osod cyfnod byrrach.

716. Os na fydd angen y llinell uwchben mwyach, dylai gael ei datgomisiynu yn amlwg. Mae'r achos o blaid y cais wedi'i seilio ar gynllun ailbweru arfaethedig Llandinam, sydd ag oes weithredol ddisgwyliedig o 25 mlynedd. Mae SPM yn pwysleisio natur wrthdroadwy'r effeithiau gweledol a'r effeithiau ar y dirwedd, yn ogystal â'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol [A6, 245 a 339]. Yn yr amgylchiadau hyn, diwedd y cyfnod 25 mlynedd ddylai fod y sbardun ar gyfer datgomisiynu. Er y nodaf sylwadau SPM, sef y dylai oes y cynllun fod yn gysylltiedig â'i ddefnydd fel ased rhwydwaith [A6, 390], nid oes unrhyw beth i atal SPM rhag gwneud cais am amrywiad o'r amod pe byddai ased cynhyrchu newydd yn yr ardal yn cael ei gyflwyno ar ryw adeg yn y dyfodol. Byddai hynny'n galluogi'r dadleuon o blaid ac yn erbyn cadw i gael eu hystyried yn briodol ar y pryd ac i fod yn destun craffu cyhoeddus [A9, 616 a 617; A7, 12.7].

717. Amlygodd SPM y byddai microleoli'n cyfrannu at y mesurau lliniaru a ddarperir mewn rhai lleoliadau [A6, 280, 308 a 395]. Mae hyn yn rhywbeth y mae gan yr awdurdod cynllunio lleol ddiddordeb dilys ynddo. Nodaf hefyd nad yw wedi awgrymu cyfyngu'r lled coridor 100m mewn unrhyw leoliadau arbennig o sensitif. Ar y llaw arall, cydnabyddaf y gallai mynnu bod yr awdurdod cynllunio lleol yn cymeradwyo lleoliadau polion o flaen llaw dorri ar draws trafodaethau gyda thirfeddianwyr ynglŷn â ble o fewn y coridor 100m y byddai polion yn cael eu gosod. Felly, mae angen taro cydbwysedd rhwng y buddiannau cyhoeddus a phreifat a allai wrthdaro. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu y byddai PCC yn gwrthod caniatâd oni bai bod rhesymau cynllunio dilys dros wneud hynny, ac felly rwyf o'r farn y byddai cyfiawnhad dros fynnu bod lleoliadau polion yn cael eu cymeradwyo o flaen llaw.

718. Mae Atodlen amodau argymelledig sy'n cydymffurfio â chyngor Cylchlythyron, sydd i'w gosod os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 37 a chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol â'm hargymhelliad, ynghyd â rhesymau i'r graddau y mae'r rheiny'n ymwneud ag unrhyw ganiatâd cynllunio tybiedig, wedi'i gosod yn Atodiad F yr adroddiad hwn. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd ar gyfer y llwybr cyfan, yn groes i'm hargymhelliad, bydd angen i hynny gael ei adlewyrchu yn niffiniad "datblygiad" trwy ddileu'r cyfeiriad at bwyntiau A a B.

*Cydbwysedd Cynllunio a Chasgliadau Cyffredinol (gan gynnwys Materion Perthnasol (d) i (h))*

719. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 ar gyfer cynllun ailbweru fferm wynt arfaethedig Llandinam, byddai angen cysylltiad 132kV o'r is-orsaf gysylltiedig. Byddai'r llinell uwchben arfaethedig yn mynd i'r afael â'r angen hwnnw ac yn cyfrannu at gyflawni dyletswydd SPM i ddatblygu a chynnal system effeithlon, gydlynol ac economaidd o ddosbarthu trydan. Er hynny, ceir dyletswydd hefyd i roi ystyriaeth i ddymunoldeb gwarchod, cadw a diogelu'r amgylchedd a darparu mesurau lliniaru rhesymol.

720. Rwyf wedi amlygu y byddai'r cynnig yn cael effaith o arwyddocâd mawr ar dirwedd Rhan B, ac effaith weledol niweidiol fawr yn yr ardal honno, sy'n lleoliad arbennig o sensitif. Er gwaethaf y ffaith y gallai ffurfiau eraill o seilwaith ynni gael effeithiau gwaeth, byddai hyn yn annerbyniol o safbwynt cynllunio ac yn codi pryderon difrifol. Rwyf hefyd wedi amlygu y byddai niwed sylweddol i leoliad pedwar ased treftadaeth ddiwylliannol. Yn y cyfryw amgylchiadau, mae'r cynnig yn gwrthdaro â pholisi Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Datblygu, ac nid yw'n gyson â pholisïau yn ymwneud â seilwaith rhwydweithiau trydan yn yr NPSs perthnasol.

721. Gan fy mod wedi nodi gwrthwynebiadau cynllunio eglur, ac un caniatâd y gellir ei roi yn unig, mae'n gwbl briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a oes dewisiadau eraill na fyddent yn cael yr un effeithiau niweidiol, neu na fyddent yn eu cael i'r un graddau. Fodd bynnag, am resymau a roddwyd eisoes, nid yw cysylltiad ar 33kV, cysylltiad 132kV â'r Drenewydd neu Garno, cysylltu â'r foth arfaethedig yng Nghefn Coch, datrysiad Trident rhannol yn defnyddio RES, tanddaearu llawn, neu danddaearu yn y pen gogleddol yn cyfiawnhau ystyriaeth ychwanegol.

722. Mae uwchraddio cynllun y cais yn cyfiawnhau ystyriaeth ychwanegol dim ond os yw'r capasiti cynhyrchu a ganiateir yn SSA C islaw oddeutu 160MW (brasamcan o uchafswm y capasiti cynhyrchu y gallai'r llinell ei gynnal pe byddai'n cael ei huwchraddio). Yn yr achos hwn, dylid ystyried a fyddai'r budd sy'n gysylltiedig â galluogi mwy o ynni i gael ei allforio o SSA C heb lawer o effaith ychwanegol ar yr amgylchedd neu ddim effaith ychwanegol arno o gwbl yn gorbwyso'r oedi sy'n rhan annatod o gynhyrchu, hysbysebu, ymgynghori ac adrodd ar SEI arall yn ymwneud â newidiadau dylunio angenrheidiol. Yn fy marn i, byddai'r buddiannau'n sylweddol ac ni fyddai'r oedi'n ormodol. Pe byddai'r capasiti cynhyrchu a ganiateir yn SSA C yn mynd yn fwy nag oddeutu 160 MW, byddai angen llinell ychwanegol beth bynnag, ac ni fyddai unrhyw werth mewn uwchraddio llinell Llandinam.

723. Rwyf wedi dod i'r casgliad y gallai llwybr arall ar gyfer llinell uwchben i'r Trallwng arwain at gryn dipyn yn llai o niwed yn gyffredinol, gan felly gydymffurfio'n agosach â pholisïau Llywodraeth Cymru a'r UDP, ac nad yw SPM wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau Atodlen 9. Er hynny, byddai gweithredu'r datrysiad hwn yn gofyn am gais newydd, gan gynnwys ES, ac yn arwain at oedi sylweddol, fel y cydnabuwyd gan PCC [A9, 780]. Yn hynny o beth, mae EN-1 yn datgan ei bod yn bwysig ystyried a fyddai'n realistig y byddai dewis arall yn gallu cyflawni'r un capasiti seilwaith o fewn yr un raddfa amser â'r datblygiad arfaethedig ai peidio.

724. Er fy mod wedi amlygu pryderon difrifol am yr effeithiau niweidiol posibl yn weledol ac ar y dirwedd yn Rhan B, mae EN-5 yn datgan y dylid gwrthod caniatáu cynigion ar gyfer llinell uwchben o blaid llinell danddaear dim ond os byddai

buddiannau'r llinell arall nad yw uwchben yn amlwg yn gorbwyso unrhyw effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol a bod modd goresgyn yr anawsterau technegol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi nad yw EN-5 yn ceisio ailadrodd y deunydd a amlinellir yn EN-1, sy'n berthnasol i bob cais sy'n dod o dan EN-5 oni bai y nodir fel arall, ac y dylid eu darllen gyda'i gilydd. Mae EN-1 yn datgan y dylai niwed sylweddol i heneb restredig fod yn 'gwbl eithriadol'.

725. Byddai tanddaearu yn Rhan B yn arwain at gryn dipyn yn llai o niwed yn gyffredinol ac felly'n cydymffurfio'n agosach â pholisïau Llywodraeth Cymru a'r UDP, heb unrhyw anfanteision o bwys o ran amseru. Mae lefel y gostyngiad a'r gydymffurfiaeth yn amrywio rhywfaint rhwng y dewisiadau. Mae PCC yn derbyn bod y gost ychwanegol yn anfantais o bwys. Mae'r gost ychwanegol a nodwyd yn amrywio o ychydig yn llai na £6.65 miliwn i £14.8 miliwn, ond o ystyried y lleoliad gwledig iawn, mae'r elfen cost oes yn yr uchod yn debygol o fod wedi'i gorbwysleisio.

726. Ni fyddai'r un o'r pedwar dewis, heblaw'r un drutaf, yn osgoi'r niwed sylweddol i Feddrod Bryn Cwmyrhiwdre. Fodd bynnag, mae ei leoliad eisoes wedi dirywio rhywfaint ac ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effeithiau mawr ar y dirwedd yn ei gyffiniau. Yn y cyfryw amgylchiadau, a chan gydnabod costau tanddaearu helaeth, mae PCC o'r farn bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli. Cytunaf fod ymagwedd bragmatig o'r fath yn briodol. Derbyniaf hefyd y byddai cost ychwanegol tanddaearu'r 0.8km olaf yn y pen dwyreiniol yn anghymesur o ran y manteision canlyniadol yn weledol ac ar y dirwedd, gan y byddai'r rhan hon o linell uwchben yn isel yn y dyffryn ac ni fyddai i'w gweld o Gefnffordd Ceri.

727. Mae hynny'n gadael tri dewis o rhwng oddeutu 4km a 6km o hyd, y byddai gan un ohonynt gostau ychwanegol o lai na £9.55 miliwn, ac y byddai gan y ddau arall gostau ychwanegol o lai na £6.65 miliwn. Byddent oll yn darparu manteision sylweddol yn weledol ac i'r dirwedd o gymharu â'r llinell uwchben, gan gadw adnodd tirwedd gwerthfawr heb ei niweidio, ac yn osgoi niwed sylweddol i ddwy SAM ac ased heb ei ddynodi. Yn fy marn i, mae'r buddiannau amgylcheddol hyn yn ddigonol i gyfiawnhau costau ychwanegol o'r fath a ddyfynnwyd uchod. Felly, deuaf i'r casgliad bod dewis tanddaearu'n bodoli, y byddai ei fuddiannau'n gorbwyso unrhyw effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ychwanegol yn glir, a bod modd goresgyn yr anawsterau technegol.

728. Nid yw Rhan B mewn tirwedd ddynodedig. Er hynny, mae ei nodweddion golygfaol yn arbennig o uchel ac mae'n cydffiniol ag AONB bresennol ac yn ymddangos yn gymharol iddi o ran ansawdd. Yn ogystal, mae EN-1 yn datgan yn eglur y dylai niwed sylweddol i SAMs fod yn gwbl eithriadol. Yn amgylchiadau penodol yr achos hwn, rwyf o'r farn na fyddai mynnu tanddaearu rhannol i bob pwrpas trwy gymeradwyo llinell uwchben gyda bwlch ynddi yn gostwng y trothwy uchel ar gyfer tanddaearu a osodwyd gan bolisi cenedlaethol.

729. Mae'r bwlch yn y llinell uwchben ar gyfer y tri dewis yn cychwyn ar yr un pwynt pellaf i'r gorllewin. Mae SPM a PCC yn cytuno, pe byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd ar gyfer llinell uwchben gyda bwlch ynddi, y dylai'r ehangder pellaf i'r dwyrain fod mor bell â phosibl i'r gorllewin er mwyn darparu'r hyblygrwydd mwyaf. O'r tri dewis, dewis 4.2km PCC sydd â'r terfyn mwyaf gorllewinol i'w ben dwyreiniol a hwnnw yw'r un a ddylai gael ei nodi mewn

unrhyw ganiatâd a chaniatâd cynllunio tybiedig. Byddai hyn yn gadael SPM yn rhydd i ymestyn y bwlch pe byddai rhesymau cadarn dros wneud hynny ar ôl ymchwilio ymhellach, gan gynnwys trafodaethau â Cadw ynglŷn â sut i groesi llinell y croesglawdd.

730. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill a godwyd ond ni chanfyddaf unrhyw beth sy’n ddigonol i newid fy nghasgliadau cyffredinol. Canfyddaf fod cydbwysedd yr ystyriaethau’n awgrymu, os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 ar gyfer cynllun ailbweru fferm wynt arfaethedig Llandinam, y dylid rhoi caniatâd adran 37 ar gyfer y llinell uwchben yn rhannol, gan hepgor y rhan rhwng pwyntiau A a B ar Gynllun A a atodwyd i’r diffiniad o ddatblygiad yn Atodiad F, ac yn ddarostyngedig i’r amodau a amlinellir yn Atodiad F. Fodd bynnag, os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 ar gyfer cynllun ailbweru fferm wynt arfaethedig Llandinam, yna dylai caniatâd adran 37 ar gyfer y llinell uwchben gael ei wrthod hefyd. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 na fyddai’n mynd â’r capasiti gosodedig yn SSA C dros 160MW, dylid ceisio SEI arall gyda’r nod o lywio penderfyniad ynghylch a ddylai caniatâd fod yn amodol ar uwchraddio’r llinell i gapasiti uwch.

**ARGYMHELLIAD**

731. Yn amodol ar yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 ar gyfer cynllun ailbweru fferm wynt arfaethedig Llandinam, argymhellaf y dylai caniatâd o dan adran 37 *Deddf Trydan 1989* a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi yn rhannol, gan hepgor y rhan rhwng pwyntiau A a B ar Gynllun A a atodwyd i’r diffiniad o ddatblygiad yn Atodiad F, ac yn ddarostyngedig i’r amodau a amlinellir yn Atodiad F. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd a chaniatâd cynllunio tybiedig ar gyfer y cynllun cyfan, dylai’r cyfeiriad at bwyntiau A a B yn niffiniad “datblygiad” yn yr Atodiad, a Chynllun A gael eu dileu.

732. Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi caniatâd adran 36 na fyddai’n mynd â’r capasiti gosodedig yn SSA C dros 160MW, argymhellaf y dylid ceisio SEI arall gyda’r nod o lywio penderfyniad ynghylch a ddylai caniatâd fod yn amodol ar uwchraddio’r llinell i gapasiti uwch.

*A D Poulter*

**AROLYGYDD**

**YMDDANGOSIADAU**

*Sylwer: Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys y dadleuwyr dros y brif dystiolaeth y dibynnwyd arni gan y Cyngor, Ymgyngoreion, a'r Gynghrair, a'r unigolion a'i cyflwynodd.*
*Cyflwynwyd llawer o ddatganiadau ysgrifenedig eraill gan unigolion a sefydliadau cynrychioliadol. Siaradodd cannoedd o breswylwyr lleol a phobl eraill â diddordeb yn ystod sesiynau'r ymchwiliad, naill ai yn y prif leoliad neu yn ystod sesiynau gyda'r nos mewn canolfannau cymunedol ac yn y Trallwng. Mae'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymchwiliad wedi'u hystyried, ond nid yw'n ymarferol rhestru enwau'r holl unigolion a'u cyflwynodd.*

AR RAN YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL:

Mr S Bird QC
Mr T Cosgrove, Cwnsler
Ms C Parry, Cwnsler

Galwasant:

| | |
|---|---|
| Mr M Carpenter MRTPI | Polisi Cynllunio ac Ynni |
| Mr P Russell-Vick Dip LA CMLI | Tirwedd |
| Mr D Williams BSc MSc MICE | Trafnidiaeth Leol |
| Mr A Croft BA MA | Treftadaeth Ddiwylliannol |
| Mr M Russell BEng MCIHT | Trafnidiaeth Leol |
| Mr D Woodfield CEnv MCIEEM | Ecoleg |
| Mr M Axon CE FCIHT MTPS | Trafnidiaeth Strategol |
| Mr P Bufton BSc(Anrh) EHORB CIEH | Sŵn (Modylu Osgledau) |

AR RAN CYFOETH NATURIOL CYMRU:

Mr B Smith

Galwodd:

| | |
|---|---|
| Mr P Minto BA MA AM DPhil MRTPI | Cydbwysedd Cynllunio |
| Mr R Mathews BSc(Anrh) MSc | Gylfinirod |
| Mr J Pearce-Higgins BSc(Anrh) PhD | Gylfinirod |
| Ms S Whitehead BSc(Anrh) DPhil | Gylfinirod |
| Mr J Campion BA(Anrh) BLD MSc CMLI MCIEEM | Tirwedd |
| Ms E Halliwell BSc(Anrh) PhD | Pathewod |
| Ms J Matthews BA(Anrh) MPhil | Ystlumod |
| Mr J Davies BSc MSc CEnv MCIEEM | Pathewod |
| Ms Paola Reason BSc MSc CEnv MCIEEM MIEMA | Ystlumod / Coed Hynafol |

AR RAN Y GYNGHRAIR

Mr D Smith, Cwnsler (Sesiwn Agoriadol)
Mr B Kibble
Mrs J Kibble
Mr C Green
Mrs A Davies
Mr R Bonfield
Ms M Lloyd

Galwasant:

| | |
|---|---|
| Mr R Durgan BEng CEng MICE | Trafnidiaeth Leol a Strategol |
| Mr B Kibble CEng MIMechE BSc(Anrh) | Treftadaeth Ddiwylliannol / Mawn / Cysylltiadau Grid a Thrawsyrru / Cydbwysedd Cynllunio a Charbon |
| Mr R Bonfield | Datgomisiynu (Cysylltiad Grid) / Ymgynghori, Angen a Dylunio |
| Ms A Davies | Bywyd Gwyllt ac Ecoleg / Ymgynghori â'r Gymuned |
| Ms M Lloyd | Coetiroedd ac Ecoleg |
| Mr G Weller BSc CEng FIEE | Sŵn Modylu Osgledau / Traffig Adeiladu (Cysylltiad Grid) |
| Mrs J Kibble | Twristiaeth a'r Economi |
| Mr D Watkins | Tirwedd |
| Dr H Rodda PhD MCIWEM | Hydroleg |
| Dr J Constable BA MA PhD FRSA | Cydbwysedd Cynllunio / Angen Cyffredinol |
| Mr S Wood | Proffiliau Cymunedol |
| Dr S Myhill | Sŵn ac Iechyd |
| Mr P Brebner (cyflwyniadau unigol) | Diogelwch Awyr |

AR RAN VATTENFALL (Llanbadarn Fynydd):

Mr Patrick Robinson

Galwodd:

| | |
|---|---|
| Mr D Bell BSc(Anrh) DipUD MRTPI MCIHT | Polisi Cynllunio ac Ynni / Effeithiau Economaidd-gymdeithasol |
| Mr I Gates BA(Anrh) MLD CMLI | Tirwedd a Gweledol |
| Mr S Atkinson BA(Anrh) PGDip MIFA | Amgylchedd Hanesyddol |
| Mr D Humpheson BSc(Anrh) MSc MIOA | Sŵn ac Iechyd |
| Dr S Salmon MSc PhD MCIWEM | Hydroleg a Hydroddaeareg |
| Mr P Mansell BSc CEng MICE FCIHT | Trafnidiaeth Strategol |

AR RAN FFERM WYNT LLAITHDDU CYF (Llaithddu):

Mr R Kimblin, Cwnsler

Galwodd:

| | |
|---|---|
| Mr D Parker RTPI | Polisi a Chydbwysedd Cynllunio |
| Mr C Goodrum BSc(Anrh) DipLA FLI | Tirwedd a Gweledol |
| Mr G Buchan BEng(Anrh) MSc CMILT MCIHT | Trafnidiaeth |
| Mr C Le Quesne MA MIFA | Amgylchedd Hanesyddol |
| Mr D Harries, Cyfarwyddwr FWLC | Buddiannau Cymunedol ac Eraill |

AR RAN CELTPOWER (Ailbweru Llandinam):

Mr A Newcombe QC

Galwodd:

| | |
|---|---|
| Mr P Frampton BSc(Anrh) TP MRICS MRTPI | Polisi a Chydbwysedd Cynllunio |
| Mr J Welch FLI | Tirwedd |
| Mr D Tucker MSc CEng MICE MIHT | Traffig, Mynediad a Thrafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| Dr J Edis BA MA PhD MIFA IHBC | Treftadaeth |
| Dr M Cand PhD | Sŵn |
| Ms B Walker BSc(Anrh) MIAIA | Daeareg, Hydroleg, Hydroddaeareg |
| Dr S Holloway BSc PhD CMIEEM CEnv | Ystlumod |
| Mr D MacArthur BSc(Anrh) MSc MIEEM | Ecoleg |
| Dr P Whitfield BSc PhD | Adareg |
| Mr G Parker MICE IEng MBA MCMI | Adeiladu |
| SQN LDR M Hale MBE MSc CFS RAF(Rtd) | Awyrennu |

AR RAN RES UK & IRELAND (Llanbrynmair):

Mr V Frazer QC

Galwodd:

| | |
|---|---|
| Mr D Stewart MA DipTP MRTPI | Polisi a Chydbwysedd Cynllunio / Materion Economaidd-gymdeithasol a Thwristiaeth |
| Mr M van Grieken FLI | Tirwedd |
| Mr K Martin BEng CEng MICE | Trafnidiaeth |
| Mr S Carter BSc PhD MIfA FSAScot | Treftadaeth Ddiwylliannol |
| Dr A McKenzie PhD BSc FIOA | Sŵn |
| Mr J Ferry MSc MSc | Mawn a Hydroleg Mawn |
| Mr M Green MA BSc CEnv FIEEM | Cynefinoedd |
| Dr S M Percival BSc(Anrh) PhD MCIEEM | Adareg |
| Dr P Shepherd BSc(Anrh) PhD MIEEM | Ystlumod |

AR RAN RWE NPOWER RENEWABLES LIMITED (Carnedd Wen):

Mr M Trinick QC

Galwodd:

| | |
|---|---|
| Mr K Craddick BA(Anrh) MSc MRTPI | Polisi a Chydbwysedd Cynllunio / Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol gan gynnwys Tir Comin |
| Mr J Stevenson MA MPhil DipEconDev CMLI MRTPI MInstEnvSci MIE FRGS | Tirwedd a Gweledol |
| Mr C Piper BSc(Anrh) MICFor | Coedwigaeth |
| Mr S Atkinson BSc(Anrh) CEng MICE MCIHT MAPM | Trafnidiaeth Leol a Strategol |
| Mr M Houtmeyers BEng(Anrh) | Adeiladu |
| Mr A Bullmore BSc PhD MIOA | Sŵn |
| Dr A Edwards BSc(Anrh) PhD CGeol EurGeol FGS | Hydroleg a Hydroddaeareg |
| Dr A Mills BSc(Anrh) MSc PhD CGeol | Mawn |
| Mr S Lowther BA(Anrh) MSc CEnv MCIEEM | Ecoleg |

AR RAN SP MANWEB PLC (Llinell 132kV Llandinam):

Mr M Humphrey QC
Mr M Westland-Smith, Cwnsler

Galwasant:

| | |
|---|---|
| Ms K Berry BA(Anrh) RTPI | Polisi Cynllunio |
| Ms S Gibson BSc MLD CMLI | Tirwedd a Gweledol |
| Mr A Davies MSc CILT MIH MAPM | Trafnidiaeth a Phriffyrdd |
| Mr R Livingston Rheolwr Adrannol, Amey PLC | Adeiladu a Chynnal a Chadw |
| Mr D Bonner BA(Anrh) | Treftadaeth Ddiwylliannol |
| Dr J Swanson MA DPhil | Iechyd |
| Mr J James BSc MSc MCIEEM CEnv | Ecoleg |
| Mr R Brooke BSc MSc RTPI | Economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys Twristiaeth) |
| Dr A Beddoes BEng(Anrh) PhD MIET CEng | Dyluniad Rhwydwaith ac Angen |
| Mr E Leavy BSc MICE CEng | Polisi’r Cwmni |
| Mr E Paalman BEng | Dyluniad Prosiect Peirianneg |

**Atodiad A**
**Cynllun Ailbweru Llandinam – Rhestr Amodau**

**Caniatâd dan adran 36 Deddf Trydan 1989 – Amodau**

1. Yn unol ag adran 36 Deddf Trydan 1989, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ("yr Ysgrifennydd Gwladol") trwy hyn yn rhoi caniatâd i ddatgysylltu a chael gwared â'r fferm wynt bresennol ac adeiladu, ar yr ardal o dir sydd wedi ei darlunio â llinell goch ddi-dor ar ddyluniad rhif A4-1AD ("y Safle), gorsaf generadu tyrbinau gwynt ("y Datblygiad") ar dir ar grib Waun Ddubarthog ger Llandinam, a gweithredu'r orsaf eneradu honno. Rhoddir y caniatâd hwn i Celtpower Limited ("y Cwmni"), ei aseineion a'i olynwyr.

2. Yn amodol ar unrhyw amrywiad yn unol ag amod 3, bydd y Datblygiad yn cynnwys:
   - Datgymalu (datgomisiynu) y fferm wynt bresennol, gan gynnwys:
   - Datgymalu a chael gwared â 102 o dyrbinau gwynt a'r seilwaith cysylltiedig
   - Uwchraddio nifer o'r lloriau caled presennol a'r llwybrau presennol i ganiatáu mynediad i graen yn ystod y datgymalu
   - Ailbweru ac estyn y fferm wynt, gan gynnwys:
   - Codi 31 o dyrbinau gwynt sydd ag uchder hyd at flaen y llafn o hyd at 121.2 metr, a 3 thyrbin (T29, T3 a T43) sydd ag uchder hyd at flaen y llafn o hyd at 111.2m.
   - Lloriau caled ar gyfer craen
   - Uwchraddio ac adeiladu llwybrau mynediad at y safle a chroesfannau cysylltiedig ar gyfer cyrsiau dŵr
   - Uwchraddio mynedfa'r safle o'r A483
   - Isbwerdy ar y safle
   - Dau fast Asesu Perfformiad Pŵer (PPA) parhaol
   - Ceblau tanddaearol ar y safle
   - Tri chaeadle adeiladu ac ardal dadlwytho dros dro
   - Mastiau Asesu Perfformiad Pŵer dros dro
   - Wyth pwll benthyg
   - Datgomisiynu'r fferm wynt ar ddiwedd ei hoes

   Bydd y fferm wynt arfaethedig, fel y dangosir yn nyluniad A4-1AD, yn amodol ar ficroleoli ac amrywiadau yn unol ag amodau 21 i 23 o'r caniatâd hwn, a dyluniad LLA-P-009 Diwygiad A34 Dalenni 1 a 2.

3. Yn amodol ar unrhyw fân newidiadau y gellir eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (fel y diffinnir yn amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig ("yr Amodau Cynllunio) a amlinellir ym mharagraff 8 isod), caiff y Datblygiad ei adeiladu a'i weithredu'n unol â'r manylion a gynhwysir yn y Datganiad Amgylcheddol, i'r graddau nad yw'r rhain yn gwrthdaro ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Amodau Cynllunio na thelerau unrhyw gynllun, rhaglen, datganiad, cynllun, manylion neu adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol dan yr Amodau Cynllunio.

4. Bydd y Datblygiad yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

5. Ni chaniateir i'r Cwmni aseinio'r caniatâd hwn heb gael awdurdodiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd (ag amodau neu beidio) neu wrthod y cyfryw awdurdodiad fel y gwêl orau, yn ôl ei ddoethineb ei hun. Ni fydd modd aseinio, arallu na throsglwyddo'r caniatâd ac eithrio'n unol â'r weithdrefn rag-grybwylledig.

**Caniatâd Tybiedig dan Adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Amodau**

6. Yn yr amodau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn golygu fel arall:

mae gan **"llwyth anwahanadwy anghyffredin"** yr un ystyr ag yng Ngorchymyn Cerbydau Ffordd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003(a);

mae **"dechrau'r datblygiad"**, mewn perthynas â'r datblygiad awdurdodedig, yn golygu'r dyddiad y bydd y datblygiad awdurdodedig yn dechrau trwy gyflawni gweithrediad perthnasol fel y diffinnir yn adran 56 Deddf 1990, a chaiff "dechrau" a "dechreuodd" eu dehongli'n unol â hynny;

ystyr **"cyfnod adeiladu"** yw'r cyfnod o ddechrau'r gwaith ar y Datblygiad hyd at y dyddiad 6 mis ar ôl i gaeadleoedd y Safle gael eu hadfer yn unol ag amodau'r caniatâd hwn;

mae **"dB"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel;

mae **"dB(A)"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel, gan gynnwys yr hidlydd pwysoliad-A yn y mesuriadau y cyfeirir atynt yn ETSU-R-97;

mae **"datblygiad"** fel y diffinnir yn amod 1 y caniatâd hwn.

mae **"ETSU-R-97"** yn golygu Adroddiad ETSU rhif ETSU-R-97 *'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms'*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996;

mae **"comisiynu terfynol y datblygiad"** yn golygu'r dyddiad y caiff y generadur tyrbin gwynt olaf sy'n ffurfio rhan o'r Datblygiad ei gomisiynu a'i fod yn generadu trydan i'r grid cenedlaethol;

mae **"allforyn cyntaf"** yn golygu'r dyddiad y caiff trydan ei allforio i'r grid ar sail fasnachol am y tro cyntaf;

mae **"LA90"** yn golygu'r lefel desibelau (dB) y rhagorwyd arni ar gyfer 90% o bob cyfnod sampl;

mae "**Awdurdod Cynllunio Lleol**" yn golygu Cyngor Sir Powys neu unrhyw awdurdod olynol;

mae **"gŵyl gyhoeddus"** yn golygu diwrnod a ddethlir yn ŵyl gyhoeddus;

ystyr **"safle"** yw'r tir oddi mewn i ffin y datblygiad a amlinellir yn goch ar y map sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn;

ystyr **"buanedd y gwynt"** yw buanedd y gwynt a fesurir ar Safle'r fferm wynt ar uchder both y tyrbin, ac wedi ei gywiro i uchder safonol o 10m uwchben lefel y ddaear, mewn modd y cytunwyd arno â'r Awdurdod Cynllunio Lleol;

ystyr **"tyrbinau gwynt"** yw'r tyrbinau gwynt sy'n ffurfio rhan o'r datblygiad, a chaiff "tyrbin gwynt" ei ddehongli'n unol â hynny.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

7. Lle y caiff manylion, trefn neu gynllun eu cyflwyno i'w cymeradwyo neu eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol dan unrhyw amod, yna oni bai bod yr amod yn darparu fel arall:
   (a) rhaid i'r manylion neu drefn neu gynllun a'r gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig; ac
   (b) ystyrir bod y manylion, trefn neu'r cynllun cymeradwy yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a all gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol wedi hynny, ar yr amod na all yr awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau lle byddai'r diwygiadau hynny'n arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol wahanol i'r rhai a aseswyd yn y datganiad amgylcheddol.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

**Y Datblygiad**

8. Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a'r dogfennau canlynol:
   a) Cynllun y cais, sydd wedi ei labelu'n Ffigur A4-1AD, a gyflwynwyd i DECC ym mis Ebrill 2013.
   b) Y Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd i DECC ym mis Medi 2008.
   c) Y Wybodaeth Amgylcheddol Atodol a gyflwynwyd i DECC ym mis Rhagfyr 2011.
   d) Y Wybodaeth Amgylcheddol Atodol a gyflwynwyd i DECC ym mis Ebrill 2013.

   - yn amodol ar ficroleoli, yn unol ag amodau 21 i 23.

   Er y cyfeirir at Ddatganiad Amgylcheddol mis Medi 2008 a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol mis Rhagfyr 2011 yn yr amod hwn, iteriad diweddaraf y dyluniad ar gyfer y Datblygiad a ddangosir yng nghynllun y cynnig a awdurdodir gan y caniatâd hwn.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

9. Mae'r caniatâd hwn am gyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad y comisiynu terfynol, neu 28 mlynedd o'r dyddiad dechrau, pa un bynnag yw'r cynharaf. Wedi hynny, caiff y Datblygiad ei ddatgomisiynu a chaiff y Safle ei adfer.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth a phennu cyfnod y caniatâd hwn.*

10. Rhoddir cadarnhad o'r dyddiad dechrau i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen mis o ddigwydd.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

11. Rhoddir cadarnhad o ddyddiad y Comisiynu Terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol heb fod yn hwyrach nag un mis calendr wedi'r digwyddiad hwnnw.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

**Datgomisiynu Fferm Wynt bresennol Penrhyddlan a Llidiartywaun**

12. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei godi nes y caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu fferm wynt bresennol Penrhyddlan a Llidiartywaun ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo. Bydd y cynllun yn cynnwys cael gwared â'r tyrbinau presennol, a chael gwared ag unrhyw lwybrau, ceblau (gan gynnwys cysylltiad y grid â'r Drenewydd) a seilwaith diangen arall nas cedwir. Bydd y cynllun yn mynnu datgymalu'r tyrbinau presennol yn gyfan gwbl a'u tynnu o'r safle heb fod yn hwyrach na 24 mis ar ôl Dechrau'r Datblygiad, a bydd yn mynnu bod unrhyw lwybrau, ceblau (gan gynnwys cysylltiad y grid â'r Drenewydd) a seilwaith diangen arall nas cedwir yn cael ei dynnu heb fod yn hwyrach na blwyddyn ar ôl Comisiynu Terfynol y Datblygiad. Wedi hynny, caiff y datgomisiynu ei gwblhau'n unol â'r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y cynllun blaenorol ei dynnu mewn modd cytûn ac y caiff y safle ei adfer i gyflwr priodol.*

**Datgomisiynu ac Adfer y Safle**

13. Heb fod yn llai na 12 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben yn unol ag amod 2, caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu ac adfer y Safle ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon diweddar o gynefinoedd, adar a rhywogaethau a'i weithredu a'i gwblhau cyn pen 24 mis wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben. Bydd y cynllun yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i:
    a) lleoliad ardaloedd dadlwytho deunyddiau;
    b) cynllun rheoli amgylcheddol sydd wedi ei lywio gan arolygon cynefinoedd, adar a rhywogaethau sy'n cynnwys manylion am fesurau a gymerir yn ystod y cyfnod datgomisiynu i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd;
    c) manylion am yr holl lwybrau, strwythurau, adeiladau, ceblau tanddaearol a chyfleustodau, a seilwaith cysylltiedig arall sydd i'w tynnu;
    d) manylion am y dull tynnu;
    e) symud daear ac amnewid pridd;
    f) adfer y dirwedd;
    g) monitro'r ardaloedd adferedig a'r camau gweithredu adferol.

*Rheswm: er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei dynnu mewn modd cydymdeimladol wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben.*

14. Cyn rhoi'r Cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle ar waith, caiff cynllun cyswllt â'r gymuned ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cyswllt â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwywyd a bydd yn cynnwys:
    a) manylion am gyswllt y datblygwr â'r gymuned leol er mwyn sicrhau y caiff preswylwyr eu hysbysu am sut mae datgomisiynu'r datblygiad yn dod yn ei flaen;
    b) dull ar gyfer delio â chwynion gan y gymuned leol wrth ddatgomisiynu'r datblygiad; a
    c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

15. Ar ôl cwblhau'r gwaith adfer a gyflawnir yn unol ag amod 13, caiff unrhyw offer, peiriannau ac adeiladau a godwyd neu a ddaethpwyd â nhw i'r safle at ddiben Datgomisiynu a gweithredu cynllun Adfer y safle, eu tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

16. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r Cwmni gyflwyno manylion am offeryn ariannol i'r awdurdod cynllunio lleol, ynghyd â threfniadau a fydd yn sicrhau bod digon o gyllid i gwmpasu costau datgomisiynu ac adfer y safle ar gael i'r awdurdod cynllunio cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Bydd yr offeryn ariannol yn cynnwys trefniadau i gyllid cynyddu â chwyddiant ac yn cynnwys darpariaeth adolygu 5, 10, 15 ac 20 mlynedd ar ôl yr Allforyn Cyntaf er mwyn sicrhau bod y cyllid yn ddigonol o hyd i dalu costau datgomisiynu ac adfer y safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

17. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r offeryn ariannol, nes bod yr offeryn ariannol ar waith ac y gwneir trefniadau i sicrhau y bydd cyllid ar gael cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Caiff yr offeryn ariannol ei gynnal trwy gydol cyfnod y caniatâd ac adfer, a chaiff y trefniadau ar gyfer adneuo cyllid, addasiadau chwyddiant ac adolygu'r offeryn ariannol eu rhoi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

**Methiant Tyrbinau**

18. Os bydd unrhyw dyrbin gwynt yn methu darparu trydan i'r grid am gyfnod parhaus o 12 mis neu fwy (heblaw am resymau'n ymwneud â sŵn);
    a) caiff yr awdurdod cynllunio lleol ei hysbysu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis; a
    b) gall yr awdurdod cynllunio lleol gyfarwyddo'r datblygwr i gyflwyno cynllun manwl yn amlinellu sut caiff y tyrbin gwynt ei dynnu o'r safle, pa lwybrau, strwythurau, adeiladau a seilwaith cysylltiedig arall (gan

gynnwys ceblau) a gaiff eu tynnu o'r safle, sut y cânt eu tynnu a sut caiff yr ardaloedd dan sylw eu hadfer. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion am unrhyw warchodaeth angenrheidiol ar gyfer adar bridio sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwaith. Caiff y cynllun ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen 2 fis o gael cyfarwyddyd gan yr awdurdod cynllunio lleol, a chaiff ei roi ar waith cyn pen 6 mis o'i gymeradwyo, oni bai bod yr awdurdod cynllunio lleol yn cytuno'n ysgrifenedig â chyfnod hwy ar yr amod na fydd unrhyw ofyniad i dynnu'r tyrbin neu'r seilwaith cysylltiedig os bydd y tyrbin yn darparu trydan i'r grid unwaith eto yn ystod y cyfnod yn dilyn cyfarwyddyd i'r datblygwr gan yr awdurdod cynllunio lleol, yn unol â (b).

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei atgyweirio/eu hatgyweirio, neu ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei ddatgomisiynu/eu datgomisiynu.*

**Microleoli'r Datblygiad**

19. Caiff y tyrbinau gwynt a'r mastiau anemomedr eu codi yn y cyfesurynnau a roddir ar Ddyluniad Rhif 4-1AD. Yn amodol ar amod 21, gellir caniatáu amrywiad i leoliad dynodedig unrhyw un o'r tyrbinau gwynt o hyd at 50 metr i unrhyw gyfeiriad. Yn amodol ar amod 21, gellir caniatáu amrywiad i leoliad unrhyw lwybr o hyd at 100 metr i unrhyw gyfeiriad o'r hyn a ddangosir ar gynllun cymeradwy 4-1AD. Dangosir goddefiannau microleoli ar Ddyluniad Rhif LLA-P-009 Adolygiad A4 Dalennau 1 a 2.

*Rheswm: Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i'r datblygwr yn ystod yr adeiladu i wneud mân newidiadau i leoliad y seilwaith i ddelio ag anawsterau fel cyflwr gwael ar y tir sy'n dod i'r amlwg yn ystod yr adeiladu.*

20. Nid yw amod 19 yn caniatáu amrywio lleoliad seilwaith y datblygiad yn y fath fodd fel bod unrhyw ran ohono'n disgyn y tu mewn i'r ardaloedd cyfyngedig sydd wedi eu lliwio'n llwyd ar Ddyluniad Rhif LLA-P-009 Diwygiad A4 Dalennau 1 a 2. Caiff lleoliad unrhyw ran o seilwaith y datblygiad sy'n cael ei ddangos y tu mewn i'r ardaloedd cyfyngedig ar gynllun cymeradwy Dyluniad Rhif 4-1AD ar hyn o bryd ei amrywio'n unol ag amod 19 neu amod 21 yn y fath fodd fel nad yw y tu mewn i'r ardaloedd cyfyngedig mwyach.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff yr effaith ar bridd mawnaidd a'i gynefinoedd cysylltiedig ar y Safle ei lleihau cymaint â phosibl, gan ystyried cyfyngiadau perthnasol eraill.*

21. Er y cyfyngiadau y mae amod 19 yn eu rhoi ar amrywio lleoliad llwybrau, gellir adlinio'r rhannau canlynol ôl lwybrau fel y dangosir ar Ddyluniad Rhif LLA-P-009 Diwygiad A4 Dalennau 1 a 2 o'r llwybr a ddangosir yn biws i'r llwybr a ddangosir yn las:
    a) Rhan o lwybr mynediad rhwng cyfeirnodau grid 302697,281288 a 302809,281249
    b) Rhan o lwybr mynediad rhwng cyfeirnodau grid 303908,285307 a 303903,285309
    c) Rhan o lwybr mynediad rhwng cyfeirnodau grid 303623,285259 a 303774,285190

*Rheswm: I ganiatáu ar gyfer mân newidiadau er mwyn i'r llwybrau gael eu halinio'n fwy effeithlon ac osgoi pridd mawnaidd a'i gynefinoedd cysylltiedig, neu yn achos aliniad y llwybr i'r gogledd a'r de o T35, i leihau nifer y croesfannau dŵr.*

22. Cyn pen 6 mis ar ôl y datgomisiynu terfynol, caiff cynllun yn dangos lleoliad union y datblygiad cyfan (gan gynnwys llwybrau, lloriau caled, mynedfeydd, tyrbinau, pyllau benthyg ac ati) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r cynllun terfynol fel y'i hadeiladwyd, ar ôl ystyried lwfansau microleoli.*

**Datblygiad Manwl - Dyluniad a Golwg**

23. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei gludo i'r safle nes y caiff manylion am y tyrbinau eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo, gan gynnwys y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, ac os oes trawsnewidydd allanol, lleoliad y trawsnewidydd, y raddfa bŵer, y mast anemomedr a chyfarpar cysylltiedig. Caiff y tyrbinau, y mast anemomedr a'r cyfarpar cysylltiedig eu hadeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

24. Ni chodir unrhyw dyrbin nes i'r lliw arfaethedig gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y datblygiad ei gyflawni'n unol â'r cynllun lliw cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

25. Bydd llafnau'r tyrbinau gwynt ar bob tyrbin a ganiateir trwy hyn yn cylchdroi i'r un cyfeiriad.

*Rheswm: Er mwyn diogelu amwynderau gweledol yr ardal.*

26. Caiff yr holl geblau trydan sy'n cysylltu'r araeau tyrbinau â'r isbwerdy eu gosod o dan y ddaear.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

27. Ni fydd unrhyw waith datblygu ar adeilad yr isbwerdy ar y safle yn dechrau nes caiff manylion yn ymwneud â'i leoliad, triniaeth allanol, dyluniad, deunyddiau, tirweddu (os o gwbl), a'i gyfeiriadedd eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff yr isbwerdy ei adeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

28. Ni ellir defnyddio unrhyw oleuadau awyr agored heblaw:
   a) goleuadau awyrennau a osodir yn unol ag amod 57 y Caniatâd hwn;
   b) goleuadau dros dro ar gyfer y safle a gymeradwyir dan amod 42 fel rhan o'r Datganiad Dull Adeiladu.

yn ystod y gwaith Datblygu, oni bai y caiff manylion am y goleuadau hyn eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y cyfryw oleuadau awyr agored eu darparu'n unol â'r manylion cymeradwy yn unig.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

29. Heblaw yn ystod y cyfnod adeiladu, ni chaiff unrhyw symbolau, arwyddion, logos na llythreniadau eraill, heblaw'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith am resymau iechyd a diogelwch, eu harddangos ar unrhyw ran o'r tyrbinau nac unrhyw adeilad neu strwythur heb ganiatâd gan yr awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

**Oriau Adeiladu**

30. Caiff gwaith adeiladu ei gyflawni rhwng 07:30 ac 19:30 o'r gloch yn unig o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny, a rhwng 07:30 ac 13:00 o'r gloch ar ddyddiau Sadwrn, heb unrhyw waith adeiladu ar ddyddiau Sul neu wyliau cyhoeddus. Y tu allan i'r oriau hyn, caiff gwaith ar y safle ei gyfyngu i waith brys, codi tyrbinau, llethu llwch, a phrofi/cynnal a chadw peiriannau ac offer, neu waith adeiladu nad yw'n glywadwy o unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo'n wahanol yn ysgrifenedig. Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw waith brys cyn pen tri diwrnod gwaith ohono.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

31. Caiff yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r datblygiad eu cyflawni'n unol â Safon Brydeinig BS5228:2009: Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored – Rhan 1: Sŵn a Rhan 2: Dirgryniad.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

**Priffyrdd**

32. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu heblaw sefydlu'r safle a chreu'r cyfadeilad adeiladu nes i fanylion am y gwaith ar gyffordd y C2025 â'r A483 eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo. Bydd y manylion yn cynnwys:
   a) manylion am unrhyw lain welededd a fydd yn cael ei chadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
   b) manylion draeniad; a
   c) marciau ffordd a chynigion ar gyfer arwyddion

   Ni chaiff unrhyw waith adeiladu na datgomisiynu sy'n mynnu defnyddio cerbydau nwyddau trwm (heblaw am waith sy'n ofynnol mewn cysylltiad â

sefydlu'r safle neu greu'r cyfadeilad adeiladu) ei wneud cyn gweithredu'r gwaith, yn unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir dull boddhaol o fynd yn ôl ac ymlaen o'r gefnffordd, er budd diogelwch y priffyrdd.*

33. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu heblaw sefydlu'r safle a chreu'r cyfadeilad adeiladu nes y caiff cynlluniau manwl o'r gwaith a wneir i'r C2025 Pentre Road a phriffordd sirol ddi-ddosbarth yr U2835 eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y manylion a gyflwynir yn cynnwys:
   a) manylion am ledu lleol a mannau pasio llwythi anwahanadwy;
   b) manylion am newidiadau i aliniadau fertigol;
   c) manylion am leiniau gweledɛdd a fydd yn cael eu cadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
   d) manylion draeniad;
   e) marciau ffordd a chynigion ar gyfer arwyddion; a
   f) rhaglen ar gyfer y gwaith.

   Caiff y gwaith ei weithredu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir ffordd i mewn ac allan o'r datblygiad er budd diogelwch y priffyrdd, amwynder a gwarchod natur.*

34. Cyn cyflwyno'r Cynllun Rheoli Trafnidiaeth sy'n ofynnol dan amod 35, caiff cynllun ar gyfer asesu capasiti strwythurau priffyrdd a'r effaith arnynt, gan gynnwys mannau aros, mannau pasio, pontydd, cwlfertau, waliau cynnal, argloddiau a systemau draenio, y gall cludo llwythi anwahanadwy anghyffredin effeithio arnynt, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Ni chaiff unrhyw beth ei gludo trwy lwyth anwahanadwy anghyffredin nes i'r asesiad cymeradwy gael ei gwblhau. Lle mae'r asesiad cymeradwy yn nodi y gall fod angen gwaith atgyfnerthu neu waith arall, ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo nes i fanylion peirianegol llawn a lluniadau o unrhyw waith sydd ei angen ar y strwythurau hyn i ganiatáu i lwythi anwahanadwy anghyffredin deithio heibio iddynt gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo, a chaiff y gwaith cymeradwy ei gwblhau cyn i unrhyw beth gael ei gludo i'r safle trwy lwyth anwahanadwy anghyffredin.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

35. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes i Gynllun Rheoli Trafnidiaeth (TMP) ar gyfer cludo nwyddau trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Wedi hynny, caiff llwythi anwahanadwy anghyffredin eu cyflawni'r unol â'r TMP cymeradwy. Bydd y TMP yn cynnwys:
   a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
   b) ymgymryd ag unrhyw waith ledu neu welliannau i gyffyrdd a gwaith (gan gynnwys goleuadau stryd, arwyddion stryd a rhwystrau diogelwch) a darparu mannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles sy'n ofynnol i gludo llwythi anwahanadwy anghyffredin ar hyd y llwybr arfaethedig;

c) argaeledd mynediad at unrhyw fannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles nad ydynt wedi eu cynnig i ffurfio rhan o'r rhwydwaith priffyrdd;
d) canlyniad teithiau prawf i ddangos addasrwydd y llwybr;
e) rheoli cyffyrdd a chroesfannau priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill tra caiff nwyddau eu cludo trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin;
f) rheoli a chynnal a chadw mannau aros, mannau pasio a chyfleusterau lles;
g) manylion am arwyddion rhybuddio dros dro;
h) cyfyngiadau ar symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
i) ar gyfer unrhyw waith priffyrdd y cynigir ei gwblhau, datganiad ynghylch p'un a fydd yn barhaol neu dros dro ac, os yw dros dro, pryd y caiff ei dynnu a phryd caiff y briffordd ei ddychwelyd i'w chyflwr blaenorol; a
j) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

Ar ben hynny, caiff manylion am y gwaith priffyrdd sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r mannau aros, mannau pasio a'r gwelliannau i'r priffyrdd eu hamlinellu yn y TMP. Bydd y rhain yn cynnwys dulliau adeiladu, draenio, goleuadau stryd, arwyddion a marciau ffordd. Caiff y gwaith ei gwblhau'n unol â'r manylion cymeradwy cyn cludo unrhyw nwyddau i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

36. Ni chaiff unrhyw beth ei gludo i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin nes y caiff Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff pob cludiad trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin ei gyflawni'n unol â'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin gymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
a) y bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin;
b) y dull o reoli amseriad symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
c) gwyriadau traffig a mannau dal traffig dros dro;
d) manylion am fancwyr a hebryngwyr ar gyfer llwythi anghyffredin;
e) cydlynu â phob cludiad arall trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin (gan gynnwys, heb unrhyw gyfyngiadau, i ffermydd gwynt eraill yng nghanolbarth Cymru);
f) disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu amseroedd cludo, gan gynnwys sbardunau amseroedd cludo a masnachu;
g) penodiad a rôl Cydlynydd Trafnidiaeth;
h) rheoli a chynnal a chadw mannau aros a chyfleusterau lles;
i) cysylltu â'r awdurdodau priffyrdd a chynllunio perthnasol a'r Heddlu;
j) cysylltu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
k) cysylltu â'r cludwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

37. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes caiff cynllun sy'n darparu ar gyfer adfer unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Datblygiad i seilwaith y priffyrdd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol. Caiff y cynllun ei roi ar waith fel y'i cymeradwywyd.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw a bod y datblygwr yn unioni unrhyw ddifrod a achosir y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r datblygiad.*

38. Ni fydd unrhyw waith adeiladu neu ddatgomisiynu sy'n mynnu defnyddio cerbydau nwyddau trwm (heblaw am waith sy'n ofynnol mewn cysylltiad â sefydlu'r safle a chreu'r cyfadeilad adeiladu) yn dechrau ar y safle nes caiff cynllun rheoli trafnidiaeth ar gyfer cerbydau adeiladu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Wedi hynny, cydymffurfir â'r cynllun rheoli trafnidiaeth cymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
   a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau adeiladu;
   b) dull o fonitro symudiadau cerbydau yn ôl ac ymlaen o'r safle, gan gynnwys defnyddio cerbydau adeiladu mewn lifrai sy'n dangos enw'r datblygwr, rhif y cerbyd, rhif ffôn ar gyfer cwynion a gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion;
   c) amseriad cludo deunyddiau adeiladu i'r safle;
   d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill;
   e) mesurau i'w rhoi ar waith, gan gynnwys trefniadau cytundebol â chontractwyr ac isgontractwyr i sicrhau y gall cwynion ac achosion o dorri gofynion y TMP gael eu hunioni;
   f) cynllun teithio sydd â'r nod fwyhau defnydd trafnidiaeth gynaliadwy gan y gweithlu adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad;
   g) symudiadau cerbydau yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
   h) cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
   i) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder*.

39. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig ag unrhyw atgyweiriadau, tynnu neu amnewid cydrannau eu symud yn ystod oes y datblygiad nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw atgyweiriadau ac/neu amnewid ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

40. Ni chaiff unrhyw draffig sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r datblygiad symud nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw ddatgomisiynu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

**Rheoli Adeiladu**

41. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Glynir wrth y CEMP trwy gydol cyfnod datgomisiynu'r tyrbinau presennol, y cyfnod adeiladu, a'r cyfnod adfer ôl-adeiladu, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y CEMP yn cynnwys:

a) manylion am gaeadleoedd a mannau dadlwytho dros dro y safle, gan gynnwys strwythurau/adeiladau dros dro, ffensys, parcio a darpariaeth storio a ddefnyddir mewn cysylltiad ag adeiladu'r datblygiad;
b) lleoliad a dull gweithio'r pyllau benthyg;
c) manylion am storio arfaethedig deunyddiau a gwaredu deunyddiau dros ben, gan gynnwys pridd, mawn, cerrig a gwastraff;
d) manylion am reoli llwch;
e) Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ac Atal Llygredd, gan gynnwys Cynllun Rheoli Draeniad a Chynllun Rheoli Dŵr Daear a Dŵr Wyneb i fynd i'r afael â rheoli llygredd, gwarchod yr amgylchedd dŵr a chyflenwadau dŵr preifat, byndio mannau storio tanwydd, draeniad dŵr daear a dŵr wyneb, gwaredu carthffosiaeth a chlirio draeniau budr, monitro ansawdd dŵr, a mesurau i fynd i'r afael â glaw trwm;
f) goleuo'r safle dros dro yn ystod y cyfnod datgomisiynu ac adeiladu;
g) manylion am gamau'r gwaith adeiladu;
h) manylion am driniaethau wyneb a datganiadau dull amdanynt, ac adeiladu pob wyneb caled, llwybr a ffos ceblau;
i) manylion am weithdrefnau bryd a chynlluniau ymateb i lygredd, gan gynnwys rhai ar gyfer glaw trwm;
j) lleoliad cyfleusterau golchi olwynion a manylion amdanynt;
k) manylion am lanhau mynedfeydd y safle, llwybrau'r safle a'r briffordd gyhoeddus gyfagos, a gorchuddio pob cerbyd nwyddau trwm sy'n cludo gwastraff neu ddeunyddiau adeiladu yn ôl ac ymlaen o'r safle er mwyn atal gollwng neu ddyddodi unrhyw ddeunydd ar y briffordd;
l) cynllun rheoli'r amgylchedd ar gyfer y safle a fydd yn cynnwys manylion am fesurau i'w cymryd yn ystod y cyfnod datgomisiynu ac adeiladu er mwyn gwarchod bywyd gwyllt a chynefinoedd;
m) ardaloedd ar y safle sydd wedi eu dynodi ar gyfer storio, llwytho, dadlwytho, parcio a symud peiriannau, offer a cherbydau trwm;
n) manylion am y mesurau i'w cymryd i sicrhau bod lleiniau gwelededd yn aros yn rhydd rhag rhwystrau sy'n fwy nad 1.05m o uchder trwy gydol y cyfnod adeiladu a'r cyfnod adfer ôl-adeiladu;
o) manylion ac amserlen ar gyfer y cyfnod adfer ôl-adeiladu/adfer y mannau gweithio dros dro, mannau dadlwytho a'r cyfadeiladau adeiladu, ymylon llwybrau a ffosydd ceblau;
p) manylion am gydlynu ag unrhyw gynllun gwaith archaeolegol cymeradwy;
q) manylion am ddyluniad ac adeiladu unrhyw groesfannau dŵr a chwlfertau;
r) manylion am ddatgomisiynu a thynnu'r tyrbinau gwynt presennol a seilwaith cysylltiedig ar y Safle;
s) manylion am gwympo coed, cael gwared â phren ac unrhyw ailblannu arfaethedig;
t) gweithdrefnau monitro i sicrhau cydymffurfiad;
u) arferion gwaith i warchod yr anheddau preswyl cyfagos, gan gynnwys mesurau i reoli sŵn a dirgryniad sy'n deillio o weithgareddau ar y safle,

i'w mabwysiadu fel y'i hamlinellir yn Safon Brydeinig 5228:2009: Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored - Rhan 1: Sŵn a Rhan 2: Dirgryniad;

v) manylion am reoli pridd a mawn;

w) manylion am gymysgu concrit ac ardaloedd ymolchi; a

x) cynllun rheoli gwastraff.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol a lleihau'r aflonyddwch i breswylwyr lleol yn ystod y broses adeiladu.*

**Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy**

42. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy (RWMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y RWMP ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:

a) manylion am ailgyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro yn ystod adeiladu'r datblygiad awdurdodedig;

b) manylion am ddarparu arwyddion a gwybodaeth arall sy'n rhybuddio'r cyhoedd am waith adeiladu;

c) manylion am unrhyw ffensys neu rwystrau a ddarperir yn ystod y cyfnod adeiladu;

d) manylion am sut caiff hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau a ffyrdd eu harolygu cyn y cyfnod adeiladu a'u monitro yn ystod y cyfnod adeiladu; a

e) manylion am warchod adar bridio lle caiff unrhyw hawl dramwy gyhoeddus ei hailgyfeirio.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus.*

**Ecoleg**

43. Ni fydd unrhyw waith clirio llystyfiant a chwympo coed nac unrhyw waith datblygu arall yn dechrau nes caiff Cynllun Gwarchod Adar Bridio ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd y cynllun yn cynnwys y cynigion a gwmpaswyd yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2013 ac, ar gyfer gylfinirod, y Cynllun Gwarchod Adar Bridio drafft ar gyfer y rhywogaeth hon, sy'n ddyddiedig Medi 2013, a bydd yn manylu ar fesurau i warchod adar bridio ac annog adar i beidio â bridio yn yr ardaloedd hynny o'r Safle Datblygu a gweithir arno yn ystod y tymor bridio perthnasol. Caiff y Cynllun Gwarchod Adar Bridio ei weithredu fel y'i cymeradwyir yn ystod cyfnod datgomisiynu'r fferm wynt bresennol a chyfnodau adeiladu'r cynllun, oni chaiff ei ddiwygio â chymeradwyaeth flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod adar bridio wrth adeiladu a datgomisiynu'r fferm wynt.*

44. Cyn dechrau clirio llystyfiant o'r safle, cwympo coed neu ddatblygu arall, caiff cynllun ar gyfer arolygon diweddaru rhywogaethau a warchodir ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff canlyniadau'r arolwg a rhaglen o unrhyw addasiad i'r mesurau lliniaru sydd eu hangen o ganlyniad eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n

ysgrifenedig cyn ymgymryd ag unrhyw waith sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Caiff yr arolygon eu cynnal gan ecolegydd â chymwysterau addas yn y tymor priodol olaf cyn paratoi'r safle a chyn i'r gwaith adeiladu ddechrau, a chaiff y rhaglen o waith lliniaru ei roi ar waith fel y'i cymeradwyir trwy gydol cyfnod datgomisiynu'r fferm wynt bresennol a'r gweithgareddau adeiladu.

*Rheswm: Er budd gwarchod natur.*

45. Ni fydd yr allforyn cyntaf yn digwydd nes caiff rhaglen monitro ôl-adeiladu ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i chymeradwyo ganddo. Bydd y rhaglen yn monitro ardaloedd cynefinoedd, rhywogaethau adar ac ystlumod dethol y manylir arnynt yn y Cynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP), y cytunwyd arnynt yn unol ag amod 46. Bydd y rhaglen fonitro yn cynnwys cwmpas ac amlder y cynigion a amlinellir yn yr HMP cytûn a bydd yn adrodd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a phartïon eraill y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn tybio eu bod yn briodol, fel y cytunwyd. Caiff y Rhaglen Monitro Ôl-adeiladu ei gweithredu fel y'i cymeradwywyd, oni bai y caiff ei diwygio â chymeradwyaeth flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod adar bridio wrth adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r fferm wynt.*

46. Ni ddechreuir clirio llystyfiant, cwympo coed neu ddatblygu nes caiff Cynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP) ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd yr HMP yn cynnwys y cynigion a amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2011 a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2013, a'r cynigion drafft dyddiedig 23 Medi 2013. Bydd y cynllun rheoli cynefinoedd yn cynnwys mesurau i :
   a) wella'r cynefin ffen a chors soligenaidd,
   b) gwella'r cynefin i ysgyfarnogod brown,
   c) gwella'r cynefin i fadfall fywesgorol,
   d) gwella'r cynefin i ylfinirod bridio.

   Caiff yr HMP ei weithredu fel y'i cymeradwywyd, oni bai y caiff ei diwygio â chymeradwyaeth flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er budd diogelu neu wella'r cynefinoedd perthnasol ac amodau ar gyfer rhywogaethau cysylltiedig.*

47. Cyn dechrau clirio'r safle, cwympo coed neu ddatblygu arall, penodir Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW). Caiff yr ECoW ei benodi/phenodi ar ôl cael cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y cyfnod o ddechrau'r datblygiad hyd at Gomisiynu Terfynol y datblygiad. Bydd cwmpas gwaith yr ECoW yn cynnwys:
   a) monitro cydymffurfiad â'r gwaith lliniaru ecolegol a gymeradwywyd yn y caniatâd hwn a darparu adroddiadau chwarterol yn adrodd ar gydymffurfiad i'r awdurdod cynllunio lleol;
   b) cynghori'r Cwmni ar warchod buddiannau cadwraeth natur yn ddigonol ar y Safle ac i lawr yr afon yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg;
   c) cyfarwyddo microleoliad a lleoliad tyrbinau, llwybrau a seilwaith arall;
   d) monitro cydymffurfiad â mesurau rheolaeth amgylcheddol yn y CEMP a phob datganiad o ddull, a chadw trywydd archwilio o gydymffurfiad;

e) rhoi cyngor i gontractwyr ynghylch rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol ac Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod yr amgylchedd ecolegol ac adaregol.*

**Cysgodion Symudol**

48. Cyn codi'r tyrbin cyntaf, caiff cynllun ysgrifenedig ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, yn amlinellu protocol ar gyfer asesu cysgodion symudol rhag ofn y bydd unrhyw gŵyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan berchennog neu ddeiliad annedd breswyl. Bydd y cynllun ysgrifenedig yn cynnwys mesurau adferol i liniaru unrhyw gysgodion symudol y gellir eu priodoli i'r datblygiad. Caiff y tyrbinau eu gweithredu'n unol â'r protocol cymeradwy, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig blaenorol i unrhyw amrywiadau.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Ymyriant Teledu**

49. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei godi nes caiff cynllun ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo sy'n darparu ar gyfer archwilio ac adfer unrhyw ymyriant â derbyniad teledu mewn unrhyw annedd a oedd yn bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn. Bydd y cynllun yn darparu i beiriannydd teledu annibynnol cymwysedig ymchwilio i unrhyw gŵyn o ymyriant â derbyniad teledu mewn annedd sydd wedi ei meddiannu'n gyfreithlon, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am y cyfryw gŵyn cyn pen 24 mis o ddyddiad y comisiynu terfynol. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Archaeoleg**

50. Ni fydd unrhyw waith ddatblygu'n dechrau nes caiff cynllun ymchwilio archaeolegol ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ymchwilio archaeolegol ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw olion archaeolegol sy'n weddill eu harchwilio a'u cadw.*

51. Caiff pob cofnod a goladir, o ganlyniad i'r Cynllun Ymchwilio Archaelegol, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i anfon at y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar hyn o bryd) cyn pen 6 mis o gasglu'r cofnod.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ganfyddiadau archaeolegol eu cofnodi'n briodol.*

**Hedfan**

52. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes y darperir y wybodaeth ganlynol i Ganolfan Daearyddol Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn:
   a) y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn gorffen;
   b) uchder mwyaf yr offer adeiladu;
   c) lledred a hydred pob tyrbin.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

53. Caiff goleuadau hedfan amgylchol neu oleuadau hedfan isgoch 25 candela, a achredwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac sydd â phatrwm fflachio wedi ei optimeiddio o 60 fflach y funud am gyfnod o 200ms i 500ms, eu gosod ar naselau Tyrbinau 1, 5, 8, 13, 15, 17, 27, 28, 32, 34, 38 a 42 fel y dangosir ar Ffigur A4-1 yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2013 neu unrhyw gyfryw dyrbinau eraill y mae'r awdurdod cynllunio lleol, ar ôl ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn cytuno y byddant yn darparu golau yr un mor effeithiol at ddibenion awyrlywio. Bydd y goleuadau'n parhau'n weithredol tan yr amser y caiff y tyrbinau gwynt eu datgomisiynu a'u tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er budd diogelwch hedfan.*

**Cysylltu â'r Gymuned**

54. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun cysylltu â'r gymuned ar gyfer y cyfnod adeiladu, gan gynnwys datgomisiynu Fferm Wynt bresennol Penrhyddlan a Llidiartywaun, ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cysylltu â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwywyd a bydd yn cynnwys:
   a) manylion am gysylltiad y datblygwr â'r gymuned leol i sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod sut mae'r adeiladu, gan gynnwys datgomisiynu Fferm Wynt bresennol Penrhyddlan a Llidiartywaun a datblygiad, yn dod yn ei flaen;
   b) dull i fynd i'r afael â chwynion gan y gymuned leol yn ystod adeiladu'r datblygiad a datgomisiynu Fferm Wynt bresennol Penrhyddlan a Llidiartywaun; a
   c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr, a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

**Sŵn**

55. Ni chaiff unrhyw dyrbin a gymeradwyir trwy hyn ei weithredu cyn cyflwyno cynllun ar gyfer asesu a rheoleiddio Modylu Osgledau Gormodol (EAM) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo ar ei gyfer. Os yw'n bodoli ar adeg ei gyflwyno, bydd y cynllun yn gyffredinol unol ag:
   a) arweiniad perthnasol a gefnogir mewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol; neu yn niffyg arweiniad ardystiedig;
   b) arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Acwsteg.

   Caiff y cynllun cymeradwy ei weithredu ar hyd oes y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn.

*Rheswm: Er budd amwynder cyhoeddus er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â Modylu Osgledau Gormodol yn briodol.*

56. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt (gan gynnwys cymhwyso unrhyw gosb donaidd) pan y'i pennir yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig (i'r amod hwn), yn fwy na'r gwerthoedd ar gyfer cyfanrif perthnasol buanedd y gwynt a bennir, neu'n sy'n deillio o'r, tabl sydd wedi ei atodi i'r amod hwn mewn unrhyw annedd sy'n bodoli'n gyfreithlon neu sydd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn, a:

a) Bydd y cwmni yn cofnodi cynhyrchiad ynni, buanedd y gwynt a chyfeiriad y gwynt yn barhaus, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d). Caiff y data hwn ei gadw am gyfnod nad yw'n llai na 24 mis. Bydd y Cwmni yn darparu'r wybodaeth hon yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cais ganddo, cyn pen 14 diwrnod o dderbyn y cyfryw gais yn ysgrifenedig.

b) Ni chaiff unrhyw drydan ei allforio nes i'r Cwmni gyflwyno rhestr o ymgynghorwyr annibynnol arfaethedig a all ymgymryd â mesuriadau cydymffurfio yn unol â'r amod hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig.

c) Cyn pen 21 diwrnod o dderbyn cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cwyn iddo gan breswylydd annedd sy'n honni aflonyddwch sŵn yn yr annedd, bydd y Cwmni, ar ei draul, yn cyflogi ymgynghorydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt yn eiddo'r achwynydd, yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig. Bydd y cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn amlinellu o leiaf y dyddiad, yr amser a'r lleoliad y mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy, ynghyd ag unrhyw amodau atmosfferig a nodwyd, gan gynnwys cyfeiriad y gwynt, ac yn cynnwys datganiad ynghylch p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd.

d) Ymgymerir â'r asesiad o lefel allyriadau sŵn yn unol â phrotocol asesu a fydd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n flaenorol. Bydd y protocol yn cynnwys y lleoliad mesur arfaethedig a nodwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd lle yr ymgymerir â mesuriadau at ddibenion gwirio cydymffurfiad, p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, a hefyd ystod yr amodau meteorolegol a gweithredol (a fydd yn cynnwys ystod buanedd y gwynt, cyfeiriadau'r gwynt, cynhyrchiad ynni ac adegau'r dydd) i benderfynu ar asesiad lefel yr allyriadau sŵn. Ystod yr amodau arfaethedig fydd y rhai a oedd yn bodoli yn ystod yr adegau y mae'r achwynnydd yn honni y bu aflonyddwch oherwydd sŵn, gan ystyried cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan baragraff (c), ac eraill fel y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn ystyried eu bod yn debygol o arwain at dorri'r cyfyngiadau sŵn.

e) Lle nad yw annedd y mae cwyn yn ymwneud â hi wedi ei rhestru yn y tablau sy'n atodedig i'r amodau hyn, bydd y Cwmni yn cyflwyno cyfyngiadau sŵn arfaethedig wedi eu dethol o'r rhai a restrir yn y Tablau i'w mabwysiadu yn annedd yr achwynnydd at ddibenion gwirio cydymffurfiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Y cyfyngiadau sŵn arfaethedig fydd y cyfyngiadau a

ddewisir o Dabl 1, gan ystyried Tabl 2, ac a bennwyd ar gyfer lleoliad rhestredig y mae'r ymgynghorydd annibynnol o'r farn y byddai'n debygol o brofi'r amgylchedd sŵn cefndir tebycach i'r amgylchedd sŵn cefndir y ceir profiad ohono yn annedd yr achwynnydd. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt, o'u pennu'n unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig, yn fwy na'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd yr achwynnydd.

f) Bydd y Cwmni yn darparu asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn, a gynhaliwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 2 fis o ddyddiad cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud mesuriadau cydymffurfiad a wneir o dan baragraff (c), oni bai y caiff y terfyn amser ei ymestyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr asesiad yn cynnwys yr holl ddata a gesglir at ddibenion cyflawni'r mesuriadau cydymffurfiad, a chaiff y cyfryw ddata ei ddarparu yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) y Nodiadau Cyfarwyddyd. Caiff yr offeryniaeth a ddefnyddir i gyflawni'r mesuriadau ei graddnodi'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (a) a chyflwynir tystysgrifau graddnodi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ag asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn.

g) Lle mae angen asesiad pellach o lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 4 (c), bydd y Cwmni yn cyflwyno copi o'r asesiad pellach cyn pen 21 niwrnod o gyflwyno asesiad yr ymgynghorydd annibynnol yn unol â pharagraff (d) uchod, oni bai y caiff y terfyn amser ei estyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder preswyl.*

Tabl 1: Cyfyngiadau sŵn a fynegir mewn dB LA90, 10 munud fel swyddogaeth buanedd safonol y gwynt (m/s) ar 10 metr o uchder fel y pennir oddi mewn i'r safle ar gyfartaledd dros gyfnodau o 10 munud.

| **Lleoliad** | **Buanedd safonol y gwynt ar uchder o 10 metr *(rnls)* oddi mewn i'r safle ar gyfartaledd dros gyfnodau o 10 munud** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** |
| Cwm Diffwys | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.5 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 |
| Pantydwr | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 |
| Cwm Feinon | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 37.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 |
| Waen Cwm Yr Ynys | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 38.0 | 39.5 | 39.5 | 39.5 | 39.5 | 39.5 | 39.5 | 39.5 |
| Waenllwydion | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Wainhir | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 |
| Bryn Llyndwr | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.0 | 36.5 | 37.0 | 37.5 | 37.5 | 37.5 | 37.5 | 37.5 |
| Paby Llwyd 1 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 37.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 |
| Paby Llwyd 2 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 37.0 | 38.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 |
| Paby Llwyd 3 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.0 | 36.0 | 37.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 |
| Paby Llwyd 4 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 | 37.0 |

Tabl 2: Cyfesurynnau lleoliad yr eiddo a restrir yn Nhabl 1

| **Eiddo** | **Dwyreiniad** | **Gogleddiad** | **Cyfyngiad cymwys (tabl 1)** |
|---|---|---|---|
| Cwm Diffwys | 301115 | 281407 | Cwm Diffwys |

| Eiddo | Dwyreiniad | Gogleddiad | Cyfyngiad cymwys (tabl 1) |
|---|---|---|---|
| Canolfan Gymunedol | 300083 | 281670 | Pantydwr |
| Pen-y-lan | 300194 | 282226 | Pantydwr |
| Pantydwr | 300388 | 282065 | Pantydwr |
| Pen-y-banc | 300720 | 282740 | Pantydwr |
| Graig | 300771 | 282459 | Pantydwr |
| Cwm farm | 300958 | 282570 | Pantydwr |
| Ty’n-y-pwll | 300787 | 283285 | Pantydwr |
| Rhiwysgyfarnog | 301162 | 283099 | Pantydwr |
| Cwm Feinion | 301467 | 283746 | Pantydwr |
| Gwern-y-gigfran | 301259 | 284336 | Pantydwr |
| Bryn Coch | 301063 | 283695 | Pantydwr |
| Foel Fawr | 301830 | 284360 | Cwm Feinon |
| Foel Fach | 301541 | 284471 | Pantydwr |
| Cwm Feinon | 301986 | 184682 | Cwm Feinon |
| Glyn Fach | 301501 | 284752 | Pantydwr |
| Waen Cwm Yr Ynys | 302505 | 285224 | Waen Cwm Yr Ynys |
| Coed-y-Gaer | 300965 | 285007 | Waenllwydion |
| Cwmffrwd | 304159 | 287611 | Waenllwydion |
| Waenllwydion | 303775 | 287263 | Waenllwydion |
| Wainhir | 305296 | 286650 | Wainhir |
| Ty’n-y-velvn | 305271 | 286985 | Wainhir |
| Pentre | 306484 | 286038 | Wainhir |
| Duqwm Farm | 305619 | 285068 | Waan Cwm Yr Ynys |
| Gwrhyd | 306481 | 285167 | Bryn Llyndwr |
| Bryn Picca | 306766 | 284176 | Wainhir |
| Bryn Llyndwr | 305950 | 283300 | Bryn Llyndwr |
| Paby Llwyd 1 | 305324 | 282553 | Paby Llwyd 1 |
| Paby Llwyd 2 | 305039 | 282383 | Paby Llwyd 2 |
| Paby Llwyd 3 | 304807 | 281859 | Paby Llwyd 3 |
| Paby Llwyd 4 | 304774 | 281328 | Paby Llwyd 4 |

**Nodyn i Dabl 2**: Darperir cyfeirnodau’r cyfesurynnau daearyddol at ddibenion canfod lleoliad cyffredinol anheddau y mae cyfyngiadau sŵn penodol yn berthnasol iddynt.

**Nodyn cyffredinol:** At ddibenion yr amod hwn, annedd yw adeilad o fewn dosbarth defnydd C3 a C4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y’i diwygiwyd) sy’n bodoli’n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn.

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Amodau Sŵn

Dylid darllen y nodiadau hyn â'r amod sŵn ac maent yn ffurfio rhan ohono. Maent yn esbonio'r amod ymhellach ac yn manylu ar y dulliau a ddefnyddir i asesu cwynion ynghylch allyriadau sŵn o'r fferm wynt. Y lefel ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yw swm rhifyddol lefel sŵn y fferm wynt fel y'i pennir o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn 2 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ac unrhyw gosb donaidd a gymhwysir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3. Mae cyfeiriad at ETSU-R-97 yn cyfeirio at gyhoeddiad o'r enw "The Assessment and Rating of Noise fron Wind Farms" (1997) a gyhoeddwyd gan yr Uned Cymorth Technoleg Ynni (ETSU) ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)).

### Nodyn Cyfarwyddyd 1

(a) Dylai gwerthoedd yr ystadegyn sŵn LA90 (10 munud) gael eu mesur yn eiddo'r achwynydd, gan ddefnyddio mesurydd lefel sŵn o ansawdd EN 60651/BSB EN 60804 Math 1, neu BSB EN 61672 Dosbarth 1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau) a osodir i fesur yr ymateb pwysol amser cyflym fel y manylir arno yn SS EN 60651/BSB EN 60804 neu BS EN 61672-1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid graddnodi hyn yn unol â'r weithdrefn y manylir arni yn BS 4142: 1997 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid cymryd mesuriadau mewn modd sy'n galluogi cymhwyso cosb donaidd yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3.

(b) Dylai'r microffon gael ei osod 1.2 -1.5 metr uwchben lefel y ddaear, a dylai maneg wynt dwy-haen neu offer addas cyfwerth a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gael ei (g)osod arno, a dylid ei roi y tu allan i annedd yr achwynydd. Dylid cymryd mesuriadau mewn amodau "maes rhydd". I gyflawni hyn, dylai'r microffon gael ei osod o leiaf 3.5 metr oddi wrth ffasâd yr adeilad neu unrhyw arwyneb adlewyrchol heblaw'r ddaear yn y lleoliad mesur cymeradwy. Os bydd yr achwynydd yn gwrthod rhoi caniatâd i fynd at ei (h)eiddo i wneud mesuriadau cydymffurfiad, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cyflwyno manylion am leoliad mesur cynrychioliadol arfaethedig arall i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo cyn dechrau gwneud mesuriadau, a chaiff y mesuriadau eu cymryd yn y lleoliad mesur cynrychioliadol cymeradwy arall.

(c) Dylai'r mesuriadau LA90 (10 munud) gael eu cysoni â mesuriadau'r data gwynt a gweithredol cymedrig 10 munud a gofnodir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), gan gynnwys y data cynhyrchu ynni o systemau rheoli tyrbinau'r fferm wynt.

(d) Er mwyn galluogi cydymffurfiad â'r amodau a arfernir, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cofnodi buanedd cymedrig rhifyddol y gwynt yn barhaus mewn metrau yr eiliad, a chyfeiriad y gwynt mewn graddau o'r gogledd ar uchder y both ar gyfer pob tyrbin, a'r ynni cymedrig rhifyddol a gynhyrchir gan bob tyrbin, pob un ohonynt mewn cyfnod olynol o 10 munud. Oni bai y cytunir ar weithdrefn arall â'r Awdurdod Cynllunio ymlaen llaw, caiff uchder y both, buanedd y gwynt, ar gyfartaledd ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol, eu defnyddio'n sail ar gyfer y dadansoddiad. Caiff yr holl ddata ar fuanedd cymedrig cyfartalog rhifyddol y gwynt mewn cyfnodau o 10 munud a fesurir ar uchder y both ei 'safoni' i uchder cyfeirnod o 10 metr, fel y disgrifir yn ETSU-R-97 ar dudalen 120 gan ddefnyddio hyd garwedd cyfeirnod o 0.05 metr. Y data safonol hwn ar fuanedd y gwynt ar uchder o 10 metr a gyfatebir â'r mesuriadau sŵn a bennir yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, a chaiff y cyfryw

gyfatebiad ei gyflawni yn y modd a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2. Bydd pob cyfnod o 10 munud yn dechrau ar yr awr ac mewn cyfnodau o 10 munud wedi hynny.

(e) Caiff data a ddarperir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn unol â'r amod sŵn, ei ddarparu mewn gwerthoedd wedi eu gwahanu gan goma mewn fformat electronig.

(f) Caiff medrydd glaw sy'n cofnodi data ei osod yn ystod yr asesiad o lefelau'r allyriadau sŵn. Bydd y medrydd yn cofnodi dros gyfnodau olynol o 10 munud wedi eu cysoni â'r cyfnodau data a gofnodir yn unol â Nodyn 1 (d).

**Nodyn Cyfarwyddyd 2**

(a) Gwneir y mesuriadau sŵn er mwyn darparu dim llai nag 20 pwynt data dilys, fel y diffinnir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2 (b).

(b) Pwyntiau data dilys yw'r rhai a fesurir yn yr amodau y manylir arnynt yn y protocol ysgrifenedig cytûn o dan baragraff (d) o'r amod sŵn, ond heb gynnwys unrhyw gyfnodau o lawiad a fesurir yn agos at fesurydd y lefel sŵn. Caiff glawiad ei asesu trwy ddefnyddio medrydd glaw a fydd yn cofnodi'r glawiad ym mhob cyfnod o 10 munud yn gydamserol â'r cyfnodau mesur a amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1.

(c) Ar gyfer y pwyntiau data hynny yr ystyrir eu bod yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2(b), caiff gwerthoedd y mesuriadau sŵn 10 munud LA90 a gwerthoedd cyfatebol buanedd y gwynt mewn cyfnod o 10 munud, sy'n deillio o fuanedd cyfartalog safonol y gwynt ar uchder o 10 metr ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol gan ddefnyddio'r weithdrefn y manylir arni yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), eu plotio ar siart XY â lefel y sŵn ar yr echelin Y a buanedd cymedrig safonol y gwynt ar yr echelin X. Dylai cromlin "ffit orau" sgwariau lleiaf o radd y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn tybio ei bod yn briodol (ond na all fod yn uwch na phedwaredd radd) gael ei ffitio i'r pwyntiau data a diffinio lefel sŵn y fferm wynt ar bob buanedd cyfanrifol.

**Nodyn Cyfarwyddyd 3**

(a) Lle mae allyriadau sŵn yn y lleoliad neu'r lleoliadau lle mae mesurau cydymffurfiad yn cael eu cymryd yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, yn unol â'r protocol asesu cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn, caiff cosb donaidd ei chyfrifo a'i chymhwyso gan ddefnyddio'r weithdrefn raddio ganlynol.

(b) Ar gyfer pob cyfnod o 10 munud y penderfynwyd bod data 10 munud LA90 yn ddilys ar ei gyfer, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, cyflawnir asesiad tonaidd ar allyriadau sŵn yn ystod 2 funud o bobl cyfnod o 10 munud. Dylai'r cyfnodau o 2 funud gael eu gwahanu gan gyfnodau o 10 munud, cyn belled â bod data anllygredig di-dor ar gael ("y weithdrefn safonol"). Lle nad oes data anllygredig ar gael, caiff y cyfnod glân anllygredig cyntaf o 2 funud sydd ar gael o'r cyfnod cyffredinol o 10 munud dan sylw ei ddewis. Caiff unrhyw gyfryw wyriad oddi wrth y weithdrefn safonol, fel y disgrifir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97, ei gofnodi.


(c) Ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud, caiff lefel y dôn uwchben neu islaw clywadwyedd ei chyfrifo trwy gymharu â'r maen prawf clywadwyedd a roddir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97.

(d) Caiff lefel y dôn uwchben clywadwyedd ei phlotio yn erbyn buanedd y gwynt ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud. Ar gyfer samplau lle'r oedd y tonau islaw'r maen

prawf clywadwyedd neu na nodwyd unrhyw dôn, defnyddir gwerth o glywadwyedd sero.

(e) Yna, caiff llinell atchwel llinol "ffit orau" sgwariau lleiaf ei chyflawni i bennu'r lefel tôn gyfartalog uwchben clywadwyedd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol yn deillio o werth y llinell "ffit orau" ar bob buanedd gwynt cyfanrifol. Os nad oes unrhyw duedd amlwg o ran buanedd y gwynt, yna defnyddir cyfanrif rhifyddol syml. Caiff y broses hon ei hailadrodd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol y mae asesiad o'r lefelau cyffredinol ar ei gyfer yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(f) Mae'r gosb donaidd yn deillio o'r maint uwchben clywadwyedd y dôn, yn ôl y ffigur isod.




**Nodyn Cyfarwyddyd 4**

(a) Os caiff cosb donaidd ei chymhwyso'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3, lefel sŵn y tyrbinau ar bob buanedd gwynt yw swm rhifyddol y lefel sŵn fesuredig, fel y pennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, a'r gosb ar gyfer sŵn tonaidd a geir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3 ar bob buanedd gwynt cyfanrifol o fewn yn ystod a bennwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei brotocol ysgrifenedig o dan baragraff (d) o'r amod sŵn.

(b) Os na chaiff cosb donaidd ei chymhwyso, yna mae lefel sŵn y tyrbin ar bob buanedd gwynt yn gyfwerth â'r lefel sŵn fesuredig a bennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifiwyd yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(c) Os bydd y lefel uwchlaw'r cyfyngiad(au) a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau sŵn neu'r cyfyngiadau sŵn ar gyfer annedd achwynydd a gymeradwywyd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, bydd yr ymgynghorydd annibynnol yn cynnal asesiad pellach o'r lefel i gywiro ar gyfer sŵn cefndir er mwyn i'r lefel ymwneud ag allyriadau sŵn y tyrbinau gwynt yn unig.

(d) Bydd y Cwmni'n sicrhau y caiff yr holl dyrbinau gwynt yn y datblygiad eu diffodd am y cyfnod sydd ei angen ar yr ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad pellach. Cynhelir yr asesiad pellach yn unol â'r camau canlynol:

(e) Ailadrodd y camau yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, gan ddiffodd y fferm wynt, a phennu lefel y sŵn cefndir (L3) ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yn yr ystod y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gais ysgrifenedig o dan baragraff (c) a'r protocol cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn.

(f) Yna, cyfrifir sŵn y fferm wynt (L1) ar y buanedd hwn fel a ganlyn, lle L2 yw'r lefel fesuredig pan fo'r tyrbinau ar waith, ond heb ychwanegu unrhyw gosb donaidd:

(g) Caiff y lefel ei hailgyfrifo trwy adio'r gosb donaidd (os caiff ei chymhwyso'n unol â Nodyn 3) at sŵn deilliedig y fferm wynt L1 ar y buanedd gwynt cyfanrifol hwnnw yn rhifyddol.

(h) Os bydd y lefel ar ôl ei haddasu ar gyfer cyfraniad sŵn cefndir a'i haddasu ar gyfer cosb donaidd (os yw'n ofynnol yn unol â Nodyn 3 uchod) ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn gyfwerth â'r gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu

hatodi i'r amodau neu'n is, neu'n gyfwerth â'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn neu'n is, yna nid os angen unrhyw gamau pellach. Os bydd y lefel ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn rhagori ar y gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau neu'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, yna bydd y datblygiad yn methu cydymffurfio â'r amodau.

DIWEDD YR AMODAU

**<u>Atodiad B</u>**
**Cynllun Llaithddu – Rhestr Amodau**

**Caniatâd dan adran 36 Deddf Trydan 1989 – Amodau**

1. Yn unol ag adran 36 Deddf Trydan 1989, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ("yr Ysgrifennydd Gwladol") trwy hyn yn rhoi caniatâd i adeiladu, ar yr ardal o dir sydd wedi ei darlunio â llinell goch ddi-dor ar ddyluniad rhif Ffigur 1.3 a ddisgrifir fel cynllun dyluniad Opsiwn 2 fel y'i cynhwysir yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2013, gorsaf gynhyrchu â thyrbinau gwynt ar dir i'r gorllewin o bentrefan Llaithddu, Powys ("y Datblygiad") a gweithredu'r orsaf gynhyrchu honno. Rhoddir y caniatâd hwn i Fferm Wynt Llaithddu Cyf ("y Cwmni"), ei aseineion a'i olynwyr.

2. Bydd gan y datblygu gapasiti graddedig o dros 50MW a chapasiti graddedig o hyd at 62.1MW, a bydd yn cynnwys:
   a) hyd at 27 o dyrbinau gwynt yn y lleoliadau sydd wedi eu rhifo 3 i 29 a ddynodir yn ffigur 1.3 Opsiwn 2 – Cynnig Amgen ar gyfer 27 o Dyrbinau – a gyflwynwyd yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013. Bydd pob un ohonynt wedi ei leoli ar sylfeini concrit, yn cynnwys llawr caled ar gyfer craeniau, ac wedi ei osod â llafnau sy'n cylchdroi. Bydd gan 14 ohonynt uchder i flaen y llafn o hyd at 99.5m, a bydd gan 13 ohonynt uchder i flaen y llafn o hyd at 115.5m.
   b) Cyfres o geblau wedi eu claddu o dan wyneb y ddaear sy'n cysylltu'r tyrbinau gwynt â'r isbwerdy.
   c) Cyfres o lwybrau mynediad rhwng y tyrbinau gwynt.
   d) Ffordd fynediad ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw ac argyfyngau.
   e) Isbwerdy trydan ar y safle.

f) Dau fast anemometreg.
g) Pedwar pwll benthyg ar gyfer echdynnu carreg i'w defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad.

3. Yn amodol ar unrhyw fân newidiadau y gellir eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (fel y diffinnir yn amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig ("yr Amodau Cynllunio") a amlinellir ym mharagraff 8 isod), caiff y Datblygiad ei adeiladu a'i weithredu'n unol â'r manylion a gynhwysir yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol, i'r graddau nad yw'r rhain yn gwrthdaro ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Amodau Cynllunio na pharagraffau 4 a 5 y caniatâd hwn, nac â gofynion unrhyw drefn, rhaglen, datganiad, cynllun, manylion neu adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol dan yr Amodau Cynllunio.

4. Bydd y Datblygiad yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

5. Ni chaniateir i'r Cwmni aseinio'r caniatâd hwn heb gael awdurdodiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd (ag amodau neu beidio) neu wrthod y cyfryw awdurdodiad fel y gwêl orau, yn ôl ei ddoethineb ei hun. Ni fydd modd aseinio, arallu na throsglwyddo'r caniatâd ac eithrio'n unol â'r weithdrefn rag-grybwylledig.

**Caniatâd Tybiedig dan Adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Amodau**

6. Yn yr amodau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn golygu fel arall:

mae gan **"llwyth anwahanadwy anghyffredin"** yr un ystyr ag yng Ngorchymyn Cerbydau Ffordd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003(a);

mae **"dechrau'r datblygiad"**, mewn perthynas â'r datblygiad awdurdodedig, yn golygu'r dyddiad y bydd y datblygiad awdurdodedig yn dechrau trwy gyflawni gweithrediad perthnasol fel y diffinnir yn adran 56 Deddf 1990, a chaiff "dechrau" a "dechreuodd" eu dehongli'n unol â hynny;

ystyr **"cyfnod adeiladu"** yw'r cyfnod o ddechrau'r gwaith ar y Datblygiad hyd at y dyddiad 6 mis ar ôl i gaeadleoedd y Safle gael eu hadfer yn unol ag amodau'r caniatâd hwn;

mae **"dB"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel;

mae **"dB(A)"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel, gan gynnwys yr hidlydd pwysoliad-A yn y mesuriadau y cyfeirir atynt yn ETSU-R-97;

mae **"datblygiad"** fel y diffinnir yn amod 1 y caniatâd hwn.

mae **"datgoedwigo"** yn golygu unrhyw gwympo neu docio coed a gyflawnir .

mae **"rhywogaeth a warchodir gan Ewrop"** yn golygu rhywogaeth a restrir yn Atodlenni 2 neu 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

mae **"ETSU-R-97"** yn golygu Adroddiad ETSU rhif ETSU-R-97 *'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms'*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996;

mae **"allforyn cyntaf"** yn golygu'r dyddiad y caiff trydan ei allforio i'r grid ar sail fasnachol am y tro cyntaf;

mae **"LA90"** yn golygu'r lefel desibelau (dB) y rhagorwyd arni ar gyfer 90% o bob cyfnod sampl;

mae "**Awdurdod Cynllunio Lleol**" yn golygu Cyngor Sir Powys neu unrhyw awdurdod olynol;

mae **"gŵyl gyhoeddus"** yn golygu diwrnod a ddethlir yn ŵyl gyhoeddus;

ystyr **"safle"** yw'r tir oddi mewn i ffin y datblygiad a amlinellir yn goch ar y map sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn;

ystyr **"buanedd y gwynt"** yw buanedd y gwynt a fesurir ar Safle'r fferm wynt ar uchder both y tyrbin, ac wedi ei gywiro i uchder safonol o 10m uwchben lefel y ddaear, mewn modd y cytunwyd arno â'r Awdurdod Cynllunio Lleol;

ystyr **"tyrbinau gwynt"** yw'r tyrbinau gwynt sy'n ffurfio rhan o'r datblygiad, a chaiff "tyrbin gwynt" ei ddehongli'n unol â hynny.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

7. Lle y caiff manylion, trefn neu gynllun eu cyflwyno i'w cymeradwyo neu eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol dan unrhyw amod, yna oni bai bod yr amod yn darparu fel arall:
   (a) rhaid i'r manylion neu drefn neu gynllun a'r gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig; ac
   (b) ystyrir bod y manylion, trefn neu'r cynllun cymeradwy yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a all gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol wedi hynny, ar yr amod na all yr awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau lle byddai'r diwygiadau hynny'n arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol wahanol i'r rhai a aseswyd yn y datganiad amgylcheddol.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

### Y Datblygiad

8. Cyflawnir y datblygiad, yn destun yr amodau isod, yn unol ag 'Opsiwn 2' fel y disgrifir yn y cais a ddiwygiwyd yn ffurfiol a wnaed ym mis Mehefin 2013 a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2013, yn ogystal â Datganiad Amgylcheddol 2008 a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2014, i'r graddau nad yw'n anghyson â'r uchod.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

9. Mae'r caniatâd hwn am gyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad yr allforyn cyntaf.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth a phennu cyfnod y caniatâd hwn.*

10. Rhoddir cadarnhad o ddyddiad yr allforyn cyntaf yn ysgrifenedig i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen mis o ddigwydd.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

11. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes i'r ardaloedd y bydd y datblygiad yn amharu arnynt gael eu cofnodi'n ffotograffig a bod y lluniau hyn, ynghyd â chynllun yn manylu ar leoliad union a chyfeiriant y ffotograffau hyn, wedi eu cyflwyno i'r awdurdod cynllun lleol a'u cymeradwyo ganddo.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r dirwedd a'r safle cyn i'r datblygiad ddechrau ac i ddarparu sail ar gyfer y cynllun datgomisiynu ac adfer y safle.*

**Datgomisiynu ac Adfer**

12. Heb fod yn llai na 18 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben, caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu ac arfer y Safle ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon diweddar o gynefinoedd, adar a rhywogaethau a'i weithredu a'i gwblhau cyn pen 12 mis wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben. Bydd y cynllun yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i:
   a) manylion am yr holl lwybrau, strwythurau, adeiladau, ceblau tanddaearol a chyfleustodau, a seilwaith cysylltiedig arall sydd i'w tynnu'n unol ag arfer dda;
   b) manylion am y dull tynnu a sut y bydd hyn yn osgoi tresmasu ar gynefinoedd mawndir;
   c) tynnu llwybrau, strwythurau, adeiladau a seilwaith cysylltiedig arall fesul cam;
   d) symud daear ac amnewid pridd;
   e) adfer y dirwedd;
   f) adfer hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau a llwybrau troed;
   g) monitro'r ardaloedd adferedig a'r camau gweithredu adferol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei dynnu mewn modd cydymdeimladol wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben.*

13. Cyn rhoi'r Cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle ar waith, caiff cynllun cyswllt â'r gymuned ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cyswllt â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwywyd a bydd yn cynnwys:
   a) manylion am gyswllt y datblygwr â'r gymuned leol er mwyn sicrhau y caiff preswylwyr eu hysbysu am sut mae datgomisiynu'r datblygiad yn dod yn ei flaen;
   b) dull ar gyfer delio â chwynion gan y gymuned leol wrth ddatgomisiynu'r datblygiad; a

c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

14. Ar ôl cwblhau'r gwaith adfer, caiff unrhyw offer, peiriannau ac adeiladau gosodedig sy'n weddill a godwyd neu a ddaethpwyd â nhw i'r safle at ddiben gweithredu cynllun eu tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

15. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r Cwmni gyflwyno manylion am offeryn ariannol i'r awdurdod cynllunio lleol, a bod trefniadau a fydd yn sicrhau bod digon o gyllid i gwmpasu costau datgomisiynu ac adfer y safle, yn unol ag Amod 15 uchod, ar gael i'r awdurdod cynllunio cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Bydd yr offeryn ariannol yn cynnwys trefniadau i gyllid cynyddu â chwyddiant ac yn cynnwys darpariaeth adolygu 5, 10, 15 ac 20 mlynedd ar ôl yr Allforyn Cyntaf er mwyn sicrhau bod y cyllid yn ddigonol o hyd i dalu costau datgomisiynu ac adfer y safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

16. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r offeryn ariannol, nes bod yr offeryn ariannol ar waith ac y gwneir trefniadau i sicrhau y bydd cyllid ar gael cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Caiff yr offeryn ariannol ei gynnal trwy gydol cyfnod y caniatâd ac adfer, a chaiff y trefniadau ar gyfer adneuo cyllid, addasiadau chwyddiant ac adolygu'r offeryn ariannol eu rhoi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

**Methiant Tyrbinau**

17. Os bydd unrhyw dyrbin gwynt yn methu darparu trydan i'r grid am gyfnod parhaus o 12 mis neu fwy (heblaw am resymau'n ymwneud â sŵn);
   a) caiff yr awdurdod cynllunio lleol ei hysbysu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw o 12 mis; a
   b) gall yr awdurdod cynllunio lleol gyfarwyddo'r datblygwr i gyflwyno cynllun manwl yn amlinellu sut caiff y tyrbin gwynt ei dynnu o'r safle, pa lwybrau, strwythurau, adeiladau a seilwaith cysylltiedig arall (gan gynnwys ceblau) a gaiff eu tynnu o'r safle, sut y cânt eu tynnu a sut caiff yr ardaloedd dan sylw eu hadfer. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion am unrhyw warchodaeth angenrheidiol ar gyfer adar bridio sy'n ofynnol o ganlyniad i'r gwaith. Caiff y cynllun ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen 2 fis o gael cyfarwyddyd gan yr awdurdod cynllunio lleol, a chaiff ei roi ar waith cyn pen 6 mis o'i gymeradwyo, oni bai bod yr awdurdod cynllunio lleol yn cytuno'n ysgrifenedig â chyfnod hwy ar yr amod na fydd unrhyw ofyniad i dynnu'r tyrbin neu'r seilwaith cysylltiedig os bydd y tyrbin yn darparu trydan i'r

grid unwaith eto yn ystod y cyfnod yn dilyn cyfarwyddyd i'r datblygwr gan yr awdurdod cynllunio lleol, yn unol â (b).

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei atgyweirio/eu hatgyweirio, neu ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei ddatgomisiynu/eu datgomisiynu.*

**Microleoli'r Datblygiad**

18. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes y caiff protocol microleoli ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer penderfynu ar ficroleoli ar gyfer y datblygiad cyfan er mwyn lleihau effaith y datblygiad ar, ond nid yn gyfyngedig i, mawn, gylfinirod, rhywogaethau a warchodir, cyrsiau dŵr, llwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus eraill, ac ni chaiff blaenau unrhyw lafnau eu lleoli o fewn 50 metr o ymylon coetiroedd a nentydd ac unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol eraill a amlygir.

*Rheswm: Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i'r datblygwr yn ystod yr adeiladu i wneud mân newidiadau i leoliad y seilwaith i leihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol.*

19. Caiff pob agwedd ar y datblygiad ei lleoli o fewn 50m o'r lleoliadau a ddangosir yn ffigur 1.3 Opsiwn 2 – Cynnig Amgen ar gyfer 27 o Dyrbinau – a gyflwynwyd yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013, yn unol â'r protocolau a bennwyd yn amod 18.

*Rheswm: Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i'r datblygwr yn ystod yr adeiladu i wneud mân newidiadau i leoliad y seilwaith i leihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol.*

20. Cyn pen 6 mis ar ôl dyddiad yr allforyn cyntaf, caiff cynllun yn dangos lleoliad union y datblygiad cyfan (gan gynnwys llwybrau, lloriau caled, mynedfeydd, tyrbinau, pyllau benthyg ac ati) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r cynllun terfynol fel y'i hadeiladwyd, ar ôl ystyried lwfansau microleoli.*

**Datblygiad Manwl – Dyluniad a Golwg**

21. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei gludo i'r safle nes y caiff manylion am y tyrbinau eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo, gan gynnwys y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, ac os oes trawsnewidydd allanol, lleoliad y trawsnewidydd, y raddfa bŵer, y mast anemomedr a chyfarpar cysylltiedig. Caiff y tyrbinau, y mast anemomedr a'r cyfarpar cysylltiedig eu hadeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

22. Ni chodir unrhyw dyrbin nes i'r lliw arfaethedig gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y datblygiad ei gyflawni'n unol â'r cynllun lliw cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

23. Bydd llafnau'r tyrbinau gwynt ar bob tyrbin a ganiateir trwy hyn yn cylchdroi i'r un cyfeiriad.

*Rheswm: Er mwyn diogelu amwynderau gweledol yr ardal.*

24. Caiff yr holl geblau trydan sy'n cysylltu'r araeau tyrbinau â'r isbwerdy eu gosod o dan y ddaear.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

25. Ni fydd unrhyw waith datblygu ar adeilad yr isbwerdy ar y safle yn dechrau nes i fanylion yn ymwneud â'i leoliad, triniaeth allanol, dyluniad, deunyddiau, tirweddu (os o gwbl), a'i gyfeiriadedd eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff yr isbwerdy ei adeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

26. Ni ellir defnyddio unrhyw oleuadau awyr agored heblaw:
    a) goleuadau awyrennau a osodir yn unol ag amod 55 y Caniatâd hwn;
    b) goleuadau dros dro ar gyfer y safle a gymeradwyir o dan amod 39 fel rhan o'r Datganiad Dull Adeiladu;

    yn ystod y gwaith Datblygu, oni bai y caiff manylion am y goleuadau hyn eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y cyfryw oleuadau awyr agored eu darparu'n unol â'r manylion cymeradwy yn unig.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

27. Heblaw yn ystod y cyfnod adeiladu, ni chaiff unrhyw symbolau, arwyddion, logos na llythreniadau eraill, heblaw'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith am resymau iechyd a diogelwch, eu harddangos ar unrhyw ran o'r tyrbinau nac unrhyw adeilad neu strwythur heb ganiatâd gan yr awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

**Oriau Adeiladu**

28. Caiff gwaith adeiladu ei gyflawni rhwng 07:30 ac 19:30 o'r gloch yn unig o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny, a rhwng 07:30 ac 13:00 o'r gloch ar ddyddiau Sadwrn, heb unrhyw waith adeiladu ar ddyddiau Sul neu wyliau cyhoeddus. Y tu allan i'r oriau hyn, caiff gwaith ar y safle ei gyfyngu i waith brys, codi tyrbinau, llethu llwch, a phrofi/cynnal a chadw peiriannau ac offer, neu waith adeiladu nad yw'n glywadwy o unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo'n wahanol yn ysgrifenedig. Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw waith brys cyn pen tri diwrnod gwaith ohono.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

29. Caiff yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r datblygiad eu cyflawni'n unol â Safon Brydeinig BS5228:2009: Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored – Rhan 1: Sŵn a Rhan 2: Dirgryniad.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

**Priffyrdd**

30. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes y caiff y gwaith ar gyffordd y C2025 â'r A483 ei gyflawni'n unol â'r manylion a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac a gymeradwywyd ganddo. Bydd y manylion yn cynnwys:
    a) manylion am unrhyw lain welededd a fydd yn cael ei chadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
    b) manylion draeniad; a
    c) marciau ffordd a chynigion ar gyfer arwyddion.

    *Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir dull boddhaol o fynd yn ôl ac ymlaen o'r gefnffordd, er budd diogelwch y priffyrdd*

31. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu, heblaw sefydlu'r safle a chreu'r cyfadeilad adeiladu, nes y caiff cynlluniau manwl o'r gwaith a wneir i'r C2025 Pentre Road a phriffordd sirol ddi-ddosbarth yr U2835 eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y manylion a gyflwynir eu llywio gan arolygon ecolegol a byddant yn cynnwys:
    a) manylion am ledu lleol a mannau pasio llwythi anwahanadwy;
    b) manylion am newidiadau i aliniadau fertigol;
    c) manylion am leiniau gwelededd ar gyffyrdd ar hyd ffyrdd sirol lle mae angen gwaith, gan gynnwys sut caiff y rhain eu cadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
    d) manylion draeniad;
    e) marciau ffordd a chynigion ar gyfer arwyddion; a
    f) rhaglen ar gyfer y gwaith.

    Caiff y gwaith ei weithredu'n unol â'r manylion a'r rhaglen gymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir ffordd foddhaol i mewn ac allan o'r datblygiad er budd diogelwch y priffyrdd, amwynder a gwarchod natur.*

32. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes y caiff asesiad o gapasiti dal pwysau pob strwythur sy'n ffurfio rhan o'r briffordd ar hyd y llwybr cludo, gan gynnwys mannau aros, mannau pasio, pontydd, cwlfertau, waliau cynnal, argloddiau, systemau draenio, ac unrhyw ddodrefn stryd yr effeithir arnynt ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo a nes i fanylion peirianegol llawn a lluniadau o unrhyw waith sydd ei angen ar y strwythurau hyn i ganiatáu i lwythi anwahanadwy anghyffredin deithio heibio iddynt gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y gwaith cymeradwy ei gwblhau cyn i unrhyw beth gael ei gludo i'r safle trwy lwyth anwahanadwy anghyffredin.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd.*

33. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes i Gynllun Rheoli Trafnidiaeth (TMP), sy'n gyffredinol unol â'r TMP drafft, dyddiedig Chwefror 2014, ac a lywiwyd gan arolygon ecolegol, gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Wedi hynny, caiff llwythi anwahanadwy anghyffredin eu cyflawni'n unol â'r TMP cymeradwy. Bydd y TMP yn cynnwys:
    a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
    b) ymgymryd ag unrhyw waith ledu neu welliannau i gyffyrdd a gwaith (gan gynnwys goleuadau stryd, arwyddion stryd a rhwystrau diogelwch) a darparu mannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles sy'n ofynnol i gludo llwythi anwahanadwy anghyffredin ar hyd y llwybr arfaethedig;
    c) argaeledd mynediad at unrhyw fannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles nad ydynt wedi eu cynnig i ffurfio rhan o'r rhwydwaith priffyrdd;
    d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill tra caiff nwyddau eu cludo trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin;
    e) rheoli a chynnal a chadw mannau aros, mannau pasio a chyfleusterau lles;
    f) manylion am arwyddion rhybuddio dros dro;
    g) cyfyngiadau ar symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
    h) ar gyfer unrhyw waith priffyrdd y cynigir ei gwblhau, datganiad ynghylch p'un a fydd yn barhaol neu dros dro ac, os yw dros dro, pryd y caiff ei dynnu a phryd caiff y briffordd ei ddychwelyd i'w chyflwr blaenorol; a
    i) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

    Ar ben hynny, caiff manylion am y gwaith priffyrdd sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r mannau aros, mannau pasio a'r gwelliannau i'r priffyrdd eu hamlinellu yn y TMP. Bydd y rhain yn cynnwys dulliau adeiladu, draenio, goleuadau stryd, arwyddion a marciau ffordd. Caiff y gwaith ei gwblhau'n unol â'r manylion cymeradwy cyn cludo unrhyw nwyddau i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

34. Ni chaiff unrhyw beth ei gludo i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin nes y caiff Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff pob cludiad trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin ei gyflawni'n unol â'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin gymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
    a) y bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin;
    b) y dull o reoli amseriad symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
    c) gwyriadau traffig a mannau dal traffig dros dro;
    d) manylion am fancwyr a hebryngwyr ar gyfer llwythi anghyffredin;

e) cydlynu â phob cludiad arall trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin (gan gynnwys, heb unrhyw gyfyngiadau, i ffermydd gwynt eraill yng nghanolbarth Cymru);
f) disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu amseroedd cludo, gan gynnwys sbardunau amseroedd cludo a masnachu;
g) penodiad a rôl Cydlynydd Trafnidiaeth;
h) rheoli a chynnal a chadw mannau aros a chyfleusterau lles;
i) cysylltu â'r rhanddeiliaid a'r awdurdodau perthnasol.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

35. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes caiff cynllun sy'n darparu ar gyfer adfer unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Datblygiad i seilwaith y priffyrdd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol. Caiff y cynllun ei roi ar waith fel y'i cymeradwywyd.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw a bod y datblygwr yn unioni unrhyw ddifrod a achosir y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r datblygiad.*

36. Ni fydd unrhyw waith adeiladu yn dechrau ar y safle nes caiff cynllun rheoli traffig (TMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Wedi hynny, cydymffurfir â'r cynllun rheoli traffig cymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau adeiladu;
b) dull o fonitro, rheoli a gorfodi symudiadau cerbydau a llwybrau i mewn ac allan o'r safle;
c) amseriad cludo deunyddiau adeiladu i'r safle;
d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill;
e) cynllun teithio sydd â'r nod o fwyhau defnydd trafnidiaeth gynaliadwy gan y gweithlu adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad;
f) cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
g) mesurau i reoli traffig adeiladu oddi ar y safle, ynghyd â threfniadau cytundebol, a sicrhau y gellir datrys cwynion ac achosion o dorri gofynion y TMP;
h) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder*.

37. Ni chaiff unrhyw draffig sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r datblygiad symud nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw ddatgomisiynu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

38. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig ag unrhyw atgyweiriadau neu amnewid cydrannau eu symud yn ystod oes y datblygiad nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw atgyweiriadau ac/neu amnewid ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

**Rheoli Adeiladu**

39. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau, gan gynnwys clirio'r safle, tynnu prysg a llystyfiant, a gwaith cwympo coed, nes caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y CEMP ei weithredu fel y'i cymeradwyir trwy gydol y cyfnod adeiladu, a'r cyfnod adfer ôl-adeiladu, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y CEMP yn cynnwys:
    a) trefniadau manwl contractwyr, monitro a chynigion wrth gefn, gan gynnwys cynllun rheoli amgylcheddol ac atal llygredd, ac enwi clerc gwaith ecolegol;
    b) trefniadau rheoli yn amlinellu sut bydd y datblygwr, contractwyr a rheolyddion yn cydweithio â'i gilydd i sicrhau y cyflawnir darpariaethau'r CEMP;
    c) lleoliad a dull gweithio'r pyllau benthyg;
    d) amserlen fanwl ar gyfer cwympo coed, llystyfiant a chlirio'r safle, adeiladu a rheoli cynefinoedd hyd at gomisiynu'r tyrbinau ac adfer y safle;
    e) manylion am reoli a monitro dŵr, gan gynnwys ansawdd, fel yr amlinellir yn y Cynllun Rheoli a Monitro Dŵr;
    f) manylion am reoli llwch;
    g) manylion am sut y caiff hawliau tramwy cyhoeddus eu rheoli, fel yr amlinellir yn y Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy;
    h) cynigion ar gyfer ffin a gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cynefinoedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a Henebion Cofrestredig y tu mewn neu'n gyfagos ar y safle, ac afon Gwy;
    i) mesurau ar gyfer storio unrhyw danwydd, olew, sment, concrit a chemegau ar sylfeini anhydraidd oddi wrth gyrsiau dŵr neu nodweddion dŵr;
    j) manylion, gan gynnwys maint a ffynhonnell, am unrhyw ddeunydd i'w fewnforio i'r safle i ôl-lenwi ffosydd, neu adeiladu llwybrau mynediad a seilwaith arall;
    k) manylion am ddylunio ac adeiladu llwybrau, gan gynnwys cloddio a pharatoi ffyrdd mynediad mewnol a lloriau caled, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â dŵr ffo llawn silt o unrhyw waith, ffyrdd mynediad dros dro a pharhaol, storio pridd a gweithrediadau peirianegol eraill, gan gynnwys pyllau benthyg;
    l) amlinellu mesurau manwl i leihau amharu ac effeithio ar adar bridio mewn Cynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP) diweddaredig;
    m) manylion i reoli mawn a phridd, fel yr amlinellir yn y Cynllun Rheoli Mawn;
    n) trefniadau adeiladu ar gyfer sylfeini'r tyrbinau, ffyrdd mynediad a seilwaith arall, gan gynnwys trefniadau sypynnu concrit a dad-ddyfrio i drin dŵr a all fod yn llawn gwaddod;
    o) gosod ceblau ar y safle, gan gynnwys dyluniad manwl y ffosydd;

p) datganiadau dull adeiladu ar gyfer cyfadeilad y gwaith adeiladu a’r holl seilwaith, gan gynnwys eu tynnu a’u hadfer yn foddhaol, yn y pen draw;
q) manylion a datganiadau dull ar gyfer gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau a fydd yn cael eu tynnu a’u hadleoli, gan gynnwys y rhai sydd i’w tynnu er mwyn gwella’r briffordd;
r) adfer y tir ar ôl y gwaith adeiladu, gan gynnwys ailblannu’r llwybr mynediad ac ymylon y briffordd ac ardaloedd y lloriau caled, er mwyn lleihau eu heffaith weledol, ynghyd â mesurau i fonitro ei lwyddiant;
s) trefniadau i atal rhywogaethau goresgynnol anfrodorol rhag lledaenu;
t) manylion am y dull ar gyfer pyllau benthyg, gan gynnwys: eu lleoliad arfaethedig, agor, gweithio ac adfer pyllau benthyg ar y safle;
u) ni chaiff unrhyw bwll benthyg ei gloddio islaw dyfnder y lefel trwythiad;
v) bydd y deunydd ar gyfer ôl-lenwi’r pyllau benthyg o athreiddedd tebyg i’r graig a gloddiwyd a deunydd anadweithiol;
w) mesurau i reoli llwch a llaid yn codi o’r safle, gan gynnwys lleithio, darparu cyfleusterau golchi olwynion a gosod cynfasau mewn cerbydau nwyddau trwm sy’n cludo gwastraff neu ddeunyddiau adeiladu yn ôl ac ymlaen o’r safle;
x) mesurau i lanhau a chynnal a chadw mynedfa’r safle a’r briffordd gyhoeddus gyfagos.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol a lleihau’r aflonyddwch i breswylwyr lleol yn ystod y broses adeiladu.*

**Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy**

40. Ni fydd unrhyw waith datblygu’n dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy (RWMP) ei gyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’i gymeradwyo ganddo. Caiff y RWMP ei weithredu fel y’i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:
a) manylion am ailgyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro yn ystod adeiladu’r datblygiad awdurdodedig;
b) manylion am ddarparu arwyddion a gwybodaeth arall sy’n rhybuddio’r cyhoedd am waith adeiladu;
c) manylion am unrhyw ffensys neu rwystrau a ddarperir yn ystod y cyfnod adeiladu;
d) manylion am sut caiff hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau a ffyrdd eu harolygu cyn y cyfnod adeiladu a’u monitro yn ystod y cyfnod adeiladu;
e) manylion am unrhyw lwybrau amgen ar gyfer unrhyw hawl tramwy cyhoeddus y mae angen ei ddargyfeirio;
f) manylion am lwybrau goddefol i’w darparu oddi mewn i’r safle;
g) mesurau a gymerir i warchod hawliau, buddiannau a diogelwch defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus sy’n croesi’r safle a thir mynediad agored oddi mewn i’r safle wrth adeiladu’r datblygiad;
h) manylion am sut caiff derbynyddion ecolegol eu gwarchod lle caiff unrhyw hawl tramwy cyhoeddus ei ailgyfeirio.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus.*

41 Ni fydd unrhyw waith datblygu’n dechrau nes caiff Cynllun Gwella Mynediad Lleol i ddarparu ar gyfer gwarchod a gwella hawliau tramwy cyhoeddus yn agos at y fferm wynt arfaethedig ei gyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’i

gytuno’n ysgrifenedig. Cyflawnir y gwaith datblygu’n unol â’r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus.*

**Ecoleg**

42. Ni fydd unrhyw waith datblygu, gan gynnwys clirio’r safle a llystyfiant a chwympo coed, yn dechrau ar y safle nes caiff Cynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP) ei gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Bydd y Cynllun Rheoli Cynefinoedd yn cynnwys yr amcanion a’r cynigion a amlinellwyd yn y Cynigion Gwella Cynefinoedd Arfaethedig drafft, dyddiedig Awst 2013. Caiff y Cynllun Rheoli Cynefinoedd ei weithredu fel y’i cymeradwyir, oni bai y caiff ei ddiwygio â chymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er budd diogelu neu wella’r cynefinoedd perthnasol ac amodau ar gyfer rhywogaethau cysylltiedig.*

43. Ni fydd unrhyw waith datblygu, gan gynnwys clirio’r safle a llystyfiant a chwympo coed, yn dechrau ar y safle nes caiff Cynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP) manwl ei gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Bydd y BBPP yn cynnwys yr amcanion a’r cynigion a amlinellwyd yn ‘Cynllun Gwarchod Adar Bridio Drafft Llaithddu’, dyddiedig 2 Awst 2013. Caiff y BBPP ei weithredu fel y’i cymeradwyir, oni bai y caiff ei ddiwygio â chymeradwyaeth ysgrifenedig flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod adar bridio wrth adeiladu, gweithredu a datgomisiynu’r fferm wynt.*

44. Ni fydd unrhyw waith datblygu’n dechrau nes caiff cynllun rheoli a monitro ansawdd dŵr ei gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys mesurau i fonitro a gwarchod ansawdd dŵr yn nalgylch Gwy a systemau draenio eraill, gwlyptiroedd a’r amgylchedd dŵr rhag y Datblygiad. Caiff y cynllun rheoli a monitro ei weithredu’n unol â’r cynllun cymeradwy, a bydd angen cynnwys y mesurau canlynol:
   a) mesurau i atal cyrsiau dŵr rhag cael eu llygru, a gweithdrefnau rhag ofn y bydd llygru’n digwydd;
   b) targedau ansawdd dŵr ar gyfer cyrsiau dŵr;
   c) lleoliadau pyllau gwaddod a mesurau lliniaru eraill sydd eu hangen i gyrraedd targedau ansawdd dŵr;
   d) lleoliadau’r holl fannau monitro ansawdd dŵr;
   e) gweithdrefnau ar gyfer monitro ansawdd dŵr;
   f) mesurau a gweithdrefnau ar gyfer cymryd camau yn erbyn rhagori ar waddod a thargedau ansawdd dŵr eraill a amlygir;
   g) rôl y Clerc Gwaith Ecolegol o ran rhoi’r cynllun ar waith;
   h) mesurau manwl ar gyfer croesfannau nentydd i alluogi llifoedd dŵr wyneb i lifo o dan lwybrau neu drwyddynt;
   i) manylion am fesurau i atal unrhyw redlif llygrol o ffyrdd cludo rhag mynd i’r amgylchedd dŵr;

j) datganiad gwaith (gan gynnwys dylunio ac adeiladu) i gwmpasu'r holl waith sianelau a chloddiau, gan gynnwys croesfannau sianelau
k) cynigion ar gyfer rheoli dŵr budr, gan gynnwys allolchiad concrit.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod yr amgylchedd dŵr.*

45. Ni fydd unrhyw waith datblygu, clirio'r safle neu gwympo coed yn dechrau nes caiff Cynllun Gwarchod Rhywogaethau a Warchodir manwl ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i, manylion am:
a) y fanyleb ar gyfer arolygon cyn-dechrau a gyflawnir ar gyfer ystlumod, dyfrgwn, llygod y dŵr a moch daear, sy'n cynnwys methodoleg, amserlen ac amseriad yr arolwg, datblygu modelau risg damweiniau ar gyfer ystlumod, ac os ydynt yn bresennol, mesurau lliniaru addas i sicrhau y cânt eu gwarchod trwy gydol cyfnodau cyn-adeiladu, adeiladu a gweithredu'r datblygiad;
b) arolwg manwl o'r cyrsiau dŵr a'r ardaloedd gwlyptir ar gyfer presenoldeb safleoedd bridio a gorffwys dyfrgwn o fewn radiws o 500m o gwmpas pob tyrbin a 500m i bob ochr i lwybrau mynediad ac ardaloedd sy'n destun ymyrraeth oherwydd adeiladu, clirio a chwympo coed;
c) arolwg o gyrsiau dŵr ac ardaloedd gwlyptir ar gyfer presenoldeb tyllau ac ardaloedd bwydo a phorthiant llygod dŵr gan gynnwys yr ardal 500m i fyny ac i lawr yr afon o ardaloedd sy'n destun aflonyddwch adeiladu, clirio a chwympo coed, a mesurau lliniaru priodol i gynnal cysylltedd cynefinoedd ar gyfer llygod dŵr;
d) gwiriad arolwg ar gyfer setiau moch daear neu weithgarwch porthianna moch daear hyd at 50m o gwmpas ardaloedd adeiladu, clirio a chwympo coed a 100m o weithgarwch drilio, gosod pyst neu ffrwydro;
e) paratoi cynllun gwrychoedd/cynefinoedd yn cynnwys manylion am dynnu, trawsleoli ac ôl-ofal yr holl wrychoedd a chynefinoedd y bydd y gwaith yn effeithio arnynt oddi mewn i'r safle a'r ffordd fynediad;
f) y mesurau i'w cymryd i gadarnhau cydymffurfiad â'r holl fesurau lliniaru rhywogaethau a warchodir, cydadfer a gwella.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod rhywogaethau a warchodir.*

46. Ni fydd unrhyw waith datblygu, gan gynnwys clirio'r safle a llystyfiant a chwympo coed, yn dechrau ar y safle (gan gynnwys ar y safle) nes y caiff Cynllun Rheoli Mawn (PMP) ei gyflwyno i'r ACLl a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y Cynllun Rheoli Mawn ei weithredu fel y'i cymeradwyir oni chaiff ei ddiwygio â chymeradwyaeth flaenorol yr Awdurdod Cynllunio Lleol, a bydd yn cynnwys ond ni fydd wedi'i gyfyngu i:
a) fanylion am sut bydd gwaith adeiladu, gan gynnwys symud offer, peiriannau a cherbydau, yn osgoi tresmasu ar gynefinoedd mawndir;
b) manylion am stripio mawn/pridd, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer cloddio;
c) manylion am bob ardal cadw mawn;
d) gweithdrefnau i atal mawn rhag sychu;
e) ailddefnydd arfaethedig mawn.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod adnoddau mawn.*

47. Cyn gosod unrhyw dyrbin ar y safle, caiff cynllun monitro barcutiaid coch ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir, a bydd yn cynnwys:
    a) darpariaeth ar gyfer arolygu presenoldeb a gweithgareddau nythu barcutiaid coch ar y safle;
    b) monitro llwyddiant bridio barcutiaid coch ar y safle;
    c) mesurau i gofnodi gweithgarwch a chyfraddau marwolaeth;
    d) adroddiad blynyddol ar ganlyniadau arolygon a monitro, ynghyd ag argymhellion ar gyfer unrhyw gamau adferol, os nodwyd bod angen y cyfryw gamau, a all leihau marwoldeb barcutiaid coch;
    e) gweithdrefn ar gyfer cytuno ar fesurau adferol sydd â'r nod o osgoi neu leihau marwolaethau barcutiaid coch a'u gweithredu;
    f) amserlen gytûn ar gyfer monitro, sy'n ddigon i bennu effaith gweithredu'r fferm wynt ar farcutiaid coch ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau adferol y gellir eu rhoi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn lleihau'r effaith ar farcutiaid coch.*

48. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes y caiff cynllun monitro ecolegol ei gyflwyno i'r awdurdod lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir, a bydd yn cynnwys y trefniadau monitro ar gyfer y cynlluniau y cyfeirir atynt yn amodau 44-49, a bydd yn cynnwys y canlynol:

    a) mesurau monitro i gofnodi gweithgarwch ystlumod gan ddefnyddio canfodyddion ystlumod awtomataidd ac amodau'r tywydd ger tyrbinau gwynt;

    b) gweithdrefn fonitro i gofnodi marwoldeb ystlumod ger tyrbinau gwynt;

    c) adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau monitro ag argymhellion ar gyfer unrhyw gamau adferol a all leihau marwoldeb ystlumod;

    d) gweithdrefn ar gyfer cytuno ar fesurau adferol sydd â'r nod o osgoi neu leihau marwoldeb ystlumod a'u rhoi ar waith. Gall y cyfryw fesurau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, gwtogi tyrbinau a/neu newidiadau rheoli tir;

    e) amserlen gytûn ar gyfer monitro sy'n ddigon i bennu effaith gweithredu'r fferm wynt ar ystlumod ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau adferol a roddir ar waith;

    f) manylion am fonitro gylfinirod;

    g) monitro'r holl wrychoedd a chynefinoedd y bydd gwaith oddi mewn i'r safle a'r ffordd fynediad yn effeithio arnynt;

    h) monitro ac adolygu'r HMP;

    i) monitro effeithio datblygu'r seilwaith ar fawn dwfn.

    Caiff y mesurau y cytunir arnynt yn y Cynllun Gwarchod Adar Bridio eu monitro ar gyfnodau o 1, 2, 3, 5, 10 a 15 mlynedd ar ôl comisiynu terfynol y fferm wynt, o leiaf. Ar gyfer gylfinirod bridio, dylid cynnal y gwaith monitro

hyd at safon unfath ar safle'r fferm wynt a safle cyfeirio priodol. Bydd y data crai a chanlyniadau wedi eu coladu a'u dehongli ar gael i Gyngor Sir Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru cyn pen chwe mis o gael eu cwblhau ym mhob un o'r blynyddol priodol.
Caiff yr HMP a'i amcanion eu monitro a'u hadolygu 1, 2, 5, 10 a 15 mlynedd ar ôl comisiynu terfynol y fferm wynt. Caiff y camau gweithredu a amlinellir yn yr HMP eu diwygio yn dilyn cytundeb â Chyngor Sir Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ôl yr angen. Caiff protocolau monitro eu cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd y cynlluniau.*

49. Cyn dechrau clirio'r safle, cwympo coed neu ddatblygu arall, penodir Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW). Caiff yr ECoW ei benodi/phenodi ar ôl cael cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y cyfnod o ddechrau'r datblygiad hyd at Gomisiynu Terfynol y datblygiad. Bydd cwmpas gwaith yr ECoW yn cynnwys:
   a) monitro cydymffurfiad â'r gwaith lliniaru ecolegol a gymeradwywyd yn y caniatâd hwn a darparu adroddiadau chwarterol yn adrodd ar gydymffurfiad i'r awdurdod cynllunio lleol;
   b) cynghori'r Cwmni ar warchod buddiannau cadwraeth natur yn ddigonol ar y Safle;
   c) cyfarwyddo microleoliad a lleoliad tyrbinau, llwybrau a seilwaith arall;
   d) monitro cydymffurfiad â mesurau rheolaeth amgylcheddol yn y CEMP a phob datganiad o ddull, a chadw trywydd archwilio o gydymffurfiad;
   e) rhoi cyngor i gontractwyr ynghylch rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod yr amgylchedd ecolegol ac adaregol.*

**Cysgodion Symudol**

50. Cyn codi'r tyrbin cyntaf, caiff cynllun ysgrifenedig ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, yn amlinellu protocol ar gyfer asesu cysgodion symudol rhag ofn y bydd unrhyw gŵyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan berchennog neu ddeiliad annedd breswyl. Bydd y cynllun ysgrifenedig yn cynnwys mesurau adferol i liniaru unrhyw gysgodion symudol y gellir eu priodoli i'r datblygiad. Caiff y tyrbinau eu gweithredu'n unol â'r protocol cymeradwy, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig blaenorol i unrhyw amrywiadau.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Ymyriant Teledu**

51. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei godi nes caiff cynllun ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo sy'n darparu ar gyfer archwilio ac adfer unrhyw ymyriant â derbyniad teledu mewn unrhyw annedd a oedd yn bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn. Bydd y cynllun yn darparu i beiriannydd teledu annibynnol cymwysedig

ymchwilio i unrhyw gŵyn o ymyriant â derbyniad teledu mewn annedd sydd wedi ei meddiannu'n gyfreithlon, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am y cyfryw gŵyn cyn pen 24 mis o ddyddiad y comisiynu terfynol. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Archaeoleg**

52. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun ymchwilio archaeolegol ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ymchwilio archaeolegol ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw olion archaeolegol sy'n weddill eu harchwilio a'u cadw.*

53. Caiff pob cofnod a goladir, o ganlyniad i'r Cynllun Ymchwilio Archaelegol, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i anfon at y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar hyn o bryd) cyn pen 6 mis o gasglu'r cofnod.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ganfyddiadau archaeolegol eu cofnodi'n briodol.*

**Hedfan**

54. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes y darperir y wybodaeth ganlynol i Ganolfan Daearyddol Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn:
   a) y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn gorffen;
   b) uchder mwyaf yr offer adeiladu;
   c) lledred a hydred pob tyrbin.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

55. Caiff goleuadau hedfan amgylchol neu oleuadau hedfan isgoch 25 candela, a achredir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac sydd â phatrwm fflachio wedi ei optimeiddio o 60 fflach y funud am gyfnod o 200ms i 500ms, eu gosod ar naselau ar unrhyw gyfryw dyrbinau eraill y mae'r awdurdod cynllunio lleol, ar ôl ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn cytuno y byddant yn darparu golau yr un mor effeithiol at ddibenion awyrlywio. Bydd y goleuadau'n parhau'n weithredol tan yr amser y caiff y tyrbinau gwynt eu datgomisiynu a'u tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er budd diogelwch hedfan.*

**Cysylltu â'r Gymuned**

56. Ni fydd unrhyw datblygu dechrau nes caiff cynllun cysylltu â'r gymuned ar gyfer y cyfnod adeiladu ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i

gymeradwyo ganddo.  Caiff y cynllun cysylltu â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:

a) manylion am gysylltiad y datblygwr â'r gymuned leol i sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod sut mae'r adeiladu yn dod yn ei flaen;
b) dull i fynd i'r afael â chwynion gan y gymuned leol yn ystod adeiladu'r datblygiad; a
c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr, a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

**Sŵn**

57. Ni chaiff unrhyw dyrbin a gymeradwyir trwy hyn ei weithredu cyn cyflwyno cynllun ar gyfer asesu a rheoleiddio Modylu Osgledau Gormodol (EAM) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo ar ei gyfer.  Os yw'n bodoli ar adeg ei gyflwyno, bydd y cynllun yn gyffredinol unol ag:

a) arweiniad perthnasol a gefnogir mewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol; neu yn niffyg arweiniad ardystiedig;
b) arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Acwsteg.

Caiff y cynllun cymeradwy ei weithredu ar hyd oes y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn.

*Rheswm: Er budd amwynder cyhoeddus er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â Modylu Osgledau Gormodol yn briodol.*

58. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt (gan gynnwys cymhwyso unrhyw gosb donaidd) pan y'i pennir yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig (i'r amod hwn), yn fwy na'r gwerthoedd ar gyfer y buanedd gwynt cyfanrifol perthnasol a bennir, neu'n sy'n deillio o'r, tabl sydd wedi ei atodi i'r amod hwn mewn unrhyw annedd sy'n bodoli'n gyfreithlon neu sydd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn, a:

a) Bydd y cwmni yn cofnodi cynhyrchiad ynni, buanedd y gwynt a chyfeiriad y gwynt yn barhaus, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d). Caiff y data hwn ei gadw am gyfnod nad yw'n llai na 24 mis.  Bydd y Cwmni yn darparu'r wybodaeth hon yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cais ganddo, cyn pen 14 diwrnod o dderbyn y cyfryw gais yn ysgrifenedig.
b) Ni chaiff unrhyw drydan ei allforio nes i'r Cwmni gyflwyno rhestr o ymgynghorwyr annibynnol arfaethedig a all ymgymryd â mesuriadau cydymffurfio yn unol â'r amod hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff diwygiadau i'r rhestr o ymgynghorwyr cymeradwy dim ond eu gwneud â chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.
c) Cyn pen 21 diwrnod o dderbyn cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cwyn iddo gan breswylydd annedd sy'n honni aflonyddwch sŵn yn yr annedd, bydd y Cwmni, ar ei draul, yn cyflogi ymgynghorydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt yn eiddo'r achwynydd, yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig.  Bydd y

cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn amlinellu o leiaf y dyddiad, yr amser a'r lleoliad y mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy, ynghyd ag unrhyw amodau atmosfferig a nodwyd, gan gynnwys cyfeiriad y gwynt, ac yn cynnwys datganiad ynghylch p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd.

d) Ymgymerir â'r asesiad o lefel allyriadau sŵn yn unol â phrotocol asesu a fydd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n flaenorol. Bydd y protocol yn cynnwys y lleoliad mesur arfaethedig a nodwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd lle yr ymgymerir â mesuriadau at ddibenion gwirio cydymffurfiad, p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, a hefyd ystod yr amodau meteorolegol a gweithredol (a fydd yn cynnwys ystod buanedd y gwynt, cyfeiriadau'r gwynt, cynhyrchiad ynni ac adegau'r dydd) i benderfynu ar asesiad lefel yr allyriadau sŵn. Ystod yr amodau arfaethedig fydd y rhai a oedd yn bodoli yn ystod yr adegau y mae'r achwynnydd yn honni y bu aflonyddwch oherwydd sŵn, gan ystyried cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan baragraff (c), ac eraill fel y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn ystyried eu bod yn debygol o arwain at dorri'r cyfyngiadau sŵn.

e) Lle nad yw annedd y mae cwyn yn ymwneud â hi wedi ei rhestru yn y tablau sy'n atodedig i'r amodau hyn, bydd y Cwmni yn cyflwyno cyfyngiadau sŵn arfaethedig wedi eu dethol o'r rhai a restrir yn y Tablau i'w mabwysiadu yn annedd yr achwynnydd at ddibenion gwirio cydymffurfiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Y cyfyngiadau sŵn arfaethedig fydd y cyfyngiadau a ddewisir o Dabl 1, gan ystyried Tabl 2, ac a bennwyd ar gyfer lleoliad rhestredig y mae'r ymgynghorydd annibynnol o'r farn y byddai'n debygol o brofi'r amgylchedd sŵn cefndir tebycach i'r amgylchedd sŵn cefndir y ceir profiad ohono yn annedd yr achwynnydd. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt, o'u pennu'n unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig, yn fwy na'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd yr achwynnydd.

f) Bydd y Cwmni yn darparu asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn, a gynhaliwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 2 fis o ddyddiad cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud mesuriadau cydymffurfiad a wneir o dan baragraff (c), oni bai y caiff y terfyn amser ei ymestyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr asesiad yn cynnwys yr holl ddata a gesglir at ddibenion cyflawni'r mesuriadau cydymffurfiad, a chaiff y cyfryw ddata ei ddarparu yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) y Nodiadau Cyfarwyddyd. Caiff yr offeryniaeth a ddefnyddir i gyflawni'r mesuriadau ei graddnodi'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (a) a chyflwynir tystysgrifau graddnodi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ag asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn.

g) Lle mae angen asesiad pellach o lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 4 (c), bydd y Cwmni yn cyflwyno copi o'r asesiad pellach cyn pen 21 niwrnod o gyflwyno asesiad yr ymgynghorydd annibynnol yn unol â pharagraff (d) uchod, oni bai y caiff y terfyn amser ei estyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder preswyl.*

Tabl 1: Cyfyngiadau sŵn a fynegir mewn dB LA90, 10 munud fel swyddogaeth buanedd safonol y gwynt (m/s) ar 10 metr o uchder fel y pennir oddi mewn i'r safle ar gyfartaledd dros gyfnodau o 10 munud.

| **Enw'r Lleoliad** | **Dwyreiniad** | **Gogleddiad** | **Buanedd safonol y gwynt ar uchder o 10 metr *(rnls)* oddi mewn i'r safle ar gyfartaledd dros gyfnodau o 10 munud** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** |
| Bondre Fach | 303537 | 275935 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 46 | 48.7 | 51.7 | 55 |
| Bondre Fawr | 303478 | 277256 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45.2 | 48 | 50.9 | 53.8 |
| Custogion | 305341 | 279784 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 47 | 50.7 | 54.3 | 57.9 | 61.4 |
| Ddullui Bank | 305205 | 280834 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 46.8 | 49.7 | 52.6 | 55.7 |
| Newhouse | 304934 | 27613045 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 47.5 | 50.7 |
| Paby Llwyd 1 | 305324 | 282553 | 39.1 | 39.1 | 39.1 | 39.1 | 40.1 | 42.8 | 44 | 45.4 | 46.9 | 48.5 |
| Paby Llwyd 2 | 305039 | 282383 | 39.4 | 39.4 | 39.4 | 39.4 | 40.5 | 42.8 | 44 | 45.4 | 46.9 | 48.5 |
| Paby Llwyd 3 | 304807 | 281859 | 35 | 35 | 35 | 37.4 | 38.5 | 41.7 | 45.8 | 48.7 | 51.6 | 54.7 |
| Paby Llwyd 4 | 304774 | 281328 | 35 | 35 | 35 | 37.4 | 39 | 42.1 | 46.2 | 49.1 | 52 | 55.1 |
| Nant-hir | 305502 | 277960 | 35 | 35 | 35 | 35 | 38.1 | 41.3 | 44.6 | 48 | 51.4 | 54.8 |
| Upper Nant Hir | 305694 | 277841 | 35 | 35 | 35 | 35 | 38.1 | 41.3 | 44.6 | 48 | 51.4 | 54.8 |
| Ffordd-Ias | 305307 | 277940 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 48 | 51.4 | 54.8 |
| Rock House | 305750 | 278241 | 35 | 35 | 35 | 35 | 38.1 | 41.3 | 44.6 | 48 | 51.4 | 54.8 |
| Great Meadows | 305891 | 278415 | 35 | 35 | 35 | 35 | 38.1 | 41.3 | 44.6 | 48 | 51.4 | 54.8 |
| Green Meadows | 306021 | 278379 | 35 | 35 | 35 | 35 | 38.1 | 41.3 | 44.6 | 48 | 51.4 | 54.8 |
| Gryn Llyndwr | 305950 | 283300 | 35 | 35 | 35 | 35 | 36.5 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 |
| Cwm Derw | 303060 | 278760 | 35 | 35 | 35.4 | 37.5 | 39.9 | 42.4 | 45.2 | 48 | 50.9 | 53.8 |

Nodyn: At ddibenion yr amod hwn, annedd yw adeilad o fewn dosbarth defnydd C3 y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd sy'n bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn.

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Amodau Sŵn

Dylid darllen y nodiadau hyn â'r amod sŵn ac maent yn ffurfio rhan ohono. Maent yn esbonio'r amod ymhellach ac yn manylu ar y dulliau a ddefnyddir i asesu cwynion ynghylch allyriadau sŵn o'r fferm wynt. Y lefel ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yw swm rhifyddol lefel sŵn y fferm wynt fel y'i pennir o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn 2 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ac unrhyw gosb donaidd a gymhwysir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3. Mae cyfeiriad at ETSU-R-97 yn cyfeirio at gyhoeddiad o'r enw "The Assessment and Rating of Noise fron Wind Farms" (1997) a gyhoeddwyd gan yr Uned Cymorth Technoleg Ynni (ETSU) ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)).

### Nodyn Cyfarwyddyd 1

(a) Dylai gwerthoedd yr ystadegyn sŵn LA90 (10 munud) gael eu mesur yn eiddo'r achwynydd, gan ddefnyddio mesurydd lefel sŵn o ansawdd EN 60651/BSB EN 60804 Math 1, neu BSB EN 61672 Dosbarth 1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau) a osodir i fesur yr ymateb pwysol amser cyflym fel y manylir arno yn SS EN 60651/BSB EN 60804 neu BS EN 61672-1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid graddnodi hyn yn unol â'r weithdrefn y manylir arni yn BS 4142: 1997 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid cymryd mesuriadau mewn modd sy'n galluogi cymhwyso cosb donaidd yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3.

(b) Dylai'r microffon gael ei osod 1.2 -1.5 metr uwchben lefel y ddaear, a dylai maneg wynt dwy-haen neu offer addas cyfwerth a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gael ei (g)osod arno, a dylid ei roi y tu allan i annedd yr achwynydd. Dylid cymryd mesuriadau mewn amodau "maes rhydd". I gyflawni hyn, dylai'r microffon gael ei osod o leiaf 3.5 metr oddi wrth ffasâd yr adeilad neu unrhyw arwyneb adlewyrchol heblaw'r ddaear yn y lleoliad mesur cymeradwy. Os bydd yr achwynydd yn gwrthod rhoi caniatâd i fynd at ei (h)eiddo i wneud mesuriadau cydymffurfiad, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cyflwyno manylion am leoliad mesur cynrychioliadol arfaethedig arall i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo cyn dechrau gwneud mesuriadau, a chaiff y mesuriadau eu cymryd yn y lleoliad mesur cynrychioliadol cymeradwy arall.

(c) Dylai'r mesuriadau LA90 (10 munud) gael eu cysoni â mesuriadau'r data gwynt a gweithredol cymedrig 10 munud a gofnodir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), gan gynnwys y data cynhyrchu ynni o systemau rheoli tyrbinau'r fferm wynt.

(d) Er mwyn galluogi cydymffurfiad â'r amodau a arfernir, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cofnodi buanedd cymedrig rhifyddol y gwynt yn barhaus mewn metrau yr eiliad, a chyfeiriad y gwynt mewn graddau o'r gogledd ar uchder y both ar gyfer pob tyrbin, a'r ynni cymedrig rhifyddol a gynhyrchir gan bob tyrbin, pob un ohonynt mewn cyfnod olynol o 10 munud. Oni bai y cytunir ar weithdrefn arall â'r Awdurdod Cynllunio ymlaen llaw, caiff uchder y both, buanedd y gwynt, ar gyfartaledd ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol, eu defnyddio'n sail ar gyfer y dadansoddiad. Caiff yr holl ddata ar fuanedd cymedrig cyfartalog rhifyddol y gwynt mewn cyfnodau o 10 munud a fesurir ar uchder y both ei 'safoni' i uchder cyfeirnod o 10 metr, fel y disgrifir yn ETSU-R-97 ar dudalen 120 gan ddefnyddio hyd garwedd cyfeirnod o 0.05 metr. Y data safonol hwn ar fuanedd y gwynt ar uchder o 10 metr a gyfatebir â'r mesuriadau sŵn a bennir yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, a chaiff y cyfryw gyfatebiad ei gyflawni yn y modd a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2. Bydd pob cyfnod o 10 munud yn dechrau ar yr awr ac mewn cyfnodau o 10 munud wedi hynny.

(e) Caiff data a ddarperir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn unol â'r amod sŵn, ei ddarparu mewn gwerthoedd wedi eu gwahanu gan goma mewn fformat electronig.

(f) Caiff medrydd glaw sy'n cofnodi data ei osod yn ystod yr asesiad o lefelau'r allyriadau sŵn. Bydd y medrydd yn cofnodi dros gyfnodau olynol o 10 munud wedi eu cysoni â'r cyfnodau data a gofnodir yn unol â Nodyn 1 (d).

**Nodyn Cyfarwyddyd 2**

(a) Gwneir y mesuriadau sŵn er mwyn darparu dim llai nag 20 pwynt data dilys, fel y diffinnir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2 (b).

(b) Pwyntiau data dilys yw'r rhai a fesurir yn yr amodau y manylir arnynt yn y protocol ysgrifenedig cytûn o dan baragraff (d) o'r amod sŵn, ond heb gynnwys unrhyw gyfnodau o lawiad a fesurir yn agos at fesurydd y lefel sŵn. Caiff glawiad ei asesu trwy ddefnyddio medrydd glaw a fydd yn cofnodi'r glawiad ym mhob cyfnod o 10 munud yn gydamserol â'r cyfnodau mesur a amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1.

(c) Ar gyfer y pwyntiau data hynny yr ystyrir eu bod yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2 (b), caiff gwerthoedd y mesuriadau sŵn 10 munud LA90 a gwerthoedd cyfatebol buanedd y gwynt mewn cyfnod o 10 munud, sy'n deillio o fuanedd cyfartalog safonol y gwynt ar uchder o 10 metr ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol gan ddefnyddio'r weithdrefn y manylir arni yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), eu plotio ar siart XY â lefel y sŵn ar yr echelin Y a buanedd cymedrig safonol y gwynt ar yr echelin X. Dylai cromlin "ffit orau" sgwariau lleiaf o radd y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn tybio ei bod yn briodol (ond na all fod yn uwch na phedwaredd radd) gael ei ffitio i'r pwyntiau data a diffinio lefel sŵn y fferm wynt ar bob buanedd cyfanrifol.

**Nodyn Cyfarwyddyd 3**

(a) Lle mae allyriadau sŵn yn y lleoliad neu'r lleoliadau lle mae mesurau cydymffurfiad yn cael eu cymryd yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, yn unol â'r protocol asesu cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn, caiff cosb donaidd ei chyfrifo a'i chymhwyso gan ddefnyddio'r weithdrefn raddio ganlynol.

(b) Ar gyfer pob cyfnod o 10 munud y penderfynwyd bod data 10 munud LA90 yn ddilys ar ei gyfer, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, cyflawnir asesiad tonaidd ar allyriadau sŵn yn ystod 2 funud o bob cyfnod o 10 munud. Dylai'r cyfnodau o 2 funud gael eu gwahanu gan gyfnodau o 10 munud, cyn belled â bod data anllygredig di-dor ar gael ("y weithdrefn safonol"). Lle nad oes data anllygredig ar gael, caiff y cyfnod glân anllygredig cyntaf o 2 funud sydd ar gael o'r cyfnod cyffredinol o 10 munud dan sylw ei ddewis. Caiff unrhyw gyfryw wyriad oddi wrth y weithdrefn safonol, fel y disgrifir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97, ei gofnodi.


(c) Ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud, caiff lefel y dôn uwchben neu islaw clywadwyedd ei chyfrifo trwy gymharu â'r maen prawf clywadwyedd a roddir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97.

(d) Caiff lefel y dôn uwchben clywadwyedd ei phlotio yn erbyn buanedd y gwynt ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud. Ar gyfer samplau lle'r oedd y tonau islaw'r maen prawf clywadwyedd neu na nodwyd unrhyw dôn, defnyddir gwerth o glywadwyedd sero.

(e) Yna, caiff llinell atchwel llinol "ffit orau" sgwariau lleiaf ei chyflawni i bennu'r lefel tôn gyfartalog uwchben clywadwyedd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol yn deillio o werth y llinell "ffit orau" ar bob buanedd gwynt cyfanrifol. Os nad oes

unrhyw duedd amlwg o ran buanedd y gwynt, yna defnyddir cyfanrif rhifyddol syml. Caiff y broses hon ei hailadrodd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol y mae asesiad o'r lefelau cyffredinol ar ei gyfer yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(f) Mae'r gosb donaidd yn deillio o'r maint uwchben clywadwyedd y dôn, yn ôl y ffigur isod.




**Nodyn Cyfarwyddyd 4**

(a) Os caiff cosb donaidd ei chymhwyso'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3, lefel sŵn y tyrbinau ar bob buanedd gwynt yw swm rhifyddol y lefel sŵn fesuredig, fel y pennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, a'r gosb ar gyfer sŵn tonaidd a geir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3 ar bob buanedd gwynt cyfanrifol o fewn yn ystod a bennwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei brotocol ysgrifenedig o dan baragraff (d) o'r amod sŵn.

(b) Os na chaiff cosb donaidd ei chymhwyso, yna mae lefel sŵn y tyrbin ar bob buanedd gwynt yn gyfwerth â'r lefel sŵn fesuredig a bennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifiwyd yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(c) Os bydd y lefel uwchlaw'r cyfyngiad(au) a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau sŵn neu'r cyfyngiadau sŵn ar gyfer annedd achwynydd a gymeradwywyd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, bydd yr ymgynghorydd annibynnol yn cynnal asesiad pellach o'r lefel i gywiro ar gyfer sŵn cefndir er mwyn i'r lefel ymwneud ag allyriadau sŵn y tyrbinau gwynt yn unig.

(d) Bydd y Cwmni'n sicrhau y caiff yr holl dyrbinau gwynt yn y datblygiad eu diffodd am y cyfnod sydd ei angen ar yr ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad pellach. Cynhelir yr asesiad pellach yn unol â'r camau canlynol:

(e) Ailadrodd y camau yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, gan ddiffodd y fferm wynt, a phennu lefel y sŵn cefndir (L3) ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yn yr ystod y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gais ysgrifenedig o dan baragraff (c) a'r protocol cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn.

(f) Yna, cyfrifir sŵn y fferm wynt (L1) ar y buanedd hwn fel a ganlyn, lle L2 yw'r lefel fesuredig pan fo'r tyrbinau ar waith, ond heb ychwanegu unrhyw gosb donaidd:

(g) Caiff y lefel ei hailgyfrifo trwy adio'r gosb donaidd (os caiff ei chymhwyso'n unol â Nodyn 3) at sŵn deilliedig y fferm wynt L1 ar y buanedd gwynt cyfanrifol hwnnw yn rhifyddol.

(h) Os bydd y lefel ar ôl ei haddasu ar gyfer cyfraniad sŵn cefndir a'i haddasu ar gyfer cosb donaidd (os yw'n ofynnol yn unol â Nodyn 3 uchod) ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn gyfwerth â'r gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau neu'n is, neu'n gyfwerth â'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn neu'n is, yna nid os angen unrhyw gamau pellach. Os bydd y lefel ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn rhagori ar y gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau neu'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr

Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, yna bydd y datblygiad yn methu cydymffurfio â'r amodau.

DIWEDD YR AMODAU

## Atodiad C
## Llanbadarn Fynydd – Rhestr Amodau

### Caniatâd o dan adran 36 Deddf Trydan 1989 – Amodau

1. Yn unol ag adran 36 Deddf Trydan 1989, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ("yr Ysgrifennydd Gwladol") trwy hyn yn rhoi caniatâd i adeiladu, ar yr ardal o dir sydd wedi ei darlunio â llinell goch ddi-dor ar ddyluniad rhif Ffigur 1.1 Cynllun y Safle (17414-S498) Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013, gorsaf gynhyrchu â thyrbinau gwynt ar dir yn Llanbadarn Fynydd, Powys ("y Datblygiad") a gweithredu'r orsaf gynhyrchu honno. Rhoddir y caniatâd hwn i Nuon UK Ltd ("y Cwmni"), ei aseineion a'i olynwyr.

2. Yn amodol ar unrhyw amrywiad yn unol ag amod 3, bydd gan y datblygu gapasiti graddedig o dros 50MW a chapasiti graddedig o hyd at 59.5MW, a bydd yn cynnwys:

   a) hyd at 17 o dyrbinau gwynt, pob un ohonynt wedi ei leoli'n destun i amodau mewn lleoliadau a ddangosir ar gynllun Ffigur 1.1 Cynllun y Safle (17414-S498) Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013 ar sylfeini concrit, yn cynnwys llawr caled ar gyfer craeniau, ac wedi ei osod â llafnau sy'n cylchdroi. Bydd ganddynt uchder i flaen y llafn o hyd at 126.5 metr, gan gynnwys newidyddion;
   b) cyfres o geblau wedi eu claddu o dan wyneb y ddaear sy'n cysylltu'r tyrbinau gwynt â'r isbwerdy;
   c) cyfres o lwybrau mynediad rhwng y tyrbinau gwynt;
   d) ffordd fynediad ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw ac argyfyngau;
   e) isbwerdy trydan ar y safle;
   f) mast anemometreg;
   g) pyllau benthyg ar gyfer echdynnu carreg i'w defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad.

3. Yn amodol ar unrhyw fân newidiadau y gellir eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (fel y diffinnir yn amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig ("yr Amodau Cynllunio") a amlinellir isod), caiff y Datblygiad ei adeiladu'n unol â chynlluniau'r cais ac yn gyffredinol unol ag amcanion, cwmpas a methodoleg y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol ddilynol, i'r graddau nad yw'r rhain yn gwrthdaro ag unrhyw un o ddarpariaethau amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig na thelerau unrhyw drefn, rhaglen, datganiad, cynllun, manylion neu adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol dan yr Amodau Cynllunio.

4. Bydd y Datblygiad yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

5. Ni chaniateir i'r Cwmni aseinio'r caniatâd hwn heb gael awdurdodiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd (ag amodau neu beidio) neu wrthod y cyfryw awdurdodiad fel y gwêl orau, yn ôl ei ddoethineb ei hun. Ni fydd modd aseinio, arallu na throsglwyddo'r caniatâd ac eithrio'n unol â'r weithdrefn rag-grybwylledig.

**Caniatâd Tybiedig o dan Adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Amodau**

6. Yn yr amodau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn golygu fel arall:

mae gan **"llwyth anwahanadwy anghyffredin"** yr un ystyr ag yng Ngorchymyn Cerbydau Ffordd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003(a);

mae **"dechrau'r datblygiad"**, mewn perthynas â'r datblygiad awdurdodedig, yn golygu'r dyddiad y bydd y datblygiad awdurdodedig yn dechrau trwy gyflawni gweithrediad perthnasol fel y diffinnir yn adran 56 Deddf 1990, a chaiff "dechrau" a "dechreuodd" eu dehongli'n unol â hynny;

ystyr **"cyfnod adeiladu"** yw'r cyfnod o ddechrau'r gwaith ar y Datblygiad hyd at y dyddiad 6 mis ar ôl i gaeadleoedd y Safle gael eu hadfer yn unol ag amodau'r caniatâd hwn;

mae **"dB"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel;

mae **"dB(A)"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel, gan gynnwys yr hidlydd pwysoliad-A yn y mesuriadau y cyfeirir atynt yn ETSU-R-97;

mae **"datblygiad"** fel y diffinnir yn amod 1 y caniatâd hwn;

mae **"datgoedwigo"** yn golygu unrhyw gwympo neu docio coed a gyflawnir;

mae "**datblygu**" yn golygu'r gwaith y caniateir ei gyflawni, fel yr amlinellir yn Amod 2 uchod;

mae "**argyfwng**" yn golygu amgylchiadau lle mae achos rhesymol i amgyffred anaf ar fin digwydd i unigolion, difrod difrifol i eiddo neu berygl o lygredd difrifol i'r amgylchedd;

mae **"ETSU-R-97"** yn golygu Adroddiad ETSU rhif ETSU-R-97 *'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms'*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996;

mae **"rhywogaeth a warchodir gan Ewrop"** yn golygu rhywogaeth a restrir yn Atodlenni 2 neu 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010;

mae **"comisiynu terfynol y datblygiad"** yn golygu'r dyddiad y caiff y generadur tyrbin gwynt olaf sy'n ffurfio rhan o'r Datblygiad ei gomisiynu a'i fod yn cynhyrchu trydan ar gyfer y grid cenedlaethol;

mae **"allforyn cyntaf"** yn golygu'r dyddiad y caiff trydan ei allforio i'r grid ar sail fasnachol am y tro cyntaf;

mae **"LA90"** yn golygu'r lefel desibelau (dB) y rhagorwyd arni ar gyfer 90% o bob cyfnod sampl;

mae “**Awdurdod Cynllunio Lleol**” yn golygu Cyngor Sir Powys neu unrhyw awdurdod olynol;

mae **“gŵyl gyhoeddus”** yn golygu diwrnod a ddethlir yn ŵyl gyhoeddus;

ystyr **“safle”** yw’r tir oddi mewn i ffin y datblygiad a amlinellir yn goch ar y map sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn;

ystyr **“buanedd y gwynt”** yw buanedd y gwynt a fesurir ar Safle’r fferm wynt ar uchder both y tyrbin, ac wedi ei gywiro i uchder safonol o 10m uwchben lefel y ddaear, mewn modd y cytunwyd arno â’r Awdurdod Cynllunio Lleol;

ystyr **“tyrbinau gwynt”** yw’r tyrbinau gwynt sy’n ffurfio rhan o’r datblygiad, a chaiff “tyrbin gwynt” ei ddehongli’n unol â hynny.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

7. Lle y caiff manylion, trefn neu gynllun eu cyflwyno i’w cymeradwyo neu eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol dan unrhyw amod, yna oni bai bod yr amod yn darparu fel arall:
    (a) rhaid i’r manylion neu drefn neu gynllun a’r gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig; ac
    (b) ystyrir bod y manylion, trefn neu’r cynllun cymeradwy yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a all gael eu cymeradwyo’n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol wedi hynny, ar yr amod na all yr awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau lle byddai’r diwygiadau hynny’n arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol wahanol i’r rhai a aseswyd yn y datganiad amgylcheddol.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

**Y Datblygiad**

8. Yn destun yr amodau sy’n gysylltiedig â’r caniatâd hwn, cyflawnir y datblygiad yn unol â’r cynlluniau cymeradwy a’r dogfennau canlynol:

    a) Ffigur 1.1 (Cynllun y Safle (17414-S498) Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013);
    b) Ffigur 4.1 (Trefniant Mynediad Dwyreiniol, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013);
    e) Ffigur 4.2 (Llain Weledd Hydredol, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013);
    f) Ffigur 4.3 (Man Pasio A, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013);
    g) Ffigur 4.4 (Mannau Pasio B ac C, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013);
    h) Ffigur 4.5 (Trefniadau Mynediad y de-ddwyrain a Man Pasio D, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013);
    i) Ffigur 4.7 (Mân Groesfan Ffordd, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Mehefin 2013);
    j) Ffigur 5.1 (Lleiniau Gweledd Mynediad Gorllewinol, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013);

k) Ffigur 5.2 (Mynediad Gorllewinol, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013);
l) Ffigur 5.3 (Mynediad Dwyreiniol – Llwybrau Ysgubol, Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013);
m) Manylion a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Traffig Strategol diwygiedig ar gyfer Ffermydd Gwynt Canolbarth Cymru Adran 6 o 6: y Drenewydd i SSA C (AECOM, Mawrth 2014), gan gynnwys 6.3b Fryd Vaughan;
n) Ffigur 6.4C (Ystad Ddiwydiannol Mochdre, Cynllun Rheoli Traffig Strategol Adran 6, Mawrth 2014);

Yn gyffredinol unol â'r manylion nodweddiadol canlynol a amlinellwyd yn Natganiad Amgylcheddol 2007:

o) 5.2 (tyrbin gwynt nodweddiadol);
p) 5.9(a) a (b) (trefniant cyffredinol y mynediad gorllewinol a thrawstoriad);
q) 6.1 (trawstoriad o ffordd y safle) ;
r) 6.2 (manylion am y cwlfertau);
s) 6.3 (sylfaen nodweddiadol);
t) 6.4 (llawr caled craeniau);
u) 6.5 (ffos geblau);
v) 6.6 (isbwerdy);
w) 6.7 (mast anemomedr);

ac yn gyffredinol unol â'r amcanion, cwmpas a'r fethodoleg a amlinellwyd yn y Wybodaeth Amgylcheddol Atodol a gyflwynwyd yn 2008, 2010, Chwefror 2013, Mehefin 2013, Rhagfyr 2013 a Mawrth 2014.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

9. Mae'r caniatâd hwn am gyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad yr allforyn cyntaf.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth a phennu cyfnod y caniatâd hwn.*

10. Rhoddir cadarnhad o'r dyddiad dechrau i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen mis o ddigwydd.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

11. Rhoddir cadarnhad o ddyddiad y Comisiynu Terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol heb fod yn hwyrach na un mis calendr wedi'r digwyddiad hwnnw.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

**Cofnodi'r Safle**

12. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes i'r ardaloedd y bydd y datblygiad yn amharu arnynt gael eu cofnodi'n ffotograffig a bod y lluniau hyn, ynghyd â chynllun yn manylu ar leoliad union a chyfeiriant y ffotograffau hyn, wedi eu cyflwyno i'r awdurdod cynllun lleol a'u cymeradwyo ganddo.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r dirwedd a'r safle cyn i'r datblygiad ddechrau ac i ddarparu sail ar gyfer y cynllun datgomisiynu ac adfer y safle.*

**Datgomisiynu ac Adfer**

13. Heb fod yn llai na 24 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben, caiff manylion y cynllun a methodolegau arolygon cynefinoedd, adar a rhywogaethau a warchodir cyfredol i lywio cynllun datgomisiynu ac adfer y safle eu cyflwyno i'r ACLl a'u cytuno ganddo'n ysgrifenedig.

*Rheswm: I lywio'r cynllun datgomisiynu.*

14. Heb fod yn llai na 12 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben, caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu ac adfer y Safle ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon diweddar o gynefinoedd, adar a rhywogaethau a'i weithredu a'i gwblhau cyn pen 12 mis wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben. Bydd y cynllun yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i:
    a) fanylion am yr holl lwybrau, strwythurau, adeiladau, ceblau tanddaearol a chyfleustodau, a seilwaith cysylltiedig arall sydd i'w tynnu;
    b) manylion am y dull tynnu, gan gynnwys dull o osgoi effeithio ar gynefinoedd mawndir;
    c) tynnu llwybrau, strwythurau, adeiladau a seilwaith cysylltiedig arall fesul cam;
    d) symud daear ac amnewid pridd;
    e) adfer y dirwedd;
    f) monitro'r ardaloedd adferedig a'r camau gweithredu adferol;
    h) adfer hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed a llwybrau ceffyl.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei dynnu mewn modd cydymdeimladol wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben.*

15. Cyn rhoi Cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle ar waith, caiff cynllun cyswllt â'r gymuned ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cyswllt â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwywyd a bydd yn cynnwys:
    a) manylion am gyswllt y datblygwr â'r gymuned leol er mwyn sicrhau y caiff preswylwyr eu hysbysu am sut mae datgomisiynu'r datblygiad yn dod yn ei flaen;
    b) dull ar gyfer delio â chwynion gan y gymuned leol wrth ddatgomisiynu'r datblygiad; a
    c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

16. Ar ôl cwblhau'r gwaith adfer, caiff unrhyw offer, peiriannau ac adeiladau gosodedig sy'n weddill a godwyd neu y daethpwyd â nhw i'r safle at ddiben gweithredu cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle eu tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

17. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r Cwmni gyflwyno manylion am offeryn ariannol i'r awdurdod cynllunio lleol, a bod trefniadau a fydd yn sicrhau bod digon o gyllid i gwmpasu costau datgomisiynu ac adfer y safle ar gael i'r awdurdod cynllunio cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Bydd yr offeryn ariannol yn cynnwys trefniadau i gyllid cynyddu â chwyddiant ac yn cynnwys darpariaeth adolygu 5, 10, 15 ac 20 mlynedd ar ôl yr Allforyn Cyntaf er mwyn sicrhau bod y cyllid yn ddigonol o hyd i dalu costau datgomisiynu ac adfer y safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

18. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r offeryn ariannol, nes bod yr offeryn ariannol ar waith ac y gwneir trefniadau i sicrhau y bydd cyllid ar gael cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Caiff yr offeryn ariannol ei gynnal trwy gydol cyfnod y caniatâd ac adfer, a chaiff y trefniadau ar gyfer adneuo cyllid, addasiadau chwyddiant ac adolygu'r offeryn ariannol eu rhoi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

**Methiant Tyrbinau**

19. Os bydd unrhyw dyrbin gwynt yn methu darparu trydan i'r grid am gyfnod parhaus o 6 mis neu fwy (heblaw am resymau'n ymwneud â sŵn):
    a) caiff yr awdurdod cynllunio lleol ei hysbysu am y methiant ar unwaith;
    b) efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod angen cyflwyno cynllun ar gyfer atgyweirio neu dynnu'r tyrbin hwnnw;
    c) cyn pen 2 fis o dderbyn y cyfryw gais, cyflwynir cynllun ar gyfer atgyweirio neu dynnu'r tyrbin hwnnw i'r awdurdod cynllunio lleol. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon adar a rhywogaethau cyfredol;
    d) caiff y cynllun cymeradwy ei roi ar waith cyn pen 6 mis o gael cymeradwyaeth, oni bai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cytuno â chyfnod hwy yn ysgrifenedig.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei atgyweirio/eu hatgyweirio, neu ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei ddatgomisiynu/eu datgomisiynu.*

**Microleoli'r Datblygiad**

20. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes y caiff protocol microleoli ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Bydd yn amlinellu protocol ar gyfer penderfynu ar ficroleoli ar gyfer y datblygiad cyfan er mwyn lleihau effaith y datblygiad ar, ond nid yn gyfyngedig i, gylfinirod, rhywogaethau a warchodir, cyrsiau dŵr, hawliau tramwy cyhoeddus, ystlumod, ac ni chaiff blaenau unrhyw lafnau eu lleoli o fewn 50 metr o ymylon

coetiroedd ac unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol a pheirianegol eraill a amlygir.

*Rheswm: Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i'r datblygwr yn ystod yr adeiladu i wneud mân newidiadau i leoliad y seilwaith i fynd i'r afael ag anawsterau fel amodau gwael ar y ddaear a ddaw i'r amlwg yn ystod yr adeiladu.*

21. Caiff pob agwedd ar y datblygiad ei lleoli o fewn 50m o'r lleoliadau a ddangosir yn Ffigur 1.1 Cynllun y Safle (17414-S498) a gynhwyswyd yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol Chwefror 2013, yn unol â'r protocolau a bennwyd yn ymwneud â microleoli.

*Rheswm: Er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol.*

22. Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad yr allforyn cyntaf, caiff cynllun yn dangos lleoliad union y datblygiad cyfan (gan gynnwys llwybrau, lloriau caled, mynedfeydd, tyrbinau, pyllau benthyg ac ati) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r cynllun terfynol fel y'i hadeiladwyd, ar ôl ystyried lwfansau microleoli.*

**Datblygiad Manwl – Dyluniad a Golwg**

23. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei gludo i'r safle nes y caiff manylion am y tyrbinau eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo, gan gynnwys y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, ac os oes trawsnewidydd allanol, lleoliad y trawsnewidydd, y raddfa bŵer, y mast anemomedr a chyfarpar cysylltiedig. Caiff y tyrbinau, y mast anemomedr a'r cyfarpar cysylltiedig eu hadeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

24. Ni chodir unrhyw dyrbin nes i'r lliw arfaethedig gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y tyrbinau eu gorffen yn y lliw cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

25. Bydd llafnau'r tyrbinau gwynt ar bob tyrbin a ganiateir trwy hyn yn cylchdroi i'r un cyfeiriad.

*Rheswm: Er mwyn diogelu amwynderau gweledol yr ardal.*

26. Caiff yr holl geblau trydan sy'n cysylltu'r araeau tyrbinau â'r isbwerdy eu gosod o dan y ddaear.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

27. Ni fydd unrhyw waith datblygu ar adeilad yr isbwerdy ar y safle yn dechrau nes i fanylion yn ymwneud â'i leoliad, triniaeth allanol, dyluniad, deunyddiau, tirweddu (os o gwbl), a'i gyfeiriadedd eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol

a'u cymeradwyo ganddo. Caiff yr isbwerdy ei adeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

28. Ni ellir defnyddio unrhyw oleuadau awyr agored heblaw:
    a) goleuadau awyrennau;
    b) goleuadau dros dro ar gyfer y safle a gymeradwyir fel rhan o'r Datganiad Dull Adeiladu

    yn ystod y gwaith Datblygu, oni bai y caiff manylion am y goleuadau hyn eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y cyfryw oleuadau awyr agored eu darparu'n unol â'r manylion cymeradwy yn unig.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

29. Heblaw yn ystod y cyfnod adeiladu, ni chaiff unrhyw symbolau, arwyddion, logos na llythreniadau eraill, heblaw'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith am resymau iechyd a diogelwch, eu harddangos ar unrhyw ran o'r tyrbinau nac unrhyw adeilad neu strwythur heb gymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

**Oriau Adeiladu**

30. Caiff gwaith adeiladu ei gyflawni rhwng 07:30 ac 19:30 o'r gloch yn unig o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny, a rhwng 07:30 ac 13:00 o'r gloch ar ddyddiau Sadwrn, heb unrhyw waith adeiladu ar ddyddiau Sul neu wyliau cyhoeddus. Y tu allan i'r oriau hyn, caiff gwaith ar y safle ei gyfyngu i waith brys, codi tyrbinau, llethu llwch, a phrofi/cynnal a chadw peiriannau ac offer, neu waith adeiladu nad yw'n glywadwy o unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo'n wahanol yn ysgrifenedig. Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw waith brys cyn pen tri diwrnod gwaith ohono.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

31. Caiff yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r datblygiad eu cyflawni'n unol â Safon Brydeinig BS5228:2009: Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored – Rhan 1: Sŵn a Rhan 2: Dirgryniad.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

**Priffyrdd**

32. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu hyd nes y caiff cynlluniau manwl o'r gyffordd newydd â chefnffordd yr A483 eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gyflwynir yn adlewyrchu cyfeiriadau 0448-002B, 003 a 004 y cynllun a byddant yn cynnwys:

a) manylion am unrhyw lain weledadd a fydd yn cael ei chadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;

b) manylion draeniad; a

c) marciau ffordd ac arwyddion.

Caiff y gwaith ei weithredu'n unol â'r manylion cymeradwy, a chyn pen pum niwrnod i'r fynedfa newydd gael ei defnyddio am y tro cyntaf, caiff y fynedfa bresennol i Hafod Fach ei chau'n barhaol a chaiff y briffordd ei hadfer yn unol â'r manylion cytûn.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir ffordd foddhaol i mewn ac allan o'r datblygiad er budd diogelwch y priffyrdd.*

33. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes y caiff cynlluniau manwl o'r cyffyrdd newydd a gwaith priffyrdd arall ar briffyrdd sirol C1057 ac U1298 eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gyflwynir yn adlewyrchu cyfeiriad cyfeirnodau 0448-101B, 102B, 103A, 104, 105A, 106A ac 107A y cynllun ac yn cynnwys:
a) manylion am unrhyw lain weledadd a fydd yn cael ei chadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
b) manylion draeniad;
c) cynigion ar gyfer marciau ffordd ac arwyddion; a
d) rhaglen ar gyfer gweithredu'r gwaith.

Caiff y gwaith ei weithredu'n unol â'r manylion a'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir ffordd foddhaol i mewn ac allan o'r datblygiad er budd diogelwch y priffyrdd, amwynder a gwarchod natur.*

34. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes y caiff asesiad o gapasiti strwythurau'r briffordd, gan gynnwys mannau aros, mannau pasio, pontydd, cwlfertau, waliau cynnal, argloddiau a systemau draenio y gall llwythi anwahanadwy anghyffredin effeithio arnynt, a'r effaith arnynt, ei gynnal a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Os bydd yr asesiad cymeradwy yn nodi y gallai fod angen cyflawni gwaith cryfhau neu waith eraill, nid chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo nes i fanylion peirianegol llawn a lluniadau o unrhyw waith sydd ei angen ar y strwythurau hyn i ganiatáu i lwythi anwahanadwy anghyffredin deithio heibio iddynt gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y gwaith cymeradwy ei gwblhau cyn i unrhyw beth gael ei gludo i'r safle trwy lwyth anwahanadwy anghyffredin.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

35. Caiff llwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo ar hyd y llwybrau y manylir arnynt yn adrannau 1, 2, 4, 5 (rhan yn y Drenewydd) a 6 Cynllun Rheoli Traffig Strategol (STMP) Canolbarth Cymru, dyddiedig Awst 2012, ac ar gyfer Adran 6, Diwygiad T dyddiedig Mawrth 2014, oni bai yr adeiledir Ffordd Osgoi'r

Drenewydd. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes i Gynllun Rheoli Traffig (TMP) ar gyfer llwythi anwahanadwy anghyffredin gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Wedi hynny, caiff llwythi anwahanadwy anghyffredin eu cyflawni'n unol â'r TMP cymeradwy. Bydd y TMP yn cynnwys:

a) hawliau mynediad at unrhyw welliannau i gyffyrdd, mannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles nad ydynt wedi eu cynnig i ffurfio rhan o'r rhwydwaith priffyrdd;
b) rheoli cyffyrdd a chroesfannau priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill tra caiff nwyddau eu cludo trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin;
c) rheoli a chynnal a chadw mannau aros, mannau pasio a chyfleusterau lles wrth i nwyddau gael eu cludo trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin;
d) manylion am arwyddion rhybuddio dros dro;
e) cyfyngiadau ar symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
f) manylion am unrhyw newidiadau i unrhyw waith a gyflawnir i alluogi symudiadau arfaethedig llwythi anwahanadwy anghyffredin a roddir ar waith ar ôl cwblhau'r symudiadau hynny;
g) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

36. Ni chaiff unrhyw beth ei gludo i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin nes y caiff Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff pob cludiad trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin ei gyflawni'n unol â'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin gymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:

a) y bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin;
b) y dull o reoli amseriad symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
c) gwyriadau traffig a mannau dal traffig dros dro;
d) manylion am fancwyr a hebryngwyr ar gyfer llwythi anghyffredin;
e) cydlynu â phob cludiad arall trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin (gan gynnwys, heb unrhyw gyfyngiadau, i ffermydd gwynt eraill yng nghanolbarth Cymru);
f) disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu amseroedd cludo, gan gynnwys sbardunau amseroedd cludo a masnachu;
g) penodiad a rôl Cydlynydd Trafnidiaeth;
h cysylltu â'r awdurdodau priffyrdd a chynllunio perthnasol a'r Heddlu;
i) cysylltu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
l) cysylltu â chludwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

37. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes caiff cynllun sy'n darparu ar gyfer adfer unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Datblygiad i seilwaith y priffyrdd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad ei gyflwyno i'r awdurdod

cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol. Bydd y cynllun yn cynnwys:

a) arolwg cyflwr cyn datblygu'r rhannau o'r C1057 a'r U1298 a ddefnyddir gan draffig adeiladu a llwythi anwahanadwy anghyffredin, a ffyrdd cytûn eraill rhag ofn y bydd newid sylweddol i lwybr y Cynllun Rheoli Traffig Strategol;
b) gwaith arolygu ôl-adeiladu ychwanegol ar y rhannau hyn o'r briffordd;
c) manylion ac amserlenni ar gyfer gwaith i adfer unrhyw ddifrod i bob rhan o'r briffordd, gan gynnwys dodrefn stryd, strwythurau, ymylon, llwybrau troed a wyneb y lôn gerbydau.

Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw a bod y datblygwr yn unioni unrhyw ddifrod a achosir y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r datblygiad.*

38. Ni fydd unrhyw waith adeiladu yn dechrau ar y safle nes caiff Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Wedi hynny, cydymffurfir â'r cynllun rheoli traffig cymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:

a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau adeiladu;
b) dull o fonitro symudiadau cerbydau yn ôl ac ymlaen o'r safle, gan gynnwys defnyddio cerbydau adeiladu mewn lifrai sy'n dangos enw'r datblygwr, rhif y cerbyd, rhif ffôn ar gyfer cwynion a gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion;
c) amseriad cludo deunyddiau adeiladu i'r safle;
d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill;
e) mesurau i'w rhoi ar waith, gan gynnwys trefniadau cytundebol â chontractwyr ac isgontractwyr i sicrhau y gall cwynion ac achosion o dorri gofynion y TMP gael eu hunioni;
f) cynllun teithio sydd â'r nod fwyhau defnydd trafnidiaeth gynaliadwy gan y gweithlu adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad;
g) symudiadau cerbydau yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
h) cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
i) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder*.

39. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig ag unrhyw atgyweiriadau neu amnewid cydrannau eu symud yn ystod oes y datblygiad nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw atgyweiriadau ac/neu amnewid ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

40. Ni chaiff unrhyw draffig sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r datblygiad symud nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw ddatgomisiynu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

**Rheoli Adeiladu**

41. Ni fydd unrhyw waith datblygu na chlirio'r safle, prysg neu lystyfiant, na gwaith cwympo coed yn dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Glynir wrth y CEMP trwy gydol cyfnod paratoi'r safle, adeiladu, ac adfer y safle ar ôl y gwaith adeiladu, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y CEMP yn cynnwys:
    a) cynllun adeiladu llwybrau, gan gynnwys cloddio a pharatoi ffyrdd mynediad mewnol a lloriau caled, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â dŵr ffo llawn silt o unrhyw waith, ffyrdd mynediad dros dro a pharhaol, storio pridd a gweithrediadau peirianegol eraill;
    b) datganiad gwaith (gan gynnwys dylunio ac adeiladu) i gwmpasu'r holl waith sianelau a chloddiau, gan gynnwys croesfannau sianelau;
    c) amserlen fanwl ar gyfer cwympo coed, llystyfiant a chlirio'r safle, adeiladu a rheoli cynefinoedd hyd at gomisiynu'r tyrbinau ac adfer y safle. Dylai'r amserlen gynnwys cynlluniau wrth gefn posibl ar gyfer adar a rhywogaethau a warchodir;
    d) mesurau i'w cymryd wrth glirio llystyfiant a'r safle, cwympo coed a'r cyfnodau adeiladu ac adfer i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol ac ACA Afon Gwy;
    e) yr oriau gwaith ar gyfer pob gweithgaredd adeiladu;
    f) Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol ac Atal Llygredd (gan gynnwys cynllun monitro ansawdd dŵr, cynllun rheoli dŵr wyneb a chynllun rheoli draeniad) sy'n cynnwys trefniadau i warchod dŵr daear, dŵr wyneb ac ACA Afon Gwy yn ystod cyfnodau clirio'r safle, adeiladu ac adfer y datblygiad, gan gynnwys mesurau wrth gefn ar gyfer tywydd gwlyb a Chynllun Ymateb i Ddigwyddiadau rhag ofn y bydd achos o lygredd, a mesurau ar gyfer storio deunyddiau, gan gynnwys pridd a'i waredu;
    g) trefniadau adeiladu ar gyfer sylfeini'r tyrbinau, ffyrdd mynediad a seilwaith arall, gan gynnwys trefniadau sypynnu concrit a dad-ddyfrio i drin dŵr a all fod yn llawn gwaddod;
    h) trefniadau ar gyfer storio tanwydd a rhoi tanwydd, storia a thrin olew ac ireidiau, a thrin deunyddiau sment er mwyn atal unrhyw rai ohonynt rhag mynd i gyrsiau dŵr, a chynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd unrhyw ollyngiad;
    i) gosod ceblau ar y safle, gan gynnwys dyluniad manwl y ffosydd;
    j) trefniadau mynediad, arwyddion ac ailgyfeirio i ddefnyddwyr hamdden yn ystod y gweithgarwch adeiladu;
    k) datganiadau dull adeiladu ar gyfer cyfadeilad y gwaith adeiladu a'r holl seilwaith, gan gynnwys eu tynnu a'u hadfer yn foddhaol, yn y pen draw;
    l) manylion a datganiadau dull ar gyfer gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau a fydd yn cael eu tynnu a'u hadleoli, gan gynnwys y rhai sydd i'w tynnu er mwyn gwella'r briffordd;
    m) adfer unrhyw dir yr aflonyddwyd arno ar ôl y gwaith adeiladu, gan gynnwys ailblannu'r llwybr mynediad ac ymylon y briffordd ac ardaloedd y lloriau caled, er mwyn lleihau eu heffaith weledol ac ecolegol, ynghyd â mesurau i fonitro ei lwyddiant;

n) gweithdrefnau brys ar y safle rhag ofn yr aflonyddir ar unwaith ddyfrgwn neu foch daear, neu rhag ofn iddynt gael eu lladd;
o) trefniadau i atal rhywogaethau goresgynnol anfrodorol rhag lledaenu;
p) y dull ar gyfer deunyddiau a gloddir, gan gynnwys lleoliad, agor, gweithio ac adfer pyllau benthyg;
q) ni ddylai unrhyw beth heblaw deunyddiau naturiol dilwgr a gloddiwyd gael ei dipio ar y safle;
r) mesurau i reoli llwch a llaid yn codi o'r safle, gan gynnwys lleithio, darparu cyfleusterau golchi olwynion a gosod cynfasau mewn cerbydau nwyddau trwm sy'n cludo gwastraff neu ddeunyddiau adeiladu yn ôl ac ymlaen o'r safle;
s) mesurau i lanhau a chynnal a chadw mynedfa'r safle a'r briffordd gyhoeddus gyfagos;
t) goleuadau dros dro ar y safle, gan gynnwys lefelau golau arfaethedig ynghyd â manyleb unrhyw oleuadau;
u) mesurau i osgoi effeithiau amgylcheddol o waith ar unrhyw ffyrdd mynediad oddi ar y safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol a lleihau'r aflonyddwch i breswylwyr lleol yn ystod y broses adeiladu.*

42. Cyn i unrhyw dyrbin gwynt gael ei dynnu neu ei amnewid, caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu diwygiedig sy'n ymwneud â'r tynnu neu'r amnewid hwnnw yn unig, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu diwygiedig ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol a lleihau'r aflonyddwch i breswylwyr lleol yn ystod y broses adeiladu.*

**Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy**

43. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy (RWMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y RWMP ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:
a) manylion am ailgyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro yn ystod adeiladu'r datblygiad awdurdodedig;
b) manylion am ddarparu arwyddion a gwybodaeth arall sy'n rhybuddio'r cyhoedd am waith adeiladu;
c) manylion am unrhyw ffensys neu rwystrau a ddarperir yn ystod y cyfnod adeiladu;
d) manylion am sut caiff hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau a ffyrdd eu harolygu cyn y cyfnod adeiladu a'u monitro yn ystod y cyfnod adeiladu; a
e) manylion am warchod adar bridio lle caiff unrhyw hawl dramwy gyhoeddus ei hailgyfeirio.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus.*

**Ecoleg**

44. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes cais Cynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP) manwl ar y safle, sy'n amlinellu amcanion rheoli cadwraeth natur manwl

gan gynnwys rheoli cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei weithredu, ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Rheoli Cynefinoedd yn cynnwys (ond ni fydd yn gyfyngedig i) manylion am y mesurau rheoli cynefinoedd a gynhwysir yn y Datganiad Amgylcheddol (dyddiedig Tachwedd 2007), y Cynllun Rheoli Cynefinoedd amlinellol a gyflwynwyd â Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2008 a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol dilynol 2013. Caiff y Cynllun Rheoli Cynefinoedd cymeradwy ei weithredu fel y'i cymeradwyir, a chaiff ei adolygu 1, 2, 3, 5, 10 a 15 mlynedd ar ôl ei weithredu er mwyn asesu ei effeithiolrwydd.

*Rheswm: Er budd gwarchod natur.*

45. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau, gan gynnwys clirio llystyfiant a chwympo coed, hyd nes caiff manylion am Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW) â chymwysterau addas i'w gyflogi/chyflogi ar y datblygiad eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr ECoW yn aelod o Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylchedd. Penodir yr ECoW cymeradwy o leiaf mis cyn dechrau unrhyw waith cwympo coed/clirio'r safle a llystyfiant neu ddatblygu. Bydd cwmpas gwaith yr ECoW yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i :
   a) monitro cydymffurfiad â'r gwaith lliniaru cymeradwy ac adrodd ar ei lwyddiant neu ei fethiant, a chynghori ar fesurau lliniaru adferol yn achos unrhyw fethiant;
   b) cynghori'r datblygwr ar weithredu'r cynigion lliniaru cymeradwy a gwarchod buddiannau cadwraeth natur pwysig ar y safle;
   c) cyfarwyddo ac ymgynghori ar ficroleoliad a lleoliad tyrbinau, ffyrdd a seilwaith arall;
   d) monitro ac adrodd ar gydymffurfiad â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a'r Cynllun Monitro Ecolegol;
   e) mynychu cyfarfodydd cyswllt â Chyngor Sir Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill, yn ôl yr angen, ac adrodd ar gydymffurfio ag amodau, cynlluniau a mesurau lliniaru.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y mesurau gwarchod a lliniaru eu gweithredu'n gywir ac mewn cytundeb â'r cyrff statudol perthnasol.*

46. Caiff Cynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP) ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo o leiaf 6 mis cyn dechrau adeiladu a chyn clirio'r safle a llystyfiant/cwympo coed. Caiff y BBPP ei weithredu fel y'i cytunir a byddai'n cynnwys, ond nid fydd wedi ei gyfyngu i fanylion am:
   a) fesurau i atal aflonyddu ar rydwyr, gan gynnwys osgoi clirio llystyfiant, archwiliadau safle, a gwaith adeiladu o fewn pellter o 300m o nythod rhydwyr gweithredol, yn gyffredinol, ac o fewn 800m o nythod gylfinirod gweithredol;
   b) arolygon cyn-dechrau ar gyfer rhydwyr a barcutiaid coch, gan gynnwys mapio tiriogaethau, llwyddiant bridio ac ymddygiad crwydro (a bennir gan ddefnyddio technegau arolwg maes safonol, fel gwylio o fannau ffafriol ac arolygon trawslunio). Caiff canlyniadau'r arolwg hwn eu bwydo i mewn i'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu er mwyn sicrhau y caiff mesurau i warchod adar bridio eu rhoi ar waith;

c) cynllun i sicrhau y caiff gwaith clirio'r safle ac adeiladu o fewn 800m o diriogaethau hysbys gylfinirod (ar sail data a gasglwyd dros y ddau dymor bridio yn uniongyrchol cyn adeiladu, lle mae gylfinirod yn bresennol o leiaf un flwyddyn) ei atal cyn i'r gylfinirod ddychwelyd (o 15 Chwefror), er mwyn sicrhau nad yw adar yn cael eu rhwystro rhag setlo i fridio ger gweithgarwch adeiladu. Ni fydd gwaith adeiladu yn ailddechrau mewn ardaloedd lle'r ataliwyd gweithgarwch oni bai y gellir dangos nad yw gylfinirod wedi cyrraedd i fyw yn y diriogaeth, a fyddai'n cael ei ddangos trwy ddim cofrestriadau hyd at 30 Ebrill, ar ôl hynny, gall gweithgarwch adeiladu barhau; neu fod gylfinirod wedi methu bridio ac wedi gadael y diriogaeth, neu wedi magu rhai ifanc yn llwyddiannus ac wedi gadael y diriogaeth, a fyddai'n cael ei ddangos trwy 3 arolwg olynol ar ôl 30 Ebrill, ag o leiaf wythnos rhyngddynt, yn cofnodi dim adar. Ym mhob achos, gall gweithgarwch adeiladu ailddechrau o 31 Gorffennaf;

d) mesurau wrth glirio'r safle, cwympo coed a'r cyfnod adeiladu rhwng 15 Chwefror a 30 Ebrill i ddarganfod a sefydlwyd unrhyw diriogaethau gylfinirod eraill, a'r mesurau i'w cymryd os amlygir rhagor o diriogaethau gylfinirod.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod adar bridio wrth adeiladu a datgomisiynu'r fferm wynt.*

47. Cyn dechrau clirio llystyfiant, cwympo coed neu waith datblygu arall ar y safle, caiff Cynllun Rhywogaethau a Warchodir (PSP) ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y cynllun, canlyniadau arolygon a rhaglen o unrhyw newidiadau i liniaru sydd eu hangen o ganlyniad, eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn y cyflawnir unrhyw waith yn gysylltiedig â'r datblygiad. Cynhelir yr arolygon gan ecolegydd â chymwysterau addas yn ystod y tymor addas olaf cyn paratoi'r safle a dechrau'r gwaith adeiladu, a chaiff y rhaglen waith lliniaru ei gweithredu fel y'i cymeradwyir ar hyd cyfnod datgomisiynu'r fferm wynt bresennol a'r gweithgarwch adeiladu. Bydd y cynllun yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i:

a) y fanyleb ar gyfer arolygon diweddaru cyn-dechrau ar gyfer ystlumod, madfallod dŵr cribog, dyfrgwn, pathewod, llygod dŵr a moch daear, gan gynnwys methodoleg, amserlen ac amseriad yr arolwg, datblygu modelau risg damweiniau i ystlumod, ac os ydynt yn bresennol, mesurau lliniaru addas i sicrhau y cânt eu gwarchod trwy gydol cyfnodau cyn-adeiladu, adeiladu a gweithredu'r datblygiad;

b) arolygon manwl o gyrsiau dŵr ac ardaloedd gwlyptir ar gyfer presenoldeb safleoedd bridio a gorffwys dyfrgwn o fewn radiws o 300m o gwmpas pob tyrbin a 300m i'r ddwy ochr o lwybrau mynediad ac ardaloedd sy'n destun aflonyddwch adeiladu;

c) arolwg manwl o ardaloedd hyd at 500m o gyrff dŵr ar gyfer madfallod dŵr cribog;

d) arolwg o gyrsiau dŵr ac ardaloedd gwlyptir ar gyfer presenoldeb tyllau, ardaloedd bwydo ac ardaloedd porthianna llygod dŵr gan gynnwys yr ardal 500m i fyny ac i lawr yr afon o ardaloedd sy'n destun aflonyddwch adeiladu, a mesurau lliniaru priodol i gynnal cysylltedd cynefinoedd i lygod dŵr;

e) gwiriad arolwg ar gyfer setiau moch daear neu weithgarwch porthianna moch daear hyd at 50m o gwmpas ardaloedd adeiladu, clirio a chwympo coed a 100m o weithgarwch drilio, gosod pyst neu ffrwydro;
f) paratoi cynllun gwrychoedd/cynefinoedd yn cynnwys manylion am dynnu, trawsleoli ac ôl-ofal yr holl wrychoedd a chynefinoedd y bydd y gwaith yn effeithio arnynt oddi mewn i'r safle a'r ffordd fynediad;
g) y mesurau i'w cymryd i gadarnhau cydymffurfiad â'r holl fesurau lliniaru rhywogaethau a warchodir, cydadfer a gwella.

*Rheswm: Er budd gwarchod natur.*

48. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes y caiff cynllun monitro ecolegol ei gyflwyno i'r awdurdod lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys y trefniadau monitro ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynefinoedd, y Cynllun Gwarchod Adar Bridio, a'r Cynllun Rhywogaethau a Warchodir y cyfeirir atynt yn yr amodau hyn, a:
a) mesurau monitro i gofnodi'r tywydd a gweithgarwch ystlumod her tyrbinau gwynt gan ddefnyddio canfodyddion ystlumod awtomataidd;
b) gweithdrefnau monitro i gofnodi marwolaethau ystlumod ger tyrbinau gwynt yn ystod y 3 blynedd gyntaf y byddant yn weithredol
c) adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau monitro, ynghyd ag argymhellion ar gyfer unrhyw gamau adferol a all leihau'r effeithiau ar boblogaethau ystlumod;
d) gweithdrefn ar gyfer cytuno ar fesurau adferol sydd â'r nod o osgoi neu leihau marwoldeb ystlumod a'u rhoi ar waith. Gall y cyfryw fesurau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, gwtogi tyrbinau a/neu newidiadau rheoli tir;
e) amserlen gytûn ar gyfer monitro sy'n ddigon i bennu effaith gweithredu'r fferm wynt ar ystlumod ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau adferol a roddir ar waith;
f) manylion am fonitro gylfinirod;
g) monitro'r holl wrychoedd a chynefinoedd y bydd gwaith oddi mewn i'r safle a'r ffordd fynediad yn effeithio arnynt;
h) monitro ac adolygu'r HMP.

Caiff y Cynllun Rheoli Cynefinoedd, adar bridio, ystlumod a madfallod dŵr cribog eu monitro ar gyfnodau o 1, 2, 3, 5, 10 a 15 mlynedd ar ôl yr allforyn cyntaf. Ar gyfer adar bridio, dylid cynnal y gwaith monitro hyd at safon unfath ar safle'r fferm wynt a safle cyfeirio priodol. Bydd y data crai a chanlyniadau wedi eu coladu a'u dehongli ar gael i'r awdurdod cynllunio lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru cyn pen chwe mis o gael eu cwblhau ym mhob un o'r blynyddol priodol. Caiff protocolau monitro eu cytuno'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Ystyrir y canlyniadau monitro wrth adolygu'r Cynllun Rheoli Cynefinoedd ac, yn ôl yr angen, caiff y camau gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Cynefinoedd eu diwygio yn dilyn cytundeb â'r awdurdod cynllunio lleol.

Caiff y cynllun ei weithredu fel y cytunir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff effeithiau ar yr amgylchedd eu lleihau.*

49. Cyflawnir gweithgareddau datblygu trwy gydymffurfio'n llawn â'r mesurau lliniaru a amlygir ar dudalen 12 'Fferm Wynt Llanbadarn – Gwybodaeth Atodol ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' 4 Awst 2010.

*Rheswm: Er mwyn lleihau unrhyw effaith ar ACA Afon Gwy.*

50. Cyn pen 6 mis o roi caniatâd, caiff pob cronfa ddata a chofnod a goladwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol eu hanfon yn ddigidol at Wasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddata a gwybodaeth amgylcheddol a gesglir eu cofnodi'n gywir.*

51. Caiff pob cronfa ddata a chofnod bioamrywiaeth a gesglir o ganlyniad i arolygon/monitro yn ystod oes y datblygiad, a fydd yn cynnwys arolygon cyn-dechrau, eu cyflwyno'n ddigidol i'r awdurdod cynllunio lleol a'u hanfon at Wasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyn pen 6 mis o gasglu'r data.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddata a gwybodaeth amgylcheddol a gesglir eu cofnodi'n gywir.*

**Cyflenwadau Dŵr Yfed**

52. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff adroddiad yn mynd i'r afael ag effaith bosibl y datblygiad ar unrhyw adnoddau dŵr yfed preifat yn yr ardal ac unrhyw fesurau sy'n ofynnol i leihau'r effaith ar ansawdd dŵr yfed yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff yr adroddiad ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod yr amgylchedd dŵr.*

**Cysgodion Symudol**

53. Cyn codi'r tyrbin cyntaf, caiff cynllun ysgrifenedig ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, yn amlinellu protocol ar gyfer asesu cysgodion symudol rhag ofn y bydd unrhyw gŵyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan berchennog neu ddeiliad annedd breswyl. Bydd y cynllun ysgrifenedig yn cynnwys mesurau adferol i liniaru unrhyw gysgodion symudol y gellir eu priodoli i'r datblygiad. Caiff y tyrbinau eu gweithredu'n unol â'r protocol cymeradwy, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig blaenorol i unrhyw amrywiadau.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Ymyriant Teledu**

54. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei godi nes caiff cynllun ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo sy'n darparu ar gyfer archwilio ac adfer unrhyw ymyriant â derbyniad teledu mewn unrhyw annedd a oedd yn bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn.

Bydd y cynllun yn darparu i beiriannydd teledu annibynnol cymwysedig ymchwilio i unrhyw gŵyn o ymyriant â derbyniad teledu mewn annedd sydd wedi ei meddiannu'n gyfreithlon, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am y cyfryw gŵyn cyn pen 24 mis o ddyddiad y comisiynu terfynol. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Archaeoleg**

55. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun ymchwilio archaeolegol ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ymchwilio archaeolegol ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw olion archaeolegol sy'n weddill eu harchwilio a'u cadw.*

56. Caiff pob cofnod a goladir, o ganlyniad i'r Cynllun Ymchwilio Archaelegol, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i anfon at y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar hyn o bryd) cyn pen 6 mis o gasglu'r cofnod.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ganfyddiadau archaeolegol eu cofnodi'n briodol.*

**Hedfan**

57. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes y darperir y wybodaeth ganlynol i Ganolfan Daearyddol Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn:
   a) y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn gorffen;
   b) uchder mwyaf yr offer adeiladu;
   c) lledred a hydred pob tyrbin.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

58. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes caiff manylion am osod goleuadau rhybuddio awyrennau isgoch eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y goleuadau eu gosod yn unol â'r manylion cymeradwy a'u cynnal a chadw nes i'r tyrbinau gwynt gael eu datgomisiynu a'u tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

**Cysylltu â'r Gymuned**

59. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun cysylltu â'r gymuned ar gyfer y cyfnod adeiladu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cysylltu â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:
   a) manylion am gysylltiad y datblygwr â'r gymuned leol i sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod sut mae'r adeiladu yn dod yn ei flaen;

b) dull i fynd i'r afael â chwynion gan y gymuned leol yn ystod adeiladu'r datblygiad; a
c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr, a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

60. Ni fydd y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn yn dechrau nes caiff manylion am Gynllun Hyfforddiant a Chyflogaeth ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwy'n ysgrifenedig ganddo. Nod y cynllun fydd hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol yn ystod pob cam o'r datblygiad, a manteisio i'r eithaf ar gontractwyr a chadwyni cyflenwi lleol, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol yn fasnachol.

Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er budd yr economi leol.*

**Sŵn**

61. Ni chaiff unrhyw dyrbin a gymeradwyir trwy hyn ei weithredu cyn cyflwyno cynllun ar gyfer asesu a rheoleiddio Modylu Osgledau Gormodol (EAM) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo ar ei gyfer. Os yw'n bodoli ar adeg ei gyflwyno, bydd y cynllun yn gyffredinol unol ag:
a) arweiniad perthnasol a gefnogir mewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol; neu yn niffyg arweiniad ardystiedig;
b) arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Acwsteg.

Caiff y cynllun cymeradwy ei weithredu ar hyd oes y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn.

*Rheswm: Er budd amwynder cyhoeddus er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â Modylu Osgledau Gormodol yn briodol.*

62. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt (gan gynnwys cymhwyso unrhyw gosb donaidd) pan y'i pennir yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig (i'r amod hwn), yn fwy na'r gwerthoedd ar gyfer y buanedd gwynt cyfanrifol perthnasol a bennir, neu'n sy'n deillio o'r, tabl sydd wedi ei atodi i'r amod hwn mewn unrhyw annedd sy'n bodoli'n gyfreithlon neu sydd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn, a:
a) Bydd y cwmni yn cofnodi cynhyrchiad ynni, buanedd y gwynt a chyfeiriad y gwynt yn barhaus, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d). Caiff y data hwn ei gadw am gyfnod nad yw'n llai na 24 mis. Bydd y Cwmni yn darparu'r wybodaeth hon yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cais ganddo, cyn pen 14 diwrnod o dderbyn y cyfryw gais yn ysgrifenedig.
b) Ni chaiff unrhyw drydan ei allforio nes i'r Cwmni gyflwyno rhestr o ymgynghorwyr annibynnol arfaethedig a all ymgymryd â mesuriadau cydymffurfio yn unol â'r amod hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff diwygiadau i'r rhestr o

ymgynghorwyr cymeradwy dim ond eu gwneud â chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.

c) Cyn pen 21 diwrnod o dderbyn cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cwyn iddo gan breswylydd annedd sy'n honni aflonyddwch sŵn yn yr annedd, bydd y Cwmni, ar ei draul, yn cyflogi ymgynghorydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt yn eiddo'r achwynydd, yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig. Bydd y cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn amlinellu o leiaf y dyddiad, yr amser a'r lleoliad y mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy, ynghyd ag unrhyw amodau atmosfferig a nodwyd, gan gynnwys cyfeiriad y gwynt, ac yn cynnwys datganiad ynghylch p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd.

d) Ymgymerir â'r asesiad o lefel allyriadau sŵn yn unol â phrotocol asesu a fydd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo'n flaenorol. Bydd y protocol yn cynnwys y lleoliad mesur arfaethedig a nodwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd lle yr ymgymerir â mesuriadau at ddibenion gwirio cydymffurfiad, p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, a hefyd ystod yr amodau meteorolegol a gweithredol (a fydd yn cynnwys ystod buanedd y gwynt, cyfeiriadau'r gwynt, cynhyrchiad ynni ac adegau'r dydd) i benderfynu ar asesiad lefel yr allyriadau sŵn. Ystod yr amodau arfaethedig fydd y rhai a oedd yn bodoli yn ystod yr adegau y mae'r achwynnydd yn honni y bu aflonyddwch oherwydd sŵn, gan ystyried cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan baragraff (c), ac eraill fel y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn ystyried eu bod yn debygol o arwain at dorri'r cyfyngiadau sŵn.

e) Lle nad yw annedd y mae cwyn yn ymwneud â hi wedi ei rhestru yn y tablau sy'n atodedig i'r amodau hyn, bydd y Cwmni yn cyflwyno cyfyngiadau sŵn arfaethedig wedi eu dethol o'r rhai a restrir yn y Tablau i'w mabwysiadu yn annedd yr achwynnydd at ddibenion gwirio cydymffurfiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Y cyfyngiadau sŵn arfaethedig fydd y cyfyngiadau a ddewisir o Dabl 1, gan ystyried Tabl 2, ac a bennwyd ar gyfer lleoliad rhestredig y mae'r ymgynghorydd annibynnol o'r farn y byddai'n debygol o brofi'r amgylchedd sŵn cefndir tebycach i'r amgylchedd sŵn cefndir y ceir profiad ohono yn annedd yr achwynnydd. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt, o'u pennu'n unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig, yn fwy na'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd yr achwynnydd.

f) Bydd y Cwmni yn darparu asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn, a gynhaliwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 2 fis o ddyddiad cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud mesuriadau cydymffurfiad a wneir o dan baragraff (c), oni bai y caiff y terfyn amser ei ymestyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr asesiad yn cynnwys yr holl ddata a gesglir at ddibenion cyflawni'r mesuriadau cydymffurfiad, a chaiff y cyfryw ddata ei ddarparu yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) y Nodiadau Cyfarwyddyd. Caiff yr offeryniaeth a ddefnyddir i gyflawni'r mesuriadau ei graddnodi'n unol â

Nodyn Cyfarwyddyd 1 (a) a chyflwynir tystysgrifau graddnodi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ag asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn.

g) Lle mae angen asesiad pellach o lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 4 (c), bydd y Cwmni yn cyflwyno copi o'r asesiad pellach cyn pen 21 niwrnod o gyflwyno asesiad yr ymgynghorydd annibynnol yn unol â pharagraff (d) uchod, oni bai y caiff y terfyn amser ei estyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder preswyl.*

**Nodiadau Cyfarwyddyd**

Tabl 1: Cyfyngiadau sŵn a fynegir mewn dB LA90, 10 munud fel swyddogaeth buanedd safonol y gwynt (m/s) ar 10 metr o uchder a gymhwysir i sŵn o Fferm Wynt Llanbadarn Fynydd at bob adeg o'r dydd a'r nos.

| **Lleoliad** | **Buanedd safonol y gwynt ar uchder o 10 metr (fel y diffinnir yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd sydd wedi eu hatodi i'r amod sŵn)** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
| Lower Foel | 38 | 38 | 38 | 38 | 40 | 42 | 43 | 45 | 47 | 50 |
| Butterwell | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 40 | 42 | 45 | 47 |
| Springfield | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 48 | 52 | 56 | 60 | 64 |
| Garn | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 48 | 52 | 56 | 60 | 64 |
| Higher Fiddlers Green | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 40 | 42 | 45 | 47 |
| Fiddlers Green | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 40 | 42 | 45 | 47 |
| Lower Gwenlas | 38 | 38 | 40 | 41 | 43 | 45 | 47 | 49 | 51 | 53 |
| Gwenlas | 38 | 38 | 39 | 40 | 42 | 44 | 47 | 49 | 52 | 55 |
| Cwm-mawr | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 38 | 40 | 42 | 45 | 47 |
| Pen-y-Bank | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 48 | 51 | 54 | 58 |
| Tŷ i'r de o Pen-y-bank | 38 | 38 | 38 | 39 | 42 | 45 | 48 | 51 | 54 | 58 |
| Esgairuchaf | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 46 |
| Lower Crochran | 40 | 40 | 40 | 40 | 41 | 43 | 45 | 48 | 50 | 53 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cochran | 40 | 40 | 40 | 40 | 41 | 43 | 45 | 48 | 50 | 53 |
| Hafod-fach | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 46 | 48 | 50 | 53 |
| Esgairdracnllwyn | 40 | 40 | 40 | 40 | 40 | 41 | 43 | 44 | 45 | 46 |
| Pont Carnanat | 40 | 40 | 40 | 40 | 41 | 43 | 45 | 48 | 50 | 53 |

Tabl 2: Lleoliadau cyfesurynnol yr anheddau a restrir yn Nhabl 1.

| **Annedd** | **Dwyreiniad** | **Gogleddiad** |
|---|---|---|
| Lower Foel | 309609 | 283311 |
| Butterwell | 311013 | 282412 |
| Springfield | 310544 | 281884 |
| Garn | 310200 | 281697 |
| Higher Fiddlers Green | 311658 | 281737 |
| Fiddlers Green | 311672 | 281732 |
| Lower Gwenlas | 311435 | 280395 |
| Gwenlas | 311368 | 280351 |
| Cwm-mawr | 310786 | 278885 |
| Pen-y-Bank | 310310 | 279751 |
| Tŷ i'r de o Pen-y-bank | 310217 | 279481 |
| Esgairuchaf | 309357 | 279437 |
| Lower Crochran | 308556 | 280569 |

| | | |
|---|---|---|
| Cochran | 308233 | 280735 |
| Hafod-fach | 308641 | 281545 |
| Esgairdracnllw yn | 308289 | 282079 |
| Pont Carnanat | 308698 | 282911 |

**Nodyn i Dabl 2**: Darperir cyfeirnodau'r cyfesurynnau daearyddol at ddibenion canfod lleoliad cyffredinol anheddau y mae cyfyngiadau sŵn penodol yn berthnasol iddynt.

**Nodyn cyffredinol:** At ddibenion yr amod hwn, annedd yw adeilad o fewn dosbarth defnydd C3 a C4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) sy'n bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn.

**Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Amodau Sŵn**

Dylid darllen y nodiadau hyn â'r amod sŵn ac maent yn ffurfio rhan ohono. Maent yn esbonio'r amod ymhellach ac yn manylu ar y dulliau a ddefnyddir i asesu cwynion ynghylch allyriadau sŵn o'r fferm wynt. Y lefel ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yw swm rhifyddol lefel sŵn y fferm wynt fel y'i pennir o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn 2 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ac unrhyw gosb donaidd a gymhwysir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3. Mae cyfeiriad at ETSU-R-97 yn cyfeirio at gyhoeddiad o'r enw "The Assessment and Rating of Noise fron Wind Farms" (1997) a gyhoeddwyd gan yr Uned Cymorth Technoleg Ynni (ETSU) ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)).

**Nodyn Cyfarwyddyd 1**

(a) Dylai gwerthoedd yr ystadegyn sŵn LA90 (10 munud) gael eu mesur yn eiddo'r achwynydd, gan ddefnyddio mesurydd lefel sŵn o ansawdd EN 60651/BSB EN 60804 Math 1, neu BSB EN 61672 Dosbarth 1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau) a osodir i fesur yr ymateb pwysol amser cyflym fel y manylir arno yn SS EN 60651/BSB EN 60804 neu BS EN 61672-1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid graddnodi hyn yn unol â'r weithdrefn y manylir arni yn BS 4142: 1997 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid cymryd mesuriadau mewn modd sy'n galluogi cymhwyso cosb donaidd yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3.

(b) Dylai'r microffon gael ei osod 1.2 -1.5 metr uwchben lefel y ddaear, a dylai maneg wynt dwy-haen neu offer addas cyfwerth a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gael ei (g)osod arno, a dylid ei roi y tu allan i annedd yr achwynydd. Dylid cymryd mesuriadau mewn amodau "maes rhydd". I gyflawni hyn, dylai'r microffon gael ei osod o leiaf 3.5 metr oddi wrth ffasâd yr adeilad neu unrhyw arwyneb adlewyrchol heblaw'r ddaear yn y lleoliad mesur cymeradwy. Os bydd yr achwynydd yn gwrthod rhoi caniatâd i fynd at ei (h)eiddo i wneud mesuriadau cydymffurfiad, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cyflwyno manylion am leoliad mesur cynrychioliadol arfaethedig arall i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo cyn dechrau gwneud mesuriadau, a chaiff y mesuriadau eu cymryd yn y lleoliad mesur cynrychioliadol cymeradwy arall.

(c) Dylai'r mesuriadau LA90 (10 munud) gael eu cysoni â mesuriadau'r data gwynt a gweithredol cymedrig 10 munud a gofnodir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), gan gynnwys y data cynhyrchu ynni o systemau rheoli tyrbinau'r fferm wynt.

(d) Er mwyn galluogi cydymffurfiad â'r amodau a arfernir, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cofnodi buanedd cymedrig rhifyddol y gwynt yn barhaus mewn metrau yr eiliad, a chyfeiriad y gwynt mewn graddau o'r gogledd ar uchder y both ar gyfer pob tyrbin, a'r ynni cymedrig rhifyddol a gynhyrchir gan bob tyrbin, pob un ohonynt mewn cyfnod olynol o 10 munud. Oni bai y cytunir ar weithdrefn arall â'r Awdurdod Cynllunio ymlaen llaw, caiff uchder y both, buanedd y gwynt, ar gyfartaledd ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol, eu defnyddio'n sail ar gyfer y dadansoddiad. Caiff yr holl ddata ar fuanedd cymedrig cyfartalog rhifyddol y gwynt mewn cyfnodau o 10 munud a fesurir ar uchder y both ei 'safoni' i uchder cyfeirnod o 10 metr, fel y disgrifir yn ETSU-R-97 ar dudalen 120 gan ddefnyddio hyd garwedd cyfeirnod o 0.05 metr. Y data safonol hwn ar fuanedd y gwynt ar uchder o 10 metr a gyfatebir â'r mesuriadau sŵn a bennir yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, a chaiff y cyfryw gyfatebiad ei gyflawni yn y modd a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2. Bydd pob cyfnod o 10 munud yn dechrau ar yr awr ac mewn cyfnodau o 10 munud wedi hynny.

(e) Caiff data a ddarperir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn unol â'r amod sŵn, ei ddarparu mewn gwerthoedd wedi eu gwahanu gan goma mewn fformat electronig.

(f) Caiff medrydd glaw sy'n cofnodi data ei osod yn ystod yr asesiad o lefelau'r allyriadau sŵn. Bydd y medrydd yn cofnodi dros gyfnodau olynol o 10 munud wedi eu cysoni â'r cyfnodau data a gofnodir yn unol â Nodyn 1 (d).

**Nodyn Cyfarwyddyd 2**

(a) Gwneir y mesuriadau sŵn er mwyn darparu dim llai nag 20 pwynt data dilys, fel y diffinnir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2 (b).

(b) Pwyntiau data dilys yw'r rhai a fesurir yn yr amodau y manylir arnynt yn y protocol ysgrifenedig cytûn o dan baragraff (d) o'r amod sŵn, ond heb gynnwys unrhyw gyfnodau o lawiad a fesurir yn agos at fesurydd y lefel sŵn. Caiff glawiad ei asesu trwy ddefnyddio medrydd glaw a fydd yn cofnodi'r glawiad ym mhob cyfnod o 10 munud yn gydamserol â'r cyfnodau mesur a amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1.

(c) Ar gyfer y pwyntiau data hynny yr ystyrir eu bod yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2(b), caiff gwerthoedd y mesuriadau sŵn 10 munud LA90 a gwerthoedd cyfatebol buanedd y gwynt mewn cyfnod o 10 munud, sy'n deillio o fuanedd cyfartalog safonol y gwynt ar uchder o 10 metr ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol gan ddefnyddio'r weithdrefn y manylir arni yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), eu plotio ar siart XY â lefel y sŵn ar yr echelin Y a buanedd cymedrig safonol y gwynt ar yr echelin X. Dylai cromlin "ffit orau" sgwariau lleiaf o radd y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn tybio ei bod yn briodol (ond na all fod yn uwch na phedwaredd radd) gael ei ffitio i'r pwyntiau data a diffinio lefel sŵn y fferm wynt ar bob buanedd cyfanrifol.

**Nodyn Cyfarwyddyd 3**

(a) Lle mae allyriadau sŵn yn y lleoliad neu'r lleoliadau lle mae mesurau cydymffurfiad yn cael eu cymryd yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, yn unol â'r protocol asesu cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn,

caiff cosb donaidd ei chyfrifo a'i chymhwyso gan ddefnyddio'r weithdrefn raddio ganlynol.


(b) Ar gyfer pob cyfnod o 10 munud y penderfynwyd bod data 10 munud LA90 yn ddilys ar ei gyfer, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, cyflawnir asesiad tonaidd ar allyriadau sŵn yn ystod 2 funud o bob cyfnod o 10 munud. Dylai'r cyfnodau o 2 funud gael eu gwahanu gan gyfnodau o 10 munud, cyn belled â bod data anllygredig di-dor ar gael ("y weithdrefn safonol"). Lle nad oes data anllygredig ar gael, caiff y cyfnod glân anllygredig cyntaf o 2 funud sydd ar gael o'r cyfnod cyffredinol o 10 munud dan sylw ei ddewis. Caiff unrhyw gyfryw wyriad oddi wrth y weithdrefn safonol, fel y disgrifir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97, ei gofnodi.

(c) Ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud, caiff lefel y dôn uwchben neu islaw clywadwyedd ei chyfrifo trwy gymharu â'r maen prawf clywadwyedd a roddir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97.

(d) Caiff lefel y dôn uwchben clywadwyedd ei phlotio yn erbyn buanedd y gwynt ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud. Ar gyfer samplau lle'r oedd y tonau islaw'r maen prawf clywadwyedd neu na nodwyd unrhyw dôn, defnyddir gwerth o glywadwyedd sero.

(e) Yna, caiff llinell atchwel llinol "ffit orau" sgwariau lleiaf ei chyflawni i bennu'r lefel tôn gyfartalog uwchben clywadwyedd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol yn deillio o werth y llinell "ffit orau" ar bob buanedd gwynt cyfanrifol. Os nad oes unrhyw duedd amlwg o ran buanedd y gwynt, yna defnyddir cyfanrif rhifyddol syml. Caiff y broses hon ei hailadrodd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol y mae asesiad o'r lefelau cyffredinol ar ei gyfer yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(f) Mae'r gosb donaidd yn deillio o'r maint uwchben clywadwyedd y dôn, yn ôl y ffigur isod.




## Nodyn Cyfarwyddyd 4

(a) Os caiff cosb donaidd ei chymhwyso'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3, lefel sŵn y tyrbinau ar bob buanedd gwynt yw swm rhifyddol y lefel sŵn fesuredig, fel y pennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, a'r gosb ar gyfer sŵn tonaidd a geir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3 ar bob buanedd gwynt cyfanrifol o fewn yn ystod a bennwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei brotocol ysgrifenedig o dan baragraff (d) o'r amod sŵn.

(b) Os na chaiff cosb donaidd ei chymhwyso, yna mae lefel sŵn y tyrbin ar bob buanedd gwynt yn gyfwerth â'r lefel sŵn fesuredig a bennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifiwyd yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(c) Os bydd y lefel uwchlaw'r cyfyngiad(au) a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau sŵn neu'r cyfyngiadau sŵn ar gyfer annedd achwynydd a gymeradwywyd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, bydd yr ymgynghorydd annibynnol yn cynnal asesiad pellach o'r lefel i gywiro ar gyfer sŵn cefndir er mwyn i'r lefel ymwneud ag allyriadau sŵn y tyrbinau gwynt yn unig.

(d) Bydd y Cwmni’n sicrhau y caiff yr holl dyrbinau gwynt yn y datblygiad eu diffodd am y cyfnod sydd ei angen ar yr ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad pellach. Cynhelir yr asesiad pellach yn unol â’r camau canlynol:

(e) Ailadrodd y camau yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, gan ddiffodd y fferm wynt, a phennu lefel y sŵn cefndir (L3) ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yn yr ystod y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gais ysgrifenedig o dan baragraff (c) a’r protocol cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn.

(f) Yna, cyfrifir sŵn y fferm wynt (L1) ar y buanedd hwn fel a ganlyn, lle L2 yw’r lefel fesuredig pan fo’r tyrbinau ar waith, ond heb ychwanegu unrhyw gosb donaidd:

(g) Caiff y lefel ei hailgyfrifo trwy adio’r gosb donaidd (os caiff ei chymhwyso’n unol â Nodyn 3) at sŵn deilliedig y fferm wynt L1 ar y buanedd gwynt cyfanrifol hwnnw yn rhifyddol.

(h) Os bydd y lefel ar ôl ei haddasu ar gyfer cyfraniad sŵn cefndir a’i haddasu ar gyfer cosb donaidd (os yw’n ofynnol yn unol â Nodyn 3 uchod) ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn gyfwerth â’r gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i’r amodau neu’n is, neu’n gyfwerth â’r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn neu’n is, yna nid os angen unrhyw gamau pellach. Os bydd y lefel ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn rhagori ar y gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i’r amodau neu’r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, yna bydd y datblygiad yn methu cydymffurfio â’r amodau.

DIWEDD YR AMODAU

**<u>Atodiad D</u>**
**Llanbrynmair – Rhestr Amodau**

**Caniatâd o dan adran 36 Deddf Trydan 1989 – Amodau**

1. Yn unol ag adran 36 Deddf Trydan 1989, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ("yr Ysgrifennydd Gwladol") trwy hyn yn rhoi caniatâd i'r rhan honno o'r datblygiad arfaethedig sy'n cynnwys adeiladu, ar yr ardal o dir sydd wedi ei darlunio â llinell goch ddi-dor ar ddyluniad rhif 01592D2205-16 – Dyluniad 1A Ffin y Safle, Dyluniad 1B Ffin y Safle (i'r graddau y mae'n cyfeirio ar ddalenni 3A i 3E yn unig) a Dyluniadau 1-3A i 1-3E Ffin y Safle [122], gorsaf gynhyrchu tyrbinau gwynt ar dir rhwng pentrefi Llanbrynmair a Llanerfyl ym Mhowys ("y Datblygiad") a gweithredu'r orsaf gynhyrchu honno. Rhoddir y caniatâd hwn i RES UK and Ireland Limited ("y Cwmni"), ei aseineion a'i olynwyr. Gwrthodir caniatâd ar gyfer y rhan honno o'r datblygiad arfaethedig sy'n cynnwys gwaith i ddarparu mynediad i lwythi anwahanadwy anghyffredin o ffordd Llanerfyl i Dalerddig (Dyluniadau 1-1A i 1-1K ac 1-2A i 1-2G gan gynnwys y dyluniadau hynny).

2. Yn amodol ar baragraff 3, bydd gan y Datblygiad gapasiti graddedig o dros 50MW a chapasiti graddedig o hyd at 90MW, a bydd yn cynnwys:
   a) hyd at 30 o dyrbinau gwynt, pob un ohonynt wedi ei leoli ar sylfeini concrit, yn cynnwys llawr caled ar gyfer craeniau, ac wedi ei osod â

[122] A gynhwysir yn y Wybodaeth Amgylcheddol atodol dyddiedig Chwefror 2013, ar dudalen 52

llafnau sy'n cylchdroi. Bydd ganddynt uchder i flaen y llafn o hyd at 126.5 metr, gan gynnwys newidyddion;

b) cyfres o geblau wedi eu claddu o dan wyneb y ddaear sy'n cysylltu'r tyrbinau gwynt â'r isbwerdy;

c) cyfres o lwybrau mynediad rhwng y tyrbinau gwynt;

d) unrhyw lwybrau mynediad ychwanegol ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw ac argyfyngau;

e) un isbwerdy trydan a dau adeilad lles ar y safle;

f) mast anemometreg parhaol a phum pâr o fastiau graddnodi perfformiad pŵer dros dro;

g) chwe phwll benthyg ar gyfer echdynnu carreg i'w defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad;

h) mast cyfathrebu;

i) cyffordd newydd ar gyfer yr A470 yn Nhalerddig a gwaith priffyrdd cysylltiedig i hwyluso mynediad at y safle.

3. Yn amodol ar unrhyw fân newidiadau y gellir eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (fel y diffinnir yn amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig ("yr Amodau Cynllunio") a amlinellir isod), caiff y Datblygiad ei adeiladu'n unol â chynlluniau'r cais ac yn gyffredinol unol ag amcanion, cwmpas a methodoleg y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol ddilynol, i'r graddau nad yw'r rhain yn gwrthdaro ag unrhyw un o ddarpariaethau amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig na thelerau unrhyw drefn, rhaglen, datganiad, cynllun, manylion neu adroddiad i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol dan yr Amodau Cynllunio.

4. Bydd Cam 1 a Cham 2 y datblygiad a ganiateir trwy hyn yn dechrau cyn pen 8 mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

5. Ni chaniateir i'r Cwmni aseinio'r caniatâd hwn heb gael awdurdodiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd (ag amodau neu beidio) neu wrthod y cyfryw awdurdodiad fel y gwêl orau, yn ôl ei ddoethineb ei hun. Ni fydd modd aseinio, arallu na throsglwyddo'r caniatâd ac eithrio'n unol â'r weithdrefn rag-grybwylledig.

## Caniatâd Tybiedig o dan Adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Amodau

6. Yn yr amodau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn golygu fel arall:

mae gan **"llwyth anwahanadwy anghyffredin"** yr un ystyr ag yng Ngorchymyn Cerbydau Ffordd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003(a);

mae **"dechrau'r datblygiad"**, mewn perthynas â'r datblygiad awdurdodedig, yn golygu'r dyddiad y bydd y datblygiad awdurdodedig yn dechrau trwy gyflawni gweithrediad perthnasol fel y diffinnir yn adran 56 Deddf 1990, a chaiff "dechrau" a "dechreuodd" eu dehongli'n unol â hynny;

ystyr **"cyfnod adeiladu"** yw'r cyfnod o ddechrau'r gwaith ar y Datblygiad hyd at y dyddiad 6 mis ar ôl i gaeadleoedd y Safle gael eu hadfer yn unol ag amodau'r caniatâd hwn;

mae **"dB"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel;

mae **"dB(A)"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel, gan gynnwys yr hidlydd pwysoliad-A yn y mesuriadau y cyfeirir atynt yn ETSU-R-97;

mae **"datblygiad"** fel y diffinnir yn amod 2 y caniatâd hwn;

mae **"datgoedwigo"** yn golygu unrhyw gwympo neu docio coed a gyflawnir;

mae "**datblygu**" yn golygu'r gwaith y caniateir ei gyflawni, fel yr amlinellir yn Amod 2 uchod.

mae "**argyfwng**" yn golygu amgylchiadau lle mae achos rhesymol i amgyffred anaf ar fin digwydd i unigolion, difrod difrifol i eiddo neu berygl o lygredd difrifol i'r amgylchedd;

mae **"ETSU-R-97"** yn golygu Adroddiad ETSU rhif ETSU-R-97 *'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms'*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996;

mae **"rhywogaeth a warchodir gan Ewrop"** yn golygu rhywogaeth a restrir yn Atodlenni 2 neu 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010;

mae **"comisiynu terfynol y datblygiad"** yn golygu'r dyddiad y caiff y generadur tyrbin gwynt olaf sy'n ffurfio rhan o'r Datblygiad ei gomisiynu a'i fod yn cynhyrchu trydan ar gyfer y grid cenedlaethol;

mae **"allforyn cyntaf"** yn golygu'r dyddiad y caiff trydan ei allforio i'r grid ar sail fasnachol am y tro cyntaf;

mae **"LA90"** yn golygu'r lefel desibelau (dB) y rhagorwyd arni ar gyfer 90% o bob cyfnod sampl;

mae "**Awdurdod Cynllunio Lleol**" yn golygu Cyngor Sir Powys neu unrhyw awdurdod olynol;

mae **"gŵyl gyhoeddus"** yn golygu diwrnod a ddethlir yn ŵyl gyhoeddus;

ystyr **"safle"** yw'r tir oddi mewn i ffin y datblygiad a amlinellir yn goch ar y map sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn;

ystyr **"buanedd y gwynt"** yw buanedd y gwynt a fesurir ar Safle'r fferm wynt ar uchder both y tyrbin, ac wedi ei gywiro i uchder safonol o 10m uwchben lefel y ddaear, mewn modd y cytunwyd arno â'r Awdurdod Cynllunio Lleol;

ystyr **"tyrbinau gwynt"** yw'r tyrbinau gwynt sy'n ffurfio rhan o'r datblygiad, a chaiff "tyrbin gwynt" ei ddehongli'n unol â hynny.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

7. Lle y caiff manylion, trefn neu gynllun eu cyflwyno i'w cymeradwyo neu eu cadarnhau gan yr awdurdod cynllunio lleol dan unrhyw amod, yna oni bai bod yr amod yn darparu fel arall:
   (a) rhaid i'r manylion neu drefn neu gynllun a'r gymeradwyaeth fod yn ysgrifenedig; ac
   (b) ystyrir bod y manylion, trefn neu'r cynllun cymeradwy yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau a all gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol wedi hynny, ar yr amod na all yr awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo unrhyw ddiwygiadau lle byddai'r diwygiadau hynny'n arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol wahanol i'r rhai a aseswyd yn y datganiad amgylcheddol.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

**Y Datblygiad**

8. Yn destun yr amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd hwn, cyflawnir y datblygiad yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a'r dogfennau canlynol:
   a) Cais Cynllunio Ffin Llinell Goch â Dull y Safle, Dyluniadau Rhifau 1A, 1B i'r graddau ei fod yn ymwneud â Dalen 3A – Dalen 3E, ac 1-3A i 1-3E (Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol, Chwefror 2014);
   b) Gosodiad y Tyrbinau, Ffigur 3.5 (Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol, Awst 2013);
   e) Gosodiad y Tyrbinau ac Ardaloedd Microleoli, Ffigurau 3.25a a 3.25b (Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol, Awst 2013)
   d) Gosodiad Seilwaith Amgen, Ffig 4.1 (Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol, Chwefror 2014)

   ac yn gyffredinol unol â'r manylion, amcanion, cwmpas a'r fethodolegau a amlinellwyd yn y Wybodaeth Amgylcheddol Atodol a gyflwynwyd yn Awst 2013, Hydref 2013, Rhagfyr 2013 a Chwefror 2014, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r datblygiad a ganiateir.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

9. Bydd y caniatâd ar gyfer cam 1 y datblygiad am gyfnod o 25 mlynedd o'r allforyn cyntaf o gam 1. Bydd y caniatâd ar gyfer cam 2 y datblygiad am gyfnod o 25 mlynedd o allforyn cyntaf cam 2.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth a phennu cyfnod y caniatâd hwn.*

10. Rhoddir cadarnhad o'r dyddiad yr allforyn cyntaf ar gyfer pob cam i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen mis o ddigwydd.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

11. Rhoddir cadarnhad o ddyddiad y Comisiynu Terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Awdurdod Cynllunio Lleol heb fod yn hwyrach nag un mis calendr wedi'r digwyddiad hwnnw.

*Rheswm: Er mwyn pennu dyddiad y comisiynu terfynol.*

**Datgomisiynu ac Adfer**

12. Heb fod yn llai na 24 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben mewn perthynas â Cham 1 y datblygiad, a'r un cyfnod mewn perthynas â Cham 2 y datblygiad, caiff manylion am y cynllun a methodolegau arolygon cynefinoedd, adar a rhywogaethau a warchodir cyfredol i lywio cynllun datgomisiynu ac adfer y safle eu cyflwyno i'r ACLl a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

*Rheswm: I lywio'r cynllun datgomisiynu.*

13. Heb fod yn llai na 18 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben mewn perthynas â Cham 1 y datblygiad, a'r un cyfnod mewn perthynas â Cham 2 y datblygiad, caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu ac adfer y rhan berthnasol o'r safle ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynlluniau eu llywio gan arolygon diweddar o gynefinoedd a rhywogaethau a'u gweithredu fel y'i cymeradwyir a'u cwblhau cyn pen 12 mis o'r dyddiad y daw'r caniatâd ar gyfer Cam 2 i ben. Bydd y cynllun yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i:
    a) fanylion am yr holl lwybrau, strwythurau, adeiladau, ceblau tanddaearol a chyfleustodau, a seilwaith cysylltiedig arall sydd i'w tynnu i ddyfnder o 1m o dan y ddaear;
    b) manylion am y dull tynnu, gan gynnwys dull o osgoi effeithio ar gynefinoedd mawndir;
    c) tynnu llwybrau, strwythurau, adeiladau a seilwaith cysylltiedig arall fesul cam;
    d) symud daear ac amnewid pridd;
    e) adfer y dirwedd a chynefinoedd;
    f) monitro'r ardaloedd adferedig a'r camau gweithredu adferol;
    h) adfer hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed a llwybrau ceffyl.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei dynnu mewn modd cydymdeimladol wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben.*

14. Cyn rhoi Cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle ar waith, caiff cynllun cyswllt â'r gymuned ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cyswllt â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwywyd a bydd yn cynnwys:
    a) manylion am gyswllt y datblygwr â'r gymuned leol er mwyn sicrhau y caiff preswylwyr eu hysbysu am sut mae datgomisiynu'r datblygiad yn dod yn ei flaen;
    b) dull ar gyfer delio â chwynion gan y gymuned leol wrth ddatgomisiynu'r datblygiad; a
    c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

15. Ar ôl cwblhau’r gwaith adfer, caiff unrhyw offer, peiriannau ac adeiladau gosodedig sy’n weddill a godwyd neu y daethpwyd â nhw i’r safle at ddiben gweithredu cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle eu tynnu o’r safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

16. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i’r Cwmni gyflwyno manylion am offeryn ariannol i’r awdurdod cynllunio lleol, a bod trefniadau a fydd yn sicrhau bod digon o gyllid i gwmpasu costau datgomisiynu ac adfer y safle ar gael i’r awdurdod cynllunio cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Bydd yr offeryn ariannol yn cynnwys trefniadau i gyllid cynyddu â chwyddiant ac yn cynnwys darpariaeth adolygu 5, 10, 15 ac 20 mlynedd ar ôl yr Allforyn Cyntaf er mwyn sicrhau bod y cyllid yn ddigonol o hyd i dalu costau datgomisiynu ac adfer y safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

17. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i’r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo’r offeryn ariannol, nes bod yr offeryn ariannol ar waith ac y gwneir trefniadau i sicrhau y bydd cyllid ar gael cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Caiff yr offeryn ariannol ei gynnal trwy gydol cyfnod y caniatâd ac adfer, a chaiff y trefniadau ar gyfer adneuo cyllid, addasiadau chwyddiant ac adolygu’r offeryn ariannol eu rhoi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

**Methiant Tyrbinau**

18. Os bydd unrhyw dyrbin gwynt yn methu darparu trydan i’r grid am gyfnod parhaus o 6 mis neu fwy (heblaw am resymau’n ymwneud â sŵn):
  a) caiff yr awdurdod cynllunio lleol ei hysbysu am y methiant ar unwaith;
  b) efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod angen cyflwyno cynllun ar gyfer atgyweirio neu dynnu’r tyrbin hwnnw;
  c) cyn pen 2 fis o dderbyn y cyfryw gais, cyflwynir cynllun ar gyfer atgyweirio neu dynnu’r tyrbin hwnnw i’r awdurdod cynllunio lleol. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon adar a rhywogaethau cyfredol;
  d) caiff y cynllun cymeradwy ei roi ar waith cyn pen 6 mis o gael cymeradwyaeth, oni bai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cytuno â chyfnod hwy yn ysgrifenedig.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei atgyweirio/eu hatgyweirio, neu ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei ddatgomisiynu/eu datgomisiynu.*

**Microleoli’r Datblygiad**

19. Cyn dechrau unrhyw waith datblygu ar safle’r fferm wynt (gan gynnwys cwympo coed, clirio’r safle a chlirio llystyfiant), caiff protocol microleoli ei

gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y protocol microleoli'n cynnwys:

a) meini prawf cytûn ar gyfer microleoli tyrbinau, llwybrau mynediad, pyllau benthyg, padiau craeniau a chylchoedd troi, cyfadeiladau datblygwyr a phob seilwaith arall sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, yn ymwneud â'r, ond nid yn gyfyngedig i'r, gofyniad i leihau'r effeithiau ar gynefinoedd mawn a mawn dwfn; ystlumod; gylfinirod; cyrsiau dŵr; llwybrau troed a llwybrau ceffyl, gan gynnwys Llwybr Cenedlaethol Llwybr Glyndŵr, a chynnal pellteroedd o 50m o leiaf o flaen y llafn i ymylon coetiroedd a choedwigoedd;
b) hierarchaeth gytûn o faterion i'w hystyried mewn penderfyniadau microleoli; ac
c) i ba raddau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru ynghlwm wrth y broses gymeradwyo microleoli terfynol a gweithredu'r cynllun cymeradwy.

Ar ôl cwympo coed, cynhelir asesiad manwl o ddyfnder mawn ym mhob ardal lle gall seilwaith effeithio ar fawn er mwyn llywio'r protocol microleoli. Caiff y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn ei gyflawni a'i weithredu'n unol â'r protocol microleoli cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i'r datblygwr yn ystod yr adeiladu i wneud mân newidiadau i leoliad y seilwaith i fynd i'r afael ag anawsterau fel amodau gwael ar y ddaear a ddaw i'r amlwg yn ystod yr adeiladu.*

20. Caiff pob agwedd ar y datblygiad ei lleoli o fewn 50m o'r lleoliad cymeradwy ar gyfer tyrbinau a 100 metr ar gyfer llwybrau mynediad a chroesfannau mynediad draeniau a ffosydd, a seilwaith arall.

*Rheswm: Er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol.*

21. Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad allforyn cyntaf Cam 2, caiff cynllun yn dangos lleoliad union y datblygiad cyfan (gan gynnwys llwybrau, lloriau caled, mynedfeydd, tyrbinau, pyllau benthyg ac ati) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r cynllun terfynol fel y'i hadeiladwyd, ar ôl ystyried lwfansau microleoli.*

**Datblygiad Manwl – Dyluniad a Golwg**

22. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei gludo i'r safle nes y caiff manylion am y tyrbinau eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo, gan gynnwys y gwneuthuriad, model, dyluniad, maint, ac os oes trawsnewidydd allanol, lleoliad y trawsnewidydd, y raddfa bŵer, y mast anemomedr a chyfarpar cysylltiedig. Caiff y tyrbinau, y mast anemomedr a'r cyfarpar cysylltiedig eu hadeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

23. Ni chodir unrhyw dyrbin nes caiff cynllun yn manylu ar y lliw a'r gorffeniad ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys:
    a) sampl o'r lliw arfaethedig;
    b) esboniad ysgrifenedig o'r lliw a ddewiswyd, gan gynnwys esboniad o'r dirwedd a'r ystyriaethau gweledol sydd wedi llywio'r cynnig, a darluniad o'r lliw arfaethedig yn y dirwedd trwy baneli enghreifftiol a/neu ffotogyfosodiadau.

    Ni chodir unrhyw dyrbin nes i'r lliw arfaethedig gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol, a chaiff y tyrbinau eu gorffen yn y lliw cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

24. Caiff yr holl geblau trydan sy'n cysylltu'r araeau tyrbinau â'r isbwerdy eu gosod o dan y ddaear.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

25. Ni fydd unrhyw waith datblygu ar adeilad yr isbwerdy ar y safle yn dechrau nes i fanylion yn ymwneud â'i leoliad, triniaeth allanol, dyluniad, deunyddiau, tirweddu (os o gwbl), a'i gyfeiriadedd eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff yr isbwerdy ei adeiladu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

26. Ni ellir defnyddio unrhyw oleuadau awyr agored heblaw:
    a) goleuadau awyrennau;
    b) goleuadau dros dro ar gyfer y safle a gymeradwyir fel rhan o'r Datganiad Dull Adeiladu

    yn ystod y gwaith Datblygu, oni bai y caiff manylion am y goleuadau hyn eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y cyfryw oleuadau awyr agored eu darparu'n unol â'r manylion cymeradwy yn unig.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

27. Heblaw yn ystod y cyfnod adeiladu, ni chaiff unrhyw symbolau, arwyddion, logos na llythreniadau eraill, heblaw'r rhai sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith am resymau iechyd a diogelwch, eu harddangos ar unrhyw ran o'r tyrbinau nac unrhyw adeilad neu strwythur heb gymeradwyaeth gan yr awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

**Oriau Adeiladu**

28. Caiff gwaith adeiladu ei gyflawni rhwng 07:30 ac 19:30 o'r gloch yn unig o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny, a rhwng 07:30 ac 13:00 o'r gloch ar ddyddiau Sadwrn, heb unrhyw waith adeiladu ar ddyddiau Sul neu wyliau cyhoeddus. Y tu allan i'r oriau hyn, caiff gwaith ar y safle ei

gyfyngu i waith brys, codi tyrbinau, llethu llwch, a phrofi/cynnal a chadw peiriannau ac offer, neu waith adeiladu nad yw'n glywadwy o unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo'n wahanol yn ysgrifenedig. Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hysbysu'n ysgrifenedig am unrhyw waith brys cyn pen tri diwrnod gwaith ohono.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

29. Caiff yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r datblygiad eu cyflawni'n unol â Safon Brydeinig BS5228:2009: Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored – Rhan 1: Sŵn a Rhan 2: Dirgryniad.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

**Priffyrdd**

30. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes y caiff cyffordd newydd i gefnffordd yr A458 a'r llwybr llwythi anwahanadwy anghyffredin o'r A458 i ffin safle'r datblygiad eu hadeiladu i foddhad yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd adeiladu'r gyffordd a'r llwybr mynediad yn adlewyrchu'r cynigion mynediad cyfagos a gynhwysir yn y Wybodaeth Amgylcheddol atodol a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cynnig cyfagos ar gyfer fferm wynt Carnedd Wen ym mis Medi 2013.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir dull boddhaol o fynd i mewn ac allan o'r gefnffordd er budd diogelwch y priffyrdd.*

31. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes caiff cynlluniau manwl o'r gyffordd newydd ar gyfer yr A470 yn Nhalerddig eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gyflwynir yn adlewyrchu cyfeirnod cynllun 60283248-D-040 Diwygiad G a bydd yn cynnwys:
    a) manylion am unrhyw lain welededd a fydd yn cael ei chadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
    b) manylion draeniad;
    c) cynigion ar gyfer marciau ffordd ac arwyddion; a
    d) rhaglen ar gyfer gweithredu'r gwaith.

    Caiff y gwaith ei weithredu'n unol â'r manylion cymeradwy.

32. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu, gan gynnwys clirio'r safle a chwympo coed, nes caiff cynlluniau manwl o'r gwaith i'w gyflawni ar hyd y briffordd sirol o gyffordd yr A470 yn Nhalerddig i fynedfa 4 y safle eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y manylion a gyflwynir yn cynnwys:
    a) manylion am ledu lleol a mannau pasio llwythi anwahanadwy;
    b) manylion am newidiadau i aliniadau fertigol;

c) manylion am leiniau gwelededd a fydd yn cael eu cadw'n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy'n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
d) manylion draeniad; a
e) marciau ffordd a chynigion ar gyfer arwyddion.

Caiff y gwaith ei weithredu'n unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir ffordd foddhaol i mewn ac allan o'r datblygiad er budd diogelwch y priffyrdd, amwynder a gwarchod natur.*

33. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes y caiff asesiad o gapasiti strwythurau'r briffordd, gan gynnwys mannau aros, mannau pasio, pontydd, cwlfertau, waliau cynnal, argloddiau a systemau draenio y gall llwythi anwahanadwy anghyffredin effeithio arnynt, a'r effaith arnynt, ei gynnal a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Os bydd yr asesiad cymeradwy yn nodi y gallai fod angen cyflawni gwaith cryfhau neu waith eraill, nid chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo nes i fanylion peirianegol llawn a lluniadau o unrhyw waith sydd ei angen ar y strwythurau hyn i ganiatáu i lwythi anwahanadwy anghyffredin deithio heibio iddynt gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo. Caiff y gwaith cymeradwy ei gwblhau cyn i unrhyw beth gael ei gludo i'r safle trwy lwyth anwahanadwy anghyffredin.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

34. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig â'r datblygiad eu cludo nes caiff Cynllun Arolwg Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad ar gyfer yr eiddo ar y B4381 Severn Street, y Trallwng (rhwng y gamlas a'r Groes) y gellir mynd i mewn ac allan ohonynt, gan gynnwys manylion am ei amseriad a'i weithredu, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynnwys manylion am y canlynol:

a) amlder ac amseriad arolygon Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad mewn perthynas â llwythi anwahanadwy anghyffredin;
b) amlygu materion perthnasol i'w cynnwys mewn Arolwg Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad;
c) manylion am ofynion cyflwyno Adroddiad Arolwg i'r awdurdod cynllunio lleol;
e) penodi gweithiwr proffesiynol annibynnol cymwys yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, sydd â phrofiad perthnasol yn y sector tirfesur adeiladau i gynnal yr Arolygon Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad;
f) gweithdrefnau ar gyfer dylunio a gweithredu unrhyw waith cryfhau y mae'r Arolwg Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad yn amlygu ei fod yn angenrheidiol;
g) gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo a gweithredu unrhyw waith adferol i eiddo unigol a amlygir, yn ôl yr angen.

Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn osgoi difrodi unrhyw eiddo.*

35. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes i Gynllun Rheoli Trafnidiaeth (TMP) ar gyfer cludo nwyddau trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin gael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo.  Wedi hynny, caiff llwythi anwahanadwy anghyffredin eu cyflawni'r unol â'r TMP cymeradwy.  Bydd y TMP yn cynnwys:
    a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
    b) manylion am unrhyw waith ledu neu welliannau i gyffyrdd a gwaith, a darparu mannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles sy'n ofynnol i gludo llwythi anwahanadwy anghyffredin ar hyd y llwybr arfaethedig;
    c) hawliau mynediad ar gyfer unrhyw fannau pasio, mannau aros a chyfleusterau lles nad ydynt wedi eu cynnig i ffurfio rhan o'r rhwydwaith priffyrdd;
    d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau priffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill tra caiff nwyddau eu cludo trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin;
    e) rheoli a chynnal a chadw mannau aros, mannau pasio a chyfleusterau lles tra caiff nwyddau eu cludo trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin;
    f) manylion am arwyddion rhybuddio dros dro;
    g) cyfyngiadau ar symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
    h) manylion am unrhyw newidiadau i unrhyw waith a gyflawnir i alluogi symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin a bwriedir eu rhoi ar waith ar ôl i'r cyfryw symudiadau gael eu cwblhau;
    i) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

36. Ni chaiff unrhyw beth ei gludo i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin nes y caiff Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.  Caiff pob cludiad trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin ei gyflawni'n unol â'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin gymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
    a) y bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin;
    b) y dull o reoli amseriad symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
    c) gwyriadau traffig a mannau dal traffig dros dro;
    d) manylion am fancwyr a hebryngwyr ar gyfer llwythi anghyffredin;
    e) cydlynu â phob cludiad arall trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin (gan gynnwys, heb unrhyw gyfyngiadau, i ffermydd gwynt eraill yng nghanolbarth Cymru);
    f) disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu amseroedd cludo, gan gynnwys sbardunau amseroedd cludo a masnachu;
    g) penodiad a rôl Cydlynydd Trafnidiaeth;
    h cysylltu â'r awdurdodau priffyrdd a chynllunio perthnasol a'r Heddlu;
    i) cysylltu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
    j) cysylltu â chludwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr;
    k) manylion am sut y gall defnyddio'r ffordd fynediad i'r safle ddarparu ar gyfer llwytho anwahanadwy anghyffredin ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair;
    l) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

37. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes caiff cynllun sy'n darparu ar gyfer adfer unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Datblygiad i seilwaith y priffyrdd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol.

    Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw a bod y datblygwr yn unioni unrhyw ddifrod a achosir y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r datblygiad.*

38. Ni chyflawnir unrhyw waith adeiladu ar y safle nes caiff Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP), yn ymwneud â thraffig adeiladu cyffredinol, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Wedi hynny, cydymffurfir â'r cynllun rheoli traffig cymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
    a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau adeiladu;
    b) dull o fonitro symudiadau cerbydau yn ôl ac ymlaen o'r safle, gan gynnwys defnyddio cerbydau adeiladu mewn lifrai sy'n dangos enw'r datblygwr, rhif y cerbyd, rhif ffôn ar gyfer cwynion a gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion;
    c) amseriad cludo deunyddiau adeiladu i'r safle;
    d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill;
    e) mesurau i'w rhoi ar waith, gan gynnwys trefniadau cytundebol â chontractwyr ac isgontractwyr i sicrhau y gall cwynion ac achosion o dorri gofynion y TMP gael eu hunioni;
    f) cynllun teithio sydd â'r nod fwyhau defnydd trafnidiaeth gynaliadwy gan y gweithlu adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad;
    g) symudiadau cerbydau yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
    h) cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
    i) manylion am sut y gall cysylltiadau mewnol o fewn y safle ddarparu ar gyfer traffig adeiladu i gynlluniau ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair; a
    i) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder*.

39. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig ag unrhyw atgyweiriadau, tynnu neu amnewid cydrannau eu symud yn ystod oes y datblygiad nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw atgyweiriadau ac/neu amnewid ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

40. Ni chaiff unrhyw draffig sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r datblygiad symud nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw ddatgomisiynu ei

gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

**Cwympo Coed, Clirio Llystyfiant a Rheoli Mawn**

41. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau ar y safle yng Ngham 1 na Cham 2, gan gynnwys clirio'r safle a llystyfiant a datgoedwigo, nes caiff Cynllun Cwympo Coed, Clirio Llystyfiant a Rheoli Mawn (FVCPMP) yn ymwneud â'r Cam perthnasol ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig, mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y cynllun yn unol â'r amcanion a'r amodau a amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Mawn yn Atodiad 8.9 (Cyfrol I IB) Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Awst 2013. Bydd yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i:

a) mesurau i leihau'r effeithiau ar fawn a chynefinoedd mawndir wrth adeiladu ffyrdd mynediad ar y safle, clirio'r safle a chwympo coed;
b) cynnal arolygon diweddaru cyn-dechrau ar gyfer dyfrgwn, llygod dŵr a moch daear ac, os ydynt yn bresennol, manylion am fesurau lliniaru addas i sicrhau y cânt eu gwarchod;
c) mesurau i reoli ardaloedd ar gyfer gylfinirod, i'r graddau y mae cwympo coed, llystyfiant a chlirio'r safle yn effeithio arnynt;
d) manylion am y dulliau a ddefnyddir yn yr asesiadau dyfnder mawn ar ôl cwympo coed;
e) yr amcanion a'r amodau a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Mawn yn Atodiad 8.9 (Cyfrol I IB) Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Awst 2013;
f) mesurau i fonitro gweithredu'r cynllun ac unrhyw fesurau adferol angenrheidiol i'w rhoi ar waith;
g) datganiad gwaith, gan gynnwys dylunio ac adeiladu, i gwmpasu'r holl waith sianelau a chloddiau, gan gynnwys croesfannau;
h) y cynigion ar gyfer storio deunyddiau (gan gynnwys deunyddiau gwastraff) a chael gwared ar ddeunyddiau dros ben;
i) amserlen fanwl ar gyfer cwympo coed a chlirio'r safle a rheoli cynefinoedd. Dylai'r amserlen gynnwys cynlluniau wrth gefn posibl ar gyfer adar a rhywogaethau a warchodir;
j) mesurau i'w cymryd wrth glirio'r safle, cwympo coed ac adeiladu ffyrdd i warchod bywyd gwyllt a chynefinoedd, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir yn gyfreithiol a SoDdGA Gweunydd Dolwen, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fanylion am unrhyw ddarpariaeth olau awyr agored;
k) datganiadau dull adeiladu ar gyfer ffyrdd mynediad, cyfadeiladau adeiladu a seilwaith arall;
l) cynllun ansawdd dŵr ac atal llygredd, yn cynnwys mesurau i osgoi llygredd o ddŵr ffo, byndio o gwmpas tanciau tanwydd, cynlluniau ymateb, mesurau monitro ansawdd dŵr, rheoli draeniad a rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Cynllun Cwympo Coed, Clirio Llystyfiant a Rheoli Mawn.

Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn lleihau'r effeithiau ar fywyd gwyllt, cynefinoedd a mawn wrth gwympo coed a chlirio llystyfiant ar y safle.*

42. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu (heblaw cwympo coed a chlirio llystyfiant) yn ystod Cam 1 na Cham 2 nes caiff cynllun rheoli mawn terfynol (PMP) sy'n berthnasol i'r Cam hwnnw ac sydd wedi ei lywio gan yr asesiadau dyfnder mawn ar ôl cwympo coed ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd unrhyw gynllun a gyflwynir yn unol â'r amod hwn yn cynnwys yr holl fanylion hynny a gynhwysir yn y Cynllun Cwympo Coed, Clirio Llystyfiant a Rheoli Mawn perthnasol, ynghyd ag unrhyw fesurau cyfredol/ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni'r mesurau hynny. Caiff y Cynllun(iau) Cwympo Coed, Clirio Llystyfiant a Rheoli Mawn a'r Cynllun(iau) Rheoli Mawn eu gweithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn lleihau'r effeithiau ar fawn.*

**Rheoli Adeiladu**

43. Ni fydd unrhyw waith datblygu heblaw clirio'r safle, prysg neu lystyfiant, neu waith cwympo coed yn dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) ei gyflwno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys manylion am:

a) unrhyw gaeadle adeiladu dros dro gan gynnwys strwythurau/adeiladau dros dro, cyfleusterau lles, ffensys, parcio a darpariaeth storio i'w defnyddio mewn perthynas â chlirio'r safle, cwympo coed ac adeiladu'r datblygiad;
b) datganiad gwaith (gan gynnwys dylunio ac adeiladu) i gwmpasu'r holl waith sianelau a chloddiau, gan gynnwys croesfannau sianelau;
c) y cynigion ar gyfer storio deunyddiau (gan gynnwys deunyddiau gwastraff) a chael gwared ar ddeunyddiau dros ben;
d) dyddodiad, gradd a gorffeniad (yn ymwneud â'r tirffurf a chynefinoedd lleol) unrhyw bridd a deunyddiau naturiol eraill nad ydynt yn cael eu tynnu o'r safle yn ystod y gwaith adeiladu;
e) manylion am driniaeth wyneb ac adeiladu'r holl wynebau caled a llwybrau;
f) datganiadau dull adeiladu ar gyfer tyrbinau, ffyrdd mynediad, cyfadeiladau adeiladu a seilwaith parhaol a dros dro arall;
g) cynllun ansawdd dŵr a chynllun atal llygredd, yn cynnwys mesurau i osgoi llygredd o ganlyniad i ddŵr ffo, cynlluniau ymateb i lygredd, a monitro ansawdd dŵr;
h) manylion am brosesau cynhyrchu ar gyfer concrit, gan gynnwys gweithdrefnau ymolchi;
i) gweithdrefnau brys;
j) mesurau i reoli llwch a llaid yn codi o'r safle, gan gynnwys lleithio, darparu cyfleusterau golchi olwynion a gosod cynfasau mewn cerbydau nwyddau trwm;
k) goleuadau dros dro ar y safle;
l) dulliau i reoli sŵn adeiladu;
m) agor, cloddio ac adfer pyllau benthyg ar y safle;
n) manylion am gyflawni'r gwaith adeiladu fesul cam;
o) cynllun adfer ôl-adeiladu, gan gynnwys tynnu strwythurau dros dro, cyfadeiladau adeiladu, a deunyddiau adeiladu;
p) trefniadau i atal rhywogaethau goresgynnol anfrodorol rhag lledaenu;

q) manylion am sut caiff llwybrau mynediad a thraciau eu hadeiladu a'u rheoli i ddarparu ar gyfer llwythi anwahanadwy anghyffredin i gynlluniau Carnedd Wen a Llanbrynmair; a
q) rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.

Caiff y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol*

44. Cyn i unrhyw dyrbin gwynt gael ei dynnu neu ei amnewid, caiff Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu diwygiedig sy'n ymwneud â'r tynnu neu'r amnewid hwnnw yn unig, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu diwygiedig ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol.*

**Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy**

45. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy (RWMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y RWMP ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:
a) manylion am ailgyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro yn ystod adeiladu'r datblygiad awdurdodedig;
b) manylion am ddarparu arwyddion a gwybodaeth arall sy'n rhybuddio'r cyhoedd am waith adeiladu;
c) manylion am unrhyw ffensys neu rwystrau a ddarperir yn ystod y cyfnod adeiladu;
d) manylion am sut caiff hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau a ffyrdd eu harolygu cyn y cyfnod adeiladu a'u monitro yn ystod y cyfnod adeiladu; a
e) manylion am warchod adar bridio lle caiff unrhyw hawl dramwy gyhoeddus ei hailgyfeirio.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus.*

**Ecoleg**

45. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau ar y safle nes caiff Cynllun Rheoli Cynefinoedd (HMP) manwl, sy'n amlinellu amcanion rheoli cadwraeth natur manwl gan gynnwys rheoli cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, ynghyd ag amserlen ar gyfer ei weithredu, ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr HMP yn cynnwys (ond ni fydd wedi ei gyfyngu i) manylion am y mesurau rheoli cynefinoedd a gynhwysir yn Atodiad 5.2 (Cyfrol II) Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Awst 2013 a'r manylion canlynol:
a) cynnwys blocio ffosydd yn Ardal Rheoli Cynefin ('HMA') 3, fel yr amlygir yn ffigur 5.3 Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2013;

b) blocio ffosydd ar draws yr Ardaloedd Rheoli Cynefin (y tu allan i dymor bridio'r ceiliog du mewn ardaloedd lle mae arolygon cyn-dechrau yn amlygu ceiliogod duon sy'n bridio ac adar ysglyfaethus atodlen 1);
c) cadw gorchudd coed agored, lle bo hynny'n bosibl;
d) amserlen ar gyfer gweithredu a chwblhau pob mesur lliniaru arfaethedig, (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i ymroddiad i gwblhau'r holl waith blocio draeniau ar ddatblygiad Cam 1 a Cham 2 cyn pen 5 mlynedd o ddechrau pob cam perthnasol o'r datblygiad);
e) cynllun a rhaglen i sicrhau difodiad conifferau a rhododendronau a ail-hadwyd;
f) targed lleiaf ar gyfer ardal adfer gorgorsydd;
g) cadw ardaloedd o laswelltir garw i ddarparu cynefin porthiannau addas i dylluanod gwynion;
h) rheoli a chyfraddau cyflenwi cynefinoedd gorgorsydd adferedig;
i) mesurau ar gyfer adar bridio gweundirol, gan gynnwys gylfinirod, bodion glas a cheiliogod du, a fydd yn cynnwys manylion am y drefn torri a chrafu yn yr ardal rheoli gylfinirod;
j) y mesurau i'w sicrhau i weithredu darpariaethau'r Cynllun Rheoli Cynefinoedd;
k) yr amserlen ar gyfer monitro, sy'n ddigon i bennu effaith gweithredu'r datblygiad ar gynefinoedd a rhywogaethau ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau adferol y gellir eu rhoi ar waith.

Caiff y datblygiad ei gyflawni a'i weithredu'n unol â'r Cynllun Rheoli Cynefinoedd Cymeradwy.

*Rheswm: Er budd gwarchod natur.*

46. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau, gan gynnwys clirio llystyfiant a chwympo coed, hyd nes caiff manylion am Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW) â chymwysterau addas i'w gyflogi/chyflogi ar y datblygiad eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr ECoW yn aelod o Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylchedd. Penodir yr ECoW cymeradwy o leiaf mis cyn dechrau unrhyw waith cwympo coed/clirio'r safle a llystyfiant neu ddatblygu. Bydd cwmpas gwaith yr ECoW yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i:
a) monitro cydymffurfiad â'r gwaith lliniaru cymeradwy ac adrodd ar ei lwyddiant neu ei fethiant, a chynghori ar fesurau lliniaru adferol yn achos unrhyw fethiant;
b) cynghori'r datblygwr ar weithredu'r cynigion lliniaru cymeradwy a gwarchod buddiannau cadwraeth natur pwysig ar y safle;
c) cyfarwyddo ac ymgynghori ar ficroleoliad a lleoliad tyrbinau, ffyrdd a seilwaith arall;
d) monitro ac adrodd ar gydymffurfiad â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a'r Cynllun Monitro Ecolegol;
e) mynychu cyfarfodydd cyswllt â Chyngor Sir Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill, yn ôl yr angen, ac adrodd ar gydymffurfio ag amodau, cynlluniau a mesurau lliniaru.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y mesurau gwarchod a lliniaru eu gweithredu'n gywir ac mewn cytundeb â'r cyrff statudol perthnasol.*

47. Caiff Cynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP) ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo o leiaf 15 mis cyn dechrau adeiladu. Caiff y BBPP ei weithredu fel y'i cytunir a bydd yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i fanylion am:
   a) arolygon ceiliogod duon a gynhelir un tymor bridio cyn adeiladu, a gynhelir yn ystod y cyfnod paru o ganol mis Mawrth hyd ddiwedd mis Mai, a phob blwyddyn wedi hynny hyd at ddiwedd y cyfnod adeiladu;
   b) arolygon adar bridio a gynhelir 1 tymor bridio cyn adeiladu a phob blwyddyn wedi hynny hyd at ddiwedd cyfnod adeiladu'r datblygiad;
   c) arolygon gylfinirod a gynhelir un tymor bridio cyn adeiladu a phob blwyddyn wedi hynny hyd at ddiwedd y cyfnod adeiladu;
   d) arolygon cyn-adeiladu ar gyfer adar Atodlen 1 os cyflawnir gwaith yn ystod tymor bridio'r adar, o 1 Mawrth hyd 31 Awst;
   e) mesurau i atal aflonyddu ar adar ysglyfaethus Atodlen 1, gylfinirod, ceiliogod duon, cochiaid, tylluanod gwynion a bodion glas yn ystod camau cwympo coed, clirio'r safle a llystyfiant, adeiladu a gweithredu'r datblygiad, gan gynnwys cyfyngu ar waith yn ystod y tymor bridio yn y parthau cyfyngu ar weithgarwch adeiladu;
   f) gwahardd adeiladu llwybrau rhwng 15 Chwefror hyd at ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn lle mae gylfinirod yn bresennol, fel yr amlygir gan yr arolygon cyn-dechrau;
   g) uchafswm o 80 o symudiadau cerbydau nwyddau trwm i'r safle bob dydd o 15 Chwefror hyd at ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn (h.y. 160 o deithiau y dydd);
   h) mesurau i fonitro nifer y bodion glas, barcutiaid coch a chwtiaid aur sy'n gwrthdaro â thyrbinau gwynt, ac os bydd monitro'n amlygu risg sylweddol o wrthdaro i'r rhywogaethau hyn, y mesurau adferol a roddir ar waith i gyfyngu ar y risg o wrthdaro yn y dyfodol;
   i) mesurau i gyfyngu ar nifer y tylluanod gwynion sy'n gwrthdaro â seilwaith a ffensys cysylltiedig; ac
   j) amserlen ar gyfer monitro, sy'n ddigon i bennu effaith gweithredu'r datblygiad ar adar ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau adferol a roddir ar waith.

   Caiff methodolegau a chwmpas arolygon eu cytuno'n ysgrifenedig â'r ACLl. Cynhelir pob arolwg gan syrfëwr profiadol â chymwysterau addas a gymeradwyir yn ysgrifenedig gan yr ACLl. Caiff y BBPP ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod adar bridio wrth adeiladu a datgomisiynu'r fferm wynt.*

48. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu, heblaw cwympo coed, clirio llystyfiant a chlirio'r safle, nes caiff Cynllun Rhywogaethau a Warchodir (PSP) ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i:
   a) arolygon diweddaru cyn-dechrau a gynhelir ar gyfer ystlumod, dyfrgwn, pathewod, llygod dŵr, moch daear, ac os ydynt yn bresennol, mesurau lliniaru addas i sicrhau y cânt eu gwarchod yn ystod camau cyn-adeiladu, adeiladu a gweithredu'r datblygiad;
   b) asesiad o'r effeithiau ar glwydydd ystlumod o ganlyniad i waith clirio coed, ynghyd â mesurau lliniaru cysylltiedig;

c) gweithdrefn fonitro i gofnodi'r tywydd a gweithgarwch ystlumod ger tyrbinau gwynt gan ddefnyddio canfodyddion ystlumod awtomataidd;
d) gweithdrefn fonitro i gofnodi marwolaethau ystlumod ger tyrbinau gwynt;
e) adroddiadau blynyddol ar ganlyniadau monitro, ynghyd ag argymhellion ar gyfer unrhyw gamau adferol a all leihau'r marwoldeb ystlumod;

f) gweithdrefn ar gyfer cytuno ar fesurau adferol sydd â'r nod o osgoi neu leihau marwoldeb ystlumod a'u rhoi ar waith. Gall y cyfryw fesurau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, gwtogi tyrbinau a/neu newidiadau rheoli tir;
g) amserlen gytûn ar gyfer monitro sy'n ddigon i bennu effaith gweithredu'r fferm wynt ar ystlumod ac effeithiolrwydd unrhyw fesurau adferol a roddir ar waith.

Caiff y cynllun ei weithredu fel y cytunir.

*Rheswm: Er budd statws cadwraeth ffafriol i rywogaethau a warchodir.*

49. Cyn pen 6 mis o roi caniatâd, caiff pob cronfa ddata a chofnod a goladwyd yn y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol eu hanfon yn ddigidol at Wasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddata a gwybodaeth amgylcheddol a gesglir eu cofnodi'n gywir.*

50. Caiff pob cronfa ddata a chofnod bioamrywiaeth a gesglir o ganlyniad i arolygon/monitro yn ystod oes y datblygiad, a fydd yn cynnwys arolygon cyn-dechrau, eu cyflwyno'n ddigidol i'r awdurdod cynllunio lleol a'u hanfon at Wasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog cyn pen 6 mis o gasglu'r data.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff yr holl ddata a gwybodaeth amgylcheddol a gesglir eu cofnodi'n gywir.*

**Cysgodion Symudol**

51. Cyn codi'r tyrbin cyntaf, caiff cynllun ysgrifenedig ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig, yn amlinellu protocol ar gyfer asesu cysgodion symudol rhag ofn y bydd unrhyw gŵyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan berchennog neu ddeiliad annedd breswyl. Bydd y cynllun ysgrifenedig yn cynnwys mesurau adferol i liniaru unrhyw gysgodion symudol y gellir eu priodoli i'r datblygiad. Caiff y tyrbinau eu gweithredu'n unol â'r protocol cymeradwy, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig blaenorol i unrhyw amrywiadau.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Ymyriant Teledu**

52. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei godi nes caiff cynllun ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo sy'n darparu ar gyfer archwilio ac adfer unrhyw ymyriant â derbyniad teledu mewn unrhyw annedd a oedd yn bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn. Bydd y cynllun yn darparu i beiriannydd teledu annibynnol cymwysedig ymchwilio i unrhyw gŵyn o ymyriant â derbyniad teledu mewn annedd sydd wedi ei meddiannu'n gyfreithlon, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am y cyfryw gŵyn cyn pen 24 mis o ddyddiad y comisiynu terfynol.  Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Archaeoleg**

53. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun ymchwilio archaeolegol ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun ymchwilio archaeolegol ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw olion archaeolegol sy'n weddill eu harchwilio a'u cadw.*

54. Caiff pob cofnod a goladir, o ganlyniad i'r Cynllun Ymchwilio Archaelegol, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i anfon at y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar hyn o bryd) cyn pen 6 mis o gasglu'r cofnod.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ganfyddiadau archaeolegol eu cofnodi'n briodol.*

**Hedfan**

55. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes y darperir y wybodaeth ganlynol i Ganolfan Daearyddol Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn:
   a) y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn gorffen;
   b) uchder mwyaf yr offer adeiladu;
   c) lledred a hydred pob tyrbin.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

56. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes caiff manylion am osod goleuadau rhybuddio awyrennau isgoch eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo.  Caiff y goleuadau eu gosod yn unol â'r manylion cymeradwy a'u cynnal a chadw nes i'r tyrbinau gwynt gael eu datgomisiynu a'u tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

**Cysylltu â'r Gymuned**

57. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun cysylltu â'r gymuned ar gyfer y cyfnod adeiladu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i

gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cysylltu â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:

a) manylion am gysylltiad y datblygwr â'r gymuned leol i sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod sut mae'r adeiladu yn dod yn ei flaen;
b) dull i fynd i'r afael â chwynion gan y gymuned leol yn ystod adeiladu'r datblygiad; a
c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr, a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

58. Ni fydd y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn yn dechrau nes caiff manylion am Gynllun Hyfforddiant a Chyflogaeth ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Nod y cynllun fydd hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol yn ystod pob cam o'r datblygiad, a manteisio i'r eithaf ar gontractwyr a chadwyni cyflenwi lleol, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol yn fasnachol.

*Rheswm: Er budd yr economi leol.*

**Sŵn**

59. Ni chaiff unrhyw dyrbin a gymeradwyir trwy hyn ei weithredu cyn cyflwyno cynllun ar gyfer asesu a rheoleiddio Modylu Osgledau Gormodol (EAM) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo ar ei gyfer. Os yw'n bodoli ar adeg ei gyflwyno, bydd y cynllun yn gyffredinol unol ag:

a) arweiniad perthnasol a gefnogir mewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol; neu yn niffyg arweiniad ardystiedig;
b) arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Acwsteg.

Caiff y cynllun cymeradwy ei weithredu ar hyd oes y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn.

*Rheswm: Er budd amwynder cyhoeddus er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â Modylu Osgledau Gormodol yn briodol.*

60. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt (gan gynnwys cymhwyso unrhyw gosb donaidd) pan y'i pennir yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig (i'r amod hwn), yn fwy na'r gwerthoedd ar gyfer y buanedd gwynt cyfanrifol perthnasol a bennir, neu'n sy'n deillio o'r, tabl sydd wedi ei atodi i'r amod hwn mewn unrhyw annedd sy'n bodoli'n gyfreithlon neu sydd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn, a:

a) Bydd y cwmni yn cofnodi cynhyrchiad ynni, buanedd y gwynt a chyfeiriad y gwynt yn barhaus, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d). Caiff y data hwn ei gadw am gyfnod nad yw'n llai na 24 mis. Bydd y Cwmni yn darparu'r wybodaeth hon yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cais ganddo, cyn pen 14 diwrnod o dderbyn y cyfryw gais yn ysgrifenedig.
b) Ni chaiff unrhyw drydan ei allforio nes i'r Cwmni gyflwyno rhestr o ymgynghorwyr annibynnol arfaethedig a all ymgymryd â mesuriadau cydymffurfio yn unol â'r amod hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w

chymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff diwygiadau i'r rhestr o ymgynghorwyr cymeradwy dim ond eu gwneud â chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.

c) Cyn pen 21 diwrnod o dderbyn cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cwyn iddo gan breswylydd annedd sy'n honni aflonyddwch sŵn yn yr annedd, bydd y Cwmni, ar ei draul, yn cyflogi ymgynghorydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt yn eiddo'r achwynydd, yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig. Bydd y cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn amlinellu o leiaf y dyddiad, yr amser a'r lleoliad y mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy, ynghyd ag unrhyw amodau atmosfferig a nodwyd, gan gynnwys cyfeiriad y gwynt, ac yn cynnwys datganiad ynghylch p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd.

d) Ymgymerir â'r asesiad o lefel allyriadau sŵn yn unol â phrotocol asesu a fydd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo'n flaenorol. Bydd y protocol yn cynnwys y lleoliad mesur arfaethedig a nodwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd lle yr ymgymerir â mesuriadau at ddibenion gwirio cydymffurfiad, p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, a hefyd ystod yr amodau meteorolegol a gweithredol (a fydd yn cynnwys ystod buanedd y gwynt, cyfeiriadau'r gwynt, cynhyrchiad ynni ac adegau'r dydd) i benderfynu ar asesiad lefel yr allyriadau sŵn. Ystod yr amodau arfaethedig fydd y rhai a oedd yn bodoli yn ystod yr adegau y mae'r achwynnydd yn honni y bu aflonyddwch oherwydd sŵn, gan ystyried cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan baragraff (c), ac eraill fel y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn ystyried eu bod yn debygol o arwain at dorri'r cyfyngiadau sŵn.

e) Lle nad yw annedd y mae cwyn yn ymwneud â hi wedi ei rhestru yn y tablau sy'n atodedig i'r amodau hyn, bydd y Cwmni yn cyflwyno cyfyngiadau sŵn arfaethedig wedi eu dethol o'r rhai a restrir yn y Tablau i'w mabwysiadu yn annedd yr achwynnydd at ddibenion gwirio cydymffurfiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Y cyfyngiadau sŵn arfaethedig fydd y cyfyngiadau a ddewisir o Dabl 1, gan ystyried Tabl 2, ac a bennwyd ar gyfer lleoliad rhestredig y mae'r ymgynghorydd annibynnol o'r farn y byddai'n debygol o brofi'r amgylchedd sŵn cefndir tebycach i'r amgylchedd sŵn cefndir y ceir profiad ohono yn annedd yr achwynnydd. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt, o'u pennu'n unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig, yn fwy na'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd yr achwynnydd.

f) Bydd y Cwmni yn darparu asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn, a gynhaliwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 2 fis o ddyddiad cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud mesuriadau cydymffurfiad a wneir o dan baragraff (c), oni bai y caiff y terfyn amser ei ymestyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr asesiad yn cynnwys yr holl ddata a gesglir at ddibenion cyflawni'r mesuriadau cydymffurfiad, a chaiff y cyfryw ddata ei ddarparu yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) y Nodiadau Cyfarwyddyd. Caiff yr

offeryniaeth a ddefnyddir i gyflawni'r mesuriadau ei graddnodi'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (a) a chyflwynir tystysgrifau graddnodi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ag asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn.

g) Lle mae angen asesiad pellach o lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 4(c), bydd y Cwmni yn cyflwyno copi o'r asesiad pellach cyn pen 21 niwrnod o gyflwyno asesiad yr ymgynghorydd annibynnol yn unol â pharagraff (d) uchod, oni bai y caiff y terfyn amser ei estyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder preswyl.*

## Nodiadau Cyfarwyddyd

Tabl 1: Cyfyngiadau sŵn a fynegir mewn dB LA90, 10 munud fel swyddogaeth buanedd safonol y gwynt (m/s) ar 10 metr o uchder a gymhwysir i sŵn o Fferm Wynt Llanbrynmair ar bob adeg o’r dydd a’r nos.

| Lleoliadau | Buanedd safonol y gwynt ar uchder o 10 metr (fel y diffinnir yn unol â’r Nodiadau Cyfarwyddyd sydd wedi eu hatodi i’r amod sŵn) | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 |
| Ysgubor Cannon | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 39.0 | 39.5 | 40.3 | 41.3 | 42.4 | 42.4 | 42.4 | 42.4 |
| Pen yr Eisteddfod | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 | 32.3 |
| Dolwen Isaf | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.7 | 36.2 | 37.0 | 38.0 | 39.1 | 39.1 | 39.1 | 39.1 |
| The Barn -Blaen y Cwm | 34.6 | 34.6 | 34.6 | 34.6 | 34.6 | 34.6 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.5 | 37.8 | 38.5 |
| Rhydymeirch | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.2 | 37.3 | 39.0 | 40.3 | 41.0 |
| Abercannon | 38.4 | 38.4 | 38.4 | 38.4 | 38.5 | 39.1 | 39.8 | 40.8 | 42.0 | 42.0 | 42.0 | 42.0 |
| Tŷ Capel Beulah | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.9 | 38.5 | 39.2 | 40.2 | 41.4 | 41.4 | 41.4 | 41.4 |
| Neinthirion | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.9 | 38.5 | 39.2 | 40.2 | 41.4 | 41.4 | 41.4 | 41.4 |
| Delfryn | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 40.0 | 42.3 | 42.3 | 42.3 | 42.3 |
| Berth-lwyd | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 |
| Castell y Gwynt | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 40.0 | 42.2 | 42.2 | 42.2 | 42.2 |
| Pant y Powsi | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.6 | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 38.9 |
| Nant yr Esgairwen | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.6 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 |
| Capel yr Aber | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.5 | 36.5 | 36.5 | 36.5 |
| Hafodowen | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 40.1 | 42.7 | 45.9 | 49.2 | 49.2 | 49.2 | 49.2 |
| Cwm-carnedd-isaf | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 38.0 | 38.0 | 38.0 | 38.0 |
| Cwm-carnedd-uchaf | 36.2 | 36.2 | 36.2 | 36.2 | 36.2 | 36.2 | 36.2 | 36.2 | 38.3 | 38.3 | 38.3 | 38.3 |
| Dolau | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 36.3 | 37.0 | 38.0 | 39.2 | 39.2 | 39.2 | 39.2 |
| Dolau-ceimion | 36.3 | 36.3 | 36.3 | 36.3 | 36.4 | 36.9 | 37.7 | 38.7 | 39.9 | 39.9 | 39.9 | 39.9 |
| Bryn Du | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Glegyrnant | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.9 | 37.6 | 38.9 | 39.6 |
| Blaen y Cwm | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 36.2 | 37.5 | 38.2 |
| Cwm Pen Llydan | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 36.0 | 38.1 | 40.2 | 41.9 | 43.2 | 43.9 |
| Cwm-y-ffynnon | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.3 |
| Pwll-melyn | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.4 | 35.4 | 35.4 | 35.4 |
| Ffrlddfawr | 38.7 | 38.7 | 38.7 | 38.7 | 38.7 | 38.7 | 38.7 | 40.7 | 42.9 | 42.9 | 42.9 | 42.9 |
| Cwmderwen | 38.1 | 38.1 | 38.1 | 38.1 | 38.1 | 38.1 | 38.1 | 40.0 | 42.3 | 42.3 | 42.3 | 42.3 |
| Cannon | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.0 | 39.1 | 39.6 | 40.4 | 41.4 | 42.6 | 42.6 | 42.6 | 42.6 |
| Dolwen Uchaf | 35.8 | 35.8 | 35.8 | 35.8 | 35.8 | 36.4 | 37.2 | 38.1 | 39.3 | 39.3 | 39.3 | 39.3 |
| Ffridd Newydd | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Caecrwn | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 |
| Llwyn | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 | 31.1 |
| Maes Llymystyn | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 |
| Moel Ddolwen | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Tyn-y-fedw | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 |
| Gesail-ddu | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 | 29.7 |
| Caer-lloi | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 | 29.2 |
| Dol-y-maen | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 | 30.1 |
| Nanl-y-dugoed | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 |
| Talglannau | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 | 30.5 |
| Barwn | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 | 31.4 |
| Tŷ-coch | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 | 31.3 |
| Groes-heol | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 | 32.0 |
| Glan-yr-afon | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 |
| Blaentafalog Farm | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 |
| Nant-Hir | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nant Carfan | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Dôl Fawr | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Gerddi-glelsion | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| The Lodge | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |
| Cefn | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 38.2 | 38.2 | 38.2 | 38.2 |
| Caeau-gleision | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 |

Tabl 2: Lleoliadau cyfesurynnol yr anheddau a restrir yn Nhabl 1.

| **Eidda** | **Dwyreiniad** | **Gogleddiad** |
|---|---|---|
| Ysgubor Cannon | 295941 | 307427 |
| Pen yr Eisteddfod | 297925 | 310831 |
| Doiwen Isaf | 297529 | 307560 |
| The Barn -Blaen y Cwm | 291684 | 307903 |
| Rhydymeirch | 292058 | 306823 |
| Abercannon | 296279 | 306935 |
| Tŷ Capel Beulah | 296391 | 306648 |
| Neinthirion | 296386 | 306621 |
| Delfryn | 295709 | 305450 |
| Berth-Iwyd | 291029 | 303782 |
| Castell y Gwynt | 294857 | 302951 |
| Panty Powsi | 294820 | 302356 |
| Nant yr Esgairwen | 294406 | 302236 |
| Capel yr Aber | 293953 | 301802 |
| Hafodowen | 292785 | 302747 |
| Cwm-carnedd-isaf | 291916 | 302705 |
| Cwm-carnedd-uchaf | 291578 | 302872 |
| Dolau | 297042 | 308720 |
| Dolau-celmion | 296367 | 305821 |
| Bryn Du | 298673 | 309646 |
| Glegyrnant | 292154 | 307624 |
| BlaenyCwm | 291582 | 308033 |
| Cwm Pen Llydan | 292893 | 306371 |
| Cwm-y-ffynnon | 291242 | 305314 |
| Pwll-melyn | 291008 | 304715 |
| Ffrlddfawr | 294629 | 303945 |
| Cwmderwen | 295533 | 305435 |
| Cannon | 295885 | 307416 |
| Dolwen Uchaf | 297496 | 307622 |
| Ffridd Newydd | 298558 | 308877 |
| Caecrwn | 298045 | 310848 |
| Llwyn | 297508 | 311561 |
| Maes Llymystyn | 297081 | 311578 |
| Moel Ddolwen | 299312 | 307798 |
| Tyn-y-fedw | 298458 | 311040 |
| Gesail-ddu | 295260 | 312217 |
| Caer-11ol | 295255 | 312635 |
| Dol-y-maen | 294289 | 313607 |
| Nanl-y-dugoed | 291872 | 313235 |
| Talglannau | 291309 | 312606 |
| Barwn | 290828 | 312354 |
| Tŷ-coch | 290257 | 312064 |
| Groes-heol | 289577 | 311083 |
| Glan-yr-afon | 289377 | 310403 |
| Blaenlafalog Fann | 289347 | 309423 |
| Nant-Hir | 289127 | 308752 |
| Nant Carlan | 289367 | 307302 |
| Dôl Fawr | 288957 | 306421 |
| Gerddi-glelsion | 289397 | 305491 |
| The Lodge | 290237 | *305472* |
| Cefn | 292539 | 302062 |

| | | |
|---|---|---|
| Caeau-gleislon | 290993 | 305193 |

**Nodyn i Dabl 2**: Darperir cyfeirnodau'r cyfesurynnau daearyddol at ddibenion canfod lleoliad cyffredinol anheddau y mae cyfyngiadau sŵn penodol yn berthnasol iddynt.

**Nodyn cyffredinol:** At ddibenion yr amod hwn, annedd yw adeilad o fewn dosbarth defnydd C3 a C4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y'i diwygiwyd) sy'n bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn.

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Amodau Sŵn

Dylid darllen y nodiadau hyn â'r amod sŵn ac maent yn ffurfio rhan ohono. Maent yn esbonio'r amod ymhellach ac yn manylu ar y dulliau a ddefnyddir i asesu cwynion ynghylch allyriadau sŵn o'r fferm wynt. Y lefel ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yw swm rhifyddol lefel sŵn y fferm wynt fel y'i pennir o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn 2 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ac unrhyw gosb donaidd a gymhwysir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3. Mae cyfeiriad at ETSU-R-97 yn cyfeirio at gyhoeddiad o'r enw "The Assessment and Rating of Noise fron Wind Farms" (1997) a gyhoeddwyd gan yr Uned Cymorth Technoleg Ynni (ETSU) ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)).

### Nodyn Cyfarwyddyd 1

(a) Dylai gwerthoedd yr ystadegyn sŵn LA90 (10 munud) gael eu mesur yn eiddo'r achwynydd, gan ddefnyddio mesurydd lefel sŵn o ansawdd EN 60651/BSB EN 60804 Math 1, neu BSB EN 61672 Dosbarth 1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau) a osodir i fesur yr ymateb pwysol amser cyflym fel y manylir arno yn SS EN 60651/BSB EN 60804 neu BS EN 61672-1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid graddnodi hyn yn unol â'r weithdrefn y manylir arni yn BS 4142: 1997 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid cymryd mesuriadau mewn modd sy'n galluogi cymhwyso cosb donaidd yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3.

(b) Dylai'r microffon gael ei osod 1.2 -1.5 metr uwchben lefel y ddaear, a dylai maneg wynt dwy-haen neu offer addas cyfwerth a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gael ei (g)osod arno, a dylid ei roi y tu allan i annedd yr achwynydd. Dylid cymryd mesuriadau mewn amodau "maes rhydd". I gyflawni hyn, dylai'r microffon gael ei osod o leiaf 3.5 metr oddi wrth ffasâd yr adeilad neu unrhyw arwyneb adlewyrchol heblaw'r ddaear yn y lleoliad mesur cymeradwy. Os bydd yr achwynydd yn gwrthod rhoi caniatâd i fynd at ei (h)eiddo i wneud mesuriadau cydymffurfiad, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cyflwyno manylion am leoliad mesur cynrychioliadol arfaethedig arall i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo cyn dechrau gwneud mesuriadau, a chaiff y mesuriadau eu cymryd yn y lleoliad mesur cynrychioliadol cymeradwy arall.

(c) Dylai'r mesuriadau LA90 (10 munud) gael eu cysoni â mesuriadau'r data gwynt a gweithredol cymedrig 10 munud a gofnodir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), gan gynnwys y data cynhyrchu ynni o systemau rheoli tyrbinau'r fferm wynt.

(d) Er mwyn galluogi cydymffurfiad â'r amodau a arfernir, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cofnodi buanedd cymedrig rhifyddol y gwynt yn barhaus mewn metrau yr eiliad, a chyfeiriad y gwynt mewn graddau o'r gogledd ar uchder y both ar gyfer pob tyrbin, a'r ynni cymedrig rhifyddol a gynhyrchir gan bob tyrbin, pob un ohonynt mewn cyfnod olynol o 10 munud. Oni bai y cytunir ar weithdrefn arall â'r Awdurdod Cynllunio ymlaen llaw, caiff uchder y both, buanedd y gwynt, ar gyfartaledd ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol, eu defnyddio'n sail ar gyfer y dadansoddiad. Caiff yr holl ddata ar fuanedd cymedrig cyfartalog rhifyddol y gwynt mewn cyfnodau o 10 munud a fesurir ar uchder y both ei 'safoni' i uchder cyfeirnod o 10 metr, fel y disgrifir yn ETSU-R-97 ar dudalen 120 gan ddefnyddio hyd garwedd cyfeirnod o 0.05 metr. Y data safonol hwn ar fuanedd y gwynt ar uchder o 10 metr a gyfatebir â'r mesuriadau sŵn a bennir yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, a chaiff y cyfryw gyfatebiad ei gyflawni yn y modd a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2. Bydd pob cyfnod o 10 munud yn dechrau ar yr awr ac mewn cyfnodau o 10 munud wedi hynny.

(e) Caiff data a ddarperir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn unol â'r amod sŵn, ei ddarparu mewn gwerthoedd wedi eu gwahanu gan goma mewn fformat electronig.

(f) Caiff medrydd glaw sy'n cofnodi data ei osod yn ystod yr asesiad o lefelau'r allyriadau sŵn. Bydd y medrydd yn cofnodi dros gyfnodau olynol o 10 munud wedi eu cysoni â'r cyfnodau data a gofnodir yn unol â Nodyn 1 (d).

**Nodyn Cyfarwyddyd 2**

(a) Gwneir y mesuriadau sŵn er mwyn darparu dim llai nag 20 pwynt data dilys, fel y diffinnir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2 (b).

(b) Pwyntiau data dilys yw'r rhai a fesurir yn yr amodau y manylir arnynt yn y protocol ysgrifenedig cytûn o dan baragraff (d) o'r amod sŵn, ond heb gynnwys unrhyw gyfnodau o lawiad a fesurir yn agos at fesurydd y lefel sŵn. Caiff glawiad ei asesu trwy ddefnyddio medrydd glaw a fydd yn cofnodi'r glawiad ym mhob cyfnod o 10 munud yn gydamserol â'r cyfnodau mesur a amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1.

(c) Ar gyfer y pwyntiau data hynny yr ystyrir eu bod yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2(b), caiff gwerthoedd y mesuriadau sŵn 10 munud LA90 a gwerthoedd cyfatebol buanedd y gwynt mewn cyfnod o 10 munud, sy'n deillio o fuanedd cyfartalog safonol y gwynt ar uchder o 10 metr ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol gan ddefnyddio'r weithdrefn y manylir arni yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), eu plotio ar siart XY â lefel y sŵn ar yr echelin Y a buanedd cymedrig safonol y gwynt ar yr echelin X. Dylai cromlin "ffit orau" sgwariau lleiaf o radd y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn tybio ei bod yn briodol (ond na all fod yn uwch na phedwaredd radd) gael ei ffitio i'r pwyntiau data a diffinio lefel sŵn y fferm wynt ar bob buanedd cyfanrifol.

**Nodyn Cyfarwyddyd 3**

(a) Lle mae allyriadau sŵn yn y lleoliad neu'r lleoliadau lle mae mesurau cydymffurfiad yn cael eu cymryd yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, yn unol â'r protocol asesu cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn, caiff cosb donaidd ei chyfrifo a'i chymhwyso gan ddefnyddio'r weithdrefn raddio ganlynol.

(b) Ar gyfer pob cyfnod o 10 munud y penderfynwyd bod data 10 munud LA90 yn ddilys ar ei gyfer, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, cyflawnir asesiad tonaidd ar allyriadau sŵn yn ystod 2 funud o bob cyfnod o 10 munud. Dylai'r cyfnodau o 2 funud gael eu gwahanu gan gyfnodau o 10 munud, cyn belled â bod data anllygredig di-dor ar gael ("y weithdrefn safonol"). Lle nad oes data anllygredig ar gael, caiff y


cyfnod glân anllygredig cyntaf o 2 funud sydd ar gael o’r cyfnod cyffredinol o 10 munud dan sylw ei ddewis. Caiff unrhyw gyfryw wyriad oddi wrth y weithdrefn safonol, fel y disgrifir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97, ei gofnodi.

(c) Ar gyfer pob un o’r samplau 2 funud, caiff lefel y dôn uwchben neu islaw clywadwyedd ei chyfrifo trwy gymharu â’r maen prawf clywadwyedd a roddir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97.

(d) Caiff lefel y dôn uwchben clywadwyedd ei phlotio yn erbyn buanedd y gwynt ar gyfer pob un o’r samplau 2 funud. Ar gyfer samplau lle’r oedd y tonau islaw’r maen prawf clywadwyedd neu na nodwyd unrhyw dôn, defnyddir gwerth o glywadwyedd sero.

(e) Yna, caiff llinell atchwel llinol "ffit orau" sgwariau lleiaf ei chyflawni i bennu’r lefel tôn gyfartalog uwchben clywadwyedd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol yn deillio o werth y llinell "ffit orau" ar bob buanedd gwynt cyfanrifol. Os nad oes unrhyw duedd amlwg o ran buanedd y gwynt, yna defnyddir cyfanrif rhifyddol syml. Caiff y broses hon ei hailadrodd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol y mae asesiad o’r lefelau cyffredinol ar ei gyfer yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(f) Mae’r gosb donaidd yn deillio o’r maint uwchben clywadwyedd y dôn, yn ôl y ffigur isod.




**Nodyn Cyfarwyddyd 4**

(a) Os caiff cosb donaidd ei chymhwyso’n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3, lefel sŵn y tyrbinau ar bob buanedd gwynt yw swm rhifyddol y lefel sŵn fesuredig, fel y pennwyd o’r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, a’r gosb ar gyfer sŵn tonaidd a geir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3 ar bob buanedd gwynt cyfanrifol o fewn yn ystod a bennwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei brotocol ysgrifenedig o dan baragraff (d) o’r amod sŵn.

(b) Os na chaiff cosb donaidd ei chymhwyso, yna mae lefel sŵn y tyrbin ar bob buanedd gwynt yn gyfwerth â’r lefel sŵn fesuredig a bennwyd o’r gromlin ffit orau a ddisgrifiwyd yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(c) Os bydd y lefel uwchlaw’r cyfyngiad(au) a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i’r amodau sŵn neu’r cyfyngiadau sŵn ar gyfer annedd achwynydd a gymeradwywyd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, bydd yr ymgynghorydd annibynnol yn cynnal asesiad pellach o’r lefel i gywiro ar gyfer sŵn cefndir er mwyn i’r lefel ymwneud ag allyriadau sŵn y tyrbinau gwynt yn unig.

(d) Bydd y Cwmni’n sicrhau y caiff yr holl dyrbinau gwynt yn y datblygiad eu diffodd am y cyfnod sydd ei angen ar yr ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad pellach. Cynhelir yr asesiad pellach yn unol â’r camau canlynol:

(e) Ailadrodd y camau yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, gan ddiffodd y fferm wynt, a phennu lefel y sŵn cefndir (L3) ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yn yr ystod y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gais ysgrifenedig o dan baragraff (c) a’r protocol cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn.

(f) Yna, cyfrifir sŵn y fferm wynt (L1) ar y buanedd hwn fel a ganlyn, lle L2 yw'r lefel fesuredig pan fo'r tyrbinau ar waith, ond heb ychwanegu unrhyw gosb donaidd:

(g) Caiff y lefel ei hailgyfrifo trwy adio'r gosb donaidd (os caiff ei chymhwyso'n unol â Nodyn 3) at sŵn deilliedig y fferm wynt L1 ar y buanedd gwynt cyfanrifol hwnnw yn rhifyddol.

(h) Os bydd y lefel ar ôl ei haddasu ar gyfer cyfraniad sŵn cefndir a'i haddasu ar gyfer cosb donaidd (os yw'n ofynnol yn unol â Nodyn 3 uchod) ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn gyfwerth â'r gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau neu'n is, neu'n gyfwerth â'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn neu'n is, yna nid os angen unrhyw gamau pellach. Os bydd y lefel ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn rhagori ar y gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau neu'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, yna bydd y datblygiad yn methu cydymffurfio â'r amodau.

DIWEDD YR AMODAU

**<u>Atodiad E</u>**
**Carnedd Wen – Rhestr Amodau**

**Caniatâd o dan adran 36 Deddf Trydan 1989 – Amodau**

1. Yn unol ag adran 36 Deddf Trydan 1989, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd ("yr Ysgrifennydd Gwladol") trwy hyn yn rhoi caniatâd i'r rhan honno o'r datblygiad arfaethedig sy'n cynnwys RWE Innogy UK Limited ("y Cwmni") yn adeiladu ar yr ardal o dir sydd wedi ei darlunio â llinell goch ddi-dor ar ddyluniad Ffigur 1.2 a ddiwygiwyd ar 2 Mai 2014, gorsaf gynhyrchu â thyrbinau gwynt ar dir yng Ngharnedd Wen ar Ystad Llanbrynmair, i'r de o'r A458, Powys ("the Development"), ("y Datblygiad") a gweithredu'r orsaf gynhyrchu honno, yn destun yr amodau canlynol. Gwrthodir y caniatâd ar

gyfer y rhan honno o'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys tyrbinau rhif R23, R26, R28, R29 a R30.

2. Bydd gan y Datblygiad gapasiti cynhyrchu trydan mwyaf o 135 MW a bydd yn cynnwys:
   a) hyd at 45 o eneraduron tyrbinau gwynt;
   b) dau fast anemometreg;
   c) isbwerdy trydan a chysylltiadau ceblau trydanol tanddaearol;
   d) cwympo 1,409 hectar o goetir planhigfa ac adfer cynefinoedd naturiol;
   e) ffordd fynediad o gefnffordd yr A458;
   f) llwybrau mynediad yn cynnwys gridiau gwartheg a chroesfannau newydd ac uwchraddedig ar gyfer cyrsiau dŵr;
   g) pyllau benthyg a chaeadleoedd adeiladu;
   h) peiriannau, adeiladau a gwaith peirianneg sifil cysylltiedig sydd eu hangen i adeiladu a gweithredu'r Datblygiad.

3. Yn amodol ar unrhyw fân newidiadau y gellir eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (fel y diffinnir yn amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig ("yr Amodau Cynllunio") a amlinellir isod), caiff y Datblygiad ei adeiladu'n unol â chynlluniau'r cais ac yn gyffredinol unol ag amcanion, cwmpas a methodoleg y Datganiad Amgylcheddol a'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol ddilynol, i'r graddau nad yw'r rhain yn gwrthdaro ag unrhyw un o ddarpariaethau amodau'r caniatâd cynllunio tybiedig na thelerau unrhyw drefn, rhaglen, datganiad, cynllun, manylion neu adroddiad i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan yr Amodau Cynllunio.

4. Bydd y Datblygiad yn dechrau cyn pen pum mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn.

5. Ni chaniateir i'r Cwmni aseinio'r caniatâd hwn heb gael awdurdodiad ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen llaw. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd (ag amodau neu beidio) neu wrthod y cyfryw awdurdodiad fel y gwêl orau, yn ôl ei ddoethineb ei hun. Ni fydd modd aseinio, arallu na throsglwyddo'r caniatâd ac eithrio'n unol â'r weithdrefn rag-grybwylledig.

**Caniatâd Tybiedig o dan Adran 90 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Amodau**

7. Yn yr amodau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn golygu fel arall:

mae gan **"llwyth anwahanadwy anghyffredin"** yr un ystyr ag yng Ngorchymyn Cerbydau Ffordd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003(a);

mae **"dechrau'r datblygiad"**, mewn perthynas â'r datblygiad awdurdodedig, yn golygu'r dyddiad y bydd y datblygiad awdurdodedig yn dechrau trwy gyflawni gweithrediad perthnasol fel y diffinnir yn adran 56 Deddf 1990, a chaiff "dechrau" a "dechreuodd" eu dehongli'n unol â hynny;

ystyr **"cyfnod adeiladu"** yw'r cyfnod o ddechrau'r gwaith ar y Datblygiad hyd at y dyddiad 6 mis ar ôl i gaeadleoedd y Safle gael eu hadfer yn unol ag amodau'r caniatâd hwn;

mae **"dB"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel;

mae **"dB(A)"** yn cyfeirio at uned mesur sŵn Desibel, gan gynnwys yr hidlydd pwysoliad-A yn y mesuriadau y cyfeirir atynt yn ETSU-R-97;

mae **"datblygiad"** fel y diffinnir yn amod 2 y caniatâd hwn.

mae **"datgoedwigo"** yn golygu unrhyw gwympo neu docio coed a gyflawnir.

mae "**datblygu**" yn golygu'r gwaith y caniateir ei gyflawni, fel yr amlinellir yn Amod 2 uchod.

mae "**argyfwng**" yn golygu amgylchiadau lle mae achos rhesymol i amgyffred anaf ar fin digwydd i unigolion, difrod difrifol i eiddo neu berygl o lygredd difrifol i'r amgylchedd;

mae **"ETSU-R-97"** yn golygu Adroddiad ETSU rhif ETSU-R-97 *'The Assessment and Rating of Noise from Wind Farms'*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 1996;

mae **"rhywogaeth a warchodir gan Ewrop"** yn golygu rhywogaeth a restrir yn Atodlenni 2 neu 5 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010;

mae **"comisiynu terfynol y datblygiad"** yn golygu'r dyddiad y caiff y generadur tyrbin gwynt olaf sy'n ffurfio rhan o'r Datblygiad ei gomisiynu a'i fod yn cynhyrchu trydan ar gyfer y grid cenedlaethol;

mae **"allforyn cyntaf"** yn golygu'r dyddiad y caiff trydan ei allforio i'r grid ar sail fasnachol am y tro cyntaf;

mae **"LA90"** yn golygu'r lefel desibelau (dB) y rhagorwyd arni ar gyfer 90% o bob cyfnod sampl;

mae "**Awdurdod Cynllunio Lleol**" yn golygu Cyngor Sir Powys neu unrhyw awdurdod olynol;

mae **"gŵyl gyhoeddus"** yn golygu diwrnod a ddethlir yn ŵyl gyhoeddus;

ystyr **"safle"** yw'r tir oddi mewn i ffin y datblygiad a amlinellir yn goch ar y map sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwn;

ystyr **"buanedd y gwynt"** yw buanedd y gwynt a fesurir ar Safle'r fferm wynt ar uchder both y tyrbin, ac wedi ei gywiro i uchder safonol o 10m uwchben lefel y ddaear, mewn modd y cytunwyd arno â'r Awdurdod Cynllunio Lleol;

ystyr **"tyrbinau gwynt"** yw'r tyrbinau gwynt sy'n ffurfio rhan o'r datblygiad, a chaiff "tyrbin gwynt" ei ddehongli'n unol â hynny.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

**Y Datblygiad**

8. Yn destun yr amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd hwn, cyflawnir y datblygiad yn unol â'r cynlluniau cymeradwy a'r dogfennau canlynol:
   a) Ffigur 1.2 diwygiad 2 Mai 2014, ond heb gynnwys tyrbinau yn y lleoliadau wedi eu rhifo R23, R26, R28, R29, R30 ar Ffigur 2.1 Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol 2013;
   b) Lluniad Rhif 417097.020: Dyluniad Mynediad Gorau;

   ac yn gyffredinol unol â'r manylion, amcanion, cwmpas a'r methodolegau nodweddiadol a amlinellwyd yn y Wybodaeth Amgylcheddol Atodol a gyflwynwyd ym mis Medi 2011 a mis Gorffennaf 2013, i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r datblygiad a ganiateir.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.*

9. Mae'r caniatâd hwn am gyfnod o 25 mlynedd o ddyddiad y comisiynu terfynol, neu 29 mlynedd o'r dyddiad dechrau, pa un bynnag yw'r cynharaf. Wedi hynny, caiff y Datblygiad ei ddatgomisiynu a chaiff y Safle ei adfer.

*Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth a phennu cyfnod y caniatâd hwn.*

10. Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig o'r dyddiad dechrau i'r awdurdod cynllunio lleol cyn pen mis o ddigwydd.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

11. Rhoddir cadarnhad ysgrifenedig o ddyddiad y comisiynu terfynol i'r awdurdod cynllunio lleol heb fod yn hwyrach nag un mis calendr wedi'r digwyddiad hwnnw.

*Rheswm: Er mwyn pennu'r dyddiad y bydd amod 9 yn berthnasol ohono.*

**Datgomisiynu ac Adfer**

12. Heb fod yn llai na 24 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben, caiff manylion y cynllun a methodolegau arolygon diweddar o gynefinoedd, adar a rhywogaethau a warchodir i lywio cynllun datgomisiynu ac adfer y safle eu cyflwyno i'r ACLl a'u cytuno ganddo'n ysgrifenedig.

*Rheswm: I lywio'r cynllun datgomisiynu.*

13. Heb fod yn llai na 12 mis cyn i'r caniatâd hwn ddod i ben, caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu ac adfer y safle ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon diweddar o gynefinoedd a rhywogaethau, a bydd yn cynnwys, ond ni fydd wedi ei gyfyngu i:
   a) fanylion am seilwaith y fferm wynt sydd i'w dynnu;
   b) manylion am reoli ac amseriad y gwaith;
   c) gwaith adfer ac ôl-ofal.

   Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir a chaiff ei gwblhau cyn pen 24 mis o 12 mis o'r dyddiad y daw'r caniatâd i ben.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei dynnu mewn modd cydymdeimladol wedi i'r caniatâd hwn ddod i ben.*

14. Ar ôl cwblhau'r gwaith adfer, caiff unrhyw offer, peiriannau ac adeiladau gosodedig sy'n weddill a godwyd neu y daethpwyd â nhw i'r safle at ddiben gweithredu cynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle eu tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

15. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r Cwmni gyflwyno manylion am offeryn ariannol i'r awdurdod cynllunio lleol, a bod trefniadau a fydd yn sicrhau bod digon o gyllid i gwmpasu costau datgomisiynu ac adfer y safle ar gael i'r awdurdod cynllunio cyn dechrau datgomisiynu ac adfer y safle. Bydd yr offeryn ariannol yn cynnwys trefniadau i gyllid cynyddu â chwyddiant ac yn cynnwys darpariaeth adolygu 5, 10, 15 ac 20 mlynedd ar ôl yr Allforyn Cyntaf er mwyn sicrhau bod y cyllid yn ddigonol o hyd i dalu costau datgomisiynu ac adfer y safle. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu ar y safle nes i'r awdurdod cynllunio lleol gymeradwyo'r offeryn ariannol yn ysgrifenedig a'i roi ar waith. Wedi hynny, caiff ei gynnal trwy gydol cyfnod y caniatâd ac adfer, a chaiff y trefniadau ar gyfer adneuo cyllid, addasiadau chwyddiant ac adolygu'r offeryn ariannol eu rhoi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y safle ei adael mewn modd boddhaol wedi i Gynllun Datgomisiynu ac Adfer y Safle gael ei gwblhau.*

**Methiant Tyrbinau**

16. Os bydd unrhyw dyrbin gwynt yn methu darparu trydan i'r grid am gyfnod parhaus o 6 mis neu fwy (heblaw am resymau'n ymwneud â sŵn):
    a) caiff yr awdurdod cynllunio lleol ei hysbysu am y methiant ar unwaith;
    b) efallai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn mynnu bod angen cyflwyno cynllun ar gyfer atgyweirio neu dynnu'r tyrbin hwnnw;
    c) cyn pen 2 fis o dderbyn y cyfryw gais, cyflwynir cynllun ar gyfer atgyweirio neu dynnu'r tyrbin hwnnw i'r awdurdod cynllunio lleol. Caiff y cynllun ei lywio gan arolygon adar a rhywogaethau cyfredol;
    d) caiff y cynllun cymeradwy ei roi ar waith cyn pen 6 mis o gael cymeradwyaeth, oni bai y bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn cytuno â chyfnod hwy yn ysgrifenedig.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y gwneir darpariaeth briodol ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei atgyweirio/eu hatgyweirio, neu ar gyfer tyrbin neu dyrbinau y mae angen ei ddatgomisiynu/eu datgomisiynu.*

**Microleoli'r Datblygiad**

17. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes y caiff protocol microleoli ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y protocol microleoli'n cynnwys:
    a) methodoleg ar yfer asesiad dyfnder mawn;

b) protocol ar gyfer penderfynu ar ficroleoliad pob datblygiad er mwyn lleihau effaith y datblygiad ar, ond heb fod yn gyfyngedig i, fawn, gylfinirod, ceiliogod duon, rhywogaethau a warchodir, cyrsiau dŵr ac unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol eraill a amlygir.

Caiff y protocol microleoli ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn caniatáu hyblygrwydd i'r datblygwr yn ystod yr adeiladu i wneud mân newidiadau i leoliad y seilwaith i fynd i'r afael ag anawsterau fel amodau gwael ar y ddaear a ddaw i'r amlwg yn ystod yr adeiladu.*

18. Ni chaiff unrhyw ran o'r datblygiad arfaethedig ei lleoli mwy na 50 metr o'r lleoliad a ddangosir ar y cynlluniau cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol.*

19. Cyn pen 3 mis ar ôl dyddiad yr allforyn cyntaf, caiff cynllun yn dangos lleoliad union y datblygiad cyfan (gan gynnwys llwybrau, lloriau caled, mynedfeydd, tyrbinau, pyllau benthyg ac ati) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er mwyn cofnodi'r cynllun terfynol fel y'i hadeiladwyd, ar ôl ystyried lwfansau microleoli.*

**Datblygiad Manwl – Dyluniad a Golwg**

20. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei gludo i'r safle nes caiff y manylion canlynol eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cyflwyno ganddo'n ysgrifenedig:
    a) gorffeniad a lliw allanol y tyrbinau arfaethedig;
    b) lleoliadau'r newidyddion a gorffeniad allanol unrhyw orchudd allanol ar gyfer newidyddion;
    c) lleoliad, dyluniad, deunyddiau a strategaethau plannu tirwedd i'w defnyddio ar gyfer yr isbwerdy ar y safle a'r ffordd fynediad;
    d) uchder, lleoliad, golwg a saernïaeth unrhyw fodd parhaol o amgáu, neu unrhyw fast neu strwythur cysylltiedig i'w godi ar y safle.

Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

21. Ni chodir unrhyw dyrbin nes caiff cynllun yn manylu ar y lliw a'r gorffeniad ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys:
    a) sampl o'r lliw arfaethedig;
    b) esboniad ysgrifenedig o'r lliw a ddewiswyd, gan gynnwys esboniad o'r dirwedd a'r ystyriaethau gweledol sydd wedi llywio'r cynnig, a darluniad o'r lliw arfaethedig yn y dirwedd trwy baneli enghreifftiol a/neu ffotogyfosodiadau.

Ni chodir unrhyw dyrbin nes i'r lliw arfaethedig gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol, a chaiff y tyrbinau eu gorffen yn y lliw cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol.*

22. Bydd pob tyrbin o ddyluniad safonol ag echelin llorweddol â 3 llafn, a bydd llafnau pob un o’r tyrbinau’n cylchdroi i’r un cyfeiriad.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau golwg foddhaol ac er budd amwynder gweledol*

23. Caiff yr holl geblau trydan sy’n cysylltu’r araeau tyrbinau â’r isbwerdy eu gosod o dan y ddaear.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

24. Ni fydd unrhyw waith datblygu ar adeilad yr isbwerdy ar y safle yn dechrau nes i fanylion yn ymwneud â’i leoliad, triniaeth allanol, dyluniad, deunyddiau, tirweddu (os o gwbl), a’i gyfeiriadedd eu cyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Caiff yr isbwerdy ei adeiladu’n unol â’r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

25. Ni ellir defnyddio unrhyw oleuadau awyr agored heblaw:
 a) goleuadau awyrennau
 b) goleuadau dros dro ar gyfer y safle a gymeradwyir fel rhan o’r Datganiad Dull Adeiladu

 yn ystod y gwaith Datblygu, oni bai y caiff manylion am y goleuadau hyn eu cyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Caiff y cyfryw oleuadau awyr agored eu darparu’n unol â’r manylion cymeradwy yn unig.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

26. Heblaw yn ystod y cyfnod adeiladu, ni chaiff unrhyw symbolau, arwyddion, logos na llythreniadau eraill, heblaw’r rhai sy’n ofynnol yn ôl y gyfraith am resymau iechyd a diogelwch, eu harddangos ar unrhyw ran o’r tyrbinau nac unrhyw adeilad neu strwythur heb gymeradwyaeth ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol.

*Rheswm: Er budd amwynder gweledol.*

**Oriau Adeiladu**

27. Caiff gwaith adeiladu ei gyflawni rhwng 07:30 ac 19:30 o’r gloch yn unig o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan gynnwys y dyddiau hynny, a rhwng 07:30 ac 13:00 o’r gloch ar ddyddiau Sadwrn, heb unrhyw waith adeiladu ar ddyddiau Sul neu wyliau cyhoeddus. Y tu allan i’r oriau hyn, caiff gwaith ar y safle ei gyfyngu i waith brys, codi tyrbinau, llethu llwch, a phrofi/cynnal a chadw peiriannau ac offer, neu waith adeiladu nad yw’n glywadwy o unrhyw eiddo sy’n sensitif i sŵn, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo’n wahanol yn ysgrifenedig. Caiff yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hysbysu’n ysgrifenedig am unrhyw waith brys cyn pen tri diwrnod gwaith ohono.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

28. Caiff yr holl weithgareddau sy’n gysylltiedig ag adeiladu’r datblygiad eu cyflawni’n unol â Safon Brydeinig BS5228:2009: Cod Ymarfer ar gyfer rheoli sŵn a dirgryniad ar safleoedd adeiladu a safleoedd agored – Rhan 1: Sŵn a Rhan 2: Dirgryniad.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder.*

**Priffyrdd**

29. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu hyd nes y caiff cynlluniau manwl o’r gyffordd newydd â chefnffordd yr A458 eu cyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’u cymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gyflwynir yn adlewyrchu cyfeiriad cynllun Ffigur diwygiad 2 Mai 2014, a Darluniad 4197.020/Gosodiad Mynediad Gorau, ac yn cynnwys:
   a) manylion am unrhyw lain welededd a fydd yn cael ei chadw’n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy’n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
   b) manylion draeniad; a
   c) cynigion ar gyfer marciau ffordd ac arwyddion.

   Caiff y gwaith ei weithredu’n unol â’r manylion cymeradwy.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y darperir ffordd foddhaol i mewn ac allan o’r gefnffordd er budd diogelwch y priffyrdd.*

30. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes y caiff cynlluniau manwl o’r gyffordd newydd ar gyfer yr A470 yn Nhalerddig eu cyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’u cymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo. Bydd y manylion a gyflwynir yn adlewyrchu cyfeirnod cynllun 60283248-D-040 Diwygiad G ac yn cynnwys:
   a) manylion am unrhyw lain welededd a fydd yn cael ei chadw’n rhydd rhag unrhyw rwystr bob amser, gan gynnwys coed a llwyni sy’n fwy nag 1.05 metr o uchder uwchben y lôn gerbydau gyffiniol;
   b) manylion draeniad;
   c) cynigion ar gyfer marciau ffordd ac arwyddion; a
   d) rhaglen ar gyfer gweithredu’r gwaith.

   Caiff y gwaith ei weithredu’n unol â’r manylion a’r manylion cymeradwy.

31. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu, heblaw cynaeafu a thynnu coed o’r safle, adeiladu llwybrau mynediad newydd ac uwchraddedig oddi mewn i’r safle, ac adeiladu’r gyffordd newydd â chefnffordd yr A458, nes caiff asesiad o’r holl strwythurau yn y rhannau hynny o’r rhwydwaith cefnffyrdd a ddefnyddir i symud llwythi anwahanadwy anghyffredin (gan gynnwys pontydd, cwlfertau, waliau cynnal ac argloddiau) a manylion am unrhyw waith sy’n ofynnol i wella’r cyfryw strwythurau ar gyfer y datblygiad, eu cyflwyno i’r awdurdod cynllunio lleol a’u cymeradwyo ganddo’n ysgrifenedig. Caiff y gwaith cymeradwy a amlygir yn yr asesiad ei gwblhau cyn dechrau symud unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin i’r safle.

*Rheswm: Er mwyn cynnal cyfanrwydd y briffordd gyhoeddus ac unrhyw strwythurau cysylltiedig.*

32. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig â'r datblygiad eu cludo nes caiff Cynllun Arolwg Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad ar gyfer yr eiddo ar y B4381 Severn Street, y Trallwng (rhwng y gamlas a'r Groes) y gellir mynd i mewn ac allan ohonynt, gan gynnwys manylion am ei amseriad a'i weithredu, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd hyn yn cynnwys manylion am y canlynol:
    a) amlder ac amseriad arolygon Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad mewn perthynas â llwythi anwahanadwy anghyffredin;
    b) amlygu materion perthnasol i'w cynnwys mewn Arolwg Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad;
    c) manylion am ofynion cyflwyno Adroddiad Arolwg i'r awdurdod cynllunio lleol;
    e) penodi gweithiwr proffesiynol annibynnol cymwys yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol, sydd â phrofiad perthnasol yn y sector tirfesur adeiladau i gynnal yr Arolygon Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad;
    f) gweithdrefnau ar gyfer dylunio a gweithredu unrhyw waith cryfhau y mae'r Arolwg Cyflwr Adeilad a Strwythur Adeilad yn amlygu ei fod yn angenrheidiol;
    g) gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo a gweithredu unrhyw waith adferol i eiddo unigol a amlygir, yn ôl yr angen.

    Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn osgoi difrodi unrhyw eiddo.*

33. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin eu cludo i'r safle nes i Gynllun Rheoli Trafnidiaeth ar gyfer cludo nwyddau trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin, sy'n gyffredinol unol ag Adrannau 1, 2 a 3 Cynllun Rheoli Traffig Strategol ar gyfer Ffermydd Gwynt Canolbarth Cymru (yr sTMP) Awst 2012, gael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Wedi hynny, caiff llwythi anwahanadwy anghyffredin eu cyflawni'n unol â'r TMP cymeradwy. Bydd y TMP yn cynnwys:
    a) cyfyngiadau ar symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
    b) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

34. Ni chaiff unrhyw beth ei gludo i'r safle trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin nes y caiff Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff pob cludiad trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin ei gyflawni'n unol â'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin gymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
    a) y bobl sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu'r Strategaeth Rheoli Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin;
    b) y dull o reoli amseriad symudiadau llwythi anwahanadwy anghyffredin;
    c) gwyriadau traffig a mannau dal traffig dros dro;
    d) manylion am fancwyr a hebryngwyr ar gyfer llwythi anghyffredin;

- e) cydlynu â phob cludiad arall trwy lwythi anwahanadwy anghyffredin (gan gynnwys, heb unrhyw gyfyngiadau, i ffermydd gwynt eraill yng nghanolbarth Cymru);
- f) disgrifiad o'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu amseroedd cludo, gan gynnwys sbardunau amseroedd cludo a masnachu;
- g) penodiad a rôl Cydlynydd Trafnidiaeth;
- h cysylltu â'r awdurdodau priffyrdd a chynllunio perthnasol a'r Heddlu;
- i) cysylltu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
- j) cysylltu â chludwyr, datblygwyr a thirfeddianwyr;
- k) manylion am sut y gall defnyddio'r ffordd fynediad i'r safle ddarparu ar gyfer llwytho anwahanadwy anghyffredin ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair;
- m) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder.*

35. Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes caiff cynllun sy'n darparu ar gyfer adfer unrhyw ddifrod y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Datblygiad i seilwaith y priffyrdd a ddefnyddir wrth adeiladu'r datblygiad ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig, ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol.

    Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw a bod y datblygwr yn unioni unrhyw ddifrod a achosir y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r datblygiad.*

36. Ni chyflawnir unrhyw waith adeiladu ar y safle nes caiff Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) yn ymwneud â thraffig adeiladu cyffredinol ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Wedi hynny, cydymffurfir â'r cynllun rheoli traffig cymeradwy, a fydd yn cynnwys manylion am y canlynol:
    - a) pennu llwybr ar gyfer cerbydau adeiladu;
    - b) dull o fonitro symudiadau cerbydau yn ôl ac ymlaen o'r safle, gan gynnwys defnyddio cerbydau adeiladu mewn lifrai sy'n dangos enw'r datblygwr, rhif y cerbyd, rhif ffôn ar gyfer cwynion a gweithdrefnau ar gyfer delio â chwynion;
    - c) amseriad cludo deunyddiau adeiladu i'r safle;
    - d) rheoli cyffyrdd a chroesfannau ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus eraill;
    - e) measures mesurau i'w rhoi ar waith, gan gynnwys trefniadau cytundebol â chontractwyr ac isgontractwyr i sicrhau y gall cwynion ac achosion o dorri gofynion y TMP gael eu hunioni;
    - f) cynllun teithio sydd â'r nod fwyhau defnydd trafnidiaeth gynaliadwy gan y gweithlu adeiladu sy'n gysylltiedig â'r datblygiad;
    - g) symudiadau cerbydau yn ystod digwyddiadau arbennig, gan gynnwys (heb unrhyw gyfyngiadau) Sioe Frenhinol Cymru a sioeau mân-ddeiliaid;
    - h) cyfathrebu ag aelodau'r cyhoedd a chymunedau lleol;
    - i) manylion am sut y gall cysylltiadau mewnol y tu mewn i'r safle ddarparu ar gyfer traffig adeiladu ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair; a

i) manylion am ddull adolygu i alluogi mynd i'r afael â newidiadau i amgylchiadau ar ôl cytuno ar y TMP.

*Rheswm: Er budd diogelwch y priffyrdd ac amwynder*.

37. Ni chaiff unrhyw lwythi anwahanadwy anghyffredin sy'n gysylltiedig ag unrhyw atgyweiriadau, tynnu neu amnewid cydrannau eu symud yn ystod oes y datblygiad nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw atgyweiriadau ac/neu amnewid ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

38. Ni chaiff unrhyw draffig sy'n gysylltiedig â datgomisiynu'r datblygiad symud nes caiff cynllun rheoli traffig sy'n mynd i'r afael â'r cyfryw ddatgomisiynu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig ac, wedi hynny, caiff y TMP cymeradwy ei roi ar waith.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau diogelwch y priffyrdd dan sylw ac er budd amwynder.*

## Rheoli Adeiladu

39. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Cynllun Dull Adeiladu (CMP), yn cynnwys Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) sy'n gyffredinol unol ag amcanion, cwmpas a methodoleg y CEMP drafft yng Nghynllun 1.1 Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Gorffennaf 2013, ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y CMP yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i fanylion am:
    a) reoli llwch;
    b) mesurau i sicrhau y caiff mynedfeydd y safle, llwybrau'r safle sydd wedi eu rhwymo neu eu gorchuddio a'r briffordd gyhoeddus gyfagos eu glanhau, gan gynnwys darparu cyfleuster golchi olwynion mewn lleoliad cytûn i gerbydau sy'n gadael y safle;
    c) mesurau i warchod cyrsiau dŵr, gan gynnwys cyflwyno manylion am waith peirianneg a chroesfannau cyrsiau dŵr, a mesurau lliniaru i warchod dŵr daear a phriddoedd;
    d) rheoli a gwaredu dŵr budr;
    e) rheoli llygredd, gan gynnwys storio tanwydd, olew, concrit a chemegau;
    f) rheoli sŵn yn ystod y cyfnod adeiladu;
    g) rheoli dirgryniad;
    h) unrhyw oleuadau dros dro ar y safle;
    i) gwaredu deunyddiau adeiladu dros ben;
    j) unrhyw wyriadau dros dro o hawliau tramwy cyhoeddus ar y safle neu gau tir mynediad dros dro, ynghyd â'r arwyddion cysylltiedig;
    k) gwarchod cyflenwadau dŵr preifat;
    l) amserlen adeiladu a rhaglen waith arfaethedig;
    m) y fethodoleg ar gyfer tynnu adeiladu, cynhwysyddion, peiriannau, offer a lloriau caled dros dro sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r fferm wynt arfaethedig;

n) trefniadau ar gyfer stoc-bentyrru agregau a deunyddiau eraill a ddefnyddir ar gyfer y gwaith adeiladu;
o) ffynhonnell carreg, a fydd o byllau benthyg cymeradwy.

Caiff y CEMP ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol.*

40. Cyn i unrhyw dyrbin gwynt gael ei dynnu neu ei amnewid, caiff Cynllun Dull Adeiladu diwygiedig sy'n ymwneud â'r tynnu neu'r amnewid hwnnw yn unig, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Caiff y Cynllun Dull Adeiladu diwygiedig ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau lefel foddhaol o warchodaeth amgylcheddol.*

## Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy

41. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Hawliau Tramwy (RWMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y RWMP ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:
a) manylion am ailgyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus dros dro yn ystod adeiladu'r datblygiad awdurdodedig;
b) manylion am ddarparu arwyddion a gwybodaeth arall sy'n rhybuddio'r cyhoedd am waith adeiladu;
c) manylion am unrhyw ffensys neu rwystrau a ddarperir yn ystod y cyfnod adeiladu;
d) manylion am sut caiff hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau a ffyrdd eu harolygu cyn y cyfnod adeiladu a'u monitro yn ystod y cyfnod adeiladu; a
e) manylion am warchod adar bridio lle caiff unrhyw hawl dramwy gyhoeddus ei hailgyfeirio.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod hawliau tramwy cyhoeddus.*

## Ecoleg

42. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau ar y safle nes caiff Cynllun Adfer a Rheoli Cynefinoedd (HRMP) manwl, yn amlinellu amcanion rheoli cadwraeth natur manwl, gan gynnwys Cynllun Gwarchod Adar Bridio (BBPP), Cynllun Rhywogaethau a Warchodir, Cynllun Monitro Amgylcheddol, rheoli cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, ac amserlen ar gyfer ei weithredu, ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr HRMP yn cynnwys (ond ni fydd yn gyfyngedig i) manylion am y mesurau rheoli cynefinoedd a amlinellir yng Nghyfrol 4, Cynllun 1.4 Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol Fferm Wynt Carnedd Wen a Phrosiect Adfer Cynefinoedd 2013, a manylion am:
a) gynigion i leihau effeithiau niweidiol ar fawn ac ecoleg;
b) cynnal ardaloedd cynefinoedd mawndir presennol;
c) manteisio i'r eithaf ar adfer mawr ar draws y safle;
d) mesurau i osgoi blocio ffosydd yn effeithio ar geiliogod du ac adar ysglyfaethus atodlen 1;

e) dulliau i ddarparu cynefin addas i gefnogi ceiliogod duon;
f) rhaglen ar gyfer gweithredu arolygon ceiliogod duon, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen wedi hynny os amlygir ceiliogod duon;
g) dulliau i'w cymhwyso i adfer y lefel trwythiad i ganiatáu adfer a chynnal a chadw cynefinoedd gorgors;
h) amserlen ar gyfer gweithredu a chwblhau holl fesurau'r HRMP (gan gynnwys cynaeafu coed);
i) cynllun a rhaglen i sicrhau difodiad conifferau a rhododendronau a ail-hadwyd;
j) mesurau i fonitro bod amcanion y Cynllun Rheoli Cynefinoedd yn cael eu bodloni.

Caiff y datblygiad ei weithredu'n unol â'r cynlluniau cymeradwy.

*Rheswm: Er budd gwarchod natur.*

43. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau ar y safle nes caiff Cynllun Rheoli Mawn (PMP), yn cynnwys yr amcanion a'r mesurau a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Mawn a gynhwyswyd yng Ngwybodaeth Amgylcheddol Atodol Fferm Wynt Carnedd Wen a Phrosiect Adfer Cynefinoedd 2013 (Cyfrol 4, Cynllun 1.5), ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y Cynllun Rheoli Mawn yn cynnwys:
a) mesurau i leihau effeithiau ar gynefinoedd mawndir wrth glirio'r safle, cynaeafu coed ac adeiladu;
b) arolygon archwilio mawn a modelau dyfnder mawn cyfredol;
c) storio, trin ac ailddefnyddio'r holl fawn a gloddir;
d) cyllideb mawn ddiwygiedig ar sail arolwg draenio a chyfeintiau cloddio mawn diwygiedig;
e) mesurau ar gyfer blocio a/neu fewnlenwi draeniau.

Caiff y datblygiad ei weithredu'n unol â'r cynllun cymeradwy.

44. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff manylion am Glerc Gwaith Ecolegol (ECoW) â chymwysterau addas i'w gyflogi/chyflogi ar y datblygiad eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd yr ECoW yn unigolyn â chymwysterau addas ac fe'i cedwir trwy gydol y gwaith adeiladu. Bydd cwmpas gwaith yr ECoW yn cynnwys, ond ni fydd yn gyfyngedig i:
a) monitro cydymffurfiad â'r gwaith lliniaru cymeradwy ac adrodd ar ei lwyddiant neu ei fethiant, a chynghori ar fesurau lliniaru adferol yn achos unrhyw fethiant;
b) cynghori'r datblygwr ar weithredu'r cynigion lliniaru cymeradwy a gwarchod buddiannau cadwraeth natur pwysig ar y safle;
c) cyfarwyddo ac ymgynghori ar ficroleoliad a lleoliad tyrbinau, ffyrdd a seilwaith arall;
d) monitro ac adrodd ar gydymffurfiad â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a'r Cynllun Monitro Ecolegol;
e) mynychu cyfarfodydd cyswllt â Chyngor Sir Powys a Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill, yn ôl yr angen, ac adrodd ar gydymffurfio ag amodau, cynlluniau a mesurau lliniaru.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff y mesurau gwarchod a lliniaru eu gweithredu'n gywir ac mewn cytundeb â'r cyrff statudol perthnasol*

45. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes caiff Cynllun Rheoli Draeniad (DMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Wedi hynny, cyflawnir gwaith cwympo coed, adeiladu a gwaith adfer cynefinoedd yn unol â'r cynllun cymeradwy. Bydd y DMP yn gyffredinol unol ag amcanion, methodoleg a chwmpas y DMP drafft sy'n ffurfio Cynllun 1.2 y Wybodaeth Amgylcheddol Atodol, a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd i gefnogi'r cais a gymeradwywyd trwy hyn ym mis Gorffennaf 2013.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod yr amgylchedd dŵr.*

46. Ni chyflawnir unrhyw waith datblygu nes caiff Cynllun Rheoli Coedwigaeth (FMP) ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y FMP yn gyffredinol unol ag amcanion, methodoleg a chwmpas y Cynllun Rheoli Cynefinoedd Amlinellol sy'n ffurfio Cynllun 1.3 o'r Wybodaeth Amgylcheddol Atodol, a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd i gefnogi'r cais a gymeradwywyd trwy hyn ym mis Gorffennaf 2013, a bydd yn cynnwys manylion am reoli cwympo coed i ganiatáu defnyddio'r ffordd fynediad i'r safle a ffyrdd mewnol oddi mewn i'r safle i ddarparu ar gyfer llwythi anwahanadwy anghyffredin a thraffig adeiladu ar gyfer cynlluniau ffermydd gwynt Carnedd Wen a Llanbrynmair. Caiff rheoli coedwigaeth a chwympo coed eu cyflawni'n unol â'r cynllun cymeradwy.

*Rheswm: Er budd ecoleg.*

**Cysgodion Symudol**

47. Cyn codi'r tyrbin cyntaf, caiff cynllun ysgrifenedig ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo, yn amlinellu protocol ar gyfer asesu cysgodion symudol rhag ofn y bydd unrhyw gŵyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gan berchennog neu ddeiliad annedd breswyl. Bydd y cynllun ysgrifenedig yn cynnwys mesurau adferol i liniaru unrhyw gysgodion symudol y gellir eu priodoli i'r datblygiad. Caiff y tyrbinau eu gweithredu'n unol â'r protocol cymeradwy, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig blaenorol i unrhyw amrywiadau.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Ymyriant Teledu**

48. Ni chaiff unrhyw dyrbin ei godi nes caiff cynllun ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo sy'n darparu ar gyfer archwilio ac adfer unrhyw ymyriant â derbyniad teledu mewn unrhyw annedd a oedd yn bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn. Bydd y cynllun yn darparu i beiriannydd teledu annibynnol cymwysedig ymchwilio i unrhyw gŵyn o ymyriant â derbyniad teledu mewn annedd sydd wedi ei meddiannu'n gyfreithlon, os bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn hysbysu'r datblygwr am y cyfryw gŵyn cyn pen 24 mis o ddyddiad y comisiynu terfynol. Caiff y cynllun ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er budd amwynder preswyl.*

**Archaeoleg**

49. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun ymchwilio archaeolegol ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun ymchwilio archaeolegol ei weithredu fel y'i cymeradwyir.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw olion archaeolegol sy'n weddill eu harchwilio a'u cadw.*

50. Caiff pob cofnod a goladir, o ganlyniad i'r Cynllun Ymchwilio Archaelegol, ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i anfon at y Cofnod Amgylcheddol Hanesyddol (a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys ar hyn o bryd) cyn pen 6 mis o gasglu'r cofnod.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff unrhyw ganfyddiadau archaeolegol eu cofnodi'n briodol.*

**Hedfan**

51. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes y darperir y wybodaeth ganlynol i Ganolfan Daearyddol Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn:
    a) y dyddiad y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau ac yn gorffen;
    b) uchder mwyaf yr offer adeiladu;
    c) lledred a hydred pob tyrbin.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

52. Ni chaiff unrhyw dyrbin gwynt ei godi nes caiff manylion am osod goleuadau rhybuddio awyrennau isgoch eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y goleuadau eu gosod yn unol â'r manylion cymeradwy a'u cynnal a chadw nes i'r tyrbinau gwynt gael eu datgomisiynu a'u tynnu o'r safle.

*Rheswm: Er budd diogelwch awyrennau.*

**Cysylltu â'r Gymuned**

53. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun cysylltu â'r gymuned ar gyfer y cyfnod adeiladu ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo. Caiff y cynllun cysylltu â'r gymuned ei weithredu fel y'i cymeradwyir a bydd yn cynnwys:
    a) manylion am gysylltiad y datblygwr â'r gymuned leol i sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod sut mae'r adeiladu yn dod yn ei flaen;
    b) dull i fynd i'r afael â chwynion gan y gymuned leol yn ystod adeiladu'r datblygiad; a
    c) chynrychiolydd enwebedig y datblygwr, a fydd â'r rôl arweiniol o ran cysylltu â phreswylwyr lleol a'r awdurdod cynllunio perthnasol.

*Rheswm: Er mwyn sicrhau y caiff amwynder preswylwyr lleol ei warchod.*

54. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff cynllun ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig, yn ymwneud â hyrwyddo manteision economaidd y datblygiad yn ardal awdurdod lleol Powys. Bydd y datblygwr yn defnyddio ymdrechion rhesymol i weithredu'r cynllun cymeradwy, a fydd:
    a) yn ymrwymo'r datblygwyr i gynnwys gwahoddiadau i dendro am gontractau i'r cyfryw gwmnïau â chyfeiriadau ym Mhowys y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi gwybod i'r datblygwr amdanynt yn ysgrifenedig;
    b) yn sicrhau bod unrhyw gwmni a wahoddir i dendro am waith yn ymwneud ag adeiladu'r datblygiad yn cael cyfarwyddiadau ysgrifenedig i ddefnyddio ymdrechion rhesymol i ddefnyddio pobl leol a busnesau lleol mewn perthynas ag adeiladu'r Datblygiad;
    c) yn ymrwymo'r datblygwr i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol i gwmnïau neu unigolion sy'n cael eu contractio i weithio ar y datblygiad.

*Rheswm: Er budd yr economi leol.*

**Sŵn**

55. Ni chaiff unrhyw dyrbin a gymeradwyir trwy hyn ei weithredu cyn cyflwyno cynllun ar gyfer asesu a rheoleiddio Modylu Osgledau Gormodol (EAM) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ganddo ar ei gyfer. Os yw'n bodoli ar adeg ei gyflwyno, bydd y cynllun yn gyffredinol unol ag:
    a) arweiniad perthnasol a gefnogir mewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol; neu yn niffyg arweiniad ardystiedig;
    b) arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Acwsteg.

    Caiff y cynllun cymeradwy ei weithredu ar hyd oes y datblygiad a gymeradwyir trwy hyn.

*Rheswm: Er budd amwynder cyhoeddus er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â Modylu Osgledau Gormodol yn briodol.*

56. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt (gan gynnwys cymhwyso unrhyw gosb donaidd) pan y'i pennir yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig (i'r amod hwn), yn fwy na'r gwerthoedd ar gyfer y buanedd gwynt cyfanrifol perthnasol a bennir, neu'n sy'n deillio o'r, tabl sydd wedi ei atodi i'r amod hwn mewn unrhyw annedd sy'n bodoli'n gyfreithlon neu sydd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn, a:
    a) Bydd y cwmni yn cofnodi cynhyrchiad ynni, buanedd y gwynt a chyfeiriad y gwynt yn barhaus, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d). Caiff y data hwn ei gadw am gyfnod nad yw'n llai na 24 mis. Bydd y Cwmni yn darparu'r wybodaeth hon yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cais ganddo, cyn pen 14 diwrnod o dderbyn y cyfryw gais yn ysgrifenedig.
    b) Ni chaiff unrhyw drydan ei allforio nes i'r Cwmni gyflwyno rhestr o ymgynghorwyr annibynnol arfaethedig a all ymgymryd â mesuriadau cydymffurfio yn unol â'r amod hwn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w

chymeradwyo'n ysgrifenedig. Caiff diwygiadau i'r rhestr o ymgynghorwyr cymeradwy dim ond eu gwneud â chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.

c) Cyn pen 21 diwrnod o dderbyn cais ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn dilyn cwyn iddo gan breswylydd annedd sy'n honni aflonyddwch sŵn yn yr annedd, bydd y Cwmni, ar ei draul, yn cyflogi ymgynghorydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i asesu lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt yn eiddo'r achwynydd, yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig. Bydd y cais gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn amlinellu o leiaf y dyddiad, yr amser a'r lleoliad y mae'r gŵyn yn ymwneud â hwy, ynghyd ag unrhyw amodau atmosfferig a nodwyd, gan gynnwys cyfeiriad y gwynt, ac yn cynnwys datganiad ynghylch p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd.

d) Ymgymerir â'r asesiad o lefel allyriadau sŵn yn unol â phrotocol asesu a fydd wedi ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo'n flaenorol. Bydd y protocol yn cynnwys y lleoliad mesur arfaethedig a nodwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd lle yr ymgymerir â mesuriadau at ddibenion gwirio cydymffurfiad, p'un a yw'r sŵn a arweiniodd at y gŵyn yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, a hefyd ystod yr amodau meteorolegol a gweithredol (a fydd yn cynnwys ystod buanedd y gwynt, cyfeiriadau'r gwynt, cynhyrchiad ynni ac adegau'r dydd) i benderfynu ar asesiad lefel yr allyriadau sŵn. Ystod yr amodau arfaethedig fydd y rhai a oedd yn bodoli yn ystod yr adegau y mae'r achwynnydd yn honni y bu aflonyddwch oherwydd sŵn, gan ystyried cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol o dan baragraff (c), ac eraill fel y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn ystyried eu bod yn debygol o arwain at dorri'r cyfyngiadau sŵn.

e) Lle nad yw annedd y mae cwyn yn ymwneud â hi wedi ei rhestru yn y tablau sy'n atodedig i'r amodau hyn, bydd y Cwmni yn cyflwyno cyfyngiadau sŵn arfaethedig wedi eu dethol o'r rhai a restrir yn y Tablau i'w mabwysiadu yn annedd yr achwynnydd at ddibenion gwirio cydymffurfiad i'r Awdurdod Cynllunio Lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig. Y cyfyngiadau sŵn arfaethedig fydd y cyfyngiadau a ddewisir o Dabl 1, gan ystyried Tabl 2, ac a bennwyd ar gyfer lleoliad rhestredig y mae'r ymgynghorydd annibynnol o'r farn y byddai'n debygol o brofi'r amgylchedd sŵn cefndir tebycach i'r amgylchedd sŵn cefndir y ceir profiad ohono yn annedd yr achwynnydd. Ni fydd lefel yr allyriadau sŵn sy'n deillio o effeithiau cyfunol y tyrbinau gwynt, o'u pennu'n unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd atodedig, yn fwy na'r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd yr achwynnydd.

f) Bydd y Cwmni yn darparu asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn, a gynhaliwyd yn unol â'r Nodiadau Cyfarwyddyd, i'r Awdurdod Cynllunio Lleol cyn pen 2 fis o ddyddiad cais ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud mesuriadau cydymffurfiad a wneir o dan baragraff (c), oni bai y caiff y terfyn amser ei ymestyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd yr asesiad yn cynnwys yr holl ddata a gesglir at ddibenion cyflawni'r mesuriadau cydymffurfiad, a chaiff y cyfryw ddata ei ddarparu yn y fformat a bennir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (e) y Nodiadau Cyfarwyddyd. Caiff yr

offeryniaeth a ddefnyddir i gyflawni'r mesuriadau ei graddnodi'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (a) a chyflwynir tystysgrifau graddnodi i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ag asesiad yr ymgynghorydd annibynnol o lefel yr allyriadau sŵn.

g) Lle mae angen asesiad pellach o lefel yr allyriadau sŵn o'r fferm wynt, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 4(c), bydd y Cwmni yn cyflwyno copi o'r asesiad pellach cyn pen 21 niwrnod o gyflwyno asesiad yr ymgynghorydd annibynnol yn unol â pharagraff (d) uchod, oni bai y caiff y terfyn amser ei estyn yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

*Rheswm: Er mwyn gwarchod amwynder preswyl.*

**Nodiadau Cyfarwyddyd**

Tabl 1: Cyfyngiadau sŵn a fynegir mewn dB LA90, 10 munud fel swyddogaeth buanedd safonol y gwynt (m/s) ar 10 metr o uchder fel y pennir oddi mewn i'r safle ar gyfartaledd dros gyfnodau o 10 munud.

| **Lleoliad** | **Buanedd safonol y gwynt ar uchder o 10 metr (m/s) oddi mewn i'r safle ar gyfartaledd dros gyfnodau o 10 munud** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** |
| Ysgubor Cannon | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.7 | 34.2 | 35.0 | 36.0 | 37.1 | 37.1 | 37.1 | 37.1 |
| Pen yr Eisteddfod | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.4 | 38.1 | 39.2 | 39.2 | 39.2 | 39.2 | 39.2 |
| Dolwen Isaf | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.8 | 36.3 | 37.1 | 38.1 | 39.3 | 39.3 | 39.3 | 39.3 |
| The Barn - Blaen y Cwm | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 37.8 | 40.0 | 42.2 | 44.2 | 46.0 | 47.2 | 47.9 |
| Rhydymeirch | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 40.1 | 42.3 | 44.3 | 46.1 | 47.4 | 48.0 |
| Abercannon | 34.8 | 34.8 | 34.8 | 34.8 | 34.9 | 35.4 | 36.2 | 37.2 | 38.3 | 38.3 | 38.3 | 38.3 |
| Tŷ Capel Beulah | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.9 | 36.7 | 37.6 | 38.8 | 38.8 | 38.8 | 38.8 |
| Neinthirion | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.9 | 36.7 | 37.6 | 38.8 | 38.8 | 38.8 | 38.8 |
| Delfryn | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 37.6 | 39.9 | 39.9 | 39.9 | 39.9 |
| Berth-lwyd | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 33.2 | 35.3 | 35.3 | 35.3 | 35.3 |
| Castell y Gwynt | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 37.6 | 39.9 | 39.9 | 39.9 | 39.9 |
| Pant y Powsi | 31.8 | 31.8 | 31.8 | 31.8 | 31.8 | 31.8 | 31.8 | 33.8 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 |
| Nant yr Esgairwen | 31.2 | 31.2 | 31.2 | 31.2 | 31.2 | 31.2 | 31.2 | 33.1 | 35.4 | 35.4 | 35.4 | 35.4 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Capel yr Aber | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 30.4 | 32.4 | 34.6 | 34.6 | 34.6 | 34.6 |
| Hafodowen | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 33.8 | 36.5 | 39.7 | 42.9 | 42.9 | 42.9 | 42.9 |
| Cwm-carnedd-isaf | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 34.6 | 34.6 | 34.6 | 34.6 |
| Cwm-carnedd-uchaf | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 30.7 | 32.8 | 32.8 | 32.8 | 32.8 |
| Dolau | 35.4 | 35.4 | 35.4 | 35.4 | 35.5 | 36.0 | 36.8 | 37.8 | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 38.9 |
| Dolau-ceimion | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.7 | 36.3 | 37.0 | 38.0 | 39.2 | 39.2 | 39.2 | 39.2 |
| Bryn Du | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.7 | 37.2 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 | 37.9 |
| Glegyrnant | 38.2 | 38.2 | 38.2 | 38.2 | 38.2 | 38.2 | 40.3 | 42.5 | 44.6 | 46.3 | 47.6 | 48.3 |
| Blaen y Cwm | 37.4 | 37.4 | 37.4 | 37.4 | 37.4 | 37.4 | 39.6 | 41.8 | 43.8 | 45.6 | 46.8 | 47.5 |
| Cwm Pen Llydan | 43.8 | 43.8 | 43.8 | 43.8 | 43.8 | 43.8 | 43.8 | 43.8 | 45.2 | 47.0 | 48.2 | 48.9 |
| Cwm-y-ffynnon | 34.0 | 34.0 | 34.0 | 34.0 | 34.0 | 34.0 | 34.0 | 34.0 | 36.1 | 36.1 | 36.1 | 36.1 |
| Pwll-melyn | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 33.9 | 36.0 | 36.0 | 36.0 | 36.0 |
| Ffriddfawr | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 34.1 | 36.1 | 38.4 | 38.4 | 38.4 | 38.4 |
| Cwmderwen | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 35.6 | 37.6 | 39.8 | 39.8 | 39.8 | 39.8 |
| Cannon | 33.1 | 33.1 | 33.1 | 33.1 | 33.2 | 33.7 | 34.5 | 35.5 | 36.7 | 36.7 | 36.7 | 36.7 |
| Dolwen Uchaf | 35.4 | 35.4 | 35.4 | 35.4 | 35.5 | 36.0 | 36.8 | 37.8 | 38.9 | 38.9 | 38.9 | 38.9 |
| Ffridd Newydd | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.7 | 37.2 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 |
| Caecrwn | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.7 | 37.2 | 39.0 | 39.2 | 39.2 | 39.2 | 39.2 | 39.2 |
| Llwyn | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.7 | 37.2 | 39.0 | 39.4 | 39.4 | 39.4 | 39.4 | 39.4 |
| Maes Llymystyn | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.0 | 35.7 | 37.2 | 39.0 | 39.5 | 39.5 | 39.5 | 39.5 | 39.5 |
| Moel Ddolwen | 30.6 | 30.6 | 30.6 | 30.6 | 30.7 | 31.2 | 32.0 | 33.0 | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 34.2 |
| Tyn-y-fedw | 32.9 | 32.9 | 32.9 | 32.9 | 33.6 | 35.1 | 36.7 | 36.7 | 36.7 | 36.7 | 36.7 | 36.7 |
| Gesail-ddu | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 |
| Caer-lloi | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 | 39.6 |
| Dol-y-maen | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 | 37.6 |
| Nant-y-dugoed | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 | 34.5 |
| Talglannau | 30.2 | 30.2 | 30.2 | 30.2 | 30.9 | 32.4 | 34.2 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 |
| Barwn | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 | 32.7 |
| Ty-coch | 28.7 | 28.7 | 28.7 | 28.7 | 29.4 | 30.9 | 32.7 | 33.1 | 33.1 | 33.1 | 33.1 | 33.1 |
| Groes-heol | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 | 32.5 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Glan-yr-afon | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 | 32.4 |
| Blaentafalog Farm | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 |
| Nant-Hir | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 | 32.1 |
| Nant Carfan | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 | 32.6 |
| Dol Fawr | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 | 31.6 |
| Gerddi-gleision | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 33.6 | 35.7 | 35.7 | 35.7 | 35.7 |
| The Lodge | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 34.7 | 36.9 | 36.9 | 36.9 | 36.9 |
| Cefn | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 33.8 | 35.9 | 35.9 | 35.9 | 35.9 |
| Caeau-gleision | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 34.2 | 36.3 | 36.3 | 36.3 | 36.3 |
| Maes Glas | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 | 34.4 |

Tabl 2: Lleoliadau cyfesurynnol yr anheddau a restrir yn Nhabl 1.

| Lleoliad | Dwyreiniad | Gogleddiad |
|---|---|---|
| Ysgubor Cannon | 295941 | 307427 |
| Pen yr Eisteddfod | 297925 | 310831 |
| Dolwen Isaf | 297529 | 307560 |
| The Bam -Blaen y Cwm | 291684 | 307903 |
| Rhydymeirch | 292058 | 306823 |
| Abercannon | 296279 | 306935 |
| Tŷ Capel Beulah | 296391 | 306648 |
| Neinthirion | 296386 | 306621 |
| Delfryn | 295709 | 305450 |
| Berth-Iwyd | 291029 | 303782 |
| Castell y Gwynt | 294857 | 302951 |
| Pant y Powsi | 294820 | 302356 |
| Nant yr Esgairwen | 294406 | 302236 |
| Capel yr Aber | 293953 | 301802 |
| Hafodowen | 292785 | 302747 |
| Cwm-camedd-isaf | 291916 | 302705 |
| Cwm-camedd-uchaf | 291578 | 302872 |
| Dolau | 297042 | 306720 |
| Dolau-ceimion | 296367 | 305821 |
| Bryn Du | 298673 | 309646 |
| Glegyrnant | 292154 | 307624 |

| | | |
|---|---|---|
| Blaen y Cwm | 291582 | 308033 |
| Cwm Pen Llydan | 292893 | 306371 |
| Cwm-y-ffynnon | 291242 | 305314 |
| Pwll-melyn | 291008 | 304715 |
| Ffriddfawr | 294629 | 303945 |
| Cwmderwen | 295533 | 305435 |
| Cannon | 295885 | 307416 |
| DoIwen Uchaf | 297496 | 307622 |
| Ffridd Newydd | 298558 | 309877 |
| Caecrwn | 298045 | 310848 |
| Llwyn | 297508 | 311561 |
| Maes Llymystyn | 297081 | 311578 |
| Moel Ddolwen | 299312 | 307798 |
| Tyn-y-fedw | 298458 | 311040 |
| Gesail-ddu | 295260 | 312217 |
| Caer-llol | 295255 | 312635 |
| Dol-y-maen | 294289 | 313607 |
| Nant-y-dugoed | 291872 | 313235 |
| Talglannau | 291309 | 312606 |
| Barwn | 290298 | 312458 |
| Ty-coch | 290257 | 312064 |
| Groes-heol | 289577 | 311083 |
| Glan-yr-afon | 289377 | 310403 |
| Blaentafalog Farm | 289347 | 309423 |
| Nant-Hir | 289127 | 308752 |
| Nant Carfan | 289367 | 307302 |
| Dol Fawr | 288957 | 306421 |
| Gerddi-gleision | 289397 | 305491 |
| The Lodge | 290237 | 305472 |
| Cefn | 292539 | 302062 |
| Caeau-gleision | 290993 | 305193 |
| Maes Glas | 291709 | 313323 |

**Nodyn i Dabl 2**: Darperir cyfeirnodau'r cyfesurynnau daearyddol at ddibenion canfod lleoliad cyffredinol anheddau y mae cyfyngiadau sŵn penodol yn berthnasol iddynt.

**Nodyn cyffredinol:** At ddibenion yr amod hwn, annedd yw adeilad o fewn dosbarth defnydd C3 a C4 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987

(fel y'i diwygiwyd) sy'n bodoli'n gyfreithlon neu a oedd â chaniatâd cynllunio ar ddyddiad y caniatâd hwn.

## Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer Amodau Sŵn

Dylid darllen y nodiadau hyn â'r amod sŵn ac maent yn ffurfio rhan ohono. Maent yn esbonio'r amod ymhellach ac yn manylu ar y dulliau a ddefnyddir i asesu cwynion ynghylch allyriadau sŵn o'r fferm wynt. Y lefel ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yw swm rhifyddol lefel sŵn y fferm wynt fel y'i pennir o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn 2 y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn ac unrhyw gosb donaidd a gymhwysir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3. Mae cyfeiriad at ETSU-R-97 yn cyfeirio at gyhoeddiad o'r enw "The Assessment and Rating of Noise fron Wind Farms" (1997) a gyhoeddwyd gan yr Uned Cymorth Technoleg Ynni (ETSU) ar ran yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)).

### Nodyn Cyfarwyddyd 1

(a) Dylai gwerthoedd yr ystadegyn sŵn LA90 (10 munud) gael eu mesur yn eiddo'r achwynydd, gan ddefnyddio mesurydd lefel sŵn o ansawdd EN 60651/BSB EN 60804 Math 1, neu BSB EN 61672 Dosbarth 1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau) a osodir i fesur yr ymateb pwysol amser cyflym fel y manylir arno yn SS EN 60651/BSB EN 60804 neu BS EN 61672-1 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid graddnodi hyn yn unol â'r weithdrefn y manylir arni yn BS 4142: 1997 (neu'r safon gyfwerth a fabwysiadwyd yn y DU sydd mewn grym adeg y mesuriadau). Dylid cymryd mesuriadau mewn modd sy'n galluogi cymhwyso cosb donaidd yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3.

(b) Dylai'r microffon gael ei osod 1.2 -1.5 metr uwchben lefel y ddaear, a dylai maneg wynt dwy-haen neu offer addas cyfwerth a gymeradwywyd yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol gael ei (g)osod arno, a dylid ei roi y tu allan i annedd yr achwynydd. Dylid cymryd mesuriadau mewn amodau "maes rhydd". I gyflawni hyn, dylai'r microffon gael ei osod o leiaf 3.5 metr oddi wrth ffasâd yr adeilad neu unrhyw arwyneb adlewyrchol heblaw'r ddaear yn y lleoliad mesur cymeradwy. Os bydd yr achwynydd yn gwrthod rhoi caniatâd i fynd at ei (h)eiddo i wneud mesuriadau cydymffurfiad, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cyflwyno manylion am leoliad mesur cynrychioliadol arfaethedig arall i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo cyn dechrau gwneud mesuriadau, a chaiff y mesuriadau eu cymryd yn y lleoliad mesur cynrychioliadol cymeradwy arall.

(c) Dylai'r mesuriadau LA90 (10 munud) gael eu cysoni â mesuriadau'r data gwynt a gweithredol cymedrig 10 munud a gofnodir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), gan gynnwys y data cynhyrchu ynni o systemau rheoli tyrbinau'r fferm wynt.

(d) Er mwyn galluogi cydymffurfiad â'r amodau a arfernir, bydd gweithredwr y fferm wynt yn cofnodi buanedd cymedrig rhifyddol y gwynt yn barhaus mewn metrau yr eiliad, a chyfeiriad y gwynt mewn graddau o'r gogledd ar uchder y both ar gyfer pob tyrbin, a'r ynni cymedrig rhifyddol a gynhyrchir gan bob tyrbin, pob un ohonynt mewn cyfnod olynol o 10 munud. Oni bai y cytunir ar weithdrefn arall â'r Awdurdod Cynllunio ymlaen llaw, caiff uchder y both, buanedd y gwynt, ar gyfartaledd ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol, eu defnyddio'n sail ar gyfer y dadansoddiad. Caiff yr holl ddata ar fuanedd cymedrig cyfartalog rhifyddol y gwynt mewn cyfnodau o 10 munud a fesurir ar uchder y both ei 'safoni' i uchder cyfeirnod o 10 metr, fel y disgrifir yn ETSU-R-97 ar dudalen 120 gan ddefnyddio hyd garwedd cyfeirnod o 0.05

metr. Y data safonol hwn ar fuanedd y gwynt ar uchder o 10 metr a gyfatebir â'r mesuriadau sŵn a bennir yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, a chaiff y cyfryw gyfatebiad ei gyflawni yn y modd a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2. Bydd pob cyfnod o 10 munud yn dechrau ar yr awr ac mewn cyfnodau o 10 munud wedi hynny.

(e) Caiff data a ddarperir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, yn unol â'r amod sŵn, ei ddarparu mewn gwerthoedd wedi eu gwahanu gan goma mewn fformat electronig.

(f) Caiff medrydd glaw sy'n cofnodi data ei osod yn ystod yr asesiad o lefelau'r allyriadau sŵn. Bydd y medrydd yn cofnodi dros gyfnodau olynol o 10 munud wedi eu cysoni â'r cyfnodau data a gofnodir yn unol â Nodyn 1 (d).

**Nodyn Cyfarwyddyd 2**

(a) Gwneir y mesuriadau sŵn er mwyn darparu dim llai nag 20 pwynt data dilys, fel y diffinnir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2 (b).

(b) Pwyntiau data dilys yw'r rhai a fesurir yn yr amodau y manylir arnynt yn y protocol ysgrifenedig cytûn o dan baragraff (d) o'r amod sŵn, ond heb gynnwys unrhyw gyfnodau o lawiad a fesurir yn agos at fesurydd y lefel sŵn. Caiff glawiad ei asesu trwy ddefnyddio medrydd glaw a fydd yn cofnodi'r glawiad ym mhob cyfnod o 10 munud yn gydamserol â'r cyfnodau mesur a amlinellir yn Nodyn Cyfarwyddyd 1.

(c) Ar gyfer y pwyntiau data hynny yr ystyrir eu bod yn ddilys yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2(b), caiff gwerthoedd y mesuriadau sŵn 10 munud LA90 a gwerthoedd cyfatebol buanedd y gwynt mewn cyfnod o 10 munud, sy'n deillio o fuanedd cyfartalog safonol y gwynt ar uchder o 10 metr ar draws yr holl dyrbinau gwynt gweithredol gan ddefnyddio'r weithdrefn y manylir arni yn Nodyn Cyfarwyddyd 1 (d), eu plotio ar siart XY â lefel y sŵn ar yr echelin Y a buanedd cymedrig safonol y gwynt ar yr echelin X. Dylai cromlin "ffit orau" sgwariau lleiaf o radd y mae'r ymgynghorydd annibynnol yn tybio ei bod yn briodol (ond na all fod yn uwch na phedwaredd radd) gael ei ffitio i'r pwyntiau data a diffinio lefel sŵn y fferm wynt ar bob buanedd cyfanrifol.

**Nodyn Cyfarwyddyd 3**

(a) Lle mae allyriadau sŵn yn y lleoliad neu'r lleoliadau lle mae mesurau cydymffurfiad yn cael eu cymryd yn cynnwys neu'n debygol o gynnwys elfen donaidd, yn unol â'r protocol asesu cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn, caiff cosb donaidd ei chyfrifo a'i chymhwyso gan ddefnyddio'r weithdrefn raddio ganlynol.

(b) Ar gyfer pob cyfnod o 10 munud y penderfynwyd bod data 10 munud LA90 yn ddilys ar ei gyfer, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 2, cyflawnir asesiad tonaidd ar allyriadau sŵn yn ystod 2 funud o bob cyfnod o 10 munud. Dylai'r cyfnodau o 2 funud gael eu gwahanu gan gyfnodau o 10 munud, cyn belled â bod data anllygredig di-dor ar gael ("y weithdrefn safonol"). Lle nad oes data anllygredig ar gael, caiff y cyfnod glân anllygredig cyntaf o 2 funud sydd ar gael o'r cyfnod cyffredinol o 10 munud dan sylw ei ddewis. Caiff unrhyw gyfryw wyriad oddi wrth y weithdrefn safonol, fel y disgrifir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97, ei gofnodi.


(c) Ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud, caiff lefel y dôn uwchben neu islaw clywadwyedd ei chyfrifo trwy gymharu â'r maen prawf clywadwyedd a roddir yn Adran 2.1 ar dudalennau 104-109 ETSU-R-97.

(d) Caiff lefel y dôn uwchben clywadwyedd ei phlotio yn erbyn buanedd y gwynt ar gyfer pob un o'r samplau 2 funud. Ar gyfer samplau lle'r oedd y tonau islaw'r maen

prawf clywadwyedd neu na nodwyd unrhyw dôn, defnyddir gwerth o glywadwyedd sero.

(e) Yna, caiff llinell atchwel llinol "ffit orau" sgwariau lleiaf ei chyflawni i bennu'r lefel tôn gyfartalog uwchben clywadwyedd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol yn deillio o werth y llinell "ffit orau" ar bob buanedd gwynt cyfanrifol. Os nad oes unrhyw duedd amlwg o ran buanedd y gwynt, yna defnyddir cyfanrif rhifyddol syml. Caiff y broses hon ei hailadrodd ar gyfer pob buanedd gwynt cyfanrifol y mae asesiad o'r lefelau cyffredinol ar ei gyfer yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(f) Mae'r gosb donaidd yn deillio o'r maint uwchben clywadwyedd y dôn, yn ôl y ffigur isod.




**Nodyn Cyfarwyddyd 4**

(a) Os caiff cosb donaidd ei chymhwyso'n unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3, lefel sŵn y tyrbinau ar bob buanedd gwynt yw swm rhifyddol y lefel sŵn fesuredig, fel y pennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifir yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, a'r gosb ar gyfer sŵn tonaidd a geir yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd 3 ar bob buanedd gwynt cyfanrifol o fewn yn ystod a bennwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei brotocol ysgrifenedig o dan baragraff (d) o'r amod sŵn.

(b) Os na chaiff cosb donaidd ei chymhwyso, yna mae lefel sŵn y tyrbin ar bob buanedd gwynt yn gyfwerth â'r lefel sŵn fesuredig a bennwyd o'r gromlin ffit orau a ddisgrifiwyd yn Nodyn Cyfarwyddyd 2.

(c) Os bydd y lefel uwchlaw'r cyfyngiad(au) a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i'r amodau sŵn neu'r cyfyngiadau sŵn ar gyfer annedd achwynydd a gymeradwywyd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, bydd yr ymgynghorydd annibynnol yn cynnal asesiad pellach o'r lefel i gywiro ar gyfer sŵn cefndir er mwyn i'r lefel ymwneud ag allyriadau sŵn y tyrbinau gwynt yn unig.

(d) Bydd y Cwmni'n sicrhau y caiff yr holl dyrbinau gwynt yn y datblygiad eu diffodd am y cyfnod sydd ei angen ar yr ymgynghorydd annibynnol i gynnal asesiad pellach. Cynhelir yr asesiad pellach yn unol â'r camau canlynol:

(e) Ailadrodd y camau yn Nodyn Cyfarwyddyd 2, gan ddiffodd y fferm wynt, a phennu lefel y sŵn cefndir (L3) ar bob buanedd gwynt cyfanrifol yn yr ystod y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ei gais ysgrifenedig o dan baragraff (c) a'r protocol cymeradwy o dan baragraff (d) yr amod sŵn.

(f) Yna, cyfrifir sŵn y fferm wynt (L1) ar y buanedd hwn fel a ganlyn, lle L2 yw'r lefel fesuredig pan fo'r tyrbinau ar waith, ond heb ychwanegu unrhyw gosb donaidd:

(g) Caiff y lefel ei hailgyfrifo trwy adio'r gosb donaidd (os caiff ei chymhwyso'n unol â Nodyn 3) at sŵn deilliedig y fferm wynt L1 ar y buanedd gwynt cyfanrifol hwnnw yn rhifyddol.

(h) Os bydd y lefel ar ôl ei haddasu ar gyfer cyfraniad sŵn cefndir a'i haddasu ar gyfer cosb donaidd (os yw'n ofynnol yn unol â Nodyn 3 uchod) ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn gyfwerth â'r gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu

hatodi i’r amodau neu’n is, neu’n gyfwerth â’r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn neu’n is, yna nid os angen unrhyw gamau pellach. Os bydd y lefel ar unrhyw fuanedd gwynt cyfanrifol yn rhagori ar y gwerthoedd a amlinellir yn y Tablau sydd wedi eu hatodi i’r amodau neu’r cyfyngiadau sŵn a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer annedd achwynnydd yn unol â pharagraff (e) yr amod sŵn, yna bydd y datblygiad yn methu cydymffurfio â’r amodau.

DIWEDD YR AMODAU

**Atodiad F**
**Cynllun Ailbweru Llandinam – Rhestr Amodau**

**Diffiniadau (sy’n berthnasol i Ganiatâd Adran 37 a’r Caniatâd Cynllunio Tybiedig)**

| | |
|---|---|
| **"Cais"** | Mae hyn yn golygu’r cais ar gyfer caniatâd yn unol ag Adran 37 Deddf Trydan 1989 a |

| | |
|---|---|
| | chaniatâd cynllunio tybiedig yn unol ag Adran 90(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a wnaed gan SP Manweb PLC ac a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 2 Rhagfyr 2009, fel y'i diwygiwyd ym mis Ionawr 2011; |
| **"comisiynu"** | Mae hyn yn golygu trawsyrru trydan trwy'r datblygiad at ddibenion dosbarthu, heblaw lle mae'r cyfryw drawsyrru yn ymwneud â phrofi'r datblygiad ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, a chaiff "ei gomisiynu" ei ddehongli'n unol â hynny; |
| **"cwblhau"** | Mae hyn yn golygu:<br>(1) mewn perthynas â'r gwaith adeiladu, cwblhau'r holl waith adeiladu yn cynnwys adeiladu a gosod y datblygiad (gan gynnwys adfer unrhyw gyfadeiladau, llwybrau ac aflonyddwch ar y ddaear) ond heb gynnwys comisiynu;<br><br>(2) mewn perthynas â datgomisiynu, adfer y llwybr ar ôl datgomisiynu'r datblygiad; |
| **"datgomisiynu"** | Mae hyn yn golygu dod â thrawsyriad trydan trwy'r datblygiad i ben am y tro olaf a thynnu'r datblygiad, a chaiff "wedi ei ddatgomisiynu" ei ddehongli'n unol â hynny; |
| **"datblygiad"** | Mae hyn yn golygu:<br>(1) gan gyfeirio at yr amodau a osodir mewn perthynas â'r caniatâd a roddwyd o dan Adran 37 Deddf Trydan 1989, yr holl waith i adeiladu a gosod, a chadw'r gosodiad; a<br><br>(2) chan gyfeirio at yr amodau a osodir mewn perthynas â'r caniatâd cynllunio tybiedig a roddwyd yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan Adran 90(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yr holl waith i adeiladu (gan gynnwys gwaith |

| | |
|---|---|
| | clirio'r safle a chwympo a thocio coed a gwrychoedd), gosod, cadw'r gosodiad a datgomisiynu<br><br>llinell 132kv uwchben yn darparu cylched sengl 3-cham â chapasiti graddedig o 124MVA dros tua 35 cilomedr o isbwerdy arfaethedig newydd ym Mryn Dadlau, Llandinam, i'r isbwerdy presennol yn y Trallwng o fewn coridor 100m o led, fel y dangosir ar luniad SP4068602 (Diwygiad 1.0), fel y'i diwygiwyd gan ddarluniad SP4071503 (Diwygiad 3.0), fel y manylir arno yn y Cais; |
| **"datgysylltiad"** | Mae hyn yn golygu datgysylltiad trydanol parhaol yr holl offer neu unrhyw offer a ddarparwyd ac a osodwyd gan weithredwr y rhwydwaith dosbarthu perthnasol at ddibenion darparu cysylltiad, a chaiff "datgysylltu" ei ddehongli'n unol â hynny |
| **"Ysgrifennydd Gwladol"** | Mae hyn yn golygu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd neu unrhyw gyfryw weinidog arall yn Llywodraeth Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am Adran 37 Deddf Trydan 1989; |
| **"Caniatâd Adran 37"** | Mae hyn yn golygu caniatâd a roddwyd yn unol ag Adran 37 Deddf Trydan 1989 mewn perthynas â'r datblygiad; |
| **"Hysbysiad Terfynu"** | Mae hyn yn golygu hysbysiad gan gwsmer perthnasol i weithredwr y rhwydwaith dosbarthu ar hyn o bryd yn gweithredu'r datblygiad yn rhoi'r gorau i drawsyrru trydan trwy'r datblygiad o ymgymeriad y cwsmer perthnasol. Yn y diffiniad hwn, mae'r term "cwsmer perthnasol" yn golygu cwsmer y mae ei (h)ymgymeriad wedi ei gysylltiad â'r datblygiad at ddibenion trawsyrru trydan a gynhyrchir o ymgymeriad y cwsmer trwy'r datblygiad; |
| **"Datganiad Amgylcheddol** | Mae hyn yn golygu'r datganiad |

| | |
|---|---|
| **Diweddaredig"** | amgylcheddol a baratowyd yn unol â Rheoliadau Gwaith Trydan (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2000 i asesu effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y datblygiad, a gyflwynwyd gan SP Manweb PLC i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 29 Hydref 2013. |

## RHAN 1 – CANIATÂD ADRAN 37

1. Yn unol ag Adran 37(3) Deddf Trydan 1989, mae'r Ysgrifennydd Gwladol trwy hyn yn caniatáu'r datblygiad.

2. Bydd y datblygiad yn cynnwys:

   (i) Cynllun Llinell Uwchben Cryf â Ffurfiant Gwastad (OHL-03-132); a

   (ii) Chylchedau tri cham (yn cynnwys un dargludydd fesul cam) mewn trefn lorweddol â gwifren ddaearu grog.

3. Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd hwn, neu unrhyw gyfryw gyfnod hwy y gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei gyfarwyddo'n ysgrifenedig wedi hyn.

4. Yn unol ag Adran 37(3)(b) Deddf Trydan 1989, gall yr Ysgrifennydd Gwladol amrywio neu ddiddymu'r caniatâd hwn ar unrhyw adeg o'r dyddiad hwn, ac os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn diddymu'r caniatâd hwn, caiff y datblygiad ei ddatgomisiynu o fewn y cyfryw gyfnod a gyfarwyddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

## RHAN 2 – CANIATÂD CYNLLUNIO TYBIEDIG

Yn unol ag Adran 90(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cyfarwyddo trwy hyn yr ystyrir y rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r datblygiad yn destun yr amodau canlynol:

1. Caiff y datblygiad y mae'r caniatâd hwn yn ymwneud ag ef ei ddechrau heb fod yn hwyrach na diwedd 5 mlynedd yn dechrau ar y dyddiad hwn.

2. Cyn pen 5 diwrnod gwaith o ddigwydd, rhoddir hysbysiad ysgrifenedig o bob un o'r digwyddiadau canlynol i'r awdurdod cynllunio lleol:

   (i) cwblhau'r datblygiad;

   (ii) cwblhau'r gwaith adeiladu;

   (iii) comisiynu'r datblygiad;

   (iv) derbyn Hysbysiad Terfynu mewn perthynas â'r datblygiad;

(v) darfyddiad trawsyrru trydan trwy'r datblygiad o unrhyw fferm wynt a ganiatawyd oddi mewn i Ardal Archwilio Strategol C

(vi) cwblhau datgomisiynu'r datblygiad.

3. Bydd y datblygiad yn cynnwys:

(i) Cynllun Llinell Uwchben Cryf â Ffurfiant Gwastad (OHL-03-132); a

(ii) Chylchedau tri cham (yn cynnwys un dargludydd fesul cam) mewn trefn lorweddol â gwifren ddaearu grog.

4. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff manylion am olwg allanol y gwaith dur sy'n cynnal yr ynysyddion a thrawsrwymiad y polion eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y datblygiad ei weithredu'n unol â'r manylion cymeradwy.

5. Ni fydd unrhyw waith datblygu'r dechrau nes caiff Cynllun Rheoli Amgylchedd, yn unol â'r Datganiad Amgylcheddol Cyfredol, ar gyfer camau clirio'r safle ac adeiladu'r datblygiad, ei ddatblygu a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y Cynllun Rheoli Amgylcheddol yn cynnwys:

(i) arolygon diweddaredig i adolygu presenoldeb unrhyw rywogaethau Ewropeaidd neu'r DU a warchodir gan statud, gan gynnwys dyfrgwn, ystlumod, moch daear, pathewod, madfallod dŵr cribog, tylluanod gwynion, barcutiaid coch a llygod dŵr, a mesurau osgoi a lliniaru priodol i sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth. Cytunir ar y fethodoleg a'r ardaloedd ar gyfer y cyfryw adolygiadau yn ysgrifenedig â'r awdurdod cynllunio lleol;

(ii) datganiadau dull adeiladu ar gyfer yr agweddau penodol hynny a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol drafft, gan gynnwys rhywogaethau (gylfinirod; ystlumod; llygod dŵr; pathewod; madfallod dŵr cribog; ymlusgiaid; tylluanod gwynion; ac amffibiaid), cynefinoedd a safleoedd dynodedig;

(iii) arolygiad diweddaredig i adolygu adar a gweithredu Cynllun Gwarchod Adar a fydd y cynnwys mesurau lliniaru ar gyfer adar;

(iv) cynllun ar gyfer monitro ystlumod cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith adeiladu, y bydd y cyfryw gynllun yn cynnwys defnyddio canfodyddion yn ystod y gwanwyn, yr haf a'r hydref a monitro nodweddion gan gynnwys pob gwrych yr effeithir arno o fewn 5 cilomedr o SoDdGA Ystlumod Tre'r-llai;

(v) manylion ar gyfer gwarchod cynefinoedd ecolegol sensitif (fel yr amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol diweddaredig) a chynllun i ddangos eu lleoliad;

(vi) defnyddio ffensys gwahardd, rhwystrau amddiffynnol ac arwyddion rhybuddio;

(vii) cynllun ar gyfer clirio coed, gwrychoedd a llystyfiant a mesurau i amddiffyn coed i'w cadw yn ystod y datblygiad i gydymffurfio â safonau BS5837 (2012) ar gyfer gwarchod coed;

(viii) arolwg diweddaredig o goed a gwrychoedd ar hyd y llwybr adeiladu ar gyfer y datblygiad ac, yn dilyn pob arolwg:

(b) manylion am ailosod gwrychoedd dros dro, lle mae eu hangen ar gyfer mesurau lliniaru i bathewod ac ystlumod;

(c) manylion am drawsleoli gwrychoedd; ac

(d) rhaglen ganlynol ar gyfer ailosod coed, gwrychoedd a phlanhigion lliniaru eraill, gan gynnwys niferoedd, rhywogaethau, tarddiad a manyleb sbesimenau a dulliau plannu, gwarchod, sefydlu a rhaglen cynnal a chadw;

(ix) cynllun archwilio a lliniaru archaeolegol, a rhaglen weithredu gysylltiedig, gan gynnwys mesurau ataliol, arolygon mesuredig ac arolwg geoffisegol sy'n darparu ar gyfer arfarnu a chloddio archaeolegol, fel sy'n ofynnol ar sail canlyniadau arolygon;

(x) cynllun rheoli risg llifogydd gan gynnwys:

(e) dyluniad, defnydd a lleoliad cyfadeiladau storio, ardaloedd storio polion a llwybrau mynediad (i fynd i'r afael â thrawsgludiad llif llifogydd a storio llifddwr;

(f) manylion am bolion a ddarperir â deunyddiau i atal erydu;

(g) manylion am bellter clirio llinyn o 6.7m i'w gynnal uwchben lefel llifogydd; a

(h) rhaglen weithredu;

(xi) manylion am yr unigolyn/unigolion cyfrifol, y llinellau cyfathrebu a'r trefniadau adrodd;

(xii) penodi clerc gwaith ecolegol ar gyfer camau clirio'r safle, paratoi'r safle ac adeiladu, ynghyd â disgrifiad o'i rôl a'i gyfrifoldebau/chyfrifoldebau; a

(xiii) manylion am bryd a sut caiff y Cynllun Rheoli Amgylcheddol ei adolygu a'i fonitro trwy gydol y cyfnod adeiladu.

Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol cymeradwy.

6. Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes caiff Datganiad Dull Adeiladu manwl ei ddatblygu, yn unol â'r Datganiad Amgylcheddol Diweddaredig, ar gyfer cyfnod adeiladu'r datblygiad, a'i gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol, a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y Datganiad Dull Adeiladu yn cynnwys:

(i) trefniadau contractwyr, monitro a chynigion wrth gefn;

(ii) y camau a'r gweithdrefnau a roddir ar waith i leihau creu sŵn, dirgryniad, llwch a gwaredu gwastraff yn deillio o gyfnodau paratoi'r safle, sylfeini ac adeiladu'r datblygiad, gan gynnwys manylion am yr oriau gwaith, a'u heffaith. Bydd yn cynnwys manylion am fesurau a ddefnyddir i atal llaid, dŵr a malurion eraill rhag mynd ar y briffordd gyhoeddus. Hefyd, bydd yn cynnwys manylion am unrhyw gyfadeilad dros dro ar y safle a thomenni storio pridd sydd eu hangen wrth adeiladu'r datblygiad;

(iii) lleoliad cyfadeiladau'r gwaith neu fannau dadlwytho;

(iv) storio a rheoli gwastraff a phlaladdwyr;

(v) manylion am gynllun ffyrdd ar y safle a rheoli traffig adeiladu (Cynllun Rheoli Traffig), gan gynnwys datganiadau dull manwl ar gyfer adeiladu pob llwybr, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â dŵr ffo llawn silt o unrhyw waith, ffyrdd mynediad dros dro a pharhaol, storio pridd a gweithrediadau peirianegol eraill;

(vi) mesurau a gymerir i warchod hawliau, buddiannau a diogelwch defnyddwyr hawliau tramwy cyhoeddus sy'n croesi'r safle wrth adeiladu'r datblygiad;

(vii) amlygu ardaloedd gwaith polion, cyfadeiladau'r safle a llwybrau mynediad i'r ardaloedd a'r cyfadeiladau hynny â ffiniau cynefinoedd ecolegol sensitif (yr amlygir y cyfryw gynefinoedd o dan amod 5) er mwyn sicrhau bod gweithwyr adeiladu'n gweithredu oddi mewn i'r ardaloedd gwaith diffiniedig;

(viii) mesurau a gymerir i osgoi effaith niweidiol ar gyrsiau dŵr, gan gynnwys ACA Afon Gwy;

(ix) mesurau i osgoi gadael cloddiadau dwfn ar agor gyda'r nos;

(x) mesurau i osgoi goleuadau artiffisial yn effeithio ar gynefinoedd ecolegol sensitif (yr amlygir y cyfryw gynefinoedd o dan amod 5);

(xi) manylion, gan gynnwys cyfaint a ffynhonnell, unrhyw ddeunydd a fewnforir i'r safle ar gyfer adeiladu, gan gynnwys ôl-lenwi ffosydd neu adeiladu ffyrdd mynediad dros dro;

(xii) manylion am warchod adnoddau uwchbridd;

(xiii) manylion am adfer priddoedd a chynefinoedd wedi i'r gwaith ddod i ben;

(xiv) sgyrsiau ymwybyddiaeth i gontractwyr; a

(xv) rhaglen adeiladu ar gyfer y datblygiad.

Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r Datganiad Dull Adeiladu cymeradwy.

7. Ni chaiff y dargludyddion eu llinynnu nes caiff strategaeth monitro a lliniaru taro adar ar gyfer croesfannau cyrsiau dŵr arwyddocaol, fel yr amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol Diweddaredig, ei chyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i chymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y strategaeth monitro a lliniaru taro adar yn cynnwys:

(i) darparu allwyryddion adar a/neu bryfed tân i'w gosod ar y llinellau i'r gogledd o afon Camlad yn unol ag arolwg adar gaeafu'r Datganiad Amgylcheddol diweddaredig;

(ii) manylion am ddyfeisiau gwrthglwydo; a

(iii) manylion am sut y caiff cynlluniau wrth gefn a/neu gamau adferol eu hamlygu, eu cytuno â'r awdurdod cynllunio lleol, eu rhoi ar waith a'u cynnal, yn ôl yr angen, ar hyd oes y datblygiad.

Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r strategaeth monitro a lliniaru taro adar cymeradwy.

8. Cyn pen tri mis o ddechrau'r datblygiad, caiff strategaeth gwella cynefinoedd, gan gynnwys amserlen ar gyfer ei rhoi ar waith, ei chyflwyno i'w chymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol. Bydd y strategaeth gwella cynefinoedd yn cynnwys manylion am blannu gwrychoedd a choed, fel yr amlinellir yn y Datganiad Amgylcheddol Diweddaredig sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a amlinellir yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol sy'n ofynnol yn ôl amod 5. Caiff y strategaeth gwella cynefinoedd ei gweithredu fel y'i cymeradwyir.

9. Caiff coed a gwrychoedd a phlanhigion lliniaru eraill, a gymeradwyir yn unol ag amodau 5 ac 8, eu hailosod yn ystod y tymor plannu cyntaf sydd ar gael ar ôl gorffen adeiladu'r datblygiad. Caiff unrhyw sbesimenau sy'n marw, sy'n cael eu difrodi'n ddifrifol neu a ddaw'n afiach cyn pen pum mlynedd o'u plannu eu disodli gan goed neu lwyni o faint a rhywogaeth debyg i'r rhai yr oedd yn ofynnol eu plannu'n wreiddiol.

10. Caiff methiannau plannu eu hamlygu'n flynyddol am gyfnod o bum mlynedd, yn dechrau ddwy flynedd union ar ôl eu plannu, a chaiff rhaglen a chynllun ailstocio ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig yn y mis Medi cyn ailstocio yn y tymor plannu dilynol.

11. Caiff yr holl gyfarpar dros dro ei ddatgymalu a'i dynnu cyn pen chwe mis o ddyddiad comisiynu'r datblygiad.


12. Caiff yr holl dir y mae gosod y polion pren yn amharu arno ei adfer cyn pen chwe mis ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

13. Cyn pen chwe mis o dderbyn Hysbysiad Terfynu mewn perthynas â'r datblygiad, caiff cynllun ar gyfer datgomisiynu ac adfer ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol i'w gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun datgomisiynu ac adfer cymeradwy yn dechrau ar ôl i gyfnod o ddeuddeg mis, pan fu darfyddiad parhaus o drawsyrru trydan trwy'r datblygiad, ddod i ben neu ar ddyddiad cymeradwyo'r cynllun dan sylw, pa un bynnag yw'r


hwyraf. Caiff y cynllun datgomisiynu ac adfer cymeradwy ei gwblhau heb fod yn hwyrach nag 16 mis ar ôl ei ddechrau.

14. Ni chyflawnir unrhyw waith na datblygu nes caiff cynllun o leoliadau polion ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Cyflawnir y datblygiad yn unol â'r cynllun cymeradwy.

**<u>CYNLLUN A</u> (y cyfeirir ato yn niffiniad "datblygiad", sy'n berthnasol i Ganiatâd Adran 37 a'r Caniatâd Cynllunio Tybiedig)**




**<u>CYNLLUN B</u> (y cyfeirir ato yn amod 2(iv) ac 13(A))**




DIWEDD YR AMODAU